Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Adfer yr hyn a gollwyd dan yr eira: T. James Jones a Dylan Marlais Thomas

Jones, Non Mererid

Award date:
2020

Awarding institution:
Bangor University

Link to publication

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 01. May. 2024

ADFER YR HYN A GOLLWYD DAN YR EIRA: T. JAMES JONES A DYLAN MARLAIS THOMAS

TRAETHAWD PHD

NON MERERID JONES

YSGOL Y GYMRAEG AC ASTUDIAETHAU CELTAIDD

PRIFYSGOL BANGOR

GORFFENNAF 2020

DATGANIAD

Yr wyf drwy hyn yn datgan mai canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd oni bai ei fod, fel y cytunwyd gan y Brifysgol, am gymwysterau deuol cymeradwy.

I hereby declare that this thesis is the results of my own investigations, except where otherwise stated. All other sources are acknowledged by bibliographic references. This work has not previously been accepted in substance for any degree and is not being concurrently submitted in candidature for any degree unless, as agreed by the University, for approved dual awards.

CYNNWYS

Diolchiadau 4

Crynodeb 5

Rhagymadrodd 6

Pennod 1: Dylanwad 13

Pennod 2: O *Milk Wood* i'r Wenallt 49

Pennod 3: Cymreigio Llaregyb 84

Pennod 4: Yr Ymateb Creadigol i *Dan y Wenallt* 123

Pennod 5: Cyfieithu Barddoniaeth Dylan Thomas 162

Pennod 6: Cyfieithu Rhyddiaith Dylan Thomas 223

Pennod 7: *Dylan yn Fern Hill* 252

Pennod 8: Dylan Marlais Thomas 282

Llyfryddiaeth 299

Atodiad I: Sgript anghyhoeddedig, 'Dan Gesail Bryn Llaethog', gan Eigra Lewis Roberts 316

Atodiad II: Teipysgrif anghyhoeddedig, 'Un Porchell'/*Dylan yn Fern Hill*, gan T. James Jones 373

Diolchiadau

Dechreuaf drwy gydnabod yn ddiolchgar na fyddai'r ymchwil wedi bod yn bosibl oni bai am y cyllid a dderbyniais gan yr AHRC. Carwn ddiolch iddynt hefyd am y grant ymchwil a'm galluogodd i deithio i Saint Louis, Missouri i gyfweld â'r bardd, Jon Dressel. Diolchaf hefyd i Jon Dressel a'i deulu am y croeso a'u cymwynasgarwch.

Yr wyf yn dra diolchgar i staff arbennig Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Bangor am eu hanogaeth a'u cefnogaeth gyson, ac i'm cyd-fyfyrwyr ymchwil am eu cyfeillgarwch ar hyd y daith. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar i'r Athro Christine James am ei chyngor a'i chyfarwyddyd ar ddechrau'r ymchwil. Yn bennaf oll, hoffwn ddiolch o waelod calon i'r Athro Jason Walford Davies am gyfarwyddo'r prosiect hwn mor drylwyr a gofalus. Y mae'n amhosibl cyfleu mewn un frawddeg mor ddiolchgar yr wyf iddo am ei arweiniad, ei amynedd a'i gefnogaeth ddiflino dros y blynyddoedd diwethaf. Y mae fy nyled yn enfawr iddo.

Hoffwn ddiolch yn fawr hefyd i Eigra Lewis Roberts am y croeso cynnes, y sgyrsiau diddorol a'i pharodrwydd i'm cynorthwyo â'r ymchwil. Diolch yn arbennig iddi am y cyfle gwerthfawr i ddarllen ei chyfieithiad o *Under Milk Wood* – 'Dan Gesail Bryn Llaethog' – a'i chaniatâd i'w gynnwys fel atodiad i'r traethawd.

Yn bennaf oll, carwn ddiolch o waelod calon i T. James Jones. Diolchaf yn ddiffuant iddo am ei gefnogaeth a'i gymorth gwerthfawr, a'i barodrwydd i drafod ei waith â mi, boed dros baned neu drwy e-bost. Hoffwn ddiolch iddo ef a'i wraig, Manon Rhys, am eu croeso, eu caredigrwydd a'u diddordeb yn yr ymchwil hwn. Byddaf yn trysori'r trafodaethau a'r sgyrsiau difyr a gawsom. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar iawn iddo am ei ganiatâd i gynnwys ei ddrama radio anghyhoeddig, *Dylan yn Fern Hill*, fel atodiad i'r traethawd.

Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch o galon i Mam, Dad, Llio, Leusa ac Alun am eu cariad a'u cefnogaeth arbennig. Y mae fy nyled i'm rhieni yn ddifesur ac y mae fy niolch iddynt yn ddi-ben-draw.

Crynodeb

Eir i'r afael yn y thesis hwn â gwaith y bardd a'r llenor T. James Jones, neu Jim Parc Nest (1934–) fel y'i hadwaenir hefyd, gan ganolbwyntio ar un agwedd bwysig ar ei yrfa lenyddol doreithiog, sef ei ymwneud â Dylan Thomas (1914–1953). Yn y bennod gyntaf, byddir yn ystyried dylanwad Thomas ar yrfa gynnar Jones, gan ddangos mai ei ddiddordeb yng ngwaith y bardd hwn a'i hysbrydolodd i ddechrau barddoni, i gystadlu mewn eisteddfodau ac i drosi drama radio enwog Thomas – *Under Milk Wood* – i'r Gymraeg. *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt* yw pwnc yr ail a'r drydedd bennod. Byddir yn yr ail bennod yn trafod yr ymateb beirniadol i *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt*, gan roi sylw arbennig i'r drafodaeth hirhoedlog (a checrus ar adegau) a geir yng Nghymru ar Gymreictod Dylan Thomas a dylanwad y Gymru Gymraeg ar ei waith. Trafodir yn y drydedd bennod y broses o drosi *Under Milk Wood* i'r Gymraeg. Archwilir yn y bennod hon resymau T. James Jones dros gyfieithu'r ddrama, sef 'adfer' Cymreictod Llaregyb, a'r dulliau cyfieithu a ddefnyddir ganddo i gyflawni ei nod o Gymreigio'r testun. Byddir yn y bedwaredd bennod yn trafod yr ymateb creadigol i *Dan y Wenallt*, sy'n cynnwys cyfieithiad 'gogleddol', anghyhoeddedig Eigra Lewis Roberts o *Under Milk Wood*. Ceir yn y bumed bennod astudiaeth destunol drylwyr ar fersiynau Cymraeg T. James Jones o gerddi Dylan Thomas: 'Fern Hill', 'After the funeral', 'Do not go gentle into that good night', 'And death shall have no dominion', 'Once it was the colour of saying' a 'The hunchback in the park'. Ystyrir pam y dewisodd Jones drosi'r cerddi hyn, cyn craffu'n fanwl ar y broses o'u cyfieithu. Rhoddir sylw i'w fersiynau Cymraeg o ryddiaith Dylan Thomas yn y chweched bennod: 'Quite Early One Morning', 'A Visit to Grandpa's' a 'Return Journey'. Fel yn y bumed bennod, byddir yn ystyried pam y dewisodd drosi'r union destunau hyn i'r Gymraeg, gan ganolbwyntio'n bennaf ar agweddau thematig a chysyniadol. Ymdrinnir yn y seithfed bennod â phenllanw ymgyrch T. James Jones i 'adfer' Cymreictod Dylan Thomas, sef ei ddrama radio anghyhoeddedig a ddarlledwyd ar BBC Radio Cymru yn 2014: *Dylan yn Fern Hill*. Yn dilyn y drafodaeth ar y ddrama yn y seithfed bennod, dangosir yn y bennod olaf fod yr ymgyrch i adfer Cymreictod Llaregyb yn y 1960au wedi datblygu, yn ystod cwrs gyrfa doreithiog T. James Jones, yn ymgyrch i amlygu ac adfer Cymreictod Dylan Thomas fel bardd a llenor. At hyn, byddir yn cloi'r bennod a'r thesis drwy drafod ffotograff tra diddorol o 'Dylan Marlais' – delwedd sy'n crisialu gweledigaeth T. James Jones a'i holl ymwneud â'r bardd hwn.

Rhagymadrodd

Ceir yn y thesis hwn yr astudiaeth estynedig gyntaf ar waith T. James Jones (Jim Parc Nest). Ganed T. James Jones yn 1934, ac fe'i magwyd ar fferm Parc Nest ger Castellnewydd Emlyn. Enillodd radd mewn Athroniaeth yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth a mynd rhagddo i hyfforddi fel gweinidog yn y Coleg Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin. Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr ym Mynydd-bach, Abertawe a'r Priordy yng Nghaerfyrddin yn ystod y 1960au. Yn 1976, cafodd ei benodi yn ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Bu'n gweithio yn y Coleg am saith mlynedd, 'yn bennaf, fel hyfforddwr y myfyrwyr drama,'[1] ac fel y dywed Jones yn ei lêngofiant: 'Arweiniodd hyn at ddwysáu fy niddordeb cyffredinol ym myd y ddrama, fel awdur a chyfarwyddwr.'[2] Yn 1979, daeth i'r brig yng nghystadleuaeth y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol â'i ymateb i'r testun 'Serch' neu 'Siom' – 'Dilyniant Dygwyl Dewi'– ond ataliwyd y wobr pan sylweddolwyd mai cywaith rhwng dau fardd, T. James Jones a Jon Dressel, oedd cerddi 'Ianws'. Yn 1982, symudodd Jones i Gaerdydd a dechreuodd weithio fel golygydd sgriptiau *Pobol y Cwm* yn adran sgriptio BBC Cymru. Enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1986 ac 1988, ynghyd â'r Gadair yn 2007 a 2019. Bu hefyd yn Archdderwydd rhwng 2010 a 2013.

Y mae cryn drafod wedi bod ynghylch arwyddocâd *Cerddi Ianws Poems – cause célèbre* Eisteddfod Genedlaethol 1979 ac 'un o'r ymatebion barddol grymusaf a gafwyd i fater y Refferendwm'[3] yn ôl Peredur Lynch – a'r berthynas greadigol hirhoedlog rhwng T. James Jones a Jon Dressel, y bardd o Missouri. Ond wrth edrych yn fanwl ar yrfa lenyddol doreithiog Jones, buan y sylweddolir mai un o'i gyfraniadau pwysicaf yw ei drosiad Cymraeg – trosiadau, yn wir – o ddrama enwog Dylan Thomas (1914–1953), *Under Milk Wood*, sef *Dan y Wenallt*. Byddir yn canolbwyntio felly yn y thesis hwn ar ei ymwneud – dros gyfnod o 60 mlynedd a mwy – â Dylan Thomas, gan fynd i'r afael â chorff o waith tra nodedig nad yw wedi cael y sylw beirniadol haeddiannol hyd yma.

Yn ei ysgrif bwysig 'Dylanwadau', cyflwyna M. Wynn Thomas drosolwg tra diddorol o ymateb beirniadol a chreadigol y Cymry Cymraeg i Dylan Thomas. Er mai 'dim ond tamaid o sgwrs i aros pryd'[4] yw'r ysgrif hon, chwedl Thomas, y mae'n rhoi digon i gnoi cil arno. Ceir

[1] T. James Jones, *Jim Parc Nest* (Barddas, 2014), t. 97.
[2] Ibid.
[3] Peredur Lynch, 'Refferendwm 1979, *Cerddi Ianws* a Thopos y "Y Cymry Taeog"', yn Gerwyn Wiliams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda, 2011), t. 84.
[4] M. Wynn Thomas, 'Dylanwadau: Dylan Thomas a Llenorion Cymraeg', *Taliesin*, 112 (Haf 2001), t. 14.

yn yr ysgrif gipolwg dadlennol ar ymateb Cymry Cymraeg i Dylan Thomas – agwedd ar waith y bardd hwn na chawsai cyn hynny y sylw teilwng. Fel y dywed M. Wynn Thomas:

> er bod llawer o drafod wedi bod, ers i Dylan Thomas farw, ar yr hyn mae ei waith yn ei olygu, ychydig iawn o sylw a roddwyd i'r hyn y mae Dylan Thomas yn ei olygu i ni'r Cymry. Dydyn ni ddim wedi dechrau holi beth a olygwn ni wrth 'Dylan Thomas'.[5]

Perthnasol yw cyfeirio'n fyr yn y cyswllt hwn at gyfrol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020, *New Theoretical Perspectives on Dylan Thomas: 'A writer of words, and nothing else'?*[6] Er y teflir goleuni newydd yn y gyfrol newydd hon ar amryw agweddau ar waith y bardd hwn, ni cheir trafodaeth ynddi ar ymateb y Cymry Cymraeg i Dylan Thomas. Gobeithir y bydd y thesis hwn felly yn gyfraniad newydd i'r drafodaeth feirniadol ar waith Thomas a'i berthynas â Chymru, y Gymraeg a Chymreictod.

Yn ôl M. Wynn Thomas, yr unig berson sydd wedi cyffwrdd ag ymateb y Cymry i Dylan Thomas yw James A. Davies yn ei gyfrol *A Reference Companion to Dylan Thomas*, lle ceir '[p]ennod werthfawr am ymateb y Cymry llengar i waith Dylan Thomas, o'r tridegau hyd at ein cyfnod ni.'[7] Dywed Thomas ymhellach fod Davies yn

> nodi amrywiaeth yr ymateb a geir gan y Cymry di-Gymraeg – yr elyniaeth, ar y cychwyn, i farddoniaeth 'dywyll' nad oedd modd ei dirnad, ond y cynnydd cyson yn y gwerthfawrogiad ar ôl hynny, yn arbennig ar ôl i rai o feirniaid llên America arwain y ffordd. Ac mae Jim Davies yn nodi bod Cymreigrwydd Dylan Thomas yn bwnc llosg ar hyd yr amser.[8]

Ac eithrio Aneirin Talfan Davies a Saunders Lewis, ymateb beirniaid a llenorion Eingl-Gymreig a drafodir yn bennaf gan James A. Davies yn y gyfrol hon: Glyn Jones, Raymond Garlick, John Ackerman, Tony Conran a Roland Mathias. Yng ngeiriau M. Wynn Thomas: 'mae Jim Davies yn nodi, ac yn parchu yr amrywiaeth barn a geir ymhlith y Cymry di-Gymraeg ynghylch "Cymreigrwydd" Dylan Thomas. Ond beth am farn y Cymry Cymraeg?'[9] Â Thomas rhagddo yn ei ysgrif i grybwyll ymateb beirniaid a llenorion Cymraeg megis Saunders Lewis, Aneirin Talfan Davies, Pennar Davies, Marcel Williams, Euros Bowen, L. Haydn Lewis,

---

[5] Ibid.
[6] Kieron Smith a Rhian Barfoot (goln), *New Theoretical Perspectives on Dylan Thomas: 'A writer of words and nothing else?'* (Cardiff, 2020).
[7] Thomas, 'Dylanwadau', t. 14. Gweler pennod James A. Davies, 'Dylan Thomas in Wales', yn James A. Davies, *A Reference Companion to Dylan Thomas* (Westport & London, 1998), tt. 262–90. Perthnasol hefyd yn y cyd-destun, er cymhariaeth, yw'r penodau dilynol gan Davies, 'Dylan Thomas in England', tt. 291–315, a 'Dylan Thomas in North America', tt. 316–36.
[8] Thomas, 'Dylanwadau', t. 14.
[9] Ibid.

Rhydwen Williams a T. James Jones i Dylan Thomas. Wrth drafod *Dan y Wenallt*, '[c]yfieithiad gorchestol' T. James Jones o *Under Milk Wood*, dywed Thomas fod cyfieithu'r ddrama hon

> wedi rhoi rhyw olwg newydd iddo [T. James Jones] ar Dylan Thomas. Oherwydd flwyddyn neu ddwy'n unig cyn iddo gychwyn ar y gwaith, roedd wedi cyhoeddi cerdd wahanol iawn er cof am Dylan mewn casgliad o gerddi coffaol a gyhoeddwyd yn America.
>
> > I tarry in this cemetery of *hiraeth*
> > not because he knew and loved his mother-tongue
> > nor because he sang a selfless psalm in Salem.
> > He sought his bible in an English pub in English Laugharne
> > playing a waiting game with words and gods.
>
> Ond drwy gyfrwng *Dan y Wenallt* fe gafodd Jim Jones olwg wahanol ar Dylan, ac arweiniodd hynny, maes o law, at gywaith megis *Cerddi Ianws*, lle y gosodir y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg, ac at y cartŵn o *Dan y Wenallt* a ddarlledwyd ar S4C yn 1992.[10]

Gobeithir dangos yn y thesis hwn fod Dylan Thomas wedi bod yn ddylanwad ffurfiannol, ysgogol, arweiniol ar T. James Jones, a hynny ar hyd ei yrfa hir.

Byddir yn y bennod agoriadol yn olrhain datblygiad cynnar T. James Jones fel bardd. Eir i'r afael yn y fan hon â barddoniaeth gynnar Jones (1957–75), gan graffu'n fanwl ar ei gerddi coffa i Dylan Thomas. Byddir yn ystyried agweddau llenorion a beirniaid Cymraeg y 1950au a'r 1960au (yn cynnwys T. James Jones ei hun) at Thomas er mwyn cyd-destunoli'r drafodaeth ar y cerddi coffa. Byddir hefyd yn bwrw golwg ar bryddestau eisteddfodol anghyhoeddedig Jones, gan ddangos mai prentis o fardd ydoedd yn y cyfnod hwn, yn ailymweld â cherddi ac yn ailddefnyddio deunydd. Dangosir yn y bennod hon hefyd fod treigl amser, henaint ac angau yn themâu llywodraethol yn ei farddoniaeth er cychwyn yr yrfa. Ond yn bennaf oll, gobeithir dangos mai'r diddordeb yn Dylan Thomas ac *Under Milk Wood* a'i hysgogodd i farddoni.

Archwilir ym Mhennod 2 y duedd i ganmol ac arddel *Dan y Wenallt* yng Nghymru fel 'y cyfieithiad gwell-na'r-gwreiddiol' o *Under Milk Wood* – tuedd hynod ddiddorol o gofio na thymherodd T. James Jones yr agweddau hynny a ystyrid yn ddadleuol gan nifer o feirniaid. Byddir yn y bennod hon yn cymharu'r ymateb beirniadol yng Nghymru i'r trosiad a'r gwreiddiol, gan ddangos bod y ddelwedd o Dylan Thomas fel pechadur di-Gymraeg a gwrth-

[10] Ibid., tt. 26–7.

Gymreig wedi lliwio barn sawl un ynghylch *Under Milk Wood*. At hyn, dangosir hefyd sut y mae trafodaeth ar *Under Milk Wood* yng Nghymru yn esgor ar drafodaeth anorfod ar Gymreictod Thomas a'r portread a geir yn y ddrama hon o'r Cymry. Cyn symud ymlaen i'r drydedd bennod, byddir hefyd yn craffu ar arwyddocâd y gair 'adfer' yng nghyd-destun *Dan y Wenallt*, gan ystyried beth yn union a olygir wrth 'adfer' Cymreictod Llaregyb. Cyfeiria M. Wynn Thomas at arwyddocâd y gair hwn yn ei ysgrif 'Dylanwadau': 'Ddwy flynedd yn ôl fe gyhoeddodd T. James Jones ysgrif wych am ei gyfieithiad gorchestol o *Under Milk Wood*. A'r gair allweddol yn yr hanes mae e'n ei adrodd am gyfansoddi *Dan y Wenallt* yw'r gair "adfer".'[11] Perthnasol hefyd yw nodi mai '*Adfer* Cymreictod Llaregyb' (myfi biau'r italeiddio) yw teitl yr ysgrif a gyhoeddodd T. James Jones yn rhaglen Theatr Gwynedd yn 2003.

Ym Mhennod 3 archwilir nod T. James Jones o gyfieithu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg, sef Cymreigio Llaregyb, drwy gynnig trosolwg o'r rhesymau gwleidyddol, diwylliannol a chenedlaetholgar a ysgogodd Jones i gyfieithu'r ddrama. Dadlennir drwy wneud hyn mai gweithred wleidyddol, yn ei hanfod, oedd cyfieithu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg. Eir i'r afael yn fanwl yn y bennod hon â'r broses o gyfieithu'r ddrama, gan graffu ar strategaethau cyfieithu penodol a ddefnyddiwyd gan T. James Jones i Gymreigio Llaregyb. Byddir hefyd yn archwilio arwyddocâd y newidiadau a wnaed i'r trosiad ers ei gyhoeddi yn ei grynswth am y tro cyntaf yn 1968. Fel y gwelir yn y bennod hon, ailymwelodd T. James Jones â *Dan y Wenallt* yn y 1990au, a chyhoeddi fersiwn newydd, diwygiedig o'r trosiad yn 2014. Rhoddir sylw arbennig hefyd i'r modd yr aeth Jones rhagddo i ymgyrraedd at fywyd ac arddull 'prose with blood pressure' y ddrama wreiddiol. Edrychir yn fanwl ar ei ymdrechion i drosi'r teitl, enwau'r cymeriadau, yr elfennau dychanol (gan ganolbwyntio'n benodol ar y portread o'r bardd-bregethwr, y Parchedig Eli Jenkins) a'r mwyseiriau. Daw i'r amlwg yn y bennod hon (a thrachefn ym Mhennod 5) yr heriau sy'n wynebu'r cyfieithydd sy'n mentro trosi gwaith mor greadigol-ddyfeisgar ag eiddo Dylan Thomas i'r Gymraeg.

Ym Mhennod 4, byddir yn trafod yr ymateb creadigol i *Dan y Wenallt*. Edrychir yn gyntaf ar ymateb Richard Lewis, cynhyrchydd y rhaglen deledu *Heddiw* (BBC Cymru), a'r bardd W. J. Gruffydd, i addasiad ffilm Andrew Sinclair o *Under Milk Wood* (1971), sef y gerdd 'Llaregyb?' a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Cerddi'r Llygad* (1973). Byddir hefyd yn edrych ar ddwy gerdd wreiddiol gan T. James Jones, 'Besi Benfras' a 'Mab ei Dad', a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Diwrnod i'r Brenin* (2002). Cyfuniad o englyn (fel epigraff) a chywydd i un o

[11] Thomas, 'Dylanwadau', t. 26.

gymeriadau *Dan y Wenallt*, Besi Benfras, yw'r gerdd o'r un enw, ac fe ddaw'n amlwg wrth drafod y gerdd hon pam y dewisodd Jones ganu am y cymeriad ymylol hwn. Awdl fer yw 'Mab ei Dad (Dylan Marlais)', sy'n archwilio agweddau'r Cymry Cymraeg at Dylan Thomas ac *Under Milk Wood*, ynghyd â hunaniaeth Eingl-Gymreig, densiynus Dylan Thomas. Yn olaf, byddir yn edrych ar ymateb creadigol tra diddorol Eigra Lewis Roberts i *Dan y Wenallt*, sef ei chyfieithiad 'gogleddol' o *Under Milk Wood* – 'Dan Gesail Bryn Llaethog' – testun anghyhoeddedig nas trafodwyd erioed o'r blaen. Amlinellir yn y bennod resymau Eigra Lewis Roberts dros lunio fersiwn gogleddol o *Under Milk Wood*, gan ddangos mai *Dan y Wenallt* T. James Jones oedd y catalydd a'i hysgogodd i gyfieithu'r gwreiddiol. Byddir yn craffu ar ddulliau cyfieithu Roberts a Jones drwy gyfosod enghreifftiau penodol o gyfieithu o'r ddau fersiwn, gan eu cymharu â'r gwreiddiol.

Cyfieithu barddoniaeth Dylan Thomas yw pwnc Pennod 5. Cynhelir yn y bennod estynedig hon astudiaeth destunol fanwl ar fersiynau Cymraeg T. James Jones o gerddi Thomas: 'Fern Hill', 'Wedi'r cynhebrwng' ('After the funeral'), 'Y Pelican' ('Do not go gentle into that good night'), 'Ac ni bydd gan angau deyrnas' ('And death shall have no dominion'), 'unwaith' ('Once it was the colour of saying') ac 'y crwca yn y parc' ('The hunchback in the park'). Eir i'r afael ar ddechrau'r bennod â rhesymau T. James Jones dros gyfieithu'r cerddi hyn i'r Gymraeg er mwyn cyd-destunoli'r drafodaeth ddilynol. Dangosir mai ei brif nod wrth greu fersiynau Cymraeg o farddoniaeth Dylan Thomas yw amlygu'r nodweddion 'Cymreig' a 'Chymraeg' yng ngwaith y bardd hwn. Fel ym Mhennod 3, byddir yn ymdrin â strategaethau cyfieithu T. James Jones, gan edrych yn benodol ar y dulliau a ddefnyddir ganddo i Gymreigio'r cerddi. Rhennir y drafodaeth ar y cerddi a gyfieithwyd gan Jones yn dair rhan:

i. Cerddi Fernhill: 'Fern Hill' ac 'Wedi'r cynhebrwng'
ii. Cerddi angau: 'Y Pelican' ac 'Ac ni bydd gan angau deyrnas'
iii. Cerddi Cwmdonkin: 'unwaith' ac 'y crwca yn y parc'

Yn y rhan gyntaf, felly, edrychir ar y cerddi a ysbrydolwyd gan y cyfnodau a dreuliodd Dylan Thomas ar fferm ei fodryb yn Sir Gaerfyrddin, Fernhill. Yn yr ail ran, eir i'r afael â'r cerddi sy'n ymdrin yn benodol â marwolaeth a marwoldeb, ac yn yr olaf, rhoddir sylw i gerddi sydd, yn debyg i gerddi Fernhill, yn ymdrin â lleoliad penodol, sef Parc Cwmdonkin, ac â chyfnod arbennig ym mywyd Thomas, sef ei blentyndod yn Abertawe. Byddir hefyd yn plethu sawl cerdd wreiddiol gan T. James Jones i'r drafodaeth ar gyfieithu barddoniaeth Thomas er mwyn archwilio'r cysylltiadau thematig ac arddulliol rhwng cerddi gwreiddiol Jones a'r cerddi a gyfieithwyd ganddo.

Ymdrinnir ym Mhennod 6 â fersiynau Cymraeg T. James Jones o ryddiaith Dylan Thomas: 'Yn Bur Gynnar Un Bore' ('Quite Early One Morning'), 'Y Siwrne Nôl' ('Return Journey') ac 'Ymweld â Da-cu' ('A Visit to Grandpa's'). Amlygir arwyddocâd a pherthnasedd y testunau hyn yng nghyswllt yr hyn a welir fel 'prosiect' T. James Jones i adfer Cymreictod Dylan Thomas, a hynny drwy drafod y rhesymau a'i hysgogodd i'w trosi i'r Gymraeg. Er enghraifft, ystyrir yn y cyswllt hwn ymdriniaeth Thomas â henaint ac angau, yn arbennig yn 'A Visit to Grandpa's' a 'Return Journey'; y darlun o Gymreictod a geir yn 'Quite Early One Morning' ac 'A Visit to Grandpa's'; ynghyd â'r tensiynau a brofir yn y tri thestun rhwng yr ymdeimlad o berthyn i'r gymuned Gymreig a Chymraeg a'r ymdeimlad o fod ar gyrion y gymuned hon. Byddir hefyd yn craffu'n fanwl ar ddelweddau trawiadol a chofiadwy sy'n magu ystyr newydd yn fersiynau Cymraeg T. James Jones. At hyn, eir ati i archwilio'r syniad o adfer hunaniaeth Gymraeg 'goll' Thomas – y rhan ohono a gollwyd 'dan yr eira' – delwedd dra arwyddocaol yng nghyswllt prosiect Jones, fel y gwelir yn y bennod hon.

Trafodir ym Mhennod 7 ddrama wreiddiol, anghyhoeddedig gan T. James Jones. Y mae'r ddrama hon yn seiliedig ar un o straeon byrion enwocaf – a Chymreiciaf, fe ellid dadlau – Dylan Thomas, 'The Peaches'. Byddir yn y bennod hon yn cymharu fersiwn o'r ddrama a anfonwyd at yr awdur presennol (y deipysgrif anghyhoeddedig 'Un Porchell') â'r fersiwn a ddarlledwyd ar Radio Cymru, 26 Hydref 2014 yn ystod dathliadau canmlwyddiant Dylan Thomas (gan ddefnyddio trawsgrifiad yr awdur presennol o'r ddrama radio *Dylan yn Fern Hill*). Cynhwysir copïau o'r ddau fersiwn – y deipysgrif a'r trawsgrifiad – fel atodiadau i'r thesis. Byddir yn craffu yn y bennod ar y newidiadau a wnaed i'r ddrama cyn iddi gael ei pherfformio ar y radio, ac arwyddocâd y newidiadau hyn nghyswllt ymgyrch T. James Jones i Gymreigio Dylan Thomas. Edrychir yn fanwl ar y cyfeiriadau at gefndir teuluol a gwreiddiau Cymreig a Chymraeg Thomas yn Sir Gâr; dylanwad ei dad, D. J. Thomas, arno; ei wybodaeth o'r Mabinogi, a'i gyfeillgarwch â Hugh Williams, mab Crwys. At hyn, ystyrir beth yn union yw neges neu ergyd y ddrama hon. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw'r dyfyniad canlynol o ysgrif M. Wynn Thomas, 'Dylanwadau', ynghylch ymateb Saunders Lewis, Aneirin Talfan Davies a Pennar Davies i Dylan Thomas: 'dyna ichi dri [...] sy'n troi Dylan Thomas yn ddrych diddorol i'w hargyhoeddiadau nhw eu hunain fel awduron Cymraeg.'[12] Gellir dadlau bod hyn hefyd yn wir am T. James Jones.

[12] Ibid., t. 22.

Nid cyfieithu gwaith Dylan Thomas i'r Gymraeg yn unig a wnaeth T. James Jones, ond ei bortreadu a'i ailddychmygu fel bardd Cymraeg ei iaith. Gwelir yn y thesis hwn fod agwedd Jones ei hun tuag y bardd wedi newid yn sylweddol er cychwyn ei yrfa farddol yn y 1950au. Fel y dywedodd Jones mewn sgwrs â'r awdur presennol ynghylch y cysyniad o 'drawsnewid' y bardd Eingl-Gymreig hwn yn fardd Cymraeg drwy gyfieithu: 'Nid dim ond mod i wedi newid Dylan, 'wy'n hunan wedi newid fy meddwl. Mae hi wedi bod yn daith, mewn gwirionedd, fel y daith i Damascus.'[13] Byddir yn edrych yn y bennod olaf ar ysgrif Saesneg led ddiweddar gan Jones sy'n trafod dylanwad y Gymru Gymraeg ar waith Dylan Thomas – ysgrif sy'n cadarnhau bod ei ddiddordeb yng ngwaith Thomas wedi troi'n ymgyrch, nid yn unig i adfer cymeriadau *Under Milk Wood* i'r Gymru Gymraeg, ond i gynnig 'prawf' o Gymreictod 'dilys' yr awdur.

Amcan y thesis hwn felly yw archwilio'n drylwyr, a hynny am y tro cyntaf, hyd a lled 'prosiect' T. James Jones yn achos ei ymwneud â Dylan Thomas, ynghyd â dadansoddi arwyddocâd diwylliannol hynny. Nid oes amheuaeth na cheir gan Jones yn y cyswllt hwn gorff o waith – dros gyfnod o dros 60 mlynedd – sy'n gyfraniad pwysig ac unigryw at ein dealltwriaeth o natur gymhleth a thensiynus Cymreictod yn yr ugeinfed ganrif, ac ymlaen i'r unfed ganrif ar hugain.

[13] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.

PENNOD 1: Dylanwad

Yn ystod y 1950au, mynychodd T. James Jones Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin a'i hyfforddi yno i fod yn weinidog. Cyfeiria Jones at y cyfnod hwn yn ei hunangofiant llenyddol, *Jim Parc Nest,* fel cyfnod 'dechrau barddoni'.[14] Yn ystod y blynyddoedd hyn, fe'i cyflwynwyd i waith Dylan Thomas am y tro cyntaf. Dywed Jones yn ei lêngofiant iddo gael ei annog gan yr Athro J. Oliver Stephens, 'un o fawrion gwleidyddol a chrefyddol Cymru'r ugeinfed ganrif',[15] i 'ddechrau darllen gwaith Dylan Thomas, bardd nad oedd ar y pryd yn barchus ymhlith capelwyr.'[16] Darllenodd *Under Milk Wood* am y tro cyntaf yn 1954, ac meddai am y profiad hwnnw: 'cofiaf i Gymreictod Llaregyb, ei lleoliad ynghyd â mwyafrif helaeth ei threfolion wneud argraff arnaf.'[17] Pan oedd yn fyfyriwr yng Nghaerfyrddin, cafodd ei wahodd i chwarae rhan y First Voice yng nghynhyrchiad The Laugharne Players o'r ddrama yn Nhalacharn fis Awst 1958 – perfformiad a oedd yn rhan o ŵyl Dylan Thomas, sef wythnos o ddigwyddiadau a noddwyd gan Gyngor Gwlad Sir Gaerfyrddin. Yn ôl Jones, 'bwriedid i'r ŵyl hon fod yn ŵyl deirblynyddol. Dilynwyd cynhyrchiad 1961 gan un arall yn 1964.'[18] Yn ystod yr ŵyl honno fe'i hanogwyd gan y cynhyrchydd, Gwynne D. Evans, i drosi'r ddrama i'r Gymraeg, ac ar ôl chwarae rhan y First Voice fwy nag unwaith yn ystod y 1950au a'r 1960au, magodd T. James Jones adnabyddiaeth ddofn o'r ddrama. Yr oedd wedi ymdrwytho yn y sgript i'r fath raddau nes bod 'y rhan helaethaf o'i geiriau yn hudol' ar ei gof, meddai,[19] ond aeth dwy flynedd heibio cyn iddo fwrw ati o ddifrif i'w chyfieithu.

Cyn cymryd rhan yng nghynhyrchiad The Laugharne Players o *Under Milk Wood* a chyn troi ei law at gyfieithu'r ddrama hon, ysgrifennodd T. James Jones ddwy gerdd hynod ddiddorol i goffáu Dylan Thomas yn 1957, sef 'Llwch' a 'Dust to Dust'. Fel y nodir yn y gyfrol *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm*:

> Er mai fel dramodydd, a chyfieithydd dramâu y daeth i'r amlwg gyntaf, fel aelod o deulu yr oedd barddoniaeth yn rhan hanfodol o'i fyd a'i fetws, doedd sŵn a sigl barddoniaeth fyth ymhell o waith T. James Jones. Ei glust fel bardd a'i galluogodd i

[14] T. James Jones, *Jim Parc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 54.
[15] Ibid.
[16] Ibid.
[17] Ibid., t. 67.
[18] Ibid., t. 73.
[19] Ibid.

> gyflawni'r gamp o gyfieithu *Under Milk Wood* mewn ffordd mor llwyddiannus. [...] Ochr yn ochr â'i yrfa fel dramodydd, datblygodd ei grefft fel bardd.[20]

Nodir hefyd yn y gyfrol hon iddo ddechrau 'ysgrifennu'n greadigol ar ôl derbyn clod eang am ei gyfieithiad o *Under Milk Wood*.'[21] Yng ngeiriau T. James Jones ei hun: 'Y dylanwad llenyddol mwyaf arnaf pan oeddwn yn bwrw prentisiaeth fel awdur oedd straeon a cherddi Dylan Thomas, yn enwedig *Under Milk Wood*.'[22] Yn wir, mewn cyfweliad ar gyfer *Wales Arts Review* yn 2014, dywedodd Jones wrth Jasper Rees: 'I would regard Dylan as my muse in a way. He got me really writing.'[23]

Dangosir yn y bennod hon mai ei ddiddordeb yn Dylan Thomas a ysgogodd T. James Jones i farddoni ac i gystadlu mewn eisteddfodau yn ystod y 1960au a'r 1970au. Fel yr esboniodd Jones mewn cyfweliad â Jerry Hunter:

> Dyna beth oedd 'niddordeb i o'r dechrau, hynny yw, lle dechreuais i mewn gwirionedd oedd wrth gyfieithu *Under Milk Wood*. O'n i ddim wedi cyhoeddi dim byd o werth 'n hunan cyn hynny. O'n i ddim wedi cyhoeddi dim byd o werth creadigol, yn'n marn i, cyn hynny. A wedyn cyfieithu *Under Milk Wood* 'wnaeth'n ysgogi i ddechrau creu dros 'n hunan.[24]

Nod yr ymdriniaeth gychwynnol hon felly yw archwilio datblygiad cynnar T. James Jones fel bardd. Gellir taflu golau llachar ar ei yrfa gynnar – rhwng 1957 a 1975, dyweder – drwy edrych ar gerddi anghyhoeddedig a chyfansoddiadau a beirniadaethau nas trafodwyd o'r blaen. Eir i'r afael yn y bennod hon â cherddi na chawsant y sylw beirniadol dyledus hyd yma, gan gynnal astudiaeth destunol fanwl ar gerdd Eisteddfod y Colegau Abertawe 1957 a cherdd Eisteddfod Merthyr Tudful 1957, sef ei gerddi coffa cynnar i Dylan Thomas. Y cerddi hyn yw man cychwyn ei ymwneud â'r bardd hwn.

Gwelir hefyd yn y bennod hon fod ailddefnyddio, neu 'ailgylchu'[25] chwedl T. James Jones, wedi bod yn ffenomen amlwg yn ei waith ar hyd yr yrfa. Cynhwyswyd cerdd Eisteddfod y Colegau Abertawe 1957, 'Llwch', yn *Dan y Wenallt* (1968), a hefyd yn ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth, *Adnodau a Cherddi Eraill* (1975). Yn ogystal, ymddangosodd ei gyfieithiad o'r gerdd hon, 'Dust to Dust' – cyfieithiad a fu'n fuddugol yng nghystadleuaeth y Goron

---

[20] Iwan Llwyd a Myrddin ap Dafydd (goln), *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm: Cyflwyno Beirdd a Barddoniaeth* (Llanrwst, 2002), t. 137.
[21] Ibid., t. 136.
[22] Ibid.
[23] Jasper Rees, 'T. James Jones on Dylan Thomas', <http://www.walesartsreview.org/t-james-jones-on-dylan-thomas/>; cyrchwyd 25 Tachwedd 2016.
[24] Jerry Hunter, 'Jerry Hunter yn sgwrsio efo… T. James Jones', *Tu Chwith*, 8 (1997), t. 73.
[25] E-bost gan T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen] at yr awdur presennol, 12 Mai 2016.

Eisteddfod Merthyr Tudful 1957 – mewn dau argraffiad o'r gyfrol deyrnged i Dylan Thomas, *A Garland for Dylan Thomas,* a argraffwyd gan gyhoeddwyr Americanaidd yn 1963[26] ac eto gan gyhoeddwyr Prydeinig yn 1966.[27] Ailddefnyddiodd Jones elfennau o'i bryddest yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1960, 'Unigedd', yn ail ganiad y bryddest a anfonodd i Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 1962, 'Y Cwmwl', a chyhoeddi penillion cyfan o bryddest 1962 fel cerddi unigol yn *Adnodau a Cherddi Eraill*. Ailddefnyddiodd ganiad cyntaf y bryddest a anfonodd i Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Maelor 1961, 'Ffoadur', fel caniad cyntaf pryddest 1962, 'Y Cwmwl', a chyhoeddi fersiwn diwygiedig o'r caniad hwn yn *Adnodau a Cherddi Eraill* fel cerdd annibynnol, 'Tymor o Dymhorau'. Ailwampiodd y bryddest a anfonodd i Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman 1970, 'Adnodau o Gariad', a'i hanfon i Eisteddfod Talaith Powys 1974. Enillodd y Gadair yn Eisteddfod Powys a chyhoeddi'r casgliad buddugol yn *Adnodau a Cherddi Eraill.* Ailgyhoeddwyd detholiad o bryddest 1970 yn *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* (1987), yn *Cadwn y Mur: Blodeugerdd Barddas o Ganu Gwladgarol* (1990) ac yn ei gyfrol *Eiliadau o Berthyn* (1991). Yn sicr, gellir synied am T. James Jones fel llenor ailymweliadol ac fe ddaw hyn hefyd yn amlwg wrth gymharu ei fersiynau o *Dan y Wenallt* yn y penodau nesaf.

Yn 1957, cyfansoddodd Jones gerdd ar gyfer cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod y Colegau Abertawe ond ni chyrhaeddodd y gerdd hon ddwylo'r beirniaid. 'Llwch' oedd y testun gosod a dyfarnwyd nad oedd neb yn deilwng o'r Goron. Ychydig fisoedd wedi'r eisteddfod hon, penderfynodd y bardd gyfieithu'r gerdd 'Llwch' i'r Saesneg a'i hanfon i gystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod (ddwyieithog) Merthyr Tudful, gan mai 'Dust to Dust', yn gyfleus ddigon, oedd y testun gosod. Fel y dywedodd T. James Jones wrth yr awdur presennol:

> 'Ro'n i mor flin nad oedd y gerdd wedi cyrraedd y beirniaid a neb yn deilwng o'r Goron yn y gystadleuaeth, felly, beth 'nes i wedyn... ryw bedwar neu bum mis ar ôl hynny, 'roedd Eisteddfod ym Merthyr. Eisteddfod ddwyieithog oedd honno a Jennie Eirian oedd y beirniad. A beth oedd yno, 'roedd Coron yno am gerdd Saesneg –'Dust to Dust' neu rywbeth – ac fe gyfieithais y gerdd i Dylan Thomas, cerdd Eisteddfod y Colegau Abertawe, ac enillais i'r Goron – yr unig Goron 'wy wedi'i hennill am waith Saesneg.[28]

[26] T. James Jones, 'Dust to Dust', yn George F. Firmage ac Oscar Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas* (New York, 1963), t. 65. Yr un yw'r testun yn y fersiwn o'r gyfrol hon a gyhoeddwyd ym Mhrydain yn 1966.
[27] Idem, 'Dust to Dust', yn George F. Firmage ac Oscar Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas* (London, 1966), t. 65.
[28] Cyfweliad yr awdur presennol â T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen], 18 Hydref 2016.

Coron Merthyr oedd ei Goron gyntaf un, a honno hefyd, sylwer, yn Goron am gerdd Saesneg a gyfieithwyd o'r Gymraeg. (Diddorol hefyd yw nodi y bu iddo ennill ei Goron Gymraeg gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun 1986 ar y testun 'Llwch'.) Y mae cerdd Gymraeg Eisteddfod y Colegau Abertawe a cherdd Saesneg Eisteddfod Merthyr Tudful yn ymateb i farwolaeth annhymig Dylan Thomas, a fu farw yn 39 oed yn 1953. Gellir dehongli'r cerddi hefyd fel ymatebion cynnar iawn i'r ddelwedd led chwedlonol ohono fel *enfant terrible* y byd llenyddol – fel meddwyn a merchetwr hedonistaidd a oedd yn ymgorffori'r tensiynau rhwng dwy brif iaith a dau brif ddiwylliant Cymru. Fel y dywed M. Wynn Thomas:

> [Y mae'r] Gymru Gymraeg wedi bod yn amheus iawn, ar y cyfan, o Dylan Thomas. Yn wir, bron na ddywedwn i fod y diwylliant Cymraeg wedi creu bwgan ar lun y bardd [...] ac wedi galw'r bwgan hwnnw yn 'Dylan Thomas'. Ar yr un pryd bu rhai o'r Eingl-Gymry wrthi yr un mor ddiwyd yn gwneud eilun o'r bardd, ac yn galw'r eicon hwnnw yn 'Dylan Thomas'. A rhyw gyfuniad o fwgan ac o eicon yw'r 'Dylan Thomas' y clywir sôn amdano ar lafar gwlad o hyd.[29]

Y mae'r syniad o Dylan Thomas fel rhyw fwgan-eicon, chwedl M. Wynn Thomas, yn 'codi o isymwybod dau ddiwylliant Cymru, ac yn delweddu rhai o'u breuddwydion dwysaf amdanynt eu hunain, ynghyd â'u hunllefau mwyaf am eu perthynas â'i gilydd.'[30] Yn ogystal, fel y noda Kate Crockett:

> yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, roedd bodolaeth llenyddiaeth o Gymru yn yr iaith Saesneg yn dystiolaeth o ffaith boenus, sef bod yr iaith Gymraeg yn prysur ddiflannu o'r tir yn y de [*sic*] yn arbennig. Proses ddigon anodd oedd derbyn fod yna'r fath beth â Chymry di-Gymraeg.[31]

Yr oedd Dylan Thomas ei hun hefyd yn cydnabod ei fod yn fath o 'border case':[32] 'Too Welsh for the English, too English for the Welsh'.[33] Wrth drafod yr hyn y mae Dylan Thomas yn ei olygu i ni'r Cymry yn ei ysgrif 'Dylanwadau', sonia M. Wynn Thomas am honiad James A. Davies 'fod trwch y Cymry Cymraeg yn hynod elyniaethus'[34] i Dylan Thomas gan 'na fedren nhw ddioddef fod y Gymru newydd, Saesneg ei hiaith, wedi esgor ar awdur o'r radd flaenaf, a bod yr Eingl-Gymry felly wedi profi nad oedd angen y Gymraeg bellach i warantu arwahanrwydd Cymru.'[35] Ond dengys M. Wynn Thomas yn ei ysgrif hefyd fel y ceisiodd rhai

---

[29] M. Wynn Thomas, 'Dylanwadau: Dylan Thomas a Llenorion Cymraeg', *Taliesin*, 112 (Haf 2001) t. 15.
[30] Ibid.
[31] Kate Crockett, *Mwy na Bardd: bywyd a gwaith Dylan Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 11.
[32] Tudur Hallam, '"Curse, bless, me now": Dylan Thomas and Saunders Lewis', *Journal of the British Academy*, 3 (17 Rhagfyr 2017), t. 215.
[33] Ibid.
[34] Thomas, 'Dylanwadau', t. 20.
[35] Ibid.

Cymry Cymraeg megis Aneirin Talfan Davies ddadlau bod gwaith Dylan Thomas yn pontio rhwng llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Eingl-Gymreig. Yn ôl Thomas, y mae ei gyfrol arloesol, *Dylan: Druid of the Broken Body*, yn ddogfen bwysig yn hanes datblygiad y berthynas rhwng dau brif ddiwylliant Cymru 'oherwydd bod Aneirin Talfan yn ceisio dangos bod gwaith Dylan Thomas yn ddolen gyswllt werthfawr rhwng llên Gymraeg a llên Eingl-Gymreig.'[36]

Fe dâl inni nodi ar ddechrau'r ymdriniaeth hon fod Dylan Thomas yn parhau i gael ei ystyried gan lawer fel bardd sy'n perthyn i'r traddodiad llenyddol Saesneg. Dadleuodd Saunders Lewis yn 1938 nad oedd yna'r fath beth â llenyddiaeth Eingl-Gymreig, gan dynnu sylw yn arbennig at Dylan Thomas: 'Mr Dylan Thomas is obviously an equipped writer, but there is nothing hyphenated about him. He belongs to the English.'[37] Ond dylid cydnabod hefyd iddo newid ei feddwl ynghylch hyn. Fel y dywed M. Wynn Thomas:

> pan ddarllenodd [Saunders Lewis] ei deyrnged i Dylan Thomas, ar ôl i'r bardd farw mor ddisyfyd yn 1953, roedd naws wahanol iawn i'w sylwadau. [...] ar ôl gwneud ei orau i achub cam Dylan Thomas fel person ac fel bardd yn y deyrnged radio honno, mae Saunders Lewis yn gorffen drwy geisio'i achub ef i'r genedl, yn ogystal. Mae Dylan i'w ganmol, meddai, am ddathlu gogoniant y cread pan oedd pob bardd arall o bwys yn gwisgo mantell anobaith ac 'angerdd ac ing diwedd gwareiddiad.' Hynny yw, roedd Dylan Thomas, yn ddiarwybod iddo'i hun, yn perthyn, wedi'r cyfan, i linach beirdd mawr y canu mawl Cymraeg. 'Fe ddug anrhydedd i Gymru', meddai Saunders Lewis, 'a daeth yn fwyfwy Cymreig ei gydymdeimlad yn ei flynyddoedd diweddar'.[38]

Cyfeiria Kate Crockett at ddylanwad y traddodiad llenyddol Saesneg ar Dylan Thomas yn ei chofiant iddo, gan ddyfynnu geiriau Paul Ferris, prif gofiannydd y bardd: 'Oherwydd mai ar lenyddiaeth Saesneg y magwyd Dylan Thomas: "culturally he was an Englishman".'[39] Noda Tudur Hallam yntau mewn ysgrif o'i eiddo fod Thomas 'even in this age of interdisciplinary and bicultural flux, [...] remains very much the preserve of the English department.'[40] Ond pan ofynnodd Jasper Rees i T. James Jones yn y cyfweliad hwnnw ar gyfer *Wales Arts Review* yn 2014, 'What do you say to the suggestion that he's an English poet?',[41] ymateb yr olaf oedd: 'Good heavens, no. His use of language is proof that he wasn't English.'[42] Yng ngeiriau

---

[36] Ibid.
[37] Saunders Lewis, *'Is there an Anglo-Welsh Literature?': Being the Annual Lecture Delivered to the Branch on December 10th, 1938* (Caerdydd, 1939), t. 5.
[38] Thomas, 'Dylanwadau', tt. 19–20.
[39] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 13.
[40] Hallam, '"Curse, bless, me now": Dylan Thomas and Saunders Lewis', t. 212.
[41] Rees, 'T. James Jones on Dylan Thomas', <http://www.walesartsreview.org/t-james-jones-on-dylan-thomas/>; cyrchwyd 25 Tachwedd 2016.
[42] Ibid.

Walford Davies: 'There are, beyond the Welsh language or notional/national subject matter, multiple ways in which a poet is recognizably Welsh'.[43]

Cyn mynd i'r afael â cherddi coffa T. James Jones i Dylan Thomas, priodol yw ystyried beth oedd ymateb rhai o lenorion a beirniaid llenyddol Cymru'r 1950au a'r 1960au i Thomas. Difyr a dadlennol yn y cyswllt hwn yw sylwadau T. James Jones mewn ysgrif yn *Barddas* ynghylch beirniadaethau Euros Bowen a T. H. Parry-Williams o gerdd arobryn cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Maelor 1961, lle y daeth pryddest am Dylan Thomas i'r brig:

> roedd y chwedlau am ei fyw anghonfensiynol a'i afradlonedd a'i wrth-Gymreictod honedig wedi lliwio barn amryw o'i gyd-Gymry. Ymhlith y rheiny, prin oedd y beirniaid a fedrai wahanu ei waith oddi wrth y chwedl.[44]

'Ffoadur' oedd testun y gystadleuaeth hon ac L. Haydn Lewis – 'Y Crëyr Glas' – oedd y bardd buddugol. Rhoddodd T. James Jones ei hun gynnig ar y gystadleuaeth hon dan y ffugenw 'Enciliwr' a byddir yn trafod ei gerdd yn fanylach yn ddiweddarach yn y bennod bresennol. Tra diddorol yw atgof T. James Jones o'i frawd, John Gwilym Jones, yn dod ato yng Ngŵyl Talacharn yn 1961 â 'hanner gwên ar ei wyneb':[45]

> 'wedodd e' wrtha' i o'dd e'n clywed fod pethe da iawn yn digwydd i mi. 'Pam?' 'wedes i. 'Wel, mae 'na gerdd ar Dylan yn ennill y Goron.' 'O dim fi bia hi,' 'wedes i. O'dd e' wedi clywed ryw ffordd neu'i gilydd drwy fois y Cilie ac fe lwyddon nhw i gael gafael ar thema'r gerdd. Doedden nhw ddim yn gwybod pwy oedd yr enw, ond oedden nhw'n gwybod am fy niddordeb i yn Dylan, ac fe aeth swae trwy'r lle bo' fi wedi ennill y Goron.[46]

Tystia'r hanesyn hwn fod T. James Jones yn adnabyddus yn gynnar iawn yn ei yrfa farddol yn y cylchoedd llenyddol Cymraeg am ei ddiddordeb yng ngwaith Dylan Thomas.

Cerdd, felly, am fywyd a gwaith Dylan Thomas yw pryddest fuddugol Haydn Lewis ac ymatebodd T. H. Parry-Williams i'w chynnwys fel a ganlyn:

> Y ffoadur yn y bryddest bedair-rhan hon yw'r diweddar fardd Saesneg o Gymro, Dylan Thomas. Fe ddisgrifir, yn fanwl ac ar raddfa eang, bererindod ysbrydol (os teg yr ymadrodd) y bardd a 'frawychwyd ym mhorth byd' ac a ddaeth yn 'ffoadur bod'.

---

[43] Walford Davies, *Dylan Thomas* (Cardiff, 2014), t. 104.
[44] T. James Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', *Barddas*, 249 (Tachwedd/Rhagfyr 1998), t. 18.
[45] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[46] Ibid.

> [...] Nid yw barn dyn am D. T., boed honno'n ganmoliaethus neu'n gondemniol, yn gwneud gwahaniaeth wrth fesur gwerth y gerdd hon.[47]

Sonia T. James Jones am y feirniadaeth hon yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', gan graffu'n benodol ar y sweipen at fywyd Dylan Thomas a'r cyfeiriad at y ffordd y mae'r bardd hwn wedi hollti barn y Cymry:

> Sylwer ar ergyd y cymal cromfachog. Ac yn nes ymlaen fe rydd [Parry-Williams] ergyd fach arall pan ddywed: 'Nid yw barn dyn am Dylan Thomas, boed honno'n ganmoliaethus neu'n gondemniol, yn gwneud gwahaniaeth wrth fesur gwerth y gerdd hon.' Rhaid mai cyfeirio at ei ffordd o fyw yn hytrach nag at ei waith yr oedd T. H. Parry-Williams, a'i fod yn ymwybodol o gondemniad amryw o'i gyd-Gymry o ansawdd buchedd 'tywysog y tywyllwch'.[48]

Tra oedd T. H. Parry-Williams yn cytuno mai pryddest Haydn Lewis oedd yn haeddu'r Goron, dywedodd nad pryddest 'i bawb'[49] mohoni: 'I lwyr amgyffred cynnwys cerdd Y Creÿr Glas, a dilyn ei ymdriniaeth, y mae'n ofynnol fod gan y darllenydd wybodaeth go helaeth o waith a thras a chwrs bywyd D. T.'[50] Dywedodd Parry-Williams hefyd fod yn y bryddest 'ormod o Ddylanu ar brydiau, oherwydd bod Y Crëyr Glas wedi amcan gwau hanes y bererindod ffoadurol hon drwy ddefnyddio deunydd D. T. a deunydd Dylanésg',[51] fel y gwelir ar ddechrau'r bryddest, lle ceir sawl adlais o farddoniaeth Dylan:

> Yng Nghwmdoncyn-y-môr, dan y sêr a'u sirioldeb,
> Ar lan traeth ac afon, ac yn nhref yr afalau,
> Yn yr awr y daethost i'th dud, ac i'th henfro bell.[52]

Un a oedd yn gyfarwydd iawn â bywyd a gwaith Dylan Thomas, fodd bynnag, oedd Euros Bowen, un o'r beirniaid, fel y tystia ei sylwadau craff ar bryddest Haydn Lewis:

> Ei ffoadur yw'r diweddar fardd Dylan Thomas. Cais roi dehongliad lled-fetaffisegol i'w yrfa. [...] Rhaid imi addef fy mod yn cael y syniad o ffoi o achos marwoldeb yn anodd ei gysoni â llawer iawn yng ngherddi Dylan Thomas lle y mae'n gwbwl eglur ei fod yn derbyn ei farwoldeb, heb fod yna unrhyw ofn na ffoi yn ei gylch. Nid oes ofn na ffoi, er enghraifft, yn y geiriau yma:
>
> > In the groin of the natural doorway I crouched like a tailor
> > Sewing a shroud for a journey
> > By the light of the meat-eating sun.

---

[47] J. T. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Dyffryn Maelor 1961* (Llandysul, 1961) t. 53.
[48] Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 18.
[49] Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*, t. 53.
[50] Ibid.
[51] Ibid.
[52] Ibid, t. 55.

Eto: 'Come let us die...'[53]

Fe gofir bod Bowen wedi cyhoeddi yn ei gyfrol gyntaf, *Cerddi* (1957), englyn er cof am Dylan Thomas:

Cynaeafodd frig cynefin y gerdd
Nes troi'n goch ei ddeufin;
Gwirionedd ar y grawnwin
Nes syrthio'n feddw. – Gweddw yw'r gwin.[54]

Yn achos ei feirniadaeth ar gerdd Haydn Lewis yn eisteddfod 1961, yr oedd Bowen yn 'ei chlywed hi'n anodd derbyn dehongliad Y Creÿr Glas o bererindod Dylan Thomas',[55] ond dywedodd na fyddai'n 'gosod hyn yn ei erbyn oherwydd credu fod gan fardd hawl i ddehongli ei destun yn unol â'i weledigaeth ei hun.'[56] Diddorol hefyd yw beirniadaeth J. M. Edwards, a ymatebodd i bryddest Haydn Lewis fel a ganlyn:

> Cerdd deyrnged gyfoethog a chlodforus i fywyd a gwaith ffoadur mwyaf ein llenyddiaeth. Dilynir hynt Dylan Thomas o'i fachgendod pengrych ar lwybrau ei fföedigaeth o afaelion confensiynau cymdeithas, bygythion amser a marwoldeb, trwy huodledd a miri'r dafarn tua dinas noddfa bohemia'i gelfyddyd, nes cyrraedd ohono yn y diwedd ei ddihangfa anorfod ym mreichiau'r arch-elyn ei hunan.[57]

Y mae sylwadau'r tri beirniaid yn taflu goleuni ar agweddau'r Cymry Cymraeg tuag at Dylan Thomas yn ystod gyrfa gynnar T. James Jones. Tra mae beirniadaeth T. H. Parry-Williams yn dangos bod llawer o Gymry yn gondemniol o Dylan y gŵr afradlon, y mae beirniadaeth Euros Bowen yn cyflwyno safbwynt inni o'r pegwn arall sy'n dangos bod yna Gymry Cymraeg, fel Bowen ei hun, a oedd yn ymddiddori'n ddeallus ac yn ymhyfrydu'n ddarllengar yn Dylan y bardd. At hynny, gwêl M. Wynn Thomas feirniadaeth J. M. Edwards fel 'enghraifft ogleisiol o ddull cyfrwys y capel o ddial ar Dylan, drwy esgus cydymdeimlo ag ef tra'n gwneud i gwrs ei fywyd ymdebygu i ystumiad o *Daith y Pererin*!'[58] Fe dâl inni gyfeirio hefyd at sylwadau Haydn Lewis ynghylch ymateb y Cymry i'w bryddest:

> Yn Eisteddfod y Rhos, neu Dyffryn Maelor – maddeuer y gair ychwanegol hwn – gofynnwyd i mi fwy nag unwaith paham y dewisais Dylan Thomas – yn rhagor dweder na Phantycelyn, Goronwy Owen neu Islwyn, neu rhyw [sic] Gymro arall o'u bath (os oes) – yn ddelwedd a ffigwr, neu thema, y 'Ffoadur'.[59]

---

[53] Ibid, t. 49.
[54] Euros Bowen, *Cerddi* (Lerpwl, 1957), t. 129.
[55] Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*, t. 49.
[56] Ibid.
[57] Ibid., tt. 38–9.
[58] Thomas, 'Dylanwadau', t. 25.
[59] L. Haydn Lewis, 'Dylan Thomas a'i Feirniaid', *Y Traethodydd*, Cyf. XXXI (1963), tt. 86–7.

Tystia ymateb o'r fath i'r ffaith fod llawer o Gymry Cymraeg yn ddrwgdybus o'r bardd, ac o lenyddiaeth Eingl-Gymreig yn gyffredinol. Yng ngoleuni'r ymateb cymysg a gafodd pryddest Haydn Lewis yn 1961, gellir dychmygu y byddai penderfyniad T. James Jones, bardd Cymraeg â'i fryd ar y weinidogaeth, i goffáu Dylan Thomas yn 1957, '[b]ardd nad oedd ar y pryd yn barchus ymhlith capelwyr' chwedl yntau,[60] a hynny hefyd mewn cystadlaethau eisteddfodol, yn syndod i lawer o Gymry Cymraeg y cyfnod.

Mewn cyfweliad â'r awdur presennol, cyfaddefodd Jones fod Seisnigrwydd honedig Dylan Thomas wedi ei ddallu, ar y dechrau, rhag gwerthfawrogi mor Gymreig ydoedd pan aeth rhagddo i ysgrifennu'r cerddi coffa iddo:

> Cerdd i Dylan Thomas oedd hi ['Llwch' oedd y teitl yng nghystadleuaeth Eisteddfod y Colegau, Abertawe yn 1957, ac fe'i hailenwyd yn 'Dylan' yn ddiweddarach], a 'wy wedi'i chyhoeddi hi yn *Adnodau*. Cerdd gynnar iawn oedd hi. Wnes i ei chyhoeddi hi hefyd yn y fersiwn gyntaf o *Dan y Wenallt*, a 'wy wedi newid fy meddwl erbyn hyn ar ôl gwneud mwy a mwy o ymchwil... 'Wy'n dweud yn y gerdd honno nad oedd Dylan yn gofidio am y Gymraeg ond 'wy ddim yn credu bod hynny'n wir erbyn hyn. Roedd e'n fwy o Gymro Cymraeg nag o'n i'n ei feddwl oedd e.[61]

Gan adleisio agoriad adnabyddus *Dan y Wenallt,* dyma ddechrau yn y dechrau'n deg, felly, gydag astudiaeth destunol fanwl ar y cerddi Cymraeg a Saesneg a gyfansoddodd T. James Jones ar gyfer eisteddfodau Abertawe a Merthyr Tudful yn 1957. Gan nad oes gan Jones gopïau o'r cerddi gwreiddiol a anfonodd i'r eisteddfodau hyn, rhaid bodloni ar ddefnyddio'r fersiwn Cymraeg a gyhoeddwyd yn *Dan y Wenallt* (1968), 'I Dylan', a'r fersiwn Saesneg a gyhoeddwyd yn *A Garland for Dylan Thomas* (1963), 'Dylan', yn yr ymdriniaeth hon. Darllenodd Jones y gerdd goffa Saesneg yng Ngŵyl Talacharn yn 1961, ac fe'i cyhoeddwyd yn llawn hefyd gan Min Lewis yn ei chyfrol *Laugharne and Dylan Thomas* yn 1967. Noda Lewis yn y gyfrol hon nad oedd trigolion Talacharn yn frwdfrydig iawn bod *Under Milk Wood* yn cael ei pherfformio eto yn y dref –'but they accepted the plan with resignation. [...] This time, Jim Jones, who had been the First Narrator in the Llaregyb Players' first production, wrote the tribute to Dylan Thomas.'[62] Byddir yn trafod y ddwy gerdd ar y cyd er mwyn arddangos rhai o ddulliau a strategaethau cyfieithu'r bardd. Dylid nodi hefyd fod Jon Dressel wedi llunio cyfieithiad Saesneg o'r gerdd goffa Gymraeg 'I Dylan' a gyhoeddwyd gan Jones ar ddechrau ei argraffiad cyntaf o *Dan y Wenallt*. Cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg Dressel yn *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry* (2003), y flodeugerdd hon o gyfieithiadau o

[60] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 54.
[61] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 18 Hydref 2016.
[62] Min Lewis, *Laugharne and Dylan Thomas* (London, 1967), t. 75.

farddoniaeth Gymraeg yr ugeinfed ganrif. Dywedodd Dressel wrth yr awdur presennol nad oedd yn ymwybodol fod fersiwn Saesneg o 'Llwch'/'I Dylan' eisoes yn bodoli pan aeth ati i'w chyfieithu. Fel y nodir yn y gyfrol *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm*, ar ôl trosi *Under Milk Wood* i'r Gymraeg, datblygodd awydd T. James Jones 'i gyfieithu ac i osod y ddwy iaith ochr yn ochr droeon, yn arbennig yn ei berthynas â'r bardd o America, Jon Dressel.'[63] Gan fod Dressel felly wedi bod yn rhan mor bwysig o yrfa farddol T. James Jones, yn enwedig o ran ei ddiddordeb mewn cyfieithu ac addasu llenyddiaeth, byddir yn cymharu cyfieithiadau'r ddau fardd yn yr ymdriniaeth hon lle y mae hynny'n berthnasol i'r drafodaeth ar strategaethau cyfieithu. Diddorol hefyd fydd gweld pa elfennau a hepgorwyd neu a gadwyd gan y ddau wrth gyfieithu'r gerdd Gymraeg wreiddiol i'r Saesneg.

Marwnadau i Dylan Thomas yw 'I Dylan' sef, fel y gwelsom, gerdd Eisteddfod y Colegau Abertawe – 'Llwch' – a 'Dylan' (cerdd arobryn Eisteddfod Merthyr Tudful a gyflwynwyd dan y teitl 'Dust to Dust'). Ymetyb T. James Jones yn y cerddi hyn i agweddau ar gymeriad Dylan Thomas a anfarwolwyd yn y dychymyg cyhoeddus, megis ei ddawn dweud a'i hoffter o ddiota a mercheta. Er bod Jones yn ei golbio am ei bechodau – gan gynnwys ei ddihidrwydd tuag at y Gymraeg – fe'n hatgoffir ganddo nad peint yn unig oedd gan Dylan Thomas yn ei law, ond ysgrifbin hefyd, drwy gydnabod ei grefft arbennig fel bardd. Egyr y ddwy gerdd fel ei gilydd â chyfeiriadau at ieuenctid y bardd (bu farw yn 39 mlwydd oed) a'i asbri bachgennaidd (yr egni byrlymus hwnnw a ddarluniodd Thomas ei hun mor drawiadol yn ei gerdd 'The force that through the green fuse drives the flower'). Craffer i ddechrau ar linellau agoriadol y gerdd Gymraeg wreiddiol:

> Brasgamodd yn ifanc i erw henaint
> cyn i geiliog rhedyn ddisgyn ar ei war,
> heb weld galarwyr yn loetran yn yr heol
> na'r chwantau'n pallu dan ei groen.[64]

Y mae'r ymadrodd 'erw henaint' yn dwyn i gof yr ymadrodd 'erw Duw', yr enw arall am fynwent ac felly'n miniogi ergyd y cyferbyniad rhwng ieuenctid Dylan Thomas a henaint tybiedig y rhai a gladdwyd yn y fynwent. Diddorol yw sylwi nad yw T. James Jones yn cyfeirio mewn modd mor echblyg at ieuenctid a henaint yn llinell gyntaf y cyfieithiad Saesneg:

> He came early to his long home
> without feeling the grasshopper's burden

[63] Llwyd a Dafydd (goln), *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm*, t. 137.
[64] T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 1968), t. 8.

nor seeing the mourners going about in the streets.[65]

Yn ogystal, o gymharu cyfieithiad T. James Jones o'i gerdd ei hun â chyfieithiad Jon Dressel, gwelir bod yr ail yn fwy ffyddlon i'r testun gwreiddiol na throsiad Jones:

> He strode young into the landscape of old age,
> the locust not yet come to weight on his shoulders,
> innocent of mourners loitering in the road.[66]

Serch hynny, ceir adlais Dylannaidd cryf yng nghyfieithiad T. James Jones sy'n teilyngu sylw manwl. Trosiad am fedd neu fynwent yw 'long home' yn y llinell gyntaf,[67] sy'n dwyn i gof sawl delwedd gan Dylan Thomas ei hun, megis 'long grave for the last spring's skeleton'o'i stori fer 'The Orchards',[68] er enghraifft, ynghyd â'r llinellau 'Deep with the first dead lies London's daughter, / Robed in the long friends' o'r gerdd 'A Refusal to Mourn the Death, by Fire, of a Child in London'.[69] Fel y dywed Walford Davies: 'The "long friends" [...] evokes, all at once, people long since dead and the roots and worms in the earth'.[70] Gellir cynnig bod disgrifiad T. James Jones o'r 'long home' – trosiad am orweddle terfynol a thragwyddol y bardd – yn nodweddiadol o arddull Dylan Thomas ei hun. Dichon hefyd fod llinellau T. James Jones 'a rare child paddling in the tributaries of the morning / until Death took his hand like a finicky father / and dragged him home'[71] yn amneidiad at arddull Thomas. Yn ei dro, y mae'r darlun o Angau yn cydio yn llaw'r bardd yn dwyn i gof y llinellau 'time would take me / Up to the swallow thronged loft by the shadow of my hand'yn 'Fern Hill'.[72] Yn ogystal, y mae'r disgrifiad hwnnw o Angau fel 'finicky father'[73] yn consurio darlun o dad ffyslyd ac anodd ei blesio sydd, o bosibl, yn dwyn i gof gymeriad D. J. Thomas tad Dylan, a'i berthynas â'i fab. Nid amherthnasol yn y cyswllt hwn yw'r hyn a ddywedodd Caitlin Thomas, gwraig Dylan, am D. J. Thomas (sylwer ar ei defnydd o'r gair 'finicky'):

> that most unhappy of all men I have ever met; who did all the spade work of casting off the humble beginnings, bettering himself, assiduously cultivating the arts; and finished up a miserable finicky failure; while passing on to Dylan, on a heaped plate, the fruits of all his years of unrewarding labour.[74]

---

[65] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[66] Menna Elfyn a John Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry: 20th-century Welsh-language poetry in translation* (Tarset, 2003), t. 245.
[67] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[68] Walford Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories* (London, 1983), t. 45.
[69] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953* (London, 1989), t. 86.
[70] Walford Davies, *Dylan Thomas* (Milton Keynes, 1986), t. 69.
[71] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[72] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 135.
[73] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[74] Dyfynnir yn John Ackerman, *Dylan Thomas: His Life and Work* (London, 1996), t. 25.

Ni ellir wrth ddarllen cyfieithiad Jon Dressel ychwaith beidio â meddwl am gymeriad difrifddwys D. J. Thomas: 'Death clasped him by the hand, / and like a solemn father, had him home'.[75] Fel y dywed Kate Crockett: 'Dyn sych a syber oedd D. J.'[76] Yr oedd yn athro llym iawn ac, yn ôl Crockett, y 'mae mwy nag un wedi sôn fod ar y disgyblion – a'r athrawon eraill – ei ofn.'[77] Diddorol yw nodi bod Angau yn gymeriad mwy ymyrgar yn y gerdd wreiddiol: 'nes i Angau gydio yn ei law, / fel tad busneslyd, a'i lusgo adref'.[78]

Cyn symud ymlaen at yr ail bennill, fe dâl inni roi sylw hefyd i'r llinell 'na'r chwantau'n pallu dan ei groen' yn y pennill cyntaf.[79] Y mae elfen gnawdol, rywiol i'r gair 'chwantau' a ategir gan y gyfeiriadaeth at 'ei groen'. Fe'i cyfieithwyd gan Jon Dressel fel 'the withering of flesh's desire',[80] ond fe'i hepgorwyd yn llwyr gan T. James Jones yn ei gyfieithiad yntau. Y mae egni rhywiol, wrth gwrs, yn hydreiddio nifer o gerddi Thomas, megis 'My hero bares his nerves', 'The force that through the green fuse drives the flower' ac 'If I were tickled by the rub of love', i enwi rhai ohonynt. Yn sicr, nid oedd ei ymdriniaethau â rhyw a'i fyw afradlon wrth fodd bawb yn y Gymru Gymraeg, gapelyddol. Priodol yw cyfeirio yma at nofel Marcel Williams, *Diawl y Wenallt*.[81] Ceir yn y gwaith hwn hanes pentrefwyr Cwmsylen, capelwyr syber a gasâi Dylan Thomas a'i holl bechodau honedig ar y dechrau, ond y mae rhai ohonynt, erbyn diwedd y nofel, yn gymeriadau nwydwyllt sy'n addoli'r bardd. Egyr y nofel â seremoni dadorchuddio plac swyddogol ar fwthyn un o'r cymeriadau, Miss Protheroe, i ddathlu digwyddiad gwbl ddinod: 'Dylan Thomas slept in this cottage, on March 10th 1953, on his way back to the Boat House in Laugharne.'[82] Cawn wybod fod Miss Protheroe wedi gosod plac answyddogol islaw'r plac hwn yn disgrifio'r bardd fel 'Tipsy, spineless and sponging he was as usual, a glib, garrulous old goat, all booze and belly and belching ignorance of everything truly Welsh.'[83] Yn ddiweddarach yn y nofel, y mae ymddygiad rhai o'r pentrefwyr yn newid ar ôl cymryd rhan mewn cynhyrchiad dramatig a ysbrydolwyd gan fywyd a gwaith Dylan Thomas, *Beyond Milk Wood*. Fel y gwelwn yn y dyfyniad isod, awgrymir bod dylanwad y bardd hwn yn llygru'r pentrefwyr ac yn peri iddynt ymddwyn yn anfoesol:

---

[75] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.
[76] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 47.
[77] Ibid.
[78] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.
[79] Ibid.
[80] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.
[81] Marcel Williams, *Diawl y Wenallt* (Talybont, 1990).
[82] Ibid., t. 5.
[83] Ibid., t. 6.

> Mae'n rhaid eich bod chi wedi sylwi ar y newidiade yn agwedd a chymeriad y pentrefwyr. Cymrwch Miss Protheroe fel enghraifft; nid y Miss Protheroe roeddwn *i* yn ei hadnabod yw hi bellach. Mae ei hymddygiad ar y llwyfan yn gwaethygu gyda phob perfformiad. Mae'n ymddwyn fel putain. [...] A'r ffordd y mae'n cau ei llygaid wrth ichi ddreflan barddoniaeth Dylan drosti – doedd hi ddim yn arfer cau ei llygaid yn y perfformiadau cyntaf. Yn wir, fe gadwai hwy'n agored er mwyn rhythu'n gas arnoch chi. Ond erbyn hyn mae'r ddwy lygad ar gau a'r amrannau crynedig yn wahoddiad i'ch dwylo chi grwydro i'r eitha...[84]

Gan ddyfynnu o gerdd Dylan Thomas 'If I were tickled by the rub of love', efe sydd fel petai'n deffro'r 'devil in the loin'[85] yng Nghwmsylen yn y nofel fwrlésg hon. Gellir cynnig yn y cyswllt hwn fod y cyfeiriad at chwantau'r bardd yng ngherdd T. James Jones yn gyfeiriad at ei ddrwgenwogrwydd fel merchetwr. Ar yr olwg gyntaf, y mae'r cyfeiriad at chwantau'r bardd yn anghydnaws â'r darlun o ddiniweidrwydd plentyn a geir ar ddechrau'r pennill, ond gellir dadlau hefyd fod y gwrthgyferbyniad rhwng byd y plentyn a byd yr oedolyn yn y pennill hwn yn crisialu'r paradocs sy'n rhedeg drwy waith Dylan Thomas, sef yr hyn a ddisgrifiwyd gan Walford Davies fel 'the paradoxic fusion of innocence and experience'.[86]

Y mae'n werth cyfeirio yn y cyswllt hwn at y llinellau 'un yn cofio'r awr y rhoddodd iddi epil sugno / a hithau'n herio ei chamweddau'[87] ym mhennill olaf ond un cerdd T. James Jones. Y mae'n debyg mai Caitlin Thomas, gwraig y bardd, sydd dan sylw T. James Jones yma. Megis y gair 'chwantau' yn y pennill cyntaf, y mae 'camweddau' hefyd yn cyfleu anfoesoldeb a gellir tybio y byddai Cymry Cymraeg a rannai'r un cefndir diwylliannol a chrefyddol â T. James Jones yn synhwyro'n gryf y feirniadaeth foesol yn ei ddefnydd o'r geiriau hyn yng nghyd-destun bywydau bohemaidd, hedonistaidd y bardd a'i wraig. Diddorol yw sylwi, fodd bynnag, nad yw T. James Jones yn cyfeirio at 'chwantau' Dylan na 'chamweddau' Caitlin yn ei gyfieithiad Saesneg. Fel y nodwyd, cyhoeddwyd ei gyfieithiad mewn cyfrol deyrnged swyddogol i Dylan Thomas. Dichon ei fod wedi hepgor y cyfeiriadau at 'chwantau' a 'chamweddau' o'i gyfieithiad am nad oedd yn teimlo bod beirniadaeth o'r fath yn briodol mewn cyfrol deyrnged – neu tybed a ellid awgrymu bod y bardd efallai'n teimlo y byddai cyfeiriadau o'r fath yn cael eu gweld gan gynulleidfa ehangach fel rhai rhy biwritanaidd?

Ceir portread byw iawn yn ail bennill y gerdd Gymraeg wreiddiol a chyfieithiad Jones ohoni o Dylan lled-chwedlonol y dychymyg cyhoeddus – y bardd roc-a-rôl â pheint yn ei law a staeniau cwrw ar hyd ei ddillad. Gresyna T. James Jones yn y gerdd Gymraeg na 'welwn

---

[84] Ibid., t. 130.
[85] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 15.
[86] Davies, *Dylan Thomas*, t. 26.
[87] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 9.

eto'r hiwmor yn y dillad meddw / na chlywed awch y llais yn naddu'r gair'.[88] Er mor ddiurddas yw'r darlun o'r bardd yn ei ddillad meddw, y mae'r cyfeiriadau at ei hiwmor a'i grefft fel bardd fel petaent yn lliniaru'r awgrym o feirniadaeth ynghylch ei ddiota. (Sylwer hefyd fod T. James Jones yn personoli dillad y bardd mewn dull Dylannaidd iawn drwy drawsosod yr epithet.) Er bod manylion lliwgar bywyd byr Thomas yn cael sylw yn y llinellau hyn, y mae Jones hefyd yn cydnabod ei grefft yn y llinell 'na chlywed awch y llais yn naddu'r gair'.[89] Yn wir, ni ellir wrth ddarllen y llinell hon beidio â meddwl am linellau cofiadwy Thomas 'this monumental / Argument of the hewn voice' o'i gerdd 'After the Funeral'[90] sy'n cyffelybu'r broses o greu barddoniaeth i'r llafurwaith o naddu cerflun. Yn ôl Damian Walford Davies:

> Un feirniadaeth gynnar ar farddoniaeth Dylan Thomas oedd ei bod yn llifo'n rhy hawdd, yn rhy awtomatig. [...] Fel y dywedodd Dylan ei hun, dydyn nhw ddim yn llifo. Mae'r cerddi yma wedi'u naddu allan o graig.[91]

Ynghyd, felly, â chrisialu hynodrwydd llais Dylan Thomas – a fabwysiadodd acen Saesneg 'cut-glass' gyfoethog mewn gwersi llafareg[92] – y mae 'naddu' hefyd yn cyfleu mor llafurus oedd y grefft o farddoni i Dylan – yr hyn a ddisgrifir gan Walford Davies fel 'Thomas's workmanlike concern with the craft of poetry'.[93] Ond gellir dadlau nad yw T. James Jones yn llwyddo i gyfleu 'the laboriousness of his chiselling craft'[94] (term Walford Davies eto) yn ei gyfieithiad o'r gerdd, lle y gollyngir y ddelwedd o naddu: 'We shall not see again the humour in the drunken clothes / nor feel his voice creating word after word / like the sound of a sea lurching on the rocks.'[95] Llwydda Jon Dressel, ar y llaw arall, i gyfleu ymroddiad Dylan Thomas i'w grefft drwy'r manylyn hollbwysig hwnnw, 'naddu' – 'hew': 'We will not see the humour / in the drunken clothes again, / or hear the keen voice hew the word'.[96]

Fel y gwelwn, proses sy'n pendilio rhwng camp a rhemp yw cyfieithu barddoniaeth. Er i T. James Jones golli'r cyfle i atgynhyrchu'r ddelwedd arbennig o'r bardd yn 'naddu'r gair' yn ei gyfieithiad, gellir cynnig bod ei drosiad o'r llinellau nesaf yn gwneud iawn am y golled hon. Cymharer y llinell 'ac nid erys ond cusanau'r atgof',[97] er enghraifft, â'r cyfieithiad 'and

---

[88] Ibid., t. 8.
[89] Ibid., t. 8.
[90] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 74.
[91] Rhaglen *Thomas v Thomas: Brwydr y Beirdd*, Cwmni Da, S4C, 26 Hydref 2014.
[92] Davies, *Dylan Thomas*, t. 7.
[93] Ibid., t. 73.
[94] Ibid., t. 66.
[95] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[96] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.
[97] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.

nothing remains but the harsh kissing of memories'.[98] Yn sicr, penderfyniad da oedd ychwanegu'r ansoddair 'harsh' at y cyfieithiad i gyfleu'r paradocs mai cysur digysur yw atgofion mewn galar. Mewn modd tebyg, ychwanegodd Jon Dressel yr ansoddair 'cold' at ei gyfieithiad yntau i galedu'r ddelwedd feddal wreiddiol o gusanau'r atgof: 'and only the cold kissings of the memory remain.'[99]

Aflonyddol yw disgrifiadau T. James Jones o gorff o bardd yn ei fedd fel 'adladd esgyrn'[100] ac 'aftermath of bones'[101] yn y pennill hwn: 'Mae croesbren fach yn gwreiddio ar adladd esgyrn',[102] ac 'A clean cross sprouts on the aftermath of bones'.[103] Gellir dehongli'r ddelwedd o'r groesbren yn egino ac yn tyfu ar 'adladd esgyrn' fel symbol eironig o ddiddordeb cynyddol y cyhoedd ym mywyd a gwaith Dylan Thomas ar ôl iddo farw. Yn dilyn ei farwolaeth annhymig, tyfodd y myth amdano ac fe'i hanfarwolwyd fel athrylith bohemaidd y byd llenyddol. Ym marn Pennar Davies, ffigwr cwlt – a mân fardd – oedd Dylan Thomas. Fe'i disgrifiwyd ganddo fel '[a] gifted entertainer, a phenomenon in the history of twentieth-century publicity, and an interesting minor poet.'[104] Cyfeiria T. James Jones at statws cwltaidd y bardd ym mhennill olaf ond un y gerdd Gymraeg drwy ei ddisgrifio yn ei fedd yn gwenu'n 'falch ar dwr o bererinion / fel Duw yn gwenu ar weddïau'r saint yn Salem ar nos Lun.'[105] Â Jones rhagddo yn y pennill hwn i ddisgrifio'r galarwyr yn y fynwent fel dilynwyr defosiynol: 'Ac yn eu plith, bydd rhai o'i ddeiliaid yn gwyro wrth y / groesbren'.[106] Er mai cyfeiriad at y groesbren wen ar fedd Dylan Thomas sydd yma, fe'n hatgoffir hefyd, wrth reswm, o groesbren Crist. Ac y mae'n werth cyfeirio'n fyr yma at yr olygfa ffarsaidd, gofiadwy yn nofel Marcel Williams, *Diawl y Wenallt*, lle dadorchuddir llun newydd gan Dafydd Pughe, y gweinidog, yng nghapel Cwmsylen. Peintia Dafydd Pughe lun newydd o Dylan Thomas, sy'n cael ei ddarlunio'n cael ei groeshoelio fel Crist, a hynny fel gweithred ddefosiynol i unioni'r cam a gafodd gan Gymry Cymraeg y pentref:

> Ar draws gwaelod y darlun, roedd y geiriau:
>
> 'MADDAU IDDYNT, CANYS NI WYDDANT
> PA BETH Y MAENT YN EI WNEUTHUR.' [...]

---

[98] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[99] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.
[100] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.
[101] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[102] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.
[103] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[104] Thomas, 'Dylanwadau', t. 21.
[105] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 9.
[106] Ibid.

> Croeshoeliwyd ef gan Gwmsylen, ond fe neidiodd yn ôl i gipio'n calonnau a'n hannog i fyw bywyd llawnach a chyfoethocach nag a gawsom erioed. Cawsom ein haileni; a'r tro hwn, diolch i'r gwalch o waredwr yma, ni wastraffwn ein cyfle.[107]

Fel y dywed M. Wynn Thomas: 'Nid arwr yn unig yw Dylan Thomas yn y llun hwn, ond Gwaredwr, oherwydd fe'i dangosir yn cael ei groeshoelio ac yn galw ar Dduw i faddau i'r pentrefwyr creulon, dall.'[108] Cyff gwawd yw'r bardd-addolwyr yn y nofel hon, fel y gwelwn mewn pregeth gan Dafydd Pughe cyn ei dröedigaeth Ddylannaidd:

> Mae 'na sawl beirniaid llenyddol – rhai ohonynt yn Gymry Cymraeg, gwaetha'r modd – wedi darganfod yng ngwaith Dylan Thomas ryw ddyheu cyfriniol am Dduw. Does neb yn haws eu twyllo nag ysgolheigion! Roedd yn hen bryd i amddiffynnwr swyddogol y Ffydd fel finne i siarad yn blaen, a dilorni a difrïo'r bardd yn gyhoeddus – a'i daflu allan![109]

Gellir synhwyro elfen o goegni hefyd yn nisgrifiadau T. James Jones o alarwyr y bardd yn y gerdd goffa Gymraeg. Yn y cyswllt hwn, diddorol yw nodi nad yw Jones yn cyfeirio mor esblyg at statws cwltaidd y bardd yn ei gyfieithiad Saesneg. Nid gormodiaeth fyddai dweud bod y byd llenyddol Eingl-Americanaidd wedi creu eicon o Dylan Thomas, ac o gofio, felly, fod cyfieithiad T. James Jones yn ymddangos mewn cyfrol deyrnged Eingl-Americanaidd, tybed a fu iddo ymatal rhag cyfieithu'r disgrifiadau o edmygwyr y bardd fel 'pererinion' a 'deiliaid' rhag ofn i'r darllenwyr ddehongli hynny fel beirniadaeth?

Egyr y trydydd pennill Cymraeg â chyfeiriad at un o gerddi enwocaf Dylan Thomas, 'The Hunchback in the Park': 'Cofiwn iddo foli'r castiau yng Nghwmdoncin / a phoeni'r Cefngrwm yn y Parc'.[110] Yn yr un modd, egyr y pennill Saesneg â chyfeiriad at ei 'song of mischief in Cwmdonkin, / teasing the Hunchback in his kennel in the Park.'[111] Disgrifir yn y gerdd 'The Hunchback in the Park' brofiad un a wthiwyd i'r cyrion oherwydd ei fod yn wahanol neu'n amherffaith yng ngolwg y gymdeithas. Crynhoa T. James Jones y dirmyg a'r driniaeth annynol a ddioddefa'r Cefngrwm gan y gymdeithas yn ei gyfieithiad drwy adleisio llinellau clo'r gerdd:

> And the wild boys innocent as strawberries
> Had followed the hunchback
> To his kennel in the dark.[112]

---

[107] Williams, *Diawl y Wenallt*, t. 149.
[108] Thomas, 'Dylanwadau', t. 18.
[109] Williams, *Diawl y Wenallt*, t. 36.
[110] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.
[111] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[112] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 94.

Er bod T. James Jones yn cyfeirio at 'The Hunchback in the Park' yn y ddwy gerdd fel ei gilydd, diddorol yw sylwi ei fod yn cyfeirio at y stori fer 'A Visit to Grandpa's' yn y pennill Cymraeg ('codi'r glicied ar freuddwyd ei dad-cu / a hwnnw'n gyrru i'w wallgofdy'[113]) ac yn cyfeirio at stori fer wahanol, sef 'The Horse's Ha', yn y pennill Saesneg ('or cursing God for watching the sparrows fall'[114]). Fel y gwelir yn nes ymlaen yn y traethawd hwn, aeth T. James Jones rhagddo yn ddiweddarach yn ei yrfa i gyfieithu 'The Hunchback in the Park' ('Y Crwca yn y Parc') ac 'A Visit to Grandpa's' ('Ymweld â Da-cu'). Byddir yn trafod ei fersiynau Cymraeg o'r testunau hyn maes o law mewn penodau ar gyfieithu barddoniaeth a rhyddiaith Dylan Thomas.

Ni chyfieithodd T. James Jones dair llinell olaf trydydd pennill y gerdd Gymraeg:

> A chofiwn iddo grwydro'r cyfandiroedd i werthu ei athrylith,
> nes dychwel unwaith â medalau-aur addolwyr
> yn hoelion i'w elor.[115]

Haera Jones yn y llinellau hyn y bu i Dylan Thomas ddiraddio ei grefft drwy wastraffu ei ddoniau yn yr Unol Daleithiau ac ymgolli yn y syrcas o gyhoeddusrwydd a ddisgwyliai yno. Fel y noda Andrew Lycett:

> He has often been scorned in his homeland for seeking acclaim and financial reward in the world of English letters, rather than accepting his responsibilities for forging a vibrant Welsh culture.[116]

Pan oedd yr esgid ariannol yn gwasgu'n dynn arno, yr oedd yr Unol Daleithiau fel petai'n cynnig ateb iddo. Cyflea T. James Jones hyn yn ei ddefnydd o'r gair 'gwerthu'. Yn ôl Kate Crockett, '[r]oedd arian yn broblem barhaus, ond un ateb posib fu'n cyniwair yn ei feddwl oedd teithio i'r Unol Daleithiau.'[117] Y mae'r disgrifiad ohono yn gwerthu ei athrylith i'w addolwyr hefyd yn dwyn i gof farn Pennar Davies am berthynas Dylan Thomas â'r Americanwyr. Yng ngeiriau M. Wynn Thomas:

> flwyddyn ar ôl i Dylan farw, fe gyffrôdd Pennar y dyfroedd yn arw pan gyhoeddodd ysgrif yn *Dock Leaves* yn awgrymu mai dim ond Iancs dwl, di-chwaeth a fedrai ffoli'n llwyr ar Dylan, a chredu ei fod e'n Gymro glân, gloyw. Dwli, meddai Pennar. Ffigwr cwlt oedd Dylan.[118]

---

[113] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.
[114] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[115] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.
[116] Andrew Lycett, *Dylan Thomas: A New Life* (London, 2003), t. 1.
[117] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 102.
[118] Thomas, 'Dylanwadau', t. 21.

Bu farw Dylan Thomas yn Efrog Newydd ar 9 Tachwedd 1953. Yr oedd eisoes yn wael pan gyrhaeddodd America am y tro olaf ond y mae'n bur debyg fod straen yr ymweliad wedi ei drethu'n sylweddol. Fel y dywed Walford Davies:

> Thomas was tired and obviously ill, and the pattern of American lecture and reading tours could neither be avoided nor survived. On 9 November 1953 he died in St Vincent's Hospital in New York City.[119]

Drwy gyfeirio felly at hoelion ei elor, sy'n rhwym o'n hatgoffa o'r ymadrodd 'hoelen yn yr arch', y mae T. James Jones fel petai'n ensynio mai'r teithiau i America laddodd y bardd yn y diwedd. Yng ngoleuni hyn, hawdd yw deall pam yr ymataliodd rhag beirniadu ei deithiau trawsatlantig yn y cyfieithiad Saesneg a gyhoeddwyd yn y gyfrol deyrnged Eingl-Americanaidd. Gellir deall hefyd pam y penderfynodd Jon Dressel hepgor y pennill hwn yn ei gyfieithiad yntau. Fel Americanwr o dras Cymreig a ymfalchïai yn y cysylltiadau rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau, gellir tybio na fyddai Dressel yn cytuno â'r feirniadaeth ynghylch effeithiau dinistriol America ar Dylan Thomas.

Cyn cyhoeddi ei gyfieithiad mewn cyfrol deyrnged Eingl-Americanaidd o'r fath, buasai'n rhaid i T. James Jones ystyried pa mor gyfarwydd fyddai'r gynulleidfa darged, sef darllenwyr rhyngwladol, di-Gymraeg, â'r diwylliant Cymraeg. Fel y dywed Maria Tymoczko:

> Translation means translating cultures not languages [...] a literary translator [...] is concerned with differences not just in language (transposing word for word, mechanically), but with the same range of cultural factors that a writer must address when writing to a receiving audience composed partially or primarily of people from a different culture.[120]

Yng nghyswllt y dyfyniad hwn, cymharer pedwerydd pennill y ddwy gerdd:

> Ni phryderodd ef fod iaith yn marw'n dawel yn y fro,
> a bod i hithau ei mynwentydd a'i marwolaeth
> Ac ni welodd angau Salem trwy angladdau'r blynyddoedd.[121]

> I tarry in this cemetery of hiraeth
> not because he knew and loved his mother-tongue
> nor because he sang a selfless psalm in Salem.[122]

---

[119] Davies, *Dylan Thomas*, t. 63.
[120] Maria Tymoczko, 'Postcolonial Writing and Literary Translation', yn Susan Bassnett a Harish Trivedi, *Postcolonial Translation* (London, 1999), tt. 20–1.
[121] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.
[122] Firmage a Williams (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.

Sylwer bod T. James Jones wedi tymheru ei feirniadaeth ynghylch diffyg diddordeb Dylan Thomas yn y diwylliant capelyddol, Cymraeg yn y gerdd Saesneg. Nid yw Jon Dressel, ar y llaw arall, yn ymatal rhag beirniadu'r bardd am ei ddihidrwydd yn ei drosiad yntau:

> I do not linger in the burial-ground
> of longing because he sang the metres
> in his mother-tongue; he did not care
> that it was dying, docile as the sparrow,
> in the countryside around him, muting
> with each new stone in Bethesda's yard.[123]

Yn wahanol i T. James Jones sy'n awgrymu'n bwyllog yn ei gyfieithiad nad oedd gan Dylan Thomas fawr o feddwl o'r Gymraeg – 'Not because he knew and loved his mother-tongue'[124] – datgana Dressel yn ddiflewyn-ar-dafod nad oedd y bardd hwn yn malio dim am yr iaith: 'He did not care / that it was dying'.[125] Wrth ystyried pam na chyfieithodd T. James Jones y darlun diobaith o'r Gymraeg yn marw'n dawel yn y fro, gellid nodi na fyddai llawer o ddarllenwyr di-Gymraeg y gyfrol, *A Garland for Dylan Thomas*, yn ymwybodol o sefyllfa sosio-ieithyddol, wleidyddol Cymru Gymraeg y 1960au. Gan ddyfynnu M. Wynn Thomas, y mae'n werth gofyn y cwestiwn a ganlyn: 'How does a translator deal with a situation where the source and the target culture are out of phase with each other?'[126] Â T. James Jones i'r afael â'r sefyllfa hon yn ei gyfieithiad drwy gyffredinoli rhai o'i bwyntiau diwylliannol am ddirywiad y Gymraeg. Lle ceir cyfeiriadau penodol, emosiynol at yr iaith yn marw yn y fro ac at 'angau Salem' yn y gerdd Gymraeg, er enghraifft, sonnir yn ddigon cyffredinol yn y cyfieithiad at y ffaith nad oedd Dylan Thomas yn medru'r Gymraeg nac ychwaith yn gapelwr brwd. Y mae'n werth cyfeirio'n fyr yma at y modd y dylanwadwyd ar Dylan Thomas gan Caradoc Evans, awdur a chwipiodd Anghydffurfiaeth Gymreig yn ddidrugaredd yn ei gyfrol o straeon byrion dadleuol, *My People: Stories of the Peasantry of West Wales* (1915). Dywedodd Thomas mewn llythyr at Pamela Hansford Johnson y bu iddo gwrdd â Caradoc Evans yn Aberystwyth: 'We made a tour of the pubs in the evening, drinking to the eternal damnation of the Almighty and the soon-to be hoped for destruction of the tin Bethels.'[127] Yn sicr, ni ellir, wrth ddarllen ei sylwadau am y 'tin Bethels', beidio â sylwi ar ddefnydd symbolaidd T. James Jones o'r enw 'Salem' yn y ddau bennill, enw Beiblaidd, traddodiadol a roddwyd ar nifer fawr o gapeli yng Nghymru, wrth gwrs.

---

[123] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.
[124] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[125] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.
[126] M. Wynn Thomas, *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff, 1999), t. 117.
[127] Idem, 'Marlais', yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), t. 33.

Newidiodd Jones yr enw hwn yn 'Bethesda' yn y fersiwn a gyhoeddwyd yn *Adnodau a Cherddi Eraill*: 'Ac ni welodd angau Bethesda trwy angladdau'r blynyddoedd.'[128] Y mae 'Bethesda' yn gyfeiriad amlwg at gapel Bethesda yn *Under Milk Wood*. Gellir cynnig hefyd fod disgrifiad T. James Jones o'r 'selfless psalm in Salem'[129] (sylwn wrth fynd heibio ar y cyffyrddiad cynganeddol) yn adleisio defnydd creadigol Dylan Thomas o'r gair 'psalm' yn ei farddoniaeth ac yn amneidiad cynnil hefyd at ddylanwad ei gefndir crefyddol, Cymreig a Chymraeg, ar ei waith. Yr oedd yn hoff iawn o aruthredd y salm, fel y gwelwn o graffu ar linellau grymus o'i eiddo megis 'Argument of the hewn voice, gesture and psalm' ('After the Funeral')[130] a 'the towering dead / With their nightingales and psalms' ('In my craft or sullen art').[131] Er nad oedd yn grefyddol yn yr ystyr draddodiadol, ef ei hun a ddisgrifiodd ei gerddi 'with all their crudities, doubts, and confusions'[132] fel rhai a ysgrifennwyd ar gyfer '*the love of Man and in praise of God*, and I'd be a damn fool if they weren't.'[133] Er gwaethaf, felly, ei sylwadau ffwrdd-â-hi ynghylch Anghydffurfiaeth Gymreig, yr oedd y diwylliant a'r gymuned gapelyddol yn ddylanwad creadigol, a phellgyrhaeddol, ar ei waith.

Er bod T. James Jones fel petai'n troedio'n ofalus yn ei gyfieithiad wrth gyfeirio at ddiffyg diddordeb Dylan Thomas yn y diwylliant Cymraeg, y mae ei ddicter ynghylch Seisnigrwydd y bardd yn glir o'i ddefnydd wfftiol o'r gair 'English' yn y llinellau a ganlyn:

> He sought his bible in an English pub in English Laugharne
> playing a waiting game with words and gods.[134]

Awgrymir yn y llinellau hyn fod Dylan Thomas yn meddwi ar alcohol a geiriau. Er hyn, 'nid un a oedd wedi meddwi ar eiriau oedd Dylan',[135] chwedl Damian Walford Davies, 'ond bardd o ddifri o ran ei grefft a'i themâu.'[136] Bron na ellid dadlau o graffu ar y llinellau hyn fod T. James Jones yn fwy beirniadol o Seisnigrwydd y dafarn yn Nhalacharn na diota'r bardd. Yn groes i'r disgwyl, o bosibl, ni cheir cyfeiriad at Seisnigrwydd y dafarn na Thalacharn yn y gerdd Gymraeg. Yn hytrach, ceir disgrifiad ohono yn chwilio am 'ei feibl yn y tafarn bach'[137] ac yn dadlau 'yn seiadau'r stafell fwg gan chwarae gêm â geiriau / ac â'r duwiau a lechai yn

---

[128] T. James Jones, *Adnodau a Cherddi Eraill* (Llandysul, 1975), t. 13.
[129] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[130] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[131] Ibid., t. 106.
[132] Ackerman, *Dylan Thomas: His Life and Work*, t. 4.
[133] Ibid.
[134] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[135] Rhaglen *Thomas v Thomas: Brwydr y Beirdd*, 26 Hydref 2014.
[136] Ibid.
[137] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.

Nhalacharn.'[138] Sylwer i ddechrau ar y gynghanedd yn yr ail linell yn fan hon – un o'r enghreifftiau cynharaf o gynghanedd yng ngwaith bardd a ddaeth yn feistr ar y canu caeth.

Yng nghyswllt defnydd T. James Jones o eiriau sy'n gysylltiedig â chrefydd, megis 'seiadau' a 'duwiau', diddorol yw nodi bod Euros Bowen o'r farn bod defnydd Haydn Lewis o'r gair 'duwiau' yn ei bryddest fuddugol, 'Ffoadur', yn 'Annylanaidd'.[139] Yn ôl y disgwyl, o bosibl, ac yntau'n weinidog yr efengyl, yr oedd llawer iawn o farddoniaeth gynnar T. James Jones yn Feiblaidd iawn o ran ei harddull. Ond yn achos y cerddi coffa i Dylan Thomas, gellir dadlau hefyd ei fod yn defnyddio geiriau fel beibl, seiadau, duwiau a 'psalm', er enghraifft, er mwyn ein hatgoffa o ddylanwad y diwylliant Cymraeg, capelyddol ar waith Thomas. O gymharu'r gerdd Gymraeg wreiddiol â'r fersiwn a gyhoeddwyd yn *Adnodau a Cherddi Eraill*, gwelir bod T. James Jones wedi newid yr ansoddair 'bach' yn 'berw': 'Chwiliodd yntau am ei feibl yn y tafarn berw'.[140] Y mae'r disgrifiad o'r 'tafarn berw'[141] yn cyfleu bwrlwm tymhestlog sy'n atgyfnerthu'r ddelwedd o Dylan Thomas fel 'the wild child of Wales',[142] chwedl Tudur Hallam. Gwych hefyd yw cyfieithiad Jon Dressel o'r darlun hwn:

> He searched instead
> for scripture in the seething tavern,
> contended with the schoolmen of the smoke-filled room,
> had sport with words, and with what gods
> that lurked the corners, there in Laugharne.[143]

Er bod T. James Jones yn rhoi sylw i Seisnigrwydd Dylan Thomas yn y cerddi hyn, nid yw'n diystyru ei Gymreictod. Tra arwyddocaol yn y cyswllt hwn yw ei ddefnydd o'r gair Cymraeg 'hiraeth' yn ei gyfieithiad Saesneg: 'I tarry in this cemetery of hiraeth'.[144] Honnir yn gyffredin wrth gwrs nad oes yr un gair Saesneg sy'n cyfateb yn union i 'hiraeth'. Cyfieithwyd y gair hwn gan Jon Dressel fel 'longing' – 'I linger in the burial-ground of longing'[145] – ond byddai rhai'n dadlau nad yw 'longing' yn cyfleu'r un ymdeimlad o alar a thristwch â 'hiraeth'. Drwy ddefnyddio'r gair 'hiraeth' yn ei gyfieithiad, y mae T. James Jones fel petai'n manteisio ar yr honiad fod 'hiraeth' yn gysyniad amhosibl ei gyfieithu i'r Saesneg er mwyn awgrymu bod Dylan Thomas, er gwaethaf ei Seisnigrwydd, yn rhan o'r diwylliant Cymreig a Chymraeg.

---

[138] Ibid.
[139] Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*, t. 49.
[140] Jones, *Adnodau a Cherddi Eraill*, t. 65.
[141] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 8.
[142] Hallam, '"Curse, bless, me now": Dylan Thomas and Saunders Lewis', t. 217.
[143] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.
[144] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[145] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.

Dyma enghraifft o'r dechneg a elwir gan Menna Machreth Jones yn 'glosio ieithyddol', sef defnyddio geiriau Cymraeg mewn cerddi Saesneg – techneg 'a ddefnyddir yn aml er mwyn cryfhau hunaniaeth cerdd a'i chysylltiad â lleoliad arbennig'.[146] Gellir cynnig yn y cyswllt hwn fod defnydd T. James Jones o air Cymraeg mewn cerdd Saesneg, a hwnnw hefyd yn air Cymraeg sy'n mynegi teimlad neu emosiwn na ellir ei gyfieithu'n union i'r Saesneg, yn cyfleu'n gynnil arwahanrwydd ac arallrwydd Dylan Thomas, ac yn amlygu ei hunaniaeth Gymreig a Chymraeg.

Datgana T. James Jones ar ddiwedd y ddwy gerdd goffa ei fod yn talu teyrnged i Dylan Thomas 'am fod enaid bardd ymhlith y beddau / mor ffres â geni plentyn mewn hen wely';[147] 'since his soul drifts for ever above these tombs / as new and fresh as the birth of a baby in an old bed.'[148] Ni ellir wrth ddarllen y llinellau hyn beidio â meddwl am ffotograff enwog John Deakin o'r bardd yn sefyll ymhlith y beddau mewn mynwent yn Nhalacharn yn 1950. Yn ogystal, y mae'r paradocs ergydiol rhwng yr hen a'r newydd yn cryfhau'r ymdeimlad o chwithdod a deimlir o'i golli mor ifanc. Yn ôl Kate Crockett: 'Dywedodd [Dylan Thomas] y byddai'n marw'n ifanc, ac fe ddigwyddodd hynny, gan ychwanegu elfen arall at y fytholeg [...] mae'r chwedl yma i aros.'[149] Ar ôl cyflwyno darlun o Dylan Thomas fel deryn drycin di-Gymraeg a gwrth-Gymreig yn y penillion blaenorol, cydnebydd T. James Jones ar ddiwedd y gerdd gyfraniad arbennig y bardd hwn i'r byd llenyddol. Er bod ei gorff 'mewn hen wely',[150] erys ei enaid a'i waith yn fytholwyrdd. Dylid nodi bod T. James Jones yn cloi'r fersiwn a gyhoeddwyd yn *Adnodau a Cherddi Eraill* â'r darlun paradocsaidd hwn a bod Jon Dressel hefyd yn cloi ei gyfieithiad yntau yn yr un modd: 'because a poet's soul, among the graves, / cries vibrant as a red babe in an ancient bed.'[151] Yn sicr, penderfyniad doeth oedd cloi'r fersiwn yn *Adnodau* â'r ddelwedd gofiadwy hon gan fod cerdd Gymraeg wreiddiol y bardd ynghyd â'i drosiad Saesneg yn llusgo'n ddiangen tua'r diwedd wrth i T. James Jones fynd rhagddo i ddisgrifio angladd Dylan Thomas. Er hynny, y mae'r penillion olaf hyn yn cynnwys adleisiau hynod ddiddorol o *Under Milk Wood*, sy'n dangos bod y ddrama hon wedi cydio yn ei ddychymyg yn gynnar iawn yn ei yrfa. Er enghraifft, ceir disgrifiad ym mhennill olaf y gerdd Gymraeg o Caitlin Thomas yn 'cofio'r awr y rhoddodd iddi epil sugno / a hithau'n herio ei

[146] Menna Machreth Jones, 'Wyneb yn Wyneb: Hunaniaethau Llenyddol Cymraeg a Chymreig yn erbyn Cefndir Refferenda 1979 a 1997' (traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012), t. 18.
[147] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 9.
[148] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[149] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 161.
[150] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 9.
[151] Elfyn a Rowlands (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry*, t. 245.

chamweddau'[152] – darlun sy'n ein hatgoffa, efallai, o'r portread o Polly Garter yn *Under Milk Wood.* At hyn, y mae darlun y gerdd o'r galarwyr 'yn ymlwybro hyd y llwybrau dall / i gario clecs y gwragedd o bentrefi'r byd'[153] yn dwyn i gof yr olygfa o'r merched yn clebran o amgylch y pwmp yn y ddrama; a'r disgrifiad 'yn hiraethu am gyfeillach doe ac echdoe / ei Fethesda'[154] yn awgrymu ymwybyddiaeth o gymeriad y bardd-bregethwr Eli Jenkins. A chan gyfeirio at 'Llaregybs'[155] y byd, cly Jones ei gyfieithiad â disgrifiad o'r gweinidog yn angladd y bardd – darlun sy'n dwyn i gof yr olygfa yn *Under Milk Wood* o Eli Jenkins yn sefyll ar riniog ei gartref ac yn cyfarch y dydd â'i weddi foreol:

> he hears the lament of Laugharne,
> the gossips from the Llaregybs of the world
> and from the threshold of Bethesda,
> a song and a prayer:
> 'Our Father which art in heaven
> Lead us not into temptation,
> But into that Presence and Peace
> Where death shall have no dominion.'[156]

Diwedda T. James Jones y ddwy gerdd fel ei gilydd drwy gymysgu 'a song and a prayer' yn llythrennol gyda chyfeiriad at Weddi'r Arglwydd a chyfeiriad at gerdd enwog Dylan Thomas, 'And death shall have no dominion' – cerdd am angau ac anfarwoldeb a gyfieithwyd gan Jones yn ddiweddarach yn ei yrfa.[157] Fel y dywed Jones yn y gerdd Gymraeg i Dylan Thomas:

> 'Yr Hwn wyt yn Dy nefoedd nos a dydd,
> rho inni eilwaith nodau'r byrdwn
> a'n dwg i chwilio am ddominiwn
> lle na bydd Angau'n dychwel pridd i'r pridd.'[158]

Medd M. Wynn Thomas: 'Mae sawl cenhedlaeth wedi mynd a sawl cenhedlaeth wedi dod, ers i Dylan Thomas ein gadael ni, ac eto mae e'n dal i'n cythruddo ni'r Cymry ac i'n cyfareddu ni'.[159] Prif ladmerydd y Gymraeg o ran y 'cythruddo' a'r 'cyfareddu' hynny ar hyd ei yrfa, fe ellid dadlau, fu T. James Jones, a aeth ati'n gynnar, fel y gwelwyd, i archwilio dylanwad Dylan ar y meddwl cenedlaethol Cymraeg.

---

[152] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 9.
[153] Ibid.
[154] Ibid.
[155] Firmage a Williams (goln), *A Garland for Dylan Thomas*, t. 65.
[156] Ibid, tt. 65–6.
[157] Gweler Pennod 5.
[158] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 9.
[159] Thomas, 'Dylanwadau', t. 28.

* * * *

Flwyddyn ar ôl ennill ei Goron gyntaf â'i gerdd goffa Saesneg i Dylan Thomas, enillodd T. James Jones ei Gadair gyntaf, a hynny yn Eisteddfod yr Urdd yn yr Wyddgrug yn 1958. Cafodd yr egin fardd ifanc ganmoliaeth fawr am ei ddoniau barddol. Fe'i disgrifir yn llyfryn *Cerdd y Gadair* yr Urdd fel bardd 'wrth natur ac wrth reddf, yn feistr ar y mesurau caeth ac yn arbrofwr mentrus yn y mesur rhydd.'[160] Nodir yn y llyfryn hwn hefyd ei fod wedi ennill '[l]lu o wobrau cyn hyn, ac ar ei ben nobl ef y gosodwyd Coron Eisteddfod y Colegau yng Nghaerdydd'[161] yn 1958. Serch hynny, nid oes cofnod o'r gwobrau a enillodd na chopi ar gael o gerdd fuddugol Eisteddfod y Colegau. Dywedodd T. James Jones wrth yr awdur presennol: 'Ofnaf i gerdd Caerdydd ddiflannu!'[162] Disgrifiwyd 'Y Dringwr' gan Geraint Bowen, sef beirniad cystadleuaeth Coron yr Urdd 1958, fel a ganlyn: 'Cerdd yn y mesur rhydd i'r Dringwr sydd gan "Bryn Arian". Myfyrdod ar serch yw ei bwnc.'[163] Gan na chafwyd unrhyw drafodaeth feirniadol ar y gerdd hon hyd yma, y mae'n werth oedi yn y fan hon i graffu arni. Manyla T. James Jones ar gefndir y gerdd hon yn ei lêngofiant: 'Cariad oedd thema fy ngherdd arobryn "Y Dringwr" yn 1956, ac fe'i hysbrydolwyd gan fy nyweddïad ag Eirlys, athrawes yn hanu o Dal-y-bont, Dyffryn Conwy.'[164] Croniclir ynddi brifiant yr adroddwr o'i blentyndod i'w lencyndod gan ddefnyddio'r weithred o ddringo fel trosiad estynedig i ddramateiddio cylch bywyd dyn. Yr adroddwr yw'r dringwr yn y gerdd, sydd fel petai'n esgyn o un garreg filltir arwyddocaol yn ei fywyd i'r llall – o ddringo coed i uchelfannau serch. Cawn wybod yn y gerdd nad yw treigl amser yn poeni'r adroddwr a'i gariad: 'Dringwn / i olau diamser, diderfyn y sêr.'[165] Ac eto, fe awgrymir ar y diwedd y bydd amser yn siŵr o ddatod cwlwm eu perthynas. Ceir delwedd ddiriaethol-athronyddol chwerwfelys a chofiadwy ar ddiwedd y gerdd o'r ddau gariad yn 'clymu heb ymwahanu / heb gusan ffarwel trwy ffenestr trên amser.'[166] Er eu bod yn credu bod eu cariad yn dragwyddol, awgrymir yn gryf y bydd yn eu gwahanu ryw ddiwrnod. Y mae'n werth nodi bod T. James Jones yn mynegi neges debyg yn ei bryddest fuddugol 'Llwch' (1986), ynghyd ag yn ei gerdd 'Tro Ar Fyd' a gyhoeddwyd yn *Barddas* yn 2018. Cerdd am ddau gariad yn ymweld â Thyddewi yw 'Llwch'. Cawn wybod ar ddechrau'r bryddest fod

[160]Awdur dienw yn T. James Jones, *Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Yr Wyddgrug 1958: Cerdd y Gadair* (Aberystwyth, 1958), t. 3.
[161] Ibid.
[162] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 9 Mai 2016.
[163]Awdur dienw yn Jones, *Cerdd y Gadair*, t. 2.
[164] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 59.
[165] Idem, *Cerdd y Gadair*, t. 6.
[166] Ibid.

y ddau gariad wedi mynd i Dyddewi i 'brynu amser / cyn ffarwelio â hen flwyddyn'[167] ond erbyn diwedd y gerdd sylweddolant mai 'eiliad / o nabod' yn unig y gallant ei '[ph]rynu' gan fod ''na felin i'r felin'[168] a bod angau'n anochel. Er bod y ddau gariad yn y bryddest yn llosgi eu bysedd wrth dorri eu henwau yn yr eira yn Nhyddewi – 'ti a fi am byth!' – ac yn dyheu am 'eu naddu'n y garreg',[169] y maent yn sylweddoli mai ofer yw gwneud hynny gan nad oes dim, hyd yn oed eu cariad hwythau, yn dragwyddol. Fel y dywed Emyr Davies:

> sylweddola'r bardd fod eu henwau wedi'u torri yn yr eira, neu hyd yn oed wedi'u naddu ar faen, yn siŵr o ddiflannu – 'ma' 'na felin i'r felin'. Ei ateb i hyn yw 'prynu eiliad o nabod', yr 'adnabod' Waldoaidd efallai, neu'r cysur sydd mewn perthyn i gymar a theulu.[170]

Yn wahanol i'r ddau gariad sy'n cyd-ddringo i uchelfannau serch yn 'Y Dringwr', ac yn wahanol hefyd i'r ddau gariad ar bererindod yn Nhyddewi yn 'Llwch', nid cyd-ddringo na chyd-bererindota mo hanes y llefarydd a'i wraig yn y gerdd 'Tro Ar Fyd':

> Cyd-bererindota oedd ein harfer,
> a chyd-gyrraedd.
> Nid felly erbyn hyn.
> Trodd y fogfa'r rhipyn yn fwrn
> a manteisiaf ar orffwysfa mainc
> i dy wylio'n cwblhau dy siwrne.[171]

Wrth edrych ar ei wraig yn cyrraedd y copa ac yntau'n methu ei dilyn oherwydd henaint, daw'r llefarydd wyneb yn wyneb â'r ffaith ingol hwnnw y bydd angau ryw ddiwrnod yn siŵr o'u gwahanu. Dychmyga y bydd yntau, ar gyrraedd pen ei daith, yn codi ei law fel y gwnaeth ei wraig ar y copa, ac yn ei charu â chusan 'o bell':[172]

> dychmygaf y tro ar fyd –
> tithau fel ar fainc,
> a minnau ar y rhipyn olaf,
> anorfod.[173]

Fel y dengys yr enghreifftiau hyn, y mae angau a serch yn themâu sy'n mynd law yn llaw ym marddoniaeth T. James Jones er dechrau'r yrfa. Erys themâu 'Y Dringwr' yr un mor bwysig iddo yn 2018 ag yr oeddent yn 1958.

---

[167] T. James Jones, *Eiliadau o Berthyn* (Cyhoeddiadau Barddas, 1991), t. 8.
[168] Ibid., t. 16.
[169] Ibid.
[170] Emyr Davies, *Llais Llyfrau* (Hydref 1992), t. 8.
[171] T. James Jones, 'Tro Ar Fyd', *Barddas*, 336 (Gaeaf 2018), t. 6
[172] Ibid.
[173] Ibid.

Ar ôl ennill y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 1958, ni roddodd T. James Jones gais arall ar gystadleuaeth y Gadair mewn unrhyw eisteddfod tan 1974 pan enillodd ei ail Gadair, a hynny am gyfrol o gerddi yn Eisteddfod Daleithiol Powys. Arweiniodd ei lwyddiant yn yr eisteddfod hon at gyhoeddi *Adnodau a Cherddi Eraill* yn 1975. Pan ofynnwyd i T. James Jones a fu iddo gystadlu am y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol cyn 1958 neu yn ystod y 1960au a'r 1970au, dywedodd y bardd: 'Ni cheir un cais ar gystadlu yn y blynyddoedd cynnar a nodir, ac eithrio ar y Ddrama Hir yn Rhydaman, 1970.'[174] Serch hynny, noda yn ei lêngofiant iddo gystadlu am y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol fwy nag unwaith yn ystod y 1960au a'r 1970au:

> Yn 1960 (Caerdydd) roedd 'Bryn Arian' yng nghanol yr ail ddosbarth; gosodwyd 'Enciliwr' yn y trydydd dosbarth yn 1961 (Dyffryn Maelor); yn 1962 (Llanelli) daeth 'Milwr Bach' yn nes at y brig, a'i galonogi gan neb llai na Waldo, a alwodd ei bryddest yn un 'eithaf galluog'; yn 1970 (Rhydaman) aeth 'Tudur' yn ei ôl i ganol yr ail ddosbarth; ac yn 1975 (Bro Dwyfor) roedd 'Samaned' ar waelod yr ail ddosbarth. Dyna oedd hanes fy mhrentisiaeth fel bardd eisteddfodol.[175]

O blith y pryddestau eisteddfodol cynnar hyn, cerddi 1961, 1962 a 1975 yn unig sydd wedi goroesi treigl y blynyddoedd. Cedwir y tair yn archif yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth, a llwyddwyd i gael copïau ohonynt. Dywedodd T. James Jones wrth yr awdur presennol y gallai 'esbonio diflaniad cyfansoddiadau 1960 a 70':[176]

> Mae gen i gof imi ofyn amdanynt, ond ni chofiaf pryd. Ac er chwilio ni allaf ddod o hyd iddynt! Felly mae cynnyrch Bryn Arian 1960 ar goll, ac eithrio'r pennill a ddyfynnir [hynny yw, yn y *Cyfansoddiadau*].Yr unig sylw diddorol parthed hwnnw yw ei fod mewn mesur ac odl![177]

Gan nad oes copïau ar gael o bryddestau 1960 a 1970, rhaid craffu ar sylwadau'r beirniaid er mwyn ceisio llenwi'r bylchau yn hanes prentisiaeth T. James Jones fel bardd eisteddfodol. Yn achos diflaniad 'Unigedd' (pryddest 1960), er enghraifft, teflir goleuni arni o fynd ati i edrych ar ail ganiad 'Y Cwmwl' (1962), a hynny gan fod cyfatebiaethau trawiadol rhwng sylwadau beirniaid 1960 a 1962 ynghylch y ddwy gerdd. Yn achos diflaniad pryddest 1970, 'Adnodau o Gariad', rhydd sylwadau'r beirniad ddigon o dystiolaeth inni fedru darganfod bod T. James Jones wedi cyhoeddi detholiad o'r bryddest fel cerddi unigol yn *Adnodau a Cherddi Eraill* yn 1975. Bodlonir felly ar ddefnyddio'r gyfrol hon i daflu goleuni

[174] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 3 Mawrth 2016.
[175] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 94.
[176] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 13 Ebrill 2016.
[177] Ibid.

ar y bryddest 'Adnodau o Gariad'. Er bod safon y cerddi cynnar yn amrywio'n fawr, ni ellir eu diystyru gan eu bod yn rhan annatod o ddatblygiad barddol T. James Jones. Nid amherthnasol yn y cyswllt hwn yw'r hyn a ddywed Christine James am farddoniaeth Gwenallt:

> Fel cadwyn fawr o fynyddoedd, roedd yng ngyrfa farddonol Gwenallt gopaon uchel, troedfryniau a gwastadeddau – heb sôn am ambell ddyffryn. Ond pwysigrwydd y gwastadeddau yw eu bod yn rhoi persbectif a chyd-destun i'r copaon. Ac fe ddywedir mai o'r troedfryniau y ceir yr olwg fwyaf dramatig a chyffrous ar Everest.[178]

Y mae hyn hefyd yn wir am farddoniaeth gynnar T. James Jones. Y mae'r cerddi eisteddfodol, anghyhoeddedig cynnar yn deilwng o sylw manwl yn yr un modd â'r cerddi a gyrhaeddodd y brig mewn eisteddfodau yn ddiweddarach yn ei yrfa. Yn wir, gellir olrhain tarddiadau thematig, arddulliol a syniadaethol ei farddoniaeth ddiweddar yn ôl i'r cerddi hyn. Wrth drafod ei bryddest 'Ffoadur' (1961), er enghraifft, dadlennodd T. James Jones ei fod yn defnyddio'r 'caniad cyntaf yn "Ffoadur" i gyfleu ofn marwolaeth. Methu ffoi rhag yr ofn hwnnw yw thema'r gerdd. A'r un methiant oedd ceisio cefnu ar fywyd gwledig a ffoi i'r ddinas.'[179] Aeth rhagddo i ddweud y gellir 'olrhain y thema hon mewn cerddi eraill, diweddarach – cf. *Parc Nest* [...] Mae'r llinell glo [yn 'Ffoadur'] yn cwmpasu'r cof am fagwraeth ynghyd ag ofn marw':[180]

> Ac ni chaf ildio'r fföedigaeth,
> nes fy nghludo i anghofdy'r pridd,
> lle mae'r dagrau oll yn sych.[181]

Yn ddiddorol iawn, y mae crynodeb J. M. Edwards o bryddest fuddugol Haydn Lewis am Dylan Thomas yn disgrifio pryddest T. James Jones i'r dim. Gellir aralleirio sylwadau Edwards a'u cymhwyso at bryddest T. James Jones drwy grynhoi ei gerdd fel un sy'n dilyn hynt yr adroddwr o'i blentyndod 'ar lwybrau ei fföedigaeth o afaelion [...] bygythion amser a marwoldeb'[182] tua'r ddinas a'r 'ddihangfa anorfod ym mreichiau'r arch-elyn ei hunan',[183] sef angau. Egyr y 'Ffoadur' â disgrifiad llon o hydrefau plentyndod y llefarydd pan na ddôi'r tymor hwn 'ond i ddatod y dail / a byrhau dros dro / gam y dydd yng Nghwmbach',[184] ac aiff y gerdd rhagddi i gyflwyno darlun llwm o sefyllfa bresennol y llefarydd hwn, ac yntau bellach yn

---

[178] Christine James (gol.), *Cerddi Gwenallt: Y Casgliad Cyflawn* (Llandysul, 2001), t. xlv.
[179] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 12 Mai 2016.
[180] Ibid.
[181] T. James Jones, 'Ffoadur' (1961), teipysgrif anghyhoeddedig yng nghasgliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, t. 3.
[182] Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau,* t. 39.
[183] Ibid.
[184] Jones, 'Ffoadur', t. 1.

hydref ei fywyd. Dramateiddir y broses o heneiddio drwy ddisgrifio'r hydref yn dringo i'w ystafell wely

> i grino'r gwaed
> a chrebachu'r croen
> fu gynt yn lân,
> a mysgu'r anadl o'r ffroenau eiddil.[185]

Awgrymir hefyd fod y bywyd gwledig, amaethyddol yn miniogi ei ymwybyddiaeth o'i farwoldeb gan fod y bywyd hwn yn troi o amgylch y tymhorau ac yn amlygu treigl amser. Er enghraifft, y mae'r ffoadur yn y gerdd yn ffoi i'r ddinas gan obeithio y byddai 'breuddwydion y dawnsfeydd / ar loriau llyfn y ddinas'[186] yn lleddfu ei ymwybyddiaeth boenus o dreigl amser. Yn wir, y mae treigl amser ac angau yn llinynnau cyswllt thematig amlwg rhwng 'Y Dringwr' (1958), 'Ffoadur' (1961) ac 'Y Cwmwl' (1962). Fel y dywed Waldo Williams yn ei feirniadaeth ar y bryddest 'Y Cwmwl', ceir 'dyfaliad da yma o weddnewidiad amser trwy i bryder ddod i mewn iddo'.[187] Diddorol hefyd yw sylwi bod y tair cerdd hyn wedi'u lleoli yng Nghwm-bach, ac felly hefyd rai o'i gerddi diweddarach megis 'Ffin' (1988), 'Dyfed a Siomwyd?' (1991) a 'Diwrnod i'r Brenin' (2002) – ffaith sy'n pwysleisio'r gwreiddio barddonol yn yr ardal honno. Bu'r ymdeimlad pwerus o berthyn a'i ymlyniad wrth ei fro yn thema amlwg ym marddoniaeth T. James Jones er y cychwyn.

Ac yntau'n gyn-bregethwr sydd bellach, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, yn pendilio'n gyson rhwng agnosticiaeth ac anffyddiaeth, y mae crefydd wedi bod yn thema bwysig ym marddoniaeth T. James Jones erioed, ac yn enwedig felly yn ei gyfrol *Adnodau a Cherddi Eraill* (1975). Fel y nodir yn y gyfrol *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm*:

> Er iddo adael y weinidogaeth am swydd fel Darlithydd yn y ddrama yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, yn 1975, mae nifer fawr o'i gerddi yn myfyrio ar bresenoldeb neu amhresenoldeb Duw, ac ar gyflwr crefydd a chrefydda yn y Gymru gyfoes.[188]

Yn 1959 ymgartrefodd T. James Jones ym mans Capel Mynydd-bach, Abertawe, gan dreulio pum mlynedd a hanner yno yn magu profiad fel gweinidog. Yn 1964 symudodd i Gaerfyrddin yn weinidog y Priordy.[189] Disgrifiodd ei brofiadau yn y weinidogaeth yng Nghaerfyrddin 'fel

---

[185] Ibid., t. 2.
[186] Ibid.
[187] Stephen J. Williams (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llanelli a'r Cylch 1962* (Llandysul, 1962), t. 54.
[188] Llwyd a Dafydd (goln), *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm*, t. 136.
[189] Gweler Jones, *Jim Parc Nest*, t. 60.

cael fy nhaflu i bair berw gan weithgarwch gwleidyddol cyffrous.'[190] Yr oedd y cyfnod hwn yn un o 'gynnwrf gwleidyddol yng Nghymru',[191] chwedl yntau, 'ac ymatebodd amryw o aelodau'r capel drwy gymryd rhan flaengar ym mhrotestiadau CND a Chymdeithas yr Iaith, yn ogystal ag ymgyrchu dros sefydlu addysg uwchradd gyfrwng Cymraeg.'[192] Wrth ystyried rhyngberthynas ei brofiadau fel gweinidog a'i brofiadau fel cenedlaetholwr, gellir gwerthfawrogi pam y mae T. James Jones yn defnyddio delweddaeth a chyfeiriadaeth grefyddol fel cyfrwng i drafod amryw bynciau cyfoes, seciwlar, gwleidyddol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ei gerddi cynnar, yn enwedig yn *Adnodau a Cherddi Eraill*, a hefyd mewn nifer o'i ddramâu diweddarach, megis *Herod* (1991) a *Pwy Bia'r Gân?* (1991).[193]

Ar ôl ennill y Gadair yn Eisteddfod yr Urdd yn yr Wyddgrug yn 1958, rhoddodd T. Jones gynnig ar gystadlu yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1960 gyda'i bryddest 'Unigedd', o dan yr un ffugenw, sef 'Bryn Arian'. Er nad oes copi ar gael o'r bryddest hon, y mae beirniadaethau B. T. Hopkins, T. Hughes Jones a Caradog Prichard yn taflu goleuni ar ei chynnwys. Yn ôl y feirniadaeth gyfun:

> Egyr gyda darlun o unigedd traeth gwag wedi miri ei ddydd o haf, a'i bobl wedi mynd 'yn flin gan heulwen i gesail y nos'. Bu yno rywun a chellwair y wawr yn ei llygaid:
>
> Wedi'r llanw nesaf
> Ni welir ei hôl yn unman
> Ac eithrio'r cofio amdani
> Tan wydrau San Ffagan.
>
> Pryddest alarnadol am y Gymru sy'n diflannu yw hon ac y mae rhin a dwyster iddi, a llawer o angerdd y cenedlaetholwr.[194]

Dadlennol hefyd yw'r cyfatebiaethau rhwng sylwadau'r beirniaid ynghylch y bryddest hon a'r bryddest a anfonodd Jones i gystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli a'r Cylch yn 1962. Disgrifiodd Euros Bowen 'Y Cwmwl' yn ei feirniadaeth fel

> Pryddest simbolaidd am Gymru. Mae cwmwl yn grynhoad diwyd o'r pedwar amser, cwmwl y gaeaf, wedi dod dros Gymru, ac 'Nid oes mwyach ond llanw creulon / yn cymhennu'r traeth', lle 'roedd ôl ei thraed ar y tywod unwaith'.[195]

---

[190] Ibid.
[191] Ibid., t. 61.
[192] Ibid.
[193] T. James Jones, *Herod* (Llanrwst, 1991); T. James Jones, *Pwy Bia'r Gân?* (Llanrwst, 1991).
[194] T. J. Morgan (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 1960* (Llandysul, 1960), t. 22.
[195] Williams (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau,* t. 41.

O graffu ar sylwadau'r beirniaid ynghylch pryddest 'Bryn Arian' yn 1960 a phryddest 'Milwr Bach' yn 1962, gellir dod i gasgliad teg mai ailwampiad o 'Unigedd' yw 'Y Cwmwl'. Y mae'n amlwg o edrych ar yr hyn a ddywedir gan y beirniaid mai Cymru, Cymreictod a'r Gymraeg yw prif themâu'r ddwy bryddest a bod T. James Jones yn defnyddio delweddaeth forwrol i ddramateiddio dirywiad ieithyddol a diwylliannol yn y ddwy fel ei gilydd. Yn debyg i'r 'darlun o unigedd traeth gwag'[196] yn 'Unigedd', trosiad estynedig am Gymru yw'r traeth gwag yn 'Y Cwmwl' sydd dan fygythiad y 'llanw creulon',[197] sef symbol o ddylanwad y Saesneg ar y diwylliant Cymraeg. Fel y dywedodd Jones wrth yr awdur presennol: 'Yn yr ail ganiad mae sôn am lanw yn bygwth y traeth – sef y mewnlifiad o gyfeiriad Lloegr a'i dylanwad drwg hi ar fywyd crefyddol a gwleidyddol Cymru.'[198] Cyfleir yn y bryddest hon mai ofer yw brwydro yn erbyn y mewnlifiad anochel hwn o gyfeiriad Lloegr:

> Nid oes mwyach ond llanw creulon
> yn cymhennu'r traeth, a tholcio'r weilgi
> yn mesur munudau'r disgwyl.[199]

Fel yr awgryma ei ffugenw, 'Milwr Bach', y mae T. James Jones yn ei gynnwys ei hun ymhlith y 'milwyr bychain' a adawodd i'r 'llanw creulon' a'r 'ewyn gwancus'[200] feddiannu'r traeth am eu bod yn well ganddynt y 'lolfa felfed',[201] sef moethusrwydd y bywyd dosbarth canol, dinesig:

> Erys y cestyll i frwydro'n afraid
> yn erbyn yr ewyn gwancus,
> â'r milwyr bychain wedi llwyr
> ymwrthod cyn dechrau'r frwydr.[202]

Fel yr esboniodd T. James Jones wrth yr awdur presennol:

> ceisiaf gyfleu fy euogrwydd – fy ngofid imi fradychu Cymru. Roedd y ddyfais o ddefnyddio cyfrwng gweddi yn amlwg yn fy ngwaith. Mae hyn eto'n deillio o gyfnod y credu di-gwestiwn.[203]

Ailgyhoeddodd Jones rannau o'r bryddest hon fel cerddi unigol yn eu hawl eu hunain yn ei gyfrol *Adnodau a Cherddi Eraill* yn 1975 – 'Colli'r Dydd', 'Salm' a 'Gweddi Cenedl'.

---

[196] Morgan (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau,* t. 22.
[197] T. James Jones, 'Y Cwmwl' (1962), teipysgrif anghyhoeddedig yng nghasgliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, t. 3.
[198] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 12 Mai 2016.
[199] Jones, 'Y Cwmwl', t. 3.
[200] Ibid.
[201] Ibid., t. 6.
[202] Ibid., t. 3.
[203] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 12 Mai 2016.

Ailddefnyddiodd y bardd ganiad cyntaf 'Ffoadur', sef y bryddest a anfonodd i Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Maelor 1961, yng nghaniad cyntaf 'Y Cwmwl'. Yn ogystal, cafodd y caniad hwn ei gyhoeddi fel cerdd unigol yn *Adnodau a Cherddi Eraill*, sef 'Tymor o Dymhorau'. Yng ngeiriau Jones: 'Roedd hwn yn gyfnod ailgylchu cerddi! Gweler caniad cyntaf y ddwy bryddest'.[204] Ymddengys felly mai ailwampiad o rannau o bryddestau Eisteddfodau 1960 a 1961 yw 'Y Cwmwl'. Yr oedd Euros Bowen yn beirniadu cystadleuaeth y Goron yn 1961 ac yn 1962, ond ni sylwodd ar y cyfatebiaethau rhwng y 'Ffoadur' ac 'Y Cwmwl'. Er bod tebygrwydd rhwng y ddwy bryddest, dylid nodi bod y pwyslais thematig yn hollol wahanol yn y cerddi hyn. Disgrifiodd Euros Bowen 'Ffoadur' fel 'Pryddest fywgraffiadol dwt',[205] er enghraifft, a disgrifiodd 'Y Cwmwl' fel 'Pryddest simbolaidd am Gymru'.[206]

Ar ôl Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Maelor 1962, ni roddodd T. James Jones gynnig ar gystadlu yng nghystadleuaeth y Goron tan Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman a'r Cylch yn 1970 â'i bryddest 'Adnodau o Gariad'. Er nad oes copi ar gael o'r bryddest hon, dengys sylwadau Euros Bowen fod Jones wedi ei hailddefnyddio a'i hailgyhoeddi yn ddiweddarach yn ei yrfa farddol. Yng ngeiriau T. James Jones:

> Parthed cynnyrch Tudur [ei ffugenw] yn 1970 dengys sylwadau Euros Bowen imi gynnwys amryw o gerddi a fyddai'n ymddangos maes o law yn fy nghyfrol gyntaf – *Adnodau a Cherddi Eraill*. Roeddwn yn brentis bach bryd hynny yn ailgylchu cerddi! A'r casgliad hwn oedd cerddi Cadair Powys 1974.[207]

Cyrhaeddodd gerdd 'Tudur' ganol yr ail ddosbarth yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman yn 1970, a chyrraedd y brig bedair blynedd yn ddiweddarach yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Talaith Powys, Corwen yn 1974. Cyhoeddwyd casgliad arobryn Eisteddfod Talaith Powys yn *Adnodau a Cherddi Eraill* yn 1975. Yn ogystal, cyhoeddwyd detholiad o'r bryddest 'Adnodau o Gariad' yn *Taliesin* ym mis Rhagfyr 1970, ac eto yn 1975 fel cerdd deitl y gyfrol *Adnodau a Cherddi Eraill*, 'Adnodau'. Y mae'n debyg mai fersiynau o'r cerddi a anfonodd T. James Jones i'r Eisteddfod Genedlaethol yn 1970 yw 'Adnodau', 'Martin Luther King', 'Gwenallt', 'Gwynfor', 'D. J.' ac 'Ian Palach' yn *Adnodau a Cherddi Eraill*. Meddai T. James Jones: 'Credaf fod ambell gerdd o'r gyfrol wedi cyrraedd ambell gystadleuaeth genedlaethol, e.e., gwelais gyfeiriad at gerdd i Martin Luther King ac un

[204] Ibid.
[205] Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*, t. 41.
[206] Williams (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*, t. 41.
[207] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 13 Ebrill 2016.

i Gwenallt.'[208] Dadlennol hefyd yw beirniadaeth Euros Bowen ar bryddest 1970: 'Traethu'n bortreadol yw'r peth amlyca' yn y gerdd "Martin Luther King" [...] Mae'n synio am Gwenallt fel crochenydd.'[209]

Gellir tybio mai'r gerdd 'Adnodau' yn *Adnodau a Cherddi Eraill* oedd cerdd agoriadol y dilyniant 'Adnodau o Gariad'. Aralleiriad yw'r gerdd hon o adnodau 1–14 yn 1 Corinthiaid 13 ac y mae'n talu teyrnged i arwyr cenedlaethol a rhyngwladol yr ugeinfed ganrif, megis Martin Luther King, D. Gwenallt Jones, Gwynfor Evans, D. J. Williams ac Ian Palach. Disgrifir ym mhob pennill rinweddau arbennig yr unigolion hyn – dawn areithio a chyfraniad Martin Luther King fel llais mudiad hawliau sifil yn America, er enghraifft; cenedlaetholdeb crefyddol Gwenallt; ffydd ddi-ildio Gwynfor Evans fel rhan o'i weledigaeth wleidyddol; haelioni a shirgarwch D. J. Williams; ac angerdd a hunanaberth Ian Palach. Y mae un peth yn gyffredin rhwng yr arwyr hyn, sef eu bod oll wedi aberthu eu rhyddid neu eu bywydau dros eu hachosion. Fel y dywedodd T. James Jones wrth yr awdur presennol: 'Mae'r rhain i gyd yn gymeriadau gwleidyddol – Martin Luther King, Gwenallt, Gwynfor, D. J. ac Ian Palach – ro'n i wedi'u dewis nhw oherwydd eu cysylltiad nhw â mudiadau protest.'[210] Yn dilyn y gerdd hon yn *Adnodau a Cherddi Eraill*, ceir casgliad o gerddi sy'n cynnig portreadau llawnach a manylach o'r arwyr hyn a'u cyfraniadau diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol pwysig. Yn ogystal, y mae'r cerddi hyn yn enghreifftio'r ffordd y defnyddia T. James Jones ddelweddaeth a chyfeiriadaeth grefyddol yn greadigol i drafod pynciau gwleidyddol, cyfoes, fel y nodwyd. Ceir yn *Adnodau a Cherddi Eraill* yr englyn 'Gweddi', er enghraifft, sy'n cystwyo ffolineb Rhyfel Fietnam yn null y weddi, ynghyd â'r gerdd 'Tra Bo'r Rhain Saif Tri Brenin', sy'n trafod protest genedlaetholgar ac achos llys Terwyn Tomos, Alwyn Ifans ac Eirug Wyn mewn cyd-destun Beiblaidd. Disgrifia Jones y tri chenedlaetholwr yn sefyll yn ddewr o flaen y barnwr fel y tri brenin o flaen Herod, gan awgrymu pwysigrwydd eu safiad drwy gyfeirio at 'aur / Thys a myrr eu hactau'.[211]

Cerdd grefyddol yw pryddest Jones, 'Pridd' (1975). Meddai'r bardd: 'Chwedl y creu yw crynswth y gerdd. Ac fe gynhwysir "y cwymp".'[212] Er hynny, cyfaddefodd wrth yr awdur presennol: 'Erbyn hyn, rwy'n cael anhawster fy hunan i ddilyn trywydd "Pridd" mae'n rhaid

[208] Llythyr T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen] at yr awdur presennol, 24 Chwefror 2016.
[209] J. Tysul Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Rhydaman a'r Cylch 1970* (Llandysul, 1970), t. 31.
[210] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[211] Jones, *Adnodau a Cherddi Eraill*, t. 32.
[212] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 12 Mai 2016.

imi gyfaddef [...] mae'n anodd gwbod ble mae dechrau sôn am gawdel o gerdd!'[213] Gellir rhannu hon yn dri chaniad gan ei bod yn dramateiddio tair pennod gyntaf Genesis, sef Hanes y Creu, Anufudd-dod Dyn a'r Cwymp. Anfonodd Jones y bryddest dan sylw i gystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor yn 1975 dan y ffugenw 'Samaned', ond ni wnaeth fawr o argraff ar y beirniaid: cyrhaeddodd y gerdd waelod yr ail ddosbarth. Cyfeiriodd Gwyn Thomas yn fyr ati yn ei feirniadaeth fel un o blith y cerddi yr oedd yn ei gael 'ar y cyfan, yn ymdrechgar a llafurus ond gyda chip o rywbeth yma ac acw'.[214] Ac fe'i disgrifiwyd gan Haydn Lewis fel un o'r cerddi a oedd yn 'bur ddiddorol ond [...] efallai, yn colli mewn crefft a chyfanrwydd.'[215] Ychydig iawn o sylw a gafodd y bryddest gan Dilys Cadwaladr yn ei beirniadaeth hithau: 'Llinellau prydferth ambell dro ac o syllu mae'r bardd yn ymddangos ond nid yw'n gafael yn y dychymyg chwaith. Nid hawdd cael darlun gwastad. Ond mae awen yn symbylu.'[216] Yn wahanol i'r pryddestau eisteddfodol eraill, ceir yn 'Pridd' linellau acennog a diacen, ag enghreifftiau o gynghanedd sy'n chwarae â ffurf y cywydd:

Nwyd oedd, hyd at yr asgwrn
Am achub cyfathrach o'r llwch.

Ef oedd was i'r perthyn pur
A pherthyn y difesur.

Ef oedd awen crochenydd
A ddug o'r ffwrn berl o bridd

A medelwr llon pob chwant
Yn rhwymo cnydau rhamant.

Ef oedd y fellten lân
Yn daearu'i hedyn o drydan.

Ifanc oedd gan iasau tyner
Poen yr adnabod pêr.

Ef oedd arwr ymrafael
Â'i chnawd hi'n ochenaid hael,

A dau yn rhannu'r un dydd
Yn nhawelwch ei gilydd.

Ef oedd ddewin ieuengaf y ddaear

[213] Ibid.
[214] T. M. Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Dwyfor 1975* (Llandysul, 1975), t. 21.
[215] Bassett (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*, t. 28.
[216] Ibid., t. 24.

Yn bwrw'i gymar dan gyfaredd
Gan ddwyn ei forwyn yn fam.[217]

Fel yn achos y pryddestau cynnar eraill, nid oes lle yn yr ymdriniaeth hon i drafod 'Pridd' yn llawn. Serch hynny, y mae'n werth archwilio defnydd T. James Jones o gyfeiriadaeth lenyddol yn y bryddest gan ei bod yn nodwedd sy'n ei gosod ar wahân i'r cerddi crefyddol a phulpudaidd a gyhoeddwyd yn *Adnodau a Cherddi Eraill*. Yn wahanol i'r cerddi hyn, archwilia ac ailbrosesa Jones thema Feiblaidd benodol yn 'Pridd' yn hytrach na rhaffu cyfeiriadau Beiblaidd, ystrydebol ac esoteraidd. Yn wir, gellir cynnig bod y bregeth yn drech na'r grefft mewn rhai o'r cerddi a gyhoeddwyd yn *Adnodau a Cherddi Eraill,* er enghraifft – y ddwy gerdd am y Nadolig, sef 'Nadolig' a 'Mab a Roddwyd i Ni', sy'n pontifficeiddio ynghylch gwir ystyr yr ŵyl; y ddwy gerdd am y Pasg, sef 'Cân y Pasg' ac 'Emyn y Wawr', sy'n drwmlwythog o gyfeiriadau confensiynol at yr ŵyl; ynghyd â'r ddwy gerdd sydd fwy neu lai yn aralleiriadau o bregethau fel 'Mynydd y Gair' ac 'Y Gwynfydau'. Er bod 'Pridd' yn seiliedig ar chwedl Genesis, ceir ynddi hefyd adlais annisgwyl o'r gyfres o benillion darogan *Yr Afallennau* yn Llyfr Du Caerfyrddin. Cymharer y llinellau 'Afallen bêr / Afallen bêr / A dyf yn nwfn y berllan'[218] yn 'Pridd', er enghraifft, â'r llinellau 'Afallen beren a phren melyn / A dyf yn halar heb âr yn ei chylchyn'[219] yn yr hen ganu. Fel y nodir yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru,* 'llefara Myrddin yn y person cyntaf ym mhob pennill ac wrth annerch yr afallen sy'n ei gynnal â'i ffrwythau pêr, priodola iddi gyneddfau hynod megis y gallu i'w guddio rhag ei erlidwyr.'[220] Yn debyg i Myrddin, y mae Adda ac Efa yn cyfarch yr afallen yn 'Pridd' ac yn gofyn iddi am anfarwoldeb a'r gallu i '[w]eld / Tu hwnt i'r pridd',[221] a sicrhau '[m]odd ymglywed [...] / Tu hwnt i gelloedd cnawd'.[222]

Trawiadol hefyd yw'r adleisiau Waldoaidd a geir yn y bryddest hon, sy'n rhoi rhagflas inni o'r ffordd y mae T. James Jones yn adleisio ac yn cyfeirio at Waldo Williams, ac yn prosesu ac yn mewnoli ei ddylanwad, mewn cerddi diweddarach o'i eiddo fel 'Llwch' ac 'Mewn Un Cae'.[223] Yn sicr, ni ellir, wrth ddarllen 'Pridd', beidio â meddwl am 'O Bridd' Waldo Williams. Fel y dywed R. M. Jones, seiliwyd y gerdd 'O Bridd' 'ar Genesis 3–4, sef

[217] Jones, 'Pridd' (1975), teipysgrif anghyhoeddedig yng nghasgliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, t. 6.
[218] Ibid, t. 9.
[219] Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse: Blodeugerdd Rhydychen o Farddoniaeth Gymraeg* (Oxford, 1998), t. 20.
[220] Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1986), t. 8.
[221] Jones, 'Pridd', t. 9.
[222] Ibid., tt. 9–10.
[223] T. James Jones, 'Llwch', *Eiliadau o Berthyn*, tt. 8–16; 'Mewn Un Cae', *Nawr* (Cyhoeddiadau Barddas, 2008), t. 89.

penodau'r Cwymp a'r Lladd (gwreiddyn rhyfel)'.[224] Cyfansoddodd Waldo Williams y gerdd hon yng nghanol yr Ail Ryfel Byd, ac fe gyflea ynddi ei siom yn y ddynoliaeth. Awgryma yn y gerdd fod dyn wedi melltithio a gwenwyno'r pridd unwaith eto drwy ladd ei gyd-ddyn fel y gwnaeth Cain ac Abel yn y dechreuad. Disgrifia'r bardd greulonderau natur gan bwysleisio bod dyn yr un mor greulon a bwystfilaidd â'r wenci neu'r corryn:

> Fy mrawd uwch heglau di-draed,
> Bol gwenwyn rhwyd y côr.
> A phwy yw hon sy'n lladd
> Eu hadar yn nwfn y gwrych [...].[225]

Ceir adlais o'r darlun hwn yn 'Pridd':

> Ac yng nghil y cysgodion eiddgar
> Fel gwe'r côr
> Yn y llonydd cyn bod lladd.[226]

Y mae T. James Jones yn pwysleisio natur lechwraidd y sarff yn Eden yn y llinellau hyn drwy adleisio darlun Waldo Williams o greulonderau byd natur yn 'O Bridd'. Yn ogystal, y mae'r llinellau 'Ef oedd awen crochenydd / A ddug o'r ffwrn berl o bridd'[227] yn 'Pridd' yn rhwym o'n hatgoffa o linellau Waldo o'i soned 'Elw ac Awen': 'Na, awen y Crochenydd yw'r wreiddiol rin. / Caiff Awen rannu'r bara a gweini'r gwin.'[228] Er bod yr ymadrodd 'awen crochenydd' yn tarddu'n wreiddiol o hanes Jeremeia yn Nhŷ'r Crochenydd yn y Beibl (Jeremeia 18:1–7), y mae Jones fel petai'n cyfeirio at y ddameg hon drwy gyfrwng barddoniaeth Waldo Williams. Crisielir yn ei ddefnydd o'r ymadrodd hwn y berthynas ryngdestunol rhyngddo ef a Waldo Williams. Fel y nodwyd, yr oedd Waldo Williams yn beirniadu cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli yn 1962 a'r 'wefr fwyaf'[229] i T. James Jones oedd i Waldo osod ei bryddest 'Y Cwmwl' ymhlith goreuon y gystadleuaeth honno. Dadlenna Jones yn y gyfrol *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm* y '[b]u ei sylwadau caredig ar gais "Milwr Bach" yn sbardun i mi ymhél ymhellach â barddoni.'[230] Â rhagddo yn y gyfrol hon i ddweud ei fod yn ystyried Waldo Williams fel 'dylanwad mawr' ar ei waith 'yn rhinwedd arddulliau a themâu ei farddoniaeth.'[231] Ond er bod Waldo yn ddylanwad

[224] R. M. Jones, 'Gobaith ac anobaith Waldo ac R. S.', t. 17, < http://www.rmjones-bobijones.net/llyfrau/Geraint.pdf>; cyrchwyd 8 Gorffennaf 2016.
[225] Waldo Williams, *Dail Pren* (Aberystwyth, 1956), t. 84.
[226] Jones, 'Pridd', t. 8.
[227] Ibid.
[228] Williams, *Dail Pren*, t. 61.
[229] Llwyd a Dafydd (goln), *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm*, t. 157.
[230] Ibid.
[231] Ibid.

pwysig – yn ddylanwad sydd, yn sicr, yn deilwng o sylw manwl – byddir yn canolbwyntio yn y traethawd hwn ar ddylanwad Dylan Thomas gan mai'r bardd hwn a daniodd awydd T. James Jones i farddoni yn y lle cyntaf. Ac eithrio'r ddwy gerdd goffa lle ceir ambell adlais Dylannaidd, pwysig yw nodi nad yw T. James Jones yn ceisio efelychu neu ail-greu arddull y bardd hwn fel y cyfryw yn ei farddoniaeth ei hun. Pan ofynnwyd i T. James Jones a yw dylanwad Dylan Thomas wedi treiddio i arddull ei farddoniaeth, dywedodd y byddai'n dadlau mai trwy gyfieithu gwaith Thomas y dechreuodd ymhél â barddoni ei hun:

> iddo fe mae'r diolch, 'weden i, yn fwy na neb bo' fi'n rhyw ymhél â hi. Y syniad o greu, 'wy'n meddwl, y mae Dylan Thomas wedi'i roi imi, yn hytrach na'i arddull. Y syniad o fod yn fardd roiodd e' i fi yn hytrach na bo' fi'n efelychu ei waith e'.[232]

Y mae T. James Jones wedi treulio blynyddoedd yn cyfieithu gwaith Dylan Thomas i'r Gymraeg ac fel y dywed Jason Walford Davies, ni 'ellid wrth enghraifft fwy creadigol o adleisio llenyddol na'r weithred o gyfieithu.'[233] Yn ôl M. Wynn Thomas, gellir hyd yn oed ystyried *Dan y Wenallt*, er enghraifft, fel rhagflaenydd i gyweithiau dwyieithog T. James Jones a Jon Dressel, sef *Cerddi Ianws Poems* (1979) a *Wyneb yn Wyneb / Face to Face* (1997).[234]

Dechreuodd T. James Jones gyfieithu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg yn ystod y 1960au, a pherfformiwyd ei drosiad, *Dan y Wenallt*, am y tro cyntaf ar nos Wener, 4 Awst 1967, yn ystod y bedwaredd ŵyl deirblynyddol yn Nhalacharn. Yn ôl Jones, cafodd y cynhyrchiad hwn 'dderbyniad ffafriol'.[235] Cyhoeddwyd detholiad o'r trosiad yn *Taliesin* yn 1967 ac fe'i cyhoeddwyd yn ei grynswth am y tro cyntaf gan Wasg Gomer yn 1968. Yng ngeiriau T. James Jones ei hun: 'Dyma ddechrau'r yrfa y ceisiais ei dilyn wedyn'.[236]

---

[232] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[233] Jason Walford Davies, *Gororau'r Iaith: R. S. Thomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg* (Caerdydd, 2003), t. 89.
[234] T. James Jones a Jon Dressel, *Cerddi Ianws Poems* (Llandysul, 1979); *Wyneb yn Wyneb / Face to Face* (Llandysul, 1997).
[235] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 73.
[236] Idem, 'Llyfrgell', *Taliesin*, 145 (Gwanwyn 2012), t. 149.

PENNOD 2: O *Milk Wood* i'r Wenallt

Fel y dywed Rhianedd Jewell, 'mae'r term cyfieithu yn cwmpasu sawl gweithred: trosi, addasu, efelychu, adlewyrchu, ail-greu, cyfansoddi; ac mae'r termau hyn oll yn cyfleu'r broses gymhleth a geir wrth geisio cyfleu un darn o lenyddiaeth mewn iaith arall.'[237] Buddiol felly fyddai ystyried sut yn union y mae diffinio *Dan y Wenallt* T. James Jones – fel cyfieithiad, trosiad ynteu addasiad? Dylem ofyn hefyd sut y mae gwahaniaethu rhwng y diffiniadau hyn – a oes ffin rhwng y tri diffiniad sy'n ein galluogi i wahaniaethu'n glir rhyngddynt? Disgrifir *Dan y Wenallt* ar glawr yr argraffiad newydd (2014) fel 'addasiad' gan ei bod yn 'ddrama i leisiau' yn ei hawl ei hun. Serch hynny, y mae'r gair 'addasiad', chwedl Kate Crockett, yn awgrymu bod T. James Jones 'wedi rhoi mwy o benrhyddid iddo'i hun nag y gwnaeth: mae *Dan y Wenallt* yn glynu'n dynn iawn wrth *Under Milk Wood*.'[238] Wrth drafod cyfieithiad Brian Friel o ddrama Anton Chekhov, *The Three Sisters*, noda Kevin Windle ei bod yn well gan gyfieithwyr dramâu ddefnyddio'r teitl 'addasiad' hyd yn oed pan fo'r cyfieithiad yn ffyddlon iawn i'r gwreiddiol:

> A fully competent linguist-translator may well pursue an adaptive policy, and, in Cary's words, the title 'adaptation' is often preferred 'alors même que l'on se trouve en présence d'une traduction fort honnête et respectueuse de l'original'.[239]

Disgrifir *Dan y Wenallt* fel 'addasiad' ar glawr y ddrama, felly, ac fe gyfeiria T. James Jones ati fel 'fersiwn' gan nad yw'n ei hystyried fel cyfieithiad o *Under Milk Wood*. Y Gymraeg, meddai, 'gyda'i chyfeiriadaeth a'i chyfatebiaethau, ei chystrawen a'i hidiomau, ei chynghanedd a'i rhythmau unigryw sy'n creu, o'r gwreiddiol, fersiwn arall'.[240] Er mai drama radio yw *Under Milk Wood*, caiff ei llwyfannu'n aml. Nid amherthnasol yn y cyswllt hwn fyddai ystyried sylwadau Terry Hale a Carole-Anne Upton am y gwahaniaeth rhwng statws 'cyfieithiad' a statws 'fersiwn' neu 'addasiad' ym myd y theatr:

> Curiously, in view of the reverse hierarchy in literary translation, a 'version' or 'adaptation' in theatre seems to confer higher status on its author than does a 'translation'. Perhaps the implication has been that an adaption requires a level of

[237] Rhianedd Jewell, *Her a Hawl Cyfieithu Dramâu: Saunders Lewis, Samuel Beckett a Molière* (Caerdydd, 2017), t. 61.
[238] Kate Crockett, 'Adolygiad: *Dan y Wenallt*', *Barddas*, 323 (Haf 2014), t. 51.
[239] Kevin Windle, 'The Translation of Drama' yn Kirsten Malmkjær a Kevin Windle (goln), *The Oxford Handbook of Translation Studies* (Oxford, 2011), t. 160.
[240] T. James Jones, *Jim Parc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 77.

> dramaturgical skill and creative vision, which, in a 'mere' translation, are solely attributable to the original playwright?[241]

Fel y gwelwn maes o law yn y bennod hon, rhoddir statws uwch i 'addasiad' neu 'fersiwn' T. James Jones o *Under Milk Wood* yn y Gymru Gymraeg am resymau y tu hwnt i sgiliau cyfieithu neu addasu.

I Susan Bassnett, awgryma'r gair 'fersiwn' fod testun wedi'i addasu ar gyfer diwylliant y gynulleidfa darged: 'the useful English word "version" [...] implies that the translation has been radically revised for the target culture'.[242] Dywed T. James Jones yn ei ysgrif 'Various Versions' nad yw cyfieithiad ond yn cynnig esboniad a 'glos' ar y gwreiddiol mewn iaith arall. Â rhagddo yn ei ysgrif i ddyfynnu sylwadau Don Paterson ynghylch y gwahaniaeth rhwng cyfieithiad a fersiwn:

> A translation tries to remain true to the original words and their relations [...] It glosses the original, but does not try to replace it. Versions, however, are trying to be poems in their own right; while they have the original to serve as detailed ground-plan and elevation, they are trying to build themselves a robust home in a new country, in its vernacular architecture, with local words for its brick and local music for its mortar.[243]

Dylid nodi, fodd bynnag, fod T. James Jones ei hun hefyd, ynghyd â nifer o feirniaid llenyddol eraill, yn cyfeirio'n aml at *Dan y Wenallt* fel 'cyfieithiad'. Gan fod 'cyfieithiad', 'addasiad', 'trosiad' a 'fersiwn' yn cael eu defnyddio'n gymysg wrth drafod *Dan y Wenallt*, nid hawdd yw diffinio'r testun hwn. Priodol yn y cyswllt hwn yw cyfeirio at ymdrechion Rhianedd Jewell i wahaniaethu rhwng cyfieithiad ac addasiad yn ei chyfrol *Her a Hawl Cyfieithu*. Wrth geisio gwneud hynny, cyfeiria Jewell yn benodol at ddiffiniad John Dryden, bardd a chyfieithydd o'r ail ganrif ar bymtheg, a gynigiodd y dehongliad canlynol er mwyn gwahaniaethu rhwng lefelau ffyddlondeb cyfieithiadau i'r testunau gwreiddiol:

> cyfieithiad llythrennol (*metaphrase*) yw cyfieithiad a geidw yn ffyddlon i eiriau'r awdur gwreiddiol, gair am air, llinell am linell; aralleiriad (*paraphrase*) yw cyfieithiad sy'n cadw geiriau'r awdur mewn cof, ond sy'n crwydro rywfaint o ran mynegiant, gan sicrhau parch at yr ystyr ond rhyddid gyda'r geiriad; yn olaf, dynwarediad (*imitation*) yw'r enw ar ddarn sy'n cyffwrdd â syniadau'r awdur ond sy'n newid geiriau ac ystyr y gwreiddiol gan gyfieithu'n hollol rydd.[244]

---

[241] Terry Hale a Carol-Anne Upton, 'Introduction', yn Carole-Anne Upton (gol.), *Moving Target: Theatre Translation and Cultural Relocation* (London, 2014), t. 10.
[242] Susan Bassnett, 'Translating for the Theatre – The Case Against Performability', *TTR: Traduction, Terminologie, Rédaction*, 4, 1 (1991), t. 102.
[243] T. James Jones, 'Various Versions', yn *A Centenary Celebration: Dylan Thomas*, gol. Hannah Ellis (London, 2014), t. 234.
[244] Jewell, *Her a Hawl Cyfieithu*, t. 70.

Â rhagddi i esbonio bod 'addasiad yn cwympo rhwng dwy stôl diffiniad Dryden o aralleiriad a dynwarediad'.[245] Dyfynna Jewell hefyd yr hyn a ddywed y cyfieithydd Martin Bowman ynghylch y gwahaniaeth rhwng cyfieithiad ac addasiad:

> There does not seem to me to be any absolute distinction that can be made between translation and adaptation. As far as my co-translators and I are concerned, however, what we have created is translation rather than adaptation. The only true test of this can be found in the target audience, of course.[246]

Y gynulleidfa, chwedl Jewell, 'sydd â'r awdurdod i wahaniaethu rhwng cyfieithiad ac addasiad':[247] 'Os yw'r gynulleidfa, felly, yn dehongli'r gwaith fel trosiad ffyddlon o'r darn gwreiddiol, cyfieithiad ydyw; ond os ydynt hwy'n ymwybodol o ymyrraeth a newidiadau sylweddol i'r darn, addasiad ydyw.'[248] Er cysondeb yn yr ymdriniaeth hon, byddir yn cyfeirio at *Dan y Wenallt*, fel testun yn ei gyfanwydd, fel 'trosiad', gan fod y gair hwn yn cyfleu math o lwybr canol rhwng cyfieithiad ac addasiad. Fel y noda Jewell wrth drafod y berthynas rhwng y ddau air Saesneg, *translation* a *metaphor*, y mae'r gair 'trosiad' yn Gymraeg yn cyfeirio, nid yn unig at 'y weithred o gyfieithu (*translation*)', ond at 'y gynrychiolaeth arddulliol (*metaphor*)' hefyd.[249] Wrth ymdrin ag enghreifftiau penodol yn y thesis hwn, byddir yn defnyddio'r termau 'trosi', 'cyfieithu' ac 'addasu', lle bo hynny'n briodol, i ddisgrifio'r broses o greu *Dan y Wenallt*, gan fod lefelau ffyddlondeb y testun yn amrywio drwyddo.

Nid disodli'r gwreiddiol oedd nod T. James Jones wrth gyfieithu *Under Milk Wood*, felly y mae sylwadau beirniaid da eu bwriad fel Caradog Prichard, er enghraifft, a ganmolodd *Dan y Wenallt* fel 'y cyfieithiad Cymraeg gwell-na'r-gwreiddiol o *Under Milk Wood*', yn ddiystyr. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw cyfeirio at adolygiad Bob Roberts o gynhyrchiad llwyfan 1968 o *Dan y Wenallt*. Noda Roberts fod 'amryw yn honni, cyn y perfformiad, fod y trosiad Cymraeg yn well na'r gwreiddiol, sut bynnag mae penderfynu hynny',[250] cyn mynd rhagddo i esbonio bod 'honni fod y cyfieithiad yn well na'r gwreiddiol yn ffolineb o'r radd flaenaf gan fod nodweddion seinyddol a cherddorol y ddwy iaith mor wahanol'.[251] Dywed Roberts ymhellach fod Dylan Thomas wedi creu 'un math ar fiwsig geiriol',[252] a bod T. James

[245] Ibid., t. 70.
[246] Ibid., t. 71.
[247] Ibid.
[248] Ibid.
[249] Ibid., t. 64.
[250] Bob Roberts, 'Dramâu'r Eisteddfod', *Baner ac Amserau Cymru*, 29 Awst 1968, t. 3.
[251] Ibid.
[252] Ibid.

Jones wedi creu '[m]ath arall'.[253] Y mae'n cymharu *Under Milk Wood* â *Dan y Wenallt* yn ei adolygiad gan ddweud bod gwaith Dylan Thomas 'yn fyd-eang ei apêl er iddo ymatal rhag ieithwedd gaboledig a llenyddol'[254] a bod gwaith T. James Jones 'yn gyfyngedig i gylch y Cymry Cymraeg, ac yn ei effaith derfynol, ar siaradwyr un dafodiaith yn y cylch hwnnw.'[255] Serch hynny, nid yw apêl 'gyfyngedig' y trosiad yn golygu bod mwy o werth diwylliannol i *Under Milk Wood*. Y mae'n werth cyfeirio hefyd at sylwadau Rhiannon Marks ynghylch ymateb beirniaid llenyddol (yn cynnwys T. James Jones) i gyfieithiadau Saesneg o gerddi Menna Elfyn. Dywed Marks fod y beirniaid yn tueddu i gymharu'r testunau gwreiddiol â'r cyfieithiadau 'fel petai modd gosod un ar wastad uwch na'r llall'.[256] Gellir cynnig bod sylwadau'r adolygydd Elin Williams ynghylch cynhyrchiad Theatr Oni Bai o *Dan y Wenallt* yn enghreifftio'r duedd hon: 'amazingly the play did not any lose any of its rich lyricism through translation; in fact, in places it might have rivaled the original.'[257] Ond fel y dywed Walford Davies yn ei ragymadrodd i *Dan y Wenallt*, yr 'egni a dardd o waith llenyddol gwreiddiol mor unigryw yw'r union beth a'i gwna'n *werth* ei addasu yn y lle cyntaf.'[258]

Esbonia Rhiannon Marks ei bod yn synied am gerddi Cymraeg Menna Elfyn a'r cyfieithiadau Saesneg fel 'testunau cysylltiol sy'n rhannu'r un gofod'[259] yn hytrach nag 'fel cerddi ar wahân',[260] a dichon mai dyma'r ffordd i feddwl am y berthynas rhwng *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt*. Fel y noda Kevin Allen, cyfarwyddwr y fersiynau ffilm diweddaraf o'r ddrama, ynghylch perthynas y ddau destun a'r ddwy ffilm:

> they're very well connected. Thanks to Jim Jones's Welsh text interpretation the screenplay remains the same for both films. [...] It's important to realise Jim's adaptation is an adaptation, it's technically a different film, although they look the same.[261]

Er bod *Dan y Wenallt* yn glynu'n dynn wrth y gwreiddiol, nid cyfieithiad slafaidd, air-am-air mohono o bell ffordd. Buddiol yn y cyswllt hwn yw crybwyll un o brif gysyniadau theori cyfieithu, sef cywerthedd – cywerthedd dynamig (*dynamic equivalence* – cyfieithu testun

---

[253] Ibid.
[254] Ibid.
[255] Ibid.
[256] Rhiannon Marks, *Pe gallwn, mi luniwn lythyr: Golwg ar waith Menna Elfyn* (Caerdydd, 2013), t. 175.
[257] Elin Williams, 'Eisteddfod 2014: In Review', <http://www.walesartsreview.org/eisteddfod-2014-in-review/>; cyrchwyd 25 Ionawr 2017.
[258] Walford Davies, 'Rhagymadrodd' yn T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), t. xxiv.
[259] Marks, *Pe gallwn, mi luniwn lythyr*, t. 175.
[260] Ibid.
[261] 'Kevin Allen: Interview', <http://www.buzzmag.co.uk/uncategorized/kevin-allen-interview/>; cyrchwyd 20 Ionawr 2017.

ystyr-am-ystyr) a chywerthedd ffurfiol (*formal equivalence* – cyfieithu testun air-am-air). Bathwyd y termau hyn gan Eugene Nida, un o arloeswyr y maes astudiaethau cyfieithu, a ddatblygodd y theori cywerthedd dynamig wrth astudio cyfieithiadau o'r Beibl. Yn ôl Ffion Haf Pritchard:

> Cywerthedd dynamig Nida, o bosibl, yw'r cysyniad 'cywerthedd' pwysicaf ac un o'i brif gyfraniadau i astudiaethau cyfieithu. Cyflwynodd weledigaeth newydd, gan symud y pwyslais o'r testun ffynhonnell a chywerthedd gair-am-air neu lenyddol i ymateb y darllenydd.[262]

Gwelwn yn y bennod nesaf fod T. James Jones wedi dilyn y dull cywerthedd dynamig wrth gyfieithu *Under Milk Wood* er mwyn sicrhau mynegiant naturiol yn y Gymraeg ac atgynhyrchu naws ac arddull y testun ffynhonnell (y term a arferir ar gyfer *source text*). Fel y dywed Eugene Nida am y broses o gyfieithu:

> In addition to making sense, translations must also convey the 'spirit and manner' of the original. [...] Closely related to the requirement of sensitivity to the style of the original is the need for a 'natural and easy' form of expression in the language into which one is translating.[263]

Y mae'n amlwg fod T. James Jones wedi deall a pharchu natur ac ysbryd *Under Milk Wood* wrth drosi'r ddrama. Yng ngeiriau Walford Davies: 'Adlewyrcha gampwaith Saesneg drwy gyfrwng athrylith wahanol yr iaith Gymraeg, a'i bywyd idiomatig a throsiadol hi ei hun.'[264]

Y mae'n dra arwyddocaol hefyd mai teitl Cymraeg y ddrama ac nid y teitl Saesneg sydd bellach ar wefusau llawer iawn o Gymry Cymraeg pan fyddant yn trafod y gwreiddiol ei hun. Un enghraifft sy'n dangos bod *Dan y Wenallt* wedi disodli *Under Milk Wood* yn y Gymru Gymraeg yw'r cyfeiriad at 'Polly Garter *Dan y Wenallt*'[265] yn adolygiad Elan Grug Muse o gyfrol ryddiaith gyntaf Rhys Iorwerth, *Abermandraw*. Yn debyg i hyn, mewn darn arall sy'n trafod cyfrol Rhys Iorwerth, dywed Non Tudur fod 'llais coeglyd adroddwr'[266] yn 'atgoffa rhywun o'r Llais yn *Dan y Wenallt*'.[267] Y mae'n werth cyfeirio'n fyr yma at erthygl ar wefan *Golwg 360* sy'n trafod y gystadleuaeth 'Dwlu ar y Geiriau/Love the Words' a lansiwyd gan

---

[262] Ffion Haf Pritchard, 'Cyfieithu Llenyddiaeth Plant i'r Gymraeg: Tair Astudiaeth Achos' (traethawd MPhil, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2014), t. 9.
[263] Eugene Nida, 'Principles of Correspondence', yn Lawrence Venuti (gol.), *The Translation Studies Reader* (London, 2012), t. 147.
[264] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xxiv.
[265] Elan Grug Muse, 'Ffêc tan, lager a merched Abermandraw', <https://pedwargwynt.cymru/adolygu/golygfa/ffec-tan-lager-a-merched-abermandraw>; cyrchwyd 7 Mawrth 2017.
[266] Non Tudur, 'Creu "bydysawd cyfochrog" yn Abermandraw', *Golwg*, 29, 23 (16 Chwefror 2017), t. 20.
[267] Ibid.

Llenyddiaeth Cymru fel rhan o Ddydd Dylan, sef cystadleuaeth yn annog ysgrifenwyr ifainc i ymateb yn greadigol i 'baragraffau agoriadol o destun *Dan y Wenallt* neu *Under Milk Wood*'.[268] Er bod yma, yng nghorff yr erthygl, gyfeiriad at y testun gwreiddiol a'r trosiad, sylwer mai *Dan y Wenallt* yn unig a enwir yn y pennawd: '*Dan y Wenallt*: cystadleuaeth "Dwlu ar y Geiriau" i bobol ifanc.'[269] Tra diddorol yn y cyswllt hwn hefyd yw adolygiad Gwenan Mared o gynhyrchiad Ian Rowlands o *Dan y Wenallt* yn 2003. Yn ei hadolygiad, dyfynna Mared eiriau canmoliaethus y fenyw a eisteddai wrth ei hymyl yn ystod y perfformiad: '"Athrylith," meddai'r ddynes siaradus wrth f'ochr am y cyfieithiad, "a Dylan Thomas, yn naturiol," meddai wedyn, "yn athrylith hefyd."'[270] Y mae'r cymal 'a Dylan Thomas, yn naturiol [...] yn athrylith hefyd'[271] yn enghreifftio'r ffordd y mae *Dan y Wenallt* wedi bwrw *Under Milk Wood* i'r cysgod yn y Gymru Gymraeg.

Cyhoeddwyd detholiad o *Dan y Wenallt* yn *Taliesin* yn 1967, a chyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'r trosiad yn 1968 gan Wasg Gomer. Bron chwarter canrif yn ddiweddarach, cyhoeddwyd argraffiad newydd yn 1992 yn dilyn telediad S4C ohoni ar ffurf cartŵn a gynhyrchwyd gan Gwmni Siriol. Ailargraffwyd y fersiwn hwn yn 1996 ac yn 2006, ac fe gyhoeddwyd fersiwn newydd yn 2014 fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant Dylan Thomas. Esbonia T. James Jones yn ei lêngofiant mai'r

> prif reswm dros lunio'r fersiwn newydd oedd penderfyniad deiliad hawlfreintiau gweithiau Dylan Thomas, Higham Associates, i ddeddfu y dylai unrhyw drosiad o *Under Milk Wood* fod yn seiliedig ar olygiad diffiniol Walford Davies a Ralph Maud. Yn 1995 y cyhoeddwyd hwnnw, wyth mlynedd ar hugain ar ôl cyhoeddi'r *Dan y Wenallt* gwreiddiol. Ni wyddai deiliad yr hawlfraint fy mod innau'n awyddus i ddiwygio *Dan y Wenallt* gan fod hanner canrif o brofiad bywyd ac ysgrifennu wedi fy argyhoeddi o amryw o'i diffygion.[272]

Er mai mater o raid oedd ailymweld â *Dan y Wenallt* yn 2014, manteisiodd T. James Jones ar y cyfle i ddychwelyd at y trosiad i'w fireinio a'i gywreinio ac, yn ddiddorol iawn, i lafareiddio'r testun a'i wneud yn fwy tafodieithol a chynganeddol, fel y gwelwn yn y bennod nesaf. Yng

---

[268] '*Dan y Wenallt*: cystadleuaeth "Dwlu ar y Geiriau" i bobol ifanc', <http://golwg360.cymru/celfyddydau/llen/257335-dan-y-wenallt-cystadleuaeth-dwlu-ar-y-geiriau-i-blant-a-phobol-ifanc>; cyrchwyd 15 Mawrth 2017.
[269] Ibid.
[270] Gwenan Mared, 'Y Wenallt a'i Swyn', <http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=22>; cyrchwyd 29 Ionawr 2017.
[271] Ibid.
[272] Jones, *Jim Parc Nest*, tt. 75–6.

ngeiriau Dafydd Morgan Lewis, 'mae rhywun yn tybio i *Dan y Wenallt* droi'n dipyn o obsesiwn dros y blynyddoedd.'[273]

Yn dilyn y cynhyrchiad llwyfan cyntaf o *Dan y Wenallt* yn Nhalacharn fis Awst 1967, fe'i perfformiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol y Barri 1968 fel rhan o raglen ddrama swyddogol yr ŵyl, ac fe'i perfformiwyd hefyd gan fyfyrwyr Coleg y Drindod yn ystod y 1980au. Yn 1992, paratowyd recordiad sain o *Dan y Wenallt* gan BBC Radio Cymru ar gyfer fersiwn Cymraeg o'r ffilm *Under Milk Wood* a animeiddwyd gan Gwmni Siriol:

> Dyna chi Dewi Pws fel Mog Edwards, Menna Trussler fel Mrs Ogmore Pritcard, Siw Huws fel Polly Gardis, Harriet Lewis fel Mrs Dai Bara Gwyn a Sue Roderick fel Mrs Dai Bara Brown i enwi ond ychydig. [...] Awdur yr addasiad Cymraeg T. James Jones a Huw Ceredig yw'r Ddau Lais ac mae'r holl actorion yn cyfleu acenion gorllewin Cymru, y mwyafrif ohonynt yn orllewinwyr naturiol![274]

Fe'i llwyfannwyd yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala yn 1997 a hefyd gan Theatr Gwynedd dan gyfarwyddyd Ian Rowlands yn 2003. Fe'i gosodwyd i gerdd dant gan Bethan Bryn a pherfformiwyd y cynhyrchiad hwn yn Aberystwyth yn 2009.[275] Perfformiwyd darlleniad o'r fersiwn diweddaraf o'r trosiad yn Gŵyl Arall, Caernarfon fis Gorffennaf 2014. At hyn, llwyfannwyd y fersiwn hwn gan Theatr Oni Bai yn Llanelli fel rhan o raglen Eisteddfod Genedlaethol Sir Gaerfyrddin 2014, a darlledwyd y perfformiad ar Radio Cymru. Ymhellach, darlledwyd cyd-gynhyrchiad Pobol y Cwm a Radio Cymru o'r ddrama fis Hydref 2014 fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant Dylan Thomas. Yn ogystal, crëwyd fersiwn ffilm o'r trosiad gan gwmni Ffatti Ffilms yn 2014. Dyma brawf diymwad o boblogrwydd a grym creadigol y gwaith.

Mewn cynhyrchiad llwyfan o *Under Milk Wood*, arferai rôl yr adroddwr gael ei rhannu rhwng dau actor – y First Voice a'r Second Voice. Bellach, un adroddwr yn unig, sef y First Voice, sydd yng ngolygiad diffiniol Walford Davies a Ralph Maud. Ni rannwyd rôl yr adroddwr yn Llais Un a Llais Dau gan T. James Jones yn ei wahanol fersiynau o *Dan y Wenallt*. Un Llais sydd yn y testun hwn o'r dechrau. Serch hynny, arferai rôl y Llais gael ei chwarae gan ddau actor mewn perfformiad o *Dan y Wenallt*. Rhannwyd rhan yr adroddwr yn y perfformiad cyntaf o'r trosiad yn 1967 rhwng T. James Jones ei hun ac Alun Lloyd, ac fe'i rhannwyd rhwng Huw Ceredig (Llais Un) a T. James Jones eto (Llais Dau) mewn perfformiad ar Radio Cymru yn 1992. Ond yng nghyd-gynhyrchiad Pobol y Cwm a Radio Cymru o'r

[273] Dafydd Morgan Lewis, 'Adolygiad: *Jim Parc Nest*', *Barddas bach y Dolig* (2014), t. 3.
[274] 'Addasiad Newydd o *Dan y Wenallt*', *Y Faner*, 10 Ebrill 1992, t. 20.
[275] Ar y cynhyrchiad hwn, gweler ymhellach adolygiad Arfon Gwilym, 'Dan y Wenallt', *Allwedd y Tannau*, 68 (2009), tt. 20–2.

ddrama yn 2014, diddorol yw nodi mai T. James Jones yn unig a berfformiodd rôl y Llais. Pan ofynnwyd i T. James Jones gan yr awdur presennol pam y penderfynodd uno'r First Voice a'r Second Voice yn ei drosiad, dyma'r ateb a gafwyd:

> yr hyn sy'n ddiddorol yw tra mai un llais yn unig a ddefnyddir yng ngolygiad terfynol Walford Davies a Ralph Maud 1995, eto yn y 'dechrau'n deg' fe nodir First Voice yn hytrach na Voice! […] dyna'n union a wnes inne yn fy ail argraffiad! Fel y gwyddost, y dull y dewisodd Walford wedyn i gyflwyno'r Llais oedd defnyddio italics. Ac er mwyn osgoi cynnwys enwi'r llais bob tro, dyna a wnes inne. Fe roes [Walford] y Llais CYNTAF i mewn gan mai hwnnw yw'r llais cyntaf i dorri ar y distawrwydd. Lleisiau yw'r cymeriadau eraill sy'n dilyn. Roedd ef hefyd yn cytuno bod ymarferoldeb yn rhan o benderfyniad Dylan i rannu'r baich yn y perfformiad gwreiddiol. Hefyd pan oedd Dylan yn paratoi cyhoeddi *Under Milk Wood* mae'n debyg ei fod yn awyddus i hwyluso'r copi ar gyfer darllenydd drwy uno'r ddau lais.[276]

Fel y nodwyd, llwyfannwyd *Dan y Wenallt* yn Eisteddfod Genedlaethol y Barri yn 1968. 'Arwyddocâd hyn',[277] yn ôl T. James Jones, 'oedd bod pont arall wedi ei chodi rhwng dwy brif iaith swyddogol Cymru yn ogystal â rhwng dau ddiwylliant llenyddol.'[278] Gellir edrych ar y broses o gyfieithu *Under Milk Wood* o'r Saesneg i'r Gymraeg ar un wedd fel proses o gymodi diwylliannol. Yng ngeiriau Walford Davies:

> mae *Dan y Wenallt* yn hyrwyddo cadoediad creadigol rhwng dwy iaith yn ogystal â rhwng dau waith. [...] Buasai'r cysyniad o 'gadoediad' rhwng y ddwy iaith wrth fodd calon Thomas. Wedi'r cwbl, ef oedd yr un a soniodd, mewn ymadrodd trawiadol, am 'the momentary peace that is a poem'.[279]

Yn ei hysgrif 'Cyfoeth Cyfieithu', rhydd Angharad Price sylw manwl i swyddogaeth y geiryn 'cyf' yn y ferf 'cyfieithu', sef creu cysylltiad neu gydberthynas. Wrth ddadelfennu'r gair hwn, dengys Price nad trosiad cymhleth yw gair y Cymry am y grefft o symud ystyron o'r naill iaith i'r llall – yn wahanol i'r Almaenwyr â'u 'übersetzen' (trawsosod), y Ffrancwyr â'u 'traduire', yr Eidalwyr â'u 'tradurre' – 'ill dau yn dod o'r Lladin 'traducere' (dwyn drosodd)'.[280] Dywed mai ystyr 'cyfieithu' yn y Gymraeg yw 'magu cydraddoldeb a chadarnhau perthynas ieithoedd â'i gilydd'.[281] Fel y gwelwn yn y man, yr oedd 'magu cydraddoldeb' rhwng dwy brif iaith Cymru yn rhan fawr o'r ysgogiad i gyfieithu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg.

---

[276] E-bost gan T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen] at yr awdur presennol, 13 Mai 2019.
[277] Jones, *Jim Parc Nest,* t. 74.
[278] Ibid.
[279] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xxv.
[280] Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu', *Taliesin,* 100 (Gaeaf 1997), t. 17.
[281] Ibid., t. 36.

Fel y crybwyllwyd yn y bennod gyntaf, y mae gan y Cymry Cymraeg berthynas gymhleth â Dylan Thomas. Gellir dadlau, fodd bynnag, fod T. James Jones wedi achub cam a pharchuso Thomas yng Nghymru drwy gyfieithu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg. Priodol yn y cyswllt hwn yw tynnu sylw at un o brif gwynion y Cymry Cymraeg am *Under Milk Wood*, sef ei bod yn ddrama anweddus, ddi-chwaeth. Yn ôl Kate Crockett, yr oedd 'y cyfeiriadau at ryw, yn *Under Milk Wood* yn arbennig, yn anweddus i rai yn y Gymru anghydffurfiol.'[282] Gwrthododd y BBC Welsh Home Service ddarlledu *Under Milk Wood* i ddechrau gan fod y ddrama yn rhy 'lusty'[283] ac yn anaddas i deuluoedd. Yn eironig, cafodd y ddrama a ystyrir bellach fel un o weithiau 'Cymreiciaf' Dylan Thomas ei darlledu ar y radio yn Lloegr yn gyntaf cyn iddi gael ei darlledu yng Nghymru. Serch hynny, dylid nodi nad y Gymru Anghydffurfiol yn unig a gondemniai'r elfennau honedig masweddus yn *Under Milk Wood*. Yr oedd y ddrama yn rhy bornograffig yng ngolwg prif olygydd y cyhoeddwyr J. M. Dent, a fynnodd hepgor ambell olygfa o'r argraffiad cyntaf.[284] Er enghraifft, yr oedd yr olygfa lle y mae'r ferch ifanc, Mae Rose-Cottage, yn coluro'i thethi â minlliw yn rhy anweddus i'r cyhoeddwyr. Ystyrid yr elfennau rhywiol yn y ddrama fel prawf o anlladrwydd yr awdur. Yng ngeiriau John Goodby: '*Under Milk Wood* has been one of the pieces taken to confirm his incorrigible lechery and treachery and has attracted nationalist and Nonconformist opprobrium as a result.'[285] Diddorol yn y cyswllt hwn yw barn David Holbrook, a awgrymodd na ddylid annog pobl ifainc i ddarllen y gwaith: 'I do not think I would encourage young people to pay much attention to the work, chiefly because it is hard, cruel, and childishly dirty about sex.'[286] Awgrymodd Holbrook hefyd fod y testun yn anaddas i ferched a phlant:

> The whole picture of this 'place of love' is essentially a sick one, caricature though it be, and Dylan Thomas manages to involve us in the sickness, so that the work is offered in all innocence by lady teachers in girls' grammar schools. Is this how we offer the mysteries of love, sexual vitality and marriage to our children, in the hands of a neurotic writer whose whole aim is the vindication of a failure to live?[287]

Ond er gwaethaf beirniadaeth o'r fath ar yr elfennau rhywiol yn *Under Milk Wood*, ni thymherodd T. James Jones y nodwedd hon wrth drosi'r ddrama i'r Gymraeg, ac fe gafodd *Dan y Wenallt* dderbyniad caredig 'gan aelodau parchus y Sanhedrin Eisteddfodol',[288] chwedl

---

[282] Kate Crockett, *Mwy na Bardd: bywyd a gwaith Dylan Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 135.
[283] John Goodby, *The Poetry of Dylan Thomas: Under the Spelling Wall* (Liverpool, 2013), t. 417.
[284] Ibid.
[285] Ibid.
[286] David Holbrook, *Llareggub Revisited: Dylan Thomas and the state of modern poetry* (Bath, 1962), t. 207.
[287] Ibid, t. 224.
[288] T. James Jones, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', *Barddas*, 249 (Tachwedd/Rhagfyr 1998), t. 19.

Jones, pan berfformiwyd y ddrama ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1968. Y mae'n werth oedi yn y fan hon i graffu ar ei gyfieithiadau o rai o ensyniadau rhywiol amlycaf *Under Milk Wood*. Fel y noda Kate Crockett yn ei hadolygiad o'r argraffiad diweddaraf o *Dan y Wenallt*:

> os oedd llaw'r sensor a gwg y Gymru anghydffurfiol ar elfennau llai parchus *Under Milk Wood,* mae'n braf gweld nad yw hynny wedi llyffetheirio'r cyfieithiad. Yn wir, ambell dro y mae'n gadael llai i'r dychymyg na'r gwreiddiol: ni allaf ond gwenu wrth ddarllen geiriau clo cân Mr Waldo: 'Dere, rho frws yn fy shime / A chofia ddod â dy dacl i gyd![289]

Fel y gwelir o gymharu'r llinellau Cymraeg â'r llinellau gwreiddiol –'Come and sweep my chimbley / Bring along your chimbley brush!'[290] – y mae'r gair 'tacl' yn gadael llawer llai i'r dychymyg na 'brush'. Dywed Kate Crockett ymhellach na allai ond gwenu 'wrth gofio'r canu brwd'[291] fu ar gân Mr Waldo yn Gymraeg ar lwyfan y Babell Lên yn 2009. Diddorol yw sylwi nad yw'r elfen rywiol mor amlwg yn fersiynau 1968, 1992 a 1996 y trosiad: 'Dere rho frwsh yn fy shime / A chofia ddod â d'offer i gyd'.[292] Yn debyg i hyn, gellir cynnig bod yr awgrym rhywiol yn amlycach yng nghyfieithiad T. James Jones o'r llinell 'where alone and savagely Jack Black sleeps'[293] yn y fersiwn diweddaraf o'r trosiad. Awgrymir yn y ddrama fod y cymeriad hwn yn rhwystredig ac yn unig oherwydd ei ddaliadau crefyddol, Anghydffurfiol. Y mae'n breuddwydio'n voyeuraidd am gael erlid y pechaduriaid sy'n caru yn y coed: 'chasing the naughty couples down the grass green gooseberried double bed of the wood.'[294] Cyfleir rhwystredigaeth rywiol Jack Black i'r dim yn y disgrifiad 'alone and savagely'.[295] Yn y fersiynau cynnar o'r trosiad, disgrifir yr 'anllygredig Llew Lleder yn cysgu'n ffyrnig',[296] ond gellid dadlau nad yw'r cyfieithiad hwn yn llwyddo i gyfleu unigrwydd y cymeriad sy'n elfen mor bwysig o'r portread trasi-gomig ohono. Y mae'r disgrifiad o'r cymeriad hwn yn 'cysgu'n ffyrnig o unig'[297] yn y fersiwn diweddaraf o'r trosiad, ar y llaw arall, yn crisialu ei rwystredigaeth a'i unigrwydd i'r dim.

---

[289] Crockett, 'Adolygiad: *Dan y Wenallt*', t. 51.
[290] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood, The Definitive Edition* (London, 1995; argraffiad 2014), t. 60.
[291] Crockett, 'Adolygiad: *Dan y Wenallt*', t. 51.
[292] T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 1968), t. 103.
[293] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 8.
[294] Ibid.
[295] Ibid.
[296] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 19.
[297] Idem, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), t. 9.

Cred John Goodby fod cyfrwng *Under Milk Wood* fel drama i leisiau yn caniatáu i'r awdur ymdrin â rhyw a rhywioldeb mewn ffyrdd grotésg a charnifalésg:

> *Under Milk Wood'*s medium [...] facilitates, precisely through not having to present it in visual terms, carnival's grotesque exaggeration of the body, particularly the sexual body. This has a Freudian dream element in Gossamer Beynon's fantasies of Sinbad Sailors ('all cucumber and hooves') and Mae Rose-Cottage's desire for a 'Mr. Right' who leaps 'like a brilliantined trout'.[298]

Yn *Dan y Wenallt*, y mae Meinwen Mai Beynon yn ysu yr un fath â'i chymeriad yn *Under Milk Wood* (Gossamer Beynon) am gael llyncu ei Sinbad blewog, anllythrennog yn gyfan 'cyhyd â'i fod yn giwcymbyr i'r carn'.[299] Yn ogystal, y mae Capten Cat y trosiad yn ymgolli yr un fath â'i gymeriad yn *Under Milk Wood* yn ei atgofion chwerwfelys am fwynhau cwmni Rosie Probert:

Lie down, lie easy. Let me shipwreck in your thighs.[300]	Gorwe lawr, bydd lonydd, I mi ddryllio'r llong Yn hollt dy lwyne.[301]

Y mae'r ddelwedd o Gapten Cat yn dryllio'r llong yn 'hollt ei [ll]wyne', unwaith eto, yn gadael llai i'r dychymyg na'r gwreiddiol. Y mae hyn hefyd yn wir am gyfieithiad Jones o gân Polly Garter. Canai'r ferch yn hiraethus am yr un sydd ar ei meddwl pan fyddai'n caru â phob Tom, Dic a Harri yn y coed, sef ei 'little Willy Wee':[302] 'And most I think when I'm by their side / Of little Willy Wee who downed and died'.[303] Gellir cynnig bod y darlun ohoni 'by their side'[304] yn fwy sidêt na'r darlun a rydd Jones ohoni ym mhob un o'r fersiynau ar ei chefn yn y gwair: 'Fe gofiaf bob tro ar 'y nghefn yn y gwair'.[305]

Ym marn Ian Rowlands, sef cyfarwyddwr y llwyfaniad proffesiynol cyntaf o *Dan y Wenallt*, llwyddodd T. James Jones i '[g]ynnwys elfennau rhywiol *Under Milk Wood*'[306] yn ei drosiad, ond ni lwyddodd i drosi 'pŵer elfennol'[307] a phaganaidd y gwreiddiol, fel y 'Spring Rites Stravinsaidd [*sic*]'.[308] Priodol yn y cyswllt hwn fyddai craffu ar y llinell 'The music of

---

[298] Goodby, *The Poetry of Dylan Thomas*, t. 419.
[299] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 62.
[300] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 52.
[301] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 70.
[302] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 41.
[303] Ibid.
[304] Ibid.
[305] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 51.
[306] E-bost gan Ian Rowlands at yr awdur presennol, 28 Mawrth 2017.
[307] Ibid.
[308] Ibid.

the spheres is heard distinctly over Milk Wood. It is "The Rustle of Spring".'[309] Fel y dywed Ann Elizabeth Mayer, y mae'r gyfeiriadaeth at ddarn piano Christian Sinding, 'The Rustle of Spring', hefyd yn dwyn i gof 'The Rite of Spring' Stravinsky.[310] Ni chyfieithodd T. James Jones y gyfeiriadaeth gerddorol yn ei fersiynau cynnar o *Dan y Wenallt*: 'Fe glywir yn glir uwchben Llaregyb sibrydion cynghanedd y Gwanwyn o'r gwagle'.[311] Ond pan ailymwelodd â'i drosiad yn 2014, cywreiniodd y cyfieithiad hwn a chynnwys y gyfeiriadaeth at 'The Rustle of Spring': 'Fe glywir yn glir, fry uwchben Llaregyb, gynghanedd y bydysawd. Mae hi'n "Siffrwd y Gwanwyn".'[312] Ond er iddo adfer y gyfeiriadaeth at 'The Rustle of Spring' ac er bod y syniad o glywed 'cynghanedd y bydysawd' yn ffordd hyfryd o gyfleu *musica universalis* Pythagoras, noda Walford Davies ein bod yn colli'r

> ergyd o beidio â sylweddoli mai darn piano gan y cyfansoddwr Norwyaidd Christian Sinding oedd 'The Rustle of Spring', darn wedi'i hen gysylltu â chwaeth gerddorol isel ael – cyfatebiaeth eironig-annigonol, felly, â chysyniad mawr Pythagoras o Gerddoriaeth y Bydysawd.[313]

Enghraifft arall sy'n teilyngu sylw yng nghyswllt egni gwanwynol y ddrama yw'r gyfeiriadaeth at *As You Like It* Shakespeare yn y ddeialog rhwng Gossamer Beynon, yr athrawes, a'r plant yn yr ysgol. Ni roddodd T. James Jones gynnig ar gyfieithu'r ymddiddan hwn yn fersiynau 1968, 1992 a 1996 o'r trosiad. Ni chyfieithodd gân y plant – 'It was a luvver and his lars / With a a and a o and a a nonino'[314] – nac ychwaith ymateb Gossamer Beynon i'w hynganiad tafodieithol o'r gân hon: 'Naow, naow, naow, your eccents, children! / It was a lover and his less / With a hey and a hao and a hey nonino'.[315] Pennill o ddrama Shakespeare, *As You Like It*, yw'r testun y mae'r plant yn ei lefaru yn y dosbarth:

> It was a lover and his lass,
> With a hey, and a ho, and a hey-nonny-no,
> That o'er the green cornfield did pass
> In springtime, the only pretty ring time,
> When birds do sing, Hey ding a ding, ding.
> Sweet lovers love the spring.[316]

---

[309] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 39.
[310] Ann Elizabeth Mayer, *Artists in Dylan Thomas's Prose Works: Adam Naming and Aesop Fabling* (Ontario, 1996), t. 159.
[311] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 67.
[312] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 52.
[313] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xix.
[314] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 42.
[315] Ibid.
[316] William Shakespeare, *As You Like It* (London, 2011), t. 346.

Manteisiol fyddai oedi yn y fan hon i ystyried arwyddocâd y gyfeiriadaeth lenyddol hon at *As You Like It* yn *Under Milk Wood*. Y mae'r pennill a ddyfynnir yn *Under Milk Wood* yn gyforiog o fwyseiriau rhywiol a chyfeiriadau at y gwanwyn sy'n atgyfnerthu egni rhywiol, cynhwynol y ddrama. Diddorol hefyd yw'r cyfatebiaethau rhwng perthynas y cymeriadau Touchstone ac Audrey yn *As You Like It* a pherthynas Gossamer Beynon a Sinbad Sailors yn *Under Milk Wood*. Yn gryno, cymhlethir perthynas Touchstone ac Audrey gan eu hanghydraddoldeb cymdeithasol. Yn debyg i hyn, ymddengys fod statws cymdeithasol yn cymhlethu'r berthynas rhwng Gossamer a Sinbad hefyd. Er mor sidêt yw Gossamer, datgana'n angerddol: 'I don't care if he *is* common'.[317] Y mae Sinbad, ar y llaw arall, yn gresynu bod Gossamer mor ddysgedig: 'I wish that you were not so educated.'[318] Yn ogystal, gellir cynnig bod elfen o Audrey i'w chanfod yng nghymeriad Gossamer gan ei bod hithau hefyd yn ysu am gael bod yn 'woman of the world'.[319] Er bod Audrey yn dyheu am gael priodi Touchstone, poena fod y dyhead hwnnw yn ei gwneud yn anniwair. Yn debyg i hyn, ysa Gossamer am gael diosg ei delwedd athraweslyd, barchus a byw yn ôl ei greddfau rhywiol fel 'the stripped and mother-of-the-world big-beamed and Eve-hipped spring of herself'.[320] Y mae'r gwanwyn fel petai'n deffro chwantau rhywiol y cymeriadau yn *Under Milk Wood.* Gellir cynnig yn y cyswllt hwn felly mai pwrpas y gyfeiriadaeth at *As You Like It* yn *Under Milk Wood* yw atgyfnerthu'r syniad bod serch yn blodeuo yn y gwanwyn.

Er bod T. James Jones wedi cynnwys y llinellau 'Pan gana'r adar, ding a ding a ding / Cawn fynd i'r allt am ffling'[321] ym mhob fersiwn o *Dan y Wenallt*, nid yw'r gyfeiriadaeth Shakespearaidd mor amlwg yn y Gymraeg. Y mae modd dadlau y gallai T. James Jones fod wedi cyfeirio at bennill gan lenor Cymraeg adnabyddus sy'n cyfateb i Shakespeare o ran statws yn y traddodiad llenyddol Cymraeg ac sydd hefyd yn enwog am ei ymdriniaethau â serch a byd natur – fel Dafydd ap Gwilym, er enghraifft. Ynghyd ag adleisio dull Dylan Thomas o ddefnyddio cyfeiriadaeth lenyddol i gryfhau'r syniad o egni gwanwynol y ddrama, byddai cyfeirio at lenor Cymraeg fel Dafydd ap Gwilym yn *Dan y Wenallt* yn hytrach na Shakespeare wedi bod yn ffordd o gysylltu *Under Milk Wood* â'r traddodiad llenyddol Cymraeg. Byddai hynny hefyd, o bosibl, wedi bod wrth fodd Ian Rowlands sydd o'r farn na lwyddodd T. James Jones i grisialu'r 'force that through the green fuse drives the flower'[322] yn ei drosiad – yr egni

[317] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 46.
[318] Ibid., t. 47.
[319] Shakespeare, *As You Like It*, t. 346.
[320] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 46.
[321] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 71.
[322] E-bost gan Ian Rowlands at yr awdur presennol, 28 Mawrth 2017.

hwnnw sydd, chwedl yntau, 'bron â bod yn haptig'[323] yn *Under Milk Wood*. Yn wahanol i Rowlands, swynwyd Kevin Allen, sef cyfarwyddwr y fersiynau ffilm diweddaraf o *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt,* gan eroticiaeth gartwnaidd y ddrama. Disgrifia Allen *Under Milk Wood* fel testun 'erotic', 'surreal', a 'lusty' – 'It's filthy! But it's in the text – which can be childish at times, and cartoony.'[324] Fel y nodwyd, ni thymherodd T. James Jones yr elfennau hyn yn ei drosiad. Pam felly fod llawer o Gymry Cymraeg wedi cofleidio *Dan y Wenallt* ond yn dal i gadw *Under Milk Wood* hyd braich?

Yn nhyb Ian Rowlands, yr hyn sydd wrth wraidd ymdrechion y Cymry i osod y trosiad uwchben y gwreiddiol yw trawma seicolegol Brad y Llyfrau Gleision, edmygedd Dylan Thomas o Caradoc Evans, 'snobyddiaeth y Cymry'[325] a 'natur Cambro-Saesneg Thomas',[326] a gymhlethwyd gan ei ddiffyg diddordeb honedig yn yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Fel y dywed Rowlands, y 'mae ôl 1847 dal i'w deimlo yng Nghymru – Gwlad y Menig Gwynion'.[327] Ymatebodd y Cymry yn amddiffynnol i'r sarhad hwn drwy obsesu ynghylch parchusrwydd a moesoldeb. Agorwyd y graith seicolegol hon yn 1915 gan Caradoc Evans, 'the best hated man in Wales',[328] yn ôl *The Western Mail*, pan gyhoeddodd ei gyfrol o straeon byrion dychanol, *My People,* a oedd yn bygwth y delfryd Fictoraidd o'r Gymru lân. Fel y nodwyd eisoes, yr oedd Caradoc Evans hefyd yn ddylanwad mawr ar Dylan Thomas, ac y mae sawl beirniad llenyddol wedi trafod *Under Milk Wood* ochr yn ochr â *My People* gan fod y ddau awdur fel petaent wedi cipio'r menig gwynion oddi ar ddwylo'r Cymry drwy ddychanu'r gymuned Gymraeg yn eu gwaith. Ond yn wahanol i Caradoc Evans, ni ellir dweud yn dalog-simplistig mai colbio'i gyd-Gymry a bwrw sen ar y diwylliant Cymraeg a'r traddodiad Anghydffurfiol yw bwriad Dylan Thomas yn *Under Milk Wood*. Fel y noda Aneirin Talfan Davies:

> Piwritan oedd Caradog [*sic*] Evans – proffwyd yn taranu yn erbyn ei bobl, a sawr tân a brwmstan yn ei eiriau, ac wrth ei ddarllen y mae dyn yn cael yr argraff nad da ganddo'r greadigaeth. Offeiriaid yn siarad dros ei bobl oedd Dylan.[329]

---

[323] Ibid.
[324] 'Twin Town's Kevin Allen and Rhys Ifans reunite to make "erotic, surreal and lusty" version of *Under Milk Wood*', *Wales Online* <http://www.walesonline.co.uk/whats-on/film-tv/twin-towns-kevin-allen-rhys-10322379>; cyrchwyd 9 Mawrth 2017.
[325] E-bost gan Ian Rowlands at yr awdur presennol, 28 Mawrth 2017.
[326] Ibid.
[327] Ibid.
[328] Alfred Hickling, '*My People* review – incest and insanity in nightmarish Welsh tales', <https://www.theguardian.com/stage/2015/nov/16/my-people-review-incest-insanity-clywd-theatr-cymru-mold-caradoc-evans>; cyrchwyd 13 Ionawr 2017.
[329] Aneirin Talfan Davies, *Gyda Gwawr y Bore* (Llandybïe, 1970), t. 70.

Disgrifia Victor Hallett bortread Evans o'r gymuned Gymraeg fel 'the dark flipside to that in *Under Milk Wood*'.[330] Diddorol hefyd yw'r cymariaethau a wnaed rhwng *Under Milk Wood* ac *Un Nos Ola Leuad* Caradog Prichard. Cyfeiria Niall Griffiths at y tebygrwydd rhyngddynt yn ei epilog i'r cyfieithiad Saesneg o *Un Nos Ola Leuad – One Moonlit Night*:

> Thomas's *Under Milk Wood* bears more than a superficial resemblance to *Un Nos Ola Leuad* in its parade of oddballs (some might unfairly say caricatures); it is worth noting that Prichard first conceived of his novel as a radio play for voices.[331]

Y mae Walford Davies hefyd yn cyfeirio at y tebygrwydd rhwng y testunau hyn yn ei ragymadrodd i *Under Milk Wood*: 'It is uncannily as if Caradog Prichard had picked up the scent of the "Town That Was Mad" idea even in the finished play.'[332] Dylid nodi na chafodd Caradog Prichard ei gystwyo i'r un graddau â Caradoc Evans a Dylan Thomas am ei bortread dychanol o'r gymuned Gymraeg. Cafodd *Un Nos Ola Leuad* ei gwobrwyo fel 'y 'Nofel Gymreig Orau' gan banel o arbenigwyr llenyddol Cyfnewidfa Llên Cymru 'a thrwy bleidlais gan dros 1,400 o ddarllenwyr *Wales Arts Review*.'[333] Nod y Gyfnewidfa oedd 'ceisio hyrwyddo *Un Nos Ola Leuad* nid yn unig fel y "Nofel Gymreig Orau" ond hefyd fel "clasur Ewropeaidd modern".'[334] Bron na ellir dweud felly fod y Cymry Cymraeg fel petaent yn credu mai hwy yn unig biau'r hawl i ddychanu'r gymuned Gymraeg, a gwae unrhyw un nad yw'n 'aelod cyflawn' o'r gymuned hon os yw'n ei chollfarnu. Gellir dadlau yn y cyswllt hwn mai'r gwahaniaeth rhwng cefndir a bywyd personol Dylan Thomas yr aderyn drycin honedig wrth-Gymreig o swbwrbia Seisnig Abertawe ar y naill law, a T. James Jones y bardd-bregethwr cenedlaetholgar, Cymraeg o gefn gwlad Sir Gâr ar y llall, sydd wrth wraidd tuedd y Cymry i osod y trosiad yn uwch na'r gwreiddiol.

Ymddengys fod delwedd Dylan Thomas fel bardd roc a rôl hedonistaidd wedi lliwio barn sawl un ynghylch y ddrama cyn iddynt hyd yn oed agor ei chloriau. Caiff llawer o ddarllenwyr hyd heddiw gryn drafferth gwahanu'r dyn oddi wrth ei waith. Un adwaith diweddar i fywyd personol y bardd sy'n werth ei drafod yw ymateb deifiol y cylchgrawn dychanol *Lol* i ddathliadau canmlwyddiant Dylan Thomas yn 2014. Dychenir yn y rhifyn hwn

---

[330] Victor Hallett, 'My People by Theatr Clwyd and Invertigo Theatre', <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=3461>; cyrchwyd 13 Ionawr 2017.
[331] Niall Griffiths, 'Afterword', yn Caradog Prichard, *One Moonlit Night* (Edinburgh, 2009), t. 176.
[332] Walford Davies, 'Introduction', yn Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. xxxiii.
[333] '*Un Nos Ola Leuad* gan Caradog Prichard yw'r Nofel Gymreig Orau', <https://waleslitexchange.org/cy/news/view/un-nos-olau-leuad-by-caradog-prichard-chosen-as-wales-arts-reviews-greatest/>; cyrchwyd 18 Mawrth 2017.
[334] Ibid.

ddigwyddiadau a drefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru (neu Llenyddiaeth Dylan, fel y'i gelwir yn goeglyd gan *Lol*) i ddathlu canmlwyddiant y bardd, megis y teithiau llenyddol 'Crwydriadau Dylan', sef cyfres o deithiau llenyddol i leoliadau a ysbrydolodd y bardd. Dyma'r hysbyseb ar gyfer 'Chwydfa Chwil Dylan' yn *Lol* sy'n gwatwar Llenyddiaeth Cymru am eu hobsesiwn honedig â'r bardd hwn:

> Mae Llenyddiaeth Dylan yn eich gwahodd i ymuno mewn profiad bythgofiadwy sef mynd ar daith 'Chwydfa Chwil Dylan', lle cewch ail-greu llwybrau meddwol Dylan ei hun. Yng nghwmni'r comedïwr methiannus Griff Rhys Jones, cewch chithau gyfle i ordro eich rownd gyntaf o nifer yn The Antelope Hotel, chwydu tu cefn i'r Uplands Hotel cyn piso yn erbyn wal The No Sign Wine Bar. [...]
>
> Colapsiwch wedyn ar y stryd yn sŵn cerddi Gillian Clarke a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Byddwch yn aros ar y palmant o flaen y Queens. Am feddwad all eich lladd, cysylltwch â Llenyddiaeth Dylan nawr.
>
> (Am dâl ychwanegol gellir cael gwasanaeth pwmp stumog arbennig yn y Dylan Suite yn Ysbyty Singleton).[335]

Ond wrth ddarllen y sylwadau hyn am ddiota Dylan, daw geiriau John Lennon i'r cof: 'Did Dylan Thomas write *Under Milk Wood* on beer? What does that have to do with it?'[336] Egyr y bennod 'Dylan y Dadleuol' yn y gyfrol *Deugain Barddas* â disgrifiad ohono fel 'y lyshiwr o Dalacharn'.[337] Fel y nodir yn y gyfrol hon, 'yn 2014, canmlwyddiant ei eni, roedd yn amhosib osgoi coffadwriaeth Dylan Thomas',[338] ac fe gafodd gryn sylw yn rhifyn Hydref 2014 o *Barddas*, gyda sawl cyfrannwr yn mynegi eu barn ynghylch y bardd hwn. Fel y gwelwn, y mae llawer o'i edmygwyr yn ei chael hi'n anodd trafod ei farddoniaeth heb sôn am feddwi. 'Gweddw yw'r Gwin' yw teitl yr ysgrif gan Ieuan Wyn a gyhoeddwyd yn rhifyn Hydref 2014, sef llinell glo'r englyn a gyfansoddodd Euros Bowen er cof am Dylan Thomas (dyfynnwyd yr englyn yn y bennod gyntaf). Trafoda Ieuan Wyn yr englyn hwn yn fanwl yn ei ysgrif, gan sylwi ar y modd y bu i Dylan Thomas feddwi, nid yn unig ar alcohol, ond ar farddoniaeth:

> A chymryd y modd y mae Euros Bowen yn gwneud defnydd trosiadol o'r gwin yn ei englyn, sylw'r bardd Ffrengig, Baudelaire yw'r mwyaf perthnasol: 'Dylai rhywun fod yn feddw bob amser. Dyna'r unig beth o bwys. Ond meddwi ar beth? Cewch feddwi ar win, ar farddoniaeth, neu ar rinwedd, fel y gwelwch chi orau. Yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn meddwi.' Buasai Dylan Thomas yn gyfarwydd â'r dyfyniad ac â'r hyn a fynegir ynddo. Aeth ef yn gaeth i'r ddiod feddwol (cwrw, ond gwirodydd yn yr Unol Daleithiau – wisgi yn bennaf) ac yn gaeth i'r gelfyddyd. Mae'r gwin yn englyn Euros

[335] Arwel Vittle (gol.), *Llyfr Mawr Lol: Hanner Canrif o Hiwmor, Enllib a Rhyw* (Talybont, 2015), t. 234.
[336] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 156.
[337] Gruffudd Antur a Guto Dafydd (goln), *Deugain Barddas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016), t. 279.
[338] Ibid.

> Bowen yn golygu pob math o ddiod gadarn, ac mae'n cynrychioli celfyddyd barddoniaeth.[339]

Meddwi ar ei farddoniaeth a wnaeth Emyr Lewis hefyd, fel y dywed yn ei ysgrif 'Licio Bara Ceirch':

> Y gair cyntaf a ddaw i fy meddwl wrth ystyried Dylan Thomas yw 'meddw'. Nid yn unig am iddo dreulio cymaint o'i fywyd yn y stad honno, ond am mai dyma oedd y teimlad a gefais wrth ddod ar draws ei waith am y tro cyntaf. Roedd yn debyg mewn un ffordd i'r sioc i'r synhwyrau a gefais o glywed a blasu'r gynghanedd am y tro cyntaf, ond yn achos Thomas, roedd sŵn a swae ei farddoniaeth, a phŵer cignoeth y delweddu gweledol swreal yn cludo dyn i ryw fan y tu hwnt i resymeg sobor bywyd bob dydd.[340]

Y mae'n wir fod Dylan y meddwyn a'r merchetwr yn dal i fwrw athrylith Dylan y bardd i'r cysgod yn aml, ac fe dâl inni gyfeirio yn y cyswllt hwn at ymateb T. James Jones i gwestiwn Jasper Rees: 'So what was it about this dissolute drunkard who was as horizontal as vertical in pubs [...] appeal to you, the gweinidog, in the 1960s?'[341] Atebodd Jones gwestiwn y cyfwelydd â chwestiwn arall – 'Was he?'[342] – gan herio'r pwyslais a roddir ar fywyd personol y bardd. Dadlennodd Jones yn y cyfweliad hwn y bu i'w ddiddordeb yn y ddrama synnu rhai o'i gyd-weithwyr yn y weinidogaeth: 'When I first read *Under Milk Wood* I was a minister and many of my colleagues thought it very odd that I was interested in this drunkard.'[343] Esboniodd hefyd fod Dylan Thomas wedi apelio ato ef, y gweinidog, oherwydd ei fod yn feistr ar eiriau. Fe'i disgrifiwyd ganddo yn y cyfweliad hwn fel 'a genius with words',[344] ac yn fwy arwyddocaol na hynny, 'a *Welsh* magician with words'.[345]

Yn aml iawn, bydd trafodaeth ar *Under Milk Wood* yng Nghymru yn arwain at drafodaeth ar Gymreictod Dylan Thomas a'r portread a geir yn y ddrama hon o'r Cymry. Fel y dywed M. Wynn Thomas, o 'holl awduron Cymru, ganddo ef yn unig mae'r enw a fydd yn esgor mor barod ar drafodaeth ar Gymreictod.'[346] Ym marn David Holbrook, nid oedd Dylan Thomas yn Gymro 'go iawn': 'his Welshness is without true roots.'[347] Yn ogystal, haerodd y bardd R. S. Thomas: 'There is nothing Welsh about Dylan Thomas except that he knew his

---

[339] Ieuan Wyn, 'Gweddw yw'r Gwin', *Barddas*, 324 (Hydref 2014), t. 42.
[340] Emyr Lewis, 'Licio Bara Ceirch', *Barddas*, 324 (Hydref 2014), t. 44.
[341] Jasper Rees, 'T. James Jones on Dylan Thomas', <http://www.walesartsreview.org/t-james-jones-on-dylan-thomas/>; cyrchwyd 12 Rhagfyr 2016.
[342] Ibid.
[343] Ibid.
[344] Ibid.
[345] Ibid.
[346] M. Wynn Thomas, 'Dylanwadau', *Taliesin*, 112 (Haf 2001), t. 14.
[347] Holbrook, *Llareggub Revisited*, t. 197.

Bible'.[348] Er i Emyr Lewis feddwi ar 'sŵn a swae barddoniaeth'[349] Dylan Thomas a gwerthfawrogi, wrth sobri a thalu sylw mwy gofalus i'w eiriau, 'weledigaeth ysgytiol un Cymro o rym natur a thrasiedi bywyd dyn',[350] chwalodd yr hud pan glywodd recordiad ohono yn darllen ei gerddi:

> Dw i'n credu mai'r acen fursennaidd oedd y drwg; acen rhywun oedd yn ceisio cuddio ei Gymreictod, neu o leiaf yn ceisio mabwysiadu rhyw gywair fyddai'n ei osod ymysg snobs ac ymddyrchafwyr. Ofnais fod rhyw *cringe factor* yn perthyn iddo, ac atgyfnerthwyd hynny pan ddarllenais ei ysgrif 'The Position of the Writer in Wales'. Er bod Cymru'n ffynhonnell ddofn i'w awen, credwn ei bod hi hefyd yn destun embaras iddo.[351]

Yn 2014, fodd bynnag, cyhoeddwyd erthygl ar wefan *Golwg 360* dan y pennawd 'Dylan Thomas yn "falch o ddwy iaith Cymru"'.[352] Yn yr erthygl hon, trafodir y disgrifiad dwyieithog ohono fel 'bardd ac awdur/poet and author' ar stampiau coffa'r Post Brenhinol. Nodir yn yr erthygl y bu i Roger Lewis o Swydd Gaint anfon llythyr at bapur newydd *The Times* yn honni y byddai Dylan Thomas yn

> horrified to see himself labeled on the new Royal Mail stamp as a 'Bardd ac awdur' (poet and author).
>
> When asked once about his views on the Welsh language, he answered in four words, of which the final three were 'the Welsh language'.[353]

Ymatebodd Kate Crockett i honiad Roger Lewis drwy ysgrifennu llythyr at olygydd *The Times*:

> Dylan Thomas came to regret that his parents had not passed on to him their own first language, Welsh [...] He was prone to change his opinion on any subject in line with his audience, but his poems, prose, works and letters reveal a man who was inspired by the Welsh language, not scornful towards it.[354]

Yn ogystal, ymatebodd Jeff Towns, arbenigwr ar waith Dylan Thomas, i lythyr Roger Lewis gan ddweud wrth *Golwg 360* y byddai'r bardd yn falch o'r disgrifiad dwyieithog am ei fod yn

---

[348] Jason Walford Davies, *Gororau'r Iaith: R. S. Thomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg* (Caerdydd, 2003), t. 10.
[349] Lewis, 'Licio Bara Ceirch', t. 44.
[350] Ibid.
[351] Ibid.
[352] 'Dylan Thomas yn "falch o ddwy iaith Cymru"', *Golwg 360* (27 Mawrth 2014), <https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/141995-dylan-thomas-yn-falch-o-ddwy-iaith-cymru>; cyrchwyd 28 Mawrth 2014.
[353] Roger Lewis, 'Didn't go gentle', *The Times*, 27 Mawrth 2014, <https://www.thetimes.co.uk/article/didnt-go-gentle-2zbrq76gxw0>; cyrchwyd 28 Mawrth 2014.
[354] Kate Crockett, 'Spindrift Pages', *The Times* <https://www.thetimes.co.uk/article/spindrift-pages-t5pn83lfpc5>; cyrchwyd 28 Mawrth 2014.

‘parchu’r iaith Gymraeg’.[355] Esbonia Towns fod nifer o’r sylwadau yr honnir iddynt gael eu gwneud gan Dylan Thomas

> bellach yn chwedlonol, ond does dim cofnod ysgrifenedig ohonyn nhw. Un o’r sylwadau enwocaf oedd ‘Land of my fathers, my fathers can keep it’. Ond nid Dylan Thomas ei hun ddywedodd hynny.[356]

Dyfynnir y datganiad ‘Land of my fathers! My fathers can keep it!’[357] yn aml fel petai’n brawf digamsyniol o’i wrth-Gymreictod. Fel y dywed Hywel Teifi Edwards: ‘pan oedd bron yn 19 oed, gadawodd Dylan Thomas Abertawe ac aeth i Lundain yn llanc i gyd: “The land of my fathers. My fathers can keep it”. Oni ddarllenasai “the great Caradoc Evans”?’[358] Ond geiriau un o’i gymeriadau yn y ffilm *The Three Weird Sisters* (1948) yw’r dyfyniad ‘Land of my fathers...’, sef y dihiryn gwrth-Gymreig, Owen Morgan-Vaughan. Serch hynny, gellid yn hawdd dychmygu Dylan Thomas ei hun yn dweud y geiriau hyn. Fel y noda William Christie: ‘But Thomas might have said ‘Land of my fathers! My fathers can keep it!’ and indeed can be found to have said far worse, and not just under pressure of nationalism.’[359] Mewn llythyr at Pamela Hansford Johnson (Hydref 1933), er enghraifft, ymosododd Thomas yn fileinig ar ei gyd-Gymry:

> each town a festering sore on the body of a dead country [...] little colliers, diseased in mind and body as only the Welsh can be standing in groups outside the Welfare Hall [...] All Wales is like this. I have a friend who writes long and entirely unprintable verses beginning, 'What are you Wales, but a tired old bitch?’ [...] It is impossible for me to tell you how much I want to get out of it all out of the narrowness and dirtiness, out of the eternal ugliness of the Welsh people, and all that belongs to them.[360]

Yn ôl Angharad Tomos, dyma ddyfyniad a’i ‘gyrrodd i ben y craitsh’[361] wrth ddarllen cofiant Cymraeg Kate Crockett i Dylan Thomas, *Mwy na Bardd: Bywyd a Gwaith Dylan Thomas* – dyfyniad a’i hatgoffodd fod ganddi ‘eitha sail i gasáu Dylan Thomas.’[362] Ond camp Kate Crockett, chwedl Tomos, ‘yw holi a ddylem fynd tu hwnt i'r geiriach yma [...] o'i ddarllen

---

[355] Dylan Thomas yn “falch o ddwy iaith Cymru”’, *Golwg 360* (27 Mawrth 2014), <https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/141995-dylan-thomas-yn-falch-o-ddwy-iaith-cymru>; cyrchwyd 28 Mawrth 2014.
[356] Ibid.
[357] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 12.
[358] Hywel Teifi Edwards, *O’r Pentre Gwyn i Gwmderi: Delwedd y Pentref yn Llenyddiaeth y Cymry* (Llandysul, 2004), t 155.
[359] William Christie, *Dylan Thomas: A Literary Life*, <https://books.google.co.uk/books?isbn=1137322578>; cyrchwyd 25 Tachwedd 2016.
[360] Paul Ferris (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters* (London, 2000), t. 48.
[361] Angharad Tomos, ‘Cyfaddefiad: Dwi ddim yn hoffi Dylan Thomas’, <https://www.thefreelibrary.com/Cyfaddefiad%3a+Dwi+ddim+yn+hoffi+Dylan+Thomas...+angharad+TOMOS.-a0366500935>; cyrchwyd 27 Rhagfyr 2016.
[362] Ibid.

drachefn, dydi o ddim gwahanol i be fyddai Dave Datblygu neu hyd yn oed R. S. Thomas yn ei ddeud am Gymru ambell waith.'[363] Pwysig yw cofio hefyd gyd-destun y llythyr hwnnw at Hansford Johnson, sef bardd ifanc 19 oed yn ceisio creu delwedd ohono'i hun, mewn llythyr at ddarpar gariad, fel *savant* hynod soffistigedig: 'I am staying, as you see, in a country cottage, eight miles from a town and a hundred miles from anyone to whom I can speak to on any subjects but the prospect of rain and the quickest way to snare rabbits.'[364] Cred Dafydd Morgan Lewis fod T. James Jones, 'fel Kate Crockett [...] wedi gwneud gwaith pwysig yn ail-feddiannu Dylan i ni'r Cymry.'[365] Yn sicr, fe dâl i ninnau hefyd fynd y tu hwnt i'r datganiad 'Land of my fathers...'. Hawdd yw diystyru'r datganiad wfftiol hwn fel mynegiant o wrth-Gymreictod, ond y mae'n bwysig cofio mai tad Dylan Thomas, D. J. Thomas, a gadwodd y Gymraeg oddi wrth ei fab a'i adael mewn tir neb diwylliannol rhwng Cymru a Lloegr. O graffu, felly, ar ystyr lythrennol ail hanner y datganiad – 'my fathers can keep it' – gellir ei ddehongli'n llythrennol fel disgrifiad o'r hyn a wnaeth llawer iawn o genhedlaeth D. J. Thomas, sef cadw'r iaith oddi wrth eu plant. Dywed T. James Jones y 'buasai D. J. Thomas, a wrthododd drosglwyddo'r Gymraeg i'w fab',[366] wedi ei synnu o weld *Under Milk Wood* yn cael ei ddathlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1967 – 'gŵyl a gynhelid yn unswydd i hyrwyddo'r Gymraeg a'i llenyddiaeth'.[367]

Gellir deall ar un wedd pam yr oedd, ac y mae, cymaint o Gymry Cymraeg mor barod i ddyfynnu'r datganiad bachog a chyfleus 'Land of my fathers...' i ddadlau bod Dylan Thomas yn wrth-Gymreig. Rhaid cydnabod bod agwedd Dylan Thomas tuag at Gymru yn gymhleth ac yn gyfnewidiol iawn. Fel y dywed Guto Dafydd, y mae 'ceisio dehongli'r berthynas rhwng Dylan Thomas a Chymru cyn anodded â [...] dehongli'r berthynas rhwng T. James Jones a Duw'[368] – sydd, fel y gwelwn maes o law, yn berthynas gymhleth iawn. Serch hynny, fel y noda William Christie:

> For every brutal renunciation and every equivocation can be found a statement of more or less ironic recognition, not to say celebration, of his native country, though more frequently towards the end of his life.[369]

---

[363] Ibid.
[364] Ibid.
[365] Lewis, 'Adolygiad: *Jim Parc Nest*', t. 3.
[366] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 74.
[367] Ibid.
[368] Guto Dafydd, 'Henaint a'i gân ei hunan', *Barn*, 618/619 (Gorffennaf/Awst 2014), t. 82.
[369] Christie, *Dylan Thomas: A Literary Life*, <https://books.google.co.uk/books?isbn=1137322578>; cyrchwyd 25 Tachwedd 2016.

Cred T. James Jones y buasai Dylan Thomas 'yn falch o glywed y "ddrama i leisiau" yn yr iaith a waharddwyd iddo.'[370] Yn y cyswllt hwn, pwysig yw nodi bod barn T. James Jones ynghylch Cymreictod Thomas wedi newid yn sylweddol er y 1950au. Fel y gwelwyd o graffu ar y cerddi coffa cynnar i Dylan, yr oedd T. James Jones dan yr argraff fod y bardd yn wrth-Gymreig pan ysgrifennodd y cerddi hyn. Ac eto, yr oedd ganddo '[d]digon o barch iddo fe',[371] chwedl yntau, 'i 'sgrifennu marwnad iddo fe.'[372] Cyhoeddodd T. James Jones y gerdd goffa Gymraeg, 'I Dylan', ar ddechrau fersiynau 1968, 1992, 1996 a 2006 o *Dan y Wenallt,* ond, yn arwyddocaol, fe'i hepgorodd o'r argraffiad newydd yn 2014, a hynny am nad yw'n cytuno bellach â'r feirniadaeth ar Dylan Thomas a geir ynddi.[373]

Cred Justin O'Brien na ddylai cyfieithydd gyfieithu gwaith nad yw'n ei edmygu: 'One should never translate anything one does not admire [...] a natural affinity should exist between translator and translated.'[374] Y mae'r ffaith fod gan T. James Jones ddwy gerdd goffa i Dylan Thomas – yn Gymraeg ac yn Saesneg – yn brawf fod ganddo barch tuag ato fel llenor o'r dechrau'n deg. Fel y noda Walford Davies, y 'mae'n rhaid fod rhyw gariad creadigol ddwfn at Gymru ar waith yn y Saesneg gwreiddiol'[375] i symbylu T. James Jones i addasu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg. Y mae'n werth cyfeirio yma at ddau lythyr o eiddo Dylan Thomas sy'n trafod ei fwriad i ysgrifennu *Under Milk Wood*. Dywed Thomas yn y llythyr cyntaf, dyddiedig 21 Tachwedd 1952, 'I am [...] hoping to bring out an extravagant play [...] about a day's life in a small town in a never-never Wales'.[376] Ac yn yr ail lythyr, dyddiedig 6 Ionawr 1953, y mae'n crynhoi'r ddrama arfaethedig fel 'a play set in a Wales that I'm sad to say never was'.[377] Craffa T. James Jones ar y sylwadau hyn yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r Wenallt': 'Hyd y gwn i, ni chynigiodd neb ddehongli'r sylwadau trawiadol hyn. I ddechrau, beth yn union oedd ystyr y 'sad to say'? Am beth y gresynai?'[378] Dichon mai'r Gymru nad oedd yn bod i Dylan Thomas oedd y Gymru Gymraeg ei hiaith gan na chafodd fyth fod yn rhan gyflawn ohoni. Fe'i magwyd ar aelwyd ddi-Gymraeg (er bod ei fam a'i dad yn Gymry Cymraeg eu hiaith) yn swbwrbia Seisnig Abertawe, a cheisiwyd sgwrio pob arlliw o'r Gymraeg o'i acen mewn gwersi

[370] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 86.
[371] Cyfweliad yr awdur presennol â T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen], 26 Tachwedd 2017.
[372] Ibid.
[373] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 18 Hydref 2016.
[374] Dyfyniad gan Justin O'Brien yn Eugene Nida, *Towards a Science of Translating: With Special Reference to Principles and Procedures Involved in Bible Translating* (Leiden, 1964), t. 151.
[375] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xi.
[376] Ferris (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters*, t. 946.
[377] Ibid., t. 962.
[378] Jones, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', t. 19.

llafareg.[379] Pan ddarllenodd T. James Jones y geiriau 'never-never Wales'[380] a'r 'Wales that I'm sad to say never was',[381] cafodd ei daro 'ar unwaith gan eu heironi',[382] oherwydd iddo ef, 'yr oedd Cymru *wedi* bod ac *yn* bod, ac o fewn ei ffiniau, gymunedau y dylid adfer eu Cymreictod a thrwy hynny feithrin eu hyder mewn Cymreictod.'[383] Gellir dadlau yn y cyswllt hwn felly nad cymuned Gymreig yn unig mo Llaregyb, treflan ddychmygol *Under Milk Wood*, ond cymuned Gymraeg ei hiaith. Yr hyn a wnaeth T. James Jones wrth drosi'r ddrama oedd rhoi'r Gymraeg ar wefusau trigolion Llaregyb a thrwy hynny adfer y Gymru nad oedd yn bod i'r bardd. Fel y dywed M. Wynn Thomas:

> His purpose from the first in translating the play had been to restore to Dylan Thomas the Welsh-language heritage of which he had been deprived; to allow his characters to speak in their own native language (an interesting aspect of *Under Milk Wood*, as Jones points out, is that it was *itself* a work of translation, as almost all the characters depicted in it would in 'reality', given the play's West Wales setting, have enjoyed Welsh as the 'first language' of their unconscious, as well as their conscious, being).[384]

Yng ngeiriau T. James Jones: 'o'n i'n teimlo wrth ddarllen *Under Milk Wood* bod y Gymraeg yn agos iawn, iawn i'r wyneb. A'r cwbwl oedd rhaid imi 'i wneud oedd dod â'r Gymraeg i'r wyneb.'[385] Disgrifir y weithred o gyfieithu gan Annie Brisset fel 'a reterritorializing operation',[386] sy'n ddisgrifiad tra chymwys o fwriad T. James Jones wrth drosi *Under Milk Wood* i'r Gymraeg. Yn nhyb Jones, yr oedd Dylan Thomas yn awyddus i arddel ei wreiddiau Cymreig. Datgana Jones yn ei ysgrif 'Llyfrgell' fod ei gasgliad o waith Thomas, ynghyd â llyfrau amdano, 'yn cadarnhau'n gynyddol ei awydd i arddel ei Gymreictod.'[387]

Yn ôl Vernon Watkins: '[Dylan] would call himself a Welsh poet writing English poetry, because Welsh was in his blood. [...] You can be wholly Welsh, and write only English poetry. And that's what Dylan did.'[388] Cymru, yn anad yr un lle arall, oedd yn tanio awen Dylan Thomas. Fel y noda Walford Davies: 'O ran ei awen, llenor a arhosodd gartref oedd Thomas. [...] Mae'n amlwg mai drama na allasai ond Cymro afradlon (yn ystyr ysgafnaf yr ansoddair) ei hysgrifennu yw *Under Milk Wood*.'[389] Er na ddysgodd y Gymraeg erioed, cafodd ei fagu yn

---

[379] Walford Davies, *Dylan Thomas* (Milton Keynes, 1986), t. 7.
[380] Ibid., t. 20.
[381] Ibid.
[382] Ibid.
[383] Ibid
[384] M. Wynn Thomas, 'He belongs to the English', *The Swansea Review*, 20 (2000), t. 130.
[385] Jerry Hunter, 'Jerry Hunter yn sgwrsio efo... T. James Jones', *Tu Chwith*, 8 (1997), t. 74.
[386] Annie Brisset, 'The Search for a Native Language: Translation and Cultural Identity' yn Lawrence Venuti (gol.), *The Translation Studies Reader* (London, 2012), t. 284.
[387] T. James Jones, 'Llyfrgell', *Taliesin*, 145 (Gwanwyn, 2012), t. 149.
[388] David N. Thomas, *Dylan Remembered: 1935–1953* (Bridgend, 2004), t. 62.
[389] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xi.

sŵn yr iaith ac y mae'n debyg iddo ei hamsugno fel sbwng. Defnyddiodd ei wybodaeth o'r iaith mewn sawl cerdd o'i eiddo, megis 'The force that through the green fuse', er enghraifft, sy'n cynnwys y llinellau, 'And I am dumb to tell a weather's wind / How time has ticked a heaven round the stars.'[390] Dengys nodiadau Dylan Thomas ar y gerdd hon ei fod wedi creu'r llinell 'How time has ticked a heaven round the stars' drwy hollti'r gair 'amser': 'am/sêr np 339 round stars'.[391] Sylwodd Andrew Lycett fod Thomas yn cyfeirio yma at y diffiniad 'sêr np stars' (talfyriad o'r term *noun plural* yw 'np') ar dudalen 339 yn argraffiad 1925 o eiriadur Cymraeg–Saesneg Spurrel: 'This shows Dylan playing with puns in Welsh.'[392] Dyma enghraifft sy'n profi bod yr iaith Gymraeg wedi dylanwadu'n greadigol ar ei waith. Enghraifft arall bosibl o Thomas yn chwarae â'r Gymraeg yw'r ddelwedd o 'the blows of the rain'[393] yn y gerdd 'And death shall have no dominion'. Tybed ai'r ymadrodd 'bwrw glaw' a ysbrydolodd y ddelwedd honno?

Yn ôl Pennar Davies:

> the very fact that Dylan had heard the Welsh language spoken and preached in the Old Welsh style, could have given him a feel for the glory of language as such, and [...] may have affected his whole approach to literature.[394]

Dadlennodd Dylan Thomas fod ganddo un gerdd gynnar a oedd wedi'i seilio ar rythmau barddoniaeth Gymraeg, sef 'I dreamed my genesis'. Defnyddiodd y dull Cymraeg o gyfrif sillafau o fewn y llinellau yn y gerdd hon, yn hytrach na'r arfer Saesneg o gyfrif yr acenion. Ond er i Thomas ddatgan wrth Hamish Miles yn 1934 fod y gerdd 'I dreamed my genesis' yn 'more or less based on Welsh rhythms',[395] dywedodd hefyd, yn ymddangosiadol wrthddywediadol, wrth Stephen Spender yn 1952: 'I'm not influenced by Welsh bardic poetry. I can't read Welsh.'[396] Wrth drafod patrwm acenion cerddi cynnar y bardd, awgryma Jane Aaron fod man cychwyn yr agwedd hon ar y cerddi 'yn nhermau'r dylanwadau barddol ar Dylan, yn broblematig'.[397] Cyfeiria Aaron yn benodol at ddylanwad Gerard Manley Hopkins ar ei farddoniaeth, gan ddweud bod llythyrau cynnar Dylan Thomas yn dangos inni ei fod yn

---

[390] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953* (London, 1989), t. 13.
[391] Gweler Andrew Lycett, *Dylan Thomas: A New Life* (Phoenix, 2004), t. 95.
[392] Ibid.
[393] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 56.
[394] Dyfynnir yn Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 127.
[395] Ferris (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters*, t. 161.
[396] Ibid., t. 953.
[397] Jane Aaron, '"Heddwas ifanc iawn yn ffrwydro": Cerddi Cynnar Dylan Thomas', *Taliesin*, 120 (Gaeaf 2003), t. 99.

darllen ac yn edmygu barddoniaeth Hopkins, a oedd wedi magu 'ei rhythmau Saesneg anarferol trwy ei astudiaeth yntau o fydryddiaeth draddodiadol Gymreig.'[398] Gofynna Aaron:

> ai dilyn Hopkins a wnaeth Thomas felly, neu a oedd ei glust wedi codi'r rhythmau o'r Gymraeg yn fwy uniongyrchol – efallai o dan ddylanwad ei ewythr, Gwilym Marlais [*sic*], a oedd yn cyfansoddi mewn cynghanedd.[399]

Er nad oes gennym unrhyw dystiolaeth gadarn dros gredu bod Dylan Thomas wedi ymdrwytho yn rheolau'r gynghanedd, y mae'n debygol y gwyddai amdani. Clywir ym marddoniaeth Thomas rythmau'r canu caeth a gellir canfod nifer o enghreifftiau o gynghanedd mewn sawl cerdd o'i eiddo. Rhestra T. James Jones rai o'i gynganeddion mwyaf trawiadol yn ei ysgrif 'Various Versions' (dylid pwysleisio mai diffiniadau T. James Jones a geir rhwng y cromfachau):

> Where blew a flower may a flower no more (cynghanedd sain gadwynog)
> Weighed in rock shroud is my proud pyramid (cynghanedd sain gadwynog)
> My world was christened in a stream of milk (cynghanedd draws)
> Though the town below lay leaved with October blood (cynghanedd sain)
> Do not go gentle into that good night (cynghanedd draws)
> Nor heed my craft or art (cynghanedd draws)
> When the morning was waking over the war (cynghanedd sain)
> To the burn and turn of time (cynghanedd sain)
> Oh as I was young and easy in the mercy of my means (cynghanedd sain)
> Though I sang in my chains like the sea (cynghanedd draws)[400]

Yn ogystal â chlywed rhythmau Cymreig yn ei farddoniaeth, y mae T. James Jones yn clywed yr iaith Gymraeg yn ei waith: 'pan ddarllenais *Under Milk Wood* am y tro cyntaf, er mai Saesneg oedd iaith y ddrama, 'roeddwn i'n clywed y Gymraeg drwy'r amser.'[401] Teimla Jones 'mai'r Gymraeg oedd iaith gyntaf y mwyafrif llethol o gymeriadau'r ddrama',[402] a bod hynny wedi bod yn ysgogiad cryf i drosi'r ddrama hon i'r Gymraeg.

Lambastiwyd *Under Milk Wood*, fodd bynnag, gan lawer o feirniaid llenyddol yng Nghymru ar hyd y blynyddoedd ar sail y dybiaeth mai gwawdlun dilornus o'r gymdeithas

---

[398] Ibid.
[399] Ibid.
[400] T. James Jones, 'Various Versions' yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), t. 236. Y mae llinellau 4, 7, 8 a 9 yn esiamplau cyflawn o gynghanedd sain; yn achos llinellau 3, 5, 6 a 10, y mae modd eu darllen fel esiamplau o gynghanedd draws, ond dylid nodi bod eu darllen fel cynghanedd yn golygu nad ydys yn rhoi pwyslais ar eiriau pwysig fel 'christened' a 'go gentle' ac ati; parthed llinellau 1 a 2, y mae modd eu darllen fel esiamplau o gynghanedd sain gadwynog, ond y mae union aceniad y gair 'pyramid' yn destun trafod yma. Diolchaf i'r Arholydd Allanol am ei sylwadau yn y cyswllt hwn.
[401] T. James Jones, rhan o banel trafod gyda Gareth Miles a Manon Eames, cynhadledd *Cymru ar Lwyfan y Byd: Cyfieithu ac Addasu yn y Theatr Gymraeg*, Prifysgol Aberystwyth, 19 Tachwedd 2016.
[402] T. James Jones, 'Adfer Cymreictod Llaregyb', yn rhaglen Theatr Gwynedd (2003), t. 5.

Gymraeg ydyw. Chwipiwyd y ddrama yn 1998 gan Katie Gramich, a'i disgrifiodd fel 'that little adolescent-dirty old man *jeu d'esprit*'.[403] Ymatebodd T. James Jones i sylwadau Gramich yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*' gan ddatgan eu bod

> yn adlewyrchu agwedd bardd a oedd yn drahaus o'i gyd-Gymry, yn feddwyn ac yn ferchetwr afradlon. Dyna'n union oedd ymateb llawer o'm cydnabod i *Under Milk Wood* pan es i ati i'w throsi, ond fe gredais fod y farn sarhaus hon bellach wedi hen ddiflannu, yn enwedig ymhlith beirniaid llenyddol.[404]

Yn groes i farn Katie Gramich, awgryma Alun Page yn ei adolygiad o lwyfaniad cyntaf y trosiad yn 1967 fod *jeu d'esprit* (honedig) adolesent y ddrama yn rhywbeth i'w ganmol. Gwerthfawroga Page y 'nodweddion ebolaidd' a'r 'nodweddion adolesent' sy'n 'pefrio trwy'r gwaith.'[405] Â rhagddo i ddisgrifio'r ddrama'n ganmoliaethus fel 'nodiadau llanc ar ymyl dalen cymdeithas' sy'n 'dygyfor o asbri bachgennaidd'.[406] Gwelir bod Guto Dafydd, ar y llaw arall, yn troedio'n ofalus wrth ganmol y trosiad yn ei adolygiad o *Cymanfa* a'r argraffiad newydd o *Dan y Wenallt* yn 2014. Er ei fod yn canmol Cymraeg '[t]afodieithol flasus' cyfieithiad 'naturiol, rhywiog T. James Jones' ar ddechrau'r adolygiad, gofynna:

> Onid gwawdio'r cymeriadau – a'u cymuned Gymreig yn eu sgil – y mae'r ddrama? Dyna farn Thomas Parry, er enghraifft: 'I resent the implication that all my fellow-countrymen are half-witted, perfidious and lecherous... It libels a whole nation.'[407]

Gellir gofyn yma beth yn union a olygir gan Guto Dafydd wrth 'cymuned *Gymreig*' (fy mhwyslais i) yma. At hyn, dadleua Dafydd fod agwedd amwys Dylan Thomas tuag at Gymru yn llyffetheirio'r profiad o ddarllen y trosiad. Er bod y cymeriadau'n siarad Cymraeg yn *Dan y Wenallt* yn hytrach na Saesneg y dramodydd gwreiddiol, teimla Dafydd fod 'agwedd yr awdur yn amhosib ei chyfieithu', a bod 'cyfieithiad Cymraeg – hyd yn oed mor ysbrydoledig â hwn – yn hoelio'r sylw ar yr amwysedd ynghylch yr agwedd honno.'[408] Cred Rhidian Griffiths, ar y llaw arall, fod y Gymraeg yn lliniaru'r elfennau gwawdlyd y gwreiddiol. Noda Griffiths yn ei adolygiad o'r perfformiad cerdd dant o *Dan y Wenallt* (2009):

> Mae gwaith gwreiddiol Dylan Thomas yn gymysgedd o anwyldeb a gwawd: yn ôl Daniel Jones yn ei ragair i argraffiad Dent o'r ddrama, roedd Thomas yn hoff o drefi bach glan y môr, gan gynnwys Ceinewydd, sy'n rhannol yn sail i Llareggyb, ac mae elfennau annwyl iawn yn ei gymeriadau. Ond o'u cyflwyno yn Saesneg, hyd yn oed mewn Saesneg Cymreigaidd, y gwawd sydd fel petai'n fwyaf amlwg. Pan fydd y

[403] Katie Gramich, 'Welsh greats of the century: Poets', *New Welsh Review,* 40 (Spring 1998), t. 12.
[404] Jones, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', t. 18.
[405] Alun Page, 'Dan y Wenallt', *Baner ac Amserau,* 29 Awst 1968, t. 2.
[406] Ibid.
[407] Dafydd, 'Henaint a'i gân ei hunan', t. 82.
[408] Ibid.

> Capten a Mr Waldo a Mrs Ogmor Pritchard yn llefaru yn Gymraeg, fodd bynnag – a'r trosiad mor naturiol fel petai wedi bod erioed – yr anwyldeb sy'n brigo i'r wyneb, ac mae'r darlun yn llawer iawn cynhesach.[409]

Ym marn Hywel Teifi Edwards, dangosodd T. James Jones 'yn feistraidd yn *Dan y Wenallt*' fod 'y Gymraeg "wedi ei gwneud" ar gyfer creu campwaith fel *Under Milk Wood*':

> Nid dim ond clywed trigolion 'Llareggub' yn siarad Cymraeg yn afieithus rugl a wnaeth T. James Jones; sylweddolodd hefyd, fod dau o foddau mwyaf ffrwythlon ein traddodiad llenyddol yn ymbriodi yn *Under Milk Wood* – y farwnad a'r fugeilgerdd – a gwnaeth yn fawr o hynny. O'r agoriad swyngyfareddol sy'n ein tywys trwy freuddwydion nifer o'r cymeriadau allan i ddiwrnod o fyw sy'n cyson ddal dwylo â ffantasi, ac yn ôl i noson arall o freuddwydio, y mae harddwch 'Llareggub' yn ein hawlio. Daw aroglau a synau tir a môr i'n ffroenau a'n clyw, a rhibidirês o olygfeydd i lanw ein llygaid. Yn glust agored, llygadrwth a chegrwth y mae gwerthfawrogi *Under Milk Wood*. Act tra hyfryd yn y gomedi ddynol anorffen ydyw.[410]

Gellir er hyn ddeall pam y byddai llawer o Gymry yn amheus o fwriad Dylan Thomas a'i bortread honedig garicatwraidd o'r gymuned Gymraeg yn *Under Milk Wood*, yn enwedig yn y 1960au pan ddechreuodd T. James Jones gyfieithu'r ddrama i'r Gymraeg. Yng ngeiriau Walford Davies:

> Like all alert societies, Wales rightly resents the sabotage of its real self in the short-cuts of caricature, and though an implicit truce regarding *Under Milk Wood* was signed even across the language-barrier in the form of James Jones's excellent translation of the work into Welsh as *Dan y Wenallt* (1968), objections to the play's 'stage Welshness' will always be understandable. Even Thomas would not have found the satire possible in quite this form in the more confident Wales that emerged in the 1960s.[411]

Mewn darlith ar ranbartholdeb a chenedlaetholdeb, 'The Regional Forecast', disgrifiodd Seamus Heaney y portreadau ystrydebol a geir o'r Cymry yn *Under Milk Wood* fel agwedd sy'n 'symptomatic of a not irreprehensible collusion with the stereotype of the voluble Taffy'.[412] Adleisir y feirniadaeth hon hefyd gan Hywel Williams, a gwynodd mewn erthygl yn *The Guardian* yn 2003 fod *Under Milk Wood* yn pedlera delwedd sarhaus a threfedigaethol o'r Cymry. Disgrifiodd y ddrama fel

---

[409] Rhidian Griffiths, '*Dan y Wenallt* ar Gerdd Dant', *Barn*, 558/9 (Gorffennaf/Awst, 2009), t. 67.
[410] Edwards, *O'r Pentre Gwyn i Gwmderi*, t. 157.
[411] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xxxiii.
[412] Dyfynnir yn Ronald P. Draper, *The Literature of Region and Nation* (London, 1989), t. 13.

> the single most important anglophone text in providing the English with an essentially treacherous view of Wales [...] a colonialist's fantasy of what the natives get up to when Albion's back is turned.[413]

Yn ogystal, dywed David Holbrook yn ei ysgrif 'A Place of Love?' fod *Under Milk Wood*, yn wir, yn ddarn ciaidd o lenyddiaeth: 'It is a cruel work, inviting cruel laughter.'[414]

Gellid dadlau, fodd bynnag, nad oedd beirniaid llenyddol y tu hwnt i Brydain mor sensitif i'r dychan â beirniaid llenyddol Cymraeg a Saesneg. Fel y noda'r academydd Americanaidd Helen Vendler yn ei hysgrif '*Under Milk Wood*: Lists, Made and Undone':

> I had not really registered Thomas's social imagination; of his prose, I knew only of the playful *A Child's Christmas in Wales*, but as Thomas read *Under Milk Wood*, a town and its population gradually took shape. I was aware of the fairytale aura of the play and of the spell-casting power of Thomas's imagination, but for all I knew, some place in Wales was actually like Llareggub (I did not catch the reversal of the title). I had none of the personal investment that made some Welsh hearers feel either simplified or betrayed by Thomas's portrait of a mythologized Laugharne.[415]

Ond dylid nodi yn y cyswllt hwn nad y brodorion yn unig a ddychenir gan Dylan Thomas yn *Under Milk Wood*. Y mae'n bwysig pwysleisio y ceir yn y ddrama gameo gan y Sais trefedigaethol hefyd, sy'n dwyn i gof ymateb Peter Davies i'r ddrama. Tra mae rhai beirniaid llenyddol o'r farn bod *Under Milk Wood* yn wrth-Gymreig, fe'i hystyrir yn *rhy* Gymreig gan Peter Davies, a gwynodd mor ddiweddar â 2005 fel hyn parthed barddoniaeth y cymeriad Eli Jenkins, y bardd-bregethwr sy'n canu mawl i'w fro:

> We are expecting a modest dissent from comparison with Britain's most celebrated streams. Instead, Thomas gives us a catalogue of the largely unknown and unpronounceable. It is on one level totally absurd. And yet, by some miracle, it does not elicit the expected sneer from us.[416]

Sylwer yn arbennig ar ei ddefnydd coeglyd o ansoddeiriau fel 'unknown', 'unpronounceable' ac 'absurd'. Fel y noda Kate Crockett, 'dyna ymateb nodweddiadol rhai beirniaid i elfennau sy'n rhy Gymreig neu Gymraeg at eu dant nhw.'[417]

---

[413] Hywel Williams, 'The cut-price Dionysiac', <https://www.theguardian.com/books/2003/oct/27/dylanthomas>; cyrchwyd 29 Rhagfyr 2016.
[414] Holbrook, *Llareggub Revisited*, t. 201.
[415] Helen Vendler, '*Under Milk Wood*: Lists, Made and Undone' yn Alyce von Rothkirch a Daniel Williams (goln), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts: Essays for M. Wynn Thomas at Sixty* (Cardiff, 2004), t. 102.
[416] Peter Davies, *A Greenwich Student Guide to Dylan Thomas* (London, 2005), t. 89.
[417] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 134.

Yr oedd etifeddiaeth Anghydffurfiol, Gymreig Dylan Thomas yn cynnig cyfoeth o ddeunydd comig dychanol ac eironig iddo. Yn ôl John Ackerman:

> the comedy stems from Thomas's acute yet compassionate observation of the habits and foibles of the Welsh scene, a knowledge and experience built up over many years; and his delight in mocking the strict Nonconformist sexual code remains, although now more genial and humorous than sharply satiric.[418]

Ond er bod 'Thou Shalt Not' a 'God is Love' yn crogi uwchben gwelyau rhai o'r cymeriadau yn y ddrama fel symbolau o orthrwm Anghydffurfiaeth, nid yw Dylan Thomas yn defnyddio'r ddrama i ymosod ar ddiwylliant capelyddol Cymru â gordd. Nid pregethwr tân a brwmstan mo'r Parchedig Eli Jenkins yn y ddrama, er enghraifft, ond cymeriad annwyl a diniwed. Disgrifia Jackie Benjamin y cymeriad hwn fel 'his affectionate parody of the preacher-poet [...] which allows him to critique both religious and literary traditions.'[419] Nid yw Eli Jenkins yn feirniadol o drigolion Llareggub, waeth beth fo'u pechodau. Fel y dywed Dylan Thomas am rôl y cymeriad hwn yn y ddrama: 'the 1st Voice and the poet preacher, never judge nor condemn but explain and make strangely simple and simply strange.'[420] Dylid nodi yn y cyswllt hwn nad oedd Thomas yn wrthgrefyddol ond yn hytrach yn feirniadol o ragrith a ffugbarchusrwydd Anghydffurfiaeth Gymreig. Y mae T. James Jones yntau'n feirniadol o ragrith crefyddol, ynghyd â'r ffordd y gall y 'capel a'r gyfundrefn',[421] chwedl yntau, ladd crefydd. Mewn cyfweliad â Menna Baines, disgrifiodd Jones sefydliad y capel fel cneuen, gan ddweud bod 'yna fywyn i'r gneuen ond mae'r plisgyn ambell waith yn mynd mor galed y'n ni'n ffaelu'n deg â mynd at y bywyn'.[422]

Perthnasol yn y cyd-destun yw nodi bod T. James Jones yn dychanu byd y capel yn ei ddramâu cynharaf, *Wil Angladde* a *Gair i Gall*, a gyhoeddwyd yn 1982. Addasiad o ddrama a anfonodd i gystadleuaeth y Ddrama Hir yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman 1970, *Ble mae Daniel*, yw *Wil Angladde*, ac fe'i disgrifir gan Jones fel comedi ddychanol sy'n 'darlunio peryglon pob uchelgais, gan gynnwys yr awch am bulpuda.'[423] Y gymuned gapelyddol yw cocyn hitio'r ddrama hon, a gwneir hwyl ynddi am ben yr holl enwadau gwahanol sydd i'w cael yng Nghymru: 'Enwad newy'? [...] Un arall 'to? [...] Gormod ohonyn nhw sy' ga'l 'weda

---

[418] John Ackerman, *A Dylan Thomas Companion: Life, Poetry and Prose* (London, 1994), t. 253.
[419] Jackie Benjamin, 'Misrule in Milk Wood: A Bakhtinian Reading of Dylan Thomas's "Play for Voices"', *Welsh Writing in English*, 9 (2004), t. 68.
[420] Davies, 'Rhagymadrodd', t. 2.
[421] Menna Baines, 'Canu'r Mab-A'th-O-Gatre: Holi T. James Jones', *Barn*, 347 (Rhagfyr 1991), t. 7.
[422] Ibid.
[423] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 100.

i.'[424] Seiliwyd y ddrama *Gair i Gall* hefyd ar brofiadau T. James Jones yn y weinidogaeth. Alegori ydyw am ddirywiad y capeli yng Nghymru. Yn ôl Jones, ceisiodd adlewyrchu ei farn am y weinidogaeth yn y 1970au yn *Gair i Gall,* gan y bu iddo ddechrau amau ei dilysrwydd yn y cyfnod hwn. Er y llewyrchai bywyd eglwys y Priordy, Caerfyrddin dan ei arweiniad, dywed y clywsai 'ryw Ifan', sef un o brif gymeriadau'r ddrama, yn pigo'i gydwybod ac yn gofyn iddo ''Dach chi'n sicr mai yma ddylsech chi fod?'[425] Er iddo 'weld "llwyddiant" cymharol', meddai, 'roedd gwrthgiliad pobol o'r capeli yn amlwg yng Nghymru ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif' – ffenomen a barodd iddo ofyn iddo'i hun, 'Ai Rhagluniaeth yn dysgu gwers i grefyddwyr a âi drwy'r mosiwns oedd hyn?'[426] Yn yr un modd, y gweinidog â'i amheuon diwinyddol a'i drafferthion teuluol yw prif gymeriad ei ddrama deledu *Y Gyfeillach*. Fel y gwelwn maes o law yn y traethawd hwn, y mae crefydd hefyd yn thema amlwg mewn dramâu diweddarach o'i eiddo megis *Herod* a *Pwy Bia'r Gân?*.

Fe dâl inni nodi hefyd mai'r ddrama gyntaf a luniodd T. James Jones oedd trosiad o ddrama absŵrd N. F. Simpson, *A Resounding Tinkle*. Cyfieithodd y ddrama hon yn ystod y 1960au cynnar a pherfformiwyd y trosiad, *Hollti Blew,* yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Aberafan 1966. Fe'i disgrifir gan Emyr Edwards yn ei adolygiad o'r cynhyrchiad fel drama 'sydd yn llawn dychan cymdeithasol a theuluol yn ei gwead, yn ei chymeriadaeth a'i deialog.'[427] Yn ei hunangofiant, dywed Sharon Morgan, un o'r actorion a fu'n rhan o'r cynhyrchiad hwn, ei bod yn cofio 'clywed darne hudolus *Dan y Wenallt* gan Mr Jones yn ystod ymarferion *Hollti Blew* wrth iddo weithio arno'.[428]

Wrth ystyried ei hoffter o ysgrifennu dramâu dychanol, yn enwedig rhai sy'n dychanu byd y capel, hawdd yw deall pam y bu i *Under Milk Wood* apelio at T. James Jones. Y mae'n werth cyfeirio yn y cyswllt hwn at bortread Dylan Thomas o'r Cymro Anghydffurfiol, rhagrithiol sef Jack Black y crydd, sy'n ysu, er gwaethaf ei foesoli, am gael mynd i Gomora. 'Athrylith Dylan Thomas', chwedl Hywel Teifi Edwards, 'a wnaeth iddo ymgorffori trydan chwant byw trigolion Llaregyb yn Jack Black – "sbaddwr" y cariadon a'r godinebwyr – sy'n ymarfogi rhag ei flys ei hun cyn mynd i'w waith.'[429] Fel y noda Edwards, y 'mae'n rhaid wrth

[424] Idem, *Dramâu'r Dewin* (Llanrwst, 1982), t. 13.
[425] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 99.
[426] Ibid.
[427] Emyr Edwards, 'Y Dyn Dieithr', *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Awst 1966, t. 3.
[428] Sharon Morgan, *Hanes Rhyw Gymraes: Hunangofiant Sharon Morgan* (Talybont, 2012), t. 48.
[429] Hywel Teifi Edwards, 'O'r Pentre Gwyn i Llaregyb', yn M. Wynn Thomas (gol.), *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1995), t. 38.

Gymro Cymraeg Anghydffurfiol i lawn werthfawrogi cyflwr Jack Black'.[430] Y mae'r cymeriad hwn yn ymgorfforiad o orthrwm Anghydffurfiaeth ar seici'r genedl. Fe'i disgrifir yn *Under Milk Wood* yn cysgu mewn 'bible-black airless attic'[431] ac yn breuddwydio am geryddu pechaduriaid Llaregyb yn chwyrn:

> Chasing the naughty couples down the grassgreen gooseberried double bed of the wood, flogging the tosspots in the spit-and-sawdust, driving out the bare, bold girls from the sixpenny hops of his nightmares...[432]

Y mae'r disgrifiad awgrymog o'i atig gyfyng – 'bible-black airless' – yn cyfleu'n gynnil fod llaw drom Anghydffurfiaeth Gymreig yn ei fygu. Diddorol yw sylwi na chyfieithodd T. James Jones y disgrifiad trawiadol hwn (sy'n ymddangos ddwywaith yn *Under Milk Wood*) yn y fersiynau cynnar o *Dan y Wenallt*. Dadlennodd mewn cyfweliad â Jasper Rees fel y bu iddo osgoi ei gyfieithu:

> My first translation was too lazy [...] I was otherwise engaged as a minister of course, I wasn't a full-time writer at the time. And I was very inexperienced as well. For example I couldn't for the life of me offer a translation of bible black, which is crucial in *Under Milk Wood*. I avoided it! [...] 'Dwylled â beibl' is the new one: as dark as the bible. And I think it adds to the image. It doesn't improve it, no.[433]

Er y dechreuodd T. James Jones amau dilysrwydd y weinidogaeth yn y 1970au, yr oedd y 1960au, chwedl yntau, yn gyfnod pan oedd yn coleddu 'daliadau crefyddol cryf cadarn a di-gwestiwn.'[434] Ac yntau hefyd yn weinidog mewn cymdeithas Gymraeg dra chapelyddol yn ystod cyfnod y trosi, tybed a ellir awgrymu iddo osgoi cyfieithu 'bible-black'[435] bryd hynny oherwydd ei ddaliadau crefyddol? Yn ôl Linden Peach: 'The epithet bible-black not only describes the blackness of a spring country night, but suggests the repressive, religious outlook that impells the life of [...] Jack Black.'[436] Dechreuodd Jones gwestiynu ei ffydd yn fuan ar ôl cyhoeddi'r trosiad. Yn y fersiwn diweddaraf o *Dan y Wenallt*, y mae Llew Lleder yn cysgu ac yn breuddwydio yn ei 'atig fwll ddued â beibl'.[437] Tybed felly a yw'r cyfieithiad o'r ymadrodd hwn yn adlewyrchu'r newid yn ei ddaliadau crefyddol? Gellir cynnig bod yr epithet 'bible-

---

[430] Ibid., t. 39.
[431] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 8.
[432] Ibid.
[433] Rees, 'T. James Jones on Dylan Thomas', <http://www.walesartsreview.org/t-james-jones-on-dylan-thomas/>; cyrchwyd 29 Rhagfyr 2016.
[434] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 14 Mai 2016.
[435] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 8.
[436] Linden Peach, *The Prose Writing of Dylan Thomas* (London, 1988), t. 39.
[437] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 9.

black' wedi magu arwyddocâd pellach yng ngolwg T. James Jones ar ôl blynyddoedd o ymgodymu â'i ffydd.

Yn ei adolygiad o lwyfaniad cyntaf *Dan y Wenallt* yn 1967, gwelir Alun Page yn crynhoi cynnwys y ddrama fel

> Hwyl y pethau bachgennaidd; yr ymdeimlo â'r pethau gwaharddedig; yr eirfa fras i siocio pobl mewn oed; y cyfeiriadau at briodoleddau bywydegol a gyfrifir yn anweddus gan y bobl neis-neis – ie, hwyl a sbri a chwerthin calonnog.[438]

Dywed hefyd y gellir canfod 'nodweddion y pantomeim'[439] yn y ddrama. Y mae'r cymeriadau, chwedl yntau, yn 'bypedau, yn greadigaethau cardbord [...] Nid pobl o gig a gwaed, cnawd ac ysbryd, sydd ar y llwyfan ond creadigaethau alegorïaidd.'[440] Â rhagddo yn ei adolygiad i restru rhai o'r 'teipiau' a geir yn y ddrama, megis y 'fenyw or-biwritanaidd' (Mrs Ogmore-Pritchard); 'y Fagdalen anedifar' (Polly Garter); 'yr hwrgi lleol' (Mr Waldo); 'y gwragedd cleberddus' (y cymdogesau); a'r 'bardd bregethwr talcen-slipaidd' (Eli Jenkins).[441] Ond er bod llawer o hiwmor y ddrama yn deillio o'r portreadau anterliwtaidd, caricaturaidd a geir ynddi o'r Cymry, gwneir cam â hi drwy edrych arni fel romp direidus yn unig. Y mae gan bob cymeriad yn y ddrama ei freuddwydion, ei ddyheadau, ei ofnau a'i bryderon ei hunan. Yng ngeiriau T. James Jones, 'mae'r ymadrodd "sad and escapist at one and the same time" yn crisialu, i'r dim, amryw o sefyllfaoedd a chyflyrau meddyliol cymeriadau *Under Milk Wood*.'[442] Dan gochl y dychan a'r chwerthin, treiddia Dylan Thomas i grombil enaid dyn yn y ddrama. Er mai 'The Town That Was Mad' oedd teitl cynnar y ddrama, a ddisgrifiwyd gan Thomas ei hun fel drama 'gay and sad and sentimental and a bit barmy',[443] nid tipyn o sbort ffwrdd-â-hi mo'r cynnyrch terfynol o bell ffordd. Y mae *Under Milk Wood* yn pendilio rhwng dydd a nos, cwsg ac effro, llon a lleddf, henaint ac ieuenctid a byw a marw. Awgryma Walford Davies yn ei ragymadrodd i *Under Milk Wood* mai *memento mori* yw'r gwaith: 'The play is a great celebration of "creatures born to die", with the polarities of light and shadow balanced at every turn. The conflation of images of death with those of life has a particular frisson.'[444] Ymhellach, dadlenna T. James Jones yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r Wenallt' mai'r 'cyfuniad yma rhwng goleuni a

[438] Page, '*Dan y Wenallt*', t. 2.
[439] Ibid.
[440] Ibid.
[441] Ibid.
[442] Jones, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', t. 20.
[443] Ferris (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters*, t. 891.
[444] Davies, 'Introduction', t. xxxv.

thywyllwch, a chymysgu comedi a thrasiedi'[445] oedd un o'r elfennau a'i denodd at y ddrama yn y lle cyntaf.

Ysgrifennodd Dylan Thomas *Under Milk Wood* yng nghysgod yr Ail Ryfel Byd. Gellir ystyried y ddrama hon ar un wedd felly fel ymwared rhag gwallgofrwydd y rhyfel. Er i Thomas chwarae â'r syniad o greu drama am Arolygwr o Lundain yn dyfarnu pentref bach yng Nghymru yn wallgof, eironi *Under Milk Wood* yw mai Llaregyb yw'r unig le nad yw'n wallgof mewn byd sy'n prysur ddinistrio'i hun â bomiau niwclear.[446] 'Place of love'[447] yw Llaregyb yn ôl y First Voice, ac eto, ni ellir synied am y dref fel rhyw gymuned Arcadaidd, ddelfrydol, ddi-fai ychwaith. Chwalodd Dylan Thomas y delfryd o'r pentref Cymraeg diwylliedig yn *Under Milk Wood* – delwedd sydd, chwedl Kate Crockett, yn 'rhan o fytholeg y Gymru Gymraeg a'i llenyddiaeth'.[448] Yn ogystal, dywed Hywel Teifi Edwards yn ei ysgrif 'O'r Pentref Gwyn i Llaregyb' fod Thomas wedi creu

> pentref credadwy ar sail y cydymdeimlad artistig sy'n barod i edrych â dwy lygad agored ar dda a drwg y ddynoliaeth a bwrw coelbren gyda'i hamherffeithrwydd. Bu'n rhaid aros i Gymro di-Gymraeg i gyflawni'r gamp honno mor ddiweddar â gaeaf 1953-4 tra daliodd y Cymry Cymraeg ati i atgofioni'n fawr eu sêl am yr hen le yn y wlad a'r hen bobl ddi-fai.[449]

Ceir yn *Under Milk Wood* oriel o gymeriadau lliwgar, diddrwg-didda – rhai'n fwy gwyrdroëdig na'i gilydd. Nid yw'r cymeriadau yn ymddiwygio nac yn gwaethygu, chwedl Hywel Teifi Edwards: 'caniateir i bawb ei hawl i ymdopi â'i gyflwr dynol orau ag y gall.'[450] Er bod un o'r cymdogesau yn y ddrama yn cwyno, 'There's a nasty lot live here',[451] y mae Dylan Thomas yn derbyn y 'nasty lot' fel y maent, waeth beth fo'u ffaeleddau a'u camweddau. Yng ngeiriau Walford Davies, 'while there is an important sense in which *Under Milk Wood* is an unpretentious sport, it holds good also to an important truth – the notion of basic innocence.'[452] Yn sicr, gellir dadlau mai rhyw Eden cyn y cwymp yw Llaregyb Dylan Thomas.

Y mae cryn drafod wedi bod yng Nghymru ynghylch y lleoliadau a fu'n ysbrydoliaeth i *Under Milk Wood*. Gofynnir yn aml hyd heddiw ai Ceinewydd ynteu Talacharn yw Llaregyb. Fel y dywed Kate Crockett: 'Gellid dadlau dros Geinewydd ar sail ddaearyddol, yn un peth:

---

[445] Jones, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', t. 20.
[446] Gweler Davies, 'Rhagymadrodd', tt. viii – ix.
[447] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 56.
[448] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 149.
[449] Edwards, 'O'r Pentref Gwyn i Llaregyb', t. 27.
[450] Ibid.
[451] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 35.
[452] Walford Davies, *Dylan Thomas* (Cardiff, 1990), t. 56.

nid yw Talacharn ar lan y môr, ond ar lan aber, a bod yn bedantig.'[453] Er nad *roman à clef* mo *Under Milk Wood*, y mae Dylan Thomas yn tynnu ar ei brofiadau o fyw yng Ngheinewydd a Thalacharn yn y ddrama hon. Fel y noda Walford Davies,

> y profiad o fyw am gyfnod yn 1944-5 yng Ngheinewydd, [...] mynych ymweliadau Thomas â Thalacharn o 1933 ymlaen, ei arhosiad yno o 1938 i 1939, ac yna'i gyfnod yn Nhalacharn o 1949 hyd ei farw ym mis Tachwedd 1953 a gadarnhaodd strwythur sy'n dechrau gyda phreswylwyr bach yn cysgu.[454]

Gellir olrhain dechreuadau'r ddrama i 1944 pan ysgrifennodd Dylan Thomas sgript ar gyfer rhaglen radio, *Quite Early One Morning*, ond nid dyma'r gwir fan cychwyn ychwaith. Pan ymwelodd Thomas â Thalacharn yn 1939 fe ddatganodd wrth yr awdur Richard Hughes: 'What Laugharne really needs is a play about well-known Laugharne characters – and get them all to play themselves.'[455]

Portreadir yn *Quite Early One Morning* gymuned sy'n cysgu ac yn breuddwydio wrth i ymwelydd grwydro strydoedd y dref yn gynnar un bore o aeaf 'like a stranger coming out of the sea'.[456] Fel y dywed T. James Jones:

> dengys ymchwil diweddar y seiliwyd amryw o gymeriadau'r ddrama [*Under Milk Wood*] ar bersonau a adnabu Dylan yn ystod ei arhosiad yng Ngheinewydd adeg yr Ail Ryfel Byd, cymeriadau â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.[457]

Yn ystod y naw mis a dreuliodd Dylan Thomas yng Ngheinewydd, byddai wedi clywed y Gymraeg bob dydd. Yn 1949, fodd bynnag, ymgartrefodd Thomas yn Nhalacharn, ac yno fe ddechreuodd weithio o ddifrif ar *Under Milk Wood*. Disgrifia Alun Page y pentref hwn yn ei adolygiad o'r cynhyrchiad cyntaf o *Dan y Wenallt* fel 'darn Seisnig o dir Cymru yn ymwthio i mewn i ran o dde-orllewin Sir Gaerfyrddin [...] y Lloegr fach tu hwnt i Gymru.'[458] Yn ddiau, Talacharn oedd y catalydd a fu'n allweddol i ddatblygiad *Under Milk Wood.* Yn y dref hon y datblygodd Dylan Thomas strwythur y ddrama, sef cylch nos-a-gwawr diwrnod cyfan. Ond er bod Talacharn yn fwy Seisnigedig na Cheinewydd, ni ellir dweud bod Llaregyb *Under Milk Wood* yn Seisnig. Yng ngeiriau Douglas Cleverdon: 'There is no doubt [...] that *Under Milk Wood* derives ultimately from his own innate Welshness; [...] it is equally true that the stimulus was his feeling for Laugharne'.[459] Bu i'r dref hon, ynghyd ag adnabyddiaeth Dylan Thomas o'i

---

[453] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 148.
[454] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xii.
[455] Ibid., t. xiii.
[456] Walford Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories* (London, 1983), t. 292.
[457] Jones, 'Llyfrgell', t. 149.
[458] Page, '*Dan y Wenallt*', t. 2.
[459] Douglas Cleverdon, *The Growth of Milk Wood* (New York, 1969), t. 3.

thrigolion, yr oedd â'r Saesneg yn iaith gyntaf i'r mwyafrif ohonynt, ddylanwadu'n drwm ar y ddrama. Serch hynny, ni ellir diystyru dylanwad Ceinewydd arni ychwaith. Yr oedd Ceinewydd, a oedd yn debyg iawn i Dalacharn mewn sawl ffordd, hefyd yn ysbrydoliaeth i Thomas wrth ysgrifennu *Under Milk Wood.* Yn ôl Walford Davies, 'deillia llawer o rym *Under Milk Wood* o'r modd y cyfareddwyd y Thomas dinesig – y "townee" o Abertawe, fel y'i hystyriai ef ei hun – gan wledigrwydd awyr-iach, glan-y-môr Ceinewydd a Thalacharn.'[460] Ond fel y dywed David N. Thomas, cymysg oedd teimladau trigolion Ceinewydd am Thomas:

> No doubt the ambivalence and ill-feeling in Newquay was due partly to the fact that, in *Under Milk Wood*, Dylan captured the eccentric and sexual goings-on of the town. He held a mirror up to Newquay and people saw themselves in it:
>
> > We′d love him here if he hadn′t written *Under Milk Wood*. It was too close to the bone, we recognised each other. We were only a small community, and we′re getting smaller, the old locals that is, and the feelings about Dylan still run deep.[461]

Gan mai yng Ngheinewydd Gymreig a Chymraeg ac nid yn Nhalacharn Seisnigedig y dechreuodd Dylan Thomas roi cnawd ar sgerbwd *Under Milk Wood*, gellir deall pam yr oedd T. James Jones yn teimlo bod y Gymraeg yn ei chynnig ei hun fel cyfrwng naturiol i'r ddrama. Fel y dywedodd Jones mewn cyfweliad â Jasper Rees:

> I realised that most of these characters would translate easily back into Welsh because of course he's spent his nine months in Newquay [*sic*] when he was starting to write *Under Milk Wood.* [...] Newquay [*sic*] at that time was a predominantly Welsh-speaking community and I felt that most of the characters just translated easily back into Welsh. That was my motive.[462]

Ar ôl blynyddoedd o chwarae'r First Voice yn y perfformiadau Saesneg yn Nhalacharn a dod i adnabod y cymeriadau, tyfodd awydd Jones i adfer Llaregyb i'r Gymru Gymraeg. Yn ôl Jones, y 'mae'r gair "adfer" yn allweddol wrth gofio cyfnod cythryblus y trosi'.[463] Y mae'n werth gofyn yma beth yn union a olygir gan 'adfer'. Yn gyntaf, wrth gwrs, fe adferir lleisiau Cymraeg (nid Cymreig yn unig) trigolion y pentref. Gellir cynnig yn ychwanegol fod Jones wedi 'adfer' rhywbeth yr amddifadwyd Dylan Thomas ohono, sef y Gymraeg, wrth gyfieithu *Under Milk Wood.* Gellir cynnig hefyd ei fod wedi adfer ymwybyddiaeth y Cymry Cymraeg o Gymreictod y bardd hwn. Ar y llaw arall, y mae'n deg gofyn hefyd yn y fan hon i ba raddau y diystyrir

---

[460] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xi.
[461] David N. Thomas, *A Farm, Two Mansions and a Bungalow* (Bridgend, 2000), t. 108.
[462] Rees, 'T. James Jones on Dylan Thomas', <http://www.walesartsreview.org/t-james-jones-on-dylan-thomas/>; cyrchwyd 29 Rhagfyr 2016.
[463] Jones, 'Llyfrgell', t. 149.

hunaniaeth Gymreig y Cymry di-Gymraeg drwy sôn am 'adfer' Cymreictod Llaregyb. Ar ddiwedd papur a draddodwyd gan yr awdur presennol yng Nghynhadledd NAASWCH 2018, cafwyd trafodaeth ddiddorol ar agwedd arall ar yr 'adfer' hwn. Awgrymodd aelod di-Gymraeg o'r gynulleidfa y gallai'r honiad fod T. James Jones yn adfer gwir natur a hunaniaeth gwaith Dylan Thomas yn ei drosiad gael ei weld fel un sy'n cwestiynu dilysrwydd profiad diwylliannol Cymry di-Gymraeg. Yn wir, awgrymwyd fod elfen nawddoglyd ynghylch hyder yr honiad hwn.

Mewn gwlad ddwyieithog fel Cymru, y mae cyfieithu yn weithred sydd, ar un wedd, â'r gallu i uno dau ddiwylliant mewn cymdeithas ranedig. Wrth fyfyrio ynghylch gwerth cyfieithu llenyddiaeth Gymraeg i'r Saesneg, dywed Joseph Clancy fod cyfieithu yn galluogi Cymry di-Gymraeg i ddarganfod a gwerthfawrogi traddodiad llenyddol cyfoethog eu mamwlad, ysgogi rhai i ddysgu'r Gymraeg, a sicrhau statws rhyngwladol i lenyddiaeth Gymraeg:

> one value of translation is that it enables Welshless Welsh readers to discover their own literature, and, one can hope, encourages them to acquire the language in which to read the originals. This is surely the most important reason for translating Welsh literature into English. It is also [...] a way of asserting the identity and achieving status internationally.[464]

Ond yn wahanol i'r weithred o gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, gellid dadlau nad oes pwrpas ymarferol i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg oherwydd fe gymerir yn ganiataol bellach fod pob siaradwr Cymraeg yng Nghymru yn medru'r Saesneg. Gellid haeru nad yw cyfieithu llenyddiaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg yn ehangu gorwelion diwylliannol y siaradwr Cymraeg gan ei fod yn medru darllen y gwreiddiol. Beth yn union, felly, yw pwrpas cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg, yn enwedig gwaith gan Gymro di-Gymraeg? Yn ôl M. Wynn Thomas, gan fod pob cyfieithiad neu drosiad 'yn ymdrech i drosglwyddo rhywbeth o un iaith a diwylliant i iaith a diwylliant arall yr hyn a geir pan fydd gwaith Dylan yn cael ei gyfieithu neu'i gymathu i'r Gymraeg yw math o sgwrs neu ymddiddan rhwng dau ddiwylliant Cymru.'[465] Ac fel y gwelwn yn y bennod nesaf, y mae'r sgwrs honno, chwedl M. Wynn Thomas, yn 'un ddadlennol a difyr'.[466]

---

[464] Joseph Clancy, *In Other Words* (Llandybïe, 1999), t. 122.
[465] Thomas, 'Dylanwadau', t. 26.
[466] Ibid.

PENNOD 3: Cymreigio Llaregyb

Wrth graffu ar unrhyw gyfieithiad y mae'n bwysig ystyried beth yw statws gwleidyddol, diwylliannol a chymdeithasol yr iaith ffynhonnell a'r iaith darged, ynghyd â'u perthynas â'i gilydd. Fel yr awgryma Jean Fouchereaux, nid yw cyfieithu llenyddiaeth yn weithred niwtral, ddiduedd ond yn hytrach yn weithred wleidyddol sydd, yn aml iawn, yn bradychu daliadau gwleidyddol y cyfieithydd:

> Traduire ici n'est pas neutre, ne doit pas être considéré comme un acte purement anodin mais plutôt comme l'expression d'une revendication, reflet d'une idéologie, le littéraire faisant corps avec le politique.[467]

Yn ddiau, gweithred wleidyddol oedd cyfieithu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg. Yr oedd cyfnod y cyfieithu, sef y 1960au, yn gyfnod o ddeffroad gwleidyddol cenedlaethol yng Nghymru. Yn 1962, ddwy flynedd cyn i T. James Jones fynd ati o ddifrif i gyfieithu *Under Milk Wood*, traddododd Saunders Lewis ei ddarlith chwyldroadol, *Tynged yr Iaith*, a oedd yn rhan o gyd-destun sefydlu Cymdeithas yr Iaith a'r galw am gydnabyddiaeth swyddogol i'r Gymraeg. Nid oedd gan y Gymraeg statws swyddogol pan gyhoeddwyd y trosiad am y tro cyntaf yn 1968. Yng ngeiriau T. James Jones: 'Yng nghyfnod ennill statws swyddogol i'r iaith, cam digon naturiol oedd rhoi cyfle i bentre Llaregyb gael ei le yn y Gymru Gymraeg.'[468]

Yr oedd bwriad i lwyfannu *Under Milk Wood* bob tair blynedd ers 1958 fel rhan o Ŵyl Talacharn. Yn ôl y drefn deirblynyddol honno dylai'r bumed ŵyl fod wedi digwydd yn 1970, ond penderfynodd y noddwyr, Cyngor Gwlad Sir Gaerfyrddin, gynnal yr ŵyl yn 1969 er mwyn ymuno yn nathliadau'r Arwisgo. Perfformiwyd *Under Milk Wood* yn yr ŵyl hon ond gwrthododd T. James Jones chwarae rhan y First Voice ac, yn fwy arwyddocaol na hynny, ni chaniataodd i *Dan y Wenallt* fod yn rhan o ddathliadau'r Arwisgo. Yr oedd 'yn benderfynol na fyddai cymuned Llaregyb, ar ôl adfer iddi ei Chymreictod, yn ei ildio'n wasaidd er mwyn hyrwyddo Prydeindod.'[469] Dywed y byddai hynny 'wedi dadwneud holl bwrpas yr ymarferiad', sef 'adfer hunan-barch a hunanhyder y Cymry Cymraeg'[470] – ystyriaeth a oedd yn rhan annatod o'r trosi. Pe bai wedi caniatáu i'r trosiad gael ei berfformio, teimlai y byddai wedi 'bradychu'r Llaregyb adferedig'.[471] Canmolwyd ei benderfyniad gan genedlaetholwyr amlwg fel Dafydd

---

[467] Dyfyniad gan Jean Fouchereaux yn Terry Hale a Carole-Anne Upton, 'Introduction', yn Carole-Anne Upton (gol.), *Moving Target: Theatre Translation and Cultural Relocation* (London, 2014), t. 27.
[468] T. James Jones, 'Cymreigio Llaregyb', *Llwyfan* (1968), t. 24.
[469] Idem, *Jim Parc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 75.
[470] Ibid.
[471] Idem, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', *Barddas*, 249 (Tachwedd/Rhagfyr 1998), t. 19.

Iwan, a anfonodd lythyr ato yn ei longyfarch am wrthod caniatáu i'w drosiad fod yn rhan o'r dathliadau. 'Yn gam neu'n gymwys', felly, chwedl T. James Jones, 'fe chwaraeodd *Dan y Wenallt* ei rhan yn ymgyrch yr iaith.'[472]

Diddorol yn y cyswllt hwn yw'r ffaith fod T. James Jones wedi hepgor rôl y 'Voice of a Guide-book' yn llwyr o'r fersiynau cynnar o'i drosiad. Fel y soniwyd yn yr ail bennod, ceir portread caricaturaidd dychanol o'r Sais trefedigaethol, sef y 'Voice of a Guide-book', yn *Under Milk Wood*, sy'n lladd ar Llaregyb ar ei ymweliad â'r ardal. Fe'i dirmygir ganddo fel 'this small, decaying watering-place which may, indeed, be called a "backwater of life".'[473] Dywed fod rhai o'r tai yno'n ddi-chwaeth – 'many of which attempt to achieve some measure of gaiety by prinking themselves out in crude colours and by the liberal use of pinkwash' – a rhai hefyd 'in a sad state of disrepair'.[474] Yn ei farn ef, nid oes dim yn Llaregyb a fyddai o ddiddordeb i'r 'hillclimber, the healthseeker, the sportsman, or the weekending motorist'.[475] Crisielir meddylfryd y trefedigaethwr yn ei ddisgrifiad gwenieithus-ddifrïol o Gymry Llaregyb fel 'local "characters"' a'u 'several curious customs'.[476]

Fe'n hatgoffir yma o feirniadaeth hallt Hywel Williams o Dylan Thomas a'i bortreadau o'r Cymry yn *Under Milk Wood* sydd, yn ei dyb ef, yn wawdluniau difrïol ohonynt fel 'irresponsible charmers – impossible but oh-so-loveable. They talk Welsh flannel through their pointed hats while dancing through the Celtic mist.'[477] Awgryma Williams yn ei erthygl fod *Under Milk Wood* yn destun trefedigaethol – 'like all such literary exercises of the colonial mind, the object is to demean and control through flattery. Under the folksy quaintness of Milk Wood there lie vicious roots.'[478] Nid oes amheuaeth nad yw Dylan Thomas yn dychanu'r Cymry yn *Under Milk Wood*, ond gellir cynnig bod y dychan yn nisgrifiad y 'Voice of a Guide-book' yn llawer mwy crafog, ac wedi'i anelu at rymoedd swyddogol (ymerodraethol hyd yn oed). Fel y dywed Jackie Benjamin: 'Thomas uses this Received Pronunciation of English, redolent of Holbrookian elitism, to expose the hidden agenda of officialdom for, while the voice is supposedly objective and, like the anthropological tourist guides which it also parodies,

---

[472] Ibid.
[473] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood, The Definitive Edition* (London, 1995; argraffiad 2014), t. 19.
[474] Ibid.
[475] Ibid.
[476] Ibid.
[477] Hywel Williams, 'The cut-price Dionysiac', <https://www.theguardian.com/books/2003/oct/27/dylanthomas>; cyrchwyd 29 Rhagfyr 2016.
[478] Ibid.

gives statistics and facts.'[479] Yn ddiddorol iawn, hepgorwyd y 'Voice of a Guide-book' o'r darllediad cyntaf o'r ddrama yn 1954. Yn ôl Jackie Benjamin: 'the Received English register of the Voice of a Guidebook was, presumably, too close to the voice of the BBC to allow a parody. In 1954 BBC Radio was still very much the voice for officialdom'.[480]

Yn ôl David Thomas, yr oedd Dylan Thomas yn gwerthfawrogi Ceinewydd am nad oedd yn denu ymwelwyr fel y 'Voice of a Guide-book':

> He liked New Quay because it did not attract
> *man-dressed women with shooting-sticks and sketch-books and voices like macaws*
> who came from outside to paint a town's natives.[481]

Gellir dychmygu y byddai araith y 'Voice of a Guide-book' wedi codi gwrychyn nifer o Gymry pan aeth T. James Jones ati i gyfieithu *Under Milk Wood* yng nghanol chwyldro cenedlaetholgar y 1960au. Fel y nodwyd, chwaraeodd *Dan y Wenallt* ei rhan yn ymgyrch yr iaith a'r nod wrth drosi'r ddrama oedd Cymreigio Llaregyb. Un ffordd o wneud hynny oedd drwy alltudio cymeriad sarhaus y 'Voice of a Guide-book' o Laregyb y trosiad. Yng ngeiriau T. James Jones:

> Roedd yna un yn arfer dod ar ymweliad, a'i *guide-book* yn ei law, pan oedd Llaregyb yn bentre cwbwl Seisnig, ond fe wrthododd e gymryd unrhyw ddiddordeb yn yr iaith, ac felly fe ddywedwyd wrtho am dreulio ei wyliau yn rhywle arall.[482]

Penderfynodd Jones adfer y cymeriad hwn i'r trosiad fel 'Llais Teithlyfr' yn ei fersiwn diweddaraf o'r trosiad, yn 2014, gan gadw'r Saesneg gwreiddiol, heblaw am newid 'Coronation Street'[483] yn 'Hiol E Brenyn'[484] a newid 'the river Dewi'[485] yn 'the river Dawy'[486] – camynganiadau dybryd sy'n Seisnigo'r cymeriad hwn ymhellach ac yn cryfhau'r portread caricaturaidd o'r ymwelydd trefedigaethol. Fel y dywed Walford Davies, penderfyniad doeth 'oedd gadael y datganiad gan y "Voice of a Guidebook" yn Saesneg heb ei drosi: mae hyn yn

---

[479] Jackie Benjamin, 'Misrule in Milk Wood: A Bakhtinian Reading of Dylan Thomas's "Play for Voices"', *Welsh Writing in English*, 9 (2004), t. 59.
[480] Ibid., t. 63.
[481] David N. Thomas, 'A Postcard from New Quay' yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), t. 114.
[482] Jones, 'Cymreigio Llaregyb', t. 24.
[483] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 19.
[484] T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), t. 24.
[485] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 19.
[486] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 24.

cadarnhau pwrpas gwreiddiol Thomas o ddyfarnu llais digymeriad a dienaid teithlyfr yn llais estron, trefedigaethol.'[487]

Gall cyfieithu fod yn ffordd o fynegi cenedlaetholdeb, yn enwedig mewn cyd-destun ôl-drefedigaethol lle y mae'r iaith darged yn iaith leiafrifol a'r iaith a'r diwylliant ffynhonnell yn fygythiad i'r iaith darged honno. Gellir edrych ar gyfieithu yn y cyswllt hwn fel ffordd o fynnu statws i'r iaith leiafrifol. Yn aml iawn, defnyddir dull arbennig o gyfieithu i godi statws a phwysleisio pwysigrwydd y diwylliant targed, sef y dull 'domestigeiddio'. Fel y dywed Rhianedd Jewell, ceir 'dwy ysgol o feddwl wrthgyferbyniol am ddyletswyddau'r cyfieithydd mewn cyd-destun diwylliannol, sef y theorïau domestigeiddio (*domestication*) ac estroneiddio (*foreignization*).'[488] Noda Jewell mai

> [m]ater o egwyddor [...] yw dewis y cyfieithydd i estroneiddio neu i ddomestigeiddio'r testun. Yn y bôn, cyfeiria'r ddau ddull hyn at bwy sy'n cael eu blaenoriaethu yn nawns y cyfieithydd: ai'r awdur, ei eiriau a'i fwriad gwreiddiol, ynteu'r gynulleidfa darged, ei dealltwriaeth a'i gwerthfawrogiad o'r cyfieithiad.[489]

Wrth 'ddomestigeiddio', y mae'r cyfieithydd yn gosod y cyfieithiad yng nghyd-destun diwylliannol yr iaith darged. Y mae'n addasu'r testun er mwyn galluogi'r gynulleidfa darged i ddeall ac uniaethu â chynnwys y testun. 'Nid digon yw sicrhau y gall y gynulleidfa darged ddeall y cyfieithiad',[490] chwedl Jewell, 'rhaid iddi deimlo ystyr y darn drwy ei brofi yng nghyd-destun diwylliannol y gynulleidfa ei hun.'[491] Ond wrth 'estroneiddio' testun, y mae'r cyfieithydd yn cadw holl nodweddion estron y darn fel bod y gynulleidfa yn ymwybodol ei bod yn darllen cyfieithiad.

Dadleuodd Friedrich Schleiermacher yn ei ddarlith 'On the Different Methods of Translating' yn 1813 fod y cyfieithydd naill ai'n gadael llonydd i'r awdur ac yn symud y darllenydd tuag ato neu'n gadael llonydd i'r darllenydd ac yn symud yr awdur tuag ato:

> Either the translator leaves the writer in peace as much as possible and moves the reader toward him; or he leaves the reader in peace as much as possible and moves the writer toward him.[492]

---

[487] Walford Davies, 'Rhagymadrodd', yn Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. xxii.
[488] Rhianedd Jewell, *Her a Hawl Cyfieithu Dramâu: Saunders Lewis, Samuel Beckett a Molière* (Caerdydd, 2017), t. 66.
[489] Ibid.
[490] Ibid, t. 68.
[491] Ibid.
[492] Gweler Lawrence Venuti, 'Strategies of Translation', yn Mona Baker a Kirsten Malmkjær (goln.), *The Routledge Encyclopedia of Translation Studies* (London, 2001), t. 243

Credai Schleiermacher fod y rhan fwyaf o destunau yn cael eu cyfieithu yn y dull domestigeiddio. Disgrifiodd y broses o ddomestigeiddio cyfieithiad fel 'an ethnocentric reduction of the foreign text to target-language cultural values, bringing the author back home.'[493] Y mae geiriau Schleiermacher yn dal yn berthnasol heddiw wrth drafod *Dan y Wenallt*. Gellir cynnig yn y cyswllt hwn mai cyfieithu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg oedd y cam cyntaf yn ymgyrch T. James Jones i adfer Cymreictod Dylan Thomas yn gyffredinol, ac i ddod â'r awdur hwn 'yn ôl adref' i'r Gymru Gymraeg – proses a fu'n ymgyrch barhaus ganddo ar hyd ei yrfa, fel y gwelwn yn ddiweddarach yn y traethawd. Fel y noda Rhianedd Jewell, 'gellir dehongli'r dull domestigeiddio fel arwydd o genedlaetholdeb, gan fod y cyfieithydd yn dewis gorchfygu diwylliant yr iaith ffynhonnell a phwysleisio pwysigrwydd y diwylliant targed.'[494]

Dadlenna T. James Jones yn ei ysgrif 'Cymreigio Llaregyb' iddo gael ei ysgogi i gyfieithu'r ddrama gan yr 'awydd i glywed Eli Jenkins a Mog Edwards a Capten Cat yn siarad Cymraeg.'[495] Nid oedd yn fodlon i'r cymeriadau hyn fod yn '*fonoglots*',[496] chwedl yntau. Â rhagddo yn yr ysgrif hon i awgrymu mai 'rhyw anfodlonrwydd'[497] ynghylch unieithrwydd y cymeriadau a'i hysgogodd i 'geisio ennill Eli Jenkins yn gymeriad dwyieithog. Yn enwedig ag yntau'n fardd-bregethwr'.[498] Esbonia Jones ei fod yn teimlo'n 'anfodlon, ac yn wir yn drist iawn, wrth glywed mai Saesneg yw unig iaith nifer mawr o blant Caerfyrddin.'[499] Er nad oedd yn fodlon i drigolion Llaregyb fod yn 'fonoglots'[500] Saesneg, gellir dadlau hefyd nad oedd yn fodlon iddynt fod yn Gymry uniaith Gymraeg ychwaith. Y mae'n arwyddocaol ei fod yn cyfeirio'n benodol yn yr ysgrif hon at *ddwyieithrwydd* y bardd-bregethwr a'i ymwybyddiaeth y byddai beirdd-bregethwyr fel y Parchedig Jenkins yn Gymry dwyieithog – a hynny pan allai yn hawdd fod wedi nodi iddo geisio adfer y cymeriad hwn yn gymeriad uniaith Gymraeg. Dadlennol yn y cyswllt hwn yw'r hyn a ddywedodd Jones am ddwyieithrwydd yng Nghymru mewn cyfweliad â Jerry Hunter: 'Er bod ennill statws i'r iaith Gymraeg yn hollbwysig, fyddwn i ddim yn rhannu Cymru ar sail iaith o gwbl, mae'n rhaid i'r genedl fod yn un, boed yn Gymry

[493] Ibid.
[494] Jewell, *Her a Hawl Cyfieithu Dramâu*, t. 69.
[495] Jones, 'Cymreigio Llaregyb', t. 23.
[496] Ibid.
[497] Ibid.
[498] Ibid.
[499] Ibid.
[500] Ibid.

dwyieithog neu'n Gymry unieithog Saesneg'.[501] Nododd yn y cyfweliad hwn hefyd fod cymeriadau *Under Milk Wood* yn 'gymeriadau credadwy dwyieithog':[502]

> gyda *Under Milk Wood,* 'on i'n teimlo ei bod hi'n dod gartre wrth gael ei chyfieithu. I fi, 'oedd y cymeriadau i gyd yn gymeriadau credadwy dwyieithog. Does dim un cymeriad yn *Under Milk Wood* sydd yn gwneud i chi gredu ei bod hi, neu eu bod nhw, yn uniaith Saesneg. Maen nhw'n gymeriadau dwyieithog naturiol.[503]

Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, tra diddorol fyddai craffu ar ambell enghraifft drawiadol o ddwyieithrwydd yn *Under Milk Wood*. Fel y dywed Jackie Benjamin:

> *Under Milk Wood* [...] contains several examples of polyglossia, which [Mikhail] Bakhtin identified as occurring when a text is bilingual or multingual. Thomas uses Welsh to create humour and play word games: most obviously, the disguised carnival profanity of 'Llareggub'; Mog Edwards is 'late of Twll' and advertizes in *The Twll Bugle*; Jack Black shouts 'Ach y fi' in his sleep; 'Bach, fach' plays with a third language; and in Rev. Eli Jenkins's morning poem, the Welsh pronunciation of 'Nedd' does not fit the ballad rhyme scheme while an English one might.[504]

Yn ôl Benjamin, y mae'r dwyieithrwydd polyglosaidd hwn yn enghreifftio defnydd carnifalésg Dylan Thomas o iaith ac yn mynd yn groes i'r haeriad 'that he is simply "an English poet".'[505] O safbwynt ôl-drefedigaethol, gellir dadlau bod y geiriau Cymraeg a ddefnyddir gan Thomas yn *Under Milk Wood,* megis 'Eisteddfodau',[506] 'crwth',[507] 'pibgorn'[508] a 'parchs',[509] er enghraifft, yn symbolau diwylliannol sy'n tanseilio grym y Saesneg drwy amlygu arallrwydd y Gymraeg. Fel y noda Kirsti Bohata:

> Untranslated Welsh words or phrases used in Welsh writing in English serve as synecdochic signifiers of difference – and potentially – of absence, while they may also work to undermine the balance of power between dominant and more or less subaltern languages.[510]

Gellir cynnig hefyd fod defnydd Dylan Thomas o'r Gymraeg yn enghraifft o'r hyn elwir gan Bohata yn 'political code-switching'[511] gan nad yw'n cynnig esboniad na chyfieithiad Saesneg o'r geiriau Cymraeg yn y testun (darperir nodiadau esboniadol a thestunol gan Walford Davies

---

[501] Ibid.
[502] Jerry Hunter, 'Jerry Hunter yn sgwrsio efo… T. James Jones', *Tu Chwith*, 8 (1997), tt. 73–4.
[503] Ibid.
[504] Benjamin, 'Misrule in Milk Wood', t. 59.
[505] Ibid.
[506] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 17.
[507] Ibid.
[508] Ibid.
[509] Ibid.
[510] Kirsti Bohata, *Postcolonialism Revisited* (Cardiff, 2004), t. 126.
[511] Ibid., t. 118.

a Ralph Maud yn yr argraffiad diffiniol o *Under Milk Wood*). Yn ôl Bohata, y mae tri math o newid codau: 'extrinsic'[512] (defnydd o eiriau Cymraeg sy'n ddigon cyfarwydd neu'n ddealladwy i ddarllenydd di-Gymraeg); 'organic'[513] (defnydd o eiriau Cymraeg anghyfarwydd neu anghyfieithiadwy fel 'eisteddfod' ond gydag esboniad neu gyfieithiad ar gyfer y darllenydd di-Gymraeg); a 'political'[514] (defnydd o eiriau Cymraeg heb esboniad na chyfieithiad ar gyfer y darllenydd di-Gymraeg). Yng nghyswllt *Under Milk Wood*, gellir dadlau ar un wedd fod Dylan Thomas yn defnyddio'r Gymraeg i bwysleisio arallrwydd diwylliannol y Cymry. Ond nid yw hynny'n golygu ei fod yn dathlu'r arallrwydd hwnnw ychwaith. Gellir dadlau ar y llaw arall, fodd bynnag, fod ei ddefnydd o eiriau Cymraeg yn gosod y darllenwyr Cymraeg mewn 'unusually privileged position',[515] chwedl Bohata, am eu bod yn deall elfennau o'r testun a fyddai'n ddieithr – ac yn dieithrio, efallai – y darllenwyr di-Gymraeg.

Ymatebodd T. James Jones i ddefnydd Dylan Thomas o eiriau Cymraeg yn *Under Milk Wood* drwy drosi'r testun cyfan i'r Gymraeg. Un enghraifft sy'n teilyngu sylw arbennig yn y cyswllt hwn yw ei gyfieithiad disglair o ddisgrifiad y First Voice o'r bardd-bregethwr, Eli Jenkins: 'He intricately rhymes, to the music of crwth and pibgorn, all night long in his druid's seedy nightie in a beer-tent black with parchs'.[516] Sylwer yma ar ddefnydd Thomas o eiriau sy'n gysylltiedig â'r diwylliant Cymraeg – 'crwth', 'pibgorn' a 'parchs' (gair benthyg Cymraeg ag ôl-ddodiad Saesneg). Cyfieithwyd y disgrifiad hwn gan Jones fel a ganlyn: 'Odla'n gymhleth i gyfeiliant crwth a phibgorn ar hyd yr hirnos, mewn gŵn nos gwisg yr orsedd mewn pabell gwrw sy'n pingo o barchedigion.'[517] Er mor arwyddocaol yw defnydd yr awdur gwreiddiol o'r iaith darged yn y testun ffynhonnell, y mae'n anodd iawn, os nad yn amhosibl, i gyfieithydd ddangos ei fod yn defnyddio yn ei waith yr iaith darged sy'n ymddangos eisoes yn y gwreiddiol heb nodi hynny'n blaen mewn troednodyn. Ni fyddai cynulleidfa *Dan y Wenallt* yn ddim callach fod Dylan Thomas ei hun yn defnyddio geiriau fel 'crwth', 'pibgorn' a 'parchs' oni bai ei bod yn gyfarwydd iawn â'r testun gwreiddiol. Er hynny, diddorol yw gweld bod T. James Jones wedi adfer y gair 'parchs' i'w ffurf Gymraeg – 'parchedigion'. Yn ogystal, yn hytrach na chyfieithu 'druid' fel 'derwydd', sylwer ei fod yn cyfeirio'n benodol at 'yr orsedd' – gair sy'n cryfhau'r ddelwedd eisteddfodol, Gymreig a Chymraeg a gyfleir yn y

[512] Ibid., t. 117.
[513] Ibid.
[514] Ibid.
[515] Ibid., t. 123.
[516] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 17.
[517] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 22.

testun y gwreiddiol, gan ddwysáu'r hwyl chwareus (ond nid diniwed) a geir am ben ffug-hynafolrwydd pasiantri cyfoes yr Eisteddfod Genedlaethol .

Cyn craffu ar ddulliau T. James Jones o Gymreigio Llaregyb yn *Dan y Wenallt*, y mae'n werth nodi mai 'Llareggub' oedd enw gwreiddiol y dreflan hon yn *Under Milk Wood*. Anadrôm tafod-yn-y-foch yw 'Llareggub', sy'n sillafu 'bugger all' o chwith, ac sydd, chwedl Walford Davies, yn 'rhan o egni carnifalésg y gwaith, a dry'r byd tu-chwith-allan a thin-dros-ben.'[518] Newidiwyd 'Llareggub' yn 'Llaregyb' dan law'r sensoriaid pan gyhoeddwyd *Under Milk Wood* yn 1954 gan wasg J. M. Dent. Yn eironig, esgorodd y penderfyniad hwn ar enw sy'n fwy argyhoeddiadol Gymraeg na'r gwreiddiol. Ond, fel y dengys ymateb T. Harri Jones i'r enw newydd, nid oedd y newid hwn wrth fodd pawb. Ym marn T. Harri Jones: 'The spelling "Llaregyb" in the published version simply removes the joke and is quite pointless.'[519] Erbyn heddiw, gellir dadlau nad yw sillafiad 'Llaregyb' yn amharu ar y jôc 'bugger all', sy'n ddigon cyfarwydd bellach, fel na chollir ergyd yr enw gwreiddiol wrth ei gyfieithu. Nid yw'r sillafiad 'Llaregyb' yn 'ddi-bwynt' ychwaith yng nghyswllt *Dan y Wenallt*. Fe dâl inni gyfeirio yma at sylwadau Jackie Benjamin ar yr enw 'Llareggub':

> Llareggub is both Welsh and English (Mog Edwards, for example, lives in 'Manchester House'), typical and atypical, everywhere and nowhere and its position on the geographical divide between land and sea perhaps symbolizes the position of the Anglo-Welsh at the intersection of cultures which Bakhtin identified as the scene of the carnival.[520]

Tra mae orgraff hanner Gymraeg, hanner Saesneg 'Llareggub' yn gosod y ddrama rhwng y diwylliant Cymraeg a'r diwylliant Eingl-Gymreig, y mae orgraff Gymreig a Chymraeg 'Llaregyb' yn ei gwreiddio yn y Gymru Gymraeg ac yn crisialu pwrpas y trosi, sef Cymreigio'r dreflan ddychmygol hon.

Dylid nodi hefyd fod elfen dywyll, neu 'dark suggestions',[521] chwedl Dylan Thomas, i'r enw 'Llareggub'. Dywed Walford Davies fod Thomas wedi ystyried cloi ei ddrama â'r ddelwedd, 'Midnight / the dead come out ... Llareggub is buggerall now'[522] er mwyn dangos nad yw'r lle'n iwtopia. Ond nid oedd y syniad hwn yn gydnaws ag 'ymdeimlad cadarnhaol, cariadus y ddrama.'[523] Yn ôl Davies, y mae'r enw 'Llareggub' hefyd yn dwyn i gof deitl nofel

[518] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xxvi.
[519] Thomas Harri Jones, *Dylan Thomas* (Edinburgh, 1963), t. 91.
[520] Benjamin, 'Misrule in Milk Wood', t. 51.
[521] Walford Davies, 'Introduction', yn Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. xviii.
[522] Ibid.
[523] Ibid.

Samuel Butler, *Erewhon*, anadrôm o 'nowhere', sydd, fel *Under Milk Wood,* yn dychanu ac yn chwarae â'r syniad o iwtopia. Ac y mae'n werth nodi yma fod y teitl, *Under Milk Wood,* yn tarddu o'r traddodiad llenyddol Saesneg. Fel y dywed Walford Davies, y mae teitl y ddrama 'yn cynrychioli tir cyffredin llenyddol mawr'.[524] Y mae'n dwyn i gof deitl nofel Thomas Hardy, *Under the Greenwood Tree* (1872), sy'n tarddu o gân Amiens yn nrama Shakespeare, *As You Like It*: 'Under the greenwood tree, / who loves to lie with me?'[525] Yn debyg i *Under Milk Wood,* ceir yn nofel Hardy bortread llawn hiwmor eironig o fywyd mewn pentref bach gwledig.

Wrth ystyried y posibilrwydd felly fod *Under Milk Wood* yn rhannu tir cyffredin â rhai o 'fawrion' llenyddiaeth Saesneg, onid iawn fyddai rhoi'r un arwyddocâd llenyddol i deitl y trosiad? Gellir cynnig yn y cyswllt hwn bod *Dan y Wenallt* yn rhannu tir cyffredin ag un o fawrion llenyddiaeth Gymraeg, sef y bardd David James Jones, Gwenallt (1899–1968). Fel y dywed Walford Davies wrth drafod teitl y trosiad: 'O chwilio am enw Cymraeg ar dref sy'n deillio o'r teitl *Dan y Wenallt,* byddai'n rhaid wrth 'Yr Allt Wen'.[526] Magwyd Gwenallt yn yr Allt-wen ger Pontardawe, nid nepell o Abertawe, ac wrth anagramu enw'r pentref hwnnw y cafodd ei enw barddol. Nid amherthnasol yw nodi yma fod yr agosrwydd daearyddol rhwng broydd Gwenallt a Dylan Thomas wedi ysgogi M. Wynn Thomas i gyfosod a chymharu dwy gerdd o'u heiddo yn ei ysgrif 'Writing Glamorgan', sef 'Y Meirwon' ac 'After the Funeral'.[527] Cyhoeddwyd *Dan y Wenallt* ym mis Mawrth 1968, ac ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno bu farw Gwenallt. Ni ellir honni bod Gwenallt wedi ysbrydoli'n uniongyrchol deitl y trosiad, wrth gwrs. Ond y mae lle i ddadlau bod y cysylltiad rhwng y bardd hwn a'r teitl Cymraeg yn briodol o ystyried bod teitl y gwreiddiol yn cynrychioli tir cyffredin llenyddol mawr, chwedl Walford Davies. Y mae'r teitl *Dan y Wenallt* hefyd yn cysylltu dau fardd a fagwyd o fewn deng milltir i'w gilydd ac yn crisialu holl bwrpas y trosiad, sef pontio rhwng dwy iaith, dau ddiwylliant a dwy brif lenyddiaeth Cymru. Yng ngeiriau Walford Davies, 'mae *Dan y Wenallt* yn gyfieithiad ysbrydoledig hyd yn oed o'r teitl.'[528]

O ystyried y cysylltiad arwyddocaol rhwng teitl y trosiad a Gwenallt, y mae'n werth nodi bod enwau'r cymeriadau hynny, Mr Waldo a Ceiriog Owen (Cherry Owen), yn rhwym o ddwyn i gof ddau fardd Cymraeg arall, sef Waldo Williams (1904–1971) a John Ceiriog

---

[524] Ibid., t. xxv.
[525] Ibid.
[526] Ibid.
[527] M. Wynn Thomas, 'Writing Glamorgan', *Internal Difference: Literature in 20th-century Wales* (Cardiff, 1992), t. 32.
[528] Idem, 'Dylan *Dan y Wenallt*', yn rhaglen *Theatr Gwynedd* (2003), t. 13.

Hughes (1832–1887). Dylid nodi i ddechrau nad oes cysylltiad rhwng Waldo Williams y bardd a chymeriad Mr Waldo yn *Dan y Wenallt*. Y mae enw'r cymeriad hwn yn gweithio yn y ddwy iaith fel ei gilydd. Yn achos y cymeriad Cherry Owen, fodd bynnag, gellir cynnig bod T. James Jones wedi ei ysbrydoli i ailenwi'r cymeriad hwn yn Ceiriog Owen ar ôl y bardd, John Ceiriog Hughes. Gellid cynnig bod 'Cherry' wedi troi'n 'Ceirios', a hynny yn ei dro yn esgor ar 'Ceiriog'. Nid cyd-ddigwyddiad, mae modd dadlau, yw'r ffaith mai Cherry Owen yw meddwyn Llaregyb. Yr oedd y bardd John Ceiriog Hughes hefyd, fe gofir, yn yfwr trwm. Gellir dehongli penderfyniad T. James Jones i ailenwi'r cymeriad hwn yn Ceiriog ar sail ei arferion yfed fel jôc fewnol, chwareus rhyngddo ef a'r gynulleidfa Gymraeg. Yn sicr, y mae'r enw 'Ceiriog Owen' yn brawf o glyfrwch Jones, ar lefel y gair a'r enw unigol, fel cyfieithydd creadigol. Dyma enghraifft wych o'r dull domestigeiddio ar waith, sef gwneud y cyfieithiad yn uniongyrchol berthnasol i'r gynulleidfa darged. Yng ngeiriau Eugene Nida: 'A translation of dynamic equivalence aims at complete naturalness of expression, and tries to relate the receptor to modes of behavior relevant within the context of his own culture'.[529]

Fel y dywed Walford Davies, bu T. James Jones yn ddyfeisgar iawn wrth fathu enwau Cymraeg newydd ar rai o'r cymeriadau:

> enwau sy'n cynnal comedi'r enwau gwreiddiol heb eu copïo'n slafaidd, enwau megis Ifans Ange (Evans the Death) neu Dai Di-ddim (Nogood Boyo) neu Mrs Dai Bara Gwyn a Mrs Dai Bara Brown ar gyfer Mrs Dai Bread One a Mrs Dai Bread Two.[530]

Byddai Mrs Dai Bara Un a Mrs Dai Bara Dau, er enghraifft, yn gyfieithiadau (llythrennol) digon derbyniol o Mrs Dai Bread One a Mrs Dai Bread Two. Ond y mae'r enwau newydd a fathwyd gan Jones yn amlygu'r gwahaniaethau rhwng dwy wraig Dai Bara mewn ffordd arbennig o greadigol a doniol. Cawn wybod yn y ddrama mai gwraig blaen a chartrefol yw Mrs Dai Bara Gwyn sy'n 'gyffwrddus'[531] yn ei chap a'i siol, tra mae Mrs Dai Bara Brown yn edrych yn 'ddansherus'[532] ac yn ecsotig yn ei phais sidan, sgarlad, uwch na'i phenliniau'.[533] Diddorol yw sylwi bod gan ambell gymeriad enw newydd yn y fersiwn diweddaraf o drosiad Jones. Martha Mei Beynon yw enw'r athrawes Gossamer Beynon yn y fersiynau cynnar, ond fe'i hailenwyd yn Meinwen Mai Beynon yn y fersiwn diweddaraf o drosiad Jones. O gymharu'r

[529] Eugene Nida, 'Principles of Correspondence', yn Lawrence Venuti (gol.), *The Translation Studies Reader* (London, 2012), t. 144.
[530] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xxii.
[531] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 31.
[532] Ibid.
[533] Ibid.

ddau enw, Martha a Meinwen, nid oes amheuaeth nad yw Meinwen yn gweddu'n well na Martha i gymeriad synhwyrus (ond sidêt) yr athrawes. Y mae'r enw 'Meinwen' yn cyfuno'r ddelwedd o feinwe (gwe wedi'i weu yn fân – *gossamer*) a meinwen (merch fain a hardd).

Neli Prydderch yw enw'r cymeriad Rosie Probert yn y detholiad o'r trosiad a gyhoeddwyd yn *Taliesin* yn 1967. Fe'i hailenwyd yn Nansi Prydderch yn yr argraffiad cyntaf ac fe'i hadferwyd i'w henw gwreiddiol, Rosie Probert, yn yr argraffiad diweddaraf. Wrth drafod y broses dybio a'r newidiadau a wnaed i'r fersiwn a animeiddiwyd gan Gwmni Siriol, dywedodd T. James Jones:

> y newid mwyaf oedd rhoi ei henw'n ôl i Rosie Probert. Roeddwn i wedi ail enwi Rosie Probert yn Nansi Prydderch yn yr addasiad Cymraeg, ond gan fod 'Rosie' wedi'i sgrifennu mewn print bras ar datŵ ar fol Capten Cat roedd rhaid newid Nansi nôl i Rosie![534]

Yn sicr, penderfyniad doeth oedd adfer i gymeriadau megis Rosie Probert eu henwau gwreiddiol gan fod yr enwau hyn, chwedl Kate Crockett, 'yn llawer iawn mwy cyfarwydd i'r gynulleidfa Gymraeg ar ôl degawdau o fod ar gael ar ddisg a rhwng dau glawr.'[535] O graffu ar enwau'r cymeriadau yn *Dan y Wenallt*, daw'n amlwg fod T. James Jones wedi ceisio cadw enwau gwreiddiol y cymeriadau yn ei drosiad lle bo hynny'n bosibl ac yn gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg – er enghraifft, Capten Cat, Mr a Mrs Organ Morgan a Mr Waldo.

Dywed T. James Jones yn ei ysgrif 'Cymreigio Llaregyb' iddo gael trafferth wrth gyfieithu enw ambell gymeriad. Llwyddodd i ailfedyddio Willy Nilly yn Jacyraca ar unwaith, ynghyd â Dai Bread yn Dai Bara ac Evans the Death yn Ifans Ange, ond nid oedd y broses o drosi enw pob cymeriad i'r Gymraeg mor rhwydd. Rhydd yr argraff yn yr ysgrif dan sylw ei fod wedi ymgynghori â'r cymeriadau eu hunain ynghylch y broses o'u hailenwi. Yr oedd Capten Cat, meddai, 'yn benderfynol o gadw'i enw gwreiddiol'[536] er i'r cyfieithydd, fe awgrymir wrth iddo ddramateiddio'r broses o gyfieithu, gynnig sawl opsiwn i'r cymeriad. Bodlonodd Bessie Bighead ar Besi Benfras 'ar ôl misoedd o ddadlau brwd',[537] ond nid oedd Lord Cutglass yn hapus 'o gael ei adnabod fel Syr Wili Watsh'.[538] Cafodd drafferth hefyd wrth ailenwi gwragedd Dai Bread, sef Mrs Dai Bread One a Mrs Dai Bread Two. Cytunwyd yn y

---

[534] 'Addasiad Newydd o *Dan y Wenallt*', *Y Faner*, 10 Ebrill 1992, t. 20.
[535] Kate Crockett, 'Adolygiad: *Dan y Wenallt*', *Barddas,* 323 (Haf 2014), t. 51.
[536] Jones, 'Cymreigio Llaregyb', t. 24.
[537] Ibid.
[538] Ibid.

diwedd ar Mrs Dai Bara Gwyn a Mrs Dai Bara Brown ar yr amod 'ein bod yn pwysleisio mai dim ond *un* Dai Bara sy'n byw yn Llaregyb'.[539]

Datgana T. James Jones yn yr ysgrif hon fod y mwyafrif o drigolion Llaregyb 'yn awyddus i siarad Cymraeg',[540] cyn mynd rhagddo i fanylu ar y broses o ddysgu Cymraeg i'r cymeriadau. Dyna'r argraff a roddwyd iddo, meddai, gan gymeriadau fel Llew Lleder wrth ei hwylio hi 'bant i Gomora',[541] Meri Ann y Morwr wrth '[f]oli Duw am farmalêd'[542] a Dai Di-ddim wrth ddyheu am 'fod yn Dai Daioni'.[543] Er bod Mr Puw yn mynnu darllen y llyfr Saesneg *Lives of the Great Poisoners*[544] er mwyn cael gwared ar Mrs. Puw, ac er bod Mae Rose Cottage 'wedi gwrthod rhoi enw Cymraeg ar ei thŷ',[545] dywed T. James Jones eu bod hwythau hefyd fel y lleill 'am gael eu hystyried yn Gymry dwyieithog'.[546] Noda fod Eli Jenkins yn gorfod ei atgoffa ei hun sut i ynganu geiriau Cymraeg yn gywir fel 'Moel yr Wyddfa' ac 'eisteddfodau' bob tro y deuai allan o'i Fethesda: 'eye-steth-vod-eye, moil-er-ooithva'.[547] Serch hynny, fe ddysgodd Gymraeg 'yn weddol hawdd'.[548] Yn y modd hwn, ceir gan T. James Jones ddramateiddiad difyr o'r broses o drosi ei hun.

Ynghyd â chreu enwau newydd ar gyfer y cymeriadau, bathodd T. James Jones enwau newydd ar gyfer y llongau a restrir gan y First Voice ym mhrolog y ddrama, sef 'the Arethusa, the Curlew and the Skylark, Zanzibar, Rhiannon, the Rover, the Coromorant, and the Star of Wales':[549]

> (Fersiwn 1967 – detholiad yn *Taliesin*)
>
> lle mae Aberystwyth, Cwrlip a Charon, Zanzibar,
> Rhiannon, Cardi, Penfro a Gwlad y Gân yn hepian wrth angor.[550]
>
> (Fersiwn 1968)
>
> lle mae Aberystwyth a Chwrlip a Chardi a Charon
> Sansibâr a Rhiannon a Seren Tre-saith

---

539 Ibid.
540 Ibid.
541 Ibid.
542 Ibid.
543 Ibid.
544 Ibid., t. 24.
545 Ibid.
546 Ibid.
547 Ibid., t. 23.
548 Ibid.
549 Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
550 T. James Jones, '*Dan y Wenallt*', *Taliesin*, 14 (Gorffennaf 1967), t. 21.

> yn hepian wrth angor.[551]

Y mae T. James Jones fel petai wedi ceisio dileu dylanwad y Saesneg o'i Laregyb adferedig yn y fersiynau cynnar o'r trosiad drwy ddisodli enwau Saesneg y llongau a bathu enwau Cymraeg newydd ar eu cyfer. Sylwer bod rhai o'r llongau yn rhannu eu henwau â threfi yng nghanolbarth a de-orllewin Cymru, sy'n amlygu nod T. James Jones o Gymreigio Llaregyb a gwreiddio'r lle yn y de-orllewin. Penderfyniad synhwyrol, fodd bynnag, oedd adfer i'r llongau hyn eu henwau gwreiddiol yn y fersiwn diweddaraf gan fod yr enwau hyn yn rhan mor adnabyddus ac eiconig o agoriad y ddrama.

Un gwahaniaeth trawiadol rhwng y fersiynau cynnar a diweddaraf o *Dan y Wenallt* yw absenoldeb y cyfarwyddyd hollbwysig '[Silence]'[552] ar ddechrau'r fersiynau cynnar. O gofio mai drama radio yw *Under Milk Wood,* y mae'r cyfarwyddyd 'Silence' ar y dechrau yn arwyddocaol ac yn eironig. Fel y dywed Kate Griffiths:

> Radio can do silence like no other form. Silence is [...] 'a natural ingredient in the creation of the radio illusion' as the medium 'comes out of silence, vibrates in the void and in the mind, and returns to silence'.[553]

Er mai torri ar ddistawrwydd yw hanfod drama radio, y mae distawrwydd hefyd yn dechneg ddefnyddiol ar gyfer cydio yn nychymyg y gwrandäwr a'i dynnu i mewn i fyd y ddrama. Yn y distawrwydd hwn, neu 'the noise of the hush'[554] chwedl Captain Cat, y clywodd T. James Jones gymuned Llaregyb yn 'dihuno o freuddwydio yn y Gymraeg'.[555] Fel y dywed Jones, penderfynodd dorri ar y distawrwydd drwy roi i'r gymuned y gallu i wireddu ei breuddwydion'[556] a byw drwy'r Gymraeg. Serch hynny, ni chyfieithodd y cyfarwyddyd 'Silence' tan 2014. Dylid nodi, fodd bynnag, fod Jones yn agor y detholiad o *Dan y Wenallt* a gyhoeddwyd yn *Taliesin* yn 1967 â'r gorchymyn 'Gwrandewch'.[557] Ond er ei fod yn amlwg yn deall ac yn parchu'r ffaith mai drama radio yw *Under Milk Wood* o'r cychwyn, hepgorodd y gorchymyn hwn o'r argraffiad cyntaf.

---

[551] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 2.
[552] Ibid.
[553] Kate Griffiths, 'Labyrinths of Voices: Émile Zola, *Germinal* and Radio' yn Kate Griffiths ac Andrew Watts (goln), *Adapting Nineteenth-Century France: Literature in Film, Theatre, Television, Radio and Print* (Cardiff, 2013), t. 26.
[554] Ibid., t. 33.
[555] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 78.
[556] Ibid.
[557] Idem, '*Dan y Wenallt*' (*Taliesin*), t. 6.

Cafodd *Dan y Wenallt* ei pherfformio ar y llwyfan cyn iddi gael ei pherfformio ar y radio. Nid oedd llwyfaniad o'r ddrama wrth fodd pawb. Ym marn Bob Roberts, a adolygodd y cynhyrchiad a lwyfannwyd yn Eisteddfod Genedlaethol y Barri 1968, yr oedd 'maint a chonfensiwn y llwyfan [...] yn marweiddio'r gwaith, yn hytrach na'i fywiocáu'.[558] Iddo ef, yr oedd confensiwn y llwyfan wedi ei 'gadw allan o *Dan y Wenallt*'[559] ac wedi llesteirio'r trosiad. Ni phrofodd yr un wefr ag a brofodd pan glywodd y recordiad cyntaf o *Under Milk Wood* 'gyda llais Burton yn canu fel organ trwyddo'[560] wrth wylio *Dan y Wenallt* yn cael ei pherfformio ar lwyfan yr Eisteddfod. Disgrifia'r perfformiad yn ei adolygiad fel 'cyfres o bortreadau episodig gyda chyflwyniad rhwng pob un'[561] – episodau a oedd, yn ei farn ef, 'yn tueddu i dorri'r gwaith i fyny'n ormodol.'[562] 'Ar y radio', meddai, 'gallasai bwrlwm y pentref fod yn gefndir i'r cyflwyniadau nes bod y gwrandäwr, trwy gyfrwng y cyflwynydd, yn dod yn rhan o fywyd y lle, ac eto, yn sefyll y tu allan iddo pan fo gofyn am hynny.'[563]

Diddorol fyddai cyfeirio yma at sylwadau Ian Rowlands am ei brofiad ef o lwyfannu *Dan y Wenallt* yn 2003. Dywedodd Rowlands wrth yr awdur presennol iddo greu cynhyrchiad llwyfan o'r trosiad a oedd yn parchu'r ffaith mai drama radio ydyw gan nad oedd yn or-hoff o ymdrechion cyfarwyddwyr i greu cyflwyniad theatrig o'r testun. Disgrifiodd ei gynhyrchiad fel a ganlyn: 'roedd yr araith yn gyntaf o flaen llen. Perfformiwyd y ddrama o flaen microffonau trwyddi draw – gan ddefnyddio technegau radio.'[564] Ond teimlai ei fod yn bradychu ei 'estheteg' ei hunan drwy gynnwys elfennau theatraidd yn ei gynhyrchiad. Byddai'n 'sbaddu'r ddrama', meddai, 'a'i gallu i'n hudo ni a chynnig moddau i ni weld y ddrama yn ôl ein gweledigaethau ni ein hunain' drwy ddangos popeth i'r gynulleidfa: 'o bob 100 gwrandäwr, fydd 'na 100 Llaregyb.'[565] Eglurodd fod gwrando ar y ddrama 'heb ddelweddaeth ategol' yn weithred 'weithredol' a bod gweld perfformiad theatrig o'r testun yn weithred 'oddefol' gan mai iaith yw 'pob dim'[566] yn y ddrama hon.

Y mae'n werth trafod yn y fan hon rai o'r technegau a ddefnyddir gan Dylan Thomas i dynnu'r gwrandäwr i mewn i'w ddrama. Y mae'r gwaith yn frith o linellau fel 'Come closer

[558] Bob Roberts, 'Dramâu'r Eisteddfod', *Banerau ac Amserau Cymru*, 29 Awst 1968, t. 3.
[559] Ibid.
[560] Ibid.
[561] Ibid.
[562] Ibid.
[563] Ibid.
[564] E-bost gan Ian Rowlands at yr awdur presennol, 28 Mawrth 2017.
[565] Ibid.
[566] Ibid.

now. / Only you can hear'[567] a 'From where you are, you can hear'[568] – sylwadau sy'n mynnu ein sylw ac yn ein hatgoffa'n gynnil mai wrth y radio yn unig y gallwn glywed yr adroddwr. Fel y noda Walford Davies:

> Using a clever inversion of the ordinary question, *Can you hear me from there?,* the play repeatedly tells us that 'From where you are you can hear...' – 'where you are', of course, being the only place where you *can* hear. When we are later momentarily threatened ('all too far away for him, or you, to hear'), we all the more alertly cling to our station.[569]

Heblaw am eiriau, nid oes mewn drama radio ond tywyllwch. Yr ydym yn ddibynnol ar yr adroddwr trwy gydol y ddrama gan na allwn weld dim heb glywed ei lais. Fel y noda Rhianedd Jewell:

> mae drama radio [...] yn dibynnu'n llwyr ar sain: ar leisiau'r cymeriadau, ar gerddoriaeth ac ar effeithiau sain technegol er mwyn cyfathrebu â'r gynulleidfa. Rhaid rhagweld anghenion y gynulleidfa, oherwydd [...] mae sawl haen i ddallineb y ddrama radio. [...] Ni all y gynulleidfa wylio'r rhyngweithio rhwng y cymeriadau, ac ni all y cyfarwyddwr a'r actorion ymateb i'r gynulleidfa ychwaith.[570]

Cyfrwng dall yw'r ddrama radio, ac fel y dywed Rhianedd Jewell eto: 'mae'r ddrama radio wedi manteisio ar ei natur ddall gan greu *leitmotif* o'r dallineb a chan roi pwyslais ar dywyllwch.'[571] Wrth i'r adroddwr ein tywys o gwmpas Llaregyb liw nos, fe'n hatgoffir ganddo yn y prolog ein bod ninnau fel gwrandawyr mor ddall â gwahaddod a Chapten Cat ac yn llwyr ddibynnol ar ei lais. Ond er bod Capten Cat yn ddall, y mae'n gweld popeth drwy wrando'n astud – ef sy'n ein cynrychioli ni fel gwrandawyr:

> CAPTAIN CAT
> Somebody's coming. Now the voices round the pump can see somebody coming. Hush, there's a hush! You can tell by the noise of the hush, it's Polly Garter. [Louder] Hullo, Polly, who's there?[572]

Ceir hefyd ddefnydd chwareus ac eironig gan Dylan Thomas o eiriau fel 'muffled',[573] 'lulled'[574] a 'dumbfound'[575] – geirfa sy'n cyfleu mudandod. Fel y dywed Walford Davies:

---

567 Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood,* t. 4.
568 Ibid.
569 Davies, 'Introduction', t. xliv.
570 Jewell, *Her a Hawl Cyfieithu Dramâu,* t. 98.
571 Ibid., t. 97.
572 Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood,* t. 33.
573 Ibid., t. 3.
574 Ibid.
575 Ibid.

> The very first direction – silence – threatens the world of sound by which a radio play lives. In a playful awareness of its own form, the play then continues to threaten itself with words notionally on their way back towards silence – 'muffled', 'lulled', 'dumbfound', 'hushed', 'dumb', 'gloved', 'furred'.[576]

Bu i T. James Jones gyfaddawdu wrth gyfieithu'r geiriau sy'n cyfleu ac yn bygwth distawrwydd. Sylwer, er enghraifft, ar ei gyfieithiad o 'or blind as Captain Cat there in the muffled middle by the pump and the town clock':[577] 'neu'n ddall fel y Capten Cat fan draw'n cyfeillachu â'r pwmp a'r cloc'.[578] Gellir dadlau bod 'cyfeillachu' yn anghydnaws â'r mudandod eironig a gyfleir yn y gwreiddiol. Ar y llaw arall, noder ei gyfieithiad o 'the lulled and dumbfound town are sleeping now':[579] 'A chaewyd llen pob llygad tan amrannau trwm y nos'.[580] Yn hytrach na chynnig cyfieithiad llythrennol o'r llinell hon, dewisodd T. James Jones fynd ar drywydd gwahanol a phwysleisio mai'r glust yw'r llygad. Y mae'n cyfuno'r synhwyrau yn ei gyfieithiad drwy gyfeirio'n uniongyrchol at y llygad mewn llinell gyflythrennog sy'n deffro'r glust i sŵn y geiriau ac yn dwysáu naws drymaidd a chysglyd y prolog.

O graffu ar agoriad *Dan y Wenallt*, nid y cyfarwyddyd 'Silence' yw'r unig beth sydd ar goll o'r argraffiad cyntaf. Ni fentrodd T. James Jones, 'y prentis o awdur',[581] chwedl yntau, drosi'r llinell agoriadol eiconig 'To begin at the beginning'[582] i'r Gymraeg yn y 1960au: 'Roedd yr argraffiad cyntaf yn ei llwyr osgoi!'[583] Fel y nodir ar y rhaglen *Pethe Pum Munud*, fe barodd llinell agoriadol y ddrama 'ben tost'[584] i Jones o'r dechrau. Er mwyn gwerthfawrogi arwyddocâd y llinell hon, y mae'n werth nodi bod yr ymadrodd 'To begin at the beginning', fel teitl y ddrama, yn perthyn i linach lenyddol hir. Fel y dywed Walford Davies:

> Meddylier am eiriau Dickens yn *A Tale of Two Cities*, gan gofio bod Dickens yntau yn disgrifio treflan yn cysgu: 'Commence at the commencement ... All the village withdraws ... all the village whispers by the fountain, all the village sleeps, all the village dreams'. Neu ystyrier geiriau Byron ar ddechrau Don Juan: 'my way is to begin with the beginning'.[585]

---

[576] Davies, 'Introduction', t. xliii.
[577] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[578] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 1.
[579] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[580] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 1.
[581] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 82.
[582] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[583] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 82.
[584] *Pethe Pum Munud: Jim Parc Nest*, <https://www.youtube.com/watch?v=OHN4lqlPP9o>; cyrchwyd 8 Ionawr 2017.
[585] Davies, 'Rhagymadrodd', t. viii.

Cyfeiria Walford Davies hefyd at orchymyn y Brenin yn *Alice's Adventure in Wonderland* Lewis Carroll ('Begin at the beginning'[586]), ynghyd â geiriau Dylan Thomas ei hun ar ddechrau darllediad radio yn 1946 ('Well, where do we begin? Got to begin somewhere'[587]) gan nodi bod yr ymadrodd 'To begin at the beginning' yn tarddu o 'ffynhonnell arall, ddyfnach',[588] sef y Beibl: 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair.'[589] 'Nid ffugbarchuso'r gwaith yw nodi hyn',[590] yn ôl Davies, 'ond mater o barchu'r ffaith mai Eden wedi'r Cwymp neu rhyw Wynfa goll, os seciwlar, yw lleoliad *Under Milk Wood'*.[591] Gan mai llinell o gynghanedd lusg yw 'To begin at the beginning', petrusodd T. James Jones rhag ei chyfieithu. Teimlai fod angen atgynhyrchu'r gynghanedd hefyd. Yn dilyn cynhyrchiad o'r ddrama yn yr 1980au gan fyfyrwyr Coleg y Drindod, Caerfyrddin lle bu T. James Jones yn gweithio fel darlithydd yn y Gymraeg a'r ddrama rhwng 1976 a 1982, cafodd fflach o oleuni ar y benbleth. Ynyr Williams oedd yn chwarae rôl y Llais yn y cynhyrchiad hwn, ac fe gafodd ganiatâd gan Jones i agor y ddrama yn ei dafodiaith ei hun gyda'r ymadrodd gogleddol 'I ddechrau cychwyn'. Awgrymodd yr actor wrth Jones fod gan ei dafodiaith yntau ymadrodd tebyg, sef 'Yn y dechrau'n deg'. Yn debyg i 'To begin at the beginning', ceir adlais Beiblaidd yn y llinell hon. Pan ailargraffwyd *Dan y Wenallt* yn 1992, ar ôl iddi gael ei haddasu fel cartŵn ar gyfer S4C, defnyddiodd T. James Jones yr ymadrodd hwn i agor y ddrama. Dadlennodd ar y rhaglen *Pethe Pum Munud* nad oedd Walford Davies yn or-hoff o'r llinell 'Yn y dechrau'n deg', felly, fe benderfynodd fod rhaid iddo drosi'r llinell yn fwy llythrennol. Ond ar ôl newid y llinell i 'Gan ddechrau yn y dechrau', gofynnodd Ian Rowlands iddo: 'pam wyt ti wedi gollwng yr ymadrodd pert 'na o'dd 'da ti yn sôn am y dechrau'n deg?'[592] Sylweddolodd Jones bryd hynny ei bod yn bosibl cael llinell o gynghanedd wrth gyfuno'r ddau gyfieithiad a dyna a welir yn yr argraffiad diweddaraf, 2014. 'Trwy lwc',[593] meddai, 'doedd y testun ddim wedi mynd i'r wasg'.[594] Gwelodd gyfle i agor yr argraffiad diweddaraf felly â llinell o gynghanedd sain: 'A dechrau yn y dechrau'n deg'.[595] Er ei fod yn cydnabod ei ddyled yn ei lêngofiant i Ian Rowlands a Marian Beech Hughes am eu harweiniad yn y cyswllt hwn, dywedodd ar y rhaglen *Pethe Pum Munud* mai i awdur y

[586] Ibid.
[587] Ibid.
[588] Ibid.
[589] Ioan 1:1.
[590] Davies, 'Rhagymadrodd', t. viii.
[591] Ibid.
[592] Rhaglen *Pethe Pum Munud: Jim Parc Nest,* <https://www.youtube.com/watch?v=OHN4lqlPP9o>; cyrchwyd 8 Ionawr 2017.
[593] Ibid.
[594] Ibid.
[595] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 1.

gwreiddiol y mae'r diolch mwyaf am y llinell hon (awdur a elwid ganddo 'yn Wydion geiriau').[596]

Y mae'r fersiwn diweddaraf o *Dan y Wenallt* yn agor – ac yn cloi ('i eni'r undydd newydd hwn o Wanwyn'[597]) – â chynghanedd sain, sef y gynghanedd fwyaf cynhwysfawr ar un wedd, am ei bod yn cynnwys odl a chyflythreniad. Drwy agor a chloi'r trosiad â chynghanedd sain, y mae T. James Jones yn creu undod sy'n cyflawni fframwaith cylch nos-a-gwawr y ddrama. Dylid nodi fod pob fersiwn, o'r dechrau, yn cloi â'r llinell honno, 'i eni'r undydd newydd hwn o Wanwyn.'[598] Y mae'n amlwg felly mai ffrwyth llafur bardd yw'r trosiad o'r cychwyn. Gellir canfod llinellau trawiadol o gynghanedd ym mhob fersiwn – megis y gynghanedd draws 'a'r halen yn drwch ar yr alaw',[599] y gynghanedd sain 'yn llepian ar y marian mwrn',[600] a'r gynghanedd sain-odl-gudd 'Watsha dy dra'd chwarter i dri',[601] er enghraifft. Ond, yn arwyddocaol, ceir mwy o gynganeddion yn y fersiwn diweddaraf o'r trosiad, fel y gwelwn yn y man.

Mewn cerdd a gyhoeddwyd yn *Barddas* yn 2017, 'Yr Amod', disgrifir y gynghanedd gan T. James Jones fel 'yr union grefft a achubodd Cymru'.[602] Cerdd yn ymateb i'r amod a gyflwynwyd i gystadleuaeth y Goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol yw 'Yr Amod'. Cyflwynwyd amod newydd yn dilyn coroni Ceri Wyn Jones yn 2009 am ddilyniant o gerddi a oedd mewn cynghanedd gyflawn. Fel y dywed T. James Jones, 'ceisiwyd gwahardd hynny wedyn drwy osod yr amod a ganlyn: "Caniateir cynnwys ambell linell ddamweiniol neu anfwriadol gynganeddol mewn gwaith a anfonir i gystadleuaeth y Goron."'[603] Cyhoeddodd Jones y gerdd yn *Barddas* gan obeithio y byddai'n esgor ar drafodaeth bellach ar y pwnc gan nad yw'r amod newydd, yn ei farn ef, yn llwyr ddatrys y broblem. Daw 'pwyllgorwyr twp'[604] yr Eisteddfod dan y lach ganddo yn y gerdd hon am gyflwyno amod sy'n diraddio'r

> grefft a achubodd Gymru unwaith
> rhag colli popeth o'i hunaniaeth
> pan laddwyd ein tywysog dwetha'
> gan ryw Saeson mewn ymladdfa

[596] Rhaglen *Pethe Pum Munud: Jim Parc Nest,* <https://www.youtube.com/watch?v=OHN4lqlPP9o>; cyrchwyd 8 Ionawr 2017.
[597] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 84.
[598] Ibid.
[599] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 83.
[600] Ibid. t. 12
[601] Ibid., t. 52.
[602] Idem, 'Yr Amod', *Barddas*, 333 (Gwanwyn 2017), t. 6.
[603] Ibid.
[604] Ibid.

ar bwys Cilmeri ar lan afon.
Rhag ildo'r cwbwl mewn torcalon,
a gweld dim byd ond gwlad anniben
fe fynnodd beirdd sefydlu trefen
i gadw'u hunan-barch a'u hundod
drwy roi'u ffydd yng nghrefft cerdd dafod.[605]

O weld felly fod T. James Jones yn ystyried crefft y gynghanedd fel arf sydd wedi achub Cymru rhag colli ei hunaniaeth ar hyd y canrifoedd, gellir cynnig mai'r un syniad a oedd ganddo pan benderfynodd gynysgaeddu cymeriadau *Dan y Wenallt* â'r grefft hon, wrth eu harfogi â chynghanedd i adfer Cymreictod Llaregyb. Diau mai dyma'r fan, felly, i dynnu sylw at rai enghreifftiau cofiadwy sy'n dangos gallu newydd trigolion Llaregyb i gynganeddu.

Un cymeriad sy'n cynganeddu'n amlach yn y fersiwn diweddaraf o *Dan y Wenallt* yw'r Llais. Y cymeriad hwn biau'r enghreifftiau a nodwyd uchod – 'a'r halen yn drwch ar yr alaw'[606] ac 'yn llepian ar y marian mwrn'[607] – er enghraifft, y mae ganddo fwy o linellau cynganeddol yn y fersiwn diweddaraf. Yn y fersiynau cynnar, dywed y Llais fod y 'gwartheg yn cil-gysgu'n y beudy'.[608] Ond yn y fersiwn diweddaraf, cawn wybod ganddo fod 'y da yn y beudai'[609] (cynghanedd draws). Dywed y cymeriad hwn hefyd fod y nos yn ymgynnull yn y capel 'i bwnio emyn ar emyn'[610] ac yn 'ymdeithio'n falch rhwng ceirios Heol y Brenin'[611] yn y fersiynau cynnar. Ond yn y fersiwn diweddaraf y mae'r nos 'yn amenio emynau'[612] (cynghanedd groes) ac ar ymdaith fud rhwng 'ceirios y Coroni'[613] (lle ceir cyflythrennu cryf). Yn debyg i hyn, sylwa'r Llais fod Poli Gardis yn galaru am ei hannwyl Wili Wi sydd 'dan ddwylath o bridd'[614] yn y fersiynau cynnar, ond yn y fersiwn diweddaraf y mae Wili Bach 'yn y dwylath diwaelod'[615] (cynghanedd groes). Caiff Mrs Puw, gwraig Mr Puw, ei disgrifio gan y Llais fel ei 'wrach bitsh o wraig'[616] yn y fersiynau cynnar (y mae'r ymadrodd yn esiampl o gynghanedd draws). Y mae 'gwrach' a 'bitsh' yn eiriau sarhaus, ond miniogir casineb Mr Puw tuag ei wraig ymhellach gan y gynghanedd sain yn y fersiwn diweddaraf: 'sinach, wrach o wraig'.[617] Difyr

[605] Ibid.
[606] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 83.
[607] Ibid. t. 12
[608] Ibid., t. 11.
[609] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 2.
[610] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 12.
[611] Ibid.
[612] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 3.
[613] Ibid.
[614] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 105.
[615] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 83.
[616] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 84.
[617] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 67.

hefyd yw nodi bod y disgrifiad hwn yn adleisio llinellau cofiadwy Dafydd ap Gwilym yn ei gerdd 'Merched Llanbadarn':

> Plygu rhag llid yr ydwyf,
> Pla ar holl ferched y plwyf!
> Am na chefais [...]
> Na merch fach na gwrach na gwraig.[618]

Yn debyg i hyn, caledwyd gorchymyn stowt Mrs Puw i'w gŵr – 'Fe ddylech chi aros nes i chi riteirio i'ch twlc'[619] – gan y gynghanedd sain yn y fersiwn diweddaraf: 'Fe ddylech ohirio nes riteirio i'ch twlc'.[620] Yn yr un modd, y mae cwyn un o'r cymdogesau am Dai Di-ddim – 'rhy ddioglyd i sychu'i drwyn'[621] – yn swnio'n fwy hallt oherwydd y gynghanedd sain yn y fersiwn diweddaraf: 'rhy ddioglyd i sychu'i swch.'[622] Yn wahanol i Cherry Owen sy'n canu'r emyn dôn 'Aberystwyth' – tenor a bas – yn *Under Milk Wood*, dywed Ceiriog Owen yn y fersiynau cynnar o *Dan y Wenallt* ei fod 'wastod yn canu "Cwm Rhondda".'[623] Yn y fersiwn diweddaraf, fodd bynnag, datgana'r cymeriad hwn mewn llinell o gynghanedd draws: ''Wy wastod yn canu "Aberystwyth".'[624] Ac fel bardd-bregethwr brogarol Cymraeg o'r iawn ryw, cofleidia'r Parchedig Eli Jenkins ei fro yn ei bregeth foreol ym mhob fersiwn o'r trosiad â llinell o gynghanedd groes, gan ddisgrifio pob 'gallt a thwyn a stryd a llan'[625] yn Llaregyb 'Yn grochan i gorachod'.[626]

Yn ôl T. James Jones, Eli Jenkins 'fyddai'r cyntaf i gyfaddef ei wendid fel bardd. Mae ganddo ambell gyffyrddiad cynganeddol, a rhyw grap ar y mesurau rhydd traddodiadol, ond braidd yn gyfyng yw ei ddawn.'[627] Fel y noda Jackie Benjamin am benillion y cymeriad hwn yn *Under Milk Wood*:

> His morning prayer, composed of alternating octosyllabic and heptasyllabic lines rhyming *abab*, parodies the high art forms of both Welsh praise poetry, with its sustained use of assonantal and alliterative 'cynghanedd', and the Romanticism of the Celtic twilight.[628]

---

[618] Dafydd ap Gwilym, 'Merched Llanbadarn', <http://www.dafyddapgwilym.net>; cyrchwyd 13 Mawrth 2017.
[619] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 84.
[620] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 67.
[621] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 59.
[622] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 47.
[623] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 46.
[624] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 35.
[625] Ibid.
[626] Ibid.
[627] Idem, 'Cymreigio Llaregyb', t. 23.
[628] Benjamin, 'Misrule in Milk Wood', t. 61.

Diddorol fyddai craffu yma ar ffurf a phatrwm y penillion ym mhregeth foreol y bardd-bregethwr yn *Dan y Wenallt*:

> Lle ceir dolydd mwy cyfoethog
> Lle ceir gelltydd mwy toreithiog
> A phrydydd gwell i lunio cân
> I'w henfro lân ar fore heulog.
>
> Mae'r Wyddfa'n ogoneddus,
> Pumlumon yn rhamantus,
> Mae min ar greigiau Penmaen-mawr
> A chawr yw Cader Idris.
>
> Ond yma, 'sdim rhyfeddod.
> Bryn bach fel pridd gwahaddod
> A gallt a thrwyn a stryd a llan,
> Yn grochan i gorachod.[629]

Penillion ar fesur gwerinaidd y triban yw'r rhain. Gwelir bod gair olaf y drydedd linell yn y penillion yn acennog ac yn odli â gair yng nghanol y bedwaredd linell. Newidiodd T. James Jones drefn y geiriau yn llinell olaf y pennill cyntaf a ddyfynnir uchod, 'A phrydydd gwell i lunio cân / Ar fore heulog i'w fro lân' (1968)[630] i 'A phrydydd gwell i lunio cân / I'w henfro lân ar fore heulog'[631] yn y fersiwn diweddaraf er mwyn glynu wrth reolau'r mesur hwn. Gwelodd gyfle yma i gywreinio'r bregeth, gan roi rhywfaint o hygrededd i Eli Jenkins fel bardd.

Cerdd fawl i Laregyb yw pregeth foreol y Parchedig Jenkins ac fe gyferbynna ynddi ddistadledd ei fro â gogoniant bröydd eraill yng Nghymru cyn mynd rhagddo i gyfleu bod ei Laregyb ddinod yn ogoniant iddo ef. Cân yn llon i'w 'Walia' ar riniog Mans Bethesda gan restru rhai o afonydd a mynyddoedd enwocaf Cymru. Parodi yw'r bregeth foreol yn rhannol ar farddoniaeth Gymraeg wladgarol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Egyr llawer o gerddi'r cyfnod hwn â'r cyfarchiad 'O Walia', yn cynnwys 'Cân Mewn Cystudd', sef un o gerddi'r Parchedig William Thomas neu Gwilym Marlais – bardd, ysgolhaig, gweinidog Undodaidd a hen ewythr i Dylan Thomas. Er mai portread dychanol a geir yn *Under Milk Wood* o'r bardd-bregethwr Cymraeg, gellir ymdeimlo hefyd â rhyw dynerwch yn y dychan. Yng ngeiriau Kate Crockett:

---

[629] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 26.
[630] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 35.
[631] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 26.

> [Eli Jenkins] wedi'r cyfan, biau'r geiriau 'We are not wholly bad or good / Who live our lives under Milk Wood', ac er symled y dweud, mewn gwirionedd mae'n grynodeb digon teg o farn yr awdur o'i gymeriadau hefyd. Mae mwy nag ychydig o Dylan Thomas yn y Parchedig Eli Jenkins.[632]

Y mae mwy nag ychydig o T. James Jones yn y cymeriad hwn hefyd. Fel y noda Jones, yr oedd yn 'weinidog yr Efengyl yng nghyfnod y trosi, ac fe ddysgodd gweddi fachlud gartwnaidd Eli Jenkins, yn niniweidrwydd ei diwinyddiaeth'[633] iddo chwerthin am ei ben ei hunan. Dyma, yn ei dyb ef, yw cymwynas fwyaf y trosi: 'os bydd rhywrai yn dal i gamfarnu *Under Milk Wood* fel dim ond tipyn o sbort sy'n rhoi cyfle i'r Sais chwerthin am ben y Cymro, dyma gyfle i ninnau nawr chwerthin am ein pennau ein hunain.'[634]

Nid amherthnasol yn y cyswllt hwn yw nodi bod Eli Jenkins yn cloi ei bregeth yn *Dan y Wenallt* gan erfyn ar Dduw â'i weddi 'daer o fro Llaregyb, / Atat Ti, yr Un a'i hetyb'[635] i 'gael aros heb heneiddio / Yn y ddigyffelyb henfro'[636] – llinell sy'n dwyn i gof rai o brif themâu barddoniaeth T. James Jones ei hun. 'And never, never leave the town'[637] yw llinell glo'r bregeth wreiddiol: nid yw Eli Jenkins yno yn cyfeirio'n esblyg at heneiddio yn *Under Milk Wood*. Fel y nodwyd yn y bennod gyntaf, y mae themâu fel amser a henaint, ynghyd â'r ymdeimlad o berthyn a brogarwch, yn cael eu harchwilio'n aml ym marddoniaeth T. James Jones er cychwyn ei yrfa farddol. Ystyrier 'Y Dringwr' (1958) a 'Ffoadur' (1961), er enghraifft. Ond er bod llais T. James Jones ei hun i'w glywed yng nghymeriad Eli Jenkins, awgryma yn ei lêngofiant y '[g]allai diddordeb obsesiynol y Parchedig Eli Jenkins mewn eisteddfodau ac yn yr hen chwedlau am "dderwyddon yn llunio iddynt eu hunain wraig o flodau" fod yn ddrych o fans y Boweniaid yn 1944.'[638] Gwêl Jones debygrwydd rhwng Eli Jenkins ac Orchwy Bowen, gweinidog Towyn, capel yr Annibynwyr yng Ngheinewydd, a thad y Prifeirdd Euros Bowen a Geraint Bowen. Sonia mewn ysgrif o'i eiddo am atgof Geraint Bowen o'i dad 'yn gaeth i'r mans drwy'r rhan fwyaf o 1944 oherwydd anhwylder',[639] gan ddweud ei bod yn 'gwbl bosibl y gwelid Orchwy Bowen yn agor drws y ffrynt yn gyson, gan "edrych mas ar y dydd ac ar y bryncyn tragwyddol ... [i] glywed clegar yr adar a'r môr rhwyfus".'[640]

---

632 Kate Crockett, *Mwy na Bardd: bywyd a gwaith Dylan Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 150.
633 Jones, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', t. 22.
634 Ibid.
635 Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 27.
636 Ibid.
637 Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 20.
638 Jones, *Jim Parc Nest*, t. 69.
639 Idem, 'Cymreigio Llaregyb', t. 23.
640 Ibid.

Dywed T. James Jones mai pregethwr 'wedi ei dynghedu i freuddwydio am lwyddiant eisteddfodol, a dim mwy'[641] yw Eli Jenkins. Ond os edrychwn yn fanylach ar benillion Jenkins yn *Under Milk Wood*, gwelwn fod gan y bardd-bregethwr fwy o afael ar ei grefft nag a feddyliwn. Yng ngeiriau Helen Vendler:

> This daily and invariant ritual of praise has been seen variously by critics as a parody of amateur verse or as a heartfelt lyric. [...] But no hack-poet ever constructed a list of lists as cunning as that of Reverend Jenkins, who [...] may be conceived partly in the image of Thomas's great-uncle William Thomas, whose poem 'Cân mewn Cystudd' ('A Song in Affliction'), included an address to 'Dear Gwalia', the words opening Thomas's poem.[642]

Ac eto:

> although the Reverend Jenkins must *seem* an amateur, real-life amateurs have no capacity of such perspectival list-variation. Nor can amateur poets achieve satisfactory sound-cadences of the river-list in the Reverend Jenkins's next two-stanza unit.[643]

Serch hynny, rhan o gomedi ddychanol y ddrama yw methiant y bardd-bregethwr traddodiadol i greu barddoniaeth o safon. Pan drafodwyd *Dan y Wenallt* mewn cynhadledd yng Ngregynog yn 2017, cafwyd ymateb diddorol gan un unigolyn a awgrymodd fod y Gymraeg yn pylu'r elfen ddychanol ym mhortread T. James Jones o Eli Jenkins. Ym marn yr unigolyn hwn, yr oedd Eli Jenkins y trosiad yn well bardd nag Eli Jenkins y gwreiddiol.[644] Ond yn erbyn sylw o'r fath gellir dadlau yn ddigon hawdd nad yw llinell o gynghanedd groes, y cyffyrddiadau cynganeddol na'i ddefnydd o fesur y triban yn ddigon i'n darbwyllo bod Eli Jenkins *Dan y Wenallt* yn bortread digellwair o'r bardd-bregethwr Cymraeg.

Y mae Eli Jenkins yn dirwyn ei bregeth foreol i ben drwy gyferbynnu Heron Head Llaregyb â Charreg Cennen ger Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin. Cyfleir yn y pennill hwn mor ddinod o ran maint ac arwyddocâd hanesyddol yw Heron Head o'i gymharu â chastell Carreg Cennen mawreddog a hynafol:

> By Carreg Cennen, King of time,
> Our *Heron Head* is only
> A bit of stone with seaweed spread
> Where gulls come to be lonely [645]

---

[641] Ibid.
[642] Helen Vendler, '*Under Milk Wood*: Lists, Made and Undone' yn Alyce von Rothkirch a Daniel Williams (goln.), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts: Essays for M. Wynn Thomas at Sixty* (Cardiff, 2004), tt. 106–8.
[643] Ibid.
[644] Cynhadledd Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig, Gregynog, 2017.
[645] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 20.

Yn hytrach na chyfieithu'r pennill hwn air am air, fe'i rhannwyd gan T. James Jones yn ddau bennill. Awgrymir yn y pennill cyntaf nad yw Llaregyb o ddiddordeb hanesyddol i neb:

> Mae oedran mawr ar Garreg Cennen,
> Mae oedran mwy ar wraidd 'Rhen Dderwen
> Ond ni ddaw neb i ofyn oed
> Y Pentre bach o dan y coed.[646]

Mae tinc un o'r hen benillion ar y ddwy linell gyntaf yn y fan hon. At hyn, sylwer yn arbennig ar y cyfeiriad at y ''Rhen Dderwen' yn y pennill hwn. Ni chyfeirir o gwbl at y dderwen yn *Under Milk Wood*. Cyfeiriad ydyw at un o chwedlau Sir Gaerfyrddin, sef chwedl Derwen Myrddin. Yn ôl y chwedl, proffwydodd Myrddin y byddai tref Caerfyrddin yn boddi pe cwympai'r dderwen hon.

Cyfeiria Eli Jenkins at Dderwen Myrddin ynghyd â Charreg Cennen er mwyn pwysleisio distadledd bro Llaregyb. Pwrpas y cyfeiriadau hyn hefyd yw gwreiddio Llaregyb yn Sir Gaerfyrddin. Dadlenna T. James Jones yn ei lêngofiant mai un ffordd o adfer Cymreictod Llaregyb oedd gwreiddio'r dref mewn lle arbennig. Penderfynodd leoli Llaregyb ar arfordir Sir Gaerfyrddin gan fod prif ysbrydoliaeth y ddrama, Talacharn, yn y sir hon.[647] Diddorol yn y cyswllt hwn yw cyfieithiad Jones o 'Heron Head', sef 'Trwyn Sgadenyn', yn yr ail bennill:

> Ac wrth greigiau tal y Penrhyn
> Digon bach yw Trwyn Sgadenyn
> Lle daw'r wylan o'r cae 'redig
> At ei chraig i fod yn unig.[648]

Ymdeimlir unwaith eto yma â naws yr hen benillion. Gellir cynnig bod T. James Jones wedi ei ysbrydoli i gyfieithu 'Heron Head' yn 'Trwyn Sgadenyn' gan sŵn tebyg y ddau air Saesneg 'heron' a 'herring'. Gair tafodieithol am 'benwaig' a ddefnyddir yn ne-orllewin Cymru yw 'sgadenyn'. Ynghyd, felly, â'r cyfeiriad gwreiddiol at Garreg Cennen, y mae'r cyfeiriad at Dderwen Myrddin a'r gair tafodieithol 'sgadenyn' yn amlygu lleoliad Llaregyb yn Sir Gâr.

Difyr hefyd yng nghyswllt y drafodaeth am Eli Jenkins yw sylwadau T. James Jones am yr heriau a wynebodd wrth drosi Gweddi Fachlud y cymeriad hwn i'r Gymraeg. Yn ôl Jones:

> fe ddysgodd Eli Jenkins Gymraeg yn weddol hawdd. Fe gyfansoddodd e ei Weddi Fachlud yn sydyn iawn ag eithrio'r cwpled clo lle mae e'n ymgrymu i'r haul. Bu rhaid

[646] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 36.
[647] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 78.
[648] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 36.

> iddo ymgodymu â hwnnw am wythnosau lawer a chael ei demtio i anghofio'r haul yn llwyr ar brydiau.[649]

(Unwaith eto yn y darn hwn, fe welir Jones yn dramateiddio'r broses o drosi drwy gydymdoddi ei brofiad ei hun fel cyfieithydd â phrofiad dychmygedig un o gymeriadau'r gwaith.) Y llinellau sydd dan sylw gan T. James Jones yn y dyfyniad uchod yw 'And to the sun we all will bow / And say goodbye – but just for now'.[650] Dadlenna Jones yn ei ysgrif 'Cymreigio Llaregyb' iddo gyfieithu'r llinellau hyn fel 'Agora di Dy ymbarél, / Cawn ddweud nos da heb ddweud ffarwel' i ddechrau cyn '[c]ytuno ar gyfaddawd boddhaol sef cyfarch yr haul heb ymgrymu iddo':[651] 'Ac wrth yr haul sy'n mynd am sbel / Cawn ddweud nos da heb ddweud ffarwel.'[652] Dywed yn yr ysgrif hon y cafodd Eli Jenkins 'drafferth mewn mannau eraill hefyd',[653] yn arbennig wrth gyfieithu ei 'ymateb anfarwol'[654] i gân Polly Garter: 'Praise the Lord! We are a musical nation!'[655] Y mae'n werth nodi bod Dylan Thomas yn dychanu cymhlethdod seicolegol y Cymry a'u hobsesiwn â chael eu gweld fel cenedl foesol, grefyddol a cherddorol yn dilyn Brad y Llyfrau Gleision yn 1847 yn y llinell hon. Fel y dywed M. Wynn Thomas: 'Wales's anxiety about its perceived cultural backwardness found obsessive expression in the promoting of itself as a musical nation.'[656] Awgryma T. James Jones yn ei ysgrif ei fod yn anfodlon â'i gyfieithiad gan ddweud bod Eli Jenkins – y cymeriad ei hun – yn 'darogan nad yw "Clod i Dduw am Wlad y Gân!" ddim cystal â'r gwreiddiol. Mae'r ! yn profi fod angen rhywbeth i'w gryfhau.'[657] Ond er ei fod yn teimlo nad yw'r cyfieithiad gryfed â'r gwreiddiol, ni chollir yr ergyd ddychanol yn y cyfeiriad at Wlad y Gân, yn dilyn cân Polly am 'dwmblo'[658] â 'bois y plwyfi'.[659]

Dywedodd Menna Baines mewn cyfweliad â T. James Jones mai un peth sy'n taro rhywun yn syth wrth ddarllen ei gyfrol *Eiliadau o Berthyn* (1991) 'yw'r defnydd helaeth o dafodiaith sydd ynddi'.[660] Un gerdd dafodieithol yn unig, sef 'D. J', a geir yn ei gyfrol gyntaf, *Adnodau a Cherddi Eraill* (1975). Teyrnged i D. J. Williams yw'r gerdd hon. Fel y nodwyd yn

---

[649] Idem, 'Cymreigio Llaregyb', t. 23.
[650] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 58.
[651] Jones, 'Cymreigio Llaregyb', t. 23.
[652] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 99.
[653] Idem, 'Cymreigio Llaregyb', t. 23.
[654] Ibid.
[655] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 41.
[656] M. Wynn Thomas, *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff, 1999), t. 119.
[657] Jones, 'Cymreigio Llaregyb', t. 23.
[658] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 55.
[659] Ibid.
[660] Menna Baines, 'Canu'r Mab-A'th-O-Gatre: Holi T. James Jones', *Barn*, 347 (Rhagfyr 1991), t. 5.

y bennod gyntaf, y mae'n debyg bod y gerdd yn rhan o'r dilyniant 'Adnodau o Gariad' a anfonodd Jones i gystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman 1970. Canmolir D. J. Williams yn y gerdd am normaleiddio'r defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth ac am 'ddala' tafodiaith Sir Gâr 'fel tarian i'n hamddiffyn â gwên'.[661] Ond fe awgrymir yn y gerdd nad yw'r defnydd o dafodiaith mewn llenyddiaeth wrth fodd pawb yng Nghymru. Y mae'n werth cyfeirio'n fyr yma at erthygl Urien William, 'Iaith Theatr', a gyhoeddwyd yn *Llwyfan* yn 1970. Dywed William ei bod yn drueni nad yw dramodwyr yn ysgrifennu ar gyfer 'y gynulleidfa ehangach, sef, pawb sy'n siarad Cymraeg, mewn cyfnod pan fo dramodwyr Cymraeg mor brin.'[662] Yn ei dyb ef, yr oedd 'drama dafodiaith yn foeth'[663] na ellid mo'i fforddio yng Nghymru bryd hynny.

Dadlennodd T. James Jones yn y cyfweliad â Menna Baines mai ei ddiddordeb mewn dramâu a'i harweiniodd at ddechrau barddoni mewn tafodiaith: 'Fe ddechreuodd e'n ôl yn y chwedegau cynnar pan wnes i gyfieithu *Under Milk Wood* a cheisio rhoi *Dan y Wenallt* yn nhafodiaith Sir Gaerfyrddin – fanna dechreuodd yr arfer neu'r diddordeb yna.'[664] Dylid nodi hefyd fod ei ddramâu cynnar – *Hollti Blew* (1966), *Wil Angladde* (1976) a *Gair i Gall* (1978) – yn dafodieithol iawn. Esboniodd Jones yn y cyfweliad â Baines fod ei bryder ynghylch diflaniad tafodiaith wedi bod yn ysgogiad iddo lenydda mewn tafodiaith a'i fod yn teimlo ei fod yn 'gallu dweud pethau yn fwy uniongyrchol ac yn gliriach mewn tafodiaith.'[665] Yn ei dyb ef, deunydd crai unrhyw lenor yw tafodiaith. Dywedodd wrth y cyfwelydd fod rhaid i fardd neu ddramodydd fynd yn ôl at ei dafodiaith 'fel 'se fe'n mynd yn ôl i'r chwarel, fel pan fydd chwarelwr yn cael gafael ar garreg'.[666] Iddo ef, 'chwarel y dramodydd a'r bardd yw'r dafodiaith y mae e'n ei siarad ei hunan'.[667] Yn ogystal, cred Jones fod tafodiaith 'yn rhywbeth y dylid ei chadw a'i hachub, ei rhoi i lawr ar bapur, oherwydd gwaetha'r modd mae'n diflannu. Mae'r idiom yn mynd, mae'r ymadroddion yn diflannu, mae'r eirfa'n diflannu.'[668]

Fel y dywed Guto Dafydd, camp T. James Jones yw ail-greu *Under Milk Wood* fel pe'i lleferid gyntaf yn ei 'Gymraeg dafodieithol [*sic*] flasus'.[669] Rhoddodd Jones dafodiaith ei Sir

---

[661] Idem, *Adnodau a Cherddi Eraill*, t. 20.
[662] Urien William, 'Iaith Theatr', *Llwyfan*, Haf, 1970, t. 3.
[663] Ibid.
[664] Baines, 'Canu'r Mab-A'th-O-Gatre', t. 5.
[665] Ibid.
[666] Ibid.
[667] Ibid.
[668] Ibid.
[669] Guto Dafydd, 'Henaint a'i gân ei hunan', *Barn*, 618/619 (Gorffennaf/Awst 2014), t. 82.

Gâr ei hun i drigolion Llaregyb. Datgana Jones yn ei lêngofiant mai ei gymuned yntau yw Llaregyb, ac wrth roi iddi ei dafodiaith ef fe'i clywodd 'yn tyfu yn ei hunanhyder; alltudiwyd cymhlethdod y taeog o'i meddylfryd, ac ni fynegodd un enaid byw yn Llaregyb Shir Gâr yr esgus gwasaidd, "So Nghwmrâg i'n ddigon da".'[670] Iddo ef, yr oedd rhoi'r dafodiaith ar wefusau'r cymeriadau yn weithred wleidyddol ac yn ffordd o adfer hunan-barch a hunanhyder y Cymry Cymraeg. Yn sgil y penderfyniad hwn, magodd Llaregyb 'ddigon o asgwrn cefn i fynnu fod y Gymraeg yn cael ei chydnabod yn iaith swyddogol'[671] ac i wrthod 'ymagweddu'n nawddoglyd tuag at yr iaith Gymraeg a chenedligrwydd Cymru.'[672] Yr oedd rhoi i drigolion Llaregyb ei dafodiaith ef ei hun yn ffordd o annog ei gymuned – ddychmygedig a real – 'i ymwrthod â siniciaeth wleidyddol George Thomas a'i lywodraeth Brydeinllyd',[673] ac yn ffordd hefyd o annog Cymry Sir Gâr i ymfalchïo yng nghyfoeth eu tafodiaith a'r iaith Gymraeg.

Wrth drafod ei benderfyniad i leoli'r ddrama yn Sir Gâr ac i roi tafodiaith y fro i drigolion Llaregyb, dywed T. James Jones yn ei lêngofiant fod ei dafodiaith yn cynnig 'ambell arlliw diddorol o ystyr i rai ymadroddion'.[674] Un enghraifft a nodir ganddo yw ei gyfieithiad o sylwebaeth Capten Cat:

Who's that talking by the pump? Mrs Floyd and Boyo talking flatfish. What can you talk about flatfish?'[675]	Pwy sy'n cloncan ar bwys y pwmp? Mrs Ffloyd a Dai Di-ddim yn trafod fflwcs. Be all dyn weud am fflwcs?[676]

Ymadrodd sy'n gyfystyr â siarad gwag neu siarad rwtsh yw 'talking flatfish'. Noda T. James Jones yn ei lêngofiant mai ei air ef am 'gleber o'r fath'[677] yw 'fflwcs'. Cafodd wefr, meddai, wrth ddarganfod ar ôl trosi'r ddrama mai gair trigolion pentref Llan-saint ar arfordir Sir Gâr am 'flatfish' yw 'fflwcs'. Dywed ei fod yn pendroni'n aml a wyddai Dylan Thomas hyn – awgrym diddorol odiaeth. Dadlenna hefyd mai'r 'dylanwad pennaf mewn tafodieitheg'[678] arno, er na lawn sylweddolai hynny ar y pryd, oedd Cymraeg rhywiog ei dylwyth a'i gydnabod ym mro ei febyd. Yr oedd eu tafodiaith, meddai, 'yn gyforiog o farddoniaeth.'[679] Cofia Jones yn

[670] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 78.
[671] Ibid.
[672] Ibid.
[673] Ibid.
[674] Ibid., t. 81.
[675] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 33.
[676] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 43.
[677] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 81.
[678] Ibid., t. 79.
[679] Ibid.

arbennig am Mari Esau, un o gymdogion Parc Nest a ddeuai acw 'yn weddol gyson i gyflawni amrywiol orchwylion.'[680] Er iddi ofyn iddo ef a'i frodyr 'Beth yw'r poetri 'ma s'da chi, bois?'[681] wrth daro arnynt yn ymarfer adrodd ar yr aelwyd, dywed T. James Jones na sylweddolai ei gymdoges 'fod ymadroddion cyfoethog a rhythmau rhugl ei Dyfedeg hithau yn boetri'.[682] Wrth gyfieithu llinellau cymdogesau chwedleugar *Under Milk Wood*, awgryma Jones mai 'Mari a'i thebyg'[683] a glywai yn clebran:

Cymdoges 3
Sugno'r hwch

Cymdoges 4
Cnoco drwse

Cymdoges 3
Whalu ffenestri

Cymdoges 4
Tin-droi'n y bwdlac

Cymdoges 3
Dwgyd cwrens

Cymdoges 4
Geire brwnt.[684]

Yng ngeiriau Walford Davies:

> penderfyniad da oedd defnyddio o'r dechrau elfen gref o dafodiaith Shir Gâr, tafodiaith yr ymglyw T. James Jones mor rhwydd â hi, ac sydd, ynghyd â'r idiomau lleol, y delweddau a'r talfyriadau llafar yn y gwaith ar ei hyd ('whare mochyns', 'O! 'Na wep!', 'O! 'Na bishyn!', 'O, 'na gwd, ontefe') yn cynrychioli, heb honni eu bod yn eu 'cyfieithu', y cyffyrddiadau ecsentrig yn iaith y gwreiddiol.[685]

Yr oedd rhoi tafodiaith Sir Gaerfyrddin i'r cymeriadau nid yn unig yn rhan o'r broses o adfer yr iaith Gymraeg, ond hefyd yn rhan o'r broses o adfer tafodiaith Gymraeg y fro 'gan fod unrhyw dafodiaith', chwedl T. James Jones, 'yn rhwym o newid ac y mae colli geiriau, ymadroddion ac idiomau cyfoethog tafodieithoedd yn anorfod.'[686]

---

[680] Ibid., t. 126.
[681] Ibid., t. 79.
[682] Ibid.
[683] Ibid.
[684] Ibid.
[685] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xxi.
[686] Jones, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', t. 21.

Ac eithrio'r First Voice a'r Voice of a Guide-book, y mae pob cymeriad yn *Under Milk Wood* yn siarad Saesneg tafodieithol de Cymru. Y mae Saesneg an-Seisnig trigolion Llaregyb yn wrthgyferbyniad llwyr i Saesneg safonol, swyddogol y Voice of a Guide-book. Yn y cyswllt hwn, gellir edrych ar ddefnydd an-Seisnig Dylan Thomas o'r Saesneg o safbwynt ôl-drefedigaethol fel ffordd o amlygu arallrwydd diwylliannol ac ieithyddol. Yng ngeiriau Maria Tymoczko:

> The appropriation of a dominant language for the aims of a former colony or an oppressed group and the shift of dominant poetics towards the standards of a minority or post-colonial people are potent means of realigning power structures in a shared cultural field and of asserting an independent world-view.[687]

Tra mae ieithwedd y First Voice a'r Voice of a Guide-book yn *Under Milk Wood* yn eu cadw ar gyrion Llaregyb fel allanolion yn edrych i mewn ar y trigolion – y First Voice yn edrych ar fywydau preifat y cymeriadau fel llais eu hisymwybod a'r Voice of a Guide-book yn edrych arnynt o bersbectif y trefedigaethwr, estron – y mae'n werth nodi bod y Llais yn *Dan y Wenallt* yn defnyddio ychydig o dafodiaith, sy'n awgrymu ei fod yntau hefyd yn rhan o gymuned Gymraeg Llaregyb. Gweler cyfieithiad T. James Jones o linell y First Voice 'Blind Captain Cat climbs into his bunk',[688] er enghraifft: 'Mae'r Capten dall yn dringo i'r dowlad.'[689] Gair tafodieithol am 'daflod' (llofft neu ystafell uwchben stabl a ddefnyddir i storio gwair) yw 'dowlad', ac fe'i defnyddir yn bennaf yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Er y clywir sawl llais yn y ddrama, un dafodiaith a glywir ynddi. Serch hynny, dadlenna T. James Jones yn ei lêngofiant fod Mrs Ogmor-Pritchard yn un o'r cymeriadau prin nas clywai yn siarad Cymraeg mor rhugl â'r gweddill:

> Ond erbyn hyn, magodd ambell droad ymadrodd eithaf trawiadol. Fel hyn y mynega'r gorchymyn dywededig: 'A chyn i'r haul dywyllu'r trothwy, mynnu ei fod yn sychu'i draed.' Ond ni fabwysiadodd fy nhafodiaith Shirgarol innau yn llwyr, gan iddi fynnu dweud 'haul' yn lle 'houl' a 'traed' yn lle 'trâd'.[690]

Yn ôl T. James Jones, '[c]ymhelliad arall dros barchu tafodiaith Shir Gâr oedd ceisio ymateb i'r ffaith ei bod hi'n newid, fel pob tafodiaith.'[691] Dywed yn ei lêngofiant fod y 'newid yn anochel, a heb newid ni all unrhyw dafodiaith fyw.'[692] Ei 'weddi daer', chwedl yntau, 'yw

---

[687] Maria Tymoczko, 'Post-colonial writing and literary translation' yn Susan Bassnett a Harish Trivedi (goln.), *Post-colonial Translation: Theory and Practice* (London & New York, 1999), t. 35.
[688] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 61.
[689] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 103.
[690] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 67.
[691] Ibid., t. 79.
[692] Ibid.

na phair y newid niwed angheuol.'[693] Cred fod rhan o'r newid yn cael ei hachosi 'gan ddiflaniad ffordd o fyw neu ddull o weithio' a bod 'rhoi geiriau neu ymadroddion rhwng cloriau llyfr yn un ffordd o'u diogelu rhag difancoll.'[694] Cyfeiria'n benodol at ei gyfieithiad o ddisgrifiad y First Voice o'r nos 'in the chill squat chapel'[695] ym mhrolog *Under Milk Wood* fel enghraifft sy'n crisialu'r angen i gofnodi tafodiaith mewn print. Yn hytrach na cheisio trosi 'squat' yn llythrennol drwy ddefnyddio gair fel 'isel' neu gymal adferfol fel 'yn ei gwrcwd', defnyddiodd T. James Jones hen air tafodieithol, amaethyddol, sef 'stacan', a ddefnyddir yn bennaf yn Sir Gaerfyrddin. Esbonia Jones yn ei lêngofiant mai 'enw ar bedair ysgub o gyrch, barlys neu wenith wedi eu gosod ar eu sefyll yn erbyn ei gilydd cyn cael eu crynhoi'n "sopyn" a chludo'r sopynnau, maes o law, i un "helem" yn yr ydlan.'[696] Dyma'r 'broses hir o gynaeafu', meddai, 'a ddiddymwyd am byth gan ddyfodiad y dyrnwr medi neu'r "combein".'[697] Diogelodd y gair 'stacan' rhag difancoll drwy ei ddefnyddio mewn cyd-destun newydd ac annisgwyl yn *Dan y Wenallt*: 'Clywch. Mae hi'n nos / yn y stacan o gapel anwydog.'[698] Awgryma mai ei obaith wrth ddefnyddio'r gair amaethyddol hwn mewn cyd-destun crefyddol yw esgor ar drafodaeth ar ddiflaniad yr hen ffordd o amaethu, ynghyd â diflaniad y traddodiad Anghydffurfiol yng Nghymru:

> Gan fod y gair 'stacan' yn perthyn i broses ddiflanedig o amaethu, efallai y bydd ei ddefnyddio fel disgrifiad o gapel yn ysgogi trafodaeth ar y posibilrwydd o ddiflaniad y capel yntau, a'i grefydda, o gymuned Llaregyb.[699]

Dylid nodi bod T. James Jones yn cyfleu'r colledion hyn yn esblyg yn ei bryddest 'Y Cwmwl' (1962):

> Lle bu llygaid canrifoedd yn chwilio'r Gair,
> gorwedd y Beiblau fel rhwyfau segur
> ar waelod cychod y trai.
> a lle bu stodau yn noeth ar welyau gwlith
> mae bysedd rhwd yn puteinio'r swch.[700]

---

[693] Ibid.
[694] Ibid.
[695] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 4.
[696] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 80.
[697] Ibid.
[698] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 3.
[699] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 80.
[700] Idem, 'Y Cwmwl' (1962), teipysgrif anghyhoeddedig yng nghasgliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, t. 2.

Yn y fersiwn diweddaraf o *Dan y Wenallt* yn unig y mae T. James Jones yn defnyddio'r gair 'stacan'. Cymharer yr argraffiad cyntaf a'r argraffiad diweddaraf yn hyn o beth, ochr yn ochr â'r gwreiddiol:

> Listen. It is night in the chill, squat chapel, hymning, in bonnet and brooch and bombazine black, butterfly choker and bootlace bow, coughing like nannygoats, sucking mintoes, fortywinking hallelujah...[701]

Clywch. Mae'r nos yn ymgynnull i'r capel anwydog
i bwnio emyn ar emyn
mewn bonet a brotsh a ffrog sidan fel brân,
peswch fel geifr a sugno mintos
a chyntun bach esmwyth drwy'r haleliwia...[702]

Clywch. Mae hi'n nos
yn y stacan o gapel anwydog,
yn amenio emynau
mewn bonet a brotsh a ffrog sidan fel brân,
coleri pili pala a chlymau lasys,
peswch fel gafrod, sugno mintos,
a chyntun bach esmwyth drwy'r haleliwia...[703]

Fel y gwelwn o gymharu'r ddau fersiwn, gwnaeth T. James Jones fân newidiadau tafodieithol i'r testun – newidiadau sy'n ymddangos yn ddibwys ar yr olwg gyntaf, megis ychwanegu geiriau fel 'stacan' a newid 'geifr' yn 'gafrod', er enghraifft, ond sy'n arwyddocaol yng nghyswllt ei 'brosiect' o Gymreigio Llaregyb.

Y mae 'stacan', fel y gwelwyd, yn ychwanegiad arwyddocaol at y cyfieithiad, ac y mae ei ddisgrifiad o'r capel fel un 'anwydog' hefyd yn haeddu sylw. Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, y mae i 'anwydog' yr ystyr 'oer', 'oerllyd', 'rhynllyd', ond gall hefyd, yn wrthgyferbyniol drawiadol, olygu 'ffyrnig', 'angerddol' a 'thanbaid'. Gellir cynnig felly mai mwysair yw 'anwydog' yn y disgrifiad hwn sy'n consurio delwedd o'r Cymry'n crefydda'n danbaid mewn capel oer – delwedd sy'n cael ei hatgyfnerthu gan y disgrifiad treisgar o'r nos yn 'ymgynnull' i'r capel 'i bwnio emyn ar emyn'[704] yn y llinell nesaf. Y mae'r ferf 'pwnio' yn cyfleu angerdd y Cymry wrth ganu emynau yn y capel ac angerdd y pregethwyr tân a brwmstan Cymraeg. Diddorol hefyd yw gweld bod T. James Jones wedi newid y llinell galed 'i bwnio emyn ar emyn'[705] yn llinell feddal o gynghanedd groes yn ei fersiwn diweddaraf, sy'n gydnaws â'r ddelwedd yn y gwreiddiol o'r capelwyr wrthi'n 'hymning':[706] 'i amenio emynau'.[707] At

[701] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 4.
[702] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 12.
[703] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 3.
[704] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 12.
[705] Ibid.
[706] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 4.
[707] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 3.

hyn, nid amherthnasol yw nodi y gall 'pwnio' olygu, yn ogystal â 'curo'/'taro' a 'rhoi curfa i', 'siarad lol' hefyd – mwysair y gellir dadlau ei fod felly yn cyflwyno elfen o ddychan i'r portread o gynulleidfa'n canu emynau yn *Dan y Wenallt*.

Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu unrhyw un sy'n mentro cyfieithu gwaith Dylan Thomas yw ei hoffter o fwyseiriau. Daw hyn yn amlycach yn y bennod ar gyfieithu barddoniaeth Thomas yn y thesis hwn. Un frawddeg sy'n enghreifftio'r her hon yn *Under Milk Wood* yw 'The boys are dreaming wicked or of the bucking ranches of the night and the jolly, rodgered sea'.[708] Ceir yn y frawddeg hon gyfuniad o ddelweddau bachgennaidd a diniwed o gowbois a môr-ladron ar y naill law a delweddau rhywiol ar y llall – delweddau sy'n pendilio rhwng ffantasi plentyn a ffantasi oedolyn. Y mae'r atalnod rhwng 'jolly' a 'rodger' yn dangos bod Thomas yn chwarae ag ystyr rywiol yr ymadrodd 'to roger' yma. Yn y fersiynau cynnar o *Dan y Wenallt*, disgrifir y 'bechgynnach yn breuddwydio'n gellweirus wrth [...] fordwyo brig eithaf y don'.[709] Gellir dadlau bod yn y ddelwedd awgrym rhywiol gweddol amlwg, a'i bod yn yn drosiad am wefr orgasmig. Ond, fel y gwelwn o graffu ar y fersiwn diweddaraf, nid oedd yn fodlon â'r cyfieithiad hwn. Rhoddodd gynnig arall ar gyfieithu'r ddelwedd: 'Bechgynnach yn breuddwydio drygioni [...] neu'n hwylio'r faner ddu ar yr heli.'[710] Collir unrhyw awgrym o rywioldeb yn y cyfieithiad hwn. Bodlonodd Jones, y mae'n debyg, ar gyfleu diniweidrwydd y bechgyn yn unig gan nad oes mwysair sy'n cyfateb i 'roger' yn y Gymraeg a fyddai'n cysylltu ffantasi ddiniwed y plentyn am fôr-ladron â ffantasi rywiol yr oedolyn.

Gwelir bod T. James Jones wedi wynebu dilema tebyg wrth gyfieithu'r disgrifiad o Mrs Ogmore-Pritchard 'in smock and turban, big-besomed to engage the dust'.[711] Mwysair chwareus yw 'big-besomed' sy'n crisialu ei hagwedd awdurdodol, ei hobsesiwn â glanweithdra a'i chnawdolrwydd. Cyfleir yn y mwysair hwn y tensiwn rhwng oerni rhywiol ymddangosiadol y cymeriad a'i synwyrusrwydd benywaidd. Yn ôl Walford Davies:

> Apart from the play on big-bosomed, the 'besom' figures in several English idioms having to do with dominant or shrewish wives – e.g. 'to hang out the besom', meaning to take advantage of freedom during a wife's absence.[712]

[708] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[709] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 11.
[710] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 2.
[711] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 24.
[712] Walford Davies, 'Explanatory Notes', yn Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 74.

Ni roddodd T. James Jones gynnig ar gyfieithu'r mwysair hwn yn y fersiynau cynnar o'i drosiad: 'mae Mrs Ogmor-Pritchard yn barod i'r frwydyr mewn tyrban a ffedog'.[713] Yn 2014, fodd bynnag, fe'i newidiodd i 'mae Mrs Ogmor-Pritchard, mewn tyrban a ffedog, yn sgubell anferth i ymdopi â'r llwch'.[714] Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, caiff y gair 'sgubell' ei ddefnyddio fel 'enw difrïol ar ferch'.[715] Er nad oedd modd atgynhyrchu'r jôc 'big-bosomed'/'big-besomed' yn Gymraeg, y mae 'sgubell anferth' yn fwysair sy'n cyfleu obsesiwn y cymeriad hwn â glanweithdra, ynghyd â'i phersonoliaeth biwis. Fel y dywed Phyllis Zatlin:

> it is not always possible to handle double meanings and laugh lines on a one-for-one basis. The translator thus resorts to a strategy of compensation: inventing a new pun somewhere close by to make up for the one that was lost.[716]

Enghraifft arall o'r sialens a rydd iaith fwyseiriol fyw Dylan Thomas yw'r ymadrodd, 'Only you can see, in the blinded bedrooms...'.[717] 'Chi yn unig / a wêl, yn y llofftydd llennog...'[718] a geir gan Jones, lle y collir y chwarae deheuig ar 'blinded'.Ac fel y dengys ymdrechion T. James Jones i drosi mwyseiriau chwareus ac amlystyr fel 'big-besomed'[719] a 'jolly, rodgered',[720] bu'n rhaid iddo fodloni ar gynnig cyfieithiadau llythrennol – 'sgubell anferth'[721] a '[b]aner ddu'.[722] Ac eto, ystyrier ei gyfieithiad gwych o'r ymddiddan rhwng Capten Cat a'r morwyr a foddwyd:

CAPTAIN CAT Dancing Williams!	**Capten Cat** Williams y Dawnsiwr!
FIRST DROWNED Still dancing.	**Y Cyntaf a Foddwyd** Yn danso o hyd.
CAPTAIN CAT Jonah Jarvis	**Capten Cat** Jona Jarfis
THIRD DROWNED Still.[723]	**Y Trydydd a Foddwyd** Ar ei hyd.[724]

[713] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 42.
[714] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 32.
[715] *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 'sgubell', <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>; cyrchwyd 3 Mawrth 2017.
[716] Phyllis Zatlin, *Theatrical Translation and Film Adaptation: A Practitioner's View* (Bristol, 2005), t. 92.
[717] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 4.
[718] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 4.
[719] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 24.
[720] Ibid., t. 3.
[721] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 32.
[722] Ibid., t. 2.
[723] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 61.
[724] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 82.

Y mae'r talfyriad a'r mwysair 'Ar ei hyd' yn adleisio'r mwysair gwreiddiol – 'Still' – ac eto, fel y dywed Walford Davies, 'mor greadigol wahanol yw "ar ei hyd" a "still." [...] Digon yw dweud nad oes i *Dan y Wenallt* flas unrhyw beth benthyg neu ail-law.'[725]

Proses o ennill, colli a chyfaddawdu yw cyfieithu. Ni throsglwyddir iaith i iaith arall heb golled. Fel y dywed T. James Jones yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r Wenallt':

> Mae gan bob iaith ei theithi arbennig ei hunan, ei rhagoriaethau a'i chyfyngiadau. Byddaf yn aml yn rhyfeddu at hyblygrwydd y Saesneg. Nid iaith fain mohoni o bell ffordd yn yr ystyr yna! Ond ambell dro y mae'r Gymraeg yn medru rhagori ar hyblygrwydd honno hyd yn oed.[726]

Â rhagddo yn yr ysgrif hon i drafod ei gyfieithiad o 'Time passes. Listen. Time passes'[727] ym mhrolog *Under Milk Wood*. Un o brif themâu'r ddrama yw treiglad amser ac y mae T. James Jones yn awyddus i amlygu'r thema hon yn ei drosiad. Manteisiodd ar deithi'r Gymraeg wrth drosi'r llinell 'Time passes'. Ceir idiom yn y Gymraeg sy'n cyfleu treigl amser, sef 'mae amser yn cerdded', a alluogodd Jones i osgoi cyfieithiad slafaidd o 'time passes'. Gellir dadlau hefyd fod y Gymraeg yn gyfoethocach na'r Saesneg o ran ei geirfa amseryddol. Dim ond tri gair a ddefnyddir yn y Saesneg i gyfleu cronoleg dyddiau, sef 'yesterday', 'today', 'tomorrow'. Yn y Gymraeg, ar y llaw arall, ceir chwe gair – 'echdoe', 'doe', 'heddiw', 'yfory', 'trennydd' a 'thradwy'. Y mae T. James Jones yn pentyrru'r geiriau hyn ym mhrolog y trosiad i gyfleu rhythm cerddediad amser. Fel y noda yn ei lêngofiant: 'Gan fod y Llais yn ein gwahodd i wrando ar gerddediad amser, cynhwyswyd pump o'r chwe gair er mwyn tanlinellu sain a rhythm ei gamre':[728]

> Mae amser yn cerdded. Clywch.
> Ddoe heddiw ac yfory a threnydd a thradwy.
> Clywch gerdded traed amser.[729]

Disgrifia Jones Laregyb yn ei ysgrif 'Cymreigio Llaregyb' fel 'pentre lle mae amser yn eithriadol o bwysig' gan fod 'amser yn cerdded drwyddo ddydd a nos, ddoe heddiw ac yfory a threnydd a thradwy'.[730] Ond er bod amser yn cerdded yno, y mae hi'n hanner awr wedi un ar

[725] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xxiii.
[726] Jones, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', t. 21.
[727] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 4.
[728] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 80.
[729] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 3.
[730] Idem, 'Cymreigio Llaregyb', t. 24.

ddeg ar y cloc yn nhafarn y Morwr ers hanner can mlynedd. Gellir dadlau yn y cyswllt hwn fod Llaregyb yn ddiamser – a hefyd yn ddarostyngedig i amser.

Yn ôl T. James Jones, y mae cymeriadau'r ddrama 'yn ymwybodol o sŵn "cerdded traed amser". A'r cartŵn sy'n cyfleu'r neges hon gryfaf yw'r portread trasicomig o Syr Wili Watsh.'[731] Cawn wybod gan y First Voice fod y cymeriad hwn yn ceisio drysu ei elyn – Angau – gyda'i chwe deg chwech o glociau:

> Any minute or dark day now, the unknown enemy will lot and savage downhill, but they will not catch him napping. Sixty-six different times in his fish-slimy kitchen ping, strike, tick, chime and tock.[732]

Fel y dywed Jones, y mae 'Lord Cutglass, druan ag e, yn brinnach ei eiriau na'i glociau ond ar ôl newid yn Syr Wili Watsh fe gafodd awydd i ddweud mwy o lawer.'[733] Rhoddodd Jones linellau'r First Voice i Syr Wili Watsh yn y fersiwn cynnar o *Dan y Wenallt* am ei fod yn teimlo bod y cymeriad hwn '"a welodd syrffed o amseroedd" yn haeddu cael gwneud mwy na gwrando'n unig ar "leisiau ei chwech-deg-chwech o glociau, sef un am bob blwyddyn o droeon dryslyd ei yrfa"':[734]

> cloce ara deg a chloce chwimwth,
> cloce â phendil fel curiad y galon [...]
> cloce heb fysedd yn dal ati drw'r amser
> heb obaith ca'l gwbod beth yw hi o'r gloch.[735]

Dylid nodi mai'r Llais sydd bellach yn adrodd y llinellau hyn yn y fersiwn diweddaraf, yn union fel yn y gwreiddiol.

Y mae'n amlwg fod creadigrwydd bardd ar waith yng nghyfieithu T. James Jones. Canmolir ei ddyfeisgarwch gan Kate Crockett, sy'n cyfeirio at ei gyfieithiad o 'paternity summons' yn ei hadolygiad o'r argraffiad diweddaraf – 'mae'n osgoi llunio term anghyfarwydd am *paternity summons* yn y frawddeg hon: "Symons arall i'n tad ni oll, Mr Waldo".'[736] Enghraifft arall sy'n haeddu sylw yn y cyswllt hwn yw cyfieithiad Jones o'r frawddeg 'Alfred Pomeroy Jones, sealawyer, born in Mumbles'.[737] Mwysair yw 'sealawyer' sy'n disgrifio morwr dadleugar sy'n ymwybodol iawn o'i hawliau. Chwaraea Dylan Thomas

---

[731] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 21.
[732] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 49.
[733] Jones, 'Cymreigio Llaregyb', t. 24.
[734] Ibid.
[735] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 82.
[736] Crockett, 'Adolygiad: *Dan y Wenallt*', t. 51.
[737] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 5.

yma â'r term 'barrack-room lawyer' a ddiffinnir yn yr *Oxford English Dictionary* fel 'A person who likes to give authoritative-sounding opinions on subjects in which they are not qualified, especially legal matters.'[738] Cyfieithodd T. James Jones yr ymadrodd 'sealawyer' yn llythrennol yn yr argraffiad cyntaf, fel 'cyfreithiwr y môr',[739] sydd, fe ellid dadlau, yn gyfieithiad cwbl ddiystyr. Pan ailymwelodd Jones â'r trosiad, manteisiodd ar deithi'r Gymraeg i gyfleu ystyr amlweddog 'sealawyer' yn yr argraffiad diweddaraf: 'Alfred Pomeroy Jones, dan don o hunan-dyb'.[740] Y mae'r llinell led-gynganeddol hon yn ymgyrraedd at darddiad idiomatig a throsiadol yr ymadrodd gwreiddiol mewn ffordd greadigol a newydd sy'n cyfleu natur opiniyngar a phengaled Alfred Pomeroy Jones, ynghyd â'i gysylltiad â'r môr.

Pan ailymwelodd Jones â *Dan y Wenallt* yn 1992, newidiodd pob 'mi' yn 'fe', pob 'i fyny' yn 'lan', 'sbïo'n gyfrwys'[741] yn 'pipo'n slei',[742] ac ati. Ond, ac eithrio'r newidiadau tafodieithol hyn, nid oes fawr o wahaniaeth rhwng fersiynau 1968 a 1992. Gellir ystyried fersiwn 1992 fel pont rhwng y fersiwn cyntaf yn 1968 a'r fersiwn diweddaraf yn 2014. Diddorol hefyd yw gweld bod T. James Jones wedi llafareiddio'r trosiad ar hyd y blynyddoedd. Cymharer ei gyfieithiadau o ddatganiad angerddol y cymeriad Mog Edwards, er enghraifft, 'I am a draper mad with love':[743]

'Mae caru yn drysu drepyr'[744] (fersiwn 1967)

'Ma' caru yn drysu drêper'[745] (fersiwn 1968)

'Ma' caru'n drysu drêpyr'[746] (fersiwn 2014)

Sylwer ar yr amrywiadau orgraffyddol – 'drepyr', 'drêper' a 'drêpyr'. Un enghraifft o blith nifer yw'r amrywiadau hyn, sy'n dangos mor fanwl oedd T. James Jones yn adolygu'r testun cyn ailargraffu'r trosiad dros y blynyddoedd. Y mae'n debyg iddo fodloni ar sillafiad ffonetig, Cymreig o 'draper' yn y diwedd er mwyn sicrhau ynganiad mor naturiol â phosibl. Yr oedd yn amlwg felly yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd yr elfen glywedol wrth drosi'r ddrama ac yn awyddus i gyfleu rhythmau ac arddull naturiol yr iaith lafar.

---

[738] *Oxford English Dictionary*, 'barrack-room lawyer', <https://en.oxforddictionaries.com/definition/barrack-room_lawyer>; cyrchwyd 21 Chwefror 2017.
[739] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 14.
[740] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 5.
[741] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 32.
[742] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 22.
[743] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 7.
[744] Jones, '*Dan y Wenallt*', t. 8.
[745] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 17.
[746] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 8.

Ond er iddo ddefnyddio mwy o dafodiaith a ffurfiau llafar yn y trosiad ar hyd y blynyddoedd, gellir dadlau hefyd fod ei ddefnydd o'r iaith lafar yn fwy disgybledig a chymen yn y fersiwn diweddaraf. Y mae'r fersiynau cynnar o *Dan y Wenallt* yn frith o dalfyriadau diangen sy'n llyffetheirio'r darllen, er enghraifft:

> 'Mi orwedda' i'n d'ymyl fel cino Dy' Sul [...] Myfanwy, Myfanwy, cyn i'r llygod bach roi'u danne' yn dy waddol, a 'wedi di'[747]
>
> 'Ma'r Gwanwyn yn troi Martha Mei Beynon 'rathrawes fel llwy'[748]
>
> 'gwaedda Organ Morgan 'rorganydd yn ei gwsg'[749]

Y mae'n debyg i Jones gysoni'r orgraff yn y fersiwn diweddaraf er mwyn hwyluso'r profiad o ddarllen y testun:

> 'Fe orwedda i'n dy ymyl fel cino dydd Sul [...] Myfanwy, Myfanwy, cyn i'r llygod bach roi'u dannedd yn dy waddol, a ddwedi di'[750]
>
> 'Mae'r gwanwyn yn cyffroi Meinwen Mai Beynon yr athrawes fel llwy yn ei throi'[751]
>
> 'gwaedda Organ Morgan, yr organydd, yn ei gwsg'[752]

Difyr hefyd yw sylwi ar y gynghanedd lusg yn y drydedd enghraifft uchod: 'Organ Morgan 'rorganydd'.[753] Yr oedd gan Dylan Thomas ei hun gynlluniau i greu 'literary version [o *Under Milk Wood*] for trade publication' ond, fel y dywed Walford Davies:

> The poet's untimely death left us with an *Under Milk Wood* cast strictly as a radio play commissioned by the BBC, and broadcast posthumously as such on 25 January 1954. In the same year, it was the broadcast script that was presented to the reading public under the editorship of Daniel Jones, with the subtitle 'A Play for Voices'.[754]

Nid amherthnasol yng nghyswllt y newidiadau orgraffyddol yn *Dan y Wenallt* yw nodi mai nod Walford Davies a Ralph Maud wrth greu'r argraffiad diffiniol o *Under Milk Wood* oedd creu 'a more readable version of the play for the printed page':

> As the present editors proceeded with the task of examining Thomas's manuscripts of the play in order to confirm or adjust the previously standard Jones text [yr argraffiad

[747] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 17.
[748] Ibid., t. 62.
[749] Ibid., t. 28.
[750] Idem, *Dan y Wenallt* (2014), t. 8.
[751] Ibid., 49.
[752] Ibid., t. 18.
[753] Idem, *Dan y Wenallt* (1968), t. 28.
[754] Davies, 'Introduction', t. xi.

> a olygwyd gan Daniel Jones], they could not help hearing the poet's references to a 'literary version' as a plea to be acted upon.[755]

Gellid yn hawdd ddyfynnu degau o enghreifftiau sy'n amlygu creadigrwydd a dyfeisgarwch T. James Jones fel cyfieithydd creadigol ond, yn anad dim, yr hyn sy'n disgleirio loywaf yn *Dan y Wenallt* yw ei benderfyniad i roi'r gallu i gynganeddu mewn tafodiaith i drigolion Llaregyb. Fel y nodwyd eisoes, 'poetri'[756] yw tafodiaith yn ôl T. James Jones. Y mae'r fersiwn diweddaraf o *Dan y Wenallt* yn fwy cynganeddol ac yn fwy tafodieithol na'r fersiynau cynharaf. Er i T. James Jones ddefnyddio tafodiaith yn ei ddramâu cynnar yn y 1960au a'r 1970au, perthnasol yw nodi yma mai yn y 1990au y dechreuodd ddefnyddio mwy o dafodiaith yn ei farddoniaeth, ac y mae'n adnabyddus erbyn heddiw am fanteisio ar gyfoeth ei dafodiaith yn ei gerddi. Yn ogystal, er iddo arbrofi â'r gynghanedd ar hyd ei yrfa farddol, ni ddechreuodd gynganeddu o ddifrif tan y 1990au. Yng ngeiriau Jones: 'Canol y nawdegau y dechreues i fagu hyder mewn cynganeddu, a hynny fel y dwedes i, drwy anogaeth Alan Llwyd.'[757] Fel y tystia ei lwyddiant yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint 2007, yr oedd T. James Jones yn feistr ar y mesurau caeth pan ailymwelodd â *Dan y Wenallt* yn 2014. Gellir cynnig felly fod y datblygiadau arddulliol a welwyd yn *Dan y Wenallt* er ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn 1968 yn ddrych i'r datblygiadau a welwyd yn ei yrfa farddol er 1957.

Fel y dywed Walford Davies: 'Yr hyn a welir (neu'n hytrach a *glywir*) [yn *Under Milk Wood*] yw bardd telynegol mawr wrth ei waith mewn rhyddiaith – rhyddiaith a alwai'n "prose with blood pressure".'[758] Ceir yn y ddrama amrywiaeth o ffurfiau barddonol a rhyddieithol fel y gân, y gerdd, y faled, y parodi, sylwebaeth, cyfarwyddiadau teithlyfr, monologau, deialogau ac ati. Yr oedd T. James Jones yn amlwg yn effro i rybudd Robert Frost wrth drosi *Under Milk Wood* i'r Gymraeg: 'Poetry is what is lost in translation. It is also what is lost in interpretation.'[759] O graffu ar *Dan y Wenallt*, gellir dadlau bod llai o farddoniaeth yn cael ei cholli mewn cyfieithiad pan fo'r cyfieithydd ei hun yn fardd. Llwyddodd T. James Jones i addasu prolog y ddrama ar ffurf pryddest, er enghraifft, ac i addasu'r diweddglo ar ffurf cerdd fer delynegol. Fel y noda Walford Davies, y mae'n amlwg mai

---

[755] Ibid.
[756] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 79.
[757] E-bost gan T. James Jones at yr awdur presennol, 24 Hydref 2016.
[758] Davies, 'Rhagymadrodd', t. x.
[759] Elizabeth Knowles (gol.), *Oxford Dictionary of Modern Quotations* (Oxford, 2007), t. 126.

> bardd sydd yma'n addasu, bardd â gafael feistrolgar ar y canu caeth a'r wers rydd fel ei gilydd. Cawn yma gynghanedd, yn ystyr ehangaf y gair, yn ieuo syniadau yn ogystal â synau, ac yn sicrhau bod bywyd trosiadol y gwaith gwreiddiol yn cael ei drosglwyddo.[760]

Drwy drosi *Under Milk Wood* i'r Gymraeg, cyflawnodd T. James Jones yr hyn y methodd Dylan Thomas ei wneud, sef rhoi i gymuned Gymreig Llaregyb y gallu i siarad Cymraeg. Fel y noda Jones yn ei lêngofiant: '[c]lywais gymuned wedi'i chynhyrfu gan ei gallu newydd i gyfathrebu yn Gymraeg – i gofio, caru, cloncan, canu, wylo yn Gymraeg.'[761] Erbyn heddiw, y mae'n 'argyhoeddedig mai adfer i Laregyb ei Gymreictod cynhenid sy'n digwydd pan berfformir *Dan y Wenallt*.'[762]

[760] Davies, 'Rhagymadrodd', t. xxii.
[761] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 78.
[762] Idem, 'Llyfrgell', *Taliesin*, 145 (Gwanwyn 2012), t. 149.

PENNOD 4: Yr Ymateb Creadigol i *Dan y Wenallt*

Cerddi'r Llygad: 'Llaregyb?'

Y mae cryn sylw wedi ei roi hyd yma i'r ymateb beirniadol yng Nghymru i *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt*. Gwelwyd bod llawer o Gymry wedi ymateb i'r trosiad drwy ddadlau ei fod yn well na'r gwreiddiol. Ond beth am yr ymateb creadigol? Cyfeiriwyd yn fyr eisoes at *Diawl y Wenallt*, sef nofel ddychanol Marcel Williams. Archwilir yn y nofel hon agweddau'r Dylangarwyr a'r Dylangasawyr yng Nghymru tuag at y bardd, gan gynnwys eu hymateb i *Under Milk Wood*. Y mae teitl y nofel hon ynddo'i hun yn ymateb creadigol, parodïol i'r trosiad. Ac fel y nodwyd, gofynnodd Llenyddiaeth Cymru i ysgrifenwyr ifainc greu cerddi yn ymateb yn greadigol i baragraffau agoriadol *Dan y Wenallt* neu *Under Milk Wood* fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant Dylan Thomas. Soniwyd hefyd am ymateb creadigol Kevin Allen, cyfarwyddwr y fersiynau ffilm diweddaraf o *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt*. Ymatebodd Allen yn greadigol i *Dan y Wenallt* drwy greu'r addasiad ffilm cyntaf o'r trosiad yn 2014, ynghyd ag addasiad ffilm newydd o *Under Milk Wood*. Dylid nodi yn y cyswllt hwn mai'r cyfarwyddwr cyntaf i roi cynnig ar greu addasiad ffilm o *Under Milk Wood* oedd Andrew Sinclair yn 1971. Diddorol felly yw tynnu sylw at y ffaith fod Richard Lewis a W. J. Gruffydd wedi ymateb i fersiwn ffilm Sinclair drwy greu cerdd ar gyfer y teledu a'i chyhoeddi yn y gyfrol *Cerddi'r Llygad* yn 1973. Dyma destun na fu i feirniaid roi sylw iddo yn achos yr ymateb Cymraeg i Dylan Thomas. Yn ôl Richard Lewis, cynhyrchydd y rhaglen deledu *Heddiw* BBC Cymru, er nad oedd 'dim rheswm pam na all "drama i leisiau" lwyddo fel ffilm',[763] yr oedd hi'n 'amlwg bod cynhyrchydd y ffilm [h.y. Andrew Sinclair] yn ymwybodol o anawsterau trosglwyddo drama fel hon i'r sgrin.'[764] Â Lewis rhagddo yn y gyfrol *Cerddi'r Llygad* i restru rhai o'r newidiadau amlycaf a wnaed i strwythur *Under Milk Wood* yn ffilm Sinclair:

> Aeth y cynhyrchydd i drafferth mawr i greu agoriad a diweddglo hollol wahanol ar gyfer stori'r ffilm. Mewn ymgais i egluro ymweliad y ddau 'lais', dyfeisiodd gymeriad hollol newydd, sef merch rywiol a blesiai'r ddau.[765]

Ym marn Lewis, 'y penderfyniad mwyaf dadleuol oedd lleoli Llaregyb yn hen borthladd Abergwaun yn hytrach nag yn Nhalacharn.'[766] Esboniodd Andrew Sinclair iddo

[763] W. J. Gruffydd a Richard Lewis, *Cerddi'r Llygad* (Caerdydd, 1973), t. 38
[764] Ibid.
[765] Ibid.
[766] Ibid.

deithio ar hyd arfordir Cymru yn chwilio am leoliad addas ar gyfer y ffilm: 'I went around the whole coastline of Wales. Only Lower Fishguard was left. Laugharne, the obvious choice, is a muddy estuary. So half the day you can't shoot until the tide's out.'[767] Er nad oedd 'dim cymhariaeth rhwng Abergwaun a Thalacharn' o safbwynt ffilmio, yn ôl Richard Lewis, yr oedd rhai pobl yn credu bod 'arwyddocâd cudd' y tu ôl i'r penderfyniad i leoli'r ddrama yn Abergwaun.[768] Gan fod profiadau Dylan Thomas o fyw yng Ngheinewydd a Thalacharn wedi ei ysbrydoli i ysgrifennu *Under Milk Wood*, gellir dadlau bod Llaregyb yn gyfuniad o'r ddau le. Gellid haeru yn y cyswllt hwn hefyd fod Abergwaun yn fan canol rhwng Ceinewydd a Thalacharn – yn ddaearyddol ac yn ieithyddol.

Ymatebodd y bardd W. J. Gruffydd i benderfyniad Andrew Sinclair i leoli Llaregyb yn Abergwaun drwy ysgrifennu'r gerdd 'Llaregyb?' a'i chyhoeddi yn *Cerddi'r Llygad*. Dadlenna Richard Lewis yn y gyfrol hon fod y gerdd 'yn seiliedig ar y ddamcaniaeth mai Talacharn ac nid Abergwaun oedd y lle delfrydol':[769]

> Ar ôl yr holl drafod a fu ar y cwestiwn hwn yn y papurau, ar y strydoedd, ac yn nhafarndai'r ddwy dref, beth allem ni ei wneud fel rhaglen deledu? Gan nad oedd Dylan Thomas ar gael i setlo'r ddadl, penderfynais y byddwn yn gwneud datganiad ar ran Dylan fel petai. Er mwyn effeithiolrwydd, byddai'n rhaid cyflwyno'r neges yn steil arbennig a rhythmig y bardd ei hun.[770]

Disgrifiodd Richard Lewis y gerdd 'Llaregyb?' ar raglen *Heddiw* fel cerdd 'ddychanol'[771] – 'achos yn y cyfnod hwnnw, roedden nhw'n ffilmio *Under Milk Wood* yn Abergwaun ac roeddwn i'n meddwl beth fydde ymateb pobol Talacharn i hyn.'[772] Diddorol hefyd, yng nghyswllt ymgyrch T. James Jones i Gymreigio Dylan Thomas, yw awgrym Lewis fod y gerdd yn 'ddatganiad ar ran Dylan'. Fel y gwelwn maes o law wrth drafod drama radio T. James Jones, *Dylan yn Fernhill*, y mae yntau hefyd yn gwneud 'datganiad ar ran Dylan', drwy roi llais i'r bardd fel cymeriad Cymraeg ei iaith yn y ddrama.[773]

Cyhoeddwyd deg o gerddi yn *Cerddi'r Llygad* a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer y rhaglen deledu *Heddiw*. Nodir yn y broliant mai 'arbrawf'[774] oedd y gyfrol hon ac fe'i disgrifir

---

[767] 'Director Andrew Sinclair explains why Lower Fishguard was the perfect location for filming Under Milk Wood', <http://www.bbc.co.uk/programmes/p0297z5r>; cyrchwyd 29 Medi 2017.
[768] Gruffydd a Lewis, *Cerddi'r Llygad,* t. 38.
[769] Ibid., tt. 38–9.
[770] Ibid., t. 38.
[771] Rhaglen *Heddiw*, BBC Cymru, 28 Gorffennaf 1982.
[772] Ibid.
[773] Gweler Pennod 7.
[774] Broliant i *Cerddi'r Llygad*.

fel ymgais gan Richard Lewis a W. J. Gruffydd i 'asio cerdd a ffilm'[775] a '[ch]ostrelu cymhlethdod y profiad geiriol-gweledol hwnnw rhwng cloriau llyfr.'[776] Noda Richard Lewis yn y rhagair i'r gyfrol iddo benderfynu 'arbrofi drwy geisio cyflwyno ambell syniad neu ddigwyddiad o dro i dro drwy gyfrwng barddoniaeth – a hwnnw ar ffilm.'[777] Enw a gysylltir ag arbrofi o'r fath yw Gwyn Thomas. Ef a fathodd y term 'llunyddiaeth' sydd, yn ôl Nia Wyn Hughes, yn '[d]erm cystal ag unrhyw un am wneud i'r ddelwedd symudol gyflwyno deunydd llenyddol'.[778] Yn 1976, cyhoeddodd Gwyn Thomas gyfrol a gynhwysai gerddi a luniwyd ar gyfer y teledu a'r radio, sef *Cadwynau yn y Meddwl.* Fel y noda Nia Wyn Hughes:

> Bu cerddi radio yn ddiddordeb ganddo hefyd, fel y tystia'r gerdd 'Blaenau', lle y gwelir nodweddion tebyg iawn i'r rhai a geir yn *Under Milk Wood* gan Dylan Thomas. Tynnir y gynulleidfa i mewn i'r gerdd gan Thomas – 'Come closer now'; i 'Fe welwch...', medd Gwyn Thomas, gan siarad yn uniongyrchol â'r gwrandäwr gan hoelio'n syth ei sylw.[779]

Defnyddir technegau tebyg gan W. J. Gruffydd yn ei gerdd 'Llaregyb?'. Yng ngeiriau Richard Lewis, 'ysgrifennodd W. J. *sgript* yn hytrach na cherdd ar gyfer y ffilm hon'.[780] Wrth ddarllen y gerdd, diddorol yw sylwi ar ddefnydd W. J. Gruffydd o gyfarwyddiadau fel 'Dowch', 'Sefwch', 'Welwch chi' ac 'Edrychwch'[781] sy'n 'anfaddeuol',[782] yn ôl Richard Lewis, mewn sgript deledu ond 'yn dderbyniol'[783] yn y 'sgript' hon gan eu bod yn adleisio arddull Dylan Thomas ei hun.

Yn y gerdd 'Llaregyb?', y mae W. J. Gruffydd 'yn cyflwyno'r neges yn steil arbennig a rhythmig'[784] *Under Milk Wood* drwy gyfrwng trosiad T. James Jones. Un enghraifft drawiadol o adleisio llenyddol yw llinellau clo'r gerdd:

> Mae Amser yn cerdded.
> Gwrandewch.
> Mae Amser ... yn cerdded ...
> *Clywir sŵn traed yn araf ddiflannu ac yn atsain yn y pellter...*[785]

---

[775] Gruffydd a Lewis, *Cerddi'r Llygad*, t. 38.
[776] Broliant i *Cerddi'r Llygad.*
[777] Gruffydd a Lewis, *Cerddi'r Llygad*, t. 11.
[778] Nia Wyn Hughes, '"O'r 'Steddfod i'r Sgrin": Deongliadau fideo y Sioe Gelf o gerddi arobryn yr Eisteddfod Genedlaethol 1997 – 2003', Traethawd MA (Prifysgol Bangor, 2009), t. 3.
[779] Ibid., t. 3.
[780] Gruffydd a Lewis, *Cerddi'r Llygad*, t. 38.
[781] Ibid., t. 41.
[782] Ibid., t. 38
[783] Ibid.
[784] Ibid.
[785] Ibid., t. 48.

Ceir adlais amlwg yma o linellau'r Llais yn *Dan y Wenallt*: 'Mae amser yn cerdded. Clywch. [...] Clywch gerdded traed amser'.[786] Serch hynny, dylid pwysleisio nad yw W. J. Gruffydd yn ceisio efelychu'r trosiad. Gweler, er enghraifft, fod Gruffydd wedi rhoi cynnig ar gyfieithu cân Polly Garter, 'I loved a man whose name was Tom...',[787] yn hytrach na dynwared fersiwn T. James Jones:

> Rown i'n caru dyn o'r enw Tom,
> Roedd e'n gryf fel arth a'i lais fel bom.
> Rown i'n caru dyn o'r enw Dic,
> Casgen o foi, a thafod slic.
> Rown i'n caru dyn o'r enw Harri,
> Dwylath o foi, a'i ddrifl fel sieri.
> Ond fy nghariad i, drwy'r nos i'r wawr,
> Oedd Wili Bach, mae e'n farw nawr.[788]

Twm – nid Tom – yw un o wrthrychau serch Poli Gardis yn *Dan y Wenallt* ac y mae ganddo lais fel drwm. Yn wahanol i Dic 'Llaregyb?', sy'n 'gasgen o foi a thafod slic',[789] caiff Dic trosiad T. James Jones ei ddisgrifio fel dyn sy'n 'grwn fel casgen a bol fel rhic'.[790] Er bod y ddau Harri o'r un maint, caiff Harri trosiad Jones ei ddisgrifio fel 'Dwy lath fain ond hen garwr handi'.[791] Er i W. J. Gruffydd gadw'r enw gwreiddiol 'Tom', Cymreigiodd yr enw 'Willy Wee' a'i newid yn 'Wili Bach'. Ac er mai 'Wili Wi' yw gwrthrych serch Poli Gardis yn y fersiynau cynnar o *Dan y Wenallt* T. James Jones, difyr yw sylwi mai 'Wili Bach' yw'r enw sydd ar wefusau Poli yn y fersiwn diweddaraf. O gymharu fersiynau W. J. Gruffydd a T. James Jones o gân Poli Gardis â chân Polly Garter yn *Under Milk Wood*, gwelir bod y ddau fardd Cymraeg wedi newid ambell ddelwedd er mwyn cynnal yr odl, er enghraifft: Tom a bom, Twm a drwm. Y llinell wreiddiol yw 'He was strong as a bear and two yards long.'[792] Ni chyfeirir yma at lais Tom. Gwelwn felly fod W. J. Gruffydd wedi addasu fersiwn T. James Jones o'r gân.

Er bod 'llais nwydus merch',[793] sef llais Polly Garter, i'w glywed yng ngherdd W. J. Gruffydd, Dylan Thomas yw'r prif lais yn y gerdd hon. Dylan ei hun yw'r adroddwr, sef y 'Llais (o'r bedd)'[794] sy'n codi o'r pridd yn Nhalacharn ac yn hebrwng y darllenydd (neu'r

---

[786] T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 1968), t. 13.
[787] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood, The Definitive Edition* (London, 1995; argraffiad 2014), t. 41.
[788] Gruffydd a Lewis, *Cerddi'r Llygad*, tt. 46–7.
[789] Ibid.
[790] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 69.
[791] Ibid.
[792] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 41.
[793] Gruffydd a Lewis, *Cerddi'r Llygad*, t. 46.
[794] Ibid., t. 41.

gwrandäwr) ar daith o amgylch Abergwaun cyn dychwelyd eto i Dalacharn. Egyr W. J. Gruffydd y gerdd â chyfarwyddiadau cryno ar gyfer y ffilmio, a manylion sy'n lleoli'r gerdd yn Nhalacharn:

> Blodau ar fedd, a chloch eglwys yn canu gerllaw. Mae'r camera yn codi'n araf i ddangos croes wen, syml, gyda'r geiriau 'Dylan Thomas'...
>
> Darlun pellach o'r bedd; mae'r camera yn symud yn agosach...[795]

Disgrifir Dylan Thomas yn codi o'i fedd ac, wrth edrych o'i gwmpas, yn sylweddoli bod trigolion Llaregyb (Talacharn) wedi diflannu:

> Ble ma nhw wedi mynd?
> Mr Waldo, Mrs Waldo, Capten Cat, Nansi Prydderch, Mog
> Edwards, Miss Preis, Y Parchedig Eli Jenkins (Molwch yr
> Arglwydd, yr ydym yn genedl gerddorol), Mrs Ogmor
> Pritchard, Mr Ogmor, Meri Ann Sailors', Ifans
> Ange, a'r gweddill o drigolion Llaregyb?[796]

Â'r Llais rhagddo yn y gerdd i fynegi ei siom bod y cwmni ffilm y tu ôl i gynhyrchiad Andrew Sinclair wedi lleoli Llaregyb mewn tref ddieithr. 'Nid Llaregyb yw hwn',[797] medd y Llais, ond set ffilm yn Abergwaun:

> Welwch chi'r tai-esgus, a'u hwynebau-gosod
> yn hongian ar sgaffaldiau
> fel celwyddau noeth Dai Bara?
> Pwy fu'n cuddio Tŷ-Bach y pentre â choed a phlastar-paris
> a'i alw yn weithdy Ifans Ange?[798]

Y mae'n arwyddocaol mai 'Dai Bara' (Dai Bread) ac 'Ifans Ange' (Evans the Death), sef yr enwau Cymraeg a fathwyd ar eu cyfer gan T. James Jones yn *Dan y Wenallt*, yw'r enwau ar wefusau'r Llais yn y llinellau hyn. Y mae ei ddefnydd o'r enw 'Nansi Prydderch' (Rosie Probert) a 'Ceiliog Owen' (Cherry Owen) yn brawf pellach o ddylanwad *Dan y Wenallt* ar y gerdd.

Ond yn achos 'P.C. Attila Rees', er enghraifft, yn hytrach na defnyddio'r enw a roddwyd arno gan T. James Jones, sef P. C. Aston Rhys, y mae W. J. Gruffydd wedi dychwelyd at yr enw gwreiddiol. Gwelir hefyd ei fod wedi Cymreigio orgraff enwau Saesneg ambell gymeriad fel 'Wili Nili'r Postman' (Willy Nilly) a 'Meri Ann Sailors'' (Mary Ann the Sailors)

---

[795] Ibid., t. 40.
[796] Ibid., t. 41.
[797] Ibid., t. 43.
[798] Ibid.

yn hytrach na defnyddio'r enwau Cymraeg a roddwyd arnynt gan T. James Jones, sef Jacyraca'r Postman a Meri Ann y Morwr. Ac er bod T. James Jones wedi cadw enw Saesneg 'Miss Price' yn ei drosiad, penderfynodd W. J. Gruffydd Gymreigio'r orgraff a'i henwi'n 'Miss Preis'. Yn ogystal, ni ddefnyddiodd Gruffydd yr enwau Cymraeg newydd a fathwyd gan T. James Jones ar gyfer 'Coronation Street' a 'Cockle Row' yn ei gerdd, sef 'Heol y Brenin' a 'Lôn Cregyn'. Bathodd yntau enwau newydd ar eu cyfer, sef 'Stryd y Brenin' a 'Stryd y Cocos'. Gan fod y gerdd yn ymwneud â'r ddadl ynghylch adleoli Llaregyb yn Abergwaun, gellir awgrymu bod defnydd Gruffydd o enwau Cymraeg a Saesneg y cymeriadau yn briodol wrth ystyried bod y dref hon yn y canol rhwng Ceinewydd Cymreig a Thalacharn Seisnigedig.

Y mae W. J. Gruffydd yn cyflawni gweledigaeth T. James Jones o Gymreigio Llaregyb ac adfer Cymreictod Dylan Thomas yn ei gerdd drwy roi i Dylan Thomas, sef y Llais o'r bedd, y gallu i siarad Cymraeg. Yn sicr, ni ellir diystyru'r ffaith fod Dylan Thomas yn y gerdd hon yn cyfeirio at rai o gymeriadau ei ddrama gan ddefnyddio'r enwau Cymraeg a roddwyd iddynt gan T. James Jones yn *Dan y Wenallt*. Fel y nodwyd – ac fel y gwelwn maes o law yn y traethawd hwn – y mae Dylan Thomas yn gallu siarad a barddoni yn Gymraeg yn nrama radio T. James Jones, *Dylan yn Fernhill*. Yr hyn sy'n drawiadol am gerdd W. J. Gruffydd yw bod *Dan y Wenallt* wedi ysbrydoli bardd Cymraeg arall i ymateb yn greadigol i Dylan Thomas drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy adleisio'r trosiad.

'Besi Benfras'

Ymatebodd T. James Jones yn greadigol i *Under Milk Wood* drwy greu *Dan y Wenallt*, ac fe ymatebodd yn greadigol i'w drosiad ei hun drwy gyfansoddi dwy gerdd sy'n ymganghennu o'r ddrama, sef 'Mab ei Dad' a 'Besi Benfras'. Cyhoeddwyd y ddwy gerdd yn y gyfrol *Diwrnod i'r Brenin* (2002). Cyfuniad o englyn (fel epigraff) a chywydd i un o gymeriadau *Dan y Wenallt*, Besi Benfras (Bessie Bighead yn *Under Milk Wood*), yw'r gerdd o'r un enw. Yn ogystal â rhoi llais i gymeriad di-lais, rhydd T. James Jones yn y gerdd hon fywyd newydd i Besi y tu hwnt i ffiniau'r ddrama. Y mae'n amlwg ei fod yn teimlo bod Besi Benfras yn haeddu mwy o sylw nag a roddwyd iddi yn y ddrama – ond pam Besi, o bawb? Buddiol i ddechrau fyddai ystyried beth yn union a'i symbylodd i lunio cywydd i'r cymeriad hwn. Yn *Under Milk Wood*, caiff Bessie Bighead ei phortreadu gan yr adroddwr fel cymeriad mytholegol a dynghedwyd i fodolaeth unig a thrasig:

> Look up Bessie Bighead in the White Book of Llareggub and you will find the few haggard rags and the one poor glittering thread of her history laid out in pages there with as much love and care as the lock of hair of a first lost love.[799]

Y mae'r cyfeiriad at 'the White Book of Llareggub' yn rhwym o'n hatgoffa o Lyfr Gwyn Rhydderch, y llawysgrif lle y ceir y copïau cynharaf o chwedlau'r Mabinogi. Noda T. James Jones yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r Wenallt' fod y 'portreadu' yn *Under Milk Wood* yn 'enghraifft lachar o ormodiaith ddisgybledig y Cyfarwydd, yn nhraddodiad Cyfarwydd y Mabinogi', cyn mynd rhagddo i restru rhai o gymeriadau'r Mabinogi fel 'Pwyll, Rhiannon, Bendigeidfran, Efnisien, Matholwch, Gwydion, Blodeuwedd'.[800] Y mae 'pobol Llaregyb', chwedl Jones, yn gymeriadau 'larger than life', fel cymeriadau'r Mabinogi: 'Roedd Bendigeidfran yn gawr ymhlith cewri, a Blodeuwedd yn dlysach nag unrhyw fenyw a gerddodd daear! Y mae'r portread o Besi Benfras yn yr un traddodiad.'[801] Er mwyn llawn werthfawrogi'r cysylltiad rhwng Besi Benfras â'r Mabinogi, y mae'n werth oedi yma i ystyried disgrifiad y Llais o'r cymeriad hwn yn *Dan y Wenallt*:

> Pe chwiliech am gyfeiriad at Besi Benfras yn Llyfr Gwyn Llaregyb, fe welech y clytiau bach bratiog a'r un edefyn brau llachar o'i hanes wedi'u rhoi rhwng y tudalennau yno gyda'r un faint o gariad a gofal â chudyn gwallt y cariad coll cynta 'rioed. Un o blant bola'r Wenallt, a anwyd mewn parsel a'i gadael ar riniog y wyrcws. Pen bras a llais bas yn tyfu yng ngwayw'r tywyllwch nes i'r diweddar Gomer Owen oherwydd ei herio, ei chusanu a hithau ddim yn dishgwl. A nawr yn y golau fe fydd hi'n gweithio a godro, galw'r gwartheg wrth eu henwau, a chanu a chysgu nes i'r nos sugno'i henaid yn hesb a'i boeri i'r awyr. A thra fo Besi yng ngwawl cofio'r gusan fywyd, maith, maith yn ôl, yn godro'n sancteiddiol yng nghanol llonyddwch y llynnoedd llygaid, mae'r cyfnos hamddenol yn camu tua'r traeth a'r dref a'r beudy.[802]

Ceir ymgais gan T. James Jones yn y gerdd 'Besi Benfras' i lenwi'r bylchau yn hanes Besi drwy greu bywgraffiad ar ei chyfer ar ffurf cywydd: 'Dyma'r hanes am Besi. / Heb neb i'w chusanu hi'.[803] Cartŵn cydymdeimladol yw'r portread o Besi Benfras yn y ddrama, a dyna hefyd a geir yn y gerdd hon. Ymgorfforiad o unigrwydd yw Besi, ynghyd â symbol o gariad nas dychwelwyd. Gadawyd hi ar riniog y wyrcws gan ei rhieni ac fe'i gwrthodwyd gan y diweddar Gomer Owen, gwrthrych ei serch, a'i cusanodd 'unwaith a hithau ddim yn dishgwl' ac 'nas cusanodd byth wedyn', chwedl T. James Jones, 'a hithe'n dishgwl drw'r amser.'[804]

---

[799] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 55.
[800] T. James Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', *Barddas*, 249 (Tachwedd/Rhagfyr 1998), t. 21.
[801] Ibid.
[802] Idem, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 1996), t. 103.
[803] Idem, *Diwrnod i'r Brenin* (Cyhoeddiadau Barddas, 2002), t. 43.
[804] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 21.

Y mae cydymdeimlad y bardd yn amlwg gyda'r ferch yn y gerdd hon. Egyr ag epigraff hallt ar ffurf englyn coffa i Gomer Owen:

> Rhy ieuanc oedd Gomer Owen. Bu farw
> heb fod yn llawn llathen.
> Un llipa, rhwydd i'w arwen.
> Mae'i fyw diflas, bas ar ben.[805]

Daw'r cymeriad hwn dan y lach yn y gerdd am gamarwain a thwyllo Besi â'i gusan. Cawn yma ddehongliad y bardd o'r cymhelliad y tu ôl i'r weithred. Fel y gwêl ef bethau, cyff gwawd oedd Besi i Gomer a'r bechgyn a'i heriodd i'w chusanu:

> Roedd Gomer wedi'i herio
> gan hen frawl bechgyn ei fro
> i roi iddi hi, am hwyl,
> gusan esgus annisgwyl.[806]

Sylwer yma ar ddefnydd T. James Jones o eiriau tafodieithol fel 'arwen' a 'brawl'. Y mae'r gerdd hon yn dafodieithol drwyddi draw ac yn llawn geirfa megis 'wasod', 'croten', 'bola' a 'tu fas', sy'n lleoli'r gerdd – a Llaregyb – yn ne-orllewin Cymru.

Disgrifir Besi yn 'rhwyfus yn nharth gwartheg'[807] yn y pennill cyntaf, sy'n adleisio disgrifiad Dylan Thomas o'r creaduriaid hyn fel 'summerbreath'd slaves'[808] yn *Under Milk Wood.* Awgrymir bod Besi yn aflonydd yng nghwmni

> Deisi a Moli a Meg.
> Un wasod mewn gwâl ddrewsawr
> Yn dyheu am weld y wawr.[809]

Gair tafodieithol yw 'wasod' a ddefnyddir yn Nyfed i ddisgrifio buwch sy'n gofyn tarw. Drwy ei chyffelybu i fuwch wasod, y mae T. James Jones yn ei dadbersonoli ac yn ei huniaethu ymhellach â'r anifeiliaid. Y mae'r bardd yn portreadu ei serch tuag at Gomer Owen fel rhywbeth anifeilaidd drwy awgrymu ei bod hithau, fel y gwartheg, yn dyheu am darw. Ceir adlais diddorol yn y llinellau hyn hefyd o gywydd Dafydd ap Gwilym, 'Trafferth Mewn Tafarn':

> Lle'r oedd garllaw muroedd mawr
> Drisais mewn gwely drewsawr
> Yn trafferth am eu triphac,

---

[805] Idem, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 43.
[806] Ibid., t. 44.
[807] Ibid., t. 43.
[808] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 55.
[809] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 43.

Hicin a Siencin a Siac.[810]

Cywydd am dro trwstan y bardd yw hwn – cerdd sy'n disgrifio ei ymgais drwsgl a ffwndrus i gyfarfod merch. Ei nod yn y gerdd hon, wrth gwrs, oedd cusanu'r ferch. Gellir cynnig felly fod yr adlais llenyddol hwn yn drist-eironig am nad oes gan Besi 'neb i'w chusanu hi'.[811] Yn groes hefyd i Dafydd ap Gwilym, a oedd ar dân i gusanu'r ferch, jôc greulon oedd cusan wag Gomer. Y mae'r gyfeiriadaeth lenyddol eironig felly'n dwysáu'r elfen drasig yn y gerdd.

Hanes bywyd cynnar Besi Benfras a geir yn yr ail bennill. Gan adleisio llinell y Llais yn y trosiad – 'Un o blant bola'r Wenallt'[812] – egyr T. James Jones y pennill hwn â'r datganiad mai 'Croten o fola'r Wenallt / un ferch fach o frech y fall / dan dynghedfen o'i geni'[813] yw Besi. Sylwer ei fod yn personoli'r Wenallt drwy awgrymu bod y bryn wedi esgor ar blentyn. Gellir cynnig bod amgylchiadau dirgel ei chenhedliad a'i genedigaeth 'o fola'r Wenallt' a'r ffaith ei bod 'dan dynghedfen o'i geni' yn atgyfnerthu'r syniad ei bod yn gymeriad mytholegol, arallfydol. Diddorol hefyd yw'r llinell 'un ferch fach o frech y fall',[814] sy'n dwyn i gof yr ymadrodd Beiblaidd 'merch y fall'.[815] Y mae'r awgrym mai un o blant y fall yw Besi yn dweud cyfrolau wrthym am agwedd y gymdeithas tuag ati. Y mae hi'n ddiwerth yng ngolwg ei rhieni gan iddynt wrthod ei 'babanu hi':[816] 'Ei hercyd at y wyrcws / a'i sodro hi tu fas drws',[817] ac yn ddiwerth hefyd yng ngolwg y gymdeithas ehangach. Fel merch dlawd a dreuliodd flynyddoedd yn y wyrcws, y mae fel petai wedi'i thynghedu i fyw ar ymylon cymdeithas. Y mae'n werth cyfeirio yn y cyswllt hwn at sylwadau Dafydd Pritchard am y gerdd 'Besi Benfras' yn ei adolygiad o'r gyfrol *Diwrnod i'r Brenin*. Dywed Pritchard fod 'perthyn, peidio â pherthyn a breuder perthynas yn themâu canolog yn y gyfrol gyfoethog hon. Ac fel un sy'n gweddu i un sy'n ddramodydd hefyd mae "pobl yr ymylon" hwythau yn bresennol hefyd.'[818] Yn sicr, un o 'bobl yr ymylon' yw Besi Benfras. Noda Dafydd Pritchard fod 'cydymdeimlad y bardd yn berffaith amlwg' yn y gerdd 'Besi Benfras' ac y mae'r 'mater o berthyn a pheidio â pherthyn yn amlwg iawn' ynddi. 'Unwaith erioed y cusanwyd Besi'[819], chwedl Pritchard, ac "[a]r ei grudd mae ganddi'r graith."'[820]

---

[810] Dafydd ap Gwilym, 'Trafferth Mewn Tafarn', <http://www.dafyddapgwilym.net>; cyrchwyd 29 Medi 2017.
[811] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 43.
[812] Idem, *Dan y Wenallt* (1992), t. 103.
[813] Idem, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 43.
[814] Ibid.
[815] 1 Samuel 1:16.
[816] Ibid.
[817] Ibid.
[818] Dafydd Pritchard, 'Cyfrol y Themâu Mawr', *Taliesin*, 117 (Gaeaf 2002), t. 145.
[819] Ibid.
[820] Ibid.

Cyflea T. James Jones rwystredigaeth Besi o fod yn gaeth yn y wyrcws yn y trydydd pennill, ynghyd â'i rhwystredigaeth o fod yn gaeth mewn carchar o unigrwydd: 'Morwyn yn crafu muriau / a dôr gwir gariad ar gau.'[821] Y mae'r gair 'morwyn' yn cyfeirio at statws isel Besi fel morwyn fferm ac yn amlygu ei statws dibriod sydd, yng nghyswllt y gerdd hon, yn amlygu ei hunigrwydd. Cawn wybod yn y trydydd pennill na phrofodd Besi 'rin / ias rhannu gwefus rawnwin / undyn, ac eithrio unwaith'[822] yn ystod ei phlentyndod, pan roddodd Gomer Owen y gusan iddi. Er mai jôc blentynnaidd oedd y gusan yn y bôn, creithiwyd Besi am weddill ei hoes gan y weithred hon: 'Ar ei grudd mae ganddi'r graith'.[823] Dengys T. James Jones yn y llinell hon sut y gall digwyddiad yn ystod plentyndod ddylanwadu ar fywyd person fel oedolyn drwy ddisgrifio'r gusan ar ei grudd – gweithred dyner a diniwed – fel ymosodiad treisgar a thrawmatig. Defnyddia Jones ormodiaith gartwnaidd yn y pennill nesaf i bwysleisio mor ddinistriol oedd y gusan drwy ei disgrifio fel 'bom':

> Wedi i fom cusan Gomer
> ddisgyn mor sydyn, bu sêr
> yn eigion cafnau'i llygaid.[824]

Mor wahanol yw'r darlun o 'fom cusan Gomer' o'i gymharu â'r disgrifiad torcalonnus o'r graith ar rudd Besi. Sylwer hefyd fod y disgrifiad o 'eigion cafnau' llygaid Besi yn adleisio disgrifiad y Llais o '[l]ynnoedd llygaid mawr'[825] y gwartheg yn *Dan y Wenallt.*

Er gwaethaf y dynged a osodwyd ar Besi o'i genedigaeth, y mae'r profiad ar y pryd o gael cusan gan Gomer fel petai'n rhoi gobaith iddi am achubiaeth o'i bodolaeth drasig fel baw isa'r domen:

> 'Allai hyn ei dwyn o'r llaid
> tybed, â thynged o'i thu,
> tynnu i'r byd hon o'r beudy?[826]

Ond ni lwyddodd cusan Gomer i godi Besi 'o'r biswel', wrth gwrs, gan mai 'hen dric' ar draul y ferch ydoedd. Nid oedd ei 'gusan esgus annisgwyl' yn ddim byd ond ymateb anaeddfed i herio y bechgyn. Y mae sain sarffaidd y gynghanedd 'gusan esgus annisgwyl' yn atgyfnerthu'r syniad mai hen gusan slei oedd cusan Gomer, a dwyllodd Besi i gredu bod rhywun yn ei charu.

---

[821] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 44.
[822] Ibid.
[823] Ibid.
[824] Ibid.
[825] Idem, *Dan y Wenallt* (fersiwn 1996), t. 103.
[826] Idem, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 44.

Ni welodd Besi 'gusan eilwaith / Dim ond gweld munudau gwaith / fel i fwced yn rhedeg.'[827] Awgrymir yn y gerdd fod y gwartheg yn cydymdeimlo â Besi. Er gwaetha'r ffaith fod ei bysedd yn arw, y maent 'yn driw iawn i'w godro hi' gan eu bod yn 'taeru / bod garwedd ei byseddu / yn arwydd o'i galaru'.[828] Y mae'n werth nodi hefyd fod y gwartheg yn 'plygu eu pennau o barch'[829] i Besi yn y ddrama. Gellir cynnig eu bod yn fodlon dioddef poen y godro am fod Besi yn dioddef poen y gusan.

Diddorol yw sylwi bod yr awdl fel petai'n dechrau ymddatod yn y pennill olaf wrth i Besi sylweddoli ei bod hi wedi cael ei thwyllo. Gellir rhannu'r pennill hwn yn dri englyn milwr:

> Ni welwyd Gomer eilwaith.
> Aed â'r dyn i droedio'r daith,
> honno na ddaw ond unwaith.
> A garwed yw'r ysgaru
> fel na all rhoi'r briallu'n
> ddienw mo'i diddanu.
> Y forwyn yn difaru,
> yn dannod, yn cwestiynu:
> 'Ai swyn yw pob cusanu?'[830]

Er bod Besi 'yng ngwawl cofio'r gusan'[831] yn *Dan y Wenallt*, y mae'r gwawl yn pylu wrth iddi sylweddoli nad cusan hudolus mo cusan Gomer, ond melltith.

'Mab ei Dad'

Apologia dros *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt* ar ffurf awdl fer yw 'Mab ei Dad (Dylan Marlais)' sy'n cynnwys pedwar gwawdodyn byr a thri hir-a-thoddaid ac englyn unodl union. Y mae T. James Jones fel petai'n camu i rôl dwrneiol yn y gerdd hon er mwyn archwilio agweddau'r Dylangarwyr a'r Dylangasawyr ac i gyfiawnhau ei resymau dros greu *Dan y Wenallt*. Diddorol hefyd yw sylwi bod Jones fel petai'n pendilio rhwng dwy ieithwedd a dwy arddull yn y gerdd. Er enghraifft, cwlwm tyn o drosiadau Dylannaidd a geir yn y ddau bennill cyntaf, ond fe dry'r arddull yn fwy esboniadol a diflewyn-ar-dafod erbyn y trydydd. Ond y mae'r dweud yn y penillion 'esboniadol' yr un mor dynn a disgybledig â'r penillion 'trosiadol', 'barddonol'. Fel y dywed Donald Evans am y mesur hir-a-thoddaid: 'y mae'n fesur sy'n syth

[827] Ibid.
[828] Ibid.
[829] Idem, *Dan y Wenallt* (fersiwn 1996), t. 103.
[830] Idem, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 44.
[831] Idem, *Dan y Wenallt* (fersiwn 1996), t. 103.

amlygu unrhyw fath o lacrwydd awenyddu yn ogystal â goreiriogrwydd arddull'.[832] Yn sicr, ni cheir unrhyw 'lacrwydd awenyddu' yn y gerdd hon.

Gellid ystyried 'Mab ei Dad' fel y cam nesaf ar ôl cyfieithu *Under Milk Wood* ei hun, yn y broses o Gymreigio Dylan Thomas. Lle da i gychwyn fyddai craffu ar arwyddocâd teitl y gerdd hon. Y mae'r teitl yn hoelio ein sylw yn syth ar ddylanwad D. J. Thomas ar ei fab, ynghyd â'i benderfyniad eironig i roi enw bedydd rhyfeddol o Gymraeg a Chymreig iddo – penderfyniad a elwir gan M. Wynn Thomas yn 'cultural oxymoron, a conflict in terms, because they had saddled him with two incompatible identities, the one "chapel", and the other ... well what exactly?'[833] Yng ngoleuni sylwadau M. Wynn Thomas, gellir cynnig bod 'Dylan' a 'Marlais' yn cynrychioli dwy agwedd ar ddiwylliant Cymru – llenyddiaeth a'r capel. Rhoddodd D. J. Thomas yr enw 'Marlais' i'w fab er cof am ei ewythr, Gwilym Marles, a oedd yn weinidog Undodaidd, yn fardd ac yn arweinydd radicalaidd 'a ddaeth yn enwog',[834] chwedl T. James Jones, 'fel ymladdwr dros hawliau'r werin yn erbyn landlordiaeth ormesol'.[835] Yr oedd Gwilym Marles hefyd yn ffigwr amheus a hereticaidd yng ngolwg y Methodistiaid Calfinaidd, yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr a hyd yn oed rhai o'r Undodiaid, gan ei fod yn ymwrthod â'r syniad o Drindod ac yn credu nad Duw ar ffurf ddynol oedd Iesu Grist, ond bod dynol perffaith. Fel y dywed Walford Davies:

> He epitomized radical, Welsh-speaking, rural Wales and a delight in poetry just not separable from the Welsh language itself. He would not have been a shadowy figure even for the child Dylan because his Welsh national eminence was, again ironically, something D. J. Thomas was especially proud of. His bardic name, Gwilym Marles, gave Dylan his middle name, Marlais.[836]

Y mae'r cyfeiriad at 'erlid cymanfa Marlais'[837] yn ail bennill y gerdd hon felly'n cyfeirio at hanes Gwilym Marles ac yn gyfeiriad hefyd sy'n amlygu cefndir teuluol, diwylliannol a chrefyddol Cymreig a Chymraeg Dylan Thomas. Fel y noda M. Wynn Thomas: 'it is "Marlais" that opens a window for us onto Dylan Thomas's "other" world, the world from which his parents had come, the world of the chapels that had ruled Wales for the century preceding his

---

[832] Donald Evans, 'Sut i greu awdl', <http://www.barddas.com/barddas/pdf/sut_i_greu_awdl_DE.pdf>; cyrchwyd 27 Awst 2017.
[833] M. Wynn Thomas, 'Marlais' yn Hannah Ellis (gol.), *A Centenary Celebration: Dylan Thomas* (London, 2014), t. 30. Ymhellach ar Gwilym Marles, gweler M. Wynn Thomas, '"Marlais": Dylan Thomas and the "Tin Bethels"' yn *In the Shadow of the Pulpit: Literature and Nonconformist Wales* (Cardiff, 2010), tt. 226–55.
[834] Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 18.
[835] Ibid.
[836] Walford Davies, *Dylan Thomas* (Cardiff, 2014), t. 8.
[837] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.

birth.'[838] Yr oedd 'Dylan', ar y llaw arall, yn enw 'paganaidd' neu, yng ngeiriau M. Wynn Thomas, 'a name redolent of the suspect, sensuous "Celtic" past of Wales that nineteenth-century chapel culture had effectively disowned.'[839] Credir mai Dylan Thomas oedd y cyntaf i gael ei enwi yn 'Dylan' yn y cyfnod modern, a hynny gan dad a waharddodd y Gymraeg ar yr aelwyd. Daw'r enw 'Dylan' o'r cyfeiriad at Dylan Eil Ton ym Mhedwaredd Gainc y Mabinogi, Math Fab Mathonwy. Ond, fel y noda Walford Davies:

> And yet in 1914, what prompted its choice was at a much shorter remove. A highly publicized London production of Lord Howard de Walden's opera *Dylan, Son of the Wave* (music by Josef Holbrooke, conducted by Thomas Beecham) had premiered on 4 July 1914. The name 'Dylan' was on the London air for four months before the poet's birth. [...] D. J. Thomas, the poet's father, was one of a select group convened to promote the visit of Lord Howard de Walden's new National Theatre of Wales to Swansea in 1914.[840]

Mab i Arianrhod yw Dylan ac fe'i ganed wedi iddi gamu dros hudlath Gwydion. Fel y dywedir yn chwedl Math:

> 'Sef enw a baraf, Dylan.' Bedydyaw a wnaethpwyt y mab, ac y gyt ac y bedydywyt, y mor a gyrchwys. Ac yn y lle, y gyt ac y doeth y'r mor, annyan y mor a gauas, a chystal y nouyei a'r pysc goreu yn y mor, ac o achaws hynny y gelwit Dylan Eil Ton.[841]

Nid amherthnasol yng nghyswllt y gerdd hon yw cyfeirio at y ffaith fod hyd yn oed ynganiad yr enw 'Dylan' wedi creu tensiwn rhwng y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg. I'r Cymry Cymraeg, yr ynganiad cywir yw 'Dyl-an'. Ond dewisodd Dylan Thomas yr ynganiad Saesneg, sef 'Dillon', ynganiad sydd, chwedl Kate Crockett, yn galluogi i'r 'di-Gymraeg honni, heb fod ymhell o'u lle, mai "Dillon" oedd enw'r bardd.'[842] Archwilia T. James Jones y tensiwn hwn rhwng y Cymry Cymraeg a'r di-Gymraeg yn ei gerdd. Ceir ynddi sylwebaeth gymdeithasegol ar y berthynas hon, ynghyd â sylwebaeth ar golled ddiwylliannol ac ieithyddol cenhedlaeth o Gymry a amddifadwyd o'r Gymraeg gan y genhedlaeth hŷn. Crybwylla Jones hefyd ymateb y diwylliant Cymraeg a'r diwylliant Seisnig i Dylan Thomas ac *Under Milk Wood* yn y gerdd hon.

Egyr y gerdd gan ddatgan bod y

canu Cymreig heno'n 'Y Wenallt'

---

[838] Thomas, 'Marlais', t. 31.
[839] Ibid.
[840] Davies, *Dylan Thomas*, t. 8.
[841] Ifor Williams (gol.), *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, 1982), t. 77.
[842] Kate Crockett, *Mwy na Bardd: bywyd a gwaith Dylan Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 10.

yn hŷn na lli'r afon
a fwydodd faes, i'r Saeson
gadw'u hiaith ar frig y don.[843]

Y mae T. James Jones yn y fan hon yn gosod *Under Milk Wood* – 'Y Wenallt' – a barddoniaeth Dylan Thomas yng nghyd-destun traddodiad llenyddol hynafol Cymru. Dyma gyflwyno'r syniad fod gwaith Dylan Thomas yn 'Gymreig' ac yn perthyn i'r traddodiad llenyddol Cymraeg. Fel y dywed Kirsti Bohata: 'it has been argued, for instance, that Dylan Thomas's use of the language was influenced by a residual knowledge of Welsh as a literary and spoken language.'[844] Yn y llinellau nesaf, fodd bynnag, awgryma Jones fod y 'canu Cymreig'[845] hwn, yn eironig, wedi bwydo a chyfoethogi'r traddodiad llenyddol Saesneg. Amlygir yma y berthynas 'anghymdeithasgar, ddrwgdybus, elyniaethus',[846] chwedl M. Wynn Thomas, rhwng llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Saesneg Cymru. Er mor 'Gymreig' yw barddoniaeth Dylan Thomas, sylwer mai 'Cymreig' ydyw – nid 'Cymraeg'. Yn y pen draw anwadadwy, Saesneg yw iaith y cerddi, sy'n rhoi rhwydd hynt 'i'r Saeson / gadw'u hiaith ar frig y don.'[847]

Y mae'r ddelweddaeth ddyfriol Ddylannaidd ar ddiwedd yr englyn agoriadol yn goferu i'r ail bennill lle y cyfeirir at '[b]enllanw deulais' Dylan Thomas sydd fel 'Ton i'n cynnal rhag ein soddi i'r malais / a fu am erlid cymanfa Marlais'.[848] Gair mwys yw 'ton' yn y pennill hwn sy'n cyfeirio ar yr un pryd at donnau'r môr a thôn y llais. Er mai Saesneg oedd iaith y bardd, awgrymir yn y pennill hwn fod y tinc estron neu, yn hytrach, 'dôn' an-Seisnig, Gymreig ei ganu yn achub ei farddoniaeth rhag boddi mewn môr o farddoniaeth Saesneg a Seisnig. 'Hyglyw'[849] yw'r islais Cymreig yn yng nghanu ymchwyddol Dylan Thomas: 'ton gref a oedd yn oslef i'w islais. / Un hyglyw sy'n ein goglais yw'r ail don, / mor afradlon â môr ei hyfrydlais.'[850] Yr 'ail don'[851] yn y cyswllt hwn felly yw'r don – neu'r 'dôn' – Gymreig, sef sŵn y Gymraeg yn ei gerddi Saesneg. Ond y mae'r cyfeiriad at yr 'ail don'[852] hefyd yn rhwym o'n hatgoffa o chwedl Dylan Eil Ton, sef tarddiad chwedlonol ei enw cyntaf, a ddaw o un o destunau clasurol y Gymraeg.

---

[843] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.
[844] Kirsti Bohata, *Postcolonialism Revisited* (Cardiff, 2004), t. 105.
[845] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.
[846] M. Wynn Thomas, 'Rhagymadrodd' yn M. Wynn Thomas (gol.), *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1995), t. 1.
[847] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.
[848] Ibid.
[849] Ibid.
[850] Ibid.
[851] Ibid.
[852] Ibid.

Egyr y trydydd pennill â'r datganiad diflewyn-ar-dafod: 'Nid eiddo Sais oedd deulais Dylan / wrth greu llif gwyrth y gair i'r llwyfan.'[853] Awgryma T. James Jones fod y Saeson wedi trefedigaethu diwylliant llenyddol y Cymry ac wedi hawlio a pherchnogi Dylan Thomas fel rhan o'u traddodiad llenyddol hwy. Ond drwy gyfeirio at '[dd]eulais Dylan',[854] awgryma hefyd fod ei ddefnydd o'r Saesneg yn an-Seisnig neu'n Gymreig – a Chymraeg hyd yn oed. Fel y dywed Kate Crockett am Saesneg an-Seisnig Dylan Thomas: 'Yn ei gerddi mae'r iaith Saesneg yn swnio'n anghyfarwydd o ffres.'[855] Dadleua Jones yn y pennill hwn nad 'rhyw stori benchwiban, â sgrafell / a llafn dichell o fewn y dychan' mo *Under Milk Wood*. Heria'r feirniadaeth mai ychydig o sbort gwawdlyd ar draul y Cymry Cymraeg yw *Under Milk Wood* gan ddatgan mai 'un o storïau / cynhenid Cymreig y canonau'[856] yw'r ddrama hon.

Fe'n hatgoffir yn y pedwerydd pennill o'r cysylltiad rhwng enw Dylan Thomas a chwedl Dylan Eil Ton: 'Wrth impio cainc ar y ceinciau, Dylan / ddaeth â choedlan o faeth y chwedlau.'[857] Mwysair yw 'cainc', sy'n cyfeirio at Bedair Cainc y Mabinogi ynghyd â changen coeden. Awgryma Jones fod cainc newydd wedi tyfu ar goedlan y Mabinogi, sef chwedl *Under Milk Wood* o'r 'White Book of Llareggub'.[858] Y mae'r cyfeiriad at 'the White Book of Llareggub' yn *Under Milk Wood* yn brawf o wybodaeth y bardd am chwedlau'r Mabinogi:

> Llareggub Hill, writes the Reverend Eli Jenkins in his poem-room, that mystic tumulus, the memorial of peoples that dwelt in the region of Llareggub before the Celts left the Land of Summer and where the old wizards made themselves a wife out of flowers.[859]

Fel y noda Walford Davies:

> Ceir yma gyfeiriadau, wrth gwrs, nid yn unig at greu Blodeuwedd o flodau'r erwain, y deri a'r banadl yn y *Mabinogi* – tarddiad enw Dylan ei hun, wedi'r cwbl, fel y gwyddai'r bardd yn iawn – ond hefyd at fytholeg Iolo Morganwg ynghylch 'gwlad gysefin' cenedl y Cymry, sef Deffrobani neu 'Wlad yr Haf'.[860]

Dangosodd Dylan Thomas ei wybodaeth am y chwedlau hefyd mewn llythyr at Pamela Hansford Johnson: 'My unusual name – for some mad reason it comes from the Mabinogion and means "the prince of darkness" – rhymes with "Chillun", as you suggest'.[861] Ac yn y

---

[853] Ibid.
[854] Ibid.
[855] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 125.
[856] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.
[857] Ibid.
[858] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 55.
[859] Ibid., tt. 59–60.
[860] Walford Davies, 'Rhagymadrodd', yn T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), t. xx.
[861] Paul Ferris (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters* (London, 2000), t. 43.

cyswllt hwn, y mae'n werth trafod y cyfeiriadau at chwedl Blodeuwedd yn 'Mab ei Dad'. Disgrifir Llaregyb yn y pumed pennill fel

> y pentre lle mae tylluan
> yn glanio obry i lyncu'i gloncan
> am bechu, a hi, druan, yn euog
> ohono gyda'i cheiliog ei hunan.[862]

Yn ogystal â chyfeirio at dynged Blodeuwedd, y mae'r ddelwedd hon yn dwyn i gof ddisgrifiad Dylan Thomas o'r tylluanod yn hela uwch mynwent Llaregyb: 'The owls are hunting. Look, over Bethesda gravestones one hoots and swoops and catches a mouse by Hannah Rees, Beloved Wife.'[863] Sylwer bod T. James Jones yn chwarae â thwt-twtian un sy'n dwrdio a thwhwtian tylluan yn y pennill nesaf:

> A phan glyw hi sawr ei rhagrith hithau
> yn arogleuon sur y gwelyau,
> ei 'thwt twt' sydd yn caniatáu i'r dorf
> herwa, a chofleidio'r 'ferch o flodau'.[864]

Archwilio y mae T. James Jones yn y fan hon y cysyniad o ragrith: y mae'r dylluan yn beirniadu 'pechu' y pentrefwyr ac eto'n euog o'r un camwedd ei hun (cofier bod y dylluan yn symbol amlwg o bechod rhywiol ac anfoesoldeb Blodeuwedd yn chwedl Math). Y mae rhagrith y dylluan hon 'yn caniatáu i'r dorf / herwa' – nid yn yr ystyr arferol o 'fod ar herw', ond yn yr ail ystyr o anifail benywaidd yn gofyn y gwryw. Ond fel y nodwyd eisoes, nid yw Dylan Thomas yn beirniadu nac yn condemnio ei gymeriadau yn y ddrama hon, nac yn ein gwahodd i wneud hynny ychwaith. Fel y dywed Hywel Teifi Edwards, yr oedd Thomas yn 'barod i edrych â dwy lygad agored ar dda a drwg y ddynoliaeth a bwrw coelbren gyda'i hamherffeithrwydd',[865] tra mae'r Cymry Cymraeg yn 'atgofioni'n fawr eu sêl am yr hen le yn y wlad a'r hen bobl ddi-fai.'[866] Gan gyfeirio yn ei gerdd at ddrama enwog Idwal Jones, *Pobl yr Ymylon* (1927), awgryma T. James Jones mai gwneud cam ag *Under Milk Wood* yw ei dehongli fel gwaith awdur sy'n gwneud hwyl am ben y brodorion od a 'gwahanol': 'Nid ffenestr gul a

---

[862] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.
[863] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 15.
[864] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.
[865] Hywel Teifi Edwards, 'O'r Pentre Gwyn i Llaregyb', yn M. Wynn Thomas (gol.), *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1995), t. 27. Gweler hefyd y bennod 'Ymlaen i "Llareggub"', yn Hywel Teifi Edwards, *O'r Pentre Gwyn i Gwmderi: Delwedd y Pentref yn Llenyddiaeth y Cymry* (Llandysul, 2004), tt. 125–69.
[866] Ibid.

agorwyd gan estron / na drama am hil hynod yr ymylon / yw hi'.[867] Fel y dywed Hywel Teifi Edwards:

> pan ollyngodd *Under Milk Wood* o'i ddwylo nid encilfa i ddiniweitiaid mo 'Llareggub'. Mynnodd [Dylan Thomas] iddo fod yn fangre cariad, 'a place of love', a'i boblogi â thrigolion sy'n sboncio fel dalfa o amrywiol loywbysg wedi'u rhwydo gan ddewin. Gwnaed 'Llareggub' yn llwyfan i arddangos arno gawdel godidog bywyd dynol a'r egnïon anystywallt na all y rhyfeloedd enbytaf mo'u trechu. I'r trueiniaid a fu farw dan gawodydd bomiau neu a rofiwyd yn gelanedd i ffosydd ffieidd-dra, y mae *Under Milk Wood* yn llais o'u plaid ac yn floedd dros ryfeddod yr hyn oeddynt hwythau tra buont ar y ddaear. Rhoes Dylan Thomas o'i orau i ddathlu pob bywyd brau.[868]

Awgryma T. James Jones hefyd y mae gwneud cam mawr â'r ddrama yw ei dehongli fel 'stori neis i awduron / gwrth-Gymreig gamliwio'r eicon / o hen wlad ei dad'.[869] Diddorol yw sylwi yma ar y cyfeiriad at 'hen wlad ei dad' sy'n dwyn i gof y dyfyniad drwgenwog hwnnw a briodolir i Thomas, 'Land of my fathers? My fathers can keep it!'. Fel y nodwyd eisoes, defnyddir y dyfyniad hwn yn aml i ddadlau bod Dylan Thomas yn wrth-Gymreig. Yn sicr, fe dâl inni gyfeirio yma at sylwadau Hannah Ellis, wyres Dylan Thomas:

> 'LAND OF MY FATHERS? MY FATHERS CAN KEEP IT! Wales didn't care much for Dylan Thomas, and the feeling was often mutual.' This was the headline I came across from an article in the *Sunday Times* from 2014. [...] I wonder that if the press were not always so quick to reinforce, what they imagine, is a clever caricature of the Welsh clown they might look at my grandfather's life more deeply.[870]

Gellir cynnig bod T. James Jones yn ymateb i'r ddelwedd garicaturaidd o Dylan Thomas fel y 'Welsh clown' yn y pennill hwn yn 'Mab ei Dad'. Awgryma Jones fod y gwrth-Gymreig wrth eu boddau â'r syniad ohono fel y ffŵl Cymreig sy'n gwneud hwyl am ben ei bobl ei hun gan fod y ddelwedd honno yn cadarnhau eu rhagfarnau hwythau ynghylch y Cymry. Er bod llawer o feirniaid llenyddol hyd heddiw yn amheus o nod Dylan Thomas wrth ddychanu'r Cymry yn *Under Milk Wood* ac yn teimlo bod y ddrama'n rhoi cyfle i bobl chwerthin ar 'loes' y genedl a fu 'o oes i oes mor ddigri i Saeson',[871] ceisia T. James Jones ddarbwyllo'r darllenwyr nad megino rhagfarnau gwrth-Gymreig oedd bwriad Thomas yn y ddrama hon.

---

[867] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.
[868] Edwards, *O'r Pentre Gwyn i Gwmderi*, tt. 156–7.
[869] Ibid.
[870] Hannah Ellis, 'Land of my fathers? My fathers can keep it!: The complicated relationship between Dylan Thomas and Wales', <http://www.discoverdylanthomas.com>; cyrchwyd 24 Awst 2017.
[871] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 41.

Cly'r gerdd gan bwysleisio mor annisgwyl ac eironig oedd penderfyniad D. J. Thomas i enwi ei fab yn 'Dylan Marlais' ac yntau wedi gwahardd y Gymraeg ar yr aelwyd: 'Rhyfeddod oedd i'w dad awdurdodi / adfer yr hanes yn oedfa'r enwi'.[872] Yng ngeiriau T. James Jones: 'Er gwaethaf penderfyniad y tad o beidio â magu ei fab yn Gymro Cymraeg fe ddewisodd gydnabod ei dras a'i wreiddiau ar dystysgrif bedydd y mab.'[873] Myfyria Jones ar ddiwedd y gerdd ynghylch barn D. J. Thomas – neu Dylan Thomas, y mae rhyw amwysedd yma at bwy yn union y mae Jones yn cyfeirio yn y llinellau hyn – ynghylch ymdrechion y Cymry Cymraeg i ddathlu eu Cymreictod a goroesi fel cenedl:

> ac efallai na fyddai ef heddi'n
> godde gwerddon Gymreigaidd ei gerddi,
> Duw a ŵyr, heb sôn am stori ei dras
> ym merw'r gras Cymreig i oroesi.[874]

Sylwer yn arbennig ar ei ddefnydd o dafodiaith yn y pennill hwn ar ffurf geiriau megis 'heddi' a 'godde'. Bron na ellid dadlau bod elfen o her ynghlwm wrth benderfyniad Jones i gloi'r gerdd yn dafodieithol. Fel y noda Kate Crockett, yr oedd D. J. Thomas

> yn casáu clywed unrhyw iaith sathredig. Yn ôl Paul Ferris, a fu'n cyfweld Florence Thomas tua diwedd ei hoes, roedd D. J. wedi gwahardd ei wraig rhag siarad Cymraeg yn ei bresenoldeb, oherwydd nad oedd ei 'Swansea Welsh' hi yn ddigon da.[875]

Dywed Crockett mai bwriad D. J. Thomas 'oedd gwneud Dylan yn ŵr bonheddig, ac nid oedd y Gymraeg nac acen Gymreig yn gweddu i'r syniad hwnnw.'[876] O gofio mai 'Mab ei Dad' yw teitl y gerdd hon, gellir cynnig bod T. James Jones fel petai'n herio dylanwad y tad ar ei fab drwy ddefnyddio tafodiaith ar y diwedd.

Er bod T. James Jones yn sôn am gefndir diwylliannol a chrefyddol Cymreig a Chymraeg Dylan Marlais Thomas ac am darddiad Cymraeg ei enw yn y gerdd, y mae'n cydnabod ar y diwedd na fyddai'r tad, o bosibl, yn cymeradwyo'r Cymreictod yng nghanu ei fab: 'gwerddon Gymreigaidd ei gerddi'.[877] Ond fel y nodwyd, cymhlethir a phroblemateiddir y sefyllfa gan yr amwysedd yn y gystrawen yn y pennill olaf, sy'n awgrymu'n gynnil na fyddai'r mab, Dylan, ei hun, o bosibl, yn cydnabod y dylanwad Cymraeg, ynghyd â'r Cymreigio a fu ar ei weithiau gan T. James Jones. Dyma Jones felly, yn 2002, yn lleisio *caveat*

---

[872] Ibid., t. 42.
[873] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 18.
[874] Idem, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 42.
[875] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 45.
[876] Ibid., t. 46.
[877] Jones, *Diwrnod i'r Brenin*, t. 42.

o fath. '[C]ymreigaidd', sylwer, yw'r gair a ddefnyddia Jones ar ddiwedd y gerdd i ddisgrifio cerddi Dylan Thomas, nid '[C]ymraeg'. Yn wir, yr awgrym dan yr wyneb yma yn 2002 o leiaf, yw bod Dylan Thomas yn heiffenedig Eingl-Gymreig. Er cymaint fyddai dymuniad Jones i roi marc cwestiwn yn y teitl – 'Mab ei Dad?' – y teitl a ddefnyddiodd oedd y gosodiad: 'Mab ei Dad'. Ond fel y gwelir yn y penodau nesaf, T. James Jones yw'r un sydd, yn ddiymwad, yn gyfrifol am droi Dillon Thomas, y bardd Eingl-Gymreig, yn Dylan Thomas, y bardd anheiffenedig Gymreig – a Chymraeg.

* * * *

Ond cyn ystyried y broses ddiwylliannol bwysig hon, y mae'n rhaid oedi i drafod testun y daeth yr awdur presennol ar ei draws yn ddiweddar – testun anghyhoeddedig cwbl greiddiol o ran yr ymateb Cymraeg i Dylan Thomas, a hefyd o ran ymateb llenorion i *Dan y Wenallt*. Yn ystod y 1970au, aeth Eigra Lewis Roberts ati i greu cyfieithiad gogleddol o *Under Milk Wood*. Dyma a ddywedodd Roberts wrth yr awdur presennol ynghylch yr ysgogiad i gyfieithu'r testun hwn i'r Gymraeg:

> I mi gofio, ar ôl 'neud drama fer, drama Gwenlyn – *Poen yn y Bol* – roeddan nhw [yr actorion] 'di cael hwyl arni ac oedd 'na rai'n dangos diddordeb... a 'nes i feddwl trio gwneud rhywbeth hwy – drama hir. Dw i'n ffan mawr o Dylan Thomas, wedi bod er pan o'n i'n yr ysgol achos mi oedd gen i athro Saesneg, Raymond Garlick, mi oedd o'n meddwl y byd o Dylan Thomas. Oedd o [Dylan] uwch fy mhen i adeg hynny. Do'n i'm yn dallt. O'n i wrth fy modd yn gwrando ar y geiria', ond do'n i ddim yn dallt be' oedd o'n drio'i ddeud hanner yr amser. Ond fo ddaru ddechra' 'niddordeb i. Ac o'n i'n hoff iawn o *Under Milk Wood*. Ac wedyn dyna holi o gwmpas, rhai 'di dangos diddordeb – y rhan fwya' ohonyn nhw 'rioed 'di bod ar lwyfan yn eu bywyda'. Ac on i'n meddwl, rŵan, dydi o ddim yn bosib iddyn nhw – heb unrhyw brofiad – ddeud y geiria' mewn tafodiaith sy'n ddiarth iddyn nhw. Wedyn y cam nesa' oedd cyfieithu [*Under Milk Wood*] oherwydd hynny – ar eu cyfer nhw, y grŵp yn Nolwyddelan. Dyna'r ysgogiad i ddechrau ac wedyn cyfieithu er mwyn iddyn nhw fedru deall y geiria' a medru eu deud nhw. Mi wnes i osgoi cyfieithiad Jim [T. James Jones] yn fwriadol. Dechra' o'r dechra' mewn ffordd.[878]

Er mai cyfieithu *Under Milk Wood* i'r Gymraeg a wnaeth Eigra Lewis Roberts yn hytrach na chreu fersiwn gogleddol o *Dan y Wenallt*, gellir edrych ar ei chyfieithiad ar yr un pryd fel ymateb i drosiad T. James Jones. Aeth Roberts yn ôl at y testun gwreiddiol, *Under Milk Wood*, er mwyn creu cyfieithiad yn nhafodiaith y gogledd ar gyfer yr actorion o Ddolwyddelan, a hynny gan na fyddent, yn ei barn hi, wedi cael hwyl ar berfformio fersiwn tafodieithol, deheuol T. James Jones. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw nodi bod T. James Jones wedi gweithio gyda

[878] Cyfweliad yr awdur presennol ag Eigra Lewis Roberts, 4 Hydref 2019.

chast cynhyrchiad y Theatr Genedlaethol o *Macbeth* yn 2017 i addasu rhywfaint ar fersiwn Cymraeg Gwyn Thomas o ddrama Shakespeare. Dywedodd Jones wrth y cylchgrawn *Golwg* iddo 'gael gwahoddiad i olygu sgript *Macbeth*',[879] ond nid, meddai, oherwydd bod y sgript yn 'rhy ogleddol'.[880] Serch hynny, gofynnwyd iddo 'newid ambell ymadrodd neu gymal neu air er mwyn galluogi'r Theatr Genedlaethol i gastio actorion deheuol petai angen.'[881] Gofynnwyd iddo 'addasu'r dafodiaith ambell dro er mwyn hwyluso'r castio.'[882] Yn ôl Richard Lynch, un o actorion y ddrama, ni newidiodd T. James Jones 'y gystrawen na dim byd fel yna, dim ond ei ddeheuo fe, fel petai.'[883]

Pan ofynnodd yr awdur presennol i Eigra Lewis Roberts beth oedd yr ymateb i'r cyfieithiad pan berfformiwyd ei chyfieithiad hi o *Under Milk Wood* yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979 – o gofio bod y Cymry Cymraeg wedi ymateb yn fwy cadarnhaol i *Dan y Wenallt* nag *Under Milk Wood* ac wedi'i chanmol fel 'y cyfieithiad gwell-na'r-gwreiddiol' – dywedodd Roberts nad yw'n 'ymwybodol o unrhyw ymateb – dim byd arbennig – dim ond [bod pobl wedi ei] derbyn hi fel drama, am wn i, yn hollol naturiol – dw i ddim yn cofio rhyw lawer o ymateb.'[884] Ni chanfuwyd unrhyw erthygl nac adolygiad o'r cynhyrchiad o'r 1970au, ond daethpwyd ar draws blog Paul Griffiths, cyfarwyddwr ac adolygydd ym myd y theatr, sy'n cofio gweld 'Dan Gesail Bryn Llaethog', sef y teitl a roddodd Roberts ar ei chyfieithiad o'r ddrama, yn cael ei pherfformio yn Nolwyddelan ddiwedd y 1970au:

> Cefais fy swyno gan *Under Milk Wood* er pan oeddwn i'n blentyn, wedi gweld cyfieithiad a chynhyrchiad llwyfan Eigra Lewis Roberts yn fy mhentref genedigol sef Dolwyddelan, ar ddiwedd y saithdegau. 'Dan Gesail Bryn Llaethog' ddewisodd Eigra alw'r gwaith, gan nad oedd cyfieithiad 'gwell na'r gwreiddiol' T. James Jones, *Dan y Wenallt*, yn addas ar gyfer actorion gogleddol Dyffryn Conwy.[885]

Ymhelaethodd Griffiths ar ei atgof o weld y cynhyrchiad mewn e-bost at yr awdur presennol:

> Brith gof sydd gen i am gynhyrchiad Eigra Lewis Roberts o 'Dan Gesail Bryn Llaethog' a deud y gwir. Tua 1979 oedd hi, pan oeddwn i dim ond 6 oed! Roedd unrhyw fath o gynhyrchiad theatr, ar y pryd, yn fy nenu a'n niddanu, yn enwedig un oedd yn fy milltir sgwâr. Ym 1977, fe agorwyd Canolfan Gymdeithasol Dolwyddelan

[879] Non Tudur, 'Cyn-Archdderwydd yn "deheuo" *Macbeth*', *Golwg*, 29, 21 (2 Chwefror 2017), t. 17.
[880] Ibid.
[881] Ibid.
[882] Ibid.
[883] Ibid.
[884] Cyfweliad yr awdur presennol ag Eigra Lewis Roberts, 4 Hydref 2019.
[885] Paul Griffiths, 'Adolygiadau Theatr / Theatre Reviews', <http://paulpesda.blogspot.co.uk/2009/05/under-milk-wood.html>; cyrchwyd 14 Mawrth 2018.

> (fy mhentref genedigol a phentref lle bu Eigra yn byw tan yn weddol diweddar). Ym 1979, fe roddwyd llwyfan symudol yn y Ganolfan (oedd yn rhan o'r ysgol gynradd) a dyna un o'r rhesymau dros lwyfannu'r gwaith, mae'n debyg. Yr ail reswm oedd yr Ŵyl Ddrama leol, Gŵyl Ddrama'r Odyn ym Metws y Coed. [...] Un o'r prif rai oedd yn y cynhyrchiad, ac un fyddai'n llawer iawn gwell i ddeud mwy wrtha ti, ydi Wil Lloyd Dafis, tad yr actores Ffion Dafis. […] Roedd Wil, eu tad, yn brifathro yn yr ysgol leol, ac felly yn rhan hanfodol o'r cynhyrchiad hefyd. […] Y cyfan ddywedodd hi [Eigra Lewis Roberts] wrtha i oedd bod cyfieithiad deheuol Jim yn rhy anodd i ogleddwyr Dolwyddelan![886]

Y mae'n werth cyfeirio yma hefyd at atgof Wil Davies o fod yn rhan o'r cynhyrchiad yn Nolwyddelan:

> Roeddwn yn rhan o'r cynhyrchiad. Yn 1979 y perfformiwyd y ddrama yn Nolwyddelan cyn mynd i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Daethom yn ail i Gwmni Coleg y Drindod (dau gwmni oedd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth) […] Robin Hughes o Benmachno oedd Capten Cat a fo enillodd brif actor y gystadleuaeth er mai ail oeddem ni fel cwmni. Daeth y cynhyrchiad yma ag ardal Dyffryn Lledr a Dyffryn Conwy at ei gilydd ac roeddem yn ymarfer yn Ysgol Dolwyddelan ble roeddwn i yn brifathro ar y pryd.[887]

Perfformiwyd y ddrama gan Gwmni Drama Glan Lledr yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979, yr un flwyddyn â helynt *Cerddi Ianws Poems, cause célèbre* yr Eisteddfod hon. Ymateb alaethus, dwyieithog T. James Jones a'r Americanwr o dras Cymreig, Jon Dressel, i ganlyniad nacaol y refferendwm ar ddatganoli yn 1979 yw *Cerddi Ianws Poems*. Siomwyd a dadrithiwyd y beirdd gan ganlyniad y bleidlais, a ystyrid ganddynt fel 'ymwrthodiad cywilyddus â'r cysyniad o Gymru fel cenedl'.[888] Daeth cerddi Cymraeg y dilyniant dwyieithog hwn, 'Dilyniant Dygwyl Dewi', i'r brig yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, ond diarddelwyd y cerddi am eu bod yn ffrwyth cywaith rhwng dau fardd.

Er bod gan Eigra Lewis Robers a T. James Jones feddwl mawr o waith Dylan Thomas, yr oedd ganddynt resymau gwahanol dros gyfieithu *Under Milk Wood*. Fel y trafodwyd eisoes, yr oedd gan Jones resymau gwleidyddol, diwylliannol a chenedlaetholgar dros greu fersiwn Cymraeg o'r ddrama: Cymreigio Llaregyb, sef adfer Llaregyb i'r Gymru Gymraeg, a phontio rhwng dwy iaith, dau ddiwylliant a dwy brif lenyddiaeth Cymru. Bwriad Eigra Lewis Roberts, yn syml iawn, oedd cyfieithu'r testun ar gyfer y llwyfan gan na fyddai'r actorion gogleddol, yn

[886] E-bost gan Paul Griffiths at yr awdur presennol, 9 Medi 2019.
[887] E-bost gan Wil Davies at yr awdur presennol, 18 Medi 2019.
[888] Menna Machreth Jones, 'Wyneb yn Wyneb: Hunaniaethau Llenyddol Cymraeg a Chymreig yn erbyn Cefndir Refferenda 1979 a 1997' (traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012), t. 2.

ei thyb hi, yn medru perfformio fersiwn deheuol T. James Jones. Ni chyfieithodd Roberts y ddrama yn ei chyfanrwydd am resymau ymarferol. Dywedodd wrth yr awdur presennol:

> Dydi o i gyd ddim yna. Oherwydd amgylchiada', faint o actorion oedd gen i a petha' felly oedd hynny. Do'n i'm yn medru dŵad â dim mwy o gymeriada'... roeddan nhw'n baglu dros ei gilydd fel oeddan nhw![889]

Y mae trosiad T. James Jones a chyfieithiad Eigra Lewis Roberts yn cynnig profiadau gwahanol iawn i ddarllenwyr. Dylid nodi mai fersiwn neu addasiad yw *Dan y Wenallt* a chyfieithiad (er nad o'r testun gwreiddiol yn ei gyfanrwydd) yw 'Dan Gesail Bryn Llaethog'. Sylwer i ddechrau ar y teitl, 'Dan Gesail Bryn Llaethog'. Idiom ddaearyddol gyffredin yw 'dan gesail y bryn', wrth gwrs, ond tybed a ellid awgrymu bod y teitl ychydig yn glogyrnaidd? Er hyn, gellir ar yr un pryd ddadlau ei fod yn deitl cymwys a Dylannaidd iawn. Y mae'n rhwym o'n hatgoffa o'r prosesau corfforol sy'n greiddiol i'r ddrama, ac, yn fwy penodol, yr olygfa o Polly Garter yn rhoi bron i'w babi yn yr ardd:

> Me, Polly Garter, under the washing line, giving the breast in the garden to my bonny new baby. Nothing grows in our garden, only washing. And babies. And where's their fathers live, my love? Over the hills and far away. You're looking up at me now. I know what you're thinking, you poor little milky creature. You're thinking, you're no better than you should be, Polly, and that's good enough for me. Oh, isn't life a terrible thing, thank God?[890]

Yn wahanol i T. James Jones, a fathodd enwau newydd ar gyfer nifer o'r cymeriadau yn *Dan y Wenallt* (Mrs Dai Bara Gwyn a Mrs Dai Bara Brown, Martha Mei Beynon yn yr argraffiadau cynnar, a Meinwen Mai Beynon yn yr argraffiad diweddaraf; Ceiriog Owen a Mrs Ceiriog Owen, er enghraifft), gwelwn fod Eigra Lewis Roberts wedi cynnig cyfieithiadau llythrennol o'u henwau, lle'r oedd hynny'n bosibl ac yn gweithio yn y Gymraeg. Yn 'Dan Gesail Bryn Llaethog', ailenwyd 'Gossamer Beynon' yn 'Gwawn Beynon'; 'Cherry Owen' a 'Mrs Cherry Owen' yn 'Ceirios Owen' a 'Mrs Ceirios Owen'; a 'Mrs Dai Bread 1' a 'Mrs Dai Bread 2' yn 'Mrs Dai Bara 1' a 'Mrs Dai Bara 2'. 'Lili Fach' yw 'Lily Smalls' yng nghyfieithiad Roberts ('Lili Bwt' yw ei henw yn *Dan y Wenallt*). 'Dei Da i Ddim' yw 'Nogood Boyo' ('Dai Di-ddim' yn *Dan y Wenallt*). Ac 'Wili Nini' a 'Mrs Wili Nini' yw 'Willy Nilly' a 'Mrs Willy Nilly' ('Jacyraca' a 'Mrs Jacyraca' yn *Dan y Wenallt*). Ond diddorol hefyd yw sylwi ar gyfieithiadau idiomatig Roberts o enwau 'Tom Spit' (un o gariadon Polly Garter) a'i fab, 'Fred Spit' – 'Bob Fflemsan' a 'Ffred Fflemsan'. Dylid nodi mai 'Bili Bola' a 'Wali Bola'

---

[889] Cyfweliad yr awdur presennol ag Eigra Lewis Roberts, 4 Hydref 2019.
[890] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 24.

yw eu henwau yn argraffiad 1968 o *Dan y Wenallt* (ond gwelwn fod T. James Jones wedi adfer i Fred ei enw gwreiddiol yn yr argraffiad diweddaraf – 'Ffred Spit').

Gwelwn hefyd fod Roberts wedi ceisio glynu'n agos wrth y gwreiddiol wrth gyfieithu enwau'r strydoedd a chartrefi ambell gymeriad: er enghraifft, 'Stryd y Cocos' ('Cockle Row'), 'Heol y Brenin' ('Coronation Street'), 'Trem y Môr' ('Bay View' – cartref Mrs Ogmore-Pritchard), a 'Gefynfa' ('Handcuff House' – cartref P.C. Attila Rees). Ond diddorol hefyd yw sylwi bod Roberts wedi bathu enw newydd ar gyfer cartref Capten Cat, 'Gwynt Teg' ('Schooner House'), er enghraifft, drwy gyfuno'r ddelwedd forwrol o wynt yn yr hwyliau a'r idiom Gymraeg 'Gwynt teg ar ei ôl'. Bathodd enw Cymraeg newydd ar gyfer y dafarn, 'Sailors' Arms', sef 'Yr Angor', ynghyd ag enw newydd ar gyfer 'Salt Lake Farm', 'Fferm Llwynhalen', sy'n enw fwy argyhoeddiadol Gymreig na'r cyfieithiad llythrennol, 'Fferm Llyn Halen'. Dylid nodi hefyd ei bod hi'n gwybod pryd i beidio â chyfieithu. Clywir 'Builth' ar lafar yn amlach na'r enw Cymraeg, 'Llanfair-ym-Muallt', er enghraifft:

> *Under Milk Wood*
>
> Here's a letter for you with stamped and addressed envelope enclosed, all the way from Builth Wells.[891]
>
> 'Dan Gesail Bryn Llaethog'
>
> Llythyr i chi – amlen wedi'i stampio'n amgaeedig – yr holl ffordd o Builth.[892]

Fe dâl inni gyfeirio yma hefyd at enw Cymraeg newydd papur newydd Llaregyb, 'The Twll Bugle' – 'Tafod Twll' – sy'n enghreifftio'r hyn a olygir wrth ddomestigeiddio cyfieithiad. Y mae elfen o hiwmor tafod yn y boch yn yr enw 'The Twll Bugle', gan ei fod yn rhwym o'n hatgoffa o bapurau newydd dinesig, Americanaidd, ac yn enw annisgwyl ar bapur newydd lleol pentref bach, disylw yng nghefn gwlad Cymru. Y mae 'Tafod Twll', ar y llaw arall, yn enw mwy argyhoeddiadol Gymreig. Yn wir, y mae'n haws dychmygu Mog Edwards yn hyrwyddo'i fusnes mewn papur bro o'r enw 'Tafod Twll' na'r 'Twll Bugle'. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw nodi bod yr enw 'Tafod Twll' yn magu arwyddocâd pellach o gofio pryd y cyfieithwyd y ddrama. Sefydlwyd nifer o bapurau bro yng Nghymru yn ystod y 1970au, y cyntaf yng Nghaerdydd yn 1973 – *Y Dinesydd*. Fel y nodir yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*: 'Amcan eu hyrwyddwyr oedd denu rhagor o bobl i ddarllen Cymraeg trwy ddarparu newyddion ac

[891] Ibid., t. 30.
[892] Sgript anghyhoeddedig 'Dan Gesail Bryn Llaethog' a gafwyd gan Eigra Lewis Roberts, 10 Hydref 2019, t. 22. Gweler Atodiad I.

erthyglau trwy gyfrwng yr iaith.'[893] Yr oedd y papurau bro hyn yn rhan annatod o ymgyrch yr iaith, ac yng ngoleuni hyn, y mae'n debyg y byddai cynulleidfa Gymraeg yn y 1970au wedi bod yn ymwybodol o arwyddocâd diwylliannol a gwleidyddol yr enw, 'Tafod Twll', a fyddai hefyd, o bosibl, yn eu hatgoffa o gylchgrawn neu gylchlythyr Cymdeithas yr Iaith – *Tafod y Ddraig* – a sefydlwyd yn 1963.

Er mai drama radio yw *Under Milk Wood*, cyfieithodd Eigra Lewis Roberts y testun yn benodol ar gyfer y llwyfan. Brasluniodd Roberts gynllun o set y ddrama ar y sgript. Yn ogystal, ceir cyfarwyddiadau a nodiadau manwl yn llaw'r awdur ar nifer helaeth o'r tudalennau – nodiadau ynghylch lleoliad y cymeriadau yn y neuadd ac ar y llwyfan – er enghraifft, 'cefn y neuadd', 'canol', 'gris 2/3', 'canol y gris', 'canol y llwyfan',[894] ynghyd â chyfarwyddiadau technegol megis 'Tywyllu'r golau ar Mr Waldo. Golau ar Mrs O. P., Mr O., a Mr. P'.[895] Ceir hefyd nodiadau ar bropiau llwyfan, er enghraifft:

<u>Rhan 1</u>

1. Mr Waldo – gwely a het fowler

<u>Rhan 2</u>

1. Lili Fach – stof a harn
2. Mr a Mrs Ceirios Owen – stof neu gwpwrdd a llun Anti
3. Beynons – stof a harn

<u>Rhan 3</u>

1. Wili Nini a Mrs W. N. – cwpwrdd a ffenestr
(O.M. a Mrs O.M. i gymryd lle'r Beynons o dan y llwyfan)

<u>Rhan 4</u>

1. Eli Jenkins – cwpwrdd/adnod/llun pregethwyr/llun o Laregyb[896]

Soniodd Paul Griffiths wrth yr awdur presennol fod ganddo gof 'o weld pawb yn cysgu ar y llwyfan i ddechrau, a phrop eithriadol o dda o hen ffynnon ddŵr, a phawb wedyn yn hel o'i gwmpas.'[897] Ynghyd â'r elfennau gweledol megis propiau a thechnegau goleuo, difyr yw sylwi ar y nodiadau ar dechnegau sain: 'Gwynt ysgafn', 'Chwyddo sŵn y gwynt', 'Dileu sŵn y

[893] Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Llandysul, 1986), t. 154.
[894] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 1.
[895] Ibid.
[896] Ibid (verso tudalen 2).
[897] E-bost gan Paul Griffiths at yr awdur presennol, 9 Medi 2019.

gwynt', 'Sŵn cloc yn tician', 'Chwyddo sŵn y cloc', 'Dileu'r cloc yn araf', 'Sŵn môr', 'Sŵn organ – emyn trwm', 'Sŵn sgrech annaearol merch'.[898]

Yr oedd Eigra Lewis Roberts yn amlwg yn ymwybodol o bwysigrwydd y cyfarwyddyd eironig '[Silence]'[899] ar ddechrau *Under Milk Wood*. Fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 3, ni chyfieithodd T. James Jones y cyfarwyddyd hwn yn yr argraffiad cyntaf o *Dan y Wenallt*, nac ychwaith y llinell agoriadol eiconig, 'To begin at the beginning'.[900] Dyma gyfieithiad Roberts o'r agoriad:

> Agor y llenni
> (Tywyllwch a thawelwch llwyr)
>
> LLAIS
> I ddechrau yn y dechreuad.[901]

Er mai cyfieithu *Under Milk Wood* ar gyfer y llwyfan a wnaeth Roberts, y mae'n amlwg yn parchu gwreiddiau'r ddrama fel drama radio drwy fynnu, nid yn unig tawelwch, ond tywyllwch hefyd ar y dechrau.

Fel y nodwyd hefyd ym Mhennod 3, petrusodd T. James Jones rhag cyfieithu'r llinell agoriadol tan y 1990au, a hynny oherwydd ei fod yn chwarae â'r syniad o sut orau i gyfleu'r gynghanedd a geir yn y gwreiddiol: 'To begin at the beginning'.[902] Egyr yr argraffiad diweddaraf, fodd bynnag, â llinell o gynghanedd sain – 'A dechrau yn y dechrau'n deg'[903] – a cheir pwyslais cynyddol yn y trosiad ar y gynghanedd. Diddorol yw nodi bod cyfieithiad llythrennol Eigra Lewis Roberts, 'I ddechrau yn y dechreuad',[904] yn dwyn i gof darddiad Beiblaidd yr ymadrodd 'To begin at the beginning',[905] sef 'Yn y dechreuad yr oedd y Gair'.[906]

Ymhellach, y mae'n werth cymharu'r teipograffeg yn nhrosiad Jones â'r hyn a geir yng nghyfieithiad Roberts. Fel y gwelwn, y mae'r paragraff agoriadol yn edrych yn debycach i gerdd yn yr argraffiad cyntaf o *Dan y Wenallt*:

---

[898] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', tt. 1–10.
[899] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[900] Ibid., t. 3.
[901] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 1.
[902] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[903] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 1.
[904] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 1.
[905] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[906] Ioan 1:1.

Under Milk Wood

[Silence]

FIRST VOICE [Very softly]
To begin at the beginning:

It is spring, moonless night in the small town, starless and bible-black, the cobblestreets silent and the hunched, courters'-and-rabbits' wood limping invisible down to the sloeback, slow, back, crowblack, fishingboat-bobbing sea. The houses are blind as moles (though moles see fine tonight in the snouting, velvet dingles) or blind as Captain Cat there in the muffled middle by the pump and the town clock, the shops in mourning, the Welfare Hall in widows' weeds. And all the people of the lulled and dumbfound town are sleeping now.[907]

Dan y Wenallt (1968)

Mae hi'n nos o Wanwyn mewn pentre bach
heb na lleuad na seren i oleuo'r ffurfafen,
nac untroed i oedi'n y strydoedd;
ac mae gallt wargrwm y cwningod a'r cariadon
fel ar herc anweledig i lawr at y môr pygddu,
dudew fel y fagddu,
lle mae'r cychod pysgota'n hen aflonyddu.
Mae'r holl dai yma'n ddall fel gwahaddod,
er fe wêl y wahadden yn burion
heno'n ei glynnoedd cul clos,
neu'n ddall fel 'rhen Gapten fan draw'n cyfeillachu
â'r pwmp a'r cloc a'r Neuadd weddw a'r siopau'n eu galar.
Ac fe gaewyd llen pob llygad tan amrannau trwm y nos.[908]

'Dan Gesail Bryn Llaethog'

Agor y llenni

(Tywyllwch a thawelwch llwyr)

LLAIS
I ddechrau yn y dechreuad.

Mae hi'n nos o Wanwyn yn y dref fach, yn ddi-leuad, ddi-sêr ac yn Feibil ddu, y strydoedd coblog yn dawel a choedwig wargam y cariadon a'r cwningod yn hercian i lawr i'r môr gloewddu, gloew, ddu a'i gybolfa o gychod. Mae'r tai mor ddall â thyrchod (er bod tyrchod yn gweld yn burion heno yn eu gwlâu melfed) neu'n ddall fel Capten Cat, acw yn y canol llonydd rhwng y pwmp a chloc y dref, y siopau'n

[907] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[908] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 11.

> galaru a'r Neuadd Les yn ei du. Ac mae holl drigolion y dref yn fud-fyddar yn cysgu'n awr.[909]

Er bod *Dan y Wenallt* yn fwy cynganeddol na 'Dan Gesail Bryn Llaethog', nid yw hynny'n gyfystyr â dweud ei bod yn fwy barddonol. Creodd Eigra Lewis Roberts gyfieithiad barddonol sy'n darllen fel y gwreiddiol – fel 'prose with blood pressure',[910] fel y gwelwn yn y man. Sylwer ar yr odlau yn y dyfyniad isod, er enghraifft:

> GWRAGEDD [o'r neilltu, fel cynt]
> 1: Yn ddu fel simdda.
> 2: Cnocio ar ddrysa.
> 3: Sgwennu ar walia.
> 4: Dwyn o'r siopa.
> Mi gwelis i o'n cuddio.
> Chwara triwant oedd o.
> 1/2: Anfonwch o i'w wely heb damaid i'w fwyta.
> 3/4: Rhowch gastor oil iddo a'i gloi dan grisia.
> PAWB: Gyrrwch o i'r ysgol, gyrrwch o i'r ysgol.
> Dysgwch wers iddo ar ei b-en-ôl.[911]

Dylid nodi hefyd nad yw'r llinellau hyn yn odli yn y gwreiddiol. Yn 'Dan Gesail Bryn Llaethog', y mae'r odlau yn nodwedd ddiffiniol o'r cyfieithiad, a daw nodweddion arddulliol fel odlau a chyflythrennu yn gynyddol amlwg wrth i'r cyfieithiad hwn fynd yn ei flaen. Fe dâl inni gofio yma mai cylch nos-a-gwawr diwrnod cyfan yw strwythur y ddrama. Y mae defnydd cynyddol Eigra Lewis Roberts o odlau a chyflythrennu yn cyfleu bwrlwm y gymuned wrth i'r gymuned ddeffro ac wrth i'r diwrnod fynd rhagddo. Y mae Roberts fel petai'n mynd fwyfwy i hwyl, ac fel y gwelwn o'r enghraifft isod, yn ymgyrraedd at arddull 'prose with blood pressure' yr awdur gwreiddiol:

> <u>*Under Milk Wood*</u>
>
> *Green and gold money, tobacco, tinned salmon, hats with feathers, pots of fish-paste, warmth for the winter-to-be, weave and leap in it rich and slippery in the flash and shapes of fishes through the cold sea-streets. But with blue lazy eyes the fisherman gaze at that milk-mild whispering water with no ruck of ripple as though it blew great guns and serpents and typhooned the town.*[912]

---

[909] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 1.
[910] Davies, 'Rhagymadrodd', t. x.
[911] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', tt. 5–6.
[912] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 38.

‘Dan Gesail Bryn Llaethog’

> Yn ei gyfoeth o bysgod llithrig llathr mae addewid aur ac arian, hetiau pluog, tuniau eog, gwres at y gaeaf a fydd. Ond sylla’r sgotwyr drwy lygaid gleision diog ar y llyn llefrith o fôr heb na rhych na chrych fel petai’n saethu seirff a magnelau ac yn bygwth boddi’r dref.[913]

Enghraifft arall sy’n haeddu sylw yn y cyswllt hwn yw cyfieithiad Roberts o ‘He weeps as he sleeps and sails, and the tears run down his grog-blossomed nose.’[914] Yn debyg i’r gwreiddiol, y mae’r geiriau yn ymdoddi i’w gilydd, bron yn gynganeddol: ‘Mae’n hwylio wrth wylo’n ei gwsg.’[915] Dylid nodi yma fod Eigra Lewis Roberts, fel T. James Jones, yn llenor amryddawn a thoreithiog – y mae hi’n nofelydd, yn ddramodydd ac yn Brifardd. Enillodd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 2006, a daeth ei hawdl i Kate Roberts yn ail yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg yn 2012.

Gwyddom i Jones gael trafferth wrth geisio cyfieithu’r disgrifiad ‘bible-black’[916] yn agoriad y ddrama pan aeth ati i gyfieithu’r gwaith yn y 1960au, a phenderfynodd hepgor y disgrifiad ar y pryd. Cynigiodd Eigra Lewis Roberts, ar y llaw arall, y cyfieithiad llythrennol a diffwdan – ‘yn Feibil ddu’.[917] Gellir dadlau ar un wedd felly fod Roberts, fel cyfieithydd, yn fwy parod na Jones i gyfieithu’n llythrennol, lle y bo hynny’n bosibl. Ond gwelwn hefyd ei bod hi’n rhoi digon o ryddid iddi hi ei hun i fod yn greadigol er mwyn osgoi cyfieithiadau slafaidd. Trawiadol yn y cyswllt hwn yw cyfieithiad Roberts o ‘fishingboat-bobbing sea’[918] yn y paragraff agoriadol: ‘i’r môr [...] a’i gybolfa o gychod’.[919] Ystyr ‘cybolfa’ yw ‘llanast’, sy’n consurio darlun byw iawn o’r cychod yn siglo blith draphlith yn yr harbwr. Ond fe’n hatgoffir yma hefyd o’r gair ‘ceubalfa’. Gair arall am gwch yw ‘ceubal’ ac ystyr ‘ceubalfa’ yw ‘lle i groesi afon neu gulfor’.[920] Dyma un o blith nifer o enghreifftiau sy’n amlygu dyfeisgarwch Eigra Lewis Roberts fel cyfieithydd creadigol, wrth iddi chwarae’n dra Dylannaidd â mwyseiriau.

Enghraifft arall debyg hynod gofiadwy yw’r disgrifiad o Capten Cat yn ‘mela merched’ yng nghyfieithiad Roberts o’r disgrifiad isod:

---

[913] Roberts, sgript ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’, t. 29.
[914] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 51.
[915] Roberts, sgript ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’, t. 37.
[916] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[917] Roberts, sgript ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’, t. 1.
[918] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 3.
[919] Roberts, sgript ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’, t. 1.
[920] *Geiriadur Prifysgol Cymru*, ‘ceubalfa’, <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>; cyrchwyd 1 Tachwedd 2019.

Under Milk Wood

he brawls with broken bottles in the fug and babel of the dark dock bars, roves with a herd of short and good time cows in every naughty port and twines and souses with the drowned and blowsy-breasted dead.[921]

'Dan Gesail Bryn Llaethog'

mae'n paffio efo poteli ym mabel mwll bariau'r dociau, yn mela merched ym mhob hafan heli ac yn mwydo efo meirwon y môr.[922]

Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, y mae i 'mela' fwy nag un ystyr: 'Casglu neithdar i wneud mêl, hefyd yn ffigurol; melysu (â mêl)', ac 'ymhél' – 'ymyrryd [...]; trafferthu, poeni'.[923] Yng ngoleuni hyn, gellir cynnig bod islais aflonyddol a thywyll i'r ddelwedd o Capten Cat yn 'mela merched'. Crisielir yn y mwysair 'mela' y tensiwn a'r pendilio rhwng goleuni a thywyllwch, rhwng melyster a chwerwdod yn *Under Milk Wood*. Perthnasol hefyd yn y cyswllt hwn yw cyfeirio at gyfieithiad Roberts o 'Lily Smalls the treasure on her red knees washing the front step':[924] 'Lili Fach, y trysor, ar ei phengliniau cignoeth yn sgrwbio'r stepan ffrynt.'[925] Yn *Dan y Wenallt*, y mae 'Lili Bwt y trysor ar ei glin goch yn golchi stepen y drws.'[926] Yn wahanol i Jones, felly, a gyfieithodd 'her red knees' yn llythrennol fel 'ei glin gloch', diddorol yw sylwi mai 'cignoeth' yw'r gair a ddefnyddiodd Roberts. Daw i'r amlwg yn y gair hwn yr elfen rywiol, aflonyddol sy'n llechu dan yr wyneb drwy'r ddrama. Difyr hefyd yw sylwi bod Eigra Lewis Roberts wedi llwyddo i ymestyn y ddelwedd o gig yn yr olygfa hon drwy ddisgrifio P.C. Attila Rhys â'i 'sgwyddau eidion' yn 'bustachu i lawr i'r traeth i wneud yn siŵr fod y môr yn dal yno.'[927] Disgrifir P.C. Attila Rees yn y gwreiddiol fel a ganlyn: 'ox-broad [...] stomping out of Handcuff House in a heavy-beef red huff [...] and lumbering down towards the strand to see that the sea is still there.'[928] Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, defnyddir 'bustachu' ar lafar yn y gogledd yn yr ystyr '[y]megnïo'n ofer, bwnglera, gweithio'n galed a di-fudd.'[929] Ynghyd â chyfleu natur drosgl a bwngleraidd y cymeriad hwn, y mae 'bustachu' yn cyfleu pa mor ddi-fudd yw'r orchwyl 'o fynd i'r traeth i wneud yn siŵr fod y môr yn dal yno'.

---

[921] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 51.
[922] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 37.
[923] *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 'mela', <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>; cyrchwyd 29 Tachwedd 2019.
[924] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 23.
[925] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 15.
[926] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 39.
[927] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 15.
[928] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 23.
[929] *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 'bustachu', <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>; cyrchwyd 28 Tachwedd 2019.

Yn ddiau, un o gryfderau Roberts fel cyfieithydd yw ei gallu i gynnal delweddau estynedig Dylan Thomas. Y mae hi'n gyfieithydd craff iawn, fel y gwelwn hefyd o'r modd y mae hi'n sefydlu jôc ac yna'n ailymweld â hi yn ddiweddarach yn ystod y ddrama. Cymerer, er enghraifft, yr olygfa hon rhwng Gossamer Beynon a Sinbad Sailors:

GOSSAMER BEYNON
I don't care if he *is* common

she whispers to her salad-day deep self,

I want to gobble him up.
I don't care if he *does* drop his aitches

[...]

SINBAD SAILORS
Oh, Gossamer Beynon, why are you so proud?[930]

Yn wahanol i T. James Jones, a gyfieithodd y llinell 'I don't care if he *does* drop his aitches' fel 'Beth yw'r ots os yw e'n anllythrennog',[931] cyfieithodd Roberts y llinell hon fel 'Dim ots gen i os ydi o'n methu treiglo',[932] gan greu jôc o fethiant gramadegol y cymeriad hwn:

SINBAD
O, Gwawn Beynon, pam rydach chi mor **b**alch?[933]

Gwelwn o graffu ar y nodiadau ar y sgript fod Roberts wedi newid 'falch' yn 'balch'. Y mae hi hefyd yn ailymweld â'r jôc yn ddiweddarach yn y ddrama:

SINBAD
Be' **c**[g]ymri di?

CEIRIOS OWEN
Gormod.

SINBAD
Mae'r Angor wastad ar agor...

LLAIS 2
cwyna Sinbad a'i galon ar dorri...

SINBAD
O, Gwawn, agor **t[**d]itha.[934]

[930] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 46.
[931] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 76.
[932] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 43.
[933] Ibid., t. 33.
[934] Ibid., t. 43.

‘Be’ gymri di?’ ac ‘agor ditha’ sydd yn y drafft gwreiddiol, ond, fel y gwelir, newidiwyd ‘gymri’ yn ‘cymri’ a ‘ditha’ yn ‘titha’ ar y sgript yn llaw’r awdur.

Y mae ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’ yn llawn cyffyrddiadau disglair a chynnil sy’n haeddu sylw manwl. Gwych, er enghraifft, yw cyfieithiad Roberts o ‘dab of scent’ – ‘ploryn o sent’ – yn y portread o Mrs Dai Bread 2. Gwelwn o’r modd y mae Mrs Dai Bread 2 yn ei chyflwyno ei hun yn *Under Milk Wood* ei bod yn ymfalchïo yn ei phryd a’i gwedd, yn wahanol i Mrs Dai Bread 1, sy’n gwisgo’n blaen ac yn gyfforddus ac yn poeni dim ynghylch ei hymddangosiad:

> Me, Mrs Dai Bread 2, gypsied to kill in a silky scarlet petticoat above my knees, dirty pretty knees, see my body through my petticoat brown as a berry, high heel shoes with one heel missing, tortoiseshell comb in my bright black slinky hair, nothing else at all on but a dab of scent...[935]

Ond fe awgrymir yma hefyd fod golwg eithaf di-raen a hagr arni – ‘dirty pretty knees’ a ‘high heel shoes with one heel missing’. Y mae Roberts fel petai wedi cydio yn y cyfeiriad at ‘bendynnod’ yn yr olygfa hon – ‘Sut mae’ch pendynnod chi bora ’ma?’[936] (‘How’s your boils this morning?’[937]) – ac wedi cynnal y ddelwedd gorfforol, hyll yn y disgrifiad o Mrs Dai Bara 2 yn gwisgo dim ond ‘ploryn o sent’, sydd hefyd yn chwalu’r ddelwedd ohoni fel y wraig rywiol, ddeniadol.

Enghraifft arall sy’n brawf o ddyfeisgarwch Roberts yw ei chyfieithiad o ffantasi rywiol, swreal Gossamer Beynon:

> <u>*Under Milk Wood*</u>
>
> *In Butcher Beynon’s, Gossamer Beynon, daughter, schoolteacher, dreaming deep, daintily ferrets under a fluttering hummock of chicken’s feathers in a slaughterhouse that has chintz curtains and a three-piece suite, and finds, with no surprise, a small rough ready man with a bushy tail winking in a paper carrier.* [...]
>
> GOSSAMER BEYNON
>
> At last, my love,

[935] Ibid., t. 24.
[936] Roberts, sgript ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’, t. 16.
[937] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 24.

sighs Gossamer Beynon. And the bushy tail wags rude and ginger.[938]

‘Dan Gesail Bryn Llaethog’

LLAIS 2
Yn nhŷ Bwtsiwr Beynon, mae Gwawn Beynon, yr athrawes o ferch, wrth ddwfn freuddwydio yn ffereta’n sidêt drwy grugyn o blu ieir mewn lladd-dŷ cysurus, cyrtennog i ganfod, heb syndod, ddyn bach garw, garw, efo rhyfeddod prin o gynffon yn wincio mewn cŵd papur,

GWAWN BEYNON
O’r diwedd, ’nghariad i

LLAIS 2
ochneidia Gwawn Beynon. Ac mae’r rhyfeddod prin yn siglo, yn ddigywilydd goch.[939]

Yn hytrach na chyfieithu’r disgrifiad o’r ‘bushy tail’ yn llythrennol o’r Saesneg a chyfeirio’n uniongyrchol at ‘gynffon’ y dyn ym mreuddwyd Gossamer Beynon, penderfynodd Roberts ddisgrifio’r ‘bushy tail’ hwnnw yn ogleisiol o amwys fel ‘rhyfeddod prin’ – disgrifiad sy’n rhwym o’n hatgoffa o gerdd R. Williams Parry, ‘Y Llwynog’: ‘Llwybreiddiodd ei ryfeddod prin o’n blaen’.[940] Atgyfnerthir y ddelwedd ffalig o’r gynffon yn yr olygfa hon gan y cyfeiriad awgrymog at y ‘cŵd papur’ (cyfieithodd T. James Jones ‘paper carrier’ fel ‘bag papur’). Dyma enghraifft wych o Roberts yn domestigeiddio’r testun wrth gyfieithu. Cawn yma jôc fewnol rhwng y cyfieithydd a’i gynulleidfa darged, a fyddai, yn fwy na thebyg, yn gyfarwydd â cherdd eiconig R. Williams Parry.

Enghraifft arall sy’n haeddu sylw yn y cyswllt hwn yw’r adlais o emyn Pantycelyn, ‘Rwy’n edrych dros y bryniau pell’, yn nisgrifiad Eigra Lewis Roberts o’r Parchedig Eli Jenkins yn ‘agor y drws ffrynt, yn sefyll ar y trothwy ac yn syllu allan ar y dydd a thros y bryniau pell.’[941] Ceir hefyd adleisiau emynyddol yng nghyfieithiad Roberts o weddi fachlud y cymeriad hwn:

Yn y bore gyda’r wawr

[938] Ibid., tt. 14–15.
[939] Roberts, sgript ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’, tt. 7–8.
[940] R. Williams Parry, *Yr Haf a Cherddi Eraill* (Dinbych, 1978), t. 22.
[941] Roberts, sgript ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’, t. 11.

Un weddi rof, fy Arglwydd mawr,
O, cadw'th lygad ar y byd
A'i greaduriaid gwael a mud.

Bob nos ar fachlud haul rhof lef
I ofyn bendith ar y dref,
Ni wyddom pryd daw'n diwedd ni
Ond plygu wnawn i'th 'wyllys di.

Cymysgedd ydym ni, O Dduw,
Sydd dan Fryn Llaethog yma'n byw,
O bawb, y cyntaf fyddi di
I weld rhinweddau ynom ni.

Rho inni oriau eto i'w byw
A'th fendith arnom heno, Dduw,
Plygwn i'r haul a'i gryfder o
A dweud nos da – dim ond dros dro.[942]

Rhoddwyd cryn sylw ym Mhennod 3 i'r portread o'r bardd-bregethwr yn y ddrama, ac felly, yng ngoleuni'r gyfeiriadaeth at Pantycelyn a'r adleisiau emynyddol yn y weddi fachlud, fe dâl inni edrych yn fanylach ar y portread ohono yn 'Dan Gesail Bryn Llaethog' yn benodol. Dyma sut y cyflwynir y cymeriad hwn am y tro cyntaf yn *Under Milk Wood*, *Dan y Wenallt* a 'Dan Gesail Bryn Llaethog':

<u>*Under Milk Wood*</u>

And in Coronation Street, which you alone can see it is so dark under the chapel in the skies, the Reverend Eli Jenkins, poet, preacher, turns in his deep towards-dawn sleep and dreams of

REV. ELI JENKINS

Eisteddfodau.

He intricately rhymes, to the music of crwth and pibgorn, all night long in his druid's seedy nightie in a beer-tent black with parchs.[943]

<u>*Dan y Wenallt* (1968)</u>

Ac yn Heol y Brenin lle gellwch chwithau weld mor dywyll yw hi dan y capel yn y nefoedd, fe dry'r Parchedig Eli Jenkins bardd-bregethwr yn ei gwsg tua'r wawr i freuddwydio am

PARCH. ELI JENKINS

[942] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 42.
[943] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 17.

eisteddfodau

LLAIS
Mae'n odli'n gymhleth i gyfeiliant crwth a thelyn drwy'r nos hir, mewn gŵn-nos gwisg yr orsedd mewn pabell gwrw sy'n pingo o barchedigion.[944]

'Dan Gesail Bryn Llaethog'

LLAIS
Ac yn Heol y Brenin, nas gwêl ond eich llygaid chwi o dan ambarél y nefoedd, mae'r Parchedig Eli Jenkins, y bardd bregethwr, yn troi'n drwm yn ei gwsg ac yn breuddwydio am ...

ELI JENKINS
Eisteddfodau!

LLAIS
Mae'n codli odli, i fiwsig crwth a thelyn ['ac organ' sydd yn y drafft gwreiddiol – 'a thelyn' wedi'i ychwanegu mewn nodyn ar y sgript], drwy gydol y nos yn ei goban dderwyddol mewn cyfarfod misol sy'n ddu gan barchedigion.[945]

Sylwer, o gymharu'r ddau gyfieithiad, fod Eli Jenkins yn gwisgo 'gŵn-nos gwisg yr orsedd' yn *Dan y Wenallt* a'i fod yn gwisgo '[c]oban dderwyddol' yn 'Dan Gesail Bryn Llaethog' ('druid's seedy nightie' yn y gwreiddiol). Fel y nodwyd eisoes, y mae'r cyfeiriad at yr orsedd gan T. James Jones yn amlygu'r ffaith fod y traddodiad barddol ac eisteddfodol wedi ysbrydoli'r ddelwedd wreiddiol o weinidog llengar eisteddfodol ei ddiddordebau. Y mae'n ddiddorol sylwi bod y ddau gyfieithydd wedi hepgor yr ansoddair anhyfryd 'seedy' yn y cyswllt hwn. Yn ogystal, sylwn fod 'beer tent' Dylan Thomas wedi troi yn '[g]yfarfod misol' yng nghyfieithiad Roberts. Tybed a ellir awgrymu bod yr hepgoriadau hyn yn arwyddo awydd (ymwybodol? anymwybodol?) i barchuso'r Parchedig Anghydffurfiol hwn? Difyr hefyd yw sylwi bod Jones a Roberts wedi newid 'pibgorn' yn 'delyn' ac mai 'organ' oedd gan Roberts yn y drafft gwreiddiol. Gellir dadlau bod 'telyn' yn offeryn sy'n atgyfnerthu'r ddelwedd draddodiadol, ystrydebol o Gymreictod a geir yma.

Tra diddorol hefyd yw'r disgrifiad o Eli Jenkins yn 'codli odli' yng nghyfieithiad Roberts. Ystyr 'codlio', yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, yw 'cawdelu, cymysgu, cyboli; dyfeisio, ffugio; baldorddi, siarad ffwlbri'.[946] Gellir cynnig felly fod 'codli odli' yn ddisgrifiad gwych o farddoniaeth Eli Jenkins. Fel y gwyddwn, nid yw'n fardd arbennig. Y mae ei benillion

[944] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 32.
[945] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 10.
[946] *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 'codlio', <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>; cyrchwyd 29 Tachwedd 2019.

yn syml ac yn sentimental (er yn delynegol bert). Ac y mae 'codli odli' yn awgrymu mai rhyw botsian barddoni a wna'r bardd-bregethwr, sy'n rhoi syniad inni o wir safon ei farddoniaeth. Ond er mor greadigol wych yw'r disgrifiad hwn, fe gollir yr awgrym a geir yn y gwreiddiol mai yn ei freuddwydion yn unig y gall odli'n gymhleth neu gynganeddu. Un o jôcs mwyaf cofiadwy'r ddrama yw methiant – annisgwyl, o bosibl – y bardd-bregethwr i farddoni'n soffistigedig gywrain.

Pan ofynnodd yr awdur presennol i Eigra Lewis Roberts, ble yn union y mae Llaregyb y gogledd – Blaenau Ffestiniog (tref enedigol Roberts), neu Ddolwyddelan – 'Rhywle yn y Gogledd'[947] oedd ei hateb. Y mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn ei bod wedi ychwanegu cyfeiriadau at afon Conwy a'r Fenai at bregeth foreol Eli Jenkins. Gellir cynnig bod cyfeiriadau daearyddol o'r fath yn atgyfnerthu'r syniad o adleoli gogleddol yn y cyfieithiad:

> Ger Sawdde, Dyfrdwy, Dyfi lân,
> Aled a Chonwy lydan,
> Tywi a Thawe, Menai, Taf,
> Llyfnant a'i gawod arian.[948]

O sylwi ar yr arddull a'r nodweddion ieithyddol – yr orgraff, y defnydd o'r 'a' ogleddol ('adra', er enghraifft), yr eirfa, yr idiomau a'r ymadroddion – y mae'n amlwg fod Llaregyb ei hun wedi'i lleoli yn y gogledd-orllewin. Llwyddodd Roberts i ddomestigeiddio'r testun a'i wneud yn berthnasol i'r actorion gogleddol drwy roi ymadroddion ac idiomau tafodieithol cyfarwydd i'r cymeriadau, megis 'Hidia di befo, hogan',[949] 'yn farw gorn',[950] 'ei gwadnu hi',[951] 'chwil ulw gaib',[952] 'golwg legach',[953] 'cysgu llwynog',[954] '[m]anesol',[955] ac ati. Ystyr 'cysgu llwynog', wrth gwrs, yw smalio cysgu. Defnyddia Roberts yr ymadrodd hwn yn ei chyfieithiad i gyfleu natur gynllwyngar a chyfrwys Mr Puw, sy'n esgus cysgu wrth freuddwydio am lofruddio ei wraig:

> *<u>Under Milk Wood</u>*
>
> *Mr Pugh, schoolmaster, fast asleep, pretends to be sleeping, spies foxy round the droop of his nightcap and*

[947] Ibid.
[948] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 12.
[949] Ibid., t. 13.
[950] Ibid., t. 6.
[951] Ibid., t. 9.
[952] Ibid., t. 18.
[953] Ibid., t. 27.
[954] Ibid., t. 10.
[955] Ibid., t. 34.

MR PUGH

Pssst!

whistles up

Murder.[956]

Dan y Wenallt (1968)

Mae Mr. Puw y sgwlyn, yn eigion ei gwsg, yn proffesu cysgu, a chan sbio'n gyfrwys o dan ei gap-nos, yn sydyn mae'n sibrwd

MR PUW

mwrdwr.[957]

'Dan Gesail Bryn Llaethog'

Mae Mr Puw, yr ysgolfeistr, sy'n cysgu llwynog o dan gantel ei gap nos yn dyfeisio...

MR PUW
Mwrdwr.[958]

Sylwer hefyd ar ddefnydd y cymeriad Mrs Puw o'r gair gogleddol, '[m]anesol', yn 'Dan Gesail Bryn Llaethog':

'Dan Gesail Bryn Llaethog'
'Dydi pobol fanesol ddim yn darllen wrth y bwrdd bwyd'[959]

Dan y Wenallt (1968)
'Persone di-faners sy'n darllen wrth y ford'[960]

Under Milk Wood
'Persons with manners do not read at the table'[961]

[956] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 17.
[957] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 32.
[958] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 10.
[959] Ibid., t. 34.
[960] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), t. 77.
[961] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 47.

Y mae '[m]anesol' yn air sy'n crisialu natur gysetlyd a phiwis Mrs Puw ac, yn driw i ethos gyffredinol y ddrama wreiddiol, yn air sy'n dadlennu ac yn gwneud hwyl am ben ffugbarchusrwydd y dosbarth canol.

Er bod Eigra Lewis Roberts yn defnyddio geirfa ac idiomau tafodieithol yn y cyfieithiad, nid yw'r arddull yn orlafar. Un enghraifft sy'n haeddu sylw yn y cyswllt hwn yw'r golygfeydd rhwng Mog Edwards a Myfanwy Price. Cymharer yr arddull a'r cywair yn y dyfyniadau isod:

Under Milk Wood

MR EDWARDS

I am a draper mad with love. I love you more than all the flannelette and calico, candlewick, dimity, crash and merino, tussore, cretonne, crepon, muslin, poplin, ticking and twil lin the whole Cloth Hall of the world. I have come to take you away to my Emporium on the hill, where the change hums on wires. Throw away your little bedsocks and your Welsh wool knitted jacket, I will warm the sheets like an electric toaster, I will lie by your side like the Sunday roast...

MISS PRICE

I will knit you a wallet of forget-me-not blue, for the money to be comfy. I will warm your heart by the fire so that you can slip it in under your vest when the shop is closed...[962]

Dan y Wenallt (1968)

MOG EDWARDS

Ma' caru yn drysu drêper. 'Wy'n dy garu Myfanwy fach yn fwy na'r fflanelét a'r calico, a'r garthen a'r wlanen a'r mwslin a'r poplin a'r gwinio a'r brodio yn holl deilwryddiaeth y byd. 'Wy'i am fynd â ti i'r Emporiwm ar y bryn lle ma'r arian yn hymian ar wifrau tynn. Gad dy sane bach llosg-eira a dy siaced gwlanen Cymru, a mi wresoga' i'r gwely fel toster trydan. Mi orwedda'i'n d'ymyl fel cino Dy' Sul.

MISS PRICE

Mi dwyma' i dy galon o fla'n y tân i ti gael ei rhoi hi nôl o dan dy fest 'rôl cau'r siop. A fe gei di bwrs glas i gadw'r arian yn gras.[963]

'Dan Gesail Bryn Llaethog'

MR EDWARDS

Drepar ydw i sy'n glaf gan gariad. Rydw i'n eich caru chi'n fwy na'r wlanan a'r garthan a'r sidan, y cotwn a'r brethyn, y poplin a'r mwslin, y creton a'r neilon yn holl siopau brethyn y byd. Rydw i am fynd â chi i'r Emporiwm ar y bryn, lle mae'r

[962] Ibid., t. 7.
[963] Jones, *Dan y Wenallt* (1968), tt. 17–19.

> arian yn hymian hyd wifrau. Taflwch ymaith eich sanau gwely a'ch siaced weu gartra. Fe gynhesa i'r cynfasa fel craswr bara, fe orwedda i wrth eich ochor fel cig rhost y Sul.
>
> MISS PREIS
> Fe weua i chi waled o las nad â'n angof, i gadw'r arian yn glyd. Fe gnesa i'ch calon chi wrth y fflama fel y gallwch chi 'i llithro hi dan eich fest wedi i'r siop gau.[964]

Er bod Eigra Lewis Roberts wedi newid yr orgraff mewn mannau i gyfleu'r iaith lafar, ogleddol – 'drepar', 'gwlanan', 'carthan', 'cartra', 'cynfasa' ac ati – y mae'r cywair yn fwy ffurfiol a llenyddol na'r cywair yn *Dan y Wenallt*. Sylwer hefyd fod Mog Edwards yn tydïo ei gariad yn fersiwn T. James Jones, a'i fod, mewn gwrthgyferbyniad, yn ei chyfarch yn ffurfiol fel 'chi' yng nghyfieithiad Eigra Lewis Roberts. Crisielir yn y defnydd (mwy effeithiol) o'r rhagenw 'chi' ffugbarchusrwydd y cymeriadau hyn fel aelodau o'r dosbarth canol newydd, ynghyd â'r ffugbarchusrwydd boneddigaidd, sifalrïaidd yn eu perthynas. Rhan o gomedi (a thrasiedi) y ddrama yw'r ffordd y mae Mog Edwards a Myfanwy Price yn datgan eu cariad yn angerddol mewn llythyrau serch sy'n cael eu darllen gan y postman heb fod ganddynt unrhyw fwriad gwirioneddol o gyfarfod. Y mae pellter cyfleus rhyngddynt, fel y gwelwn yn y dyfyniad isod o 'Dan Gesail Bryn Llaethog':

> LLAIS 1
> Mae Mr Mog Edwards a Miss Myfanwy Preis yn hapus ar wahân yn nau begwn eitha'r dref, yn ysgrifennu'r llythyrau caru nosweithiol. Yn Llyfr Gwyn Llaregyb gallwch weld ynysoedd bychain eu bodlonrwydd.
>
> MYFANWY PREIS
> O, Mog, rwy'n eiddo i chi am byth.
>
> LLAIS 1
> Ac mae'n syllu gyda phleser ar y stafell fach daclus na chaiff Mr Mog Edwards byth ei deintio.[965]

Y mae'n werth cyfeirio yma at ddefnydd Roberts o'r mwysair 'deintio' yn ei chyfieithiad o 'And she looks around with pleasure at her own neat and neverdull room which Mr Mog Edwards will never enter.'[966] Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, prif ystyr 'deintio' yw '[r]hoi dannedd mewn (peth), danheddu, brathu cnoi, cnewian', ond fe'i defnyddir hefyd ar lafar ym Môn ac Arfon yn yr ystyr '"mynd i mewn i, mentro, beiddio agosáu at", "Paid â deintio at y

[964] Roberts, sgript 'Dan Gesail Bryn Llaethog', t. 3.
[965] Ibid., t. 45.
[966] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 62.

tŷ", "Don't go near the house"; "*deintio* i mewn", "to enter".'[967] Yn ogystal â bod yn fodd i'n hatgoffa o'r ddelwedd o'r llygod bach yn cnoi gwaddol Myfanwy Preis ar ddechrau'r ddrama, awgrymir felly yn y mwysair 'deintio' fod ei llofft yn waharddedig ac nad oes ganddi unrhyw fwriad o wahodd Mog Edwards i'w hystafell, heb sôn am ei briodi.

Fel y nodwyd, nid yw'r arddull yn 'Dan Gesail Bryn Llaethog' byth yn orlafar. Hynny yw, gwna Roberts ddefnydd darbodus a chrefftus o eirfa ac idiomau gogleddol. Dyma a ddywedodd Roberts am ei defnydd o dafodiaith yn y cyfieithiad:

> Dw i'n meddwl bod gwaith Dylan, yn sicr, yn fwy addas i dafodiaith y de na thafodiaith y gogledd. Dyna o'n i'n ei chael yn anodd ar adegau, ei gael o i lithro. Mae [tafodiaith y gogledd] yn fwy stiff, 'sa chi'n ddeud, i'r math yma o beth. [...] Dyna o'n i'n drio'i 'neud, ei gael o mor ystwyth â phosib, mor syml â phosib, er mwyn iddyn nhw [yr actorion] gael eu tafoda' rownd y geiria'.[968]

Yn groes i farn Roberts, fodd bynnag, hawdd yw amlhau enghreifftiau o'r cyfieithiad yn gweithio ac yn 'llithro' yn nhafodiaith y gogledd. Fel y nodwyd eisoes, dywedodd Roberts fod y gynulleidfa wedi derbyn 'Dan Gesail Bryn Llaethog' 'fel drama [...] yn hollol naturiol'.[969] Tystia hyn i effeithiolrwydd a dilysrwydd y cyfieithiad, ac i'w lwyddiant fel drama lwyfan yn ei hawl ei hun. Yn ogystal, nid oes raid darllen *Under Milk Wood* i werthfawrogi'r cyfieithiad fel darn o lenyddiaeth yn ei hawl ei hun. Llwyddodd Roberts i ddal a chynnal ysbryd y gwreiddiol drwyddo draw heb dynnu sylw at y ffaith mai cyfieithiad ydyw. Fel y dywed Norman Shapiro:

> A good translation is like a pane of glass. You only notice that it's there when there are little imperfections – scratches, bubbles. Ideally, there shouldn't be any. It should never call attention to itself.[970]

Ond er mor wych yw 'Dan Gesail Bryn Llaethog', pwysig yw cofio na chyfieithodd Roberts y testun cyfan, a hynny am resymau ymarferol. Rhaid bod yn wastadol ymwybodol wrth gymharu 'Dan Gesail Bryn Llaethog' a *Dan y Wenallt* fod T. James Jones, heb os, wedi ymgymryd â thasg lawer iawn mwy.

---

[967] *Geiriadur Prifysgol Cymru*, 'deintio', <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>; cyrchwyd 29 Tachwedd 2019.
[968] Cyfweliad yr awdur presennol ag Eigra Lewis Roberts, 4 Hydref 2019.
[969] Ibid.
[970] Lawrence Venuti, *The Translator's Invisibility* (London/New York, 2008), t. 1.

PENNOD 5: Cyfieithu Barddoniaeth Dylan Thomas

Yn ôl T. James Jones, daeth Cymreigio Dylan Thomas yn 'ymgyrch'[971] ganddo. Ar ôl trosi *Under Milk Wood* i'r Gymraeg a chyfansoddi cerdd, 'Mab ei Dad', sy'n hoelio ein sylw ar gefndir Cymreig a Chymraeg Dylan Thomas, y cam amlwg nesaf yn y broses o Gymreigio'r bardd hwn oedd creu fersiynau Cymraeg o'i farddoniaeth a'i ryddiaith. Cyhoeddodd Jones cyfieithiadau Cymraeg o 'Fern Hill', 'After the funeral', 'Do not go gentle into that good night', 'A Visit to Grandpa's', 'Quite Early One Morning' a 'Return Journey' yn y gyfrol *Nawr* (2008), yn ogystal â fersiynau Cymraeg o 'Once it was the colour of saying', 'And death shall have no dominion' a 'The hunchback in the park' yn y gyfrol *Cymanfa* (2014). Ceir yn y bennod hon astudiaeth destunol fanwl ar y cerddi a gyfieithwyd gan Jones. Byddir yn craffu ar y darnau o ryddiaith a gyfieithwyd ganddo yn y bennod nesaf. Ystyrir yn y ddwy bennod beth yn union a'i symbylodd i greu fersiynau Cymraeg o'r testunau hyn a'u cyhoeddi mewn cyfrolau o farddoniaeth.

Yn ôl Jones:

> *Under Milk Wood* oedd y prif ysgogiad i gyfieithu rhagor o waith Dylan Thomas. Fel y gwelwn *Dan y Wenallt* yn adfer Cymreictod *Under Milk Wood*, mae 'Fern Hill', 'After the Funeral, 'Visit to Grandpa's', 'Quite Early One Morning' bob un yn cyflawni'r un peth. Dim ond Cymraeg y bydde Dylan wedi'i chlywed yn Fernhill. Angladd Gymreig gafodd ei fodryb, Cymraeg fydde iaith Grandpa a Chymraeg fydde prif iaith Cei Newydd yn y pedwardege. [...] Fy atgof plentyn o'r cyrch ar Abertawe a'm hysgogodd i gyfieithu 'Return Journey'. Ac mae themâu amser ac angau yn *Nawr* a *Cymanfa* yn amlwg yng ngwaith Dylan e.e. 'Do not go gentle' ac 'And death shall have no dominion.'[972]

Ac eithrio 'And death shall have no dominion' a gyhoeddwyd yn 1933, y mae'n werth nodi mai barddoniaeth a rhyddiaith a gyhoeddwyd gan Dylan Thomas yn ystod ail hanner ei yrfa farddol (ar ôl 1938) yw'r testunau a gyfieithwyd gan T. James Jones yn *Nawr* a *Cymanfa*. Pobl a llefydd sy'n mynd â bryd Thomas yn y testunau hyn. Fel y noda Walford Davies:

> The later poems [...] celebrate a gallery of whole individuals: from his aunt Ann Jones in 'After the funeral' [...] (1938) to 'The hunchback in the park' (1941) [...] to 'Fern Hill' (1945) to his father, going ill and gentle into that good night in the famous villanelle. It is also notable that in the second half of the poet's career, it is through

[971] Cyfweliad yr awdur presennol â T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen], 16 Awst 2017.
[972] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 10 Mai 2017.

> images with essentially pastoral associations that the dignity of individuals is restored.[973]

Fel y gwelwn yn y man, y mae 'After the funeral', 'Do not go gentle into that good night' a 'The hunchback in the park' yn gweddu'n berffaith i *Nawr* a *Cymanfa* gan fod y cyfrolau hyn yn cynnwys nifer o gerddi cyfarch, teyrngedau a marwnadau i unigolion arbennig. Y mae pobl a pherthyn yn themâu pwysig yn y ddwy gyfrol. Fel y dywed John Roberts yn ei adolygiad o *Cymanfa*: 'Casgliad o bobl yw "cymanfa", ac fe'i ceir rhwng y cloriau hyn.'[974] Yn ogystal, y mae'r ddwy gyfrol yn cynnwys nifer o gerddi sy'n myfyrio ynghylch henaint, marwoldeb ac angau. Fel y gwelwn maes o law hefyd yn y bennod hon, y mae llinynnau cyswllt thematig amlwg rhwng rhai o gerddi gwreiddiol T. James Jones a'r cerddi a gyfieithwyd ganddo.

Dangosir yn y bennod hon mai ei brif nod wrth greu fersiynau Cymraeg o farddoniaeth Dylan Thomas yw arddangos y nodweddion a'r elfennau Cymreig, os nad Cymraeg, yng ngwaith Thomas. Yn wir, gellir dadlau mai sylwebaeth ar Gymreictod Thomas a geir yn y testunau a gyfieithwyd ganddo. Fel y dywed D. G. Rosetti: 'A translation remains perhaps the most direct form of commentary'.[975] Rhaid nodi ar ddechrau'r bennod hon sut y dylid diffinio'r testunau a gyfieithwyd ganddo. Fe'u gelwir gan T. James Jones yn 'fersiynau' – diffiniad sy'n rhoi mwy o benrhyddid iddo ddehongli, addasu ac aralleirio'r testunau wrth eu trosi o'r Saesneg i'r Gymraeg. Er bod pob 'cyfieithiad' yn ei hanfod yn 'fersiwn' o'r testun ffynhonnell (*source text*), wrth gwrs, y mae modd, drwy hollti blew, wahaniaethu rhwng y ddau ddiffiniad. O gymharu'r ddau derm, y mae'r gair 'cyfieithiad' yn awgrymu bod y testun targed yn ymgais i lynu'n llythrennol ac mor agos â phosibl wrth y testun ffynhonnell tra mae'r gair 'fersiwn' yn fwy penagored. Gall 'fersiwn' fod yn ddehongliad creadigol newydd o'r gwreiddiol – yn drosiad, yn aralleiriad neu'n addasiad – y mae'n fwy na chyfieithiad air am air yn unig. Yn wir, y mae 'fersiynau' T. James Jones o gerddi Dylan Thomas yn gerddi newydd yn eu hawl eu hunain – nid cyfieithiadau slafaidd mohonynt. Fel y gwelwn yn y man, gall glynu'n rhy agos at y testun gwreiddiol faglu cyfieithydd a gais drosi barddoniaeth. A defnyddio term Francis R. Jones, gellir galw fersiynau T. James Jones yn 're-creative translations':

> What might be called re-creative translations aim to convey not just the source's complex link between imagery and 'core sense of the words' […] but also its poetic effects, in a viable receptor-culture poem. Rather than trying (and inevitably failing)

[973] Walford Davies, *Dylan Thomas*, Cyfres 'Writers of Wales' (Cardiff, 2014), t. 64.
[974] John Roberts, 'Adolygiad: *Cymanfa*' yn *Barddas*, 323 (Haf 2014), t. 55.
[975] Dyfynnir gan Eugene Nida, 'Principles of Correspondence', yn Lawrence Venuti (gol.), *The Translation Studies Reader* (London, 2012), t. 141.

> to find exact 'equivalents' for all a source poem's features, re-creative translators seek 'counterparts' and 'analogues'.[976]

Ond pwysig yw nodi fod fersiynau creadigol, Cymraeg T. James Jones o gerddi Dylan Thomas hefyd yn dilyn patrymau'r gwreiddiol yn weddol ffyddlon a'u bod yn drosiadau manwl yn driw, ar y cyfan, i arddull Thomas. Ni roddodd Jones ormod o ryddid iddo'i hun wrth greu fersiynau ohonynt.

Yn ddiau, y mae awydd T. James Jones i 'adfer' Cymreictod Dylan Thomas yn lliwio'i fersiynau Cymraeg o'r cerddi. Ceir ymgais gan Jones i amlygu'r ffordd yr oedd y bardd hwn yn cael ei ysbrydoli'n greadigol gan Gymru – ei chymunedau, ei diwylliant a hyd yn oed yr iaith Gymraeg, er gwaethaf ei agwedd honedig ffwrdd-â-hi tuag ati. Gwelwn o graffu ar ei fersiynau o'r cerddi fod Jones wedi eu haddasu a'u 'domestigeiddio' ar gyfer y diwylliant targed, hynny yw, eu gwneud yn fwy perthnasol i ddarllenwyr Cymraeg. Yn y cyswllt hwn, y mae 'domestigeiddio' yn derm defnyddiol sy'n disgrifio'r dulliau a ddefnyddir gan Jones i Gymreigio'r cerddi, megis ei ddefnydd o dafodiaith, y gynghanedd a chyfeiriadaeth lenyddol Gymraeg.

Dylid nodi hefyd ar ddechrau'r ymdriniaeth hon nad oes y fath beth â chyfieithiad perffaith, diffiniol, yn yr ystyr o atgynhyrchiad cyflawn o gyfoeth unigolyddol, ac unigryw, y gwreiddiol. Fel y dywed Eugene Nida:

> In many instances [...] one simply cannot reproduce certain formal elements of the source message. For example, there may be puns, chiasmic orders of words, instances of assonance, or acrostic features of line-initial sounds which completely defy equivalent rendering.[977]

Gellir dadlau bod cyfieithiad llwyddiannus yn un sy'n 'gydnaws' â'r gwreiddiol o ran cynnwys, mynegiant ac arddull. Un nod bosibl yw y dylai'r mynegiant fod yn naturiol ac yn rhwydd yn y cyfieithiad fel petai wedi'i ysgrifennu yn yr iaith darged yn y lle cyntaf. Ac eto, wrth gyfieithu barddoniaeth, rhaid wrth ryw gymaint o gyfaddawdu, yn anorfod. Y mae'n rhaid i'r cyfieithydd geisio ymgyrraedd at ryw lwybr canol wrth gyfieithu cerdd, oherwydd gall arddull neu ffurf y gerdd wreiddiol honno gyfoethogi neu daflu goleuni ar ei chynnwys ac atgyfnerthu ei neges. Pan nad oes modd cyfaddawdu rhwng cynnwys ac arddull, yn aml iawn, fe orfodir y cyfieithydd i flaenoriaethu un elfen ar draul y llall. Awgryma Francis R. Jones mewn ysgrif

---

[976] Francis R. Jones, 'The Translation of Poetry' yn Kirsten Malmkjær a Kevin Windle (goln), *The Oxford Handbook of Translation Studies* (Oxford, 2011), t. 172.
[977] Nida, 'Principles of Correspondence', t. 150.

sy'n trafod cyfieithu barddoniaeth ei bod yn anodd iawn i gyfieithydd atgynhyrchu holl nodweddion y gerdd wreiddiol mewn cyfieithiad. Gan gyfeirio at safbwyntiau'r theorïwr André Lefevere a'r bardd Robert Frost ynghylch cyfieithu barddoniaeth, dywed Jones fod methiant y cyfieithydd i atgynhyrchu'r berthynas rhwng delweddaeth, semanteg a ffurf wedi esgor ar y syniad mai methiant neu golled yw cyfieithu barddoniaeth:

> Some lament the loss of source-text reproduction, as in Lefevere's view that most poetry translations 'are unsatisfactory renderings of the source text' because they fail to capture its totality. Others lament the loss of target-text quality, as in Robert Frost's reputed saying that 'poetry is what is lost in translation'.[978]

Perthnasol yn y cyswllt hwn yw disgrifiad C. W. Orr o'r broses o gyfieithu barddoniaeth: 'the painter does not reproduce every detail of the landscape'.[979] Y mae'r cyfieithydd, fel yr artist, yn gorfod dewis a dethol yr hyn sydd, yn ei dyb ef, yn werth ei atgynhyrchu mewn cyfieithiad. Gellir cymhwyso disgrifiad Orr at y dull yn y bennod hon hefyd. Ni fyddir yn trafod yma bob llinell o farddoniaeth, ond, yn hytrach, yn dewis a dethol enghreifftiau arwyddocaol o gyfieithu sy'n teilyngu sylw beirniadol manwl. Byddir yn archwilio ac yn damcaniaethu ynghylch strategaethau cyfieithu T. James Jones, gan bwyso a mesur pa mor llwyddiannus yw ei ymdrechion i drosi barddoniaeth Dylan Thomas i'r Gymraeg. Amlygir yn yr ymdriniaeth hon nid yn unig ddyfeisgarwch a disgleirdeb Jones fel cyfieithydd creadigol, ond hefyd ei ddawn a'i nodweddion diffiniol fel bardd yn ei hawl ei hun. Yng ngeiriau Edmond Cary: 'Pour traduire les poètes, il faut savoir se montrer poète'[980]

Perthnasol yng nghyswllt y bennod hon yw cyfeirio'n fyr at yr hyn a ddywed Susan Bassnett am strategaethau cyfieithu. Cyfeiria Bassnett yn benodol at saith strategaeth a restrwyd gan André Lefevere mewn cyfrol sy'n trafod y dulliau a ddefnyddiwyd gan gyfieithwyr Saesneg i gyfieithu 'Poem 64' y bardd Lladin Catullus: cyfieithiad ffonemig; cyfieithiad llythrennol; cyfieithiad mydryddol; barddoniaeth i ryddiaith; cyfieithiad odledig; cyfieithiad di-odl; a dehongliad.[981] Gwelwn yn y bennod hon fod mwy nag un o'r strategaethau cyfieithu a restrir gan Lefevere ar waith yn fersiynau T. James Jones. Fel y dywed Francis R.

---

[978] Jones, 'The Translation of Poetry', t. 172.
[979] Dyfynnir yn Nida, 'Principles of Correspondence', t. 146.
[980] Dyfynnir yn Kevin Windle, 'The Translation of Drama', yn Malmkjær a Windle (goln), *The Oxford Handbook of Translation Studies*, t. 155.
[981] Susan Bassnett, *Translation Studies* (London & New York, 1988), t. 81.

Jones: 'final versions rarely fall into one of the archetypes proposed by Lefevere (phonemic, semantic, metrical, prose, rhyming, etc), but are usually hybrid in nature.'[982]

Cerddi Fernhill: 'Fern Hill' ac 'Wedi'r cynhebrwng'

Cyn mynd i'r afael â fersiwn T. James Jones o 'Fern Hill', dylid nodi bod L. Haydn Lewis wedi rhoi cynnig ar gyfieithu'r gerdd hon i'r Gymraeg hefyd. Teitl ei drosiad yw 'Bryn Rhedyn' ac fe'i hysgrifennodd ym mis Rhagfyr 1953, fis ar ôl marwolaeth Dylan Thomas. Cyhoeddwyd y gerdd yn 1963 yn ei gyfrol *Cerddi Cyfnod*. Fel y nodwyd yn y bennod ar gerddi eisteddfodol cynnar T. James Jones, Haydn Lewis yw'r bardd a gipiodd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Maelor 1961. Y testun gosod oedd 'Ffoadur' ac fe luniodd Lewis gerdd am fywyd a gwaith Dylan Thomas. Yn ôl Lewis, ni cheir 'ymgais o gwbl i efelychu ei "fydryddiaeth" na'i "feddwl" yn y bryddest ("Ffoadur"), er i rywrai awgrymu hynny',[983] ond ceir 'dyfyniadau o'i waith yn y bryddest',[984] sef dyfyniadau a gyfieithwyd ganddo i'r Gymraeg, er enghraifft: 'y grym sydd yn gyrru / trwy hafn y blagur'[985] ('The force that through the green fuse drives the flower'); 'Amser a roes i ti chwarae, a bod / yn euraid o fwynder ei foddau...'[986] ('Fern Hill'); 'Er yn noeth, neu yn wallgof, er myned o'r oed, / neu er marw yn nyfnder y môr ... cyfodant drachefn',[987] 'ac Angau mwy ni bydd ben'[988] ('And death shall have no dominion'); 'Ar dy daith i'r nefoedd, / yn dy ddegfed-ar-hugain...'[989] ('Poem in October'). Y mae'n werth nodi hefyd fod Lewis wedi cyfieithu llinellau o 'Fern Hill' a'u cynnwys yn ei ysgrif 'Dylan Thomas a'i Feirniaid':

> Y nos uwch y pantle'n sêr
> Amser a roes imi ddringo a galw
> Yn euraidd yn uchter ei lygaid.[990]

Diddorol yng nghyswllt ymgyrch T. James Jones i adfer Cymreictod Dylan Thomas yw sylwadau Haydn Lewis am 'deithi' barddoniaeth a rhyddiaith Thomas – agwedd sy'n 'neilltuol

---

[982] Jones, 'The Translation of Poetry', t. 174.
[983] L. Haydn Lewis, 'Dylan Thomas a'i Feirniaid', *Y Traethodydd*, XXXI (1963), t. 87.
[984] Ibid.
[985] Idem, 'Ffoadur' yn J. T. Jones (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*: *Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Dyffryn Maelor 1961* (Llandysul, 1961), t. 58.
[986] Ibid., t. 59.
[987] Ibid.
[988] Ibid., t. 66.
[989] Ibid., t. 63.
[990] Idem, 'Dylan Thomas a'i Feirniaid', t. 83.

o ddiddorol i ni Gymry', chwedl Lewis.[991] Yr hyn a olygir ganddo wrth 'deithi' yw 'cefndir cenedligol, naws, neu wreiddiau-hanes, a gwreiddiau-iaith'.[992] Â rhagddo i ddadlau bod llenorion Eingl-Gymreig fel Dylan Thomas

> yn ymwybodol neu'n anymwybodol, yn 'cario drosodd' i'w gwaith eu hetifeddiaeth genedligol. Wedi'r cyfan, o leiaf hyd y gwn yn amgen, yr oedd Dylan Thomas yn 'ŵyr i frawd' i'r gwrthryfelwr a'r bardd, tanbaid os tirion, o Gymro – Gwilym Marles. Mae'n ddigon sicr hefyd iddo ymgydnabyddu cryn dipyn o bryd i'w gilydd ag ieithwedd ac idiom 'led-Gymreig' Abertawe a rhai o ffermydd Sir Gâr (o fath *Fernhill*).[993]

Wrth drafod cyfrol feirniadol, 'ymosodol' David Holbrook, *Llareggub Revisited*, sy'n 'melltithio' Dylan Thomas am ei 'an-Seisnigrwydd' a'r '"hwyl" anllad, ddiystyr a difäol' yn ei waith, noda Lewis mai 'ynfydrwydd' yw 'collfarnu Dylan am iddo, rywsut, ac [...] nid heb gymorth rhiniau pell a chudd ei "Gymreigrwydd", ennyn "trydan a thân" yn yr iaith Saesneg!'[994] Dywed Lewis hefyd nad yw Holbrook yn rhoi sylw i 'deithi' barddoniaeth a gwaith Dylan Thomas yn ei gyfrol, 'oddieithr un [sylw] sarhaus'.[995] Yn ogystal, wrth esbonio ei resymau dros drafod bywyd a gwaith Dylan Thomas yn ei bryddest 'Ffoadur', awgryma fod ganddo ddiddordeb mawr yn natur Cymreictod y bardd:

> I mi hefyd gael fy 'notio' dipyn gan ddirgelwch problem ddyrys ac anodd 'teithi' neu 'genedligrwydd' Dylan, a oedd [...] yn 'ŵyr i frawd' i Gwilym Marles, ac yn ddigon eglur yr un a oedd hefyd am y pared o hyd â'r bywyd gwledig Cymreig cyntefig neu gysefin y perthynai ei ach iddo.[996]

Tra diddorol yn y cyswllt hwn yw ymateb y Parchedig Simon B. Jones i'w bryddest arobryn. Awgrymodd Jones fod Haydn Lewis wedi '[t]reio "Achub" Dylan'.[997] Yn sicr, y mae mwy nag un ffordd o ddehongli'r datganiad amwys hwn gan fod Lewis, nid yn unig yn trafod bywyd Dylan Thomas yn ei bryddest, ond hefyd wedi britho'r gerdd â chyfieithiadau Cymraeg o rai o linellau enwocaf y bardd. Y mae'n deg gofyn felly pa fath o 'achubiaeth' sydd gan Simon B. Jones dan sylw yma – achubiaeth foesol ynteu achubiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, neu'r ddwy?

---

[991] Ibid., t. 85.
[992] Ibid.
[993] Ibid.
[994] Ibid.
[995] Ibid.
[996] Ibid., t. 87.
[997] Ibid.

Yn ogystal â 'Fern Hill', cyhoeddodd Haydn Lewis drosiad Cymraeg o 'And death shall have no dominion' ('Angau mwy ni bydd ben') yn *Cerddi Cyfnod*, ynghyd â throsiad o 'In my craft or sullen art' ('Fy Nghrefft Gaeth') yn *Eisin (Cerddi Ychwanegol).*[998] Ni fyddir yn cymharu fersiynau T. James Jones â throsiadau Haydn Lewis yn fanwl yn y bennod hon, ond byddir yn cyfeirio yma a thraw at enghreifftiau penodol o gyfieithu gan Lewis er mwyn taflu goleuni ar strategaethau cyfieithu Jones. Er enghraifft, wrth edrych ar drosiad Haydn Lewis o 'Fern Hill', sef 'Bryn Rhedyn', ochr yn ochr â fersiwn T. James Jones, fe'n trewir ar unwaith gan benderfyniad doeth Jones i beidio â chyfieithu teitl y gerdd i'r Gymraeg – doeth oherwydd bod y teitl, fel cerdd ac fel lle penodol (y fferm yn Sir Gaerfyrddin), bellach mor eiconig. Yn eironig ddigon, fel y gwelsom eisoes yn yr astudiaeth hon y dull cyfieithu gorau weithiau yw peidio â chyfieithu.

Cyn trafod y gerdd ei hun, fe dâl inni ystyried hefyd sut y mae fersiwn T. James Jones o 'Fern Hill' yn gweddu i'r gyfrol *Nawr*. Cerdd hiraethus a chwerwfelys am blentyndod yw cerdd Dylan Thomas. Y mae Thomas yn ail-fyw hafau braf ei blentyndod yn y fan hon dan gysgod henaint ac angau. Fe'i disgrifiwyd ganddo fel 'a poem for evening and tears'[999] gan ei bod yn cyfleu nid yn unig yr ymdeimlad o fod yn ifanc, ond yr ymdeimlad o fod wedi bod yn ifanc unwaith – 'In the sun that is young once only'.[1000] Cyfleir ynddi fod amser yn gyfaill ac yn elyn i bob un ohonom. Fel y dywed Gwyn Thomas, 'y mae yna'r cnul sydd yng nghefndir ei holl waith, sef *"time passes"*.'[1001] Ac, fel y gwelwn yn y bennod hon, y mae'r cnul hwnnw i'w glywed ym marddoniaeth T. James Jones hefyd. Sylwer, er enghraifft, fod teitlau ei gyfrolau *Eiliadau o Berthyn* a *Nawr* yn ymwneud yn uniongyrchol ag amser. Trysori'r eiliadau o berthyn hynny yw ei nod a'i neges yn y gyfrol o'r un enw: er gwaethaf byrhoedledd yr eiliadau, y mae'r ymdeimlad o berthyn yn dragwyddol. Gwerthfawrogi'r presennol yw ei neges fawr yn *Nawr*. Noda Jones yn ei ragair i'r gyfrol hon fod chwe blynedd wedi mynd heibio er iddo gyhoeddi cyfrol o gerddi, sef *Diwrnod i'r Brenin* (2002), a bod y cyfnod hwnnw wedi bod yn 'gyfnod o golledion ac enillion'[1002] personol a adlewyrchir ganddo mewn cerddi am brofedigaethau a genedigaethau, marwnadau a cherddi cyfarch ar achlysuron hapusach. Gan fod bywyd a marwolaeth yn themâu pwysig yn y gyfrol *Nawr*, hawdd yw deall pam y

[998] L. Haydn Lewis, 'Angau mwy ni bydd ben', yn *Cerddi Cyfnod* (Caernarfon, 1963), t. 58; 'Fy Nghrefft Gaeth', yn *Eisin (Cerddi Ychwanegol)* (Lerpwl, 1969), t. 36.
[999] Ralph Maud, *Where Have the Old Words Got Me?: Explications of Dylan Thomas's Collected Poems* (Cardiff, 2003), t. 92.
[1000] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953* (London, 1989), t. 134.
[1001] Gwyn Thomas, 'Barn Tri am DT', *Barddas*, 324 (Hydref 2014), t. 41.
[1002] T. James Jones, *Nawr* (Cyhoeddiadau Barddas, 2008), t. 7.

penderfynodd T. James Jones gynnwys 'Fern Hill' ynddi. Nododd Dylan Thomas mewn llythyr at ei gyhoeddwyr, a phroflenni ei gyfrol *Deaths and Entrances* eisoes wedi eu cynhyrchu, fod 'Fern Hill' yn 'essential part of the feeling and meaning'o'r gyfrol honno, ac y dylid, felly, ei hychwanegu a'i chynnwys yn y casgliad.[1003] Yn yr un modd, gellir cynnig bod y fersiwn Cymraeg o 'Fern Hill' yn gweddu'n berffaith i'r gyfrol *Nawr*, sydd, fel *Deaths and Entrances,* yn archwilio prosesau bywyd, yn enedigaethau a marwolaethau. Fel y dywed Walford Davies:

> Dylan [...] was much possessed by time. He was also 'much possessed by death' – or as Thomas put it 'I sit and watch the worm beneath my nail / Wearing the quick away'. The possession came to be imagistically less morbid as the career developed, but a preoccupation with time remained.[1004]

Gellir cynnig bod T. James Jones 'wedi'i feddiannu' yn yr un modd gan amser ac angau. Tra pherthnasol yn y cyswllt hwn yw cyfeirio at y gerdd 'Amser' a gyhoeddwyd gan Jones yn ei gyfrol *Nawr.* Ymddangosodd am y tro cyntaf yn *Diwrnod i'r Brenin* ac y mae'r ffaith ei fod wedi ei hailgyhoeddi chwe blynedd yn ddiweddarach yn *Nawr* yn tystio ei bod yn gerdd bwysig iddo. Fel yr awgryma'r teitl, treigl amser yw ei phrif thema. Diddorol hefyd yw sylwi bod teipograffi'r gerdd yn debyg iawn i deipograffi 'Fern Hill'. Y mae teipograffi'r ddwy gerdd yn creu siâp awrwydr sy'n amlygu'r thema yn weledol ar y dudalen.

Cofnodir yn 'Amser' hanes tad T. James Jones a chwech o ffermwyr eraill yr ardal 'un cynhaeaf llafur pan oedd y tywydd yn ddigon ddi-ddâl, pob un â bwcwl ei ganfas wedi rhwygo' yn disgwyl i Tomi Sadler drwsio'r canfasau 'a'u hamynedd brinned â'u hamser'.[1005] Yr oedd 'y cloc yn taro awr ddiweddarach o lawer yn y dydd pan oedd y saith ffermwr rhwystredig', chwedl Jones, 'ar ganol eu cynhaeaf llafur, yn gwyniasu am gywiro'r canfasau gynted â phosib er mwyn cael mynd 'nôl i'w perci cyn i'r cwmwl oedd uwch eu pennau arllwys ei lwyth o rwystr pellach',[1006] pan ddaeth crwt bach penfelyn 'â'i gwrlyn / yn gudyn whip dros ei dalcen'[1007] i gefn y ciw yn y siop â 'phêl leder fflat'.[1008] Cyfleir yn y gerdd fod amser yn llusgo wrth i'r ffermwyr diamynedd wylio Tomi yn pwytho ac yn pwmpio pêl y bachgen: 'cnul y cloc yn ddidrugaredd, / a'r pwytho manwl yn dragwyddoldeb.'[1009] Dywed T. James Jones fod disgrifiad ei dad o'r bachgen hwn yn ei atgoffa o'r

---

[1003] Walford Davies, *Open Guides to Literature: Dylan Thomas* (Milton Keynes, 1986), t. 87.
[1004] Idem, *Dylan Thomas*, tt. xi–xii.
[1005] T. James Jones, *Jim Parc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 134.
[1006] Ibid.
[1007] Idem, *Nawr*, t. 41.
[1008] Ibid.
[1009] Ibid.

> crwt a enwid yn 'Kairos', sef un o eiriau'r Groegiad am 'amser' – crwt bach a allai hedfan, a chanddo gudyn o wallt yn tyfu o'i dalcen, a'r unig ffordd i'w ddala fyddai gafael yn ei gudyn wrth iddo hedfan heibio.[1010]

Y mae'n werth oedi yma i sylwi ar ddisgrifiad diddorol T. James Jones o gudyn gwallt y bachgen yn y gerdd:

> Wele bêl fel newydd yng nghôl y penfelyn,
> ei gwrlyn-caseg-ben-fedi, serch y rhegfeydd,
> yn herio'r crymane.[1011]

Cyfeiriad yw hwn at ddefod ar ddiwedd y cynhaeaf llafur. Esbonia T. James Jones yn ei lêngofiant y 'gadewid rhyw droedfedd sgwâr o'r llafur heb ei dorri', ac yna, fe 'blethid pen y tusw hwnnw ar ei sefyll. Safai pawb wedyn ryw ddecllath oddi wrtho, a thaflai pawb yn ei dro ei gryman ato, a'r sawl a'i torrai'n llwyr a gariai'r tusw i'r tŷ.'[1012] Ochr yn ochr felly â delwedd glasurol, fytholegol o chwedlau'r Groegiaid, ceir yma ddelwedd amaethyddol, Gymreig sy'n ein hatgoffa o'r hen ffordd o ffermio ac sy'n ein gwreiddio yng nghefn gwlad Sir Gâr. Difyr hefyd yw'r ffordd y mae Jones yn ieuo'r ddau fyd ynghyd wrth ddisgrifio Tomi'r Sadler yn y pennill olaf fel y 'Sadler Socratig'. Dyma ddisgrifiad sy'n cyfleu mor ddwys yw ei ddoethineb cefn gwlad. Ar ôl trwsio a dychwelyd y bêl i'r bachgen, y mae Tomi yn troi at y ffermwyr ac yn adrodd llinell o 'boetri pur', chwedl Jones, sy'n tawelu'r tuchan a'r rhegi:

> A'r crwt yn hedfan i'w orwel
> sionced â Kairos, wele sylw'r Sadler Socratig:
> 'Ma' amser whare'n brin.'
> Gostegodd, cytunodd pob cap.[1013]

Fel y noda T. James Jones, un o brif themâu cerddi Dylan Thomas yw 'gormes amser ar ein meidroldeb'[1014] ac y mae'r llinell ergydiol honno, 'Ma' amser whare'n brin', yn y gerdd 'Amser' yn crisialu neges 'Fern Hill' i'r dim. Nid amherthnasol yn y cyswllt hwn yw'r hyn a ddywed Rhianedd Jewell, sy'n trafod y cysylltiad rhwng y cyfieithydd a'r awdur gwreiddiol:

> Dadleua Eugene Nida […] fod gofyn am gysylltiad cryfach rhwng y cyfieithydd a'r awdur gwreiddiol. Awgryma y dylai cyfieithydd da fod yn debyg i'r awdur y mae e'n cyfieithu ei waith. Dylent rannu cefndir cymdeithasol tebyg a fydd yn galluogi dealltwriaeth drylwyr o syniadau ei gilydd ac felly o gynnwys yr hyn a gyfieithir.[1015]

[1010] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 134.
[1011] Idem, *Nawr*, t. 41.
[1012] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 134.
[1013] Idem, *Nawr*, t. 41.
[1014] Idem, 'O *Milk Wood* i'r *Wenallt*', *Barddas*, 249 (Tachwedd/Rhagfyr 1998), t. 21.
[1015] Rhianedd Jewell, *Her a Hawl Cyfieithu Dramâu: Saunders Lewis, Samuel Beckett a Molière* (Caerdydd, 2017), t. 177.

Yn achos fersiynau Cymraeg T. James Jones o gerddi Dylan Thomas, gellir cynnig nad parch at Thomas ac edmygedd ohono yn unig a'i hysgogodd i gyfieithu ei farddoniaeth, ond 'dealltwriaeth drylwyr' o'i syniadau, ei themâu a'i gefndir.

Er nad yw 'Fern Hill' Dylan Thomas yn gerdd frogarol yn yr ystyr fanwl, ni ellir diystyru arwyddocâd y lleoliad sy'n ganolog iddi, sef fferm Fernhill ger Llan-gain yn Sir Gaerfyrddin. Brodor o Sir Gâr, wrth gwrs, yw T. James Jones, gŵr a fagwyd ar fferm Parc Nest ger Castellnewydd Emlyn, ac y mae ei ymdeimlad o berthyn i'w fro yn thema sy'n hydreiddio ei farddoniaeth er dechrau'r yrfa. Yng ngoleuni hyn, hawdd yw gweld pam y byddai cerdd a leolir yng nghefn gwlad Sir Gâr yn apelio ato. Fe dâl inni droi yma at y gerdd 'Parc Nest' a gyhoeddwyd gan Jones yn *Nawr*. Noder mai enwau ffermydd sy'n agos iawn at galonnau'r beirdd yw teitlau'r ddwy gerdd, 'Fern Hill' a 'Parc Nest', ill dwy. Dadlenna T. James Jones yn 'Parc Nest' nad yw Caerdydd, ei gartref presennol, yn ei ysbrydoli i farddoni, ac fe ddychmyga nad yw'r ddinas yn ysgogi cân yr aderyn a welodd yn yr ardd ychwaith:

> nid Caerdydd mo ysgogydd ei gân.
> Ar adain dychymyg yr eir ag yntau
> draws gwlad i barc glas yn Shir Gâr,
> i'r ca-bach-dan-tŷ a chlawdd cyfanfyd
> cymuned y clos.[1016]

'Shir Gâr' sy'n ysgogi cân yr aderyn a chân y bardd, a gellir dadlau bod hyn hefyd, i ryw raddau, yn wir am Dylan Thomas. Fel y dywed T. James Jones:

> roedd Dylan yn cyfansoddi cerddi *genre* barddoniaeth-lle, cerddi a ysbrydolwyd yn bennaf gan fannau a golygfeydd yn Nhalacharn – yn eu plith, 'Poem in October', 'Fern Hill', 'Over Sir John's Hill' a 'Poem on His Birthday'. Hefyd, [...] fe bwysleisiodd mai yng Nghymru yn unig y gallai sgrifennu. Felly, roedd yr ymdeimlad o berthyn i Gymru wedi dod yn elfen allweddol iddo.[1017]

Archwilio ei atgofion o dreulio hafau ei blentyndod ar fferm Fernhill a wna Dylan Thomas yn 'Fern Hill', sef fferm ei fodryb, Ann Jones, yng nghefn gwlad Sir Gâr. Y mae'n werth nodi nad 'Fern Hill' yw'r unig ddarn creadigol o eiddo Thomas a ysgogwyd gan ei brofiadau o dreulio cyfnodau ffurfiannol o'i fywyd yn ne-orllewin Cymru. Ystyrier 'The Peaches' (Llan-gain), 'After the funeral' (Llan-gain eto), *Under Milk Wood* (Talacharn/Ceinewydd) ac 'A Visit to Grandpa's' (Llansteffan), er enghraifft. Fel y noda T. James Jones:

[1016] Jones, *Nawr*, t. 67.
[1017] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 19.

> Roedd Annie, chwaer Fflorie, mam Dylan, yn ffarmio Fern-hill, ffarm fach ar gyrion Llan-gain na chlywai ei stoc o bâr o geffylau, ychydig wartheg, moch a chŵn fawr ddim Saesneg. Câi Dylan groeso gan Annie, ei gŵr, Jim, ac Idris, eu mab, i dreulio gwyliau haf yno. Clywai'r crwt o swbwrbia Seisnig Abertawe lif o Gymraeg ar glos Fern-hill ac ar ffermydd cyfagos, ym mart Caerfyrddin ac yng nghapel Annibynwyr Smyrna, Llan-gain.[1018]

Wrth drafod cefndir teuluol Thomas, sylwer bod Jones yn manylu ar Gymreictod yr ardal. Y mae'r cyfeiriadau penodol at y diffyg Saesneg a'r '[l]lif o Gymraeg' yn y gymuned hon yn dweud cyfrolau wrthym ynghylch yr ysgogiad i greu fersiwn Cymraeg o 'Fern Hill', sef dangos mor Gymreig a Chymraeg oedd gwreiddiau'r bardd hwn – bardd a wfftiwyd gan nifer o feirniaid yng Nghymru am fod yn honedig wrth-Gymreig.

Yn ôl T. James Jones, yr oedd 'Fern Hill' yn 'trosi'n weddol hawdd am ei bod hi mor Gymreig'.[1019] Y mae'n deg gofyn yma beth yn union felly sy'n ei gwneud hi 'mor Gymreig'? Ynghyd â'r ffaith ei bod wedi'i lleoli yng nghefn gwlad Sir Gâr, yr hyn sy'n peri bod 'Fern Hill' yn 'Gymreig' o ran ei harddull, o bosibl, yw'r ffaith fod clec y canu caeth i'w chlywed ynddi. Fel y dywed T. James Jones, y mae cerddi Dylan Thomas 'yn aml mewn arddull debyg i gystraweniad fydryddol [*sic*] y gynghanedd. Mae odl a chyfatebiaeth gytseiniol yn gyson yn rhoi i'w gerddi berseinedd a rhythmau tebyg i gynghanedd.'[1020] Ynghyd â chyffyrddiadau cynganeddol fel 'Time let me hail and climb',[1021] ceir yn 'Fern Hill' linellau o gynghanedd, er enghraifft:

> 'Oh as I was young and easy in the mercy of his means'[1022] (cynghanedd sain)
>
> 'Though I sang in my chains like the sea'[1023] (cynghanedd draws)

Er hyn, fel y gwelwn maes o law yn y thesis hwn, y mae rhai llenorion yn dadlau mai damweiniol yw'r gynghanedd yng ngwaith Dylan Thomas. Y mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod T. James Jones wedi atgynhyrchu'r gynghanedd 'Though I sang in my chains like the sea'[1024] yn ei fersiwn yntau: 'er i mi ganu yn fy nghadwyni fel y don.'[1025] Dadlennodd Jones iddo 'gynganeddu llinell glo'r cyfieithiad'[1026] ar ôl 'cymharu dull Dylan o ddefnyddio

---

[1018] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 69.
[1019] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 16 Awst 2017.
[1020] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 81.
[1021] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1022] Ibid., t. 135.
[1023] Ibid.
[1024] Ibid.
[1025] Jones, *Nawr*, t. 101.
[1026] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 11 Medi 2017.

cynghanedd ag arfer Waldo o ddefnyddio cynghanedd mewn cerddi rhydd – sef defnyddio'r gynghanedd er mwyn cryfhau'r mynegiant':[1027]

> Roedd Waldo a Dylan yn gweld gwerth mewn cloi cerdd rydd yn gryf gyda llinell o gynghanedd – 'Daw'r brenin alltud a'r brwyn yn hollti' (cynghanedd groes o gyswllt) / 'Though I sang in my chains like the sea' (cynghanedd draws). Ac fe ddewises inne gynghanedd sain wrth gyfieithu'r llinell hon – 'er mi ganu yn fy nghadwyni fel y don.'[1028]

Dywed Jones ymhellach mewn ysgrif arall fod llinell glo 'Fern Hill' hefyd yn fynegiant perffaith o natur y gynghanedd, sef canu yng nghadwyni'r rheolau: 'Since the last line of "Fern Hill" is both a description and also an example of cynghanedd, in my Welsh version I felt obliged to offer the last line in cynghanedd.'[1029] Cymwys yng ngoleuni hyn oll yw'r teitl a ddewiswyd gan Mererid Hopwood ar gyfer ei llawlyfr dysgu cynghanedd, sef *Singing in Chains*.[1030] Diddorol hefyd yw nodi mai'r teitl a roddodd Hopwood ar gyfer ei phennod olaf yn y gyfrol oedd 'When Craft Becomes Art' – adlais amlwg o gerdd Dylan Thomas, 'In my craft or sullen art'.

Y mae llinell agoriadol y gerdd yn haeddu sylw manwl hefyd: 'Now as I was young and easy under the apple boughs'.[1031] Y mae'r adroddwr yn 'Fern Hill' yn pendilio rhwng dau fyd, sef byd y plentyn a byd yr oedolyn – y gorffennol a'r presennol – ac fe grisielir y tensiwn hwn gan Dylan Thomas yn y llinell agoriadol. Fel y noda John Goodby:

> Here, adult becomes child [...] this is conveyed in a solecism – the temporal incompatibility of "Now" and "was". We initially read "now" as a colloquial introduction, but it is soon clear that it is an uncanny fusing of present and past tenses.[1032]

O edrych ar gyfieithiad T. James Jones o'r llinell hon, gellir cynnig ei fod wedi colli cyfle euraidd i ail-greu'r tensiwn rhwng y geiriau 'Now' ac 'was' yn ei fersiwn ef drwy hepgor y gair 'Nawr' (yn arbennig felly o gofio mai *Nawr* yw teitl ei gyfrol): 'Pan o'n i'n rhwydd o ifanc dan ganghennau'r afallen'.[1033] Diddorol hefyd yw sylwi na chyfieithwyd y gair hollbwysig 'Nawr' gan Haydn Lewis yn ei drosiad yntau: 'Pan oeddwn ifanc ac esmwyth dan gangau'r

---

[1027] Ibid.
[1028] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 24 Mai 2017.
[1029] T. James Jones, 'Various Versions' yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), t. 236.
[1030] Mererid Hopwood, *Singing in Chains: Listening to Welsh Verse* (Llandysul, 2016).
[1031] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1032] John Goodby, *The Poetry of Dylan Thomas: Under the Spelling Wall* (Liverpool, 2013), t. 358.
[1033] Jones, *Nawr*, t. 100.

afalau'.[1034] Er i T. James Jones hepgor 'Nawr' o'i linell agoriadol, y mae'n adfer y golled hon yn ei gyfieithiad gwych o 'young and easy',[1035] sef 'rhwydd o ifanc'.[1036] Chwaraea Dylan Thomas yma â'r idiom Saesneg – 'free and easy' – ac fel y dywed Walford Davies am y ddelwedd hon:

> That verse is characteristic of the rest in allowing much of the language to come close to the familiarity of cliché ('young and easy', for example, is at only one remove from 'free and easy').[1037]

Y mae ystyried cyfieithiad Haydn Lewis o 'young and easy', sef 'ifanc ac esmwyth',[1038] yn fodd o amlygu dyfeisgarwch T. James Jones fel bardd-gyfieithydd. Llwydda Jones i ymgyrraedd at fywyd y gwreiddiol drwy fanteisio ar orgraff yr ansoddair 'rhwydd', sy'n gyfuniad o 'rhydd' ('free' – cofier bod yma chwarae â'r idiom 'free and easy') a 'rhwydd' ('easy') i gyfleu'r ymdeimlad o fod yn blentyn – yn ddedwydd, yn ddibryder ac yn rhydd.

Enghraifft arall o gyfieithu llwyddiannus yn y pennill cyntaf yw trosiad T. James Jones o'r cymal 'once below a time',[1039] sef 'un tro dan amser'.[1040] Chwaraea Dylan Thomas yma â'r ymadrodd cyfarwydd 'once upon a time', a ddefnyddir ar ddechrau straeon i blant yn aml. Drwy droi'r ymadrodd hwn ben i waered, y mae Thomas yn awgrymu'n gynnil na fydd y plentyn yn y gerdd – y 'prince of the apple towns'[1041] – yn byw'n hapus am byth fel y tywysogion a'r tywysogesau yn y chwedlau, a hynny gan ei fod yn ddarostyngedig i amser. Fel y dywed William York Tindall: 'Thomas in time is hovering above a Thomas once below it'.[1042] Cyfieithodd T. James Jones yr ymadrodd 'once below a time' fel 'un tro dan amser', sy'n cyfleu bod y plentyn yn llythrennol dan amser – yn ifanc – a hefyd ar yr un pryd yn ddarostyngedig i amser (hynny yw, yn farwol). At hynny, y mae'r ymadrodd 'dan amser' hefyd yn dwyn i gof idiomau cyferbyniol megis 'dan ofal' a 'dan ormes'.

Y mae cyfieithiad T. James Jones o'r llinell 'And I was green and carefree'[1043] yn haeddu sylw manwl hefyd: 'A phan o'n i'n laslanc ysgafnfryd'.[1044] Sylwer i ddechrau ar ei

---

[1034] Lewis, *Cerddi Cyfnod*, t. 52.
[1035] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1036] Jones, *Nawr*, t. 100.
[1037] Davies, *Open Guides to Literature: Dylan Thomas*, t. 80.
[1038] Lewis, *Cerddi Cyfnod*, t. 52.
[1039] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1040] Jones, *Nawr*, t. 100.
[1041] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1042] William York Tindall, *A Reader's Guide to Dylan Thomas* (Syracuse, 1962), t. 270.
[1043] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1044] Jones, *Nawr*, t. 100.

gyfieithiad o ‘green’ – ‘glaslanc’. Dyma air cyfoethog sy’n ieuo dau ymadrodd ynghyd, sef ‘*green* and carefree’, â’r ymadrodd cyfarwydd, ‘*young* and carefree’. Y mae ‘glaslanc’ yn crisialu’r cysylltiad a wneir yn y gerdd wreiddiol rhwng gwyrddni (‘glas’) ac ieuenctid (‘llanc’). Ond tra mae ei gyfieithiad o ‘green’ (‘glaslanc’) yn llwyddiannus, gellid dadlau bod ei gyfieithiad o ‘carefree’ (‘ysgafnfryd’) yn rhy ffurfiol a llenyddol yn y cyd-destun, ac yn anghydnaws â chywair syml y gwreiddiol. Persbectif y plentyn a geir yma, nid yr oedolyn. Y mae’n anodd dychmygu plentyn yn defnyddio’r gair ‘ysgafnfryd’. Gwell, efallai, yw cyfieithiad syml Haydn Lewis, sef ‘diofal’. Wrth gyfieithu cerdd fel ‘Fern Hill’, sy’n symud rhwng dau lais – llais yr oedolyn a llais y plentyn – y mae’n rhaid i’r cyfieithydd fod yn effro i’r newidiadau cynnil yng nghywair y gerdd. Nid yw T. James Jones yn llwyddo i wneud hyn drwy gydol y gerdd, fel y gwelwn yn ei gyfieithiad o’r llinell ‘singing as the farm was home’ yn yr ail bennill: ‘yn moli cartrefoldeb y ffarm’. Er bod Dylan Thomas yn mawrygu ac yn dyrchafu ei blentyndod yn y gerdd hon, gellir dadlau bod y gair ‘moli’ yn anghydnaws â’r darlun gwreiddiol. Canu yw’r hyn y byddai plentyn yn ei wneud – nid moli. Yr oedolyn, fel y gwelwn yn y man, sy’n moli ac yn sancteiddio’i brofiadau. Ac fel yn achos y gair ‘ysgafnfryd’, ni ellir dychmygu plentyn yn defnyddio gair mor llenyddol â ‘cartrefoldeb’ ychwaith. Yn wir, y mae ‘moli cartrefoldeb y ffarm’ yn gyfieithiad goreiriog a rhyddieithol. Er bod T. James Jones yn llwyddo i atgynhyrchu’r hyn a elwir gan Eugene Nida yn ‘the conceptual content’ yn y llinell, ‘moli cartrefoldeb y fferm’, nid yw’n llwyddo i atgynhyrchu naws y gwreiddiol neu, yng ngeiriau Nida, ‘the emotional intensity and flavor.’[1045]

Cyfosodir yn ‘Fern Hill’ ferfau yn yr amser gorffennol â chysyllteiriau a rhangymeriadau presennol. Y mae’r tensiwn rhwng y gorffennol a’r presennol i’w deimlo drwy’r gerdd, yn enwedig yn y trydydd pennill, er enghraifft: ‘All the sun long it was running, ... / it was air / And playing...’[1046] Cyfieithodd T. James Jones y llinellau hyn fel a ganlyn: ‘Roedd amser ar redeg [...] / a’r alawon yn codi o’r simneiau / i’r awyr i chwarae.’[1047] Sylwer na chyfieithodd Jones y goddrych amwys ‘it’ yn ei fersiwn ef ac ni roddodd gynnig ar gyfieithu ‘it was air’ ychwaith. Fe dâl inni gyfeirio yma at sylwadau John Goodby ynghylch arwyddocâd y gair ‘it’ yn y gerdd hon:

[1045] Nida, ‘Principles of Correspondence’, t. 142.
[1046] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1047] Jones, *Nawr*, t. 100.

> the use of the non-specific pronoun 'it' blurs the self with its action ('All the sun long it was running, it was lovely, the hay / Fields high as the house, the tunes from the chimneys, it was air / And playing').[1048]

Y mae 'it' yn cyfeirio at bopeth ar unwaith – amser, bwrlwm ieuenctid ac egni byd natur – ac fe grisielir yn y gair bach hwn holl ryfeddodau byd y plentyn. Amser yw'r goddrych yng nghyfieithiad T. James Jones o 'it was running':[1049] 'Roedd amser ar redeg'.[1050] Nid yw 'amser', fodd bynnag, yn cyfleu'r corwynt o synhwyrau a grynhoir gan Thomas yn y gair 'it'. Er hynny, llwydda Jones i grisialu'r hyn a elwir gan John Ackerman yn 'sensory flux'[1051] yn ei gyfieithiad o 'it was all / Shining'[1052] yn y pedwerydd pennill: 'a'r cyfan / mor ddisglair'.[1053] Gellir cynnig yn y cyswllt hwn y byddai 'y cyfan' yn gweithio'n well nag 'amser' fel cyfieithiad o 'it' yn y llinell 'it was running'.[1054] Ar y llaw arall, gellir gwerthfawrogi ei benderfyniad i gyfeirio'n benodol at 'amser' gan fod treigl amser yn thema waelodol yn 'Fern Hill', fel yn achos y gyfrol *Nawr*.

Yn hytrach na chyfieithu 'it was running' fel 'Roedd [...] yn rhedeg', diddorol yw nodi hefyd mai 'ar redeg' yw'r ymadrodd a ddefnyddir gan T. James Jones. Gallai 'ar redeg' olygu bod rhywbeth yn rhedeg neu ar fin rhedeg. Fel y gwelwn o gyfeirio at ddiffiniadau *Geiriadur Prifysgol Cymru* o'r ymadrodd hwn, y mae 'ar redeg' yn rhoi mwy o wybodaeth inni ynghylch cyflymder y goddrych na'r ymadrodd 'yn rhedeg':

> ar (ei) redeg, ar (lawn) (ei lawn) r(h)edeg
>
> (i) at a (full) run, speedily.
> (ii) flowing, in full flow, streaming (down).[1055]

Fe'n hatgoffir yma hefyd o'r datganiad 'Mae amser yn cerdded'[1056] yn *Dan y Wenallt*. Nid yw amser yn 'cerdded' nac yn 'rhedeg', yn syml, yn 'Fern Hill', fodd bynnag – y mae 'ar redeg',[1057] yn gwibio heibio i'r adroddwr yn y gerdd.

Y mae Dylan Thomas yn efelychu ieithwedd plentyn yn ei gerdd er mwyn dangos bod yr adroddwr yn ail-fyw ei blentyndod ac yn gweld y byd unwaith eto drwy lygaid plentyn. Y

[1048] Goodby, *The Poetry of Dylan Thomas*, t. 358.
[1049] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1050] Jones, *Nawr*, t. 100.
[1051] John Ackerman, *Welsh Dylan* (London, 1979), t. 74.
[1052] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1053] Jones, *Nawr*, t. 101.
[1054] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1055] *Geiriadur Prifysgol Cymru*, d.g. 'ar redeg', <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>; cyrchwyd 12 Awst 2017.
[1056] T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), t. 3.
[1057] Idem, *Nawr*, t. 100.

mae'n ailadrodd geiriau syml fel 'green' a 'golden' drwyddi er mwyn cyfleu geirfa gyfyngedig plentyn, ynghyd â thuedd plentyn i ailadrodd. Ond er mor syml yw'r geiriau a ailadroddir ynddi, y maent yn creu delweddau cyfoethog a chofiadwy. Gwelwn fod T. James Jones yn amrywio'r dweud yn ei fersiwn yntau lle nad oes angen gwneud hynny. Noder ei gyfieithiad o 'And green and golden I was huntsman and herdsman',[1058] er enghraifft, sef 'a minnau newydd fy mathu, rown i'n heliwr a chowman'.[1059] Ystyr 'bathu' yn y cyd-destun hwn yw gwneud darnau arian drwy stampio metel neu aur. Er bod T. James Jones yn cyfleu bod plentyndod yn gyfnod euraid, nid yw'r tensiwn rhwng ieuenctid ('green') ac aeddfedrwydd neu henaint ('golden') mor drawiadol yn y cyfieithiad hwn. Dylid nodi, fodd bynnag, ei fod yn llwyddo i gyfleu'r tensiwn yn ei gyfieithiadau o'r llinellau 'Before the children green and golden'[1060] a 'Time held me green and dying':[1061] 'cyn i'r plantos ir ac euraid'[1062] ac 'amser a'm daliodd yn ir a marwol'.[1063]

Y mae gwyrddni yn amlwg yn gyfystyr ag ieuenctid yn 'Fern Hill'. Yn ôl Walford Davies, y mae defnydd Dylan Thomas o'r gair hwn yn adleisio sawl llenor Saesneg fel Andrew Marvell, Henry Vaughan a D. H. Lawrence.[1064] Er bod 'Fern Hill' wedi'i lleoli yn ddaearyddol yng nghefn gwlad Cymru, gellir dadlau bod yr adleisiau llenyddol ynddi yn ei chysylltu hi â'r traddodiad llenyddol Saesneg (sy'n cynnwys elfen Gymreig, a Chymraeg, gref yn achos Henry Vaughan). Nid amherthnasol yn y cyswllt hwn yw cyfeirio at benderfyniad Jones i gyfieithu 'green' fel 'ir' yn hytrach na 'gwyrdd' fel y gwnaeth Haydn Lewis yn ei drosiad ef. Gellir dadlau bod 'ir' yn air cyfoethog ac amlystyr yng nghyd-destun y gerdd hon. Gall olygu 'gwyrdd', 'ffres', 'newydd', 'ifanc' a 'llawn bywyd'. Y mae hefyd yn air sy'n dwyn i gof ddefnydd Dafydd ap Gwilym ohoni – er enghraifft yn y gerdd 'Cyngor y Bioden':

> Minnau, fardd rhiain feinir,
> Yn llawen iawn mewn llwyn ir,
> A'r galon fradw yn cadw cof,
> A'r enaid yn ir ynof.[1065]

[1058] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1059] Jones, *Nawr*, t. 100.
[1060] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 135.
[1061] Ibid.
[1062] Jones, *Nawr*, t. 101.
[1063] Ibid.
[1064] Idem, *Dylan Thomas*, tt. 119–20.
[1065] Dafydd ap Gwilym, 'Cyngor y Bioden', <http://www.dafyddapgwilym.net>; cyrchwyd 7 Awst 2017.

Fel y dywed Dafydd Johnston am y gerdd hon, y mae Dafydd ap Gwilym yn 'ymuniaethu â'r byd o'i gwmpas [...] trwy ddefnyddio'r un ansoddair, "ir", i ddisgrifio'r llwyn ac ef ei hun.'[1066] Dywed Johnston ymhellach mai '[e]rgyd hyn oll yw mai hunan-dwyll yw ei ymuniaethu â byd natur. Gwelir yma y gwahaniaeth sylfaenol rhwng dyn a natur o ran effaith amser arnynt.'[1067] Nid 'hunan-dwyll' fel y cyfryw sy'n nodweddu ymateb yr adroddwr mewn perthynas â byd natur yn 'Fern Hill', ond y mae'r gwrthgyferbyniad poenus yng ngherdd Dafydd ap Gwilym rhwng yr adnewyddu oesol yn y byd naturiol a marwoldeb dyn yn ddiau'n cyd-daro â'r sylweddoliad poenus yn 'Fern Hill' o ofnadwyedd treigl amser. Ac y mae'n werth cyfeirio'n fyr yma at gyfieithiad T. James Jones o'r llinellau 'it was lovely [...] it was air / And playing, lovely and watery':[1068] 'Roedd amser ar redeg drwy'r haul hir, hyfryd, [...] a'r awyr yn ddyfrllyd hyfryd'.[1069] P'un ai yw hyn yn fwriadol neu'n anfwriadol gan y cyfieithydd, cawn ein hatgoffa yma o'r llinell 'A'r byd yn hyfryd yn haf' yn y gerdd 'Yr Haf' gan Ddafydd ap Gwilym.[1070] Trosiad am ieuenctid dyn yw tymor yr haf yn y gerdd hon. Unwaith eto, nid yw ei neges ynghylch byrhoedledd ieuenctid a breuder bywyd dyn yn annhebyg i eiddo 'Fern Hill'. Fel y noda Dafydd Johnston:

> Gwelir [yn 'Yr Haf'] y gwahaniaeth sylfaenol rhwng dyn a natur o ran effaith amser arnynt. Cylch yw amser ym myd natur sy'n dod yn ôl i'w ddechrau o hyd gyda threigl y tymhorau. [...] Eithr llinell syth yw amser ym mywyd yr unigolyn, ac er iddo brofi llawer gwanwyn mae heneiddio'n broses ddi-droi'n-ôl.[1071]

Difyr hefyd yw sylwi bod fersiwn Cymraeg T. James Jones o 'Fern Hill' yn frith o eiriau tafodieithol megis 'perci', 'gwdihŵs', 'brochgawn' a 'becso'.[1072] Gan fod y gerdd hon wedi'i lleoli yn Sir Gâr, gellir haeru bod defnyddio tafodiaith yn rhan o strategaeth Jones i adfer Cymreictod Dylan Thomas ac amlygu'r lleoliad daearyddol penodol sydd wrth galon y gerdd wreiddiol. Dyma'r math o eiriau y byddai Thomas o bosibl wedi'u clywed ar fferm ei fodryb yn ystod y cyfnodau a dreuliodd yno. Ac o gofio hefyd fod ei rieni yn hanu o Sir Gâr, dyma'r iaith y byddai wedi'i chlywed ar yr aelwyd yn Abertawe pe baent wedi rhoi'r Gymraeg iddo. Ond o gofio bod y gerdd hon yn pendilio rhwng atgofion braf plentyndod a realiti sobreiddiol yr oedolyn, y mae modd dadlau y byddai'n well pe bai T. James Jones wedi tymheru ei

---

[1066] Dafydd R. Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2014), t. 127.
[1067] Ibid.
[1068] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1069] Jones, *Nawr*, t. 100.
[1070] Dafydd ap Gwilym, 'Yr Haf', <http://www.dafyddapgwilym.net>; cyrchwyd 7 Awst 2017.
[1071] Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, t. 128.
[1072] Jones, *Nawr*, t. 101.

ddefnydd o dafodiaith mewn rhai mannau yn y gerdd. Gweler y pumed pennill yn y gerdd wreiddiol, er enghraifft:

I ran my heedless ways
My wishes raced through the house high hay
And nothing I cared, at my sky blue trades, that time allows
In all his tuneful turning so few and such morning songs
Before the children green and golden
Follow him out of grace.[1073]

Sylwer bod y naws a'r cywair yn newid yn gynnil tua diwedd y pennill hwn wrth i'r ymwybyddiaeth boenus o dreigl amser daro'r adroddwr ar ôl hel atgofion am ei blentyndod. Cyfieithodd T. James Jones y llinellau hyn fel a ganlyn:

rhedwn yn ddihidans,
yn flys ar frys drwy'r gwair fel talcen tŷ,
heb fecso dim yn fy musnes dan awyr las, fod gan amser,
yn ei holl droeon seinber, gyn lleied o ganu plygain
cyn i'r plantos ir ac euraid
ei ddilyn mas o ras.[1074]

Y mae defnydd Jones o dafodiaith yn addas yn ei gyfieithiad o'r llinell gyntaf. Ffurf dafodieithol ddeheuol o'r gair 'di-hid' yw 'dihidans'. (Diddorol yn y cyswllt hwn yw sylwadau John Malcolm Brinnin am y gair 'heedless': 'Thomas winced at 'heedless', for which he could find no better word.'[1075]) Y mae 'dihidans' yn gydnaws â'r ysbryd ysgafn, ffwrdd-â-hi a gyfleir yn y tair llinell gyntaf. Cyfleir asbri'r plentyn ymhellach gan rythm byrlymus y disgrifiad ohono yn rhedeg 'yn flys ar frys drwy'r gwair'. Ond yn achos cyfieithiad Jones o 'And nothing I cared' – 'heb fecso dim' – tybed a ellid awgrymu – ar yr un pryd â chydnabod, wrth gwrs, mai at y plentyn y cyfeirir – fod y dafodiaith yn anghydnaws â'r llais a glywir yma, sef llais yr oedolyn: 'And nothing I cared [...] that time allows / In all his tuneful turning so few and such morning songs.'[1076] Fel y dywed John Ackerman:

> there are now intimations of mortality, and the tide of ecstatic recollection begins to turn, the morning songs are few. The days of innocence – 'lamb white days' – give way to experience, knowledge of mortality.[1077]

[1073] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 135.
[1074] Jones, *Nawr*, t. 101.
[1075] Tindall, *A Reader's Guide to Dylan Thomas*, t. 271.
[1076] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 135.
[1077] Ackerman, *Welsh Dylan*, t. 77.

Yng ngoleuni sylwadau Ackerman, gellir dadlau bod 'becso' braidd yn rhy ffwrdd-â-hi a thafodieithol yn y cyd-destun hwn gan fod yr adroddwr, erbyn diwedd y pumed pennill, yn hel meddyliau dwys a sobreiddiol am farwoldeb. Fel yr awgryma Haydn Lewis yn ei gyfieithiad ef, 'gofidio' ('ni ofidiwn'[1078]), nid 'becso', yw'r hyn y byddai'r adroddwr yn ei wneud wrth wynebu ei farwoldeb.

Noder hefyd na chyfieithodd T. James Jones y gair 'allows' yn ei gyfieithiad o'r llinellau 'that time allows [...] / so few and such morning songs':[1079] 'fod gan amser [...] / gyn lleied o ganu plygain'.[1080] Y mae 'time allows' yn adleisio'r ymadrodd hollbwysig 'Time let' a ddefnyddir gan Dylan Thomas yn y ddau bennill cyntaf. Wrth ystyried arwyddocâd yr ymadrodd hwn yng nghyd-destun 'Fern Hill', fe dâl inni fwrw golwg ar gyfieithiadau Jones o'r llinellau 'Time let me hail and climb / Golden in the heydays of his eyes'[1081] a 'Time let me play and be / Golden in the mercy of his means':[1082] 'amser a'm goddefodd i gyfarch a dringo'n euraid / yn anterth dyddiau ei lygaid'[1083] ac 'amser a'm goddefodd i chwarae / a'm heuro yn nhrugaredd ei drugareddau'.[1084] Y mae 'let' a 'be' yn fwyseiriau pwysig yn 'Fern Hill' am eu bod yn crisialu'r syniad bod amser, yn y lle cyntaf, yn gadael i'r plentyn 'fod' yn yr ystyr o adael llonydd iddo chwarae; yn ail, ei fod yn gadael i'r plentyn 'fodoli'; ac yn drydydd, yn gadael iddo 'fod yn euraid'. Ar un llaw, cam gwag oedd peidio â chyfieithu 'be' yn y fersiwn Cymraeg. Er bod 'goddef' yn cael ei ddefnyddio yn y cyfieithiad yn yr ystyr 'caniatáu' a 'gadael i fod neu i ddigwydd' ('let'), nid yw'n cyfleu bod amser yn 'gadael' neu'n 'caniatáu' i'r plentyn 'fodoli'. Ar y llaw arall, gellir dadlau mai 'goddef' pawb y mae amser yn y pen draw. Cyflea Jones fod amser fel petai'n goddef chwarae'r plentyn am gyfnod byr cyn penderfynu rhoi terfyn ar ei hwyl.

Y mae'n werth dychwelyd at y llinell 'time allows so few and such morning songs'.[1085] Mwysair yw 'morning' sy'n chwarae â'r tebygrwydd rhyngddo a'r gair 'mourning'. Fel y gwelwn o graffu ar gyfieithiad T. James Jones, bu'n rhaid iddo aberthu un ystyr ar draul y llall wrth gyfieithu'r mwysair hwn: 'heb fecso dim [...] fod gan amser / [...] gyn lleied o ganu

[1078] Lewis, *Cerddi Cyfnod*, t. 53.
[1079] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 135.
[1080] Jones, *Nawr*, t. 101.
[1081] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 134.
[1082] Ibid.
[1083] Jones, *Nawr*, t. 100.
[1084] Ibid.
[1085] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 135.

plygain'.[1086] Ar yr olwg gyntaf, y mae'r cyfeiriad at y plygain yn ymddangos braidd yn chwithig mewn cerdd mor hafaidd gan ei fod yn air a gysylltir, wrth gwrs, â math penodol iawn o ganu carolau adeg y Nadolig. Cymharer cyfieithiad Jones â'r cynnig llythrennol a syml (er braidd yn lletchwith o ran ei sŵn) a geir gan Haydn Lewis – 'ychydig fore-ganiadau'.[1087] Ar y llaw arall, er bod 'canu plygain' yn ein taro fel cyfieithiad braidd yn annisgwyl, y mae hefyd yn gyfieithiad lled lythrennol o 'morning songs'. Diffinnir 'plygain' yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* fel 'math o weddi foreol neu wasanaeth gyda charolau yn gynnar ar fore Nadolig' a 'gwawr', 'toriad dydd' a 'boreddydd'. Wrth ystyried yr eirfa a'r symbolau Beiblaidd yn 'Fern Hill', gellir cynnig bod y cyfieithiad 'canu plygain' yn cyd-fynd â'r elfennau crefyddol hyn yn y gerdd. Yn wir, dichon mai nod Dylan Thomas wrth fritho ei gerdd â geiriau a delweddau Beiblaidd yw sancteiddio plentyndod. Fel y dywed Walford Davies: 'In "Fern Hill" Thomas understands, not only the boy's happiness, but also something of its religious implications.'[1088] Noda Alan Llwyd hefyd:

> I Dylan, 'roedd natur yn sanctaidd, natur fel crud y creu, tarddle'r Duwdod (cymh. 'And the Sabbath rang slowly / In the pebbles of the holy streams' – 'Fern Hill'). Yma, fel mewn sawl cerdd arall o'i eiddo, mae'n cyplysu gwrthrychau crefyddol â gwrthrychau o fyd natur.[1089]

Er nad yw 'canu plygain' yn cyfleu'r ddelwedd facabr sy'n llechu dan yr wyneb yn y mwysair 'morning'/'mourning', y mae'n ymgyrraedd at yr elfen gysegredig, grefyddol, ynghyd â'r elfen foreol. Yng ngeiriau T. James Jones:

> Mentrais 'ganu plygain' am fod cynifer o eiriau crefyddol eu naws yn 'Fern Hill' – mercy, Sabbath, holy, blessed, Adam, praise, grace. Ac ar ei wyliau yn Fern Hill y cyflwynwyd Dylan i wasanaethau crefyddol yn Smyrna Llangain. Yn y stori 'The Peaches' mae sôn am y cefnder yn actio bod yn bregethwr ac mae ei farwnad i'w fodryb Ann 'After the Funeral' yn gryf dan ddylanwad y capel.[1090]

Gellir cynnig bod Jones yn ystyried dylanwad crefydd a'r capel ar waith Dylan Thomas fel nodwedd Gymreig iawn. Fel y dywed M. Wynn Thomas:

> As he [Dylan Thomas] admitted in a letter to a young American enquirer in 1951, the Books of the Old Testament, along with the Gospel of the New, had reached him first through the chapels, where 'the great rhythms [of the Bible] rolled over me from the

---

[1086] Jones, *Nawr*, t. 101.
[1087] Lewis, *Cerddi'r Cyfnod*, t. 53.
[1088] Davies, *Open Guides to Literature: Dylan Thomas*, t. 81.
[1089] Alan Llwyd, 'Dylan Thomas: "A Refusal to Mourn..."', *Y Grefft o Greu: Ysgrifau ar Feirdd a Barddoniaeth* (Cyhoeddiadau Barddas, 1997), t. 296.
[1090] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 12 Medi 2017.

> Welsh pulpits... all of the Bible that I use in my work is remembered from childhood.'[1091]

Er gwaethaf agwedd ddilornus Dylan Thomas tuag at y 'tin Bethels',[1092] gwyddai fod y gymuned gapelyddol Gymraeg wedi rhoi cyfoeth o ddeunydd creadigol iddo, fel y gwelwn yn y man wrth graffu ar fersiwn Cymraeg T. James Jones o 'After the funeral' – 'Wedi'r cynhebrwng'.

O gyfosod y ddwy gerdd hyn, fe'n trewir ar unwaith gan y ffaith fod Jones wedi rhannu ei fersiwn ef yn wyth pennill o bum llinell. Nid yw'r gerdd wreiddiol wedi'i rhannu'n benillion. Diddorol yw nodi fod 'After the funeral' wedi'i dewis fel un o'r *Caseg Broadsheets* yn 1942, ac ochr yn ochr â'r gerdd ar y ddalen hon, ceir portread aflonyddol gan Brenda Chamberlain o Ann Jones Fernhill, modryb Dylan Thomas. Y mae presenoldeb yr hen wraig ar y dudalen yn ormesol – ffaith sydd, ynghyd â'r teipograffi gywasgedig, yn dwysáu'r ymdeimlad o glawstroffobia crefyddol sydd wrth wraidd y gerdd wreiddiol.

Marwnad Dylan Thomas i'w fodryb, Ann Jones, yw 'After the funeral' felly, ond nid marwnad gyffredin mohoni. Bu farw Ann Jones ym mis Chwefror 1933, ac fe ymatebodd Thomas, y llanc ifanc 19 oed, yn oeraidd i'w marwolaeth drwy ysgrifennu cerdd a oedd yn fwy dychanol na choffaol. Ffocws y fersiwn gwreiddiol o'r gerdd oedd ei 'egotistic preoccupation',[1093] chwedl Thomas, â'i ymateb seicolegol ei hun i'r digwyddiad, ynghyd â'i ymateb i gefndir crefyddol Ann. Defnyddiodd farwolaeth ei fodryb fel cyfle i lambastio Anghydffurfiaeth Gymreig. Fel y noda William York Tindall am y fersiwn cynnar: 'Ann is less important than her hypocritical mourners and the gossips'.[1094] Bum mlynedd yn ddiweddarach, fodd bynnag, ailymwelodd Thomas â'r gerdd a'i hailysgrifennu â'r ffocws y tro hwn ar farwnadu Ann. Fel y noda Jane Aaron:

> Yn wahanol i'r fersiwn terfynol, nid yw cerdd 1933 yn alargan nac yn gerdd goffa o unrhyw fath i Ann Jones, nad yw'n bresennol fel cymeriad dynol yn y gerdd. Yn arbennig yng ngoleuni'r fersiwn diweddarach, â'i bwriad digamsyniol i ail-greu bywyd menyw hynod gariadus os hytrach yn gyfyng ei diwylliant, mae 'After the Funeral' 1933 yn ymddangos yn gywilyddus yn ei phellter oddi wrth unrhyw synnwyr o golled.[1095]

[1091] M. Wynn Thomas, *In the Shadow of the Pulpit: Literature and Nonconformist Wales* (Cardiff, 2010), t. 228.
[1092] Paul Ferris (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters* (London, 2000), t. 198.
[1093] Maud, *Where Have the Old Words Got Me?*, t. 3.
[1094] Tindall, *A Reader's Guide to Dylan Thomas*, t. 161.
[1095] Jane Aaron, '"Heddwas ifanc iawn yn ffrwydro": Cerddi Cynnar Dylan Thomas', *Taliesin*, 120 (Gaeaf 2003), t. 104.

Serch hynny, ni lastwreiddiodd Thomas ei feirniadaeth ar y capelwyr yn y fersiwn newydd. Disgrifia M. Wynn Thomas y gerdd fel

> a cultural rescue mission – with Thomas wrestling verbally with the local Nonconformist preacher for her soul [...] Thomas 'stand[s] ... alone' to build a poem in language which had been repressed and crippled by the culture in which she had lived.[1096]

Disgrifir y gerdd gan M. Wynn Thomas hefyd fel 'one of the most celebrated instances in his work of his conscious attempts to displace what remained of the erstwhile regnant discourse of the Nonconformist Wales which had produced his parents, and against which his father had rebelled.'[1097] Dramateiddir yn 'After the funeral' y gwrthdaro rhwng Dylan Thomas, bardd mawl Ann Jones, a'r hyn a wêl fel agweddau gwyrdroëdig ar y traddodiad angladdol Anghydffurfiol. Fel y dywed M. Wynn Thomas:

> In a poem like 'After the funeral', Thomas adopts an openly confrontational stance towards the dominant discourse of Nonconformity and constructs what sociolinguists term an 'anti-language', an alternative discourse of his own.[1098]

Dywed M. Wynn Thomas ymhellach yn ei ysgrif, 'There's words', fod Dylan Thomas yn gyfarwydd iawn ag iaith y pulpud ac yn ymwybodol mai'r pregethwyr Cymraeg oedd

> the lords and masters of language who had been allowed the last word on every aspect of life. Realizing that if he wanted to become a writer, he would have to wrestle language out of the iron control of the pulpit.[1099]

Perthnasol yn y cyswllt hwn hefyd yw'r hyn a ddywed John Ackerman am Anghydffurfiaeth a barddoniaeth Thomas: 'the picture of Thomas as a lost Nonconformist, wrestling with an inherited, albeit declining religion, is close to the truth of his poetry'.[1100] Er bod Thomas yn ymwrthod i ryw raddau â'r traddodiad capelyddol, Cymreig yn y gerdd hon, synhwyra T. James Jones fod ganddo elfen o barch tuag at y diwylliant hwn. Gwêl Jones y gerdd fel marwnad

> nid yn unig i'w fodryb ond i Gymru hefyd. Ond nid ildio i sentimentaleiddiwch a wnaeth y bardd ond ceseilio ei edmygedd o'r ddwy, ei fodryb a Chymru, mewn cerydd cydymdeimladol.[1101]

[1096] M. Wynn Thomas, *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff, 1999), t. 46.
[1097] Idem, *In the Shadow of the Pulpit*, t. 229.
[1098] Ibid., t. 231.
[1099] Idem, '"There's words": Dylan Thomas, Swansea and Language' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion / Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 21 (2015), t. 95.
[1100] John Ackerman, *Welsh Dylan* (Bridgend, 1998), t. 58.
[1101] Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 20.

Wrth drafod yr ysgogiad i greu fersiwn Cymraeg o 'After the funeral', dadlennodd T. James Jones mai 'edmygedd dwfn Dylan o'i fodryb oedd yr emosiwn cryf'[1102] iddo ef yn y gerdd: 'Fe ges innau'r fraint o adnabod cymeriadau cefn gwlad tebyg iddi.'[1103] Yn 'After the funeral', y mae'r 'Fodryb Ann', chwedl Jones, 'yn tyfu'n ymgorfforiad o'r Gymru yr oedd Dylan [...] yn dechrau sylweddoli ei fod yn perthyn iddi, neu efallai yn dymuno perthyn iddi',[1104] sef y Gymru Gymraeg. Â Jones rhagddo i gynnig bod yr ymdeimlad o golled a fynegir gan Thomas yn y gerdd hon yn ymwneud â'r sylweddoliad bod 'diwedd Ann yn ddiwedd cyfnod: *And sculptured Ann is seventy years of stone*.'[1105] Fel y dywed Jones ymhellach:

> Roedd y fodryb [...] bellach yn garreg, a'r nai yn gresynu nad oedd wedi llwyr fanteisio ar y cyfle a gafodd i ddangos ei edmygedd ohoni pan oedd yn grwt ysgol yn dod ar ei wyliau o swbwrbia Seisnig Abertawe i ffarm wledig Gymreig Fern Hill. Ai dyma'r 'Wales that I'm sad to say never was'?[1106]

Sylwer ar y cyfeiriadau penodol yn y dyfyniad hwn at Seisnigrwydd Abertawe a Chymreigrwydd cefn gwlad Sir Gâr. Fel y nodwyd yn y bennod ar *Dan y Wenallt*, disgrifiodd Dylan Thomas *Under Milk Wood* fel 'a play set in a Wales that I'm sad to say never was'.[1107] Dichon felly mai ymgais i adfer y Gymru hon i Thomas yw fersiwn Cymraeg Jones o 'After the funeral'. Y mae'n ffordd o amlygu'r ffaith fod y bardd, er gwaethaf ei ddihidrwydd ymddangosiadol tuag at y diwylliant capelyddol Cymraeg, wedi bod yn rhan ohono.

Ystyrir 'After the funeral' yn un o gerddi Cymreiciaf Dylan Thomas gan ei bod yn ymateb i ddau draddodiad Cymraeg a Chymreig, sef y traddodiad Anghydffurfiol a'r traddodiad barddol. Yn ôl John Goodby: 'It is arguably his most Welsh poem; as well as its bardic details, it is clearly in the Welsh *cof* genre of laudatory memorial-biographical poems.'[1108] Dywed Walford Davies: 'The poem is true to a Welsh atmosphere which has only disappeared from custom and ceremony in the last generation or so.'[1109] Awgryma T. James Jones fod yr ymdeimlad o berthyn i Gymru yn hydreiddio gwaith Thomas hyd yn oed 'mor gynnar â 1938 pan gwblhaodd ei farwnad i'w fodryb Ann Jones, Fern Hill. [...] Y mae'r awyrgylch yn Gymreig drwyddi.'[1110] Ynghyd â naws Gymreig/Gymraeg y gerdd, dau beth arall

---

[1102] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Gorffennaf 2017.
[1103] Ibid.
[1104] Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 20.
[1105] Ibid.
[1106] Ibid.
[1107] Ferris (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters*, t. 962.
[1108] John Goodby (gol.), 'Notes to the poems', yn *The Collected Poems of Dylan Thomas: The Centenary Edition* (London, 2014), t. 339.
[1109] Walford Davies, *Dylan Thomas* (Cardiff, 1990), t. 35.
[1110] Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 19.

a ysgogodd Jones i greu fersiwn Cymraeg ohoni oedd y ffaith fod Dylan Thomas 'wedi adnabod pobol yr angladde' ac 'yn gweld ei hunan fel bardd mawl'.[1111] Dywedodd wrth yr awdur presennol fod 'After the funeral' yn rhoi 'golwg clir iawn ar y rhagrith y mae rhywun yn ei weld mewn angladde' ac yr oedd 'y cyfeirio at ragrith yn ysgogiad'[1112] i greu fersiwn Cymraeg o'r gerdd hon. Cred hefyd fod Dylan Thomas 'wedi ei deall hi ac wedi adnabod y bobl hynny'.[1113]

Nid amherthnasol yn y cyswllt hwn yw nodi bod T. James Jones yn cystwyo'r 'bobl hynny' mewn dwy gerdd o'i eiddo'i hun, sef 'Beti' (*Eiliadau o Berthyn*) a 'Dadeni' (*Nawr*). Yn y cerddi hyn, caiff 'duwie bach y sêt fowr' eu condemnio'n hallt ganddo am ddiarddel ei fam o'r capel am iddi feichiogi cyn priodi, a hwythau'n gwybod 'y cwbwl am dorri rheole'[1114] eu hunain. Yn ogystal, dadlennodd Jones wrth yr awdur presennol iddo fod yn dyst i'r rhagrith a welir mewn angladdau yn ystod ei gyfnod fel pregethwr: 'roeddwn wedi cael profiad o hynny mewn angladdau ac yn cofio'r angladdau mewn parlyrau.'[1115] Fe dâl inni oedi yma â'i bryddest 'Ffin', a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd 1988, gan fod Jones yn mynd i'r afael â'r union beth – rhagrith 'pobol yr angladde' – yn y gerdd hon. Er ei fod yn archwilio sawl ffin yn y bryddest, y ffin rhwng bywyd a marwolaeth yw'r brif thema. Egyr y gerdd â'r adroddwr yn dychmygu ei angladd ei hun:

> Ma'r Deryn yn clatsio'r ffenest.
>
> Fe fydd y parlwr yn ddierth.
> Cadeire wedi'u dwgyd o'r gegin,
> cyrtens yn cwato'r houl.
> Gwynt camffor yn hofran fel gwyfyn
> rhwng ffŷr a ffroen.
> Torche'n drwch o wal
> i wal fel gardd ar fogi...
>
> Fe fydd y piod yn crynhoi,
> yn clebran fel llestri'n shiglo.[1116]

[1111] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 16 Awst 2017.
[1112] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Gorffennaf 2017.
[1113] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 16 Awst 2017.
[1114] T. James Jones, *Eiliadau o Berthyn* (Cyhoeddiadau Barddas, 1991), t. 23.
[1115] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 16 Awst 2017.
[1116] Jones, *Eiliadau o Berthyn*, t. 17.

Fe'n hatgoffir yma o ddisgrifiad Dylan Thomas o barlwr ei fodryb yn ei stori fer 'The Peaches': 'The best room smelt of moth balls and fur and damp and dead plants and stale, sour air.'[1117] Fel y dywed Jerry Hunter am y disgrifiad o'r blodau 'fel gardd ar fogi' yn y parlwr yn 'Ffin':

> Mae'r blodau a fyddai fel arall yn awgrymu ffresni a bywyd wedi'u troi'n dorchau a fydd yn gwywo ar fedd. Gwêl llygaid dychymyg y siaradwr ardd o flodau yn yr ystafell, ond mae'r ardd honno 'ar fogi'.[1118]

Yn yr un modd, y mae parlwr Ann Jones yn 'After the funeral' hefyd yn llawn gwrthrychau difywyd sy'n symbolau o farwolaeth: 'After the feast of tear-stuffed time and thistles / In a room with a stuffed fox and a stale fern.'[1119] Cyfieithwyd y llinellau hyn gan T. James Jones fel 'wedi'r wledd chwerw felys hyd y fyl o ddagrau / mewn parlwr â'i gadno stwffedig a'i redyn sych'.[1120] Sylwer bod Jones wedi cyfieithu 'room' fel 'parlwr', nid 'ystafell'. Y mae arwyddocâd diwylliannol i'r gair 'parlwr' yng nghyd-destun y gerdd hon. Y mae Dylan Thomas yn disgrifio traddodiad 'Cymreig' iawn yn y gerdd, sef yr arfer o ddefnyddio'r 'parlwr gorau' ar gyfer achlysuron fel angladdau, a gellid dadlau nad yw 'ystafell' yn cyfleu'r traddodiad hwn. Ni chyfieithodd T. James Jones y gair 'thistles', sylwer. Ar un wedd, y mae hyn yn golled oherwydd y mae'n amlwg fod Thomas wedi gosod y cyfeiriad at y planhigyn hwnnw er mwyn iddo gyfateb â phlanhigyn arall, 'fern', yn yr un safle ar ddiwedd y llinell ddilynol. Er hyn, sylwn fod y cyfieithydd wedi dewis ychwanegu'r geiriau 'chwerw felys' yn y llinell: 'wedi'r wledd chwerw felys hyd y fyl o ddagrau'. Gellir cynnig bod y syniad o gyfuniad o brydferthwch a phoen/chwerwder sydd yn ymhlyg yn y gair 'thistles' wedi ei fynegi yn y fan hon mewn termau mwy esblyg: 'chwerw felys'. Dyma fynegiant sy'n amlygu'r ffaith fod y galarwyr yn cael rhyw fwynhad gwyrdroëdig o achlysur trist fel angladd.

Priodol yw dychwelyd yn y cyswllt hwn at y cyfeiriadau yn llinellau agoriadol 'Ffin' at y 'Deryn yn clatsio'r ffenest' a'r 'piod yn crynhoi' ac yn 'clebran'.[1121] Er mai cyfeiriad at un o'r ofergoelion a etifeddodd T. James Jones gan ei fam yw'r llinell 'Ma'r Deryn yn clatsio'r ffenest', sef yr Aderyn Corff sydd, yn ôl coel gwerin, yn darogan angau, y mae hefyd yn gyfeiriad dirmygus at y galarwyr. Y galarwyr yw'r 'piod' sy'n 'crynhoi' ac yn 'clebran' yn aflafar yn y parlwr. Fel y noda Jerry Hunter:

[1117] Walford Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories* (London, 1983), t. 129.
[1118] Jerry Hunter, 'Y Golofn Wadd: "Ffin" T. James Jones, *Barddas*, 283 (Mehefin/Gorffennaf 2005), t. 19.
[1119] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[1120] Jones, *Nawr*, t. 102.
[1121] Idem, *Eiliadau o Berthyn*, t. 17.

> Mae'r siaradwr yn gwingo wrth feddwl am y modd y caiff ei gartref teuluol ei agor i'r adar rheibus hyn, ac yn y pennill nesaf mae'n rhagweld y craffu a'r busnesu a ddaw wrth iddynt gribo cynhwysion y parlwr â'u llygaid beirniadol.[1122]

Yn yr un modd, gwinga'r adroddwr yn 'After the funeral' wrth feddwl am y galarwyr yn gwledda yng nghartref ei fodryb. Gwelwn fod T. James Jones yn ei gyfieithiad wedi manteisio ar gyfoeth ei dafodiaith i gyfleu bod y galarwyr yn llawn dagrau ffug ac yn llawn te cynhebrwng drwy chwarae â'r ymadrodd 'hyd y fyl'.[1123] Ystyr lythrennol 'byl' yw ymyl llestr, ac, yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, fe ddefnyddir yr ymadrodd 'hyd y fyl' yn y De i gyfleu bod rhywbeth yn llawn hyd yr ymylon. Fe dâl inni neidio yn y cyswllt hwn hefyd at gyfieithiad Jones o 'The spittled eyes, the salt ponds in the sleeves':[1124] 'poeri / o'r llygaid, a llanw llewys â llynnoedd heilltion.'[1125] Fel y noda Barbara Hardy: 'In "After the funeral" the repetition and reordering of s, p, l, and t in "spittled and saltponds" [...] recall the consonant sequence of cynghanedd'.[1126] Llwyddodd T. James Jones i ymgyrraedd at fywyd y gwreiddiol a dod â'r darlun galarwyr yn creu dagrau ffug yn fyw i'r glust drwy gyflythreniad a chytseinedd ('ll' a 'll/n').

Yn debyg i'r darlun anifeilaidd o'r galarwyr yn clebran fel piod yng nghynhebrwng yr adroddwr yn llinellau agoriadol y bryddest 'Ffin', ceir darlun grotésg a bwystfilaidd ar ddechrau 'After the funeral' o'r capelwyr yn hel clecs ac yn smalio crio yng nghynhebrwng Ann Jones: 'After the funeral, mule praises, brays'.[1127] Awgryma Tony Conran fod y llinell 'mule praises, brays' yn brawf fod Dylan Thomas yn ymwybodol o reolau'r gynghanedd:

> This phrase, though not true *cynghanedd*, makes me think that Dylan Thomas knew something of the elaborate internal rhyming and alliteration of formal Welsh poetry. I base this suggestion on the context: a funeral in Welsh Wales might have included such poems of respect for the dead.[1128]

Geiriog a chlogyrnaidd braidd yw cyfieithiad T. James Jones o'r llinell hon: 'Wedi oernadau moliannus mulod y cynhebrwng'.[1129] Byddai rhywbeth megis 'Wedi'r cynhebrwng, oernadau moliannus y mulod' wedi bod yn gyfieithiad nes at y gwreiddiol o ran y gystrawen. Diddorol yw sylwi bod T. James Jones yn mynd gam ymhellach na Dylan Thomas wrth fwystfileiddio'r

---

[1122] Hunter, 'Y Golofn Wadd', t. 19.
[1123] Jones, *Nawr*, t. 102.
[1124] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[1125] Jones, *Nawr*, t. 102.
[1126] Barbara Hardy, *Dylan Thomas: An Original Language* (Georgia, 2000), t. 11.
[1127] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[1128] Anthony Conran, *The Cost of Strangeness: Essays on the English Poets of Wales* (Llandysul, 1982), t. 183.
[1129] Jones, *Nawr*, t. 102.

galarwyr drwy gyfeirio at eu 'carnau' yn ei gyfieithiad o 'muffle-toed tap / tap happily of one peg in the thick / Grave's foot':[1130] 'dawns dap-dap hapus / carnau mwfflog ag un peg eisoes yn nhrwch y bedd'.[1131]

Ynghyd â'r portread crafog a geir yn 'After the funeral' o 'bobol yr angladde', fel y'u gelwir gan T. James Jones, gellir cynnig bod beirniadaeth Thomas ar Anghydffurfiaeth hefyd wedi ysgogi Jones i greu fersiwn Cymraeg o'r gerdd. Y mae'n werth dychwelyd yma at ei bryddest 'Ffin'. Yn ôl Jerry Hunter, y mae methdaliad crefydd sefydliadol yn thema bwysig yn y gerdd hon.[1132] Noda Hunter fod 'siaradwr y gerdd wedi'i fradychu gan Anghydffurfiaeth ei deulu, gan fath o Gristnogaeth sy'n pwysleisio marwolaeth ar draul bywyd.'[1133] Y mae'r adroddwr yn y bryddest yn ceisio ymryddhau o'r traddodiad Anghydffurfiol, fel y dywed Hunter:

> Gwelwn yn y bryddest hon fachgen sy'n ceisio torri'n rhydd o hualau crefydd ei gymdeithas drwy fabwysiadu'i ddelweddaeth sanctaidd ei hun. Ceisia osod offrwm o flodau yn lle aberth gwaed yr allor, ac mae'n dyheu am ddyfodiad angel a fyddai'n troi glyn cysgod angau yn gyrchfan gobaith a goleuni. Ond mae'n methu â goresgyn hualau'r traddodiad y mae'n gaeth iddo.[1134]

Yn wahanol i'r adroddwr yn 'Ffin', llwydda Dylan Thomas i ryddhau ei fodryb o 'hualau'r traddodiad' hwn erbyn diwedd y gerdd drwy droi at y traddodiad paganaidd, Celtaidd a'r traddodiad barddol Cymraeg. Awgryma Thomas yn y gerdd hon nad yw teyrnged gonfensiynol, grefyddol y pregethwr Anghydffurfiol a'r capelwyr yn gwneud cyfiawnder ag Ann. Mynna'r bardd naddu 'skyward statue'[1135] i'w fodryb, sef cyfansoddi cerdd o fawl i'w choffáu. Fel y noda M. Wynn Thomas:

> Thomas shows himself aware of the Welsh poetic tradition. He does not just talk vaguely about bards; he knows at least that they stood at the hearth, in the midst of the company. He is aware of the bard's social role. It is, indeed, manifestly a praise poem, not to a great lord but (movingly) to this 'humble woman'.[1136]

[1130] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[1131] Jones, *Nawr*, t. 102.
[1132] Hunter, 'Y Golofn Wadd', t. 20.
[1133] Ibid.
[1134] Ibid.
[1135] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[1136] Thomas, *Corresponding Cultures*, t. 48.

Ac eto, gwyddai Thomas y byddai teyrnged o'r fath yn wrthun gan y fenyw ddiymhongar ei hun. Ceisia gyfiawnhau ei benderfyniad i'w marwnadu drwy ymgymryd â rôl y bardd mawl canoloesol. Fel y dywed Barbara Hardy:

> The problems of criticizing and praising Welsh mores and his own exaggerated and rhapsodic poetry are solved at one stroke: 'I, Ann's bard on a raised hearth, call all / The seas to service.'[1137]

Fel bardd mawl ei fodryb, y mae Dylan Thomas yn galw ar fyd natur i ddathlu ei bywyd:

> But I, Ann's bard on a raised hearth, call all
> The seas to service that her wood-tongued virtue
> Babble like a bellbuoy over the hymning heads.
> Bow down the walls of the ferned and foxy woods
> That her love sing and swing through a brown chapel
> Bless her bent spirit with four, crossing birds.[1138]

Awgryma Thomas fod confensiynau angladdol, crefyddol yn annigonol i goffáu ei fodryb, a bod coffâd natur iddi yn fwy diffuant a diragrith na'r 'hymning heads'. Cyfieithodd T. James Jones y llinellau uchod fel a ganlyn:

> Ond fel bardd Ann ar faen llog yr aelwyd, galwaf
> ar foroedd yr hollfyd i beri i'w rhinwedd wylaidd
> faldorddi fel bwi cloch dros bennau'r capelwyr,
> ac i blygu parwydydd gelltydd y cadnoid a'r rhedyn
> fel bo'i serch yn suo ganu drwy dŷ cwrdd y coed
> gan fendithio'i hysbryd crwm ar groesfan adar.[1139]

Sylwer yn arbennig ar y ddelwedd o'r siaradwr fel 'bardd Ann ar faen llog yr aelwyd'. Y mae'r cyfeiriad at y Maen Llog eisteddfodol yn trawsnewid y derwydd Celtaidd (niwlog, fe ellid dadlau) yn Archdderwydd eisteddfodol, ac yn hoelio'r sylw ar agwedd benodol ar y traddodiad a ysbrydolwyd gan y ddelwedd wreiddiol. Ac wrth gwrs, tra pherthnasol yw'r cyfeiriad Archdderwyddol hwn o gofio bod y cyfieithydd ei hun wedi gwasanaethu fel Archdderwydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ystod y blynyddoedd 2010–2013.

Yn ôl Walford Davies: 'Thomas is responding fully, not only to a remembered individual, but to a particular religious culture and way of life [sef agweddau ar y traddodiad Anghydffurfiol], which were for him inadequate reflections of Ann's real love and

---

[1137] Hardy, *Dylan Thomas: An Original Language*, t. 13.
[1138] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[1139] Jones, *Nawr*, t. 102.

kindness.'[1140] Gwrthgyferbynna Thomas garedigrwydd Ann â sychdduwioldeb y Cymry yn y llinellau canlynol:

> dead, humped Ann
> Whose hooded, fountain heart once fell in puddles
> Round the parched worlds of Wales.[1141]

Fel y dywed John Ackerman: 'Ann's heart is described as a fountain generously and selflessly refreshing the "parched worlds of Wales".'[1142] Mwysair yw 'parched' sy'n cyfuno'r gair Cymraeg 'Parch./parchedig' a'r gair Saesneg 'parched', ac sy'n cyfleu sychdduwioldeb y Cymry a sychder y tir. Fe'n hatgoffir yma o ddefnydd Thomas o'r gair 'parchs' yn *Under Milk Wood*: 'a beer-tent black with parchs'.[1143] Ond fel y gwelwyd yn y bennod ar *Dan y Wenallt,* nid hawdd yw cyfieithu mwyseiriau, yn enwedig mwyseiriau megis y 'parched' hwn, sy'n cynnwys elfennau Cymraeg a Saesneg. Y mae, felly, yn werth craffu ar ymgais T. James Jones yn y cyswllt hwn:

> bu pistyll ei chalon gwflog yn arllwys i bwdeli
> ar draws crastiroedd Gwalia gyfan, a boddi pob haul. [1144]

Tra mae 'crastiroedd' yn cyfleu sychder y tir, nid yw'n cyfleu sychdduwioldeb y Cymry. Dichon mai ei fethiant i atgynhyrchu'r mwysair 'parched' – tasg anodd os nad amhosibl, yn wir – a barodd iddo gyfieithu 'Wales' yn 'Gwalia'. Y mae'r gair hen ffasiwn a barddonllyd hwn (eironig-farddonllyd yn y cyd-destun, wrth gwrs) yn rhwym o'n hatgoffa o weddi foreol y Parchedig Eli Jenkins yn *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt* – gweddi sy'n agor â'r ebychiad 'Dear Gwalia!'[1145] neu 'O, Walia!',[1146] ynghyd â chysylltiad teuluol Dylan Thomas â'r bardd-bregethwr Gwilym Marles a ganodd hefyd i Walia yn ei gerdd 'Cân Mewn Cystudd':

> O Anwyl Walia! fam-wlad gu,
> A gwlad adgofion borau!
> Lle dring y bannau cribog fry
> Hyd fin y glas ororau,
> Lle nytha'r bwthyn yn y pant
> Yn mhlith y tyner feillion,
> Yn nhrydar pêr y risial nant –
> O wlad fy hen gyfeillion![1147]

[1140] Davies, *Dylan Thomas: Open Guides to Literature*, t. 64
[1141] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[1142] John Ackerman, *A Dylan Thomas Companion: Life, Poetry and Prose* (London, 1994), t. 103.
[1143] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 17.
[1144] Jones, *Nawr*, t. 102.
[1145] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 20.
[1146] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 25.
[1147] Gwilym Marles, *Prydyddiaeth* (Castellnewydd Emlyn, 1859), t. 33.

Gellir dadlau yn y cyswllt hwn fod T. James Jones yn defnyddio'r enw hwn ar Gymru yn ei gyfieithiad i amlygu etifeddiaeth ddiwylliannol a chrefyddol Gymreig a Chymraeg Dylan Thomas – etifeddiaeth a gyfoethogodd waith y bardd, bid sicr ond traddodiad hefyd, fel y gwelir yn 'After the funeral', yr adweithiodd Thomas yn chwyrn yn erbyn rhai agweddau penodol arno. Enghraifft o gywerthedd dynamig (*dynamic equivalence*) yw'r cyfieithiad 'crastiroedd Gwalia' gan ei fod yn cyflwyno delwedd sy'n gydnaws â'r ddelwedd wreiddiol o'r 'parched worlds of Wales', ond heb fod yn gyfieithiad llythrennol. Yng ngeiriau Eugene Nida:

> One way of defining a D-E [dynamic equivalence] translation is to describe it as 'the closest natural equivalent to the source-language message' [...] a D-E translation is directed primarily towards equivalence of response rather than equivalence of form.[1148]

Un elfen sydd ar goll yng nghyfieithiad T. James Jones o 'worlds of Wales',[1149] fodd bynnag, yw'r awgrym fod sawl math o Gymru yn bodoli, er enghraifft, y Gymru Eingl-Gymreig, swbwrbaidd y magwyd Dylan Thomas ynddi a Chymru Gymraeg, wledig a chrefyddol Anghydffurfiol Ann Jones, i enwi dau yn unig. Gellir cynnig nad yw 'crastiroedd Gwalia gyfan' yn cyfleu'r bwlch neu'r pellter diwylliannol hwn rhwng y nai a'i fodryb i'r un graddau â'r gair 'worlds'. Tybed ai gormod yw honni bod hyn yn fwriadol gan T. James Jones gan fod Dylan Thomas, yn ei dyb ef, yn perthyn i'r un Gymru â'i fodryb?

Drwy gyfeirio at 'her broken body', 'her bent spirit' a 'crooked year',[1150] ensynia Dylan Thomas fod Anghydffurfiaeth wedi llesteirio Ann Jones. Awgrymir bod y pwysau i gydymffurfio â chonfensiynau'r capel fel petai wedi ei hanffurfio. Fel y dywed M. Wynn Thomas: 'the dead woman herself is pityingly figured as one who had her whole life crippled by the inhibitions bred by the chapel in her very bones.'[1151] Ynghyd â disgrifio ei 'chorff briw', ei 'hysbryd crwm' a 'blwyddyn gam' ei marwolaeth,[1152] â T. James Jones gam ymhellach na Thomas i gyfleu bod Anghydffurfiaeth Gymreig wedi llethu ysbryd y fenyw hon drwy adleisio un o gerddi enwocaf W. J. Gruffydd, 'Gwladys Rhys'. Y mae ei gyfieithiad o'r llinell 'And sculptured Ann is seventy years of stone'[1153] – 'a charreg nadd yw Ann yn ddeg a thrigain

[1148] Nida, 'Principles of Correspondence', t. 151.
[1149] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 73.
[1150] Ibid, t. 74.
[1151] M. Wynn Thomas, 'Marlais', yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration*, (London, 2014), t. 24.
[1152] Jones, *Nawr*, t. 102.
[1153] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 74.

oed'[1154] – yn dwyn i gof y llinellau canlynol o 'Gwladys Rhys' – un o destunau Cymraeg diffiniol yr adwaith, ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn erbyn yr hyn a welid fel yr agweddau llesteiriol, dinistriol ar y bydolwg Anghydffurfiol:

> Am hynny, deithiwr, yma 'rwyf yn gorwedd
> Wrth dalcen Capel Horeb – Gwladys Rhys,
> Yn ddeg ar hugain oed, a 'nhad a 'mam
> Yn pasio heibio i'r Seiat ac i'r Cwrdd,
> Cyfarfod Gweddi, Dorcas, a phwyllgorau
> Cymdeithas Ddirwest Merched Gwynedd; yma
> Yn nyffryn angof, am nad oedd y chwa
> A glywswn unwaith o'r gororau pell
> Ond sŵn y gwynt yn cwyno yn y pîn.[1155]

Ymetyb W. J. Gruffydd yn ddeifiol i gulni a chrefyddoldeb eithafol y gymdeithas Gymraeg yn y gerdd hon. Llais Gwladys Rhys, 'Merch hynaf y Parchedig Thomas Rhys',[1156] a glywir ynddi. Y mae'n llefaru o'r tu hwnt i'r bedd ac yn esbonio na chafodd erioed fyw bywyd cyffredin, arferol a chymdeithasgar, ond yn hytrach un a oedd yn gorfod cydymffurfio â'r hyn a ddisgwylid ganddi fel merch i weinidog. Y mae'r gyfeiriadaeth lenyddol yn nhrosiad T. James Jones yn cryfhau'r syniad bod Ann hefyd, fel Gwladys, wedi ei llethu a'i mygu gan y gymuned Gymraeg, Anghydffurfiol. Perthnasol yw sylw John Goodby: 'Ann's personality was stultified by her faith and domestic circumstances.'[1157] Yn debyg i hyn, gellir dehongli disgrifiad Dylan Thomas o'i 'scrubbed and sour humble hands / Lie with religion in their cramp'[1158] fel trosiad am y ffordd y crebachwyd Ann gan grefydd. Fel y dywed Ronald P. Draper:

> Ann's scrubbed and sour humble hands 'Lie with religion in their cramp': the gesture of a working woman's arthritic hands is delineated realistically and at the same time acts as metaphor for a cramping religion.[1159]

Mwysair yw 'Lie' sy'n awgrymu bod elfen gelwyddog i grefydd, neu'n hytrach y dehongliad ohoni – syniad a atgyfnerthir gan y disgrifiad o'r 'cloud-sopped marble hands'.[1160] Drwy gyfosod y ddau air 'cloud' a 'sopped', y mae Dylan Thomas fel petai'n ensynio bod y cysyniad Cristnogol o'r nefoedd yn un twyllodrus. Ni lwyddodd T. James Jones i atgynhyrchu'r mwysair

---

[1154] Jones, *Nawr*, t. 103.
[1155] Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse / Blodeugerdd Rhydychen o Farddoniaeth Gymraeg* (Oxford, 1998), t. 436.
[1156] Ibid.
[1157] Goodby (gol.), yn *The Collected Poems of Dylan Thomas*, tt. 339–40.
[1158] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 74.
[1159] Ronald P. Draper, *The Literature of Region and Nation* (London, 1989), t. 103.
[1160] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 74.

‘Lie’: ‘Gwn y gorwedd ei dwylo diymhongar chwerw loyw / â chrefydd yn eu clamp’.[1161] Ond fel y gwelwn yn y man, llwyddodd i adfer ergyd y mwysair yn ei gyfieithiad gwych o ‘These cloud-sopped, marble hands’:[1162] ‘y dwylo marmor hyn, a dwyllwyd i’r cymylau’.[1163] Drwy chwarae â’r ymadrodd ‘canmol i’r cymylau’, cyflea Jones fod Ann yn cael ei chanmol i’r entrychion gan y capelwyr gwenieithus yn ystod ei chynhebrwng, gan awgrymu hefyd ei bod wedi ei thwyllo gan grefydd. Cefnu ar ei alwedigaeth yn y weinidogaeth a wnaeth Jones, ac, fel y dangosir maes o law yn y bennod hon, ymgodyma’n daer â’r cwestiynau hynny sy’n ymwneud â ffydd, marwoldeb a thragwyddoldeb mewn sawl cerdd o’i eiddo, gan gynnwys ei fersiynau Cymraeg o ddwy gerdd arall gan Dylan Thomas, sef ‘Do not go gentle into that good night’ ac ‘And death shall have no dominion’.

Fel y nodwyd, cred Dylan Thomas fod ei fodryb yn haeddu mwy na gwasanaeth traddodiadol, Anghydffurfiol i’w choffáu. Yn ôl John Ackerman:

> He is [...] embittered by the facile – and to him – inadequate acquiescence of the bereaved, who find sufficient balm in the theology of their conventional Nonconformist beliefs. Thomas protests against this, rejecting the attitudes of conventional piety.[1164]

Ac fel ei bardd mawl, sicrha Thomas erbyn diwedd y gerdd ei bod yn cael ei marwnadu, ei mawrygu a’i rhyddhau o’r traddodiad hwn. Yn hytrach na naddu carreg fedd i Ann, y mae’n naddu cerdd goffa orfoleddus iddi. Trwy rym ei eiriau, llwydda i atgyfodi’r llwynog marw a’r rhedyn llipa a oedd yn symbolau o farwolaeth ar ddechrau’r gerdd:

> These cloud-sopped, marble hands, this monumental
> Argument of the hewn voice, gesture and psalm
> Storm me forever over her grave until
> The stuffed lung of the fox twitch and cry Love
> And the strutting fern lay seeds on the black sill.[1165]

Fel y dywed M. Wynn Thomas:

> it is [...] the anti-chapel Thomas who emerges triumphant. That triumph is variously expressed in the poem as a power to raise an ‘alternative’, verbal tombstone in Ann’s memory, and as a power to resurrect the dead fox, so that its ‘stuffed lung … twitch and cry Love / And the strutting fern lay seeds on the black sill’.[1166]

[1161] Jones, *Nawr*, t. 103.
[1162] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 74.
[1163] Jones, *Nawr*, t. 103.
[1164] John Ackerman, *Dylan Thomas: His Life and Work* (London, 1996), t. 76.
[1165] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 74.
[1166] Thomas, *In The Shadow of the Pulpit*, t. 230.

Tra diddorol yw cyfieithiad T. James Jones o'r llinellau hyn:

> Bydd y dwylo marmor hyn, a dwyllwyd i'r cymylau,
> y trafod coffaol hwn o'r llais nadd, ei oslef a'i salm,
> am byth yn fy mytheirio uwchben ei beddrod,
> nes i ysgyfant sych y cadno roi plwc a chyfarth Serch
> ac i'r rhedyn torsyth hau ei hadau dan y ffenest erch.[1167]

Sylwer ar yr odl 'Serch' ac 'erch' sy'n cloi'r pennill hwn. Er bod odl ar ddiwedd y gerdd wreiddiol ('until' yn y llinell olaf ond dwy a 'sill'), nid yw'r ddwy linell olaf yn odli ('Love' a 'sill'). Perthnasol fyddai cyfeirio'n fyr yma at yr hyn a ddywed Francis R. Jones am ddulliau cyfieithwyr o drosi odlau. Dywed Jones fod strategaethau cyfieithwyr yn amrywio o 'abandonment to re-creation, with partial preservation (replacing full by half-rhyme, say) as a compromise.'[1168] Dyma'r prif resymau a nodwyd ganddo dros beidio ag atgynhyrchu odlau'r testun gwreiddiol wrth gyfieithu barddoniaeth:

- Rhyme may have negative associations (e.g. old-fashioned or trite) for receptor-genre readers.
- Finding rhyme-words is difficult, especially when the receptor language has less flexible word order and/or a greater variety of word-endings than the source (e.g. English relative to German and Italian respectively).
- Seeking rhyme leads to unacceptable semantic shifts – such as having 'to add images that destroy the poem's integrity'.[1169]

Gellid dadlau bod yr odl 'Serch' ac 'erch' yn y cyfieithiad yn enghreifftio trydydd pwynt Francis R. Jones: y mae yma newid yn natur y ddelwedd. Yn wir, gellid dadlau bod y gair 'Serch' yn anghydnaws, ar yr olwg gyntaf, am ei fod yn air sy'n gysylltedig â chwant ac â'r corfforol, mewn gwrthgyferbyniad â'r 'Love' – priflythrennog, sylwer – a geir yn y gwreiddiol. Ond, fel y dywed M. Wynn Thomas am y ddelwedd wreiddiol:

> The outrageous phallic thrust of that final image is, of course, utterly unmistakeable. As for his appropriating the term 'Love', that is a particularly interesting rhetorical move in the light of the adolescent Thomas's self-baffled, guilty letter to Trevor Hughes about his failure to love an aunt who had poured her love so unstintingly over him. In its mature, published, form, 'After the funeral' is therefore an attempt by the adult Thomas to make amends, but to do so on his own terms, the modern terms – very different from those of his aunt's conventional chapel culture – in which he understood 'love'.[1170]

[1167] Jones, *Nawr*, t. 103.
[1168] Jones, 'The Translation of Poetry', t. 174.
[1169] Ibid.
[1170] Thomas, *In the Shadow of the Pulpit*, t. 230.

Dichon hefyd fod Jones wedi penderfynu cloi'r gerdd ag odl i gyfleu uchafbwynt ac i gryfhau'r naws orfoleddus a'r ymdeimlad o ryddhad ar y diwedd. Yng ngeiriau Jane Aaron:

> Mae pawb yn y gerdd hon yn teimlo rhyw foddhad mewn marwolaeth, nid yn unig yn y galarwyr dauwynebog a'u hedrychiadau bywiog ar ei gilydd, ond hefyd y corff, sydd yn awr yn rhydd o bob llyffethair a phethau dibwys bywyd cymdeithasol dynolryw.[1171]

Cerddi angau: 'Y Pelican' ac 'Ac ni bydd gan angau deyrnas'

Fel y nodwyd eisoes, angau yw un o brif themâu'r gyfrol *Nawr*. Yn wir, hawdd yw gweld pam y dewisodd T. James Jones drosi 'After the funeral' a'i chyhoeddi yn y gyfrol hon. Fel y dywed Jones yn y rhagair i'r gyfrol: 'Prinhaodd fy mherthnasau yn ardal Castell-newydd Emlyn eto fyth pan fu farw Edith, yr olaf o'r llu antïod, a'i mab, Ainsleigh Davies; a cholledion enbyd oedd marw fy chwiorydd-yng-nghyfraith, Menna ac Avril.'[1172] Cofnoda Jones y colledion hyn yn *Nawr*. Cyhoeddwyd nifer o gerddi coffa yn y gyfrol, yn cynnwys 'Y cwymp yng Nghenarth' er cof am ei fam, a 'Diwrnod i'r Brenin' er cof am ei dad. Tra pherthnasol yn y cyswllt hwn yw nodi mai ei brofiad o golli ei dad a'i symbylodd i greu fersiwn Cymraeg o 'Do not go gentle into that good night' – cerdd enwog Dylan Thomas i'w dad yn ei waeledd – a hynny dan y teitl 'Y Pelican'. Ynghyd â'i hoffter personol o'r gerdd wreiddiol, awgrymodd Jones wrth yr awdur presennol mai rhan o'r ysgogiad i'w chyfieithu oedd y ffaith ei fod yn ymuniaethu â phrofedigaeth Dylan Thomas o golli ei dad yntau:

> I mi, o gerddi Dylan, gyda 'Fern Hill' yn gyntaf, 'Do not go gentle' yw'r ail orau. Roedd hynny'n rheswm dros greu fersiwn Cymraeg. Ychydig ynghynt roeddwn i wedi ceisio canu am fy mherthynas â Dat yn 'Diwrnod i'r Brenin'. Roedd hynny ar ôl tristwch y golled o'i farw. Yn 'Do not go gentle' mae Dylan yn drist o weld ei dad yn gorfod wynebu'i farw. Ni wynebodd Dat erchylltra'r cystudd hirfaith a brofodd tad Dylan.[1173]

Disgrifia Jones 'Y Pelican' fel fersiwn o gerdd Dylan Thomas i'w dad, D. J. Thomas, 'yn ystod ei gystudd hir yn Pelican House, Talacharn'.[1174] Yn wahanol i 'Fern Hill', sy'n rhannu'r un teitl â'r gerdd wreiddiol, ac 'Wedi'r cynhebrwng', sy'n gyfieithiad llythrennol o'r teitl 'After

[1171] Aaron, 'Heddwas ifanc iawn yn ffrwydro', t. 103.
[1172] Jones, *Nawr*, t. 7.
[1173] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Medi 2017.
[1174] Jones, *Nawr*, t. 109.

the funeral', creodd T. James Jones deitl newydd ar gyfer ei fersiwn o 'Do not go gentle into that good night'. Byddir yn trafod arwyddocâd y teitl hwn yn y man.

Cerdd ar fesur y *villanelle* yw 'Do not go gentle into that good night'. Yn ôl William York Tindall: '"Do not go gentle" would not be half so moving without the ritualistic repetition with variation that the form demands. Thomas had found the inevitable form for his purposes.'[1175] Caiff y llinell gyntaf a thrydedd llinell y pennill agoriadol eu hailadrodd am yn ail fel llinell olaf y pedwar pennill dilynol, a'u defnyddio fel llinellau olaf y gerdd ym Mhennill 6. Ymateb emosiynol ac angerddol mab i waeledd ei dad yw'r gerdd hon. Yr oedd D. J. Thomas yn ddifrifol wael ac yn colli ei olwg pan ysgrifennodd Dylan Thomas y gerdd. Erfynia Thomas yn daer ar ei dad i beidio ag ildio i angau heb frwydro. Y mae'r 'ritualistic repetition', chwedl Tindall, yn cryfhau naws erfyniol, angerddol y gerdd hon.

Dylid nodi mai 'night' a 'light' yw'r ddau air sy'n odli ym mhennill agoriadol y gerdd:

> Do not go gentle into that good night,
> Old age should burn and rave at close of day;
> Rage, rage against the dying of the light. [1176]

Gan mai'r ddau air hyn sy'n odli ar ddechrau'r gerdd, dyma'r odl a gynhelir drwyddi – 'right' a 'night', 'bright' a 'light', 'fight' a 'night', 'sight' a 'light', ac, i orffen, 'height' a 'light'. Y mae 'light' a 'night' yn crisialu prif thema'r gerdd hon, sef bywyd a marwolaeth. Yn 'Y Pelican', 'pam' a 'fflam' yw'r geiriau sy'n odli yn y pennill agoriadol. Wrth drafod y broses o greu'r gerdd hon, dywedodd T. James Jones wrth yr awdur presennol mai'r broblem fwyaf a gafodd wrth ei chyfansoddi oedd y ffaith fod 'odlau acennog yn brin iawn yn Gymraeg'– 'ond unwaith ges i afael ar yr odl, roedd y gerdd yn dod wedyn.' [1177] (Diddorol yw nodi bod llinellau decsillafog y gwreiddiol wedi troi'n llinellau o naw sillaf.) Gair sy'n herio yw 'pam', ac y mae 'fflam' yn cyfleu angerdd, goleuni a bywyd. Y mae'r geiriau hyn yn cyfleu'r elfen o herfeiddiwch sy'n greiddiol i neges y gerdd:

> Paid â mynd i'r nos heb ofyn pam;
> ysa, yn dy henaint, am droi'n gas
> wrth y drefn a fyn ddifodi'r fflam.[1178]

[1175] Tindall, *A Reader's Guide to Dylan Thomas*, t. 204.
[1176] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 148.
[1177] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 16 Awst 2016.
[1178] Jones, *Nawr*, t. 109.

Sylwer yma ar ddefnydd T. James Jones o'r gair 'cas'. Ynghyd â chyfleu dyhead y mab i weld ei dad yn herio'r drefn, dichon fod y gair 'cas' yn gyfeiriad at gymeriad D. J. Thomas ei hun. Fel y dywed Kate Crockett am y gerdd wreiddiol:

> Mae gwybod am gymeriad y dyn a'i natur biwis, ond eto am edmygedd di-ben-draw Dylan tuag ato, yn egluro llawer am y gerdd ac am y rhesymau pam yr oedd y mab yn ymbil, 'Curse, bless me now with your fierce tears, I pray.'[1179]

Gellir cynnig hefyd mai mwysair yw 'trefn' yng nghyd-destun y gerdd hon – gair sy'n cyfeirio at drefn bywyd – geni, heneiddio a marw – ond hefyd at y drefn ddwyfol. Nid amherthnasol yma yw'r hyn a ddywed Ralph Maud am y gerdd wreiddiol:

> Given D. J. Thomas's atheism, it follows that what Dylan is asking for in the poem are the fierce tears of existential rage. [...] He is asking for his father to be true to his vision of an unjust providence and to the anger which has become his essential nature.[1180]

Cofiai Marjorie Adix i Dylan Thomas ddweud mewn seminar ym Mhrifysgol Utah yn 1952 nad oedd anffyddiaeth ei dad yn ymwneud â'r cwestiwn ynghylch bodolaeth Duw, ond yn hytrach yn gasineb tuag at Dduw:

> his father [...] had been a militant atheist, whose atheism had nothing to do with whether there was a god or not, but was a violent and personal dislike for God. He would glare out of the window and growl: 'It's raining, blast Him!' or 'The sun is shining – Lord, what foolishness!' He went blind and was very ill before he died. He was in his eighties, and he grew soft and gentle at the last. Thomas hadn't wanted him to change...[1181]

Diddorol yn y cyswllt hwn yw cyfieithiad T. James Jones o'r llinell 'Curse, bless me now with your fierce tears':[1182] 'rhega fi â'th ddagrau llym, di-ras'.[1183] Gall 'di-ras' olygu 'anrasol', 'drwg', 'anfad', ond y mae yma chwarae hefyd gan y cyfieithydd ag ystyr ddiwinyddol 'gras', sef ffafr neu drugaredd Duw i ddynion. Y mae'r disgrifiad o'r dagrau fel rhai 'di-ras' yn fodd i amlygu felly anffyddiaeth D. J. Thomas ac yn cyfleu nad yw'r bardd yn dymuno gweld ei anffyddiwr blin o dad yn newid ei ffordd ar ddiwedd ei fywyd.

[1179] Kate Crockett, *Mwy na Bardd: bywyd a gwaith Dylan Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 118.
[1180] Maud, *Where Have the Old Words Got Me?*, t. 79.
[1181] Dyfyniad gan Marjorie Adix yn Maud, *Where Have All The Old Words Got Me*, t. 79.
[1182] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 148.
[1183] Jones, *Nawr*, t. 109.

Ond tra oedd D. J. Thomas 'yn anghrediniwr cryf', chwedl T. James Jones, yr oedd ei dad ef 'yn grediniwr'.[1184] Dadlennodd Jones fod

> cyferbynnu'r sefyllfaoedd hyn yn rhan o'r ysgogiad i greu 'Y Pelican'. Hefyd roedd fy amheuon crefyddol innau yn dechrau dylanwadu ar fy ngwaith, megis y gerdd 'Ofon' [cerdd arall a ymddangosodd yn *Nawr*]. Falle fy mod yn dechrau dyfalu sut y dylwn innau, yn fy anghredinieth, wynebu profiad tebyg i un D.J.[1185]

Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, fe dâl inni droi unwaith eto at ragair Jones i'r gyfrol *Nawr* lle y dywed: 'Cyrhaeddais innau oed yr addewid – a chyfnod o hunanholi ac o fentro gofyn ambell gwestiwn athronyddol a chrefyddol poenus nad wyf yn honni y gallaf eu hateb.'[1186] Un nodwedd amlwg o anghrediniaeth yw'r ysfa i ofyn pam – dyna, yn ôl T. James Jones, a barodd iddo '[f]abwysiadu llinell allweddol y gerdd':[1187] 'Paid â mynd i'r nos heb ofyn pam'.[1188] Arwyddocaol hefyd yn hyn o beth yw'r ffaith mai 'difodi'r fflam' a wna'r drefn yn 'Y Pelican' – nid 'diffodd y fflam', fel y disgwylid, o bosibl. Dyma gyfleu daliadau ac agwedd yr anghrediniwr tuag at farwolaeth: nid oes bywyd ar ôl marwolaeth, nid oes gobaith i'r fflam ailgynnau – difodaeth yw angau. Yn wir, gellir cynnig bod T. James Jones yn archwilio ei amheuon crefyddol ei hun yn 'Y Pelican', fel y gwelwn ymhellach yn y man.

Er bod 'Y Pelican' yn gyfieithiad creadigol llwyddiannus o 'Do not go gentle', o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, y mae'r trosiad yn gwegian mewn mannau dan y pwysau i gydymffurfio â rheolau'r *villanelle*, fel y gwelwn yn achos y modd y cyfieithwyd y llinellau canlynol: 'Wild men who caught and sang the sun in flight, / And learn, too late, they grieved it on its way, / Do not go gentle into that good night':[1189] 'Dynion gwyllt a gipiai, o roi llam, / hynt yr haul ar gân, cyn colli blas, / ân' nhw ddim yn bridd heb ofyn pam.'[1190] Nid yw'n glir beth yw arwyddocâd y gair 'blas' yn y llinellau hyn, er enghraifft. Y mae'r dweud fel petai'n cael ei ystumio yma er mwyn cynnal yr odl yn y gerdd: 'cas', 'ffas', 'las', 'ras', 'di-ras'. Y mae'n werth ailadrodd pwynt Francis R. Jones yn y fan hon: 'Seeking rhyme leads to unacceptable semantic shifts – such as having "to add images that destroy the poem's

[1184] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Medi 2017.
[1185] Ibid.
[1186] Jones, *Nawr*, t. 7.
[1187] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Medi 2017.
[1188] Jones, *Nawr*, t. 109.
[1189] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 148.
[1190] Jones, *Nawr*, t. 109.

integrity".'[1191] Ni ddylai'r cyfieithydd atgynhyrchu'r ffurf ar draul y cynnwys. Yn ôl Eugene Nida:

> correspondence in meaning must have priority over correspondence in style. However, this assigning of priorities must never be done in a purely mechanical fashion, for what is ultimately required, especially in the translation of poetry, is 'a re-creation, not a reproduction'.[1192]

Er hyn, gan ddefnyddio termau Nida, gellir haeru nad 'atgynhyrchiad' yw 'Y Pelican' o'i ystyried yn ei gyflawnder, ond 'ail-gread'. Diddorol yn y cyswllt hwn fyddai edrych ar y modd y cyfieithwyd y delweddau trawiadol o'r dynion yn 'Do not go gentle' – y 'Wise men', y 'Good men', y 'Wild men' a'r 'Grave men' – gan T. James Jones. Y mae'n werth craffu ar y delweddau hyn yn y gerdd wreiddiol i ddechrau. Dywed Ralph Maud fod y dynion hyn yn 'examples of frustration' gan eu disgrifio fel 'failures who have lost their way and are angry at not fulfilling themselves.'[1193] Y mae Maud hefyd yn gosod D. J. Thomas yn yr un cae â'r dynion hyn: 'D. J. Thomas was most certainly in that category.'[1194] Caiff D. J. Thomas ei bortreadu yn aml iawn fel dyn chwerw a oedd yn anhapus â'i yrfa. Gwyddys iddo, er enghraifft, ymgeisio am swydd yn Adran Saesneg y brifysgol yn Abertawe, ond cafodd ei siomi. Fel y nododd Kate Crockett: 'nid oedd yn athro bodlon ar fechgyn ysgol. Credai fod ei dalentau'n haeddu gwell.'[1195]

Er bod y 'Wise men', y 'Good men', y 'Wild men' a'r 'Grave men' yn edrych ar fywyd mewn ffyrdd gwahanol iawn i'w gilydd, awgrymir yn y gerdd fod un peth yn gyffredin rhyngddynt: y mae pob un yn teimlo'n rhwystredig. Awgrymir hefyd nad yw'r dynion yn derbyn angau'n dawel gan nad ydynt yn teimlo eu bod wedi cyflawni'r hyn yr oeddent wedi gobeithio ei gyflawni yn ystod eu bywydau. Er bod y 'Wise men', er enghraifft, yn gwybod bod angau'n anochel, awgrymir eu bod yn rhwystredig nad ydynt wedi newid y byd â'u geiriau doeth: 'Though wise men at their end know dark is right, / Because their words had forked no lightning they / Do not go gentle into that good night.'[1196] Y mae'r 'Good men', o bosibl, yn ei chael hi'n anodd derbyn eu tynged a hwythau wedi byw mor 'dda' a moesol: 'Good men, the last wave by, crying how bright / Their frail deeds might have danced in a green bay, / Rage,

[1191] Jones, 'The Translation of Poetry', t. 174.
[1192] Nida, 'Principles of Correspondence', t. 149.
[1193] Maud, *Where Have the Old Words Got Me?*, t. 77.
[1194] Ibid.
[1195] Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 43.
[1196] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 148.

rage against the dying of the light.'[1197] Y mae'r 'Wild men', sydd wedi ceisio byw i'r eiliad ac i'r eithaf, yn sylweddoli nad yw amser yn aros i neb. Yn ôl Ralph Maud, 'the "wild men", the poets [...] find that they have been serenading a passing scene and cannot be happy when their total output is one big elegy':[1198] 'Wild men who caught and sang the sun in flight, / And learn, too late, they grieved it on its way, / Do not go gentle into that good night.'[1199] Awgrymir bod y 'Grave men', sef y dynion sydd, yn ôl Maud, wedi ymfalchïo yn eu llymder a'u difrifoldeb ar hyd eu bywydau – y rheini sydd wedi cadw eu hemosiynau dan glo – yn sylweddoli ar y diwedd fod modd teimlo angerdd a hapusrwydd: 'Grave men, near death, who see with blinding sight / Blind eyes could blaze like meteors and be gay, / Rage, rage against the dying of the light.'[1200] Dengys Dylan Thomas fod pob llwybr mewn bywyd yn arwain at angau.

Rhestra T. James Jones yntau ddynion doeth, da, gwyllt a difrifol yn 'Y Pelican'. Serch hynny, ni rydd yr un pwyslais ar yr ymdeimlad o rwystredigaeth. Yn hytrach, canolbwyntia Jones yn ei fersiwn ef ar gyfleu herfeiddiwch y dynion hyn yn wyneb eu tynged anochel gan ailadrodd y datganiad 'ân' nhw ddim [yn llwch/i'r dwfn/yn bridd/i'r gwag] heb ofyn pam' ar ddiwedd pob pennill. Defnyddia'r bardd y diwydiant glo i gyfleu protest y gwŷr doeth: 'Doethion yn eu noethni'n mentro cam / lawr i bwll heb olau ar y ffas / ân' nhw ddim yn llwch heb ofyn pam.'[1201] Yn ogystal, defnyddia'r diwydiant morwrol i gyfleu herfeiddiwch y gwŷr da: 'Dynion da'n eu dagrau'n cofio cam / alw dawns y don mewn cilfach las, / ân' nhw ddim i'r dwfn heb ofyn pam.'[1202] Nid yw arwyddocâd y ddelweddaeth yn y pennill nesaf yn glir, ond o sylwi ar y cyfeiriad at y pridd (sydd hefyd, wrth gwrs, yn fetaffor ar gyfer claddedigaeth ac angau), tybed ai'r diwydiant amaeth a grybwyllir gan Jones yma?: 'Dynion gwyllt a gipiai, o roi llam, / hynt yr haul ar gân, cyn colli blas, / ân' nhw ddim yn bridd heb ofyn pam.'[1203] Ac yn olaf, defnyddia'r diwydiant dur i gyfleu protest y gwŷr dwys a difrifol: 'Gwŷr y beddau'n llon er gweld, yn gam, / wreichion gwib ffwrneisi'r sêr ar ras, / ân' nhw ddim i'r gwag heb ofyn pam.'[1204] Sylwer bod T. James Jones wedi cyfieithu 'Grave men' yn llythrennol fel 'Gwŷr y beddau' yn ei fersiwn ef. Mwysair yw 'Grave' yn y testun gwreiddiol sy'n cyfleu natur ddifrifol y dynion hyn ac sydd hefyd yn awgrymu eu bod ar drothwy angau. Gwelwn fod Jones

[1197] Ibid.
[1198] Maud, *Where Have All the Old Words Got Me?*. t. 77.
[1199] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 148.
[1200] Ibid.
[1201] Jones, *Nawr*, t. 109.
[1202] Ibid.
[1203] Ibid.
[1204] Ibid.

wedi cyfaddawdu wrth gyfieithu'r mwysair hwn. Y mae'n debyg iddo benderfynu cyfieithu 'Grave' fel 'beddau', yn hytrach na 'difrifol', gan ei fod yn atgyfnerthu prif thema'r gerdd.

Dylid nodi bod gan Abertawe gysylltiadau cryf â'r diwydiannau a ddelweddir gan T. James Jones yn y gerdd hon. Diddorol hefyd yw sylwi ei fod yn pwysleisio peryglon y diwydiannau hyn yn y gerdd. Byddai angau yn wynebu'r glowyr yn nhywyllwch y pyllau glo 'heb olau ar y ffas', er enghraifft, ac yn barod i gipio'r morwyr sy'n camddarllen 'dawns' y tonnau, ynghyd â'r gweithwyr dur sy'n gweld '[g]wreichion gwib' wrth drin metel tawdd. Gallai'r amgylchiadau hyn oll arwain at farwolaeth. Y mae cysylltiad amlwg rhwng y 'llwch', y 'dwfn', y 'pridd' a'r 'gwag' yng nghyd-destun y gerdd hon – y mae pob un yn drosiad am farwolaeth. Er bod y 'llwch' yn cyfeirio at lwch y glo, y 'pridd' yn cyfeirio at y tir, a'r 'dwfn' yn cyfeirio at y môr, y mae'r geiriau hyn hefyd yn rhwym o'n hatgoffa o'r geiriau a draddodir mewn angladd: 'Pridd i'r pridd, lludw i'r lludw, llwch i'r llwch'. Ond tra mae 'llwch' a 'pridd' yn drosiadau Cristnogol am angau, gellir awgrymu bod y gair 'gwag' yn drosiad 'anffyddiol' – a'r gwacter yn drosiad am ddifodaeth.

Tra diddorol hefyd yw'r cyfeiriad at wacter yng nghyfieithiad T. James Jones o'r llinell 'And you, my father, there on the sad height'[1205] ym mhennill olaf y gerdd: 'Tithau 'nhad, yng ngwagle'r Pelican'.[1206] Ceir adlais yn llinell Dylan Thomas o ddrama Shakespeare, *King Lear*. Fel y noda Walford Davies: 'The last stanza clearly evokes both King Lear on the heath and Gloucester thinking he is at Dover Cliff, with a tense use of commas'.[1207] Gellir awgrymu bod defnydd Dylan Thomas o gyfeiriadaeth Shakespearaidd yn ffordd o gydnabod dylanwad ei dad, y 'passionate Shakespearean',[1208] chwedl M. Wynn Thomas, ar ei yrfa farddol. Yng ngeiriau M. Wynn Thomas: 'This famous villanelle bespeaks Thomas's awareness that his father had not only begotten him; it was his father, too, who had made him a poet.'[1209] Gan ddyfynnu o gerdd Yeats, 'Lapis Lazuli' – 'Tragedy wrought to its uttermost [...] Hamlet rambles and Lear rages'[1210] – noda M. Wynn Thomas fod Dylan Thomas yn erfyn ar ei dad yn ei henaint i ymgymryd â rôl Lear y pennill hwn ac i droi 'age' yn 'rage': 'Dylan Thomas is trying to provoke the sick atheist into once more roaring the disgusted cry that had characterized him in his prime: "It's raining again, damn Him."'[1211] Yn hytrach na chyfieithu'r ddelwedd Yeatsaidd-

[1205] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 148.
[1206] Jones, *Nawr*, t. 109.
[1207] Davies, *Dylan Thomas*, t. 124.
[1208] Thomas, 'There's words', t. 92.
[1209] Ibid., t. 91.
[1210] Ibid., t. 92.
[1211] Ibid.

Shakespearaidd, fodd bynnag, cynigiodd T. James Jones ei ddarlun ergydiol ei hun o 'wagle'r Pelican',[1212] sy'n ddelwedd ingol ac unig. Yn sicr, penderfyniad doeth oedd peidio â cheisio atgynhyrchu'r cyfeiriad at *King Lear*. Fel y dywed Francis R. Jones: 'references to other works [...] may be hard to recreate or analogize – especially if a poem's restricted format gives no room for explicitation.'[1213] Pelican House oedd enw cartref D. J. Thomas yn Nhalacharn, a dadlennodd T. James Jones fod enw'r tŷ wedi cynnig delwedd iddo 'gyfieithu'r cymal anodd "on the sad height",[1214] ynghyd â Salm 102:6, am ei fod

> yn sôn am y profiad enbyd o deimlo unigrwydd trwy ddweud 'Tebyg wyf i i belican yr anialwch'. Tybed a yw anghredinieth yn dwysáu'r profiad o unigrwydd? Falle'n wir.[1215]

Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, gellir cynnig bod T. James Jones, cyn-bregethwr a ddechreuodd gwestiynu ei ffydd yn ystod ei gyfnod yn y weinidogaeth, yn ymuniaethu ag unigrwydd y Salmydd wrth wynebu 'dinistr dieflig difancoll angau',[1216] fel pelican yr anialwch. Mewn cerdd sy'n crybwyll anffyddiaeth, y mae'n eironig fod y cyfieithydd wedi troi at destun/ffurf grefyddol fel y salm i fynegi unigrwydd yr anffyddiwr yn wyneb angau. Awgrymir yn gryf yn y gerdd hon nad yw anffyddiaeth yn cynnig unrhyw gysur i unigolyn ar ddiwedd ei fywyd gan fod rhaid derbyn nad oes bywyd ar ôl marwolaeth.

Y mae'n werth galw sylw yn y cyswllt hwn fod T. James Jones yn mynegi ei amheuon crefyddol yn y gerdd 'Ofon', sydd hefyd wedi'i chyhoeddi yn *Nawr*. Crisielir yn y gerdd hon gyfyng-gyngor yr anffyddiwr sy'n chwilio am gysur ond sy'n methu ei gael drwy grefydd:

Heb neb i wbod,
fe geith 'i demto o hyd
i fynd ar 'i linie,
sach bo' fe'n ame
taw siarad â'i hunan ma' fe.[1217]

Dylid nodi hefyd fod Jones yn disgrifio'r gwacter hwn yn ei lêngofiant fel 'gelyn pennaf dynolryw, sef difancoll'.[1218] Gosodwn hyn yn ei gyd-destun wrth drafod arwyddocâd y ddelwedd 'Davy dark'[1219] yn *Under Milk Wood*, sef delwedd o angau ar y môr ('Davy Jones's

---

[1212] Jones, *Nawr*, t. 109.
[1213] Jones, 'The Translation of Poetry', t. 174.
[1214] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Medi 2017.
[1215] Ibid.
[1216] Ibid.
[1217] Jones, *Nawr*, t. 119.
[1218] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 72.
[1219] Thomas, *Under Milk Wood*, t. 4.

locker'), ynghyd â'i gyfieithiad ef o'r ymadrodd hwn ('Dafi dwfn'[1220]), esbonia Jones fod Dylan Thomas, ar ddechrau'r ddrama, yn amlygu

> presenoldeb gelyn pennaf dynolryw, sef difancoll. Tua diwedd y ddrama dywed Rosie Probert, 'unig gariad' Capten Cat, iddi lwyr anghofio ei bod hi 'byth wedi bod'. O dan lawenydd a doniolwch bywyd mae dinistr dieflig difancoll angau ei hunan yn llechu.[1221]

Fel y gwelwn o graffu ar bennill olaf y gerdd 'Ofon', y mae'r syniad o ddifancoll a difodaeth yn ei gythryblu:

A'r ofon sy'n 'i fyta fe
yw yr eith ynte
wedyn
yn
ddim
yw
d
i
m[1222]

Cerdd arall sy'n haeddu sylw yn y cyswllt hwn yw awdl fuddugol T. James Jones, 'Ffin', a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007. Y mae'r awdl hon yn dilyn 'Ofon' yn y gyfrol *Nawr*, diddorol yw nodi. Yn yr awdl hon, archwilia Jones ei ffydd dan gysgod angau. Y mae'n trafod y gerdd hon yn ei lêngofiant gan ddweud mai'r 'dychryn pennaf yw ofni ein difodiant ein hunain'.[1223] Dywed ymhellach ei fod wedi ceisio mynegi ei amheuon crefyddol yn y gerdd gan gwestiynu 'a ddeil [ei] ddiwinydda i herio gweledigaeth Copernicus fel y gwnaeth yr eglwys yn ei gyfnod yntau.'[1224] Fe dâl inni nodi yn y fan hon i'r seryddwr Nicolaus Copernicus fynd yn groes i'r Eglwys Gatholig yn yr unfed ganrif ar bymtheg â'i theori mai'r haul, nid y ddaear, yw canolbwynt ein system solar – theori a oedd yn mynd yn erbyn dysgeidiaeth ddyn-ganolog yr Eglwys ac yn amlygu dinodedd dynolryw. Gofynna T. James Jones yn ei lêngofiant:

> a yw'r gred mewn achubiaeth bersonol unigolyddol yn ceisio dychwel dyn i ganol bydysawd tra oedd darganfyddiad Copernicus wedi ei roi ar yr ymylon? Ai ein twyllo ein hunain a wnawn pan gredwn ein bod ninnau mor bwysig fel na fyddwn farw mewn gwirionedd?[1225]

[1220] Jones, *Dan y Wenallt* (2014), t. 4.
[1221] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 72.
[1222] Idem, *Nawr*, t. 119.
[1223] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 122.
[1224] Ibid.
[1225] Ibid.

Yn ôl Jones, rhan greiddiol o bob hunanymwadiad, sef craidd dysgeidiaeth Crist, 'yw derbyn ein meidroldeb neu adnabod ein dinodedd gerbron rhyfeddod ein bod.'[1226] Â rhagddo yn ei lêngofiant i awgrymu bod perygl i Gristnogaeth gael ei '[ll]urgunio gan hunanoldeb a hunanbwysigrwydd crefyddwyr'[1227] nad ydynt yn derbyn eu meidroldeb, ac fe gyflea hyn fel a ganlyn yn ei awdl 'Ffin':

Ond ein harch ddychryn ers cyn cof
Yw'r hen ing yr awn ni'n angof
I gafn ogof ein negydd;

Hwn o hyd yw ofn yr ofnau;
Ac i nadu ei gnoadau
Ein hangau wnawn yn angof

O weld yr haul, er cilio dro
Bob diwetydd, yn bod eto –
Wedi'i wawrio o'r dwyrain.[1228]

Yn yr awdl hon, y mae dau gariad yn 'dal dwylo'n dynn'[1229] wrth ddod i delerau â'u meidroldeb ger bron machlud Mynydd Epynt, nid yn annhebyg i'r ddau gariad sy'n dal dwylo yng nghanol storm eira yn Nhyddewi yn y bryddest 'Llwch' (1986). Noda Jones yn ei lêngofiant fod 'eschatoleg clo'r bryddest a'r awdl fel ei gilydd yn ymateb i gwestiwn dyrys dau gariad ynghylch eu hanfarwoldeb.'[1230] Y mae diweddglo'r awdl, fodd bynnag, yn amwys:

Ar anadl eithaf ein dydd, fe safwn
o flaen ei hud diflanedig,
ac yn sydyn wedyn, daw
nawr
ein dallu gan dywyllwch...

a diwedd deuawd

a'r nawr
y daw Arawn i'n hôl.[1231]

Y mae'r cyfeiriad at Arawn, brenin Annwn, yn dra arwyddocaol. Yng ngeiriau T. James Jones: 'Gall Arawn ein harwain naill ai i'r Annwn sy'n baradwys yn ôl y baganiaeth Geltaidd neu i'r

[1226] Ibid., t. 123.
[1227] Ibid., t. 122.
[1228] Ibid., t. 124.
[1229] Ibid., t. 120.
[1230] Ibid.
[1231] Ibid., t. 126.

Annwn sy'n uffern yn ôl y traddodiad Cristnogol. A hwn efallai yw eironi yr eironïau.'[1232] Nodir yn y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* fod Annwn

> yn bodoli mewn dwy ffurf wahanol, naill ai fel ynys neu ynysoedd rywle ym moroedd y gorllewin neu yr oedd wedi ei leoli o dan y ddaear mewn *sidh* neu dwmpath Tylwyth Teg. [...] y mae'n lle o lawenydd tragwyddol a hapusrwydd. Eithr o dan ddylanwad Cristnogaeth defnyddiwyd yr enw Annwn am Uffern yn y Gymraeg, a gelwid trigolion y lle yn ddemoniaid.[1233]

Y mae'n sicr yn werth cyfeirio yma at gerdd Jones 'y lôn at Ynys Gwales' a gyhoeddwyd yn *Cymanfa* (2014). Ynddi, edrycha'r llefarydd i gyfeiriad Ynys Gwales, sef i gyfeiriad marwolaeth, gan fyfyrio ynghylch y profiad o groesi'r ffin derfynol o dir y byw i'r bedd:

> Pan af, ryw dro, drwy'r nos gul
> sha thre i Ynys Gwales, mynnaf
> gael yno baradwys difodiaeth [...]
>
> Ond yn nyfnder dunos fy amheuon
> fe'm goleuwyd droeon â breuddwydio:
>
> a oes golau y tu hwnt i Ynys Gwales,
> a miri haf, efallai, ym Mro Afallon?[1234]

Cerdd a ysbrydolwyd gan brofiadau'r bardd o gerdded ar hyd 'lôn hudolus â'i hannel fel petai'n syth at Ynys Gwales'[1235] yn Nolton Haven, Sir Benfro yw 'y lôn at Ynys Gwales'. Fel y dywed Jones:

> Am ryw hyd, wrth gerdded arni, yn enwedig dan fachlud haul, fe â'r môr o'r golwg, a'r ynys yn unig a welaf yn ffrâm y cloddiau; yn yr eiliadau hynny, fe'm cludir bentigili ati. Ar y lôn mae bwlch i fynwent. Oedaf ynddo, gan mai yno y ceir signal ffôn cryfaf yr ardal. Fy neges gyson at berthynas neu gydnabod yw y bwriadaf, unwaith eto, fynd heibio i fwlch y fynwent. [1236]

Ar y lôn hon gwêl y bardd 'hen wynebau'n goleuo / yn annwyl, fel heuliau hwyliog, / neu'n cymylu'n dalcenni cuch',[1237] ac fe arswyda wrth sylweddoli na chaiff fyth eto 'mo'u gweld yn nhes eu cnawd'.[1238] Y mae arwyddocâd symbolaidd amlwg i'r lôn yn y gerdd. Yn chwedl Branwen ferch Llŷr, er enghraifft, ynys arallfydol, ddi-gof yw Ynys Gwales lle treuliodd y

---

[1232] Ibid, t. 124.
[1233] Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1986), t. 16.
[1234] Jones, *Cymanfa*, tt. 18–19.
[1235] Ibid, t. 99.
[1236] Ibid.
[1237] Ibid., t. 18.
[1238] Ibid.

saith a ddihangodd o Iwerddon bedwar ugain mlynedd yn byw heb heneiddio a heb ofid. Gellir cynnig mai lôn sy'n arwain at angau yw'r lôn at Ynys Gwales. Fel y dywed Alan Llwyd yn ei adolygiad o'r gyfrol *Cymanfa*: 'Ynys Gwales yw diwedd y daith'.[1239] Ynys hud, arallfydol yw Ynys Afallon hefyd – 'gwlad y bythol ifanc'.[1240] Yn hytrach na mynd ar drywydd crefyddol a chonfensiynol wrth drafod y syniad o fywyd ar ôl marwolaeth, try T. James Jones at ddelweddaeth chwedlonol fel Ynys Gwales, Ynys Afallon ac Annwn yn y gerdd hon.

Er bod Jones yn dychmygu sut y byddai ef, fel un sy'n cwestiynu ei ffydd, yn teimlo wrth wynebu angau yn 'Y Pelican', 'Ofon' ac 'y lôn at Ynys Gwales', y mae ei agwedd at y syniad o ddifodaeth yn wahanol yn y gerdd olaf o'r tair hyn. Sylwer yn arbennig ar y cyfeiriad at 'baradwys difodaeth' yn y pumed pennill:

> Pan af, ryw dro, drwy'r nos gul
> sha thre i Ynys Gwales, mynnaf
> gael yno baradwys difodiaeth...[1241]

Y mae'r gair 'paradwys' yn y cyd-destun hwn yn awgrymu bod y syniad o 'ddifodaeth' yn apelio at y bardd sy'n dioddef cur hiraeth a blinder henaint. Ond diddorol hefyd yw sylwi bod Jones yn fwy agored i'r syniad o fywyd ar ôl marwolaeth yn 'y lôn at Ynys Gwales'. Fel y noda Alan Llwyd: 'Yn hytrach na derbyn mai diddymdra llwyr sy'n disgwyl amdanom, mae'n gofyn cwestiynau', er enghraifft:

> yn nyfnder dunos fy amheuon
> fe'm goleuwyd droeon â breuddwydion
>
> a oes golau y tu hwnt i Ynys Gwales,
> a miri haf, efallai, ym Mro Afallon?[1242]

Y mae ei weledigaeth a'i agwedd tuag angau yn llai tywyll yn y gerdd hon. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw'r ffaith ei fod yn awgrymu yn ei lêngofiant nad 'diwedd hyll' yw angau o anghenraid, 'gan fod i'r nos ei glendid, fel y bu'r werin Gymreig yn canu am ddwy ganrif:

> golau arall yw tywyllwch
> sy'n arddangos gwir brydferthwch.'[1243]

[1239] Alan Llwyd, 'Adolygiad: *Cymanfa*', *Taliesin*, 153 (Gaeaf 2014), t. 103.
[1240] Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, t. 648.
[1241] Jones, *Cymanfa*, t. 19.
[1242] Ibid.
[1243] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 120.

Dywed Jones ymhellach ei fod yn mynegi'r un gwirionedd yn ei awdl 'Ffin': 'glaned â seithliw goleuni / yw du'r nos sy'n ein haros ni.'[1244]

Y mae safbwyntiau crefyddol T. James Jones, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, yn 'anghyson'[1245] ac yn pendilio rhwng agnosticiaeth ac anffyddiaeth. Yn 'Ofon', er enghraifft, y mae ei weledigaeth yn un dywyll a phendant wrth iddo fynegi ei ofn ynghylch peidio â bod. Yn ogystal, awgrymodd wrth yr awdur presennol ei fod yn ymuniaethu â D. J. Thomas fel anghrediniwr yn 'Y Pelican'. Ond fel y gwelwn yn 'y lôn at Ynys Gwales', y mae Jones hefyd yn coleddu agnosticiaeth ac yn barod i gwestiynu.

Cymwys yma felly yw tynnu sylw at fersiwn Cymraeg T. James Jones o gerdd Dylan Thomas, 'And death shall have no dominion' –'ac ni bydd gan angau deyrnas' – a gyhoeddwyd yn yr un gyfrol ag 'y lôn at Ynys Gwales', sef *Cymanfa* (2014). Fel yr awgryma'r teitl, angau ac anfarwoldeb yw prif themâu y gerdd wreiddiol. Fe'i lluniwyd gan Dylan Thomas mewn cystadleuaeth gyfeillgar rhyngddo ef ac A. E. Trick i weld pwy fyddai'n gallu ysgrifennu'r gerdd orau am anfarwoldeb.[1246] Caiff teitl y gerdd, sef yr ymadrodd Beiblaidd 'And death shall have no dominion', ei ailadrodd ar ddechrau a diwedd pob pennill, sy'n rhoi'r argraff inni mai cerdd gwbl grefyddol yw hon. Fel y dywed William York Tindall: 'Like a preacher with "hwyl", Thomas is conducting a service for all the dead in certain hope of glorious resurrection.'[1247] Ond er bod elfennau crefyddol amlwg yn y gerdd hon, ni ellir dweud bod ei neges yn grefyddol. Fel y dywed Ralph Maud:

> The poem has a very powerful sense of defiance of death, but it is puzzling how this is accomplished. It is more in the reiteration of a strong rhythmical biblical phrase rather than any of the arguments sandwiched in between, which offer no religious consolation.[1248]

Gan ddefnyddio arddull Feiblaidd, awgryma Dylan Thomas ein bod yn rhan o drefn ehangach, gosmig y bydysawd. Er bod y gerdd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf fel protest yn erbyn angau, y mae'r bardd, mewn gwirionedd, fel petai'n derbyn y drefn.

Wrth drafod defnydd T. James Jones o 'iaith naturiol' yn y gyfrol *Cymanfa*, sef tafodiaith ac iaith 'eglur' sy'n 'dwyllodrus' o syml ar adegau, rhydd John Roberts sylw

---

[1244] Idem, *Nawr*, t. 125.
[1245] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[1246] Maud, *Where Have All The Old Words Got Me?*, t. 37.
[1247] Tindall, *A Reader's Guide to Dylan Thomas*, t. 122.
[1248] Maud, *Where Have the Old Words Got Me?*, t. 38.

arbennig i'r llinell 'Ac ni bydd gan angau deyrnas' yn ei adolygiad o'r gyfrol, gan awgrymu 'mai anfantais y defnydd hwn o eiriau yw colli ambell drawiad cyfarwydd'.[1249] Er ei fod yn canmol y gerdd 'Ac ni bydd gan angau deyrnas' fel '[c]yfieithiad clir nad yw'n arwynebol',[1250] awgryma hefyd ar yr un gwynt nad yw Jones wedi glynu'n ddigon agos wrth y ffynhonnell Feiblaidd – 'y mae'r adnod yng nghyfieithiad William Morgan o lythyr Paul at y Rhufeiniaid yn hynod rymus: "nid arglwyddiaetha marwolaeth arno mwyach".'[1251] Ym marn Roberts, y mae symlrwydd y dweud yn fersiwn Jones fel petai'n pylu'r adlais Beiblaidd. Ond, fel y dywed yr adolygydd, '[m]ympwy bersonol yw peth felly, gellid dadlau, [ac mae] mwy i'w ennill wrth ddewis yr iaith eglur rwydd y gellir ymateb iddi.'[1252]

Nid amherthnasol yw nodi mai llinellau wythsill yw 'And death shall have no dominion'[1253] ac 'Ac ni bydd gan angau deyrnas'.[1254] Gan fod rhythm y llinell 'And death shall have no dominion' mor gryf a chofiadwy, gellir cynnig bod atgynhyrchu'r mydr yn bwysicach i T. James Jones nag adleisio'r ffynhonnell Feiblaidd yn slafaidd. Cadarnhaodd y bardd mai ei fwriad oedd 'cadw rhywbeth tebyg i deitl Dylan Thomas – yr un aceniad a'r un nifer o sillafau.'[1255] Fel y dywed William York Tindall am y gerdd hon: 'rhythm is the triumph here – rhythm, symphonic vowels, grandeur of manner, and a kind of ecstasy.'[1256]

Er bod y gerdd Saesneg yn ymddangos fel cerdd grefyddol ar yr olwg gyntaf, y mae Dylan Thomas yn cymysgu syniadau Cristnogol a seciwlar am fywyd a marwolaeth ym mhob pennill. Fel y noda John Goodby, y mae fel petai'n pendilio rhwng 'rhetorics of belief and non-belief in resurrection'[1257] yn y gerdd hon. Yn ôl T. James Jones, yr oedd 'y trafod am angau'[1258] wedi ei ysgogi i greu fersiwn o 'And death shall have no dominion':

> 'Wy wedi dod i'r oedran nawr lle ma' popeth fel 'na o ddiddordeb mawr i mi. Ar un olwg hefyd, allet ti ddweud bod y gerdd yma gan grediniwr. [...] 'Wy'n credu mai hon, mewn gwirionedd, yw'r un ddiwethaf i mi ei chyfieithu o waith Dylan.[1259]

[1249] Roberts, 'Adolygiad: *Cymanfa*', t. 55.
[1250] Ibid.
[1251] Ibid.
[1252] Ibid.
[1253] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 56.
[1254] Jones, *Cymanfa*, t. 91.
[1255] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[1256] Tindall, *A Reader's Guide to Dylan Thomas*, t. 121.
[1257] John Goodby, *Discovering Dylan Thomas*: *A Companion to the Collected Poems and the Notebooks Poems* (Cardiff, 2017), t. 58.
[1258] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[1259] Ibid.

Yn amlwg, bu i thema'r gerdd apelio ato, ond ymddengys hefyd y bu i ymdriniaeth anghonfensiynol Dylan Thomas â'r thema ei ysgogi i greu fersiwn Cymraeg ohoni. Ystyrier, er enghraifft, sylwadau Ralph Maud am y ddelweddaeth yn y gerdd:

> Lines 7–8 of the first stanza could fall into the Christian frame of resurrection: 'Though they go mad they shall be sane, / Though they sink through the sea they shall rise again.' But already in line 2 the 'dead men naked' have been given an entirely secular immortality in becoming one with the wind, moon and stars. Then there is a different tack before we end the stanza: 'though lovers be lost love shall not' – as though it is only important that the Platonic idea of love be eternal, not individuals.[1260]

Yn wir, trawiadol yw cyfieithiad T. James Jones o'r ddelwedd 'Dead men naked shall be one / With the man in the wind and the west moon':[1261] 'Bydd meirwon noethion yn un / â Morus y Gwynt a Dyn y Lleuad'.[1262] Epithet wedi ei drawsosod yw 'man in the wind and the west moon' (y drefn arferol, wrth gwrs, fyddai 'man in the moon' a 'west wind'), sy'n cyfleu gweledigaeth gosmig y bardd fod y meirw'n un â'r bydysawd – y gwynt a'r lleuad. Sylwer bod T. James Jones wedi cyflwyno cymeriad o rigwm Cymraeg i'w gyfieithiad, sef Morus y Gwynt. Y mae'r cyfeiriad annisgwyl hwn o fyd y plentyn at Morus y Gwynt yn gyferbyniad am y pegwn â naws Feiblaidd, ddwys y gerdd wreiddiol. Ond er ei fod yn anghydnaws â difrifoldeb y gwreiddiol, y mae'n gyfieithiad creadigol a chofiadwy o 'man in the wind and the west moon' – un sydd hefyd yn arwain yn daclus at Ddyn y Lleuad, a'r ddau gymeriad yn mynd â ni i fyd diniwed y plentyn.

Difyr hefyd yng nghyswllt barddoniaeth T. James Jones yw craffu ar sylw Ralph Maud ynghylch y syniad mai cariad Platonaidd sy'n dragwyddol ('the Platonic idea of love be eternal, not individuals'[1263]). Yn ei bryddest goronog 'Llwch', er enghraifft, y mae'r tensiwn rhwng meidroldeb dau unigolyn a'u cariad anfeidrol i'w deimlo drwy gydol y gerdd. Ond, fel y dywed Gwyn Thomas yn ei feirniadaeth ar y bryddest, y mae'r ddau gariad yn y gerdd ar eu hymweliad â Thyddewi fel petaent 'yn rhannu rhyw adnabod sy'n fath o loches rhag llwch marwoldeb.'[1264] Er bod dyn yn feidrol, awgryma T. James Jones yn y bryddest hon fod cariad yn rym tragwyddol a chadarn fel cadeirlan Tyddewi, sydd wedi goroesi treigl y canrifoedd. Yng ngoleuni hyn, gellir cynnig bod y llinell 'though lovers be lost love shall not'[1265] yn 'And death

---

[1260] Maud, *Where Have the Old Words Got Me?*, t. 38.
[1261] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 56.
[1262] Jones, *Cymanfa*, t. 91.
[1263] Maud, *Where Have the Old Words Got Me?*, t. 38.
[1264] Gwyn Thomas, 'Beirniadaeth Gwyn Thomas' yn W. Rhys Nicholas (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Abergwaun a'r Fro* 1986 (Llandysul, 1986), t. 39.
[1265] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 56.

shall have no dominion' yn un bwysig i T. James Jones, a gyfieithodd y llinell fel 'er colli cariadon ni chollir cariad.'[1266]

Ynghyd â'r cyfeiriadau at 'the man in the wind and the west moon', chwaraea Dylan Thomas hefyd yn ei gerdd ag ymadroddion ac idiomau cyfarwydd megis 'dead as a doornail' ('dead as nails') a 'pushing daisies' ('hammer through daisies'). Un ddelwedd hynod ddiddorol yn y cyswllt hwn yw 'the blows of the rain' yn y llinellau 'Where blew a flower may a flower no more / Lift its head to the blows of the rain'.[1267] Fel y nodwyd yn yr ail bennod, nid yw'n amhosibl mai'r ymadrodd Cymraeg 'bwrw glaw' a ysbrydolodd y ddelwedd hon. Fe'n hatgoffir yma o'r modd yr esgorodd y gair Cymraeg 'amser' ('am' a 'sêr') ar y ddelwedd gofiadwy 'How time has ticked a heaven *round the stars*' [myfi biau'r italeiddio] yn y gerdd 'The force that through the green fuse drives the flower'. Serch hynny, cyfieithodd T. James Jones y ddelwedd 'the blows of the rain' yn llythrennol fel 'ergydion y glaw':

> lle chwythai blodyn ni chwyd blodyn
> byth mwy ei ben at ergydion y glaw.[1268]

Er bod modd dehongli'r ddwy gerdd – 'And death shall have no dominion' a 'Do not go gentle into that good night' – fel protestiadau herfeiddiol yn erbyn henaint ac angau, gellir edrych ar fersiwn Cymraeg T. James Jones o 'Do not go gentle', 'Y Pelican', hefyd fel protest yn erbyn penderfyniad D. J. Thomas i beidio â throsglwyddo'r Gymraeg i'w fab. Noda M. Wynn Thomas fod 'Do not go gentle', yn ogystal â bod yn gerdd sy'n trafod y berthynas rhwng tad a mab, hefyd yn fyfyrdod ar wreiddiau: '"Do not go gentle" is also inescapably a poem about origins, about Swansea as a cradle of language, and about the power of words to shape personal identity.'[1269] Awgryma M. Wynn Thomas fod D. J. Thomas wedi annog ei fab i ymwrthod â gwreiddiau Cymreig a Chymraeg y teulu a chefndir dosbarth gweithiol ei fam drwy ei drwytho yn yr iaith Saesneg a'i llenyddiaeth.[1270] Yn 'Y Pelican', fodd bynnag, clywir Dylan Thomas yn siarad Cymraeg â'i dad. Fel y dywed Jones:

> in my Welsh version of 'Do not go gentle into that good night', I have imagined Dylan pleading with his father in Welsh, a verbal exchange deliberately denied him by his father. The child Dylan was even sent to elocution classes in order to erase all traces

[1266] Jones, *Cymanfa*, t. 91.
[1267] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 56.
[1268] Jones, *Cymanfa*, t. 91.
[1269] Thomas, 'There's words', t. 92.
[1270] Ibid.

> of a Welsh accent! The irony is that this Welsh language exchange in my version never took place.[1271]

Fel y gwelwn yn y man, y mae'n werth cadw'r dyfyniad hwn mewn cof wrth drafod drama anghyhoeddedig T. James Jones, *Dylan yn Fernhill*, gan mai dyna'n union a wnaeth Jones yn y ddrama honno hefyd, sef ailddychmygu Dylan fel plentyn yn siarad Cymraeg â'i berthnasau ar fferm Fernhill.

Cerddi Cwmdonkin: 'unwaith' ac 'y crwca yn y parc'

Wrth drafod yr hyn a'i symbylodd i greu fersiynau Cymraeg o ddwy gerdd bellach gan Dylan Thomas, 'Once it was the colour of saying' a 'The hunchback in the park', esboniodd T. James Jones ei fod yn cofio ymweld â Pharc Cwmdonkin yn ystod blwyddyn dathlu canmlwyddiant Thomas a bod yn 'ymwybodol bod yr ysgol yn agos iawn i'r parc'.[1272] Cyfeirir yma at yr ysgol a ddisgrifir gan Thomas yn y gerdd 'Once it was the colour of saying'. Dadlennodd Jones fod

> [c]ysylltiad i fi rhwng hon ['Once it was the colour of saying'] a'r 'Hunchback in the park'. Ei chysylltiad hi a'r 'Hunchback' a'i bod yn rhoi ffenest arall i'w blentyndod e – dyna'r ysgogiad dechreuol, 'wy'n credu. Ac wrth gwrs, rwyt ti'n sôn hefyd fan hyn am ddeffro ei emosiynau 'ma yn y fan hyn a'r syniade rhywiol hefyd a'i gysylltiad e â'r rhyw deg. Dyna pam nes i droi ati.[1273]

Gellir dehongli 'Once it was the colour of saying' hefyd fel cerdd am newid arddull neu ddull o farddoni. Fel un a chanddo ddiddordeb penodol yn iaith ac ieithwedd Dylan Thomas, hawdd yw deall atyniad y gerdd hon i T. James Jones. Cofnodir ynddi y trobwynt arddulliol a welwyd ym marddoniaeth Dylan Thomas yn 1938. Disgrifir 'Once it was the colour of saying' ac 'After the funeral' gan John Goodby, er enghraifft, fel 'a farewell to the modernism of his early work.'[1274] Ac yn ôl Barbara Hardy, fe'i dehonglwyd gan Vernon Watkins fel cerdd 'about a conversion from an early obscure symbol-charged style to a more emphatic humane concern.'[1275]

[1271] Jones, 'Various Versions', t. 236.
[1272] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[1273] Ibid.
[1274] John Goodby, 'Very profound and very box-office': the Later Poems and *Under Milk Wood*' yn John Goodby a Chris Wigginton (goln), *Dylan Thomas: Contemporary Critical Essays* (Basingstoke, 2001), t. 192.
[1275] Hardy, *Dylan Thomas: An Original Language*, t. 103.

Ond o ystyried ymgyrch T. James Jones i adfer Cymreictod Dylan Thomas, teg dweud hefyd fod y fan lle y lleolwyd y gerdd 'Once it was the colour of saying' wedi bod yn rhan fawr o'r ysgogiad i greu fersiwn Cymraeg ohoni, gan fod Dylan Thomas yn cydnabod dylanwad Abertawe ar ei waith yn y gerdd hon. Fe'i disgrifiwyd gan Thomas ei hun fel ei 'Cwmdonkin poem',[1276] ac fe ddisgrifia ynddi gyfnod dedwydd yn ei fywyd pan oedd yn fachgen ifanc, yn ysgrifennu barddoniaeth yn ei lofft yn 5 Cwmdonkin Drive. Â'r bardd rhagddo yn ei gerdd i ddisgrifio'r olygfa a welai o'i lofft – yr allt, y cae, yr ysgol a'r parc gyferbyn â'i gartref – manylion sy'n esgor ar atgofion bachgennaidd megis syllu ar ferched, triwantu gyda'r bechgyn a thaflu cerrig at gariadon yn y parc. Fel y dywed Walford Davies:

> The 'table' is Thomas's old writing table at 5 Cwmdonkin Drive, that impossibly steep street ('suburbia set at an impossible angle') that caused the horizontal school field opposite not only to seem small (the size of a cap) but deceptively to appear as if *it* was the thing tiltingly capsized. And all this 'the uglier side of the hill', the other side of which at that time was the open Carmarthenshire countryside of Fernhill holidays.[1277]

Egyr Dylan Thomas ei gerdd gan awgrymu bod ei hen ddesg ysgrifennu yn wlych gan inc a lliwiau ei eiriau: 'Once it was the colour of saying / Soaked my table the uglier side of a hill'.[1278] Cyfieithodd T. James Jones y llinellau hyn fel a ganlyn: 'Unwaith, lliw'r llefaru / a fwydai fy mord yr ochr hyllaf i'r bryn'.[1279] Mwysair yw '[b]wydai' yma sy'n cyfuno'r syniad o fwydo (mwydo) sef gwlychu, â bwydo. Ynghyd â chyfleu bod ei 'ford' wedi'i drochi mewn inc, awgryma Jones fod arddull liwgar, fyrlymus y bardd wedi bwydo neu faethu ei farddoniaeth ar un cyfnod. Y mae'n werth craffu hefyd ar gyfieithiad Jones o'r llinellau 'With a capsized field where a school sat still / And a black and white patch of girls grew playing',[1280] sef 'gyda'i gae fel cap ar oledd lle prifiai / llain ddu a gwyn o ferched ysgol / yn chwarae'n fud a byddar'.[1281] Gwelwn ei fod wedi dadelfennu'r mwysair 'capsized' wrth ei gyfieithu i'r Gymraeg er mwyn amlygu'r syniad bod y cae yn ymddangos yn fach – yr un maint â chap bachgen ysgol – a hefyd ar ogwydd. Y mae'r merched hefyd yn ymddangos fel blodau neu blanhigion du a gwyn yn tyfu yng nghae'r ysgol. Awgrymir yn y llinellau hyn fod persbectif y bardd yn cael ei wyrdroi oherwydd y pellter rhwng y cae a'i gartref a serthni'r stryd wrth iddo edrych ar yr olygfa hon drwy ffenestr ei lofft. Diddorol yw nodi nad yw T. James Jones yn

[1276] Goodby, *Discovering Dylan Thomas*, t. 158.
[1277] Davies, *Dylan Thomas*, t. 67.
[1278] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 74.
[1279] Jones, *Cymanfa*, t. 90.
[1280] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 74.
[1281] Jones, *Cymanfa*, t. 90.

cyfeirio'n uniongyrchol at yr ysgol yn ei fersiwn ef ond yn hytrach at y 'llain / ddu a gwyn o ferched ysgol'.[1282] Y mae'n amlwg yn effro i'r ffaith fod Dylan Thomas yn chwarae â phersbectif yn y llinellau hyn, fel y tystia ei ddisgrifiad o'r merched 'yn chwarae'n fud a byddar'.[1283] I'r bardd, sy'n syllu ar y merched drwy'r ffenestr, y maent yn ymddangos yn fud a byddar, ond ef ei hun, mewn gwirionedd, yw'r un mud a byddar am ei fod yn rhy bell i alw arnynt a hefyd i'w clywed o'i lofft.

Difyr hefyd yw defnydd T. James Jones o eiriau tafodieithol yn y gerdd hon megis 'bord', 'cryts' a 'mitsho'. Y mae'r geiriau tafodieithol hyn yn 'bwrw gwreiddiau mewn ardal arbennig',[1284] chwedl T. James Jones, sef Abertawe. Yng nghyswllt ei ymgyrch i adfer Cymreictod y bardd, gellir cynnig ei fod yn awyddus i ddangos mai wrth ei ddesg yn ei lofft yn Abertawe, a'r olygfa o'r ysgol a'r parc o'i flaen, y dechreuodd Dylan Thomas farddoni. Dyma ddangos mai Cymru – nid Lloegr nac America – oedd prif ysbrydoliaeth y bardd.

Ynghyd ag amlygu gwreiddiau Dylan Thomas yn Abertawe, gellir dadlau mai rhan o nod T. James Jones wrth gyfieithu 'Once it was the colour of saying' a 'The hunchback in the park' i'r Gymraeg yw adfer Abertawe Seisnigedig Thomas, a ddisgrifir ganddo fel 'Tawe, South Wales, England' yn ei stori fer 'Old Garbo',[1285] i'r Gymru Gymraeg. Cyhoeddwyd 'The hunchback in the park' yn 1941, yn ystod cyfnod eithaf diffrwyth yng ngyrfa farddol Dylan Thomas pan oedd yn byw yn Llundain ac yn brysur â gwaith ffilm a radio. Fel y dywed Walford Davies:

> The relative poetic silence of the 1941–4 period was indeed due to the interposition of filmic and radio commitments. But the unsettledness was more profound than that. During those years, Thomas was happiest and at his most creative when back in Wales – in Swansea, Laugharne, Tal-sarn or New Quay. [1286]

Ailymwelodd Thomas â fersiwn cynnar o 'The hunchback in the park' – 'that quintessential Swansea poem',[1287] chwedl Davies – a'i chyhoeddi yn ystod ei gyfnod yn Llundain. Yn ôl Davies, yr oedd perthynas Dylan Thomas â Chymru yn Antaeus-aidd.[1288] Yr oedd Cymru fel petai'n rhoi nerth creadigol iddo ac yn cynnig cyfoeth o ddeunydd iddo. Yn ôl Davies:

[1282] Ibid.
[1283] Ibid.
[1284] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[1285] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 215.
[1286] Davies, *Dylan Thomas*, t. 114.
[1287] Ibid.
[1288] Ibid.

> the experience in 'The hunchback in the park', relayed out the Swansea past, helped him reassemble, momentarily, his sense of place and geography in relation to his own spiritual development.[1289]

Portread o unigolyn unig a thrasig a geir yn y gerdd hon, ac y mae'r lleoliad yn ganolog iddi. Fel y noda John Ackerman: 'The poem "The hunchback in the park" [...] is an early example of how the poet makes direct use of particular Welsh landscapes'.[1290] Y mae'n debyg felly mai rhan o'r ysgogiad i greu fersiwn Cymraeg ohoni i T. James Jones oedd amlygu perthynas greadigol gref Dylan Thomas â Chymru. Yn ogystal, pan ofynnodd Jasper Rees i T. James Jones pa un oedd ei hoff gerdd gan Dylan Thomas, ei ateb oedd:

> It used to be 'Fern Hill', but now since working on it and translating it 'The Hunchback in the Park', and I love the title in Welsh. Just listen to it: 'Y Crwca yn y Parc'. It cracks![1291]

Yn debyg i 'Fern Hill', cerdd am blentyndod o bersbectif oedolyn yw 'The hunchback in the park'. Ysbrydolwyd y gerdd hon gan atgofion Dylan Thomas o Barc Cwmdonkin, sef y parc swbwrbaidd nad yw ond tafliad carreg o gartref ei blentyndod, 5 Cwmdonkin Drive. Fel yr awgryma'r teitl, gwrthrych y gerdd hon yw'r crwca a welai Thomas yn aml ym Mharc Cwmdonkin yn ystod ei blentyndod. Trafodir y crwca yn y gerdd o bersbectif y bechgyn ysgol ansensitif sy'n rhoi loes iddo, ac o bersbectif y bardd, sydd fel oedolyn, yn ymuniaethu â'r unigolyn hwn. Yng ngeiriau Walford Davies: 'Thomas is all at once the poet who writes the poem, one of the "wild boys innocent as strawberries", and the hunchback himself.'[1292]

Diddorol yw tynnu sylw at y ffaith i'r gerdd hon gael ei chyfieithu hefyd gan Aneirin Talfan Davies – gŵr a gynhyrchodd rai o weithiau radio enwocaf Dylan Thomas, megis 'Reminiscences of Childhood' (1943) a 'Quite Early One Morning' (1944). Cyhoeddwyd cyfieithiad Davies yn ei gyfrol *Diannerch Erchwyn a Cherddi Eraill* (1975). Fel y nodwyd eisoes, ceisiodd Davies ddangos yn ei gyfrol *Dylan: Druid of the Broken Body* (1964) fod gwaith Dylan Thomas yn llinyn cyswllt pwysig rhwng dau brif ddiwylliant Cymru – rhwng llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Eingl-Gymreig. Disgrifir y gyfrol hon gan M. Wynn Thomas fel

> the culmination of fifteen years of impressive engagement with Thomas's work – beginning as a struggle, conducted through the pages of Davies's important pioneering

[1289] Ibid., t. 115.
[1290] Ackerman, *Welsh Dylan*, t. 9.
[1291] Jasper Rees, 'T. James Jones on Dylan Thomas', <http://www.walesartsreview.org/t-james-jones-on-dylan-thomas/>; cyrchwyd 12 Rhagfyr 2016.
[1292] Davies, *Open Guides to Literature: Dylan Thomas*, t. 76.

> journal *Heddiw* (1936–42), to reconcile himself to the early Thomas's unorthodox Welshness and ending as an admirable effort to mediate Thomas's genius to a frequently hostile or indifferent Welsh-language culture.[1293]

Yng ngoleuni'r dyfyniad hwn, gellir cynnig bod Aneirin Talfan Davies a T. James Jones yn rhannu'r un nod cyffredinol wrth gyfieithu gwaith y bardd hwn, sef cydnabod Cymreictod Dylan Thomas a phontio rhwng y diwylliant Cymraeg a'r diwylliant Eingl-Gymreig.

Magwyd Aneirin Talfan Davies yng Ngorseinon, treflan yn ardal Abertawe, ac yn ôl M. Wynn Thomas yr oedd 'sawl tebygrwydd pwysig'[1294] rhyngddo ef a Dylan Thomas:

> [t]rwy ysgrifennu am Dylan Thomas medrai fynegi, ar osgo, lawer o'i deimladau cymhleth, ingol ef ei hun am y Gymru Gymraeg a oedd ohoni, y Gymru y daliai gwerthoedd Anghydffurfiaeth eu gafael ynddi o hyd. Ar un olwg, fe deimlai Aneirin Talfan ei fod ef, yr un fath â Dylan, yn un o bobl amheus yr ymylon yng ngolwg y Gymru honno, ac nid yw'n syndod, felly, fod Aneirin wedi cyfieithu 'The Hunchback in the Park' i'r Gymraeg. Cerdd yw honno, wrth gwrs, am fisffit o ddyn, cymeriad od, naill-aden.[1295]

Megis yn achos fersiwn T. James Jones, 'Y Crwca yn y Parc' yw teitl cyfieithiad Aneirin Talfan Davies yntau o 'The hunchback in the park'. Wrth bori drwy'r gyfrol *Diannerch Erchwyn a Cherddi Eraill*, gwelir bod ei gyfieithiad o'r gerdd hon yn dilyn ei gyfieithiadau o gerddi R. S. Thomas, sef 'Eto' a 'Saunders Lewis'. Dylid nodi yn y cyswllt hwn fod fersiynau Cymraeg T. James Jones o gerddi Dylan Thomas hefyd yn dilyn ei fersiynau Cymraeg o gerddi R. S. Thomas, sef 'priodas' ('A Marriage') ac 'fel 'na mae hi' ('The Way of It'), yn y gyfrol *Cymanfa*. Y mae penderfyniad diddorol Jones a Davies i gyfosod fersiynau Cymraeg o gerddi R. S. Thomas a Dylan Thomas yn eu cyfrolau yn arwyddocaol ac yn codi pwyntiau gwahanol ond cytras ynghylch y cysyniad o 'Gymreigio' barddoniaeth y beirdd Eingl-Gymreig hyn. Yn wahanol i Dylan Thomas, dysgodd R. S. Thomas y Gymraeg yn rhugl fel oedolyn a rhoddodd gynnig ar farddoni yn Gymraeg. Ond, yn ôl R. S. Thomas ei hun, dysgodd 'gyda gofid [...] nad oedd hynny'n bosibl.'[1296] Er iddo gyfansoddi ambell gerdd Gymraeg fel 'Y Gwladwr', er enghraifft, a gyhoeddwyd yn *Y Fflam* yn 1950, penderfynodd beidio â chyfansoddi cerddi Cymraeg am fod y Saesneg wedi'i gwreiddio'n rhy ddwfn yn ei isymwybod. [1297] Fel y dywed R. S. Thomas: '[G]an na chefais y fraint o gael fy magu mewn awyrgylch Cymraeg, nid oes

---

[1293] M. Wynn Thomas, '"He belongs to the English": Welsh Dylan and Welsh-language culture' yn *The Swansea Review*, 20 (2000), t. 126.
[1294] Idem, 'Dylanwadau', yn *Taliesin*, 112 (Haf 2001), t. 20.
[1295] Ibid., t. 21.
[1296] Jason Walford Davies, *Gororau'r Iaith: R. S. Thomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg* (Caerdydd, 2003), t. 313.
[1297] Ibid., t. 313.

gennyf mo'r reddf na'r hyder sy'n anhepgor i un a fynnai arfer iaith yn y modd mwyaf celfydd sydd, sef i wneud cerdd.'[1298] Drwy gyfieithu ei gerddi i'r Gymraeg, y mae T. James Jones ac Aneirin Talfan Davies yn cyflawni'r hyn y methodd R. S. Thomas ei hun ei wneud, sef barddoni trwy gyfrwng y Gymraeg. Noda Jason Walford Davies yn ei gyfrol *Gororau'r Iaith* y bu i Gwyn Thomas gyfieithu'r gerdd 'Hill Christmas' i'r Gymraeg gan ddisgrifio'r cyfieithiad fel 'ymgais i wneud i R. S. siarad yr iaith a oedd agosaf at ei galon.'[1299] At hyn, awgryma Jason Walford Davies y gellid 'cyfiawnhau'r defnydd o derm newydd yn benodol ar gyfer [gwaith R. S. Thomas] – "Eingl-*Gymraeg*"',[1300] a hynny oherwydd trwchusrwydd ac amlder y gyfeiriadaeth lenyddol Gymraeg yn ei waith. Dywed ymhellach fod 'helaethrwydd, trylwyredd a soffistigeiddrwydd yr adleisiau Cymraeg' yng ngwaith R. S. Thomas yn profi ei fod wedi 'dychwelyd at lygaid y ffynhonnau, ac wedi ymgydnabod yn drwyadl â llenyddiaeth Gymraeg yn hytrach na dibynnu ar ryw "dryddiferiad", rhyw "seepage" Eingl-Gymreig annelwig.'[1301] Gellir cynnig bod cyfieithu cerddi Dylan Thomas, ar y llaw arall, yn brosiect diwylliannol ehangach ac yn fath gwahanol o Gymreigio. Ni ellir honni yn yr un modd mai'r Gymraeg oedd yr iaith agosaf at galon Dylan Thomas, wrth gwrs. Ond yr hyn a wna T. James Jones drwy gyfieithu ei gerddi i'r Gymraeg yw ceisio adfer y 'golled' ddiwylliannol ac ieithyddol a brofodd Thomas (ac eraill o'i genhedlaeth), a dangos ei fod, er gwaethaf penderfyniad ei rieni i beidio â throsglwyddo'r iaith iddo, yn perthyn i'r diwylliant Cymraeg. Fel y dywed Damian Walford Davies:

> Gan fod Dylan Thomas yn ffigwr rhyngwladol, hawdd ydy anghofio pa mor Gymreig oedd. Tra yn achos R. S. does dim amheuaeth, am iddo ddysgu'r iaith. Ond lawn gymaint â'r Thomas arall a adfeddiannodd yr iaith, ni biau Dylan.[1302]

Er nad oedd Dylan Thomas yn rhannu'r un diddordeb ag R. S. Thomas mewn llenyddiaeth Gymraeg, y mae'n amlwg nad yw T. James Jones yn credu mai 'rhyw dryddiferiad Eingl-Gymreig annelwig' a geir yng ngwaith y bardd hwn ychwaith, fel y gwelwn maes o law yn y bennod ar ddrama anghyhoeddedig Jones, *Dylan yn Fern Hill*.

Un peth sy'n ein taro'n syth wrth gymharu fersiynau Aneirin Talfan Davies a T. James Jones o 'The hunchback in the park' yw bod fersiwn Jones yn llawer mwy tafodieithol nag eiddo Davies. Ac y mae'r defnydd hwn o dafodiaith yn llinyn cyswllt amlwg rhwng gwaith

---

[1298] Dyfynnir yn Ibid., t. 312.
[1299] Ibid., t. 326.
[1300] Ibid., t. 327.
[1301] Ibid.
[1302] *Thomas v. Thomas – Brwydr y Beirdd*, Cwmni Da. Darlledwyd ar S4C, 26 Hydref 2014.

Jones fel cyfieithydd ac fel bardd Cymraeg yn ei hawl ei hun. Y mae cyfieithiad Jones o 'The hunchback in the park' yn frith o eiriau tafodieithol deheuol megis 'Mishtir', 'cwtsh', 'cryts', 'mitsho', 'bant', 'shiglai', 'hala' a 'di-wardd'.[1303] Enghraifft sy'n mynnu sylw manwl yn y cyswllt hwn yw'r cyfieithiad o'r llinell 'The truant boys from the town',[1304] sef 'Cryts mitsho'r ysgol o'r dre'.[1305] Cymharer y cyfieithiad hwn â chyfieithiad Aneirin Talfan Davies: 'Yr hogiau triwant o'r dref'.[1306] Y mae'n werth nodi mai 'the mitching boys' oedd y llinell wreiddiol yn fersiwn cynnar Dylan Thomas o'r gerdd hon, ond fe newidiodd y bardd y gair 'mitching' i 'truant'. Y mae 'mitching' yn air sy'n cysylltu'r gerdd ag ardal Abertawe. Sylwer hefyd fod T. James Jones wedi cyfieithu 'boys' yn dafodieithol fel 'cryts' – gair a arferir yn y De. Dichon fod Jones wedi adfer y gair tafodieithol 'mitching' a ddefnyddir ar lafar yn ne Cymru er mwyn amlygu perthynas Dylan Thomas â'i fro enedigol a dangos mai un o 'gryts' Abertawe yw'r bardd. Y mae tinc gogleddol i'r gair a ddefnyddir gan Aneirin Talfan Davies, sef 'hogiau'. Ond o gymharu cystrawen y ddau gyfieithiad, gellid dadlau bod llinell T. James Jones – 'Cryts mitsho'r ysgol o'r dre'[1307] – yn afrwydd braidd. Tybed a fu iddo ychwanegu 'ysgol' at ei gyfieithiad er mwyn amlygu ystyr y gair 'mitsho'?

Gair tafodieithol arall sy'n haeddu sylw arbennig yw 'Bant' yng nghyfieithiad T. James Jones o 'Running when he had heard them clearly / On out of sound':[1308] 'Cyn rhedeg heibio i'w glyw clir / Bant hwnt i'w glust.'[1309] Dyma ddelwedd synesthetig, trawiadol sy'n cyfleu bod y bechgyn chwim yn diflannu o glyw'r crwca ac o'i olwg. Fel y dywed M. Wynn Thomas am y llinell wreiddiol: 'This truant phrase, like so many of Thomas's, is itself a hunchback, because it wilfully distorts a well-known idiom – "run on out of sight".'[1310] Awgryma hefyd fod y ddelwedd hon yn cyfleu bwrlwm ac egni barddoniaeth Dylan Thomas: 'as a poet he feels most at home with the errant life and the wild energy of words. Those are the words that, like the truant boys, once they are clearly heard can then seem to "run on out of sound".'[1311] Yn ogystal, yn ôl M. Wynn Thomas, gall 'run on out of sound' olygu 'run on out of the reach of sound' neu, megis yn rhai o gerddi Dylan Thomas, 'run on propelled only by sound'. [1312] Cyfosododd

[1303] Jones, *Cymanfa*, t. 92.
[1304] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1305] Jones, *Cymanfa*, t. 92.
[1306] Aneirin Talfan Davies, *Diannerch Erchwyn a Cherddi Eraill* (Abertawe, 1975), t. 33.
[1307] Jones, *Cymanfa*, t. 92.
[1308] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1309] Jones, *Cymanfa*, t. 92.
[1310] Thomas, 'There's words', t. 92.
[1311] Ibid.
[1312] Ibid., t. 93.

T. James Jones y gair tafodieithol 'Bant' â 'hwnt' yn ei gyfieithiad i greu odl broest sionc sy'n dod â'r darlun o'r bechgyn chwim yn fyw i'r glust ac i'r llygad. Y mae sŵn yr odl broest yn y cyfieithiad hefyd yn ein hatgoffa bod barddoniaeth yn caniatáu i eiriau redeg 'bant hwnt' i'w hystyron arferol. 'Ymlaen allan o glyw'[1313] yw cyfieithiad Aneirin Talfan Davies, sy'n fwy llythrennol – a phedestraidd – ac sydd, gan hynny, yn darparu cyferbyniad trawiadol â chyfieithiad creadigol, tafodieithol T. James Jones.

Er na cheir patrwm odli gwbl reolaidd yn 'The hunchback in the park', ceir odlau drwyddi draw sy'n clymu llinellau a phenillion ynghyd, megis 'park' a 'dark'; 'mister', 'water', 'enter' a 'newspaper'; 'cup' ac 'up'; 'gravel' a 'kennel', ac ati. Er nad yw T. James Jones yn atgynhyrchu odlau Thomas yn ei fersiwn ef, ceir ymgais ganddo i ymgyrraedd at fywyd seiniol y gwreiddiol drwy fritho ei gerdd ag odlau mewnol ('gnul' a 'Sul', 'heb' a 'neb'); odlau proest ('bant' a 'hwnt'); ac odlau cyflawn ('dŵr' a 'dŵr' a 'deuai', eisteddai' a 'gwaeddai'). Ceir yn ogystal yn fersiwn T. James Jones linellau â chyffyrddiadau odlog a chytseiniol diddorol megis 'Tan gnul Sul cloch y gwyll'[1314] ('Until the Sunday sombre bell at dark'[1315]). Ymhellach, cofiadwy yw'r odl fewnol a'r cyflythrennu ar 'n' yn y llinell 'Ond heb i neb ei gadwyno'[1316] ('But nobody chained him up'[1317]) – llinell sy'n cyfleu'n effeithiol ymdeimlad eironig o gaethiwed sy'n adlewyrchu sefyllfa'r crwca yn ei gymdeithas. Y mae'r tensiwn hwn rhwng y caeth a'r rhydd yn cryfhau'r syniad bod y crwca – sy'n 'rhydd' yn yr ystyr ei fod yn grwydryn yr awyr agored yn y parc – wedi'i gaethiwo i fodolaeth druenus ar gyrion cymdeithas oherwydd ei anffurfiad corfforol. Yn ogystal, sylwn yn arbennig ar yr odlau mewnol yn nhrosiad T. James Jones: 'Fel yr adar cynnar y deuai'[1318] ('Like the park birds he came early'[1319]), a hefyd yn y llinell 'A phig ei ffon bigo dail',[1320] sy'n adleisio odl fewnol y llinell wreiddiol – 'With his stick that picked up leaves'.[1321] Ac er mwyn llawn werthfawrogi crefft Jones fel bardd-gyfieithydd, y mae'n werth cyfeirio'n fyr yma at gyfieithiadau Aneirin Talfan Davies o'r enghreifftiau a nodwyd. Y mae cyfieithiadau Jones o 'But nobody chained him up'[1322] ac 'With his stick that picked up leaves',[1323] er enghraifft, yn llawer mwy dramatig-greadigol na

[1313] Davies, *Diannerch Erchwyn*, t. 33.
[1314] Jones, *Cymanfa*, t. 92.
[1315] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1316] Jones, *Cymanfa*, t. 92.
[1317] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1318] Jones, *Cymanfa*, t. 92.
[1319] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1320] Jones, *Cymanfa*, t. 92.
[1321] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1322] Ibid.
[1323] Ibid.

chynigion mwy llythrennol Aneirin Talfan Davies, sef 'Ond ni roes neb gadwyn am ei wddf'[1324] ac 'A'i ffon codi dail'.[1325]

Un odl dra phwysig ym mhennill cyntaf a phennill olaf 'The hunchback in the park' yw 'park' a 'dark' sy'n cyfleu cylch dydd a nos ac sydd, fel yr odl 'light' a 'night' yn 'Do not go gentle', yn cyfleu prif neges y gerdd. Cawn wybod fod y crwca unig yn eistedd yn y parc o fore gwyn tan nos – 'Until the Sunday sombre bell at dark'. Ond, fel y gwelwn, gall 'dark' fod yn symbol am angau hefyd. Fe dâl inni graffu yma ar ddisgrifiad Dylan Thomas o'r 'Sunday sombre bell at dark' yn y pennill cyntaf, a gyfieithwyd yn llwyddiannus iawn gan T. James Jones fel 'Tan gnul Sul cloch y gwyll.' Nid cyfeirio yn unig at glychau'r eglwys a wna Thomas yma (fel yr awgryma Aneirin Talfan Davies yn ei gyfieithiad yntau – 'Tan gloch sabathaidd brudd y nos'), ond hefyd at ganiad cloch alar ar achlysur angau neu angladd. Y mae defnydd T. James Jones o'r gair 'cnul' yn amlygu'r posibilrwydd fod ystyr dywyllach i'r disgrifiad hwn. Priodol yn y cyswllt hwn fyddai cyfeirio at y llinellau 'And the wild boys innocent as strawberries / Had followed the hunchback / To his kennel in the dark', sy'n disgrifio drygioni'r bechgyn ac amodau byw digalon y crwca. Awgrymir yma mai angau yw tynged y crwca a'r bechgyn ifainc fel ei gilydd. Fel y dywed John Goodby: 'all the objects in the park, and the boys themselves, go with him "To his kennel in the dark", suggesting that the kennel is a symbol for mortality itself.'[1326] Enghraifft o epithet wedi'i drawsosod yw'r disgrifiad chwareus o'r 'wild boys innocent as strawberries' (cymharer: 'wild strawberries', 'innocent boys'), sy'n troi ein disgwyliadau ben i waered ac yn amlygu drygioni'r bechgyn sy'n bell o fod yn ddiniwed wrth iddynt boenydio'r crwca. Ceisiodd T. James Jones atgynhyrchu defnydd creadigol Dylan Thomas o'r Saesneg yn ei fersiwn ef drwy gynnig cyfieithiad llythrennol o'r llinell hon, ond gellir dadlau nad yw'n gweithio cystal yn Gymraeg: 'A'r cryts di-wardd mor ddiniwed â mefus / Ddilyn y crwca / I'w gwtsh yn y gwyll'.[1327] Cymharer y cyfieithiad tafodieithol hwn hefyd â chyfieithiad Aneirin Talfan Davies: 'A'r hogiau mor ddiniwed â mefus / Ddilyn y cefngrwm / I'w wâl yn y gwyll.'[1328] Sylwer na chyfieithodd Davies yr ansoddair 'wild' yn y llinellau hyn – gair sy'n fanylyn anhepgor yn nisgrifiad Dylan Thomas. Y mae ei ddisgrifiad o'r 'hogiau mor ddiniwed â mefus' yn hollol ddiystyr heb y gair hwn. Byddai'n well pe bai T. James Jones ac Aneirin Talfan Davies wedi ymateb yn greadigol i'r

[1324] Davies, *Diannerch Erchwyn*, t. 33.
[1325] Ibid.
[1326] Goodby, *Discovering Dylan Thomas*, t. 182.
[1327] Jones, *Cymanfa*, t. 93.
[1328] Davies, *Diannerch Erchwyn*, t. 34.

llinellau hyn drwy greu darlun o'r newydd sy'n gydnaws â'r gwreiddiol, yn hytrach na cheisio cyfieithu'r darlun gwreiddiol (hynod unigolyddol a dyfeisgar) yn llythrennol i'r Gymraeg.

Ynghyd â hepgor yr ansoddair 'wild', gwelwn hefyd na chyfieithodd Aneirin Talfan Davies un o eiriau pwysicaf y gerdd, sef 'unmade' yn y llinell 'All night in the unmade park'[1329]: 'Drwy'r nos yn y parc'.[1330] Chwaraea Dylan Thomas yma â'r syniad o barhauster gwrthrychau (*object permanence*) yn y gerdd hon. Awgrymir yn y gerdd fod y parc a phopeth ynddi – 'the railings and shrubberies / The birds the grass the trees the lake / [...] the wild boys'[1331] – yn peidio â bod yn y nos (am na chânt eu hamgyffred a'u profi gan yr ymwybod a'r synhwyrau dynol bryd hynny). Er i T. James Jones roi cynnig ar gyfieithu 'unmade' fel 'afluniaidd' ('Ar hyd nos y parc afluniaidd'[1332]), nid parc 'afluniaidd' sydd gan Dylan Thomas mewn golwg yma, ond parc sy'n cael ei ddad-wneud bob nos (a'i adfer a'i greu eto bob bore). Gellir dadlau yn y cyswllt hwn fod 'afluniaidd' felly'n gamgyfieithiad. Serch hynny, hawdd yw deall pam y cyfieithodd T. James Jones 'afluniaidd' fel 'unmade', gan mai cerdd am unigolyn ag anffurfiad corfforol yw 'The hunchback in the park'.

Gwelwn fod T. James Jones ac Aneirin Talfan Davies ill dau wedi camgyfieithu llinell gyntaf y chweched pennill: 'Made all day until bell time'.[1333] Ceir disgrifiad yn y pennill hwn o'r crwca yn creu merch berffaith, dalsyth yn ei ddychymyg – darlun sy'n amlygu ei anffurfiad corfforol a'i unigrwydd yntau: 'A woman figure without fault / Straight as a young elm'.[1334] O graffu ar y gystrawen, ymddengys nad yw T. James Jones nac Aneirin Talfan Davies fel petaent yn sylweddoli pwy yw'r goddrych yma. Y crwca – 'the old dog sleeper'[1335] – sy'n creu'r ferch, ond y mae'r rhagenw perthynol yng nghyfieithiadau'r ddau fardd yn ein camarwain i feddwl mai'r morwyr yn llinell olaf y pumed pennill ('And the groves were blue with sailors'[1336]) sy'n ei chreu:

Cyfieithiad Aneirin Talfan Davies	Cyfieithiad T. James Jones
A'r llwyni oedd yn las gan forwyr	A'r llwyni'n las gan forwyr
A wnâi trwy'r dydd glas hyd ganiad y gloch Ddelw o forwyn ddi-fai	A luniai tan gloch y machludo Fenyw laned

[1329] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1330] Davies, *Diannerch Erchwyn*, t. 34.
[1331] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 94.
[1332] Jones, *Cymanfa*, t. 93.
[1333] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1334] Ibid.
[1335] Ibid.
[1336] Ibid.

Fain fel bedwen ifanc[1337] Sythed â llwyfen ifanc[1338]

O edrych ar gyfieithiad T. James Jones o 'A woman figure without fault / Straight as a young elm',[1339] gwelwn ei fod wedi newid y cywair ryw gymaint: 'Fenyw laned / Sythed â llwyfen ifanc'.[1340] Ar un wedd, y mae ei ddefnydd o ffurfiau cymharol megis 'glaned' a 'sythed' yn ymddangos ychydig yn anghydnaws â'i ddefnydd o eiriau tafodieithol yng ngweddill y gerdd. Ar y llaw arall, gellir dadlau bod y ffurfiau cymharol hyn, sy'n enghreifftiau o iaith 'safonol', 'glasurol' – iaith 'berffaith' – yn briodol am fod perffeithrwydd yr iaith yn adlewyrchu perffeithrwydd y ferch y mae'r crwca yn ei darlunio. Diddorol hefyd yw cyfieithiad Aneirin Talfan Davies: '[D]elw o forwyn ddi-fai'.[1341] 'Morwyn' yw'r 'woman figure' yn ei gyfieithiad ef, a'i phurdeb, fe awgrymir, sy'n ei gwneud yn berffaith. Yn ogystal, y mae'r gair 'delw' yn awgrymu mai darn o gelfyddyd yw'r forwyn hon – yn wrthrych crefyddol bron, yn wir.

Yn debyg i 'After the funeral' ac 'Once it was the colour of saying', archwilia Dylan Thomas rôl y bardd yn 'The hunchback in the park'. Ysgrifennodd Thomas nodyn ar fersiwn cynnar iawn o'r gerdd yn dadlennu mai'r bardd yw'r crwca a'i farddoniaeth yw'r ferch: 'It is a poem and it is a woman figure.'[1342] Fel y noda Walford Davies:

> isn't it possible to argue that Thomas identifies with the hunchback as a type of the artist: isolated, misunderstood, creating something ('a woman figure without fault') as an opposite to the inadequacies of his own life, something which survives him.[1343]

Yn debyg i'r crwca sy'n gobeithio y bydd ei greadigaeth berffaith yn gwneud iawn am ei gyflwr truenus ac anffurfiedig ei hun, yn aros yn y parc pan fydd pawb a phopeth arall, gan gynnwys ef ei hun, yn diflannu i'r nos, y mae'r artist (y bardd yn y fan hon) hefyd yn gobeithio y bydd ei greadigaeth ef yn gwrthsefyll treigl amser:

> Made all day until bell time
> A woman figure without fault [...]
> That she might stand in the night...[1344]

[1337] Davies, *Diannerch Erchwyn*, tt. 33–4.
[1338] Jones, *Cymanfa*, t. 93.
[1339] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.
[1340] Jones, *Cymanfa*, t. 93.
[1341] Davies, *Diannerch Erchwyn*, t. 34.
[1342] Davies, *Open Guides to Literature: Dylan Thomas*, t. 76.
[1343] Ibid.
[1344] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953*, t. 93.

Awgrymir yn y gerdd y bydd yr artist, fel y crwca, ryw ddiwrnod yn mynd i'r 'gwyll',[1345] ond bydd ei gelfyddyd yn ei oroesi ac yn sefyll 'yn y nos'.[1346] 'Gair, wedi'r êl gŵr, a drig', chwedl Tudur Aled.

Cyhoeddwyd 'y crwca yn y parc' yn *Cymanfa*, sef cyfrol a gyhoeddwyd ar achlysur dathlu pen-blwydd y bardd yn bedwar ugain oed. Y mae'n ddigon posibl felly fod y syniad fod celfyddyd yn goroesi'r artist – neu hyd yn oed yn anfarwoli'r artist – wedi cydio yn nychymyg T. James Jones, ac yntau, wrth gyrraedd y garreg filltir hon, yn edrych yn eofn i gyfeiriad angau yn *Cymanfa*. Y mae angau, fel y gwelwyd yn y bennod hon, ac fel y gwelir hefyd yn y bennod nesaf, yn thema gyffredin, gydgysylltiol yn y testunau a gyfieithwyd ganddo. Dylid pwysleisio mai'r un themâu sy'n codi yn y darnau o ryddiaith a gyfieithwyd gan T. James Jones – amser ac angau, ieuenctid a henaint ac, wrth gwrs, y Gymraeg a Chymreictod Dylan Thomas.

[1345] Jones, *Cymanfa*, t. 93.
[1346] Ibid.

PENNOD 6: Cyfieithu Rhyddiaith Dylan Thomas

Y mae sawl bardd ar hyd y blynyddoedd wedi rhoi cynnig ar gyfieithu barddoniaeth Dylan Thomas – ond beth am ei ryddiaith? Yn 1978, cyhoeddwyd *Nadolig Plentyn yng Nghymru*, sef cyfieithiad Bryan Martin Davies o bortread Thomas, 'A Child's Christmas in Wales'.[1347] Chwarter canrif yn ddiweddarach, comisiynwyd fersiynau Cymraeg T. James Jones o ddarnau o ryddiaith adnabyddus Dylan Thomas, 'Quite Early One Morning', 'Return Journey' ac 'A Visit to Grandpa's' – 'Yn Bur Gynnar Un Bore', 'Y Siwrne Nôl' ac 'Aros 'da Da-cu' – gan BBC Radio Cymru, ac fe'u recordiwyd ar 28 Rhagfyr 2003. Ymddangosodd y testunau hyn am y tro cyntaf yn rhifyn gaeaf *Taliesin* yn 2003 i nodi hanner canmlwyddiant marwolaeth Dylan Thomas, ac fe'u hailgyhoeddwyd yn y gyfrol *Nawr* yn 2008. Cyhoeddwyd detholiad o 'Yn Bur Gynnar Un Bore' yn *Barddas* hefyd yn 1998.[1348] Yn hytrach na chynnal astudiaeth destunol fanwl ar y darnau o ryddiaith a gyfieithwyd gan Jones, byddir yn y fan hon, er amrywiaeth, yn trafod agweddau thematig a chysyniadol sy'n taflu goleuni ar ei ymgyrch i adfer Cymreictod Dylan Thomas.

Yn ôl Burton Raffel, gellir rhannu cyfieithiadau yn dri chategori, sef rhyddiaith anllenyddol (testunau cyfreithiol a gwyddonol), rhyddiaith lenyddol a barddoniaeth.[1349] Dywed Raffel fod rhyddiaith anllenyddol a llenyddol yn destunau llinellol (*linear*) a bod barddoniaeth yn destun anllinellol (*nonlinear*):

> Like an unequivocal no or yes, the linear tries to exclude curves and twists in the road, seeking to communicate as straighforwardly as it can. Nonlinear communication, however, is invariably freighted with inchoate, sometimes only vaguely expressible aspects (often loosely and inaccurately called 'emotional' as opposed to 'logical').
>
> It is precisely these partially unformulatable formulations which make literary prose literary, and they are, of course, even more common in poetry. Indeed, one definition of the difference between literary prose and poetry is that literary prose, like its nonliterary cousin, is essentially bound by the syntactical and lexical rules of a particular language. [...] Poetry, as the most nonlinear of the three categories under discussion, is much less bound by either syntactical and lexical rules; it frequently bends and even breaks such rules in ways that prose cannot.[1350]

[1347] Bryan Martin Davies, *Nadolig Plentyn yng Nghymru* (Llandysul, 1978).
[1348] T. James Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', *Barddas*, 249 (Tachwedd/Rhagfyr 1998), t. 12.
[1349] Burton Raffel, 'The Translation of Poetry', yn Mildred L. Larson (gol.), *Translation: Theory and Practice, Tension and Interdependence* (Amsterdam/Philadelphia, 1991), t. 87.
[1350] Ibid., t. 88.

I Raffel, felly, y gwahaniaeth amlycaf rhwng cyfieithu rhyddiaith a barddoniaeth yw bod gan gyfieithydd sy'n trosi barddoniaeth fwy o ryddid na chyfieithydd sy'n trosi rhyddiaith. Fel y noda Raffel eto:

> as a close examination of the structures of prose reveals, it is by its very nature woven much closer to the syntactic bone than is poetry. Indeed, although poetry regularly and with gay impunity violates its language's syntax, prose cannot tolerate either such an intensity of syntactic irregularity or such far-ranging violations.[1351]

Awgryma Raffel hefyd ei bod yn bwysig i gyfieithydd sy'n trosi barddoniaeth fod yn ymwybodol o draddodiadau barddol yr iaith ffynhonnell a'r iaith darged, ac yn fwy na dim, yn fardd yn ei hawl ei hun – 'the translator of poetry must himself be a poet.'[1352] Ond fel y gwelwyd wrth drafod *Under Milk Wood* a *Dan y Wenallt*, ffin denau iawn sydd rhwng barddoniaeth a rhyddiaith Dylan Thomas. At hyn, gellir dadlau bod rhythm a sŵn y geiriau yr un mor bwysig yn rhyddiaith Thomas hefyd. Fel y gwelwn yn y man, ceir yn 'Quite Early One Morning', er enghraifft, gyfres o benillion ar ddiwedd yr ysgrif, ac y mae'n amlwg fod T. James Jones, fel bardd, wedi bod yn effro iawn i bwysigrwydd yr elfennau barddonol wrth gyfieithu'r darn hwn drwyddo draw.

Y mae elfen hunangofiannol gref ac ymdeimlad ddiymwad o berthyn i Gymru yn y cerddi a'r rhyddiaith gan Dylan Thomas a gyfieithwyd gan T. James Jones. Fel y dywed Kate Crockett wrth drafod gwaith Thomas: 'Yn ei ryddiaith, yn arbennig, mae Cymreictod ei fagwraeth yn gwbl greiddiol i'w waith.'[1353] Pan ofynnodd yr awdur presennol i Jones pam y dewisodd gyfieithu 'Quite Early One Morning', 'Return Journey' ac 'A Visit to Grandpa's', dywedodd fod yr olaf yn ddewis amlwg 'achos Cymraeg fydde ei da-cu fe'n siarad. O'dd y cyfieithu'n gyfieithu rhwydd iawn yn yr ystyr o'ddet ti'n gallu credu yn y cymeriade oherwydd mai Cymry Cymraeg o'dden nhw'n wreiddiol.'[1354] Dadlennodd Jones hefyd mai ei brofiadau o fyw a gweithio yn Abertawe, ynghyd â'i atgof cynnar iawn o gyrchoedd bomio y Blitz ym mis Chwefror 1941 a'i hysgogodd i greu fersiwn Cymraeg o 'Return Journey':

> Hales i gyfnod yn Abertawe fel gweinidog a des i'n gyfarwydd iawn, iawn â'r ddinas, wel, tre' bryd hynny cyn ei bod hi'n ddinas... 'Wy hefyd yn cofio bod yn grwt ifanc, ifanc adeg y Blitz yn Abertawe felly o'dd diddordeb 'da fi yn y digwyddiad dychrynllyd 'na yn Abertawe 'ta beth.[1355]

[1351] Burton Raffel, *The Art of Translating Prose* (Pennsylvania, 2010), t. x.
[1352] Idem, 'The Translation of Poetry', t. 88.
[1353] Kate Crockett, *Mwy na Bardd: bywyd a gwaith Dylan Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 13.
[1354] Cyfweliad yr awdur presennol â T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen], 26 Tachwedd 2017.
[1355] Ibid.

Dywedodd ymhellach fod cyfieithu 'Quite Early One Morning' yn gam naturiol yn dilyn *Dan y Wenallt*: 'Yn naturiol, i fi, dyna ddechre *Dan y Wenallt*. Ti'n gweld lot o *Dan y Wenallt* yn hwnna, felly dyna pam es i ati i'w chyfieithu.'[1356] Yn debyg i *Under Milk Wood*, portreadir yn 'Quite Early One Morning' gymuned sy'n cysgu ac yn breuddwydio wrth i ymwelydd grwydro strydoedd y dref yn gynnar un bore o aeaf 'like a stranger coming out of the sea'.[1357] Clywir ym mhrolog *Under Milk Wood* adlais amlwg o baragraffau agoriadol 'Quite Early One Morning' – y mae'r adroddwyr yn y ddau destun yn disgrifio breuddwydion y cymeriadau, fel y gwelwn yn y man. Ond fel y noda T. James Jones:

> yn wahanol i niwtraliaeth gymharol llais *Dan y Wenallt*, yn y stori 'Yn Bur Gynnar Un Bore' gwelwn Dylan ei hunan yn ymateb yn angerddol i ddramâu'r oriau mân pan gerdda 'fel dieithryn yn dod o'r môr'. Dyma glywed, am y tro cyntaf fel petai, 'y waedd o waelod y môr'.[1358]

Cyn archwilio arwyddocâd y delweddau yn y dyfyniad uchod – 'fel dieithryn yn dod o'r môr' a'r 'waedd o waelod y môr' – fe dâl inni gyfeirio yn y fan hon at y gymuned a ysbrydolodd 'Quite Early One Morning', sef Ceinewydd yng Ngheredigion. Fel y nodwyd ym Mhennod 2, bu Dylan Thomas a'i deulu yn byw yng Ngheinewydd rhwng Medi 1944 a Gorffennaf 1945. Disgrifiodd Ralph Maud 'Quite Early One Morning' fel portread dychmygol o Geinewydd.[1359] Ac yn ôl T. James Jones:

> dengys ymchwil diweddar y seiliwyd amryw o gymeriadau'r ddrama [*Under Milk Wood*] ar bersonau a adnabu Dylan yn ystod ei arhosiad yng Ngheinewydd adeg yr Ail Ryfel Byd, cymeriadau â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.[1360]

Noda Jones yn ei lêngofiant y byddai Dylan Thomas wedi clywed '[l]lif o Gymraeg wrth gerdded y llwybr rhwng Majoda [ei gartref yng Ngheinewydd] [...] a'r siopau a'r tafarnau' yn ystod y naw mis a dreuliodd yno gan y byddai Ceinewydd bryd hynny 'yn pingo o gapteiniaid llong Cymraeg eu hiaith.'[1361] Ac mewn ysgrif arall o'i eiddo, dywed:

> Yn y cyfnod hwnnw roedd y mwyafrif o drigolion Cei Newydd a'r cyffiniau yn Gymry Cymraeg, ac er mai unwaith yn unig y cyfeirir at y Gymraeg fel y cyfryw yn Q.E.O.M. ['Quite Early One Morning'] – 'The milkman lay still lost in the clangour and music

---

[1356] Ibid.
[1357] Walford Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories* (London, 1983), t. 292.
[1358] T. James Jones, *Jim Parc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 70.
[1359] Ralph Maud (gol.), *Dylan Thomas: The Broadcasts* (London, 1991), t. 9.
[1360] T. James Jones, 'Llyfrgell', *Taliesin*, 145 (Gwanwyn 2012), t. 149.
[1361] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 69.

> of his Welsh-spoken dreams ...' – rhaid mai'r Gymraeg oedd mamiaith y mwyafrif llethol o'r cymeriadau lliwgar a gyflwynir i ni yn y sgript hon.[1362]

Y mae'r pwyslais ar y Gymraeg a Chymreictod yn y dyfyniadau uchod yn dra arwyddocaol. Mewn erthygl yn *Y Cymro* yn 1978, chwarter canrif ar ôl marwolaeth Dylan Thomas, nododd Lyn Ebenezer: 'Tra'n byw yn y Cei crynhodd Dylan griw cydnaws at ei gilydd. Un o'r rhain oedd Tom Herbert, y milfeddyg o Aberaeron.'[1363] Cofnodwyd yn yr erthygl hon sgwrs hynod ddiddorol a dadlennol rhwng Ebenezer a Herbert ynghylch agwedd Dylan Thomas at y Gymraeg a Chymreictod Ceinewydd:

> Awgryma llawer o'i gofianwyr fod Dylan, ar ei orau, yn ddihidio am y Gymraeg, ac ar ei waethaf yn casáu'r iaith. Ond nid dyna'r argraff a gafodd Tom Herbert:
>
> 'Roedd Dylan wedi byw am gyfnod yn Nhalsarn, ac 'roedd e' byth a hefyd am i fi fynd ag e' fyny trwy Ddyffryn Aeron, un o'i hoff ardaloedd. Byddai wrth ei fodd yn gwrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad, ond ei ateb bob tro yr holwn ef pam na wnâi ddysgu Cymraeg oedd fod y gorchwyl y tu hwnt iddo erbyn hynny.
>
> Ond yn y Black Lion un noson y dywedodd y peth mwyaf awgrymog am ei fethiant i siarad yr iaith. Gyda'r ddau ohonom yn yfed allan o ddwy siwg hanner galwyn fe ddwedodd, yn llawn surni, "My father was a working-class man who became a teacher. So Welsh wasn't good enough for Dylan bach".'[1364]

Perthnasol yn y cyswllt hwn yw'r hyn a ddywed David N. Thomas ynghylch y cyfnod a dreuliodd Thomas yng Ngheinewydd. Gweler ei fod ef hefyd yn cyfeirio at erthygl Lyn Ebenezer yn *Y Cymro*:

> Dylan's time in Welsh-speaking Newquay [*sic*] seems to have crystallised his feelings about the language. There were several discussions about Welsh with Thomas Herbert, which are conveyed in the interview in *Y Cymro*, and in Herbert's essay on Dylan in the Jacqui Lyne papers. Herbert noted that 'Dylan deplored the fact that he couldn't speak Welsh' and that he 'loved hearing Welsh being spoken... I was surprised at his knowledge of early Welsh poetry, but he had also spent time in the company of contemporary Welsh writers.'
>
> In one discussion, Herbert asked Dylan why he didn't learn the language. Dylan replied: 'It's too late, Tom.' Herbert reflected:
>
> 'I had the feeling, from the way he said it, that it was not a question of his inability, but the fact that he was totally possessed by his craft and that there was no room for anything else in his remarkable world.'[1365]

[1362] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 17.
[1363] Lyn Ebenezer, 'Dylan a'r Gymraeg', *Y Cymro*, 7 Tachwedd 1978, t. 21.
[1364] Ibid.
[1365] David N. Thomas, *Dylan Thomas: A Farm, Two Mansions and a Bungalow* (Bridgend, 2000), tt. 102–3.

Yng ngoleuni'r dyfyniadau uchod, y mae'n werth craffu yma ar y cyfeiriad at y ddelwedd o'r 'waedd o waelod y môr',[1366] sef cyfieithiad T. James Jones o ymateb Dylan Thomas i wahoddiad T. Rowland Hughes (a oedd yn gynhyrchydd rhaglenni BBC yng Nghaerdydd) i lunio rhaglen ddramatig, fydryddol ar gyfer y radio. Fel y dywed T. James Jones, y mae 'ateb Dylan yn un trawiadol':[1367]

> I don't think I'd be able to do one of those long dramatic programmes in verse; I take such a long time writing anything, and the result, dramatically, is too often *like a man shouting under the sea* [yr italeiddio gan T. James Jones].[1368]

Dywed T. James Jones fod y 'ddelwedd o'r "waedd o waelod y môr" yn werth ei chadw mewn cof yng nghyd-destun *Under Milk Wood*.'[1369] Y mae hefyd yn werth ei chofio wrth drafod 'Yn Bur Gynnar Un Bore', 'Ymweld â Da-cu', 'Y Siwrne Nôl', a'r broses o gyfieithu gwaith Thomas i'r Gymraeg yn gyffredinol. Diddorol yn y cyswllt hwn yw nodi bod Caedmon Records wedi cyhoeddi recordiad o Dylan Thomas yn darllen 'A Visit to Grandpa's', 'ac fel yn achos ei farddoniaeth',[1370] chwedl Kate Crockett, 'mae clywed awdur y geiriau yn eu llefaru yn cyfoethogi'r profiad yn fawr, ac mae'r Cymreictod a sgwriwyd o'i acen gan y gwersi ynganu yn cael brigo i'r wyneb am unwaith.'[1371] Gellir cynnig mai llais Cymraeg coll y bardd yw'r 'waedd o waelod y môr' a chlywn y llais hwn yn 'brigo i'r wyneb' yn fersiynau Cymraeg T. James Jones o'i ryddiaith.

Y mae'n werth craffu yma ar y ddelwedd gofiadwy o'r adroddwr yn cerdded o'r môr yn 'Quite Early One Morning': 'The town was not yet awake, and I walked through the streets like a stranger come out of the sea, shrugging off wood and wave and darkness with each step'.[1372] Dyma ddelwedd sy'n rhwym o'n hatgoffa o chwedl Dylan Eil Ton ym Mhedwaredd Gainc y Mabinogi ac sydd hefyd, o bosibl, yn adleisio dehongliad Dylan Thomas ei hun o ystyr ei enw, sef 'tywysog y tywyllwch'. Awgryma T. James Jones yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r Wenallt' y gellid edrych ar y ddelwedd hon yn 'Quite Early One Morning' fel prawf o'i wybodaeth o chwedl Dylan Eil Ton:

> Ai dyma'r ffordd i ddehongli'r cymal hwnnw o Q.E.O.M.? *I walked through the streets like a stranger come out of the sea, shrugging off weed and wave and darkness*

[1366] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 68.
[1367] Ibid.
[1368] Dyfynnir yn Ibid.
[1369] Ibid.
[1370] Kate Crockett, *Mwy na Bardd*, t. 138.
[1371] Ibid.
[1372] Dylan Thomas, *Quite Early One Morning* (London, 1954), t. 16.

> – '... cerddais fel dieithryn yn dod o'r môr, gan ysgwyd oddi ar fy ngwar wymon a thon a *thywyllwch'*? Fel yr awgryma John Ackerman (*Companion*) teg fyddai dal fod y gymhariaeth yn seiliedig ar gymeriad chwedlonol Dylan Eil Ton. Ond efallai bod cynnwys y gair 'tywyllwch' yn y cyswllt hwn yn adleisio dehongliad arbennig Dylan Thomas o'i enw.[1373]

Yr oedd Dylan Thomas yn ymwybodol o darddiad chwedlonol ei enw. Fel y nododd yn dalog mewn llythyr at Pamela Hansford Johnson: 'it comes from the Mabinogion and means "prince of darkness"'.[1374] Dywed T. James Jones yn ei ysgrif 'Various Versions': 'It was probably the father who would have informed the son of the "prince of darkness" embellishment to Dylan's legend, he having possibly found reference to it in the above mentioned Charles Squire tome.'[1375] Awgryma Jones fod sylwadau Dylan Thomas yn ei lythyr at Pamela Hansford Johnson yn dangos ei fod 'yn falch o arddel llabed "tywysog y tywyllwch"',[1376] a'u bod 'yn dadlennu ysfa naturiol bardd ifanc rhamantus pedair ar bymtheg oed i gicio dros y tresi ac i geisio bod yn Fohemiad neu hyd yn oed yn *bête noire* ei gyfnod yn nhraddodiad artistiaid eraill fel Augustus John.'[1377]

Yn ddeg ar hugain oed, fodd bynnag, ailymwelodd Dylan Thomas â chwedl Dylan Eil Ton yn 'Quite Early One Morning' ar ffurf y ddelwedd o'r dieithryn yn dod o'r môr. Fel y noda T. James Jones:

> Cofier am Dylan y Mabinogi. Mynd, diflannu i waelod y môr oedd tynged hwnnw. Yn QEOM mae Dylan yn ei ddarlunio'i hunan yn dod o'r môr. Rwy'n siŵr bod hyn yn profi ei fod yn gyfarwydd â'r chwedl. Cofier hefyd mai llais gwreiddiol UMW oedd Capten Cat. Ac o'r dechre, un marw yn gorwedd gyda'r pysgod ar waelod y môr yw'r Capten. Yn y Mabinogi mae Dylan yn nofio fel pysgodyn.[1378]

Cyfeiria Jones at y ddelwedd hon hefyd yn ei ysgrif 'Various Versions':

> The *Quite Early One Morning* reference seems to signify another level of consciousness regarding the name. Here, the thirty-year-old poet deliberately embodies the mythical Dylan figure, but this time he is not entering the sea to join the fish, but coming 'out of the sea, shrugging off weed and wave and darkness...' The remnants of the Dylan legend are being revisited and augmented by a new voice.[1379]

[1373] Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 18.
[1374] Paul Ferris (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters* (London, 2000), t. 43.
[1375] T. James Jones, 'Various Versions', yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), t. 230.
[1376] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 71.
[1377] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 18.
[1378] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 21 Rhagfyr 2017.
[1379] Jones, 'Various Versions', t. 230.

Er i Jones roi cryn sylw i'r adlais Mabinogaidd a geir yn 'Quite Early One Morning' yn ei lêngofiant ac mewn dwy ysgrif o'i eiddo – 'O *Milk Wood* i'r Wenallt' a 'Various Versions' – nid yw'n amlygu yn ei gyfieithiad y posibilrwydd mai chwedl Dylan Eil Ton a ysbrydolodd y ddelwedd wreiddiol: 'Nid oedd y dre ar ddi-hun eto, ac fe gerddais fel dieithryn yn dod o'r môr, gan ysgwyd oddi ar fy ngwar, gyda phob cam, wymon a thon a thywyllwch'.[1380] Penderfyniad doeth oedd glynu wrth y testun gwreiddiol a pheidio ag ildio i'r demtasiwn o ychwanegu gair neu gymal at y cyfieithiad a fyddai'n amlygu'r adlais chwedlonol. Fel y dywed Hilaire Belloc am gyfieithu rhyddiaith: 'The translator should never embellish'.[1381] Perthnasol hefyd yn y cyswllt hwn yw geiriau Eugene Nida:

> Intellectual honesty requires the translator to be as free as possible from personal intrusion in the communication process. The translator should never tack on his own impressions or distort the message to fit his own intellectual and emotional outlook.[1382]

Ac eto, fe welir bod cyfieithiad T. James Jones yn y fan hon yn ychwanegu rhywbeth arall – yn dra buddiol – at yr hyn a geir yn y gwreiddiol, sef yr odl honno rhwng '[g]wymon' a 'thon', a'r cytseinedd ar 'th' ('thon' a 'thywyllwch'), patrwm sy'n agosáu at y gynghanedd sain. Dyma ychwanegiad cymwys iawn yn y fan hon, fe ellid dadlau, am ei fod, fe ddichon, wedi'i awgrymu a'i ysgogi gan fywyd seiniol y gwreiddiol ('sea [...] weed and wave', er enghraifft).

Yn debyg i *Under Milk Wood*, clywir yn 'Quite Early One Morning' y dref yn deffro – 'the town was waking now and I heard distinctly insistent over the slow-speaking sea the voices of the town blown up to me.'[1383] Ac fel y clyw T. James Jones gymuned Llaregyb yn 'dihuno o freuddwydio yn y Gymraeg' yn *Dan y Wenallt*,[1384] clyw hefyd y dref yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore' yn dihuno o'u breuddwydion 'Cymreig a Chymraeg':[1385] 'clywn yn daer o glir uwchlaw'r môr araf ei barabl leisiau'n cael eu chwythu tuag ataf'.[1386] Lleisiau Cymraeg yw'r lleisiau hyn yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore'. Fe dâl inni graffu yma ar y cyfeiriad at freuddwydion 'Cymreig a Chymraeg'[1387] y dyn llefrith yng nghyfieithiad T. James Jones o 'The milkman lay still lost in the clangour and music of his Welsh-spoken dreams':[1388] 'Daliai dyn y llath i

---

[1380] Idem, *Nawr* (Cyhoeddiadau Barddas, 2008), t. 105.
[1381] Bijay Kumar Das, *A Handbook of Translation Studies* (New Delhi, 2008), t. 51.
[1382] Eugene Nida, *Toward a Science of Translating: With Special Reference to Principles and Procedures Involved in Bible Translating* (Brill, 1964) t. 154.
[1383] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 19.
[1384] Jones, *Jim Parc Nest*, t. 78.
[1385] Idem, *Nawr*, t. 104.
[1386] Ibid., t. 107.
[1387] Ibid., t. 104.
[1388] Thomas, *Quite Early One Morning*, tt. 15–16.

orwedd ym mwstwr a miwsig ei freuddwydion Cymreig a Chymraeg'.[1389] Nodwn yma fel y bu i Jones gydio yn yr unig gyfeiriad uniongyrchol at y Gymraeg yn 'Quite Early One Morning' – 'Welsh-spoken dreams' – er mwyn amlygu'r ffaith fod 'dyn y llath', nid yn unig yn cael breuddwydion 'Cymreig' eu naws, ond yn breuddwydio drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn benodol.

Drwy greu fersiwn Cymraeg o 'Quite Early One Morning', y mae Jones fel petai'n gwireddu 'Welsh-spoken dreams' y dyn llefrith drwy roi'r Gymraeg ar wefusau rhai o drigolion y dref: Miss May Hughes, Captain Tiny Evans, Clara Tawe Jenkins, y Parchedig Thomas Evans, Mrs Ogmore Pritchard, Mr Griffiths, B.A., a Phoebe y forwyn. Cawn ein cyflwyno i'r cymeriadau hyn ar ffurf penillion byrion ar ddiwedd yr ysgrif. Noda T. James Jones yn ei lêngofiant ei fod yn cofio darganfod yn 'Quite Early One Morning'

> embryonau, fel petai, o amryw gymeriadau Llaregyb: Captain Tiny Evans (Captain Cat), y Parchedig Thomas Evans (The Reverend Eli Jenkins), yr athro ysgol, Mr Griffiths (Mr Pugh) a'r forwyn, Phoebe (Lili Smalls). Ac ailgylchir yn *Under Milk Wood* enw, ynghyd â gorchymyn, y fenyw obsesiynol o gymhengar Mrs Ogmore Pritchard i'w phâr o wŷr: 'And before you let the sun in, mind it wipes its shoes.'[1390]

Sylwn, ymhellach, na Chymreigiodd T. James Jones enwau'r cymeriadau yn 'Quite Early One Morning', ac eithrio enw Captain Tiny Evans, a gyfieithwyd ganddo fel Capten Bach Ifans.

Yn ei ragair i'r fersiynau o 'Quite Early One Morning', 'Return Journey' ac 'A Visit to Grandpa's', a ymddangosodd yn *Taliesin* yn 2003, noda Jones mai yn ystod yr Ail Ryfel Byd, '[p]an oedd Dylan Thomas yn byw, gyda'i deulu, yng Nghei Newydd [...] y cyfansoddwyd *Quite Early One Morning.* (Bu'n ymwelydd cyson â Cheredigion cyn hynny.)'[1391] Cyfeiria Jones yn benodol at atgofion Dylan Thomas 'o Gymreictod Cei Newydd a'r cyffiniau' yn y rhagair hwn, gan ddweud hefyd fod 'A Visit to Grandpa's' 'yn un o'r straeon byrion a ysbrydolwyd gan ei gysylltiad â bro gwreiddiau ei dras': 'Pan oedd yn grwt ysgol, âi ar wyliau'n gyson i Shir Gâr, at berthnasau ei rieni yng Nghaerfyrddin a Llan-gain.'[1392] Â rhagddo i ddisgrifio 'Return Journey' fel 'hunanbortread trawiadol o'r crwt a fagwyd yn swbwrbia

[1389] Jones, *Nawr*, t. 104.
[1390] Idem, *Jim Parc* Nest, t. 67.
[1391] Idem, 'Dylan Marlais Thomas (1914–1953): cyfieithiadau o "Quite Early One Morning", "A visit to Grandpa's" a "Return Journey"', *Taliesin*, 120 (Gaeaf 2003), t. 111.
[1392] Ibid.

Abertawe.'[1393] Er na chyfieithodd Jones y stori fer 'The Peaches', y mae'n arwyddocaol ei fod yn cyfeirio ati yn y rhagair hwn:

> Stori enwog arall oedd *The Peaches,* sy'n seiliedig ar ymweliadau Dylan â Fern Hill, Llan-gain, cartref Ann Jones, chwaer ei fam. Dengys y straeon hyn ddawn bardd i adrodd stori â'r un manylder geiriol a'r grefft o ddelweddu ag a geir yn ei gerddi. Amlygir hefyd y gelfyddyd o gyfuno'r digri a'r difri er mwyn creu cymeriadau crwn a darlunio sefyllfaoedd credadwy a chofiadwy.[1394]

Pan ofynnodd yr awdur presennol iddo pam y penderfynodd beidio â chyfieithu 'The Peaches' ar y pryd, esboniodd ei fod yn 'teimlo falle bo fi wedi cyffwrdd â'r profiad yna yn y gerdd "Fern Hill". Ond es i'n ôl at y stori yn y ddrama [sef *Dylan yn Fern Hill* – gwaith a drafodir yn y bennod nesaf].'[1395] Gellir cynnig bod y cyfeiriadau hyn at dras a gwreiddiau Cymreig a Chymraeg Dylan Thomas, a'r cyfeiriad penodol at Gymreictod Ceinewydd, ynghyd â'r cyfeiriad at 'The Peaches' (a ystyrir yn un o straeon Cymreiciaf Dylan Thomas, fel y gwelwn yn y bennod nesaf), yn taflu goleuni llachar ar agenda Jones fel cyfieithydd.

Cyn mynd ati i'w trafod yn fanwl, diddorol i ddechrau yw sylwi ar drefn y testunau hyn yn y gyfrol *Nawr.* Nid hap a damwain yw'r ffaith fod 'Fern Hill' yn dilyn 'Ymweld â Da-cu'; fod 'Yn Bur Gynnar Un Bore' yn dilyn 'Wedi'r cynhebrwng'; a bod 'Y Siwrne Nôl' yn dilyn 'Y Pelican'. Y mae T. James Jones yn creu undod yn y gyfrol drwy gyhoeddi dau destun yr un sy'n ymwneud â phlentyndod, henaint a marwoldeb, yn y drefn honno. Cofiwn hefyd mai chwilio am y 'Thomas Ifanc', sef ieuenctid coll y bardd, a wna'r adroddwr yn 'Y Siwrne Nôl'. At hyn, awgrymir ar ddiwedd y darn hwnnw fod y 'Thomas Ifanc' hwn wedi marw. Yng ngeiriau Jones:

> fel yn *A Visit to Grandpa's* y mae cysgod angau a bedd yn amlwg ar y stori ['Return Journey']. Er mai dim ond deugain namyn un mlwydd oed oedd Dylan pan fu farw ar 9 Tachwedd 1953, yr oedd yn hen law ar drafod effaith angau anorfod nid yn unig ar fywyd ei gydnabod real a dychmygol ond hefyd ar ei fywyd angerddol ei hunan.[1396]

Ynghyd â Chymreictod, felly, y mae angau yn thema waelodol yn y farddoniaeth a'r rhyddiaith a gyfieithwyd gan Jones yn *Nawr*. Personolir amser yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore', er enghraifft, fel 'hen ddyn â barf hirfaith ag awring glas a phladur o dan fraich ei ŵn nos yn pwyso drwy'r ffenest i ofyn imi faint oedd hi o'r gloch'[1397] – disgrifiad sy'n rhwym o'n hatgoffa o'r ddelwedd

---

[1393] Ibid.
[1394] Ibid.
[1395] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[1396] Jones, 'Dylan Marlais Thomas (1914–1953)', t. 111.
[1397] Idem, *Nawr*, t. 106.

draddodiadol o Angau. Amlyga Jones y thema hon yn 'Ymweld â Da-cu' drwy ddisgrifio dillad du Da-cu a'i gymdogion fel 'dillad galar'[1398] yn ei gyfieithiad o 'Grandpa was at breakfast, dressed in deep black',[1399] a 'Grandpa's neighbours were as solemn as old men with black hats and jackets on the outskirts of a fair':[1400]

> Roedd Da-cu'n brecwasta mewn dillad galar.[1401]
>
> Roedd cymdogion Da-cu mor ddifrifol â hen ddynion mewn dillad galar ar gyrion ffair.[1402]

Fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 5, awgryma Jones yn ei ragair i'r gyfrol *Nawr* ei fod, ar gyrraedd 'oed yr addewid', yn wynebu 'cyfnod o hunanholi' a'i fod wedi mentro 'gofyn ambell gwestiwn athronyddol a chrefyddol poenus'[1403] yn y gyfrol hon. Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, fe dâl inni graffu ar gyfieithiad Jones o'r olygfa gofiadwy – hynod ddoniol a thrist – o'r hen ddyn yn sefyll yn herfeiddiol ar ben y bont, ei fag wedi ei bacio, yn barod i gael ei gladdu yn 'Ymweld â Da-cu':

> Atebodd Da-cu: 'Wy'n mynd i Langadog i ga'l 'y nghladdu.' ...
> 'Ond so chi 'di marw, to, Dai Thomas.'
> Ystyriodd Da-cu am foment, ac yna: ''Sdim sens mewn gorwe'n farw'n Llansteffan. Ma'r pridd yn gyffwrddus yn Llangadog; a gallwch symud byse'ch tra'd heb 'u rhoi nhw'n y môr.'
> Symudodd ei gymdogion yn nes ato, a dweud: 'So chi wedi marw, Mr Thomas.'
> 'Shwt allwch chi ga'l 'ych claddu, wedyn?'
> ''Sneb yn mynd i'ch claddu chi yn Llansteffan.'
> 'Dewch gatre, Mr Thomas.'
> 'Ma' 'na gwrw cryf i de.'
> 'A chacen.'
> Ond safodd Da-cu'n stwbwrn ar y bont, yn gafael yn dynn yn ei fag, ac yn syllu ar yr afon lifeiriol a'r awyr, fel proffwyd nad oes ganddo unrhyw amheuaeth.[1404]

Fel y gwelwn, caiff ymddygiad Da-cu ei drin fel arwydd o'i ddirywiad meddyliol gan ei gymdogion, sy'n ceisio ysgafnhau'r sefyllfa drwy sôn am gwrw a chacen. Ond er bod Da-cu yn ymddangos fel petai'n drysu, awgrymir bod ei feddwl yn glir. Y mae'r cyfeiriadau at yr afon a'r awyr yn awgrymu bod yr hen ddyn yn derbyn bod marw'n rhan o'r broses naturiol. Diddorol hefyd yw sylwadau John Ackerman ynghylch yr elfen Gymreig yn yr olygfa hon:

[1398] Ibid., t. 95.
[1399] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 139.
[1400] Ibid., t. 142.
[1401] Jones, *Nawr*, t. 95.
[1402] Ibid., t. 98.
[1403] Ibid., t. 7.
[1404] Ibid., tt. 98–9.

> The final scene on Carmarthen bridge has a peculiarly Welsh blend of comedy and high seriousness, and more than a tinge of pathos as we learn the old man's reason for his flight to Llangadock, unlike Llanstephan an inland village, the other side of Carmarthen. The story turns too, on the emphasis and concern given to a person's place of burial, especially in Wales at this time, and of course this direct yet philosophical acceptance of death would have stirred Thomas's imagination.[1405]

Hawdd yw gweld sut y byddai agwedd ddewr a herfeiddiol yr hen ddyn at angau yn y stori wedi cydio yn nychymyg T. James Jones, bardd sy'n myfyrio ynghylch henaint, marwoldeb ac angau er cychwyn ei yrfa farddol ac sydd, ar gyrraedd oed yr addewid, yn archwilio'r themâu hyn yn eofn yn y gyfrol *Nawr*.

Cyfeiria John Ackerman hefyd at yr elfen Gymreig ym mreuddwyd y bachgen yn y stori:

> I woke late on my last morning, out of dreams where the Llanstephan sea caried bright sailing-boats as long as liners; and heavenly choirs in the Sticks, dressed in bards' robes and brass-buttoned waistcoats, sang in a strange Welsh to the departing sailors.[1406]

Yn ôl Ackerman: 'Even the boy's dream fantasy is now rooted in tradition and custom, the style tinged with lyricism and comic invention.'[1407] Awgrymir yn y cyfeiriad at 'a strange Welsh' fod clust Dylan Thomas yn effro i wahanol gyweiriau a mathau o Gymraeg – o Gymraeg seremonïol, ffurfiol yr Eisteddfod i Gymraeg llafar bob dydd. Ac fel y gwelwn yn y dyfyniad isod, y mae'r cyfeiriadau at 'a strange Welsh' a'r 'bards' robes' yn magu arwyddocâd pellach yng nghyfieithiad T. James Jones o'r olygfa hon:

> Dihunais yn hwyr y bore olaf, o freuddwydion am fôr Llansteffan yn cludo cychod hwyliau llachar cyhyd â llongau mawrion; ac am gorau nefolaidd yn y Sticks yng ngwisg yr Orsedd a gwasgodau â botymau efydd, yn canu ffarwél i'r morwyr mewn Cymraeg go ryfedd.[1408]

Y mae'r cyfeiriad at wisg yr Orsedd yn dwyn i gof y llinell 'Ond fel bardd Ann ar faen llog yr aelwyd'[1409] ('But I, Ann's bard on a raised hearth'[1410]) yn 'Wedi'r cynhebrwng', ynghyd â'r disgrifiad o'r Parchedig Eli Jenkins 'mewn gŵn nos gwisg yr orsedd'[1411] ('druid's seedy

---

[1405] John Ackerman, *A Dylan Thomas Companion: Life, Poetry and Prose* (London, 1991), tt. 182–3.
[1406] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 140.
[1407] Ackerman, *A Dylan Thomas Companion*, t. 181.
[1408] Jones, *Nawr*, t. 96.
[1409] Ibid., t. 102.
[1410] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953* (London, 1989), t. 73.
[1411] T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), t. 22.

nightie'[1412]) yn *Dan y Wenallt*. Ac yn debyg i'r delweddau eisteddfodol hyn, gellir cynnig bod y cyfeiriad at wisg yr Orsedd yn 'Ymweld â Da-cu' yn amlygu'r ffaith fod y traddodiad barddol, eisteddfodol wedi ysbrydoli'r ddelwedd wreiddiol.

Fe dâl inni gyfeirio'n fyr yn y fan hon hefyd at y ffaith fod clec y gynghanedd i'w chlywed – fel arwydd pellach o Gymreictod llenyddol – yn nhrosiad T. James Jones o'r stori hon. Ystyrier, er enghraifft, gyfieithiad Jones o 'and I heard the man in the next room crying "Gee-up!" and "Whoa!" and trotting his tongue on the roof of his mouth':[1413] 'pan glywais y dyn yn y stafell wely nesa'n gweiddi "Ji-yp!" a "Wê!" ac yn trotian ei dafod ar ei daflod mor daer.'[1414] Mwysair gwych yw 'taflod' yma sy'n cyfuno'r delweddau o stablau'r ceffylau, ystafell wely tad-cu a'r tafod yn gwneud sŵn trotian yn erbyn rhan uchaf y geg. Gellir cynnig hefyd fod y darlun o'r tafod yn trotian ar daflod Da-cu, megis y ddelwedd 'I sang in my chains like the sea' yn 'Fern Hill',[1415] ynddo'i hun yn ddisgrifiad gwych o natur y gynghanedd, ac yn ffordd effeithiol o ymgyrraedd at arddull 'prose with blood pressure' Dylan Thomas.

Y mae'n werth dychwelyd yma at y ddelwedd freuddwydiol o gorau nefolaidd yn y Sticks yng ngwisg yr Orsedd, gan sylwi na Chymreigiodd T. James Jones enw'r goedlan, 'y Sticks', yn y cyfieithiad. Y mae'r enw yn dwyn i gof afon Styx – yr afon sy'n ffurfio'r ffin rhwng byd y byw a Hades, byd y meirw, ym mytholeg Groeg. Yn ôl y chwedl, byddai eneidiau'r meirw yn cael eu cludo ar draws yr afon gan y cychwr Charon. Penderfyniad doeth felly oedd cadw'r enw Saesneg gan fod yr adlais chwedlonol hwn yn atgyfnerthu un o brif themâu'r testun, angau a marwoldeb. Ac ymhellach, yng nghyswllt y defnydd o enwau, gwelwn fod T. James Jones wedi adfer i bentrefi 'Llanstephan' a 'Llangadock' eu henwau Cymraeg, a'i fod wedi cadw'r enwau Saesneg 'Constitution Hill' a 'Lammas Street'. Dylid nodi na chyfieithodd Jones enwau strydoedd fel 'High Street', 'Gower Street' a 'St. Helen's Road' yn 'Y Siwrne Nôl' ychwaith. Yn ogystal, defnyddiodd nifer o eiriau benthyg Saesneg yn ei fersiynau Cymraeg o ryddiaith Thomas, er enghraifft: 'Barmeid',[1416] 'Landledis',[1417] 'cobls'[1418] a 'stwbwrn'[1419] – penderfyniad sy'n fodd o ychwanegu at yr elfen o fywiogrwydd llafar, anffurfiol yn y cyfieithiad.

[1412] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood* (London, 2014), t. 17.
[1413] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 138.
[1414] Jones, *Nawr*, t. 94.
[1415] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems: 1934–1953*, t. 135.
[1416] Jones, *Nawr*, t. 110.
[1417] Ibid., t. 105.
[1418] Ibid., t. 98.
[1419] Ibid. t. 99.

Ond fel y nodwyd eisoes, pan ofynnodd yr awdur presennol i T. James Jones beth a'i symbylodd i greu fersiynau Cymraeg o 'A Visit to Grandpa's', 'Quite Early One Morning' a 'Return Journey', dywedodd mai 'Cymraeg fydde iaith Grandpa a Chymraeg fydde prif iaith Cei Newydd yn y pedwardege.'[1420] Awgryma Jones hefyd mewn ysgrif o'i eiddo mai holl bwrpas cyfieithu 'A Visit to Grandpa's' i'r Gymraeg oedd amlygu pa mor Gymreig a Chymraeg oedd cefndir teuluol Dylan Thomas:

> In my Welsh version of 'A Visit to Grandpa's', the ability of Dylan's grandfather to speak Welsh is restored. The visit's location was the village of Johnstown on the outskirts of Caerfyrddin, where D. J. Thomas had been born and bred in a Welsh-speaking home. It is a fact that his father did not deny D. J. the ability to speak Welsh. My Welsh version re-establishes that fact.[1421]

Cyflea Dylan Thomas Gymreictod Johnstown a Llansteffan yn 'A Visit to Grandpa's' drwy nodi bod trigolion yr ardal yn siarad Cymraeg: 'He hurried indoors and I heard him talking in Welsh'.[1422] Cyfieithodd T. James Jones y frawddeg hon fel 'Aeth i'r tŷ ar hast'[1423] – gan hepgor y cyfeiriad at y Gymraeg: y mae bellach yn ddiangen. Un ffordd o gyfleu'n naturiol Gymreictod y cymeriadau a'r gymuned a bortreadir yn y testun heb nodi eu bod yn siarad Cymraeg yw defnyddio tafodiaith. Fel y gwelwyd yn yr olygfa o Da-cu ar ben y bont pryd y mae trigolion y pentref yn ceisio ei ddarbwyllo i ddod 'gatre' i gael cwrw a chacen, y mae iaith y cymeriadau'n dafodieithol iawn: 'A beth y'ch chi'n feddwl y'ch chi'n neud ar bont Caerfyrddin ganol prynhawn yn y'ch gwasgod ore a'ch hen hat?'[1424] Diddorol ymhellach yw sylwi bod yr adroddwr yntau yn defnyddio geiriau tafodieithol:

> Meddyliais yr awn i weld a oedd e'n dost, neu wedi rhoi dillad ei wely ar dân, oherwydd haerai Mam ei fod yn tano'i bib dan y blancedi, ac fe'm rhybuddiwyd ganddi i redeg i'w helpu pe gwyntwn fwg yn y nos.[1425]

Yn yr un modd, gwelwn fod iaith yr adroddwr yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore' ar brydiau'n frith o eiriau ac ymadroddion tafodieithol megis 'mas', 'dre-din', 'tato' a 'gwelle',[1426] ond nid yw, yn ddiddorol, yn siarad mor dafodieithol â'r cymeriadau eraill yn y stori – sef trigolion y gymuned a ddisgrifir ganddo yn yr ysgrif – er enghraifft: 'Druan bach ag e' mynte'i

---

[1420] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 10 Mai 2017.
[1421] Jones, 'Various Versions', t. 236.
[1422] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 141.
[1423] Jones, *Nawr*, t. 97.
[1424] Ibid., t. 98.
[1425] Ibid., t. 94.
[1426] Ibid., t. 104.

gymdogion';[1427] 'A chyn i'r houl ga'l dod i miwn, gofalwch bo' fe'n sychu'i dra'd.'[1428] Yn y testun gwreiddiol, y mae gwahaniaeth cynnil rhwng iaith yr adroddwr ac iaith y cymeriadau. Yn debyg i iaith trigolion Llaregyb, y mae cystrawen y Gymraeg yn atseinio yn Saesneg y cymeriadau yn 'Quite Early One Morning', er enghraifft: 'There's twenty for breakfast'.[1429] Ac yn debyg i'r First Voice yn *Under Milk Wood*, y mae cywair ffurfiol-lenyddol yr adroddwr yn 'Quite Early One Morning' yn ei osod ar wahân i drigolion y dref.

Buddiol fyddai craffu yn y cyswllt hwn ar gyfieithiad T. James Jones o 'I walked past the small sea-spying windows, behind whose trim curtains lay mild-mannered men and women not yet awake and, for all I could know, terrible and violent in their dreams':[1430] 'Cerddais heibio i ffenestri bychain pip-ar-y-môr, gan wybod fod dynion a menwod addfwyn heb fod ar ddi-hun eto y tu cefn i'w llenni, ac am a wyddwn i, yn breuddwydio'n ofnadwy o ffyrnig.'[1431] Yn wahanol i'r adroddwr yn 'Quite Early One Morning', y mae'r adroddwr yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore' yn pendilio o un cywair i'r llall. Sylwer, er enghraifft, ar y defnydd o ffurfiau llenyddol fel 'Cerddais', 'heibio i' ac 'am a wyddwn i' ochr yn ochr ag ymadroddion llafar, tafodieithol fel 'pip-ar-y-môr' a 'menwod'. Ar un olwg, y mae'r cywair llenyddol yn cadw'r adroddwr ar gyrion y gymuned a bortreadir yn 'Yn Gynnar Un Bore'. Ac eto, y mae ei ddefnydd o eiriau tafodieithol yn awgrymu ei fod yn rhan o'r gymuned hon. Y mae'r adroddwr yn amlwg yn adnabod y dref a'i strydoedd fel cefn ei law, ond y mae iaith y cymeriad hwn yn awgrymu ei fod hefyd yn wahanol i'r cymeriadau eraill. O gofio bod Dylan Thomas wedi byw yng Nghei Newydd ar ôl treulio cyfnod yn Llundain, gellir cynnig bod elfen o Thomas ei hun yng nghymeriad yr adroddwr a bod T. James Jones yn awyddus i amlygu hyn: 'I was a stranger to the sea town, fresh or stale from the city where I worked for my bread and butter wishing it were laver-bread and country salty butter yolk-yellow.'[1432] Fel y dywed M. Wynn Thomas am berthynas Dylan Thomas â Chymru:

> He knows Wales – and something of the Welsh tradition – from the inside (presumably from Welsh-speaking west Wales) but is also an outsider (by familial class aspirations, by the loss of the language, for example).[1433]

[1427] Ibid., t. 107.
[1428] Ibid., t. 108.
[1429] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 20.
[1430] Ibid., t. 17.
[1431] Jones, *Nawr*, t. 105.
[1432] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 18.
[1433] M. Wynn Thomas, *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff, 1999), t. 49.

Yng ngoleuni hyn felly, gellir cynnig bod T. James Jones yn pendilio rhwng y ffurfiol a'r anffurfiol, y llenyddol a'r llafar yn fwriadol er mwyn cyfleu perthynas gymhleth yr adroddwr (a'r awdur gwreiddiol) â'r gymuned a ddisgrifir ganddo yn 'Quite Early One Morning'.

Diddorol hefyd yw sylwi ar ddisgrifiad yr adroddwr yn y trydydd pâr o destunau, sef 'Return Journey' a 'Siwrne Nôl', ohono'i hun. Fel hyn y mae yn y gwreiddiol: 'speaks rather fancy; truculant; plausible; a bit of a shower-off; plus-fours and no breakfast, you know'.[1434] Awgrymir yma ei fod yn siarad yn wahanol – yn fwy ffurfiol, 'safonol', 'posh' – na thrigolion Abertawe a bod hyn unwaith eto yn creu pellter rhyngddo a'r gymuned hon. Sylwer, er enghraifft, ar y rhythmau llafar yn llinellau'r forwyn y tu ôl i'r bar:

BARMAID

> Lots of Thomases come here it's a kind of home from home for Thomases isn't it Mr Griffiths what's he look like?[1435]

Gwelwn fod iaith yr adroddwr yn 'Y Siwrne Nôl', ar y llaw arall, yn fwy tafodieithol: 'siarad yn faldodus; ymosodol; gwên-deg; yn lico dangos 'i hunan; chi'n gwbod, trowser dwgyd fale ond yn ffaelu ffwrdo brecwast'.[1436] Yn fersiwn Jones, felly, y mae'r Llais, y Barmeid a'i Chwsmer, y Fforddolyn, yr Athro, Dyn y Promenâd a Cheidwad y Parc yn rhannu'r un dafodiaith. Ac o gofio mai testun lled-hunangofiannol yw 'Return Journey' ac mai Dylan Thomas yw'r adroddwr yn yr ysgrif hon, gellir ystyried penderfyniad T. James Jones o roi tafodiaith i'r Llais fel ffordd o amlygu dylanwad Abertawe a'i thrigolion ar Thomas, ynghyd â'i ymdeimlad o berthyn i'r dref. Yr oedd Abertawe, ei 'ugly, lovely town',[1437] yn agos iawn at galon Thomas, ac yn ôl un o'i gyfeillion, Bert Trick: 'He loved people and loved Swansea. Even the eccentrics and odd characters were his kinsfolk be they Swansea people.'[1438] Pan ofynnodd yr awdur presennol i T. James Jones a fu iddo ddefnyddio geiriau ac ymadroddion tafodieithol a arferir yn benodol yn ardal Abertawe wrth gyfieithu 'Return Journey', tafodiaith Sir Gaerfyrddin wrth gyfieithu 'A Visit to Grandpa' a thafodiaith Ceredigion wrth gyfieithu 'Quite Early One Morning', ei ateb oedd:

> Es i ddim ati'n fwriadol i amrywio tafodieithoedd. Wy credu ifi 'weud yn rhywle ifi ddewis 'y nhafodieth 'yn hunan yn *Dan y Wenallt* er mwyn gwreiddio cymeriade'r ddrama mewn lle arbennig. Gan fod Talacharn yn Sir Gaerfyrddin a gan fy mod inne

---

[1434] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 318.
[1435] Ibid., t. 317.
[1436] Jones, *Nawr*, t. 111.
[1437] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 1.
[1438] Dyfynnir yn James A. Davies, *A Reference Companion to Dylan Thomas* (Westport & London, 1998), t. 24.

> o'r un sir teimlwn fod ’da fi hawl i ddefnyddio tafodieth Sir Gâr. A sa i'n credu bod cyment a hynny o wahanieth rhwng tafodieth De Ceredigion a Gorllewin Caerfyrddin. Wy'n ofni taw ’yn nhafodieth ’yn hunan ddefnyddies i yn ‘Siwrne Nôl’.[1439]

Ond dadlennodd Jones iddo ddefnyddio ‘tafodieth Abertawe ble wy’n sôn am siope fel tai. Dyna'r arferiad yn yr ardal.’[1440] Er enghraifft, cyfieithodd ‘Burton Tailors’[1441] fel ‘Tŷ Burton’,[1442] ‘Boots Cash Chemists’[1443] fel ‘Tŷ Boots’[1444] a ‘Stead & Simpson’[1445] fel ‘Tŷ Stead an’ Simpson’.[1446]

Nid yw’r adeiladau a’r siopau hyn a restrir gan Dylan Thomas yn ‘Return Journey’ yn bodoli erbyn heddiw. Fel y dywed M. Wynn Thomas:

> Those ‘displaced shops’ now have an existence – a ‘place’ – only in language. ‘Eddershaw Furnishers, Curry’s Bicycles, [...] Hodges and Clothiers [...] Crouch the Jeweller, Lennard’s Boots, Kardomah [...] David Evans [...] Burton’s, Lloyd’s Bank: ‘there’s words,’ just as the barmaid said.[1447]

Cyfeirio a wna M. Wynn Thomas yma at ymateb y forwyn y tu ôl i’r bar i ddisgrifiad lliwgar yr adroddwr o Young Thomas:

NARRATOR

> He’d be about seventeen or eighteen [...] and above medium height. Above medium height for Wales, I mean, he’s five foot six and a half. Thick blubber lips; snub nose; curly mousebrown hair; one front tooth broken after playing a game called Cats and Dogs, in the Mermaid, Mumbles; speaks rather fancy; truculent; plausible; a bit of a shower-off; [...] lived in the Uplands; a bombastic adolescent provincial Bohemian with a thick-knotted artist’s tie made out of his sister’s scarf [...] a gabbing, ambitious, mock-tough, pretentious young man; and mole-y, too.

BARMAID

> There’s words what d’you want to find *him* for I wouldn’t touch him with a barge-pole...[1448]

[1439] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 21 Rhagfyr 2017.
[1440] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 25 Rhagfyr 2017.
[1441] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 78.
[1442] Jones, *Nawr*, t. 112.
[1443] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 78.
[1444] Jones, *Nawr*, t. 112.
[1445] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 78.
[1446] Jones, *Nawr*, t. 112.
[1447] M. Wynn Thomas, ‘“There’s Words”: Dylan Thomas, Swansea, and Language’, yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion / Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 20 (2015), t. 91.
[1448] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 76.

Clywir y Gymraeg yng nghystrawen yr ymadrodd 'There's words', a gyfieithwyd gan T. James Jones fel ''Na eire posh'.[1449] Sylwer ei fod wedi ychwanegu'r gair Saesneg 'posh' i gyfleu bod perfformiad geiriol, byrlymus yr adroddwr wedi creu argraff ar y ferch. Ond yn ôl M. Wynn Thomas, y mae arwyddocâd ehangach i'r ymadrodd 'There's words':

> as an inveterate writer, Thomas turned his town *into* words. But then, it was Swansea that had first set him on the way of becoming himself a figure fashioned out of language; a linguistic sign. Instead of word being made flesh, in his case flesh eventually ended up being word. It is as if, horrifyingly, Thomas, the would-be home-comer, discovers he now has existence only in language, not only as a clever arranger of words but as a clever arrangement of them.[1450]

Chwaraeodd Abertawe ran bwysig yn natblygiad Dylan Thomas fel llenor, yn enwedig caffi'r Kardomah, a ddisgrifir gan M. Wynn Thomas fel 'a congenial space within a comfortingly protective, intimately knowable, but ultimately Philistine town where his imagination could be allowed full play and find stimulation in the company of others.'[1451] Gan gyfeirio'n benodol at ddefnydd Dylan Thomas o dafodiaith Saesneg de Cymru yn ei ddisgrifiad o'r bechgyn yn cyfarfod yn y Kardomah yn y stori 'Old Garbo' – '"Sit by here," said Leslie Bird'[1452] – noda M. Wynn Thomas:

> conversations around the tables in the Kardomah obviously featured a constant switching between these many different examples of language usage [linguistic registers, class sociolects and cultural discourses]. No wonder therefore that one of the places Thomas revisited so movingly in imagination, and indeed in implicit homage, in *Return Journey* was the site of the Kardomah, reduced to rubble in the blitz.[1453]

Er nad yw T. James Jones yn cyfeirio at bob un o'r siopau – neu'r 'tai', fel y'u gelwir ganddo – a restrir yn 'Return Journey', diddorol yw nodi ei fod yn rhoi sylw arbennig i gaffi Kardomah yn ei gyfieithiad: 'Heibio i'r twll lle bu Tŷ Hodges, i lawr Castle Street, heibio i siopau anweledig Crouch y Jeweller, Master's Outfitters ac, wrth gwrs, y Kardomah...'[1454] Yn 'Return Journey', ni chyfeiria'r adroddwr ond yn sydyn yn y cyswllt hwn at y Kardomah, a hynny yn y rhestr hon, fel un adeilad o blith nifer a fu'n sefyll yn High Street a Castle Street cyn y Blitz:

> Price's Fifty Shilling, and Crouch the Jeweller, Potter Gilmore Gowns, Evans Jeweller, Master's Outfitters, Style and Mantle, Lennard's Boots, True Form,

[1449] Jones, *Nawr*, t. 103.
[1450] Thomas, 'There's words', tt. 89–90.
[1451] Ibid., t. 98.
[1452] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 206.
[1453] Thomas, 'There's words', t. 99.
[1454] Jones, *Nawr*, t. 112.

> Kardomah, R. E. Jones, Dean's Tailor, David Evans, Gregory Confectioners, Bovega, Burton's, Lloyd's Bank, and nothing.[1455]

Arferai Dylan Thomas gwrdd yn y caffi hwn â'r 'Kardomah Gang', sef grŵp o artistiaid lleol – beirdd, arlunwyr a cherddorion megis Daniel Jones, Fred Janes, Charles Fisher a Vernon Watkins. Sonia Thomas yn fanylach am 'the old Kardomah days'[1456] a doniau ei gyfeillion yn ddiweddarach yn 'Return Journey':

PASSER-BY

> How Dan Jones was going to compose the most prodigious symphony, Fred Janes paint the most miraculously meticulous picture, Charlie Fisher catch the poshest trout, Vernon Watkins and Young Thomas write the most boiling poems, how they would ring the bells of London and paint it like a tart...[1457]

Sylwer ar ddefnydd T. James Jones o dafodiaith yn ei gyfieithiad o'r dyfyniad hwn:

FFORDDOLYN

> Ac fel y bydde Dan Jones yn creu'r symffoni ryfedda', a Fred Janes yn peinto'r llun manyla' a pherta', a Charlie Fisher yn dala'r brithyll disgleiria', a Vernon Watkins a Thomas Ifanc yn eilio'r cerddi twyma', ac yn bygwth canu clyche Llunden a'i pheinto hi fel hwren...[1458]

Drwy bentyrru ffurfiau eithaf ansoddeiriau megis 'rhyfedda'', 'manyla'', 'perta'', disgleiria'' a 'twyma'' yn y cyfieithiad, ynghyd ag odli 'Llunden' â 'hwren', y mae T. James Jones yn creu cadwyn o odlau sy'n peri i ddarn o ryddiaith swnio fel barddoniaeth. Yn y cyswllt hwn, y mae'n werth trafod defnydd Jones o'r gair 'eilio' yn hytrach nag 'ysgrifennu' neu 'gyfansoddi' yn ei gyfieithiad o 'write the most boiling poems' – 'yn eilio'r cerddi twyma''. Fel y dywed Dafydd Johnston yn ei gyfrol *Llên yr Uchelwyr*, yr oedd 'gweu, eilio neu gyfrodeddu yn ddelwedd gyffredin am y weithred o farddoni'.[1459] Y mae'n arwyddocaol fod T. James Jones yn defnyddio term canoloesol am farddoni i ddisgrifio cerddi Dylan Thomas a Vernon Watkins gan fod y term hwn yn cysylltu'r ddau fardd Eingl-Gymreig â'r traddodiad barddol Cymraeg, ac â'i grefft gain yn benodol.

[1455] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 78.
[1456] Ibid., t. 81.
[1457] Ibid., t. 82.
[1458] Jones, *Nawr*, t. 114.
[1459] Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2014), t. 96.

Er mwyn gwerthfawrogi diwydrwydd a chraffter T. James Jones fel cyfieithydd, y mae'n werth edrych ar rai o'r mân newidiadau a wnaeth i'w fersiynau Cymraeg o 'Quite Early One Morning', 'A Visit to Grandpa's' a 'Return Journey'. Fel y gwelwyd wrth drafod y fersiynau gwahanol o *Dan y Wenallt*, y mae Jones yn gyfieithydd ailymweliadol sy'n dychwelyd at ei gyfieithiadau dro ar ôl tro er mwyn eu cywreinio. Yng ngeiriau Rhianedd Jewell: 'Gwaith amherffaith, anghyflawn ac anorffenedig yw pob cyfieithiad.'[1460] Yn ôl Jewell, '[c]yfleir hyn yn addas iawn gan y cyfieithydd George Rabasa a ddywed fod y cyfieithydd bob amser yn anfodlon gyda'i waith oherwydd nid oes modd iddo ganfod datrysiad perffaith i'w broblemau':[1461]

> The translator can never be sure of himself, he must never be. He must always be dissatisfied with what he does because ideally, platonically, there is a perfect solution, but he will never find it... So he must continue to approach, nearer and nearer, as near as he can, but, like Tantalus, at some practical point he must say *ne plus ultra* and sink bank down as he considers his work done, if not finished (in all senses of the word).[1462]

Y mae'r mân newidiadau a wnaeth Jones i'w gyfieithiad o'r llinell 'And before you let the sun in, mind he wipes his shoes'[1463] yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore' yn enghreifftio hyn:

> 'A chyn dod â'r haul dros y trothwy gofalwch bo' fe'n sychu'i dra'd'[1464] (fersiwn 1998)
>
> 'A chyn caniatáu'r haul miwn, gofalwch bo' fe'n sychu'i dra'd'[1465] (fersiwn 2003)
>
> 'A chyn i'r houl ga'l dod i miwn, gofalwch bo' fe'n sychu'i dra'd'[1466] (fersiwn 2008)

O gymharu'r llinellau hyn, gellir cynnig bod y cyfieithiad diweddaraf, ar y cyfan, yn fwy ffyddlon i'r testun gwreiddiol. Ychwanegodd Jones y gair 'trothwy', er enghraifft, i'w gyfieithiad cyntaf. Ac o sylwi ar yr orgraff – 'houl' a 'miwn' – fe welir hefyd fod y fersiwn diweddaraf yn fwy tafodieithol-lafar na'r ddau arall. Newidiodd y cyfieithydd yr ymadrodd 'dod â'r haul dros y trothwy'[1467] yn 'caniatáu'r haul miwn',[1468] cyn penderfynu cyfnewid y gair

---

[1460] Rhianedd Jewell, *Her a Hawl Cyfieithu: Saunders Lewis, Samuel Beckett a Molière* (Caerdydd, 2017), t. 90.
[1461] Ibid.
[1462] Ibid.
[1463] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 20.
[1464] Jones, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 12.
[1465] Idem, 'Dylan Marlais Thomas (1914–1953), t. 116.
[1466] Idem, *Nawr*, t. 108.
[1467] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 12.
[1468] Idem, 'Dylan Marlais Thomas (1914–1953)', t. 116.

‘caniatáu’ am yr ymadrodd ‘[c]a’l dod i miwn’,[1469] sy’n ymgyrraedd at gywair llafar y gwreiddiol.

Ac eithrio’r teitlau – ‘Aros ’da Da-cu’ ac ‘Ymweld â Da-cu’ – nid oes fawr o wahaniaeth rhwng y ddau fersiwn o ‘A Visit to Grandpa’s’. Y mae’n debyg i Jones newid y teitl er mwyn bod yn fwy triw i’r teitl gwreiddiol. Yr unig newid arwyddocaol a wnaeth y cyfieithydd i’r testun hwn oedd newid y gair ‘marchogaeth’ yn ‘brochgáu’ yn ei gyfieithiad o ‘In the morning I woke from a dream of fiery horses on a plain that was littered with furniture, and of large cloudy men who rode six horses at a time and whipped them with burning bed clothes’:[1470] ‘Fore trannoeth dihunais o freuddwyd am geffylau tanllyd ar baith a chelfi’n blith-draphlith, ac am ddynion anferthol cymylog yn brochgáu chwe cheffyl ar y tro a’u chwipio â dillad gwely ar dân.’[1471] Amrywiad ar *marchocâf/marchocáu* yw brochgáu, ac, fel y nodir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*, fe’i ceir ar lafar yng nghanolbarth a gwaelod Ceredigion, a hefyd yn siroedd Caerfyrddin a Phenfro. Perthnasol yw nodi yn y fan hon ei fod hefyd yn defnyddio’r gair ‘brochgáu’ yn ei fersiwn Cymraeg o ‘Fern Hill’: ‘A beunos dan y sêr syml / fel y brochgáwn i’r cae nos, âi’r gwdihŵs â’r ffarm i ffwrdd’.[1472] Ac, fel y gwelwn yn y bennod nesaf, rhydd T. James Jones sylw arbennig i’r gair hwn yn ei ddrama *Dylan yn Fern Hill*.

O gymharu ei fersiynau o ‘Y Siwrne Nôl’, diddorol yw sylwi bod T. James Jones wedi newid y gair ‘unweth’[1473] yn ‘unwaith’[1474] yn ei gyfieithiad o ‘...I was seventeen once...’.[1475] Yn y cyswllt hwn, gellir cynnig bod y gair ‘unwaith’ yn fwy priodol nag ‘unweth’. Fe’n hatgoffir yma o’r modd y mae iaith yr adroddwr yn ‘Fern Hill’ yn newid – y cywair yn anffurfiol wrth iddo hel atgofion am ei blentyndod ac yn fwy ffurfiol wrth drafod henaint ac angau. Yn y fersiwn diweddaraf o ‘Y Siwrne Nôl’, egyr y datganiad dan sylw yn dafodieithol gan gloi, yn arwyddocaol, ar nodyn mwy ffurfiol a difrifol: ‘... Fues inne’n ddwy ar bymtheg unwaith...’[1476] Gwelir yma enghraifft o’r arddull yn newid ac yn ymaddasu o fewn cwmpas un frawddeg i ddramateiddio themâu’r dramodydd. Diddorol hefyd yw cyfieithiadau T. James Jones o linell glo ‘Return Journey’, sef ymateb Ceidwad y Parc i ymholiad yr adroddwr:

NARRATOR

[1469] Idem, *Nawr*, t. 108.
[1470] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 139.
[1471] Jones, *Nawr*, t. 95.
[1472] Ibid., t. 100.
[1473] Idem, ‘Dylan Marlais Thomas (1914–1953)’, t. 123.
[1474] Idem, *Nawr*, t. 111.
[1475] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 75.
[1476] Jones, *Nawr*, t. 111.

... I said: What has become of him now?

PARK-KEEPER

Dead.

NARRATOR

The Park-keeper said:

(*The park bell rings*)

PARK-KEEPER

Dead ... Dead ... Dead ... Dead ... Dead ... Dead.[1477]

Fel y gwelwn, y mae'r llinell glo hon yn dwyllodrus o syml. Y mae gofyn i gyfieithydd fod yn ddyfeisgar iawn i'w chyfieithu'n llwyddiannus. Yn fersiwn 2003 o 'Y Siwrne Nôl', cyfieithodd T. James Jones y llinell glo yn llythrennol fel 'Yn farw ... Marw ... Marw ... Marw ... Marw ... Marw.'[1478] Ond pan ailymwelodd â'r testun yn 2008, newidiodd y llinell glo yn llwyr gan gynnig cyfieithiad llawer mwy idiomatig: 'Wedi marw ... yn gelain ... gelain ... gorn.'[1479] Nid yw 'marw' yn cyfleu terfynoldeb angau i'r un graddau â gair unsill, ergydiol megis 'dead'. Penderfyniad ysbrydoledig felly oedd ailymweld â'r llinell glo a chloi'r testun â'r gair unsill 'gorn'.

Dadlennol, at hyn, yw craffu ar gyfieithiadau T. James Jones o 'I said: I wonder if you can tell me...'[1480] Gwelwn na chyfieithodd Jones 'I said' yn ei gyfieithiad cyntaf: 'Tybed a allwch chi...'[1481] Ond ar ôl ailymweld â'r testun hwn, ychwanegodd 'Dwedais wrtho'[1482] at ei gyfieithiad. Er bod yr ychwanegiad hwn yn ymddangos fel newid dibwys, y mae'n brawf pellach fod T. James Jones wedi ymlafnio i sicrhau cyfieithiad mor ffyddlon â phosibl i'r testun gwreiddiol. Ond er i Jones ailymweld ag 'Y Siwrne Nôl' a mynd drwy'r testun â chrib fân i'w gywreinio, gellir cynnig iddo fethu ambell gyfle euraidd i amlygu cysylltiad yr awdur gwreiddiol ag Abertawe. Gweler ei gyfieithiadau o'r dyfyniad isod, er enghraifft:

> The bar was just opening, but already one customer puffed and shook at the counter with a full pint of half-frozen Tawe water in his wrapped-up hand. I said Good

[1477] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 90.
[1478] Jones, 'Dylan Marlais Thomas (1914–1953)', t. 129.
[1479] Idem, *Nawr*, t. 117.
[1480] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 80.
[1481] Jones, 'Dylan Marlais Thomas (1914–1953)', t. 124.
[1482] Idem, *Nawr*, t. 112.

morning, and the barmaid, polishing the counter vigorously as though it were a rare and valuable piece of Swansea china, said to her first customer...[1483]

Fersiwn *Taliesin* (2003)

Roedd y bar newydd agor, ond roedd un cwsmer eisoes yno'n fyr ei wynt ac yn crynu wrth y cownter. Mentrais gynnig bore da i'r barmeid a hithau'n troi at ei chwsmer cyntaf... [1484]

Fersiwn *Nawr* (2008)

Roedd y bar newydd agor, ond roedd un cwsmer eisoes yno'n fyr ei wynt ac yn crynu wrth y cownter. Mentrais gynnig bore da i'r barmeid ond troi at ei chwsmer cyntaf fynnodd hi... [1485]

Bu i Jones newid 'hithau'n troi at ei chwsmer cyntaf' yn 'ond troi at ei chwsmer cyntaf fynnodd hi' yn ei gyfieithiad diweddaraf, ond ni chyfieithodd y cyfeiriadau arwyddocaol, daearyddol fanwl at 'Tawe water' na 'Swansea china' wrth ailymweld â'r testun – manylion a fyddai wedi amlygu cysylltiad allweddol Dylan Thomas ag Abertawe. Noda M. Wynn Thomas fod y disgrifiad o'r cwrw fel 'Tawe water' yn 'Return Journey' yn enghraifft o 'code-switching',[1486] sef newid o un iaith i'r llall. Fel un a fagwyd mewn ardal ddwyieithog, byddai'r Dylan Thomas ifanc wedi newid codau yn ddigon naturiol. Fel y pwysleisia M. Wynn Thomas, Cymraeg oedd iaith gyntaf ei rieni a'i deulu yn Sir Gâr. Yn ogystal, yr oedd gan D. J. Thomas eiriaduron Cymraeg, llyfrau gramadeg Cymraeg a chyfrolau o farddoniaeth Gymraeg ar ei silffoedd. Awgryma M. Wynn Thomas hefyd y byddai'r Saesneg a glywsai Dylan Thomas fel plentyn wedi bod yn drwm dan ddylanwad y Gymraeg. Y mae'n werth craffu yn y cyswllt hwn ar linellau'r 'Old Reporter' yn 'Return Journey': 'Let's have a dekko at your note-book. "Called at British Legion: Nothing. Called at Hospital: One broken leg. Auction at the Metropole. Ring Mr Beynon *re* Gymanfa Ganu."'[1487] Drwy ddefnyddio'r ymadrodd 'cymanfa ganu' mewn testun Saesneg, y mae Dylan Thomas yn awgrymu bod y syniad o gymanfa ganu yn amhosibl ei gyfieithu, yn rhywbeth cynhenid Gymreig ac at hynny'n ffenomen gyfarwydd iawn i'r hen newyddiadurwr ac i'r cyw newyddiadurwr yntau. Ond ni chyfieithodd Jones linellau'r 'Old Reporter'. Gellir dychmygu y byddai cyfeiriad at y gymanfa ganu wedi bod wrth fodd T. James

[1483] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 74.
[1484] Jones, 'Dylan Marlais Thomas (1914–1953)', t. 122.
[1485] Idem, *Nawr*, t. 110.
[1486] Thomas, 'There's words', t. 92.
[1487] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 80.

Jones fel cyfieithydd sy'n awyddus i amlygu Cymreictod ac ymwybyddiaeth Dylan Thomas o'r diwylliant Cymraeg. Ond rhaid cydnabod ar yr un pryd ei bod yn anodd, os nad yn amhosibl, i un sy'n cyfieithu testun o'r Saesneg i'r Gymraeg ddangos yn esblyg fod yr awdur gwreiddiol yn defnyddio geiriau Cymraeg yn y Saesneg heb nodi hynny mewn troednodyn.

Enghraifft arall sy'n werth ei thrafod yw defnydd Dylan Thomas o'r gair Cymraeg, 'Duw', yn 'Return Journey': 'Duw, it's cold!'[1488] Cyfieithodd T. James Jones linell y 'Passer-By' – y 'Fforddolyn' – fel 'Duw, ma' hi'n gafel!'[1489] Nid oes modd i un sy'n darllen y cyfieithiad wybod, oni bai ei fod wedi darllen y gwreiddiol, fod Dylan Thomas yn defnyddio'r ebychiad Cymraeg 'Duw'. Ond diddorol yw sylwi na chyfieithodd T. James Jones y llinell hon yn llythrennol fel 'ma' hi'n oer!', ond yn hytrach yn fywiog o idiomatig fel 'ma' hi'n gafel!'. Fel y nodwyd, nid oes modd cyfleu defnydd Dylan Thomas o'r Gymraeg heb nodi hynny mewn troednodyn. Yng ngoleuni hyn, gellir dadlau bod defnydd T. James Jones o iaith idiomatig, dafodieithol yn ymgais i amlygu Cymreictod y 'Fforddolyn'.

Yn 'Return Journey', dywed y 'Passer-By' mai un o'r pethau a drafodid gan y Thomas ifanc â'i ffrindiau yn y Kardomah oedd 'the Welsh sea',[1490] a gyfieithwyd gan T. James Jones fel y 'môr Cymreig'.[1491] Yn debyg i hyn, disgrifia Dylan Thomas y môr fel 'Welsh-speaking sea'[1492] yn 'Memories of Christmas', ac fel 'two-tongued sea'[1493] yn 'A Child's Christmas in Wales' (a gyfieithwyd gan Bryan Martin Davies fel 'y môr dau-dafod'[1494]). Yn ogystal, ceir disgrifiad o'r 'bilingual sea'[1495] yn 'Quite Early One Morning', a gyfieithwyd gan T. James Jones yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore' fel y 'môr dwyieithog'.[1496] Wrth drafod dulliau Dylan Thomas o gyfleu ei weledigaeth arallfydol, freuddwydiol yn 'Quite Early One Morning', awgryma Georgia Thomas fod dwyieithrwydd a phresenoldeb y Gymraeg yn dwysáu naws arallfydol y testun:

> This otherworldly vision is created via a number of techniques: from contrasting this sea-facing realm at the edge of the world with the metropolis; in juxtaposing states of sleep and wakefulness, which reveal potential dreamscapes of his everyday characters, to Dylan's subtle utilisation of his own bi-lingual linguistic heritage (for example he

[1488] Ibid., t. 82.
[1489] Jones, *Nawr*, t. 114.
[1490] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 82.
[1491] Jones, *Nawr*, t. 114.
[1492] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 21.
[1493] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 296.
[1494] Davies, *Nadolig Plentyn yng Nghymru*, t. 6.
[1495] Idem, *Quite Early One Morning*, t. 18.
[1496] Jones, *Nawr*, t. 106.

> uses the term 'Parchedig', a Welsh word to refer to the town's reverend, and we recognise the importance of the recurring image of the sea as either 'Welsh-speaking, or 'bi-lingual').[1497]

Gan fod iaith yn thema ganolog yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore', gellir cynnig bod y cyfeiriad at y môr dwyieithog yn magu arwyddocâd pellach yn fersiwn Cymraeg T. James Jones. Y mae Jones fel petai wedi cydio mewn cyfeiriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol at y Gymraeg yn 'Quite Early One Morning' – er enghraifft, 'Welsh spoken dreams'[1498] a 'bilingual sea'[1499] – gan ddatblygu'r thema yn gynnil yn ei fersiwn ef. Sylwer yn arbennig ar y cyfeiriad at 'acenion'[1500] yn ei gyfieithiad creadigol o'r ddelwedd 'rocked to the sea-beat of their ears':[1501] 'wrth gael eu hudo gan acenion y môr yng nghregyn eu clustiau.'[1502] Ynghyd â chyfeirio at rhythm y môr, y mae'r gair 'acenion' yn awgrymu bod gan y môr ei lais a'i acen a'i dafodiaith ei hun. Cawn wybod yn ddiweddarach yn y testun, wrth gwrs, fod y môr yn ddwyieithog. Enghraifft arall sy'n amlygu'r thema ieithyddol yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore' yw cyfieithiad T. James Jones o'r frawddeg glo, 'Thus some of the voices of a cliff-perched town at the far end of Wales moved out of sleep and darkness into the new-born, ancient, and ageless morning, moved and were lost':[1503] 'Fel yna y bu i rai o leisiau'r dref sy'n glynu wrth glogwyn ym mhen pellaf Cymru, ddihuno o ddüwch eu cwsg i fore newydd-anedig, hynafol a bythol, i ddweud eu dweud, a distewi.'[1504] Sylwer ar yr ymadrodd 'i ddweud eu dweud' yma. Dyma ychwanegiad diddorol sy'n amlygu prif nod T. James Jones wrth gyfieithu portread dychmygol Dylan Thomas o Geinewydd, sef adfer Cymreictod cymeriadau a fyddai, yn fwy na thebyg, wedi bod yn siaradwyr Cymraeg. Drwy gyfieithu'r testun hwn i'r Gymraeg, y mae'n galluogi'r cymeriadau (a seiliwyd i ryw raddau ar drigolion Ceinewydd) i gael dweud eu dweud yn Gymraeg. Fel y dywed T. James Jones, yr oedd atgofion Dylan Thomas 'o Gymreictod Cei Newydd a'r cyffiniau yn dal yn ei waed hyd y diwedd.'[1505]

[1497] Georgia Thomas, 'Sea-spying windows' and 'smoky ship-pictured bars': Dylan Thomas's 'Quite Early One Morning' (1945) <http://www.dylanthomas.com/blog/quite-early-one-morning-part-2/>; cyrchwyd 29 Rhagfyr 2017.
[1498] Thomas, *Quite Early One Morning*, tt. 15–16.
[1499] Ibid., t. 18.
[1500] Jones, *Nawr*, t. 105.
[1501] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 16.
[1502] Jones, *Nawr*, t. 105.
[1503] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 20.
[1504] Jones, *Nawr*, t. 108.
[1505] Idem, 'Dylan Marlais Thomas (1914–1953)', t. 111.

Un cymeriad sy'n haeddu sylw arbennig yn 'Yn Bur Gynnar Un Bore' yw'r 'Cardi o bregethwr',[1506] y Parchedig Thomas Evans:

> Parchedig Thomas Evans making morning tea,
> Very weak tea, too, you musn't waste a leaf.
> Every morning making tea in my house by the sea,
> I am troubled by one thing only, and that, belief.[1507]
>
> Y Parchedig Thomas Evans yn yfed te deg,
> Te gwan iawn, hefyd, 'sdim iws 'i fradu.
> Bob bore'n neud te yn y tŷ ger y foryd,
> Ma' 'da fi un gofid, a hwnnw yw credu.[1508]

Rhagflaenydd y Parchedig Eli Jenkins yw'r cymeriad hwn, ond fel y dywed T. James Jones, 'does dim sôn iddo honni bod yn fardd fel Parchedig Eli Jenkins U.M.W. sy'n well ganddo ei goco ac sy'n gryfach ei ffydd.'[1509] Er i Eli Jenkins â'i farddoniaeth a'i ddiwinyddiaeth ddiniwed ddysgu T. James Jones i chwerthin am ei ben ei hunan fel bardd a ddechreuodd farddoni yn ystod ei gyfnod yn y weinidogaeth, gellir cynnig ei fod yn debycach o lawer i'r Parchedig Thomas Evans o ran ei ffydd. Fe'n hatgoffir wrth ddarllen y llinell 'Ma' 'da fi un gofid, a hwnnw yw credu' am ei gerdd 'Wrth bwy y llefaraf?' a gyhoeddwyd yn *Nawr*. Fel yr awgryma'r teitl, cwestiyna T. James Jones yn y gerdd hon y ddefod o weddïo. Myfyria ynghylch yr arfer o gau'r llygaid wrth weddïo – 'sut y derbyniaf / fod arfer hir / cau llen fy llygaid yn f'agor i'r gwir?'[1510] – ynghyd â'r arfer o 'roi dwylo'n dynn, / fel tawn ar blymio / i ddirgel rhyw lyn'.[1511] Cwestiyna hefyd fodolaeth Duw drwy ofyn a oes unrhyw un yn gwrando ar ei weddïau: 'Wrth bwy y llefaraf / pan blygaf lin / ufudd mewn defod – / ai wrthyf fy hun?'[1512] Cly'r gerdd â'r cwestiwn ergydiol: 'A'r benbleth dragwyddol – / sut un a all / ateb un weddi / a gwrthod y llall?'[1513] Gellir cynnig bod T. James Jones yn ymuniaethu â'r Parchedig Thomas Evans ar lefel ddyfnach nag â'r bardd-bregethwr, y Parchedig Eli Jenkins.

Perthnasol yma yw ystyried penderfyniad Dylan Thomas i ddefnyddio'r teitl Cymraeg 'Parchedig' yn hytrach na 'Reverend' i gyfeirio at Thomas Evans yn 'Quite Early One Morning'. Er nad yw Dylan Thomas yn cyfeirio at Eli Jenkins fel y 'Parchedig' yn *Under Milk*

[1506] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 12.
[1507] Davies (gol), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 294.
[1508] Idem, *Nawr*, t. 107.
[1509] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', t. 12.
[1510] Idem, *Nawr*, t. 90.
[1511] Ibid.
[1512] Ibid.
[1513] Ibid.

Wood, y mae defnydd y cymeriad hwn o eiriau Cymraeg fel 'Eisteddfodau', 'crwth', 'pibgorn', a 'parchs',[1514] ac enwau Cymraeg ar afonydd a mynyddoedd Cymru, fel y nodwyd eisoes, yn awgrymu ei fod yn medru'r Gymraeg. Gellir dadlau bod pregethwyr yn symbolau o Gymreictod yng ngwaith Dylan Thomas. Priodol yn y cyswllt hwn yw cyfeirio at ddisgrifiad y forwyn y tu ôl i'r bar yn 'Return Journey' o'r dyn a ddaeth â'i fwnci i'r dafarn: 'I remember a man came here with a monkey. Called for 'alf himself and a pint for the monkey. And he wasn't Italian at all. Spoke Welsh like a preacher.'[1515] Tra arwyddocaol hefyd yw'r ffaith fod y gweinidog yn siarad Cymraeg yn 'Return Journey':

> MINISTER: Ydych chi wedi colli rhywbeth – dan yr eira? ... Oh, I see, English. Lost anything – under the snow?[1516]

Cyfieithodd T. James Jones linellau'r 'Barmeid' yn dafodieithol iawn fel a ganlyn: 'Wy'n cofio dyn yn dod â mwnci miwn fan hyn. Gofyn am hanner iddo fe'i hunan a peint i'r mwnci. A dim o bant o'dd e. Siarad Cwmrag fel pregethwr.'[1517] Ond sylwn na chyfieithodd T. James Jones linellau'r gweinidog yn 'Return Journey'. Fel y nodwyd, detholiad o'r testun hwnnw a gyfieithwyd gan Jones, sef y fersiwn a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Quite Early One Morning* (1954) – nid y fersiwn estynedig a gyhoeddwyd yn *Dylan Thomas: The Broadcasts* (1991). Ac yn y fersiwn estynedig yn unig y clywir y gweinidog hwn yn siarad Cymraeg. Hepgorwyd llinellau'r cymeriad hwn yn llwyr o'r fersiwn a gyhoeddwyd yn *Quite Early One Morning* a dyna'r rheswm pam y mae'n absennol yn fersiwn T. James Jones. Y mae'n drueni na fu i Jones gyfieithu'r fersiwn estynedig, gan fod geiriau'r gweinidog yn y fan hon yn hynod berthnasol i'w ymgyrch i adfer Cymreictod Dylan Thomas.

O ystyried hefyd mai ysgrif sy'n disgrifio Abertawe cyn ac ar ôl y Blitz yw 'Return Journey', gellir cynnig bod y ddelwedd o golli rhywbeth dan yr eira yn amlygu effaith ddinistriol rhyfel ar iaith a diwylliant. Yng ngeiriau M. Wynn Thomas:

> As *Return Journey* makes graphically clear, the exceptionally heavy snowfall under which Swansea disappeared in the notoriously hard winter of Thomas's return to the town in 1947 is symbolic of the obliteration, during the terrible three-night blitz in 1941, of the centre of the old town which had been the heartland not just of the town but of the young Dylan too. [...] This vivid elegy for a Swansea town that is no more may remind us how aware, and how appalled, the post-war Thomas was that the age

[1514] Davies a Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood*, t. 17.
[1515] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 76.
[1516] Maud (gol.), *Dylan Thomas: The Broadcasts*, t. 184.
[1517] Jones, *Nawr*, t. 112.

> had turned nuclear since last he had visited his home town. Bombed Swansea, so to speak, was his personal Hiroshima.[1518]

Fe dâl inni nodi yma fod T. James Jones yn defnyddio eira fel symbol i gyfleu dinistr rhyfel niwclear yn ei bryddest goronog 'Llwch'. Adroddir yn y bryddest hon hanes dau gariad yn mynd am dro 'ar wibdaith-fwrw'r Sul'[1519] ar ôl y Nadolig i Dyddewi, yng nghanol eira mawr 'i brynu amser / cyn ffarwelio â hen flwyddyn'.[1520] Defnyddir eira fel trosiad estynedig yn y bryddest, nid yn unig i gyfleu byrhoedledd bywyd a marwoldeb dyn, ond i ddisgrifio bygythiad y Rhyfel Oer a dinistr apocalyptaidd. Y mae'n werth dyfynnu o'r pedwerydd caniad er mwyn gwerthfawrogi arwyddocâd symbolaidd yr eira yng nghyd-destun y bryddest:

> Dyfalu.
> Yr eira yw'r llwch
> a daflwyd i'n llyged.
> Y gawad olaf
> heb bapur-fory i benawdu'i stori.
> Y niwl rhewllyd yn disgyn ar Ddyfed,
> heb houl am genhedl'eth,
> heb gyfarwydd ym Mreudeth
> i adrodd am aeaf hir
> y tai gwag, diffeth
> ac anghyfannedd.
>
> Ai hon yw awr y co'd yn Esgeir-ceir?
> Ai hon yw nos yr Hafgan oesol?
> A fydd cofnod mewn rhyw Lyfr Du
> am lwch dros dre Ca'rfyrddin?[1521]

Yn sicr, ni ellir, wrth ddarllen geiriau'r gweinidog yn 'Return Journey' – sy'n sôn am golli rhywbeth dan yr eira yn Abertawe ar ôl y Blitz – beidio â meddwl am yr eira dinistriol, niwclear sy'n bygwth Caerfyrddin yn 'Llwch'.

Gan gyfeirio at fethiant y forwyn y tu ôl i'r bar i gofio'r Thomas ifanc yn ôl ei enw ('This is a regular home for Thomases, isn't it, Mr Griffiths?'[1522]), awgryma M. Wynn Thomas fod Dylan Thomas yn sylweddoli yn 'Return Journey' ei fod 'ar goll mewn iaith':

> Even the surname Thomas [...] is not a reliable personal signifier, an identifier of self: 'Thomas' is after all the most common of surnames in Swansea, a by-word for all and sundry. It is much more common even than the familiarly Welsh 'Mr Griffiths' – a

[1518] Thomas, 'There's words', tt. 90–1.
[1519] T. James Jones, *Eiliadau o Berthyn* (Cyhoeddiadau Barddas, 1991), t. 8.
[1520] Ibid.
[1521] Ibid., t. 15.
[1522] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 75.

> surname the barmaid can here confidently (even pointedly) deploy to denote a real, living, single person. It is as if Dylan the returnee finds himself lost in language.[1523]

I T. James Jones, y mae Dylan Thomas 'ar goll' yn yr iaith Saesneg. Wrth drafod gallu Dylan Thomas i siarad Cymraeg, cyfeiriodd Jones at anallu Dylan Thomas 'i weithio yn y Gymraeg',[1524] gan ddweud na fyddai'n 'barod i fynd belled â dweud ei fod yn methu'i siarad hi.'[1525] Noda Barbara Hardy fod Thomas yn defnyddio geiriau Cymraeg yn ei straeon, 'but only ones commonly used by non-Welsh speakers, and anglicizing them, like "toop" ("twp": daft) and "Diu" ("Duw": God).'[1526] Awgryma Hardy fod defnydd Dylan Thomas o eiriau Cymraeg yn fynegiant o euogrwydd Cymro a fagwyd i fod yn uniaith Saesneg gan rieni a oedd yn medru'r Gymraeg:

> The small sprinkling of Welsh words cannot be seen as an affectation, but some of his show-off deprecating remarks to Pamela Hansford Johnson almost certainly were, and also perhaps suggest an unease or guilt – to my knowledge felt by other monolingual Welsh children, brought up by bilingual parents.[1527]

Y mae'r cwestiwn 'Ydych chi wedi colli rhywbeth – dan yr eira?'[1528] yn fwy arwyddocaol o lawer na defnydd achlysurol Dylan Thomas o eiriau megis 'twp' a 'Duw'. Yn wir, gellir dehongli geiriau'r gweinidog fel mynegiant perffaith o golled ieithyddol a diwylliannol yr awdur. Dylid nodi yma fod Walford Davies yn defnyddio geiriau'r gweinidog yn 'Return Journey' fel epigraff i'w ragymadrodd i argraffiad 2014 o *Dan y Wenallt* T. James Jones 'er mwyn gwneud pwynt pwysig'.[1529] Cred Walford Davies

> yn gryf mai un o'r pethau a sylweddolai'r bardd (mab afradlon y sgript, ar daith yn ôl i'w wreiddiau) oedd arwyddocâd ei golled o ran yr iaith Gymraeg – iaith ei deulu ac iaith gyntaf cynifer o'i ffrindiau cynnar yn Abertawe.[1530]

Â Davies rhagddo i ddweud ei fod yn parchu Dylan Thomas 'am greu delwedd mor wych o'r golled honno, a rhoi hynny yn Gymraeg hefyd.'[1531] Dywed ymhellach: 'Dyma sylweddoliad – a chyffes.'[1532] Wrth drafod cyfieithiadau'r bardd a'r llenor Glyn Jones, a oedd yn gyfaill i Dylan

---

[1523] Thomas, 'There's words', t. 90.
[1524] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 21 Rhagfyr 2017.
[1525] Ibid.
[1526] Barbara Hardy, *Dylan Thomas: An Original Language* (Georgia, 2000), t. 23.
[1527] Ibid., t. 31.
[1528] Maud (gol.), *Dylan Thomas: The Broadcasts*, t. 184.
[1529] Walford Davies, 'Rhagymadrodd', yn T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), t. xxv.
[1530] Ibid.
[1531] Ibid.
[1532] Ibid.

Thomas, awgryma M. Wynn Thomas fod Jones yn gweld cyfieithu fel ffordd o fynegi ei hunaniaeth goll:

> As one who had in complex ways been raised uncomfortably straddling two languages, Glyn Jones obviously found in translation a means of expression, and indeed fulfilment, of an otherwise buried part of himself. And this imperative – of self-completion through self-discovery and self-realization – is one of the most important, and neglected, motives for translating.[1533]

Yng ngoleuni'r dyfyniad hwn, gellir ystyried fersiwn Cymraeg T. James Jones o 'Return Journey' fel ymgais ar ran Dylan Thomas i ganfod yr hyn a gollwyd dan yr eira, sef yr 'otherwise buried part of himself'. Yn ôl Menna Machreth Jones, '[g]all cyfieithu [...] fod yn ymgais ar ran unigolyn i ganfod ei wreiddiau hunaniaethol yn ogystal ag esgor ar gymodi diwylliannol ehangach.'[1534] Tra mae Dylan Thomas yn mynd ar drywydd ei hunan coll iau – 'Young Thomas' – yn 'Return Journey', y mae T. James Jones yn mynd ar drywydd Thomas coll arall, sef y Thomas Cymraeg ei iaith. Gellir cynnig yn y cyswllt hwn fod geiriau'r adroddwr yn 'Return Journey' – 'I felt that perhaps he had never stopped at all to tell me of one more departed stage in the progress of the boy I was pursuing'[1535] – yn magu ystyr newydd yn fersiwn T. James Jones: 'Aeth ymlaen ar hast [...] a'm gadael i deimlo nad oedd, efallai, wedi aros o gwbwl i sôn am yr un cyfnod diflanedig ym mhererindod y crwt yr o'n i ar ei drywydd.'[1536] Yn debyg i'r adroddwr sy'n teimlo bod y 'Passer-by' wedi rhoi hanner stori iddo ynghylch yr 'Young Thomas', dichon fod T. James Jones yn teimlo nad yw'r Cymry Cymraeg wedi cael y darlun cyflawn ynghylch Dylan Thomas. A chraffer hefyd yma ar ei gyfieithiad o'r frawddeg 'Here and around here it was that the journey had begun of the one I was pursuing through his past':[1537] 'Fan hyn y dechreuodd siwrne'r un o'n i'n ei gwrso ar hyd ei orffennol.'[1538] Y mae'n deg gofyn llais pwy yn union a glywir yma yn y cyfieithiad hwn – yr adroddwr ynteu T. James Jones ei hun?

[1533] Thomas, *Corresponding Cultures*, t. 137.
[1534] Menna Machreth Jones, 'Wyneb yn Wyneb: Hunaniaethau Llenyddol Cymraeg a Chymreig yn erbyn Cefndir Refferenda 1979 a 1997', Traethawd PhD (Prifysgol Bangor, 2012), t. 214.
[1535] Thomas, *Quite Early One Morning*, tt. 82–3.
[1536] Jones, *Nawr*, t. 114.
[1537] Thomas, *Quite Early One Morning*, t. 88.
[1538] Jones, *Nawr*, t. 117.

PENNOD 7: *Dylan yn Fern Hill*

Pan ofynnodd Jasper Rees i T. James Jones mewn cyfweliad ar gyfer *Wales Arts Review* yn 2014 pam, yn ei dyb ef, y penderfynodd D. J. Thomas, tad Dylan Thomas, beidio â rhoi'r Gymraeg i'w fab, esboniodd Jones fod llawer o bobl ar ddechrau'r ugeinfed ganrif o'r farn fod y Gymraeg yn fwy o rwystr nag o fantais. Ond er gwaethaf absenoldeb y Gymraeg ar yr aelwyd, nododd Jones y byddai Dylan Thomas wedi clywed y Gymraeg ar fferm ei fodryb, Ann Fernhill, ac o bosibl, ar aelwyd ei gyfaill, Hugh Williams – mab Crwys Williams, Prifardd ac Archdderwydd yr Eisteddfod Genedlaethol rhwng 1939 a 1947. Cyfeiriodd Jones yn y cyfweliad hwn hefyd at ddrama radio a oedd ganddo yn yr arfaeth, sef drama Gymraeg am Dylan Thomas yn ymweld â fferm Fernhill:

> JASPER REES: Why did D. J. decide not to bring up his son in the Welsh language?
>
> T. JAMES JONES: Well he lived at the beginning of the 20th century where people had this idea that Welsh was a hindrance rather than an advantage. There's a nice story where he played a lot with Rhoes's [*recte* Crwys's] son in the Uplands in Swansea – [Crwys] the archdruid and so forth – and he damaged his nose by falling on the landing apparently, and I wonder how much Welsh he heard on that hearth. And then of course he went to Fern Hill. Auntie Annie wouldn't have spoken to him anything but Welsh. She took him to chapel in Smyrna three times apparently on a Sunday. She spent his holidays there. Idris the very odd cousin – he uses the character in 'The Peaches' and calls him William [*recte* Gwilym] – preached to him in the barn in Welsh. He must have. I've been writing a radio play on Dylan coming on holiday to Fern Hill and it's all in Welsh.
>
> JASPER REES: And Dylan will have to be able to speak Welsh.
>
> T. JAMES JONES: Yes, a 12-year-old Dylan.
>
> JASPER REES: And your contention is that that's not beyond the realms of possibility.
>
> T. JAMES JONES: No. Quite.[1539]

Yn 2014, ysgrifennodd T. James Jones ddrama radio ar gyfer Radio Cymru i ddathlu canmlwyddiant y bardd, *Dylan yn Fern Hill*. Hon yw'r ddrama y cyfeiriodd ati yn ei gyfweliad â Jasper Rees – y ddrama am y Dylan 12 mlwydd oed, Cymraeg ei iaith. Mewn cyfweliad dadlennol â Jones ar Radio Cymru ym mis Hydref 2014, tynnodd Nia Roberts sylw at y ffaith ei fod, yn dilyn ei 'ddiweddariad o *Dan y Wenallt* yn ystod y flwyddyn arbennig yma yn hanes Dylan Thomas', blwyddyn canmlwyddiant y bardd, 'am dreulio rhagor o amser yng nghwmni'r

[1539] Jasper Rees, 'T. James Jones' <http://www.walesartsreview.org/t-james-jones-on-dylan-thomas/>; cyrchwyd 12 Rhagfyr 2016.

gŵr arbennig yma' drwy greu drama yn seiliedig ar y cyfnodau a dreuliodd y bardd fel plentyn ifanc ar fferm Fernhill.[1540] Cytunodd T. James Jones â sylwadau'r cyfwelydd gan ymateb fel a ganlyn:

> ac wrth gwrs o'dd hynny ynglŷn a'i Gymreictod e a'i allu e i ddeall Cymraeg, os nad ei siarad hi hefyd. Rhyw deimlo o'n i ma'n rhaid bod e wedi cal ei drwytho yn yr iaith pan o'dd e'n mynd ar ei ymweliadau haf i Fernhill achos dim ond Cymraeg fydde yn ca'l ei chlywed yn yr ardal yna bryd hynny.[1541]

Dywedodd T. James Jones yn y cyfweliad hwn fod teulu Dylan Thomas ar ochr ei fam – ei fodryb Ann, ei ewythr Jim a'i gefnder Idris – yn medru'r Gymraeg, a Chymraeg, felly, fyddai iaith yr aelwyd ac iaith y gymuned hefyd. Fel y dywed David N. Thomas am Sir Gaerfyrddin: 'It was the land of his aunties, and being farmed out to them as a boy meant that Dylan spent a significant part of his childhood in a rural community that was largely chapel-going and Welsh-speaking.'[1542] Noda David N. Thomas ymhellach fod pob un o berthnasau Florence, mam Dylan Thomas, gan gynnwys tenantiaid Fernhill, Annie a Jim Jones (onid cyd-ddigwyddiad hyfryd yw'r enw hwnnw?), ynghyd â'u cymdogion a'u cyfeillion, yn siarad Cymraeg. Yn ôl cyfrifiad 1921, yr oedd 95 y cant o drigolion y plwyfi o amgylch Fernhill yn siaradwyr Cymraeg, â 13 y cant – dros 200 o bobl – yn siaradwyr uniaith Gymraeg.[1543] Cymraeg, felly, oedd prif iaith y gymuned hon, a byddai'r bardd ifanc wedi clywed y Gymraeg bob dydd ar ei ymweliadau â Fernhill. Yng ngeiriau David N. Thomas:

> It was the language of daily life, not just on the farms, but also in the local shops to which Dylan was taken or sent on errands; later, as a teenager, he wrote of 'crying aloud, in broken Welsh' to the postmaster in Llansteffan, though perhaps this is not something we should take to seriously.[1544]

Cymraeg oedd iaith y pulpud hefyd. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw nodi ymateb T. James Jones i sylwadau Nia Roberts am y cyfnodau a dreuliodd Dylan Thomas yn Sir Gâr gyda theulu ei fam. Fe'u disgrifiwyd ganddi fel '[c]yfnodau hapus ac yn gyfnodau Cymreig iawn':[1545]

> O'dd, o'dd. O'dd Anti Annie yn mynd â fe i Gapel Smyrna – Capel yr Annibynwyr – bob dydd Sul [...] yn ôl yr hanes, felly... dim ond Cymraeg o'dd fan hynny, yn yr ysgol

---

[1540] *Stiwdio gyda Nia Roberts*: 'T. James Jones yn trafod ei ddrama radio newydd "Dylan yn Fern Hill"', BBC Radio Cymru, 21 Hydref 2014.
[1541] Ibid.
[1542] David N. Thomas, 'A True Childhood: Dylan's Peninsularity' yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), t. 13.
[1543] Ibid.
[1544] Ibid.
[1545] *Stiwdio gyda Nia Roberts*: 'T. James Jones yn trafod ei ddrama radio newydd *Dylan yn Fern Hill*', BBC Radio Cymru, 21 Hydref 2014.

> Sul ac yn y blaen. Wedyn o'dd e'n aros 'da Anti Rach, sef chwâr Wncwl Jim; dim ond Cymraeg o'dd fan hynny, 'ta beth. Ond o'dd Cymreictod yr ardal bendant wedi ca'l effaith arno fe.[1546]

Yn yr un modd, pwysleisia David N. Thomas natur ieithyddol yr ardal hon a dylanwad y Gymraeg ar Dylan Thomas, gan ddyfynnu'r hyn a ddywedodd un o gyfeillion y bardd am yr Ysgol Sul yn ardal Llan-gain:

> It was all Welsh – and the children played in Welsh and that's why I say Dylan must have had a smattering of Welsh in as much as he couldn't speak English when he stopped at Fernhill. I should say that in all his surroundings, everybody else spoke Welsh ... as a child, you're bound to pick that up, much quicker than when you are grown up.[1547]

Drama am Gymreictod Dylan Thomas yw *Dylan yn Fern Hill*, sy'n seiliedig ar un o straeon byrion Thomas, 'The Peaches'. Y mae M. Wynn Thomas yn crynhoi'r stori hon fel a ganlyn: '"The Peaches" deals with the mingled bewilderment and excitement of a little boy from the Anglicized middle-class Uplands of urban Swansea lost in rural, Welsh-speaking Carmarthenshire.'[1548] Cawn yn y stori hanes bachgen o'r enw Marlais sy'n treulio ei wyliau haf gyda'i fodryb a'i ewythr a'i gefnder ar fferm Gorsehill. Er i Dylan Thomas ddefnyddio enwau ei fodryb a'i ewythr, Annie a Jim, yn y stori hon, newidiodd enw ei gefnder Idris yn Gwilym. Daw cyfaill Marlais, Jack Williams, ato i chwarae ar y fferm. Ond y mae'r chwarae'n troi'n chwerw wrth i Gwilym darfu ar hwyl y bechgyn a chodi ofn ar Jack drwy ymgymryd â rôl pregethwr a gorfodi'r bechgyn i gyffesu eu pechodau. Y mae Annie, modryb Marlais, yn awyddus i greu argraff dda ar Mrs Williams, mam Jack, ac yn ei gwahodd i'r parlwr gorau (y parlwr Cymreig a ddisgrifir gan Dylan Thomas yn 'After the funeral') i gael tun o eirin gwlanog a gadwyd ganddi yn y cwpwrdd ar gyfer achlysuron arbennig. Ond caiff ei brifo gan ymateb sarhaus a snobyddlyd Mrs Williams sydd, gan wneud sioe o dynnu'r llwch oddi ar ei sedd â'i hances cyn eistedd i lawr, yn gwrthod y tun o eirin gwlanog. Y mae Jim yn gandryll ac yn bytheirio o fewn clyw'r bechgyn: 'I'll give her peaches! Peaches, peaches! Who does she think she is? Aren't peaches good enough for her? To hell with her bloody motor car and her bloody son! Making us small.'[1549] Yn ddiarwybod i Jim, y mae Marlais a Jack yn clustfeinio ar y sgwrs hon. Y mae ei eiriau'n cynhyrfu Jack ac yn chwerwi'r cyfeillgarwch rhwng y ddau fachgen am weddill y gwyliau.

[1546] Ibid.
[1547] Thomas, 'A True Childhood: Dylan's Peninsularity', tt. 12–13.
[1548] M. Wynn Thomas, *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff, 1999), t. 77.
[1549] Walford Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories* (London, 1983), t. 135.

Yn sicr, ni ellir, wrth ddarllen llinell agoriadol y stori hon, beidio â meddwl am T. James Jones ei hun, neu 'Jim' Jones, fel y'i hadwaenir hefyd: 'The grass-green cart, with "J. Jones, Gorsehill" painted shakily on it, stopped in the cobblestone passage between "The Hare's Foot" and "The Pure Drop".'[1550] Gellid dadlau y buasai'r enw J. Jones, Gorsehill yn gatalydd a fuasai'n fodd o gryfhau ymuniaethiad Jim Jones, Parc Nest â'r stori hon. Rhwng y disgrifiad o'r parlwr Cymreig sy'n adleisio'r gerdd 'After the funeral' ('The best room smelt of moths balls and fur and damp and dead plants and stale, sour air'[1551]) a phresenoldeb y capel yn y cefndir, y mae naws hynod Gymreig i'r stori hon. Yn ogystal, ceir sawl cyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn y stori:

> Between hymns he cursed the mare in Welsh.[1552]
>
> 'She jumped in the cold river, she jumped,' he said, his mouth against my ear, 'arse over tip and Diu [sic], she was dead.[1553]
>
> I sat on the hay and stared at Gwilym preaching, and heard his voice rise and crack and sink to a whisper and break into singing and Welsh and ring triumphantly and be wild and meek.[1554]

Yn achos y cyfeiriad cyntaf a nodwyd, dengys Dylan Thomas fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol gan Jim y stori ym mhob sefyllfa – wrth ganu ac wrth regi. Arwyddocaol hefyd yw'r defnydd o'r gair 'Diu' yn yr ail enghraifft, sy'n awgrymu i'r darllenydd mai Cymraeg yw iaith gyntaf y cymeriad. Noder hefyd mai 'break into singing and Welsh' ac nid 'break into singing in Welsh' a wna Gwilym. Y mae'r cymal 'singing and Welsh' yn dangos nad iaith yn unig mo'r Gymraeg, ond diwylliant, ffordd o fyw a rhan o hunaniaeth unigolyn. Fel y dywed M. Wynn Thomas: 'in "The Peaches" Thomas's relationship to that rural, religious, Welsh-speaking culture is [...] emotionally complex. If he finds it at once threateningly and comically strange, he is also intuitively attached to it.'[1555]

Y mae'r disgrifiad trasi-gomig o gadair Jim yng nghegin Gorsehill yn Gymreig iawn hefyd: 'He sat down in his special chair, which was the broken throne of a bankrupt bard'.[1556] Y mae'r cyfeiriadau at y 'special chair', y 'throne' a'r bard' yn rhwym o atgoffa darllenwyr Cymraeg o seremoni'r Cadeirio. Ar un wedd, gellid dadlau bod y disgrifiad hwn yn caniatáu

---

[1550] Ibid., t. 120.
[1551] Ibid., t. 129.
[1552] Ibid., t. 124.
[1553] Ibid., t. 126.
[1554] Ibid., t. 128.
[1555] Thomas, *Corresponding Cultures*, t. 79.
[1556] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 125.

i'r darllenwyr chwerthin am ben y Cymry cefn gwlad, gwerinol a thlodaidd. Ar y llaw arall, gellir dehongli'r gwrthgyferbyniad rhwng cyflwr truenus y gadair a'r bri a'r statws a roddir i feirdd cadeiriol yng Nghymru fel jôc fewnol o fath rhwng yr awdur a'r darllenwyr Cymraeg. Y mae'n werth cyfeirio yma at yr hyn a ddywed Anthony Conran am y term 'Bardic':

> 'Bardic' in English usage generally carries a bad connotation: it tends to mean high-falutin, affected and unsophisticated – all at the same time! In Welsh, of course, *bardd* simply means poet; but since a poet in Wales was a man who specialised in a certain kind of praise, the word has overtones which are different from those of the English word 'poet'.[1557]

Yng ngoleuni sylwadau Conran, dichon y byddai'r cyfeiriadau at 'chair', 'throne' a 'bard' yn magu arwyddocâd pellach i ddarllenwyr sy'n gyfarwydd â'r diwylliant eisteddfodol, Cymraeg. Ni ellir wrth ddarllen y geiriau hynny, 'He sat down in his special chair, which was the broken throne of a bankrupt bard',[1558] beidio â meddwl am y bardd Dewi Emrys o Geinewydd a ddisgrifid gan lawer fel 'the Welsh Dylan Thomas', yn ôl Meic Stephens[1559] ('as if Thomas were not Welsh because he wrote in English'[1560]). Oherwydd ei broblemau ag alcohol, gwerthodd Dewi Emrys ei gadeiriau eisteddfodol a gwerthodd y Goron a enillodd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1926 mewn siop wystl. Yn wir, y mae'r cysylltiad hwn â'r traddodiad barddol, eisteddfodol Cymraeg – y cyfeiriadau at y gadair, yr orsedd a'r bardd – yn atgyfnerthu'r syniad mai 'The Peaches' yw un o straeon Cymreiciaf Dylan Thomas.

Yn sicr, gellir edrych ar ddrama T. James Jones fel penllanw ei ymgyrch i Gymreigio Dylan Thomas. Ni chyhoeddwyd y ddrama hyd yma, ond dadlennodd T. James Jones wrth yr awdur presennol ym mis Mehefin 2017 ei fod yn bwriadu ei chyhoeddi, a hynny fel rhan o gyfrol o farddoniaeth:

> Ymhen rhyw flwyddyn, os byw ac iach, credaf y bydd gennyf ddigon o ddeunydd at gyfer cyhoeddi cyfrol arall – a bwriadaf gynnwys y ddrama radio yn y gyfrol honno. Byddai'n dda medru dethol o'r ddau fersiwn.[1561]

Nid dyma fyddai'r tro cyntaf i T. James Jones gyhoeddi drama mewn cyfrol o farddoniaeth. Cyhoeddodd ei ddrama fydryddol, hanesyddol 'Nest' yn ei gyfrol *O Barc Nest*, sef drama am ferch Rhys ap Tewdwr, brenin olaf Deheubarth. Er nad yw'r ddrama radio am Dylan Thomas yn ddrama fydryddol, dyfynnir ynddi benillion a llinellau o farddoniaeth, fel y gwelwn yn y

---

[1557] Anthony Conran, *The Cost of Strangeness: Essays on the English Poets of Wales* (Llandysul, 1982), t. 180.
[1558] Davies (gol), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 125.
[1559] Meic Stephens, *Welsh Lives: Gone but Not Forgotten* (Talybont, 2012), t. 163.
[1560] Ibid.
[1561] Cyfweliad yr awdur presennol â T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen], 26 Tachwedd 2017.

man. Pwysig i ddechrau yw crybwyll y ffaith fod T. James Jones yn dweud uchod ei fod yn bwriadu 'dethol o'r ddau fersiwn' o'r ddrama. Yr hyn y cyfeiria ato yma yw fersiwn gwreiddiol o'r ddrama, y rhoddwyd y teitl 'Un Porchell' iddi, a *Dylan yn Fern Hill*, sef y fersiwn terfynol, a'r un a ddarlledwyd. Gwnaed cryn newidiadau arwyddocaol i'r fersiwn gwreiddiol cyn i'r ddrama gael ei darlledu ar Radio Cymru. Byddir yn craffu ar y newidiadau yn y bennod hon. Darlledwyd y fersiwn terfynol, *Dylan yn Fern Hill*, ar Radio Cymru ar 26 Hydref 2014, yn ystod dathliadau canmlwyddiant Dylan Thomas, fel y nodwyd, ac fe'i disgrifiwyd ar wefan Radio Cymru fel '[d]rama wreiddiol gan T. James Jones am blentyndod Dylan Thomas a'r cyfnodau lu a dreuliodd yn ymweld â Anti Annie a Wncwl Jim yn Fern Hill, Sir Gaerfyrddin.'[1562] Yn ôl T. James Jones, y mae'r ddrama 'yn dangos pendraw'r broses [o Gymreigio Dylan] – sef ei bortreadu fel bardd sy'n medru creu cerddi Cymraeg!'[1563] Yn y cyswllt hwn, y mae'n werth cyfeirio unwaith eto at nofel ddychanol Marcel Williams, *Diawl y Wenallt*. Dylan Thomas ei hun yw un o brif gymeriadau'r nofel hon. Fe'i portreadir yn garicaturaidd gan Williams fel meddwyn a merchetwr mochynnaidd a gwrth-Gymreig. Fe'i disgrifir gan un o gymeriadau'r nofel, y Parchedig Dafydd Pughe, fel 'Arch-feddwyn, Beelzebub bytheiriol, Gelyn y Gymraeg a Phennaeth y Paganiaid.'[1564] Yn wahanol i T. James Jones, sy'n portreadu Dylan Thomas fel bardd sy'n siarad ac yn llenydda yn Gymraeg yn ei ddrama, Saesneg yw iaith y bardd yn *Diawl y Wenallt.* Crisielir amarch Thomas tuag at y Gymraeg yn *Diawl y Wenallt* yn y disgrifiad ohono yn 'dod o hyd i garreg fedd ac arni bennill cywrain yn y Gymraeg' ac yn '[p]isio dros y geiriau', chwedl M. Wynn Thomas.[1565] Yn ôl Thomas:

> Cryfder y nofel [...] yw ei bod hi'n llwyddo i gyfleu'r angerdd a'r wefr, sydd i'w deimlo pryd bynnag y bydd y Cymry'n sôn am Dylan Thomas. Nid oes ots pa mor rhesymol y bo'r trafod, na pha mor wâr o ddeallusol y bo'r dadansoddi, mae yna afresymoldeb – neu o leiaf mae yna deimladau ac argyhoeddiadau sy'n rhagflaenu rheswm – yn llechu bob tro yn y bôn.[1566]

Gwneir hwyl am ben y Dylan-addolwyr hefyd yn *Diawl y Wenallt* – carfan sydd, yn ôl M. Wynn Thomas, yn credu bod y diwylliant Cymraeg yn blwyfol ac yn gyntefig ac mai 'dim ond drwy gyfrwng yr iaith Saesneg y mae'r Gymru fodern wedi llwyddo i esgor ar fardd

---

[1562] *Dylan yn Fern Hill*, BBC Radio Cymru <http://www.bbc.co.uk/programmes/b04mlqcm>; cyrchwyd 26 Hydref 2014.
[1563] E-bost T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen] at yr awdur presennol, 27 Mehefin 2017.
[1564] Marcel Williams, *Diawl y Wenallt* (Talybont, 1990), t. 35.
[1565] M. Wynn Thomas, 'Dylanwadau: Dylan Thomas a Llenorion Cymraeg', *Taliesin*, 112 (Haf, 2001), t. 16.
[1566] Ibid., t. 18.

soffistigedig ac ar farddoniaeth o safon gydwladol.'[1567] Gwelwn fod T. James Jones yn ceisio darbwyllo'r Dylan-gasawyr yn ei ddrama *Dylan yn Fern Hill* nad oedd y bardd hwn yn 'Elyn y Gymraeg', gan ddangos bod y diwylliant Cymraeg wedi bod yn ddylanwad pwysig ar ei fywyd a'i waith.

Crynhoir yn *Dylan yn Fern Hill* holl ymwneud T. James Jones â Dylan Thomas ar hyd y blynyddoedd. Yn y ddrama hon, y mae Jones yn ieuo ynghyd ffeithiau bywgraffyddol, dyfyniadau a phenillion cyfan o'r cerddi o eiddo Dylan Thomas a gyfieithwyd ganddo ar hyd y blynyddoedd. Y mae'r ddrama yn waith creadigol gwreiddiol sy'n cyflawni ei ymgyrch o Gymreigio Dylan Thomas. Dylan Thomas ei hun yw'r bachgen yn nrama Jones, ac Idris yw enw'r cefnder. Esboniodd Jones ei fod wedi penderfynu 'defnyddio enwau priod Jim ac Annie Fern Hill er mwyn bod yn gyson; teimlwn y dylwn ddefnyddio priod enw'r cefnder sef Idris yn hytrach na'r ffugenw Gwilym fel sydd yn y stori "The Peaches".'[1568] Y mae pum cymeriad yn y fersiwn gwreiddiol, 'Un Porchell', sef y Llais (yr adroddwr), Jim, Dylan, Ann ac Idris:

> LLAIS [sef Dylan yr oedolyn yn *Dylan yn Fern Hill*]
> JIM – 62 oed. Wncwl Dylan. Ffarmwr afradlon Fern Hill. Eglwyswr.
> DYLAN – 12 oed.
> ANN – 64 oed. Anti Dylan. Ffarmwreg weithgar Fern Hill. Capelwreg.
> IDRIS – 28 oed. Mab Fern Hill. Araf, hynod, ysgeler. Uchelgais – pregethu.[1569]

Archwilir yn y ddrama y berthynas rhwng y cymeriadau hyn. Cawn wybod gan yr adroddwr yn y ddau fersiwn o'r ddrama mai '[c]hwaer i Florrie, mam Dylan, yw Ann, Fern Hill',[1570] a'i bod 'ar gyrraedd ei thrigen a'i phump, a thrwy ymdrech galed wedi llwyddo i gadw dau ben llinyn ynghyd, er gwaethaf afradlonedd ei gŵr, Jim, ac arafwch a diogi ei mab, Idris.'[1571] Â'r adroddwr rhagddo i ddweud mai prif ddiléit Wncwl Jim 'mewn bywyd yw treulio diwrnod bant o'r ffarm i feddwi a chael cwmni menywod yn nhafarnau Caerfyrddin a'r cyffiniau',[1572] a'i fod yn 'dwgyd ambell borchell o'r twlc er mwyn cael arian ychwanegol i brynu cwrw.'[1573] Y mae Wncwl Jim ac Idris yn amlwg yn trethu amynedd Ann yn y ddrama hon. Caiff Jim bryd o dafod ganddi am werthu moch yn y dafarn ac am adael 'i'r crwt fod ben ei hunan bach tra bo' ti'n

[1567] Ibid., t. 17.
[1568] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 27 Mehefin 2017.
[1569] T. James Jones, 'Un Porchell', teipysgrif anghyhoeddedig a gafwyd gan yr awdur, 22 Mai 2017, t. 1. Ar wahân i rai gwahaniaethau, yr un, yn ei hanfod, yw'r testun hwn â *Dylan yn Fern Hill*.
[1570] Ibid., t. 5.
[1571] Ibid.
[1572] Ibid.
[1573] Ibid.

joio fflyrtan 'da rhyw fenwod meddwol'.[1574] Caiff Idris hefyd ei ddwrdio ganddi fwy nag unwaith yn y ddrama ar gyfrif ei ddiogi a'i hoffter o ddarllen 'sothach brwnt'[1575] yn y tŷ bach:

> Wy wedi gweud a gweud 'thot ti. Colli dy olwg, wnei di. 'Na beth sy'n digwydd, medde nhw. Colli dy olwg. A shwt 'nei di ymdopi wedyn? Pan fydd dy fam yn ei bedd, fydd hi'n dywyll bitsh 'not ti. Ma 'sbyty Caerfyrddin yn llawn o dy sort di.[1576]

Anti Ann, yn amlwg, 'yw'r bos yn Fern Hill'.[1577] Cawn wybod gan yr adroddwr yn y ddau fersiwn o'r ddrama fod gan 'Anti Anni lygaid barcud'[1578] ac nad oedd llawer yn digwydd yn Fern Hill heb iddi hi wybod amdano. Gan gyfeirio at arferion rhywiol Idris a Jim, dywed y Llais yn 'Un Porchell' fod 'Idris, druan, yn cael ei ddal ganddi'n amal. Ac mae hynny'n wir am Jim ei gŵr hefyd.'[1579] (Hepgorwyd y brawddegau hyn o'r fersiwn diweddaraf.) Cyffelybir Ann gan yr adroddwr yn y ddau fersiwn o'r ddrama i Robert Rickets Evans, y crogwr a fu'n byw yn Fernhill flynyddoedd cyn iddi hi a'i theulu symud yno: 'Yn ei ffordd ei hunan, roedd Ann yn gymaint o deyrn ar ei haelwyd â Rickets Evans y crogwr!'[1580] Nodir yn y ddrama fod Rickets, dirprwy grogwr carchar Caerfyrddin, 'yn rheoli'r aelwyd fel unben, a phan geisiodd ei ferch briodi rhywun nad oedd e'n hoff ohono, fe'i carcharodd hi yn ei hystafell wely.'[1581] Awgryma Dylan Thomas, yr adroddwr yn y fersiwn diweddaraf, *Dylan yn Fern Hill*, fod Ann yn 'rhannol gyfrifol' am ymddygiad rhywiol ei mab: 'tra bydd Ann yn ymdrechu i arbed ei mab rhag bryntni'r byd, doedd hi ddim yn sylweddoli mai hi ei hunan oedd yn rhannol gyfrifol am gyflwr Idris ac am ei arferion i fodloni ei hunan yn rhywiol.'[1582] Cawn wybod gan Dylan yr adroddwr fod Ann wedi cael 'ei chyflwyno'n gynnar iawn i gymhlethdodau "brwnt y byd" gan iddi fod mewn perthynas losgachol ag wncwl iddi pan oedd hi yn ei harddegau.'[1583]

Rhoddir sylw yn y ddrama hefyd i'r ffaith mai capelwyr yw Ann ac Idris, ac eglwyswr yw Jim. Dewisodd Jim fynychu'r eglwys yn hytrach na'r capel gan fod hynny, yn ei dyb ef, yn rhoi mwy o statws iddo. Fel y noda Idris yn y ddrama: 'ma'n well 'dag e fynd at y crach i'r Eglwys. A ma' fe'n ca'l yfed yn yr Eglwys.'[1584] Ond tra mae Ann yn mynychu Capel Smyrna,

---

[1574] Ibid., t. 32.
[1575] Ibid., t. 12.
[1576] Ibid.
[1577] Ibid., t. 35.
[1578] Ibid., t. 8.
[1579] Ibid.
[1580] Ibid., t. 15
[1581] Ibid., t. 14.
[1582] T. James Jones, *Dylan yn Fern Hill*, drama a ddarlledwyd ar Radio Cymru, 26 Hydref 2014, t. 15. Dyfynnir yma o drawsgrifiad ohoni a wnaed gan yr awdur presennol.
[1583] Ibid., t. 14.
[1584] Jones, 'Un Porchell', t. 40.

y mae Idris yn mynychu 'Capel Idris'[1585] yn y ddrama hon. Fel Gwilym yn 'The Peaches', uchelgais Idris yw pregethu: 'Ei unig uchelgais oedd bod yn bregethwr, ond oherwydd iddo ffaelu pob arholiad, ni chafodd fynd yn agos at goleg. A dweud y gwir, roedd Idris yn gymeriad hynod... ac unig.'[1586] Fel y gwelir yn y ddeialog rhwng Marlais a Jack, y mae crefydd a rhyw yn themâu sy'n mynd law yn llaw yn 'The Peaches':

> 'I found a lot of poems in his bedroom once. They were all written to girls. And he showed them to em afterwards, and he'd changed all the girls' names to God.'
>
> 'He's religious.'
>
> 'No, he isn't, he goes with actresses. He knows Corinne Griffith.'[1587]

Pregethu a merched yw prif ddiddordebau Gwilym yn y stori hon. Ond er bod Gwilym yn brolio wrth ei gefnder ei fod yn canlyn sêr y sgrin arian fel Corinne Griffith, y gwirionedd yw ei fod yn berson unig iawn sydd fel petai'n dargyfeirio ei rwystredigaethau a'i egni rhywiol drwy ymroi i grefydd. Fel y dywed Andrew Lycett (sy'n cyfeirio at gymeriad Gwilym fel Idris): 'The reality was Idris [Gwilym] masturbating in an outhouse with a book in his hand [...], while sublimating his sexual drive in revivalist religion, full of Welsh *hwyl*, or emotional fervour.'[1588] Y mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn fod Ann yn defnyddio crefydd i lesteirio dyheadau rhywiol ei mab yn y ddrama:

> IDRIS
>
> Ma' Duw yn gweld popeth. A licen i weld popeth.
>
> ANN
>
> 'So ni fod gweld popeth. A ta beth, os wyt ti'n credu bo' Duw yn gweld popeth, ma' fe'n dy weld ti, ta ble wyt ti.
>
> IDRIS
>
> Wy'n gwbod.
>
> ANN

[1585] Ibid.
[1586] Jones, *Dylan yn Fern Hill*, t. 5.
[1587] Davies (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Stories*, t. 135.
[1588] Andrew Lycett, *Dylan Thomas: A New Life* (London, 2003), tt. 42–3.

> Yn gwely. Mas ar clos. Yn y sgubor. Ar lan yr afon. Ac yn y tŷ bach yn darllen sothach brwnt y byd![1589]

Nid yw'r Llais yn 'Un Porchell' na Dylan yn *Dylan yn Fern Hill* yn beirniadu Idris am ei arferion rhywiol. Yn hytrach, cydymdeimla'r ddau adroddwr â'r cymeriad hwn yn y ddau fersiwn. Noda'r Llais yn 'Un Porchell' fod 'Dylan wedi sylweddoli ei fod yntau ac Idris a'r Crwca yn yr un cwch'.[1590] Yn ogystal, cyfeddyf Dylan yn *Dylan yn Fern Hill* ei fod yn ymuniaethu â'i gefnder a'i fod

> wedi dechre sylwi ar grotesi heb wybod yn iawn beth i neud â'r teimladau dieithr o'dd yn dechre corddi. Ro'n i'n gweld y crwca druan ar ynys ei unigrwydd yn cael teimladau tebyg. Wy'n cofio'r rhwystredigaethau rhywiol. Cofio llygadu merched heb wybod sut i greu perthynas a dychmygu fod y crwca'n cael profiadau tebyg wrth lygadu'r nyrsus o'dd yn dod i'r parc yn ystod yr awr ginio.[1591]

Y mae Idris yn atgoffa Dylan 'o gymeriad unig a hynod arall' a adnabu 'ers rai blynyddoedd yn yr Uplands, Abertawe', sef y Crwca a dreuliai 'ei ddyddie ym mharc Cwmdonkin.'[1592] Ond fel y gwelwn o'r ddeialog rhwng Ann ac Idris, ceisia Ann godi ofn ar ei mab drwy ei atgoffa bod Duw yn gweld popeth, ac yn ei gollfarnu am ddarllen sothach brwnt y byd. Yn eironig, fodd bynnag, y mae'r Duw hollbresennol a ddisgrifir gan Ann yn swnio'n fwyfwy fel *voyeur* gwyrdroëdig erbyn diwedd y sgwrs. Y mae'r ddeialog hon yn enghreifftio'r ffordd y mae crefydd a rhyw yn plethu'n gynnil i'w gilydd yn y ddrama. Caiff y ddwy thema hyn eu hieuo ynghyd hefyd yn nehongliad Idris o'r adnod 'Duw cariad yw'. Fel y tystia'r cyfeiriadau at gusanu, gan gynnwys ei aralleiriad o 1 Corinthiaid 13 – 'Ac yn awr y mae yn aros, ffydd, gobaith a chusan'[1593] – nid cariad ysbrydol, pur sydd ar feddwl Idris wrth adrodd yr adnod hon, ond serch cnawdol:

IDRIS

> Ie, gyfeillion! Duw cariad yw! Ac fe'n geilw i garu ein gilydd. Cysuro'n gilydd.—Ie! Gyfeillion! Cusanu'n gilydd! Does dim byd aflan mewn cusan! Ac yn awr y mae yn aros, ffydd, gobaith a chusan! Nid Duw casineb yw! Dynion sy'n gas i'w gilydd. Pobol sy'n casáu ei gilydd. Nid Duw. Pobol sy'n lladd ei gilydd! Hyd yn oed eu brodyr! Ac mae'n rhaid i Dduw eu cosbi am ladd brodyr ei gilydd! A'r gosb yw crogi . . . c r o g i . . . c r o g i . . . ![1594]

[1589] Jones, *Dylan yn Fern Hill*, tt. 13–14.
[1590] Idem, 'Un Porchell', t. 8.
[1591] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 7.
[1592] Ibid, tt. 5–6.
[1593] Idem, 'Un Porchell', t. 35.
[1594] Ibid.

Perthnasol hefyd yw nodi bod T. James Jones yn trafod rhyw a rhywioldeb mewn cyd-destun crefyddol mewn sawl drama o'i eiddo. Er mai cefndir ei ddrama *Herod*,[1595] er enghraifft, yw'r sefyllfa wleidyddol a chrefyddol a fodolai yn Jwdea yng nghyfnod genedigaeth Crist, rhoddir cryn sylw yn y ddrama hon i rywioldeb y ferch a'i diffyg hawl i'w rhywioldeb ei hun mewn cymdeithas batriarchaidd. Comisiynwyd y ddrama gan Gymdeithas Theatr Cymru ac fe'i perfformiwyd dan y teitl *Anaddas i Blant* gan gwmni Whare Teg ym mis Awst 1990. Ar yr olwg gyntaf, drama hanesyddol am y ddwy gymdeithas a fodolai yn Jwdea yn y ganrif gyntaf OC yw *Herod* – sef cymdeithas y Sadwceaid a dderbyniai deyrnasiad Herod, a'r Phariseaid a wrthwynebai'r brenin. Cenedl ranedig yw'r genedl Iddewig yn y ddrama a gellir cynnig bod yr hollt ideolegol rhwng y ddwy garfan o Iddewon yn symbol o'r tensiwn yng Nghymru rhwng y cenedlaetholwyr Cymraeg a'r Cymry sy'n ymgreinio i Goron Lloegr. Grym yw prif thema'r ddrama ac archwilir sawl math o rym ynddi – grymoedd gwleidyddol, trefedigaethol a chymdeithasol, gyda ffocws arbennig ar ddiffyg grym y ferch. Yn ogystal, y mae pleser rhywiol y ferch yn thema bwysig yn y gwaith. Dyma T. James Jones, cyn-bregethwr, yn defnyddio cyd-destun crefyddol, a chymeriadau hanesyddol, Beiblaidd, fel cyfrwng i drafod serch a rhywioldeb.

Y mae'n werth cyfeirio yn y cyswllt hwn hefyd at y ddrama *Pwy Bia'r Gân?*.[1596] Comisiynwyd y ddrama hon gan Ŵyl Dinefwr a Chwmni Whare Teg ac fe'i hysgrifennwyd ar y cyd gan Manon Rhys a T. James Jones. Drama am Williams Pantycelyn a'i deulu yw *Pwy Bia'r Gân*?, gwaith sy'n archwilio cyflwr dwy briodas – uniad Wil (Williams Pantycelyn) a Mali, ac uniad Martha, ffrind Mali, a Ben y teiliwr. Archwilir hefyd natur y berthynas rhwng Martha a Shoni, gwas Pantycelyn. Prif thema'r ddrama hon yw perthynas – cariad, serch, nwyd, godineb – ac fe graffa Jones a Rhys yn arbennig ar agweddau tuag at ryw, megis y gred mai 'nwyd heb 'i ddisgyblu' yw rhyw y tu allan i briodas ac mai 'cariad' pur yw rhyw rhwng gŵr a gwraig priod.[1597] Awgrymir yn y ddrama fod Mali'n teimlo'n rhwystredig yn ei phriodas. Fel y noda Gareth William Jones yn ei adolygiad o'r ddrama, 'nid yw'r gŵr nwydus ei grefydd yn bodloni ei wraig'[1598] gan fod ei deithiau parhaus i bregethu ledled y wlad yn straen ar Mali. Awgrymir hefyd fod Martha yn cael ei cham-drin gan ei gŵr, Ben, a bod y serch cnawdol, angerddol a fu'n llosgi fel fflam rhyngddynt ar ddechrau'r berthynas wedi hen ddiffodd. Fe'i cynghorir gan Wil i ddychwelyd ato â chariad Iesu – 'Dim ti ar dy ben dy hunan, Martha fach,

[1595] T. James Jones, *Herod* (Llanrwst, 1991).
[1596] T. James Jones a Manon Rhys, *Pwy Bia'r Gân* (Llanrwst, 1991).
[1597] Ibid., t. 36.
[1598] Gareth William Jones, 'Adolygiad: *Herod* a *Pwy Bia'r Gân?*', *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1992), t. 23.

ond yr Arglwydd Iesu 'da ti'n cyd-gario'r baich.'[1599] Ond y mae'r cyngor crefyddol hwn yn corddi Martha, 'y fenyw gnawdol',[1600] sy'n methu '[g]odde'r tagu a'r mogi'[1601] rhagor ac sydd 'ar dân isie dyn':[1602] 'Beth wy fod neud â nwyd? [...] Wel, gwedwch wrtha'i! O's 'na le yn nhrefen yr achub i nwyd?'[1603] Merched rhywiol, 'cnawdol'[1604] yw Mali a Martha, ond awgrymir yn y ddrama fod crefydd yn 'tagu' ac yn 'mogi' eu rhywioldeb.[1605]

Cyn dychwelyd at 'Un Porchell' a *Dylan yn Fern Hill*, y mae'n werth cyfeirio'n fyr yma hefyd at y ddrama *Dyn Eira*. Noda Dylan Iorwerth yn ei ragair i'r ddrama iddi ddod i'r brig yn yr Eisteddfod Genedlaethol dan enw arall, 'Raspwtin', ar ôl y dyn a wnaeth gwlt o fercheta.[1606] Drama am weinidog o'r enw Daniel yw *Dyn Eira*. Gorfodir i'r diwinydd hwn wynebu ei amheuon crefyddol a'i ragrith pan gyferfydd â'i hen gariad, Eira – athronydd sy'n gweithio mewn prifysgol. Dramateiddir y tensiynau rhwng credoau'r diwinydd a'r athronydd yn *Dyn Eira*. Fel y dengys atgof Eira o ymgolli mewn ffantasi rywiol yn ystod un o bregethau Dan, gwelir bod rhyw a chrefydd eto yn themâu sy'n plethu i'w gilydd yma:

> Hanner ffordd drwy'r bregath, pan oeddat ti'n croesi môr Galilea ar dy ffordd i Gapernaum, wyt ti'n gwbod lle oeddwn i? Yng nghefn dy gar di ym mherfeddion fforest Brechfa. Y ffenestri'n stemio a'r Morris Thousand yn symud fel llong ar fôr tymhestlog. Nid yn unig ar fôr Galilea y bydd stormydd sydyn yn codi.[1607]

Cawn wybod hefyd fod Dan ac Eira wedi chwarae rhannau Eli Jenkins a Polly Garter mewn cynhyrchiad o *Under Milk Wood* pan oeddent yn gariadon ifanc:

> Dan: Cana gân Polly i fi.
>
> Eira: Pam ges i nghastio fel Polly Garter? Mi o'n i'n rhy ifanc.
>
> Dan: Alle neb 'i chanu hi'n debyg i ti. 'Na fe, o'n inne'n rhy ifanc i whare Eli Jenkins 'fyd.[1608]

Cyfeiria Eira at y cymeriadau hyn wrth ddisgrifio'r dyheadau a oedd yn corddi ynddi pan oedd hi yng nghwmni Dan. Wrth draethu ei hatgof o yrru heibio i fforest Brechfa o'r ymarfer drama yn y Morris Thousand gyda Dan, dywed ei bod yn

---

[1599] Jones a Rhys, *Pwy Bia'r Gân*, t. 58.
[1600] Ibid., t. 75.
[1601] Ibid., t. 61.
[1602] Ibid., t. 60.
[1603] Ibid.
[1604] Ibid., t. 75.
[1605] Ibid., t. 61.
[1606] T. James Jones, *Menyw a Duw yn Dial: dwy ddrama Dyn Eira, Y Twrch Trwyth* (Llanrwst, 2004), t. 8.
[1607] Ibid., t. 34.
[1608] Ibid., t. 25.

> siŵr y basa'r hen Forris wedi dringo'n ddigon ufudd i ganol y coed. Mor ufudd â'r Boli fach ifanc yn eistadd yn dynn yn ymyl 'i pharchedig Eli. Ac mi ddaru ti stopio unwaith yng nghysgod un o'r mynegbyst – Brechfa chwe milltir. A finnau'n meddwl – waw! Dyma fi o'r diwadd ar fin cael gweld un o ryfeddoda Ewrop! 'Ti isio ffag?' medda chdi. 'Be?' medda fi, â chalon Poli'n llamu i dwn i ddim ble. 'Ffag'. 'Diolch' medda fi, yn bropor iawn, a rhoi chwip dîn preifat i Poli am fod mor bowld.[1609]

Nid rhywioldeb Idris yw'r un beth sy'n cael ei dagu yn y ddrama 'Un Porchell', ond Cymreictod y Dylan ifanc hefyd. Y mae diddordeb Idris yn hanes merch y crogwr yn troi'n sinistr wrth iddo glymu rhaff o amgylch gwddf ei gefnder ar ddiwedd y ddrama: 'Moyn i ti gael y profiad odw i. Teimlo'r rhaff am dy wddf er mwyn i ti fedru cydymdeimlo â phob un gas y profiad slawer dydd.'[1610] Fel rhan o'i bregeth styrbiol yn yr ysgubor, neu Gapel Idris, fel y'i gelwir ganddo, dywed Idris wrth ei gefnder ifanc:

> Er bod y Testament Newydd yn llawn damhegion mae un arall i'w hadrodd yma heno. Dameg y Crogwr. Ond nid gwrando ar y ddameg yn unig a wnawn ni, ond chwarae rhan ynddi er mwyn deall ei neges hi'n glir.[1611]

Ond fel y mae'r rhaff yn mynd am wddf Dylan, daw Ann drwy'r drws gan roi terfyn ar ffantasi ryfedd ei mab. Geiriau Ann sy'n cloi'r ddrama 'Un Porchell' – 'Idris! Beth ti'n neud? Paid! Paid!!'.[1612] Gadewir diwedd y ddrama felly yn benagored. Ymestynnodd T. James Jones yr olygfa hon yn y fersiwn diweddaraf:

ANN

> Idris! Beth ti'n neud? Beth sy'n digwydd? O! Rhag dy gywilydd di! Allet ti fod wedi crogi'r crwt! O, ti'n iawn Dylan bach? Gwed rwbeth? Ti'n olreit? Gest ti ddolur?

DYLAN

> Na.

ANN

> Idris… dere Dylan. Dim gair am hyn wrth un enaid byw. Dim gair wrth Jim na neb, chi'n dyall? Neu fydd y stori ar garlam trw' holl dafarne'r ardal a dwyn gwarth ar ein penne ni i gyd.[1613]

[1609] Ibid., t. 36.
[1610] Idem, 'Un Porchell', t. 38.
[1611] Ibid., t. 37.
[1612] Ibid., t. 38.
[1613] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 53.

Ar ôl y sioc o weld ei mab yn rhoi rhaff am wddf ei nai, saetha Ann bedwar cwestiwn at Dylan, gan gynnwys yr erfyniad/cwestiwn 'Gwed rwbeth?'. Ateb Dylan i'r pedwar cwestiwn yw 'Na'.[1614] Erfynia Ann ar Idris a Dylan i beidio â dweud wrth neb am y digwyddiad hwn, cyn i Dylan yr adroddwr gloi'r ddrama fel a ganlyn:

> A dyna ddigwyddodd. Ni ddywedwyd yr un gair am ddrama dywyll y sgubor wrth neb. Aeth Anni a Jim ac Idris Fern Hill i'w bedde heb i'r stori ddiengyd o'r sgubor. Ac ni ddywedes i air amdani tan heddiw. Chi'n gweld, erbyn y dechreues i 'sgrifennu, o'n i wedi ame iddi ddigwydd o gwbwl – neu falle i fi anghofio'n llwyr amdani.[1615]

Gellir cynnig bod y darn hwn, yn enwedig y llinellau – 'Ac ni ddywedes i air amdani tan heddiw [...] neu falle i fi anghofio'n llwyr amdani'[1616] – yn magu arwyddocâd pellach yng nghyswllt ymgyrch T. James Jones i adfer Cymreictod Dylan Thomas. Awgrymir yma nad yw Dylan ei hun wedi dweud gair o Gymraeg 'tan heddiw'. Fel y dywedodd T. James Jones wrth yr awdur presennol, y cwestiwn sy'n dilyn y dehongliad hwn yw 'pryd mae "heddiw'r" ddrama?'[1617] Dywedodd Jones ymhellach y 'gellid dadle mai'r presennol parhaol yw e. Hynny yw, ysbryd neu awen Dylan yn ymgodymu â phob ymchwil diweddar i'w Gymreictod a'i agwedd at y Gymraeg.'[1618]

Un o'r newidiadau mwyaf arwyddocaol a wnaeth T. James Jones i'r fersiwn gwreiddiol, 'Un Porchell', cyn i'r ddrama gael ei darlledu ar Radio Cymru yn ei ffurf derfynol fel *Dylan yn Fern Hill*, oedd newid hunaniaeth yr adroddwr. Yn 'Un Porchell', y Llais yw'r adroddwr. Yn debyg i'r First Voice yn *Under Milk Wood*, adroddwr dienw, craff yw'r Llais. Y mae'r Llais yn tynnu'r gynulleidfa i mewn i'r ddrama gan ddefnyddio ymadroddion fel 'Cawn weld'[1619] a 'dewch i ni gael mynd nôl at...'.[1620] Yn *Dylan yn Fern Hill*, fodd bynnag, Dylan Thomas yr oedolyn yw'r adroddwr sy'n symud y ddrama yn ei blaen. Dywedodd T. James Jones yn y sgwrs â Nia Roberts 'fod 'na lais [yn y ddrama] sef llais Dylan yn oedolyn, llais Dylan y bardd, llais Dylan sydd wedi canu cerdd i Fern Hill, sydd wedi canu marwnad i Annie, ac wedi canu i'r crwca yn y parc – parc Cwmdonkin.'[1621] Gellir cynnig mai hwn yw'r llais a gollwyd dan yr eira yn 'Return Journey', sef llais y Dylan Cymraeg ei iaith. Yn 'Un Porchell',

---

[1614] Ibid.
[1615] Ibid.
[1616] Ibid.
[1617] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 16 Chwefror 2018.
[1618] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Chwefror 2018.
[1619] Jones, 'Un Porchell', t. 11.
[1620] Ibid., t. 31.
[1621] *Stiwdio gyda Nia Roberts*: 'T. James Jones yn trafod ei ddrama radio newydd *Dylan yn Fern Hill*', BBC Radio Cymru, 21 Hydref 2014.

y mae'r Llais yn trafod rhai o gerddi Dylan Thomas – hynny yw, cyfieithiadau T. James Jones ohonynt – 'Fern Hill', 'Y Crwca yn y Parc' ac 'Wedi'r Cynhebrwng' – gan ddyfynnu o'r cerddi hyn. Yn *Dylan yn Fern Hill*, y mae Dylan yn adrodd penillion cyfan o'r cerddi.

Pan ofynnwyd i T. James Jones beth a'i symbylodd i newid yr adroddwr o fod yn Llais dienw i Dylan Thomas ei hun yn oedolyn yn y fersiwn diweddaraf, dywedodd yr awdur fod y newid hwn wedi

> ei gwneud hi'n bosib i drafod y cerddi o ddifri gan mai Dylan ei hunan sydd yn siarad. Unwaith wyt ti'n llwyddo i berswadio'r gynulleidfa ei fod e'n siarad Cymraeg fel plentyn, wel, y cam nesa' wedyn o'dd perswadio'r gwrandäwr i'w dderbyn e' fel Cymro Cymraeg fel oedolyn. Dyna yw pendraw'r broses. Yn y diwedd, mae Dylan yn rhugl ei Gymraeg.[1622]

Fersiynau Cymraeg T. James Jones yw'r cerddi a adroddir gan Dylan yn y ddrama. Ynghyd â dyfynnu penillion cyfan o 'Fern Hill' ac 'Y Crwca yn y Parc', y mae Dylan yn gweu cyfeiriadau a llinellau o'i farddoniaeth a'i ryddiaith i'r ddrama, er enghraifft:

> A'r Crwca, druan, ym Mharc Cwmdonkin yn yfed dŵr o'r pistyll a'r bechgyn ysgol yn dwgyd ei fara o'i bapur-newydd . . . Anti Anni â'i gên ynghau fel dwrn yn ei choffin ym mharlwr Fern Hill a'r cadno stwffedig yn peswch . . . Wncwl Jim yn feddw gaib mewn tafarn orlawn o fenywod yn sgrechen ac yn ymladd â'i gilydd am un porchell . . . Ffan yr ast yn brochgau'r gaseg a'r ddwy yn ffoi i Langadog . . . Tywysog y Tywyllwch yn dod o'r môr a llwyth o wymon yn hongian wrtho . . .[1623]

Y mae tri phwynt pwysig yn codi yn y dyfyniad hwn sy'n haeddu sylw manwl, sef defnydd Jones o'r gair 'brochgáu', y cyfeiriad at Dywysog y Tywyllwch yn dod o'r môr a'r cyfeiriad at y bardd Crwys a'i gerdd 'Melin Trefîn'. Ond cyn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn, sylwer ar y cyfeiriadau at 'Y Crwca yn y Parc', 'Wedi'r Cynhebrwng', 'The Peaches', 'Ymweld â Da-cu' ac 'Yn Bur Gynnar Un Bore' yn y dyfyniad uchod. Ceir cyfeiriadau cynnil yn y ddrama hefyd at *Dan y Wenallt*:

> ro'n i, crwt penfelyn Cwmdonkin Drive, wedi fy nhynghedu o'r dechrau'n deg i fod yn ots na'r cyffredin...[1624]
>
> (adlais o linell agoriadol *Dan y Wenallt* – 'A dechrau yn y dechrau'n deg'.[1625])

[1622] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
[1623] Jones, *Dylan yn Fern Hill*, t. 48.
[1624] Ibid., t. 20.
[1625] T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), t. 1.

> Roedd Anti Anni, yn ôl ei harfer, ar ddi-hun, yn dweud nos da heb ddweud ffarwel wrth Rach, Pentrewyman...[1626]
>
> (adlais o linell glo gweddi'r Parchedig Eli Jenkins, 'Cawn ddweud nos da, heb ddweud ffarwel'.[1627])

Ceir yn y ddrama hefyd gyfeiriad at 'Do not go gentle into that good night': 'Ac aeth Nancy a Florrie a Defi John yn esmwyth i'r nos da'.[1628] Nid yw'r cyfieithiad/aralleiriad hwn yn ymddangos yn fersiwn Cymraeg T. James Jones o'r gerdd, 'Y Pelican', lle y cyfieithwyd y llinell hon ganddo fel 'Paid â mynd i'r nos heb ofyn pam'.

Egyr y ddrama *Dylan yn Fern Hill* i gyfeiliant clip-clopian carnau Bes a phennill cyntaf 'Fern Hill':

> Pan o'n i'n rhwydd o ifanc dan ganghennau'r afallen
> ger y tŷ seinber ac mor hapus â glesni'r borfa,
> a'r nos uwchben y pant yn serennog,
> amser a'm goddefodd i gyfarch a dringo'n euraid
> yn anterth dyddiau ei lygaid,
> ac mor anrhydeddus oeddwn ymhlith wagenni
> fel y'm gwnaed yn dywysog y trefi afalau.[1629]

Yn yr olygfa hon caiff y Dylan ifanc ei hebrwng fel tywysog o orsaf Caerfyrddin i Fern Hill ar brynhawn braf o'r haf. Eistedda'r bachgen yn 'anrhydeddus' yn y cart gyda'i Wncwl Jim. Yn union fel y mae Jim yn canu emynau yn 'The Peaches', dechreua Wncwl Jim ganu 'Calon Lân' yn y ddrama, cyn i Dylan yr adroddwr hŷn dorri ar draws yr olygfa drwy adrodd ail bennill 'Fern Hill':

> A phan o'n i'n laslanc ysgafnfryd, yn rhywun ymhlith ysguboriau
> o gylch y clos dedwydd ac yn moli cartrefoldeb y ffarm,
> dan yr haul nad yw'n ifanc ond unwaith,
> amser a'm goddefodd i chwarae
> a'm heuro yn nhrugaredd ei drugareddau,
> a minnau newydd fy mathu, rown i'n heliwr a chowman,
> clywn gydganu'r lloi â'm corn a chyfarth cadnoid y bryniau
> yn iasoer glir,
> ac atseiniai'r Saboth dioglyd
> yng ngraean y nentydd cysegredig.[1630]

[1626] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 50.
[1627] Idem, *Dan y Wenallt*, t. 77.
[1628] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 50.
[1629] Ibid., t. 2.
[1630] Ibid.

Y mae'r ddau bennill hyn yn dwysáu naws hapus a hafaidd yr olygfa hon. Er bod y ddrama yn seiliedig ar 'The Peaches', y mae'r gerdd 'Fern Hill' wedi'i phlethu'n dynn i'r naratif ac yn allweddol o ran symud y ddrama yn ei blaen. Y mae'r gerdd hon yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd yn y ddrama. Fel y nodwyd ym Mhennod 5, gellir crynhoi 'Fern Hill' fel cerdd hiraethus, chwerwfelys am blentyndod a threigl amser. Yn debyg i 'Fern Hill', y mae'r ddrama *Dylan yn Fern Hill* yn pendilio rhwng dau fyd a dau gyflwr – rhwng byd y plentyn a byd yr oedolyn, rhwng ieuenctid a henaint, a rhwng byw a marw.

Gan nodi bod y 'gerdd i Fern Hill gan fwya' yn gerdd hapus iawn',[1631] dywed T. James Jones:

> wrth i'r ddrama fynd yn ei blaen [...] mae'r Dylan aeddfed nawr yn cofio'r amser hapus ac eto yn ymwybodol iawn bod amser... wel, 'na elyn yw hwnnw. Ac mae hynny'n dod mas yn y gerdd ac o'dd e siŵr o fod yn dechre teimlo pan o'dd e yng nghanol ei hapusrwydd bod 'na bethe bach tywyll yn galler digwydd, a ma' 'na rwbeth tywyll iawn yn digwydd iddo ar ddiwedd y ddrama.[1632]

Yn ddiweddarach yn y ddrama (Golygfa 11), edrydd Dylan drydydd pennill 'Fern Hill'. Dywed Dylan ei fod yn sylweddoli

> erbyn hyn wrth edrych nôl ar wylie Fern Hill y bydden i o dro i dro hyd yn oed yn ddeuddeg oed yn synhwyro bod popeth da yn siŵr o ddod i ben. Yn y gerdd sonies i am yr haul nad yw'n ifanc ond unwaith. Roedd pob chwarae yn rhwym o ddarfod. Ar ddiwedd y gerdd sonies i am ddihuno i weld y ffarm wedi ffoi am byth o'r wlad ddiblant. Mae'r hen Fern Hill a'r crwt a fu mor hapus yno yn diflannu i dywyllwch difancoll. Ro'n i, tywysog y trefi afalau, yn newid nôl i fod yn dywysog y tywyllwch. Yn Fern Hill, ro'n i'n camu o 'mhlentyndod i fyd oedolyn.[1633]

Ceir ffrae yn yr olygfa hon rhwng Ann a Jim sy'n dychryn y Dylan ifanc. Dechreua'r bachgen lefain ei fod 'moyn mynd gatre'[1634] a'i fod 'moyn gweld Mam',[1635] ond caiff ei atgoffa gan Ann ei fod 'wedi joio yn Fern Hill o'r blaen'.[1636] Ar ôl syrthio i gysgu y noson honno, caiff ei 'hyrddio i ganol hunllef'.[1637] Seiliwyd yr hunllef gan T. James Jones ar y gerdd 'Wedi'r Cynhebrwng'. Er mwyn dangos bod ei atgofion o'i blentyndod ar y fferm yn pendilio rhwng y llon a'r lleddf, cyfeiria Dylan yr adroddwr at 'Wedi'r Cynhebrwng', 'The Peaches' a 'Fern

---

[1631] *Stiwdio gyda Nia Roberts*: 'T. James Jones yn trafod ei ddrama radio newydd *Dylan yn Fern Hill*', BBC Radio Cymru, 21 Hydref 2014.
[1632] Ibid.
[1633] Jones, *Dylan yn Fern Hill*, t. 38.
[1634] Ibid., t. 33.
[1635] Ibid., t. 34.
[1636] Ibid.
[1637] Ibid., t. 35.

Hill' yn y ddrama. Fe dâl inni ddyfynnu'n helaeth o'r olygfa hon er mwyn gwerthfawrogi natur gyfeiriadol y ddrama:

> Roeddwn i yn y parlwr yn Fern Hill yn syllu ar gadno stwffedig mewn casyn gwydr ac ar redyn sych mewn pot ar y llawr ar bwys y ffenest. Yn sydyn, ro'n i'n gweld Anti Anni yn ei harch a'i gên fel dwrn, ei dwylo llonydd yn loyw fel marmor, ei chnawd fel hufen. Wedyn fy ngweld fy hunan yn y drych yn grwt diflas a dail sychion yr hydref yn arllwys mas o dwll mas o ngwddf fel dagre. Fore trannoeth a haul Gorffennaf yn wên lydan yn yr awyr glir, ro'n i unwaith eto'n grwt hapus a phleserau haf y ffarm yn peri imi anghofio annifyrrwch neithiwr a'r pwl sydyn o hiraeth am Mam. A'r hunllef o ragweld angladd Anti Anni. Ond dyna natur pob ymweliad â Fern Hill. Cael fy nhaflu o dristwch i lawenydd. O wg cwmwl i wên haul. Ymhen blynyddoedd, byddwn yn crynhoi fy atgofion cymysg am y ffarm mewn stori a cherdd. Yn y stori, annifyrrwch tywyll y lle sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig hynodrwydd fy nghefnder, Idris. Ond yn y gerdd, ar y llaw arall:
>
> > amser ar redeg drwy'r haul hir, hyfryd,
> > a'r perci gwair gyfuwch â'r tŷ, a'r alawon y codi o'r simneiau
> > i'r awyr i chwarae yn ddyfrllyd hyfryd,
> > a thân ffyrniced â phorfa.
> > A beunos dan y sêr syml
> > fel y brochgawn i'r cae nos, âi'r gwdihŵs â'r ffarm i ffwrdd.
> >
> > Ac wedyn dihuno, a'r ffarm yn dychwel fel crwydryn gwyn
> > gan wlith, a'i geiliog ar ei ysgwydd[1638]

Cyfleir yn y penillion hyn seicoleg plentyn drwy chwarae â'r syniad o barhauster gwrthrychau. I'r plentyn, y mae'r fferm fel petai'n diflannu ac yn peidio â bod pan yw'n cysgu, ac yn dychwelyd ac yn bodoli unwaith eto yn y bore pan ddihuna. Y mae'r rhannau hyn o'r gerdd yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd yn y ddrama, gan gryfhau'r syniad bod Dylan yn cael ei daflu 'o dristwch i lawenydd' ac 'o wg cwmwl i wên haul' yn ystod ei gyfnodau yn Fernhill. Diddorol hefyd yw sylwi bod T. James Jones wedi hepgor tair llinell olaf y trydydd pennill yn y darn hwn. Gellir cynnig ei fod wedi tocio'r trydydd pennill drwy ei gloi â'r llinell 'fel y brochgawn i'r cae nos, âi'r gwdihŵs â'r ffarm i ffwrdd'[1639] er mwyn sicrhau bod y gair 'brochgáu' yn atseinio yng nghof y gwrandawyr. Y mae'r gair hwn yn llinyn cyswllt pwysig rhwng y gerdd a'r ddrama. Yn sicr, nid cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith fod Wncwl Jim a'i nai deuddeg oed yn trafod y gair hwn ar ôl i'r Dylan aeddfed adrodd y trydydd pennill:

JIM

'Brochgau' – 'na ti air da. Glywes ti hwnna o'r blaen?

[1638] Ibid.
[1639] Ibid.

DYLAN

Naddo.

JIM

’Na well gair na ‘reidio’. Wti’n mynd i gael ‘brochgau’ Bes nawr. Lan â ti, ar ei chefen hi. Lan â ti. Ti ’di cael cyfle i frochgau ceffyl yn Abertawe?

DYLAN

Naddo.

JIM

Dim ond asynnod ar y traeth sy’ fan ’ny siŵr o fod.[1640]

Trafodwyd defnydd T. James Jones o’r gair ‘brochgáu’ yn ei gyfieithiad o ‘Fern Hill’ eisoes ym Mhennod 5. Gellid nodi ymhellach yma fod gennym yn y fan hon air tafodieithol sy’n gosod y gerdd ‘Fern Hill’ a’r ddrama hon mewn ardal benodol ac yn amlygu gwreiddiau Cymreig a Chymraeg Dylan Thomas – a T. James Jones ei hun – yn Sir Gâr. Gellid dadlau hefyd fod yr awgrym mai ‘reidio’ ac nid ‘brochgáu’ ceffyl yw’r hyn y byddai Dylan wedi’i wneud yn Abertawe yn arwyddocaol gan fod y gair benthyg ‘reidio’ yn ein hatgoffa’n gynnil mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd yn Abertawe ac mai yn Fernhill y byddai’r bachgen wedi clywed y Gymraeg ac ymadroddion tafodieithol megis ‘brochgáu’. Yn ogystal, y mae’r drafodaeth ynghylch ‘brochgáu’ yn ein hatgoffa bod gan y Gymraeg gyfoeth o eiriau tafodieithol y gellir eu defnyddio yn lle geiriau benthyg megis ‘reidio’. Amlygir yn y ddeialog hon un o strategaethau cyfieithu pwysicaf T. James Jones, sef ei ddefnydd o dafodiaith. Cawn wybod yn y ddrama nad oedd y Dylan ifanc yn gyfarwydd â’r gair ‘brochgáu’ cyn iddo ymweld â Fernhill. Ond caiff ei ddefnyddio gan y Dylan hŷn, fe nodwn, yn ei gerdd ‘Fern Hill’ ac, yn ddiweddarach yn y ddrama, wrth ddisgrifio diwrnod prysur o ‘frochgau’r gaseg, dringo coed y berllan afalau a choed y ddôl yn chwilio am nythod, yn bracso am bysgod yn y nant, twyllo’r perchyll fod y dyn lladd moch wedi cyrraedd wrth fynd i’w canol nhw yn y twlc a chwifio cyllell fara fel cleddyf uwch eu pennau.’[1641] Diddorol hefyd yw sylwi mai ‘Rhwng

[1640] Ibid., t. 36.
[1641] Ibid., t. 42.

marchogaeth y gaseg yn y bore, a'r prynhawn, dringo coed y berllan afalau a choed y ddôl...'[1642] yw'r frawddeg wreiddiol yn 'Un Porchell'. Ni ddefnyddir y gair 'brochgáu' yn y fersiwn hwn. Noder hefyd y defnydd o air tafodieithol arall yn y darn o *Dylan Thomas yn Fernhill* a ddyfynnwyd uchod, sef 'bracso': 'bracso am bysgod yn y nant'. Gair ydyw a ddefnyddir gan amlaf yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, a'i brif ystyron, fel y'u nodir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru*, yw 'cerdded (drwy) (ddŵr, llaid &c.), padlo, sblasio'. Ond tra arwyddocaol yng nghyd-destun drama T. James Jones yw'r ffaith y gall hefyd olygu 'ymdrechu i siarad (iaith).' Yn achos y defnydd o 'brochgáu', y mae T. James Jones, wrth ailymweld â'r ddrama ar gyfer ei darlledu, fel petai wedi gweld cyfle i ddefnyddio'r gair hwn i amlygu dylanwad Sir Gâr ar Dylan Thomas ac i bwysleisio pwysigrwydd gwarchod tafodiaith. Perthnasol yw cyfeirio yma at yr hyn a ddywed Jones am 'garco' tafodiaith yn ei lêngofiant:

> Cyn imi ymddeol o'r BBC roedd un o'm hardal enedigol wedi gafael yn yr awenau yng Nghwm Deri – Glenda Jones o bentre Capel Iwan, o fewn tair milltir i Barc Nest. Gwyddai hithau'n dda am bob gair ac ymadrodd tafodieithol Shirgarol y byddwn i'n ei gynnig i gast Cwm Deri! Bu carco'r dafodiaith yn genhadaeth gyson i mi ar hyd y deuddeng mlynedd y bûm yn golygu sgriptiau *Pobol y Cwm*. Cyfaddef imi gyfeiliorni ambell waith nes cael fy nghyhuddo, yn gwbwl haeddiannol, o fynd dros ben llestri wrth roi gormod o 'Barc Nest' yng nghegau'r actorion. Byddai ambell actor yn gyndyn o dderbyn rhai o'm cynigion.[1643]

Y mae'n werth nodi yn y fan hon fod T. James Jones wedi cyhoeddi cerdd am dafodiaith yn benodol yn y gyfrol *Nawr*, sef 'Colli Tafodiaith', er cof am Dewi Emrys. Enillodd Dewi Emrys y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1926 am ei gasgliad o gerddi 'Rhigymau'r Ffordd Fawr' ac, yn yr un Eisteddfod, daeth i'r brig yn y gystadleuaeth 'Darn o farddoniaeth mewn tafodiaith' â'r gerdd 'Pwllderi' – cerdd yn nhafodiaith Dyfed. Y gerdd hon, fe ellid dadlau, yw'r gerdd dafodieithol fwyaf adnabyddus yn y Gymraeg. Ceir cofeb i'r bardd ar lwybr yr arfordir uwchben Pwllderi yn Sir Benfro a chwpled clo'r gerdd arni: 'A thina'r meddilie sy'n dwad ichi / Pan foch chi'n ishte uwchben Pwllderi'.[1644] Yn 'Colli Tafodiaith', y mae'r llefarydd yn eistedd uwchben Pwllderi ac yn hel meddyliau ynghylch dyfodol ei dafodiaith. Fe dâl inni ddyfynnu'r gerdd hon yn ei chyfanrwydd:

Fy mhryder am 'Pwllderi' yw y daw
rhyw don mor rhonc drosti,
i'w wheddel weld ei boddi,
a'i bro'n ei hanghofio hi.

[1642] Idem, 'Un Porchell', t. 31.
[1643] T. James Jones, *Jim Parc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 101.
[1644] Dewi Emrys, 'Pwllderi', yn Thomas Parry (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1998), t. 433.

Dwe ino'n ishte wên-i, yn hala
meddilie amdani;
clŵed rhegfeydd a gweiddi
taw hyn fydd ei hisgrid hi.

Allwish 'trenshwn' a 'mwni', 'hen garan',
'Dolgâr', 'pentigili',
Y 'gesel' a'r 'rhocesi',
A'r 'hanner llŵer' i'r lli.

'Watwar adarn', 'o bwti', y 'pango',
y 'pwnge', 'stwciedi',
a'r 'sgrâd' – tina ofnadwi
'sen nhw'n mynd i'r dwnshwn du.[1645]

Pwysleisia T. James Jones yn 'Colli Tafodiaith' ei bod yn bwysig diogelu tafodieithoedd rhag difancoll a'u gwarchod rhag eu 'hallwish' i'r lli a'r 'dwnshwn du'. Wrth bentyrru rhai o'r geiriau tafodieithol a ddefnyddir gan Dewi Emrys yn 'Pwllderi', fe'n hatgoffir ganddo o'r cyfoeth sydd mewn perygl o gael ei golli. Yn sicr, cerdd sy'n haeddu ei darllen yn uchel yw 'Colli Tafodiaith'. A dyfynnu sylwadau T. James Jones am Ddyfedeg hyfryd ei gymdoges Mari Esau, dengys ym mhob englyn mai 'poetri' yw 'ymadroddion cyfoethog a rhythmau rhugl'[1646] y dafodiaith hon. Dadleua Jones yn ei ysgrif 'Fy Ngherdd Bwysicaf, a Pham' hefyd mai 'mewn tafodiaith gyhyrog y mae barddoniaeth ar ei phuraf':[1647]

> Yn nhafodiaith Dat y cefais drysorfa'r Gymraeg. Ynddi hi y cefais gyfoeth idiom a chystrawen a fathwyd dros ganrifoedd gan gynnwys y trysor unigryw a berthyn i farddoniaeth Gymraeg, sef y gynghanedd. Mewn sgwrs â Bobi Jones, dywedodd Waldo ei fod 'yn ystyried y gynghanedd yn hanfod gwrthrychol, yn gymaint felly â chynghanedd mewn cerddoriaeth, ac nid yn sgema wneuthuredig. Darganfod y rheolau a wnaeth beirdd... Yr oedd y pedair cynghanedd yn bod yn yr iaith lafaredig...' Wrth urddasoli tafodiaith fel hyn, megir hyder bardd yn nhrysorfa ei dafodiaith ei hunan, a thrwy hynny, magu hyder ei gymuned ynddi hefyd. Fe awn i gyn belled â dadlau mai mewn tafodiaith gyhyrog y mae barddoniaeth ar ei phuraf oherwydd ynddi hi y ceir ystwythder rhythmig ac uniongyrchedd ymadroddi, sef yr elfennau hynny sy'n diogelu mynegiant barddonol rhag dirywio'n farddonllyd.[1648]

Y mae'n werth nodi yma mai 'Diwrnod i'r Brenin' yw ei gerdd bwysicaf yn ôl T. James Jones. Cerdd er cof am ei dad yw hon sy'n cofnodi ei atgof o fynd 'ar bererindod' gyda'i gymar,

---

[1645] T. James Jones, *Nawr* (Cyhoeddiadau Barddas, 2008), t. 46.
[1646] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 79.
[1647] T. James Jones, 'Fy Ngherdd Bwysicaf, a Pham', *Barddas*, 285 (Tachwedd/Rhagfyr 2005 – Ionawr 2006), t. 31.
[1648] Ibid.

Manon Rhys, a'i dad, 'un diwrnod i'r brenin ychydig cyn ei farw' o Gastellnewydd Emlyn i Gwm Cuch:

> O ffarm i ffarm, agor ffordd
> â chof pedwar ugain haf
> a gaeaf.
> Enwi
> pob amlin a ffin a ffos
> o'r map ar gefen ei law.
>
> Ac er bod naws gaeaf hir
> yn goferu i afradu'r haf,
> roedd enwau'r cwmwd
> fel gerddi cymen.
> Danrhelyg a Phenrherber,
> Terfyn a Shiral a'r Cnwc,
> Cefen Hir, Penlangarreg,
> Glyneithinog a Llwynbedw –
> crefftwaith cartograffeg
> brenin ei gynefin hud.
>
> Fe oedd y map,
> a mwy...[1649]

Yn ôl T. James Jones, yr oedd ysgrifennu 'Diwrnod i'r Brenin' yn 'weithred bwysig' iddo oherwydd ei 'awydd i dalu teyrnged i'r gymuned a fagodd Dat a'i debyg' ac a drosglwyddodd 'fap diwylliannol a thafodieithol' iddo.[1650] Ond fel y dywed Jones: 'ymhlyg yn y deyrnged y mae'r ofn am ddiflaniad y gymuned honno oherwydd fe all y tyndra sydd rhwng dau lif gwrthgyferbyniol, y mewnlifiad a'r allfudiad, ddifrodi'r tirlun cynhenid.'[1651]

Fel y nodwyd, Dylan Thomas yw'r adroddwr sy'n symud y ddrama yn ei blaen yn *Dylan yn Fern Hill*. Er bod y Llais yn 'Un Porchell' yn defnyddio geiriau tafodieithol fel 'ffaelu', 'crwt' a 'dwgyd', y mae ei iaith yn llenyddol ar y cyfan – nodwedd sy'n ei osod ar wahân i gymeriadau'r ddrama. Arwyddocaol yw nodi bod yr adroddwr yn *Dylan yn Fern Hill*, ar y llaw arall, yn siarad yn bur dafodieithol. Cymharer yr arddull a'r cywair yn y darnau canlynol, er enghraifft:

> <u>'Un Porchell'</u>
>
> Arferai Dylan fod gyda'r cryts gwawdlyd. Ond erbyn hyn, ac yntau yn ei arddegau cynnar, dechreuodd gydymdeimlo â'r Crwca. Ymhen ychydig flynyddoedd bydd

[1649] Idem, *Jim Parc Nest*, t. 125.
[1650] Idem, 'Fy Ngherdd Bwysicaf a Pham', t. 32.
[1651] Ibid.

Dylan y bardd yn sgrifennu cerdd amdano, sy'n ei ddarlunio'n dychmygu creu, o'i esgyrn crwca, 'fenyw laned, sythed â llwyfen ifanc, dalsyth...' Yn y gerdd hon, cofio y mae Dylan y bardd am ei brofiadau ei hunan adeg ei arddegau cynnar; cofio'n arbennig ei rwystredigaethau rhywiol; cofio llygadu merched heb wybod sut i greu perthynas ag un ohonyn nhw; ac mae'n dychmygu fod y Crwca yn cael profiadau tebyg; dim ond yn eu dychymyg y gall ef a'r Crwca adnabod y rhyw arall.[1652]

Dylan yn Fern Hill

Erbyn hyn wy'n deall pam y penderfynais i gwpla'r bwlio. Fe ddes i i weld fy hunan yn debyg i'r Crwca yn y parc. Ro'n inne wedi dechre sylwi ar grotesi heb wybod yn iawn beth i neud â'r teimladau dieithr o'dd yn dechre corddi. Ro'n i'n gweld y Crwca druan ar ynys ei unigrwydd yn cael teimladau tebyg. Wy'n cofio'r rhwystredigaethau rhywiol. Cofio llygadu merched heb wybod sut i greu perthynas a dychmygu fod y Crwca'n cael profiadau tebyg wrth lygadu'r nyrsus o'dd yn dod i'r parc yn ystod yr awr ginio. Dim ond yn ein dychymyg y gallen i a'r Crwca adnabod menyw. Ac fe ges y syniad gwyllt bo' fe'n dychmygu creu menyw, nid fel Gwydion yn y chwedl yn creu Blodeuwedd mas o flode. Ond yn creu ei fenyw fe o'i esgyrn crwca ei hunan.

A'r hen gi cwsg
A luniai tan gloch y machludo
Fenyw laned
Sythed â llwyfen ifanc
Dalsyth o'i esgyrn crwca
Fel y safai yn y nos
Wedi'r cloi a'r cadwyno

Ar hyd nos y parc afluniaidd
Ar ôl i'r reilins a'r manlys
A'r adar a'r coed a'r llyn a'r borfa
A'r cryts di-wardd mor ddiniwed â mefus
Ddilyn y crwca
I'w gwtsh yn y gwyll.[1653]

Cyfeirir yn y darnau hyn at hanes Idris a'i lyfrau 'brwnt' yn 'The Peaches', unigedd y Crwca yn 'Y Crwca yn y Parc' a rhwystredigaethau cymeriad Dylan Thomas ei hun. O gymharu'r ddau ddyfyniad, sylwer hefyd fod T. James Jones wedi ychwanegu cyfeiriad tra diddorol at Bedwaredd Gainc y Mabinogi yn y fersiwn diweddaraf – 'nid fel Gwydion yn y chwedl yn creu Blodeuwedd mas o flode'.[1654] Fel y nodwyd eisoes, ceir cyfeiriad at y chwedl hon yn *Under Milk Wood* ei hun: 'Llareggub Hill [...] where the old wizards made themselves a wife out of flowers.'[1655] Gwelodd T. James Jones gyfle yma i Gymreigio cymeriad Dylan Thomas

[1652] Idem, 'Un Porchell', t. 6.
[1653] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 7.
[1654] Ibid.
[1655] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood* (London, 2014), tt. 59–60.

ymhellach yn y ddrama drwy awgrymu bod ei wybodaeth o'r Mabinogi yn ehangach nag a dybir.

Perthnasol hefyd yw nodi bod y Llais yn 'Un Porchell' a Dylan yr adroddwr yn *Dylan yn Fern Hill* yn cyfeirio at 'y Mabinogion' wrth ddisgrifio'r adeg pan ddechreuodd meddwl y Dylan ifanc grwydro wrth wrando ar ei gefnder yn pregethu yn yr ysgubor. Cofia'r Dylan hŷn iddo ddechrau hel meddyliau am ei gartref a'i deulu, cyn mynd rhagddo i restru'r llenorion a oedd ar y silffoedd yn stydi ei dad: 'Chaucer, Shakespeare, Hardy, Wordsworth, Keats... Homer, Plato, Eliot, Hopkins, Joyce... Y Mabinogion.'[1656] Y mae'n arwyddocaol ei fod yn cloi'r rhestr hon ag 'Y Mabinogion'. Y mae'r defnydd o'r saib dramatig yma – sy'n gwahanu'r Mabinogion oddi wrth y llenorion eraill – yn dynodi bod arwyddocâd ehangach i'r cyfeiriad hwn. Yn amlwg, y nod yw tynnu sylw'r gwrandawyr at wybodaeth Thomas o'r chwedlau. Diddorol yn y cyswllt hwn hefyd yw'r cyfeiriad at '[D]ywysog y Tywyllwch yn dod o'r môr a llwyth o wymon yn hongian wrtho' a'r cyfeiriad at 'Crwys yn adrodd Melin Trefîn ynghanol cae gwenith' yn *Dylan yn Fern Hill*.[1657] Fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 4, yr oedd Dylan Thomas yn ymwybodol o darddiad chwedlonol ei enw. Gwyddai mai'r ffynhonnell oedd yr hanes am Dylan Eil Ton, ac yr oedd yn falch o arddel ei ddehongliad amgen ei hun o'i enw fel tywysog y tywyllwch. Dengys y Dylan ifanc ei wybodaeth ynghylch tarddiad ei enw yn y chweched olygfa yn *Dylan yn Fern Hill*. Yn yr olygfa hon y mae Wncwl Jim yn sgwrsio â'i nai am hynodrwydd ei enw, ac yn amlwg, pwrpas y ddeialog yw dangos i'r Cymry Cymraeg fod gwybodaeth Dylan ei hun o'r Mabinogi yn ehangach na gwybodaeth ei deulu Cymraeg yn Sir Gâr. Cyfeiria Wncwl Jim at odrwydd enw Parc Cwmdonkin a gamyngenir ganddo fel 'Parc Cwmdonci',[1658] cyn troi at ei nai a dweud bod yr enw hwnnw

> [c]yn'rwg â d'enw dithe, myn yffach i! Ma'r plant erill yn siwr o fod yn ca'l lot o sbort glei. Dyl-an. Beth dda'th dros ben Defi John, gwed? Fel wy wedi gweud 'thot ti droeon, chlywodd neb eriod shwt enw o'r bla'n. Wy'n cofio i ti weud tha i tro dwetha o ble o'dd e'n dod.[1659]

Cawn ein hatgoffa yma o'r ffaith mai Dylan Thomas, fe dybir, oedd yr enghraifft gyntaf yn y cyfnod modern o enwi plentyn yn 'Dylan'. Ac fe gaiff Wncwl Jim ei atgoffa gan ei nai fod ei enw'n deillio o'r 'Mabinogion'. Â'r bachgen rhagddo i esbonio mai 'Tywysog y tywyllwch' oedd Dylan y Mabinogi:

[1656] Jones, *Dylan yn Fern Hill*, t. 48.
[1657] Ibid.
[1658] Ibid., t. 18.
[1659] Ibid.

DYLAN

Tywysog y tywyllwch.

JIM

Beth?

DYLAN

'Na pwy o'dd Dylan

JIM

Pwy wedodd 'na 'thot ti? Defi John eto siŵr o fod.

DYLAN

Ie

JIM

Mowredd! Ma' dy dad a tithe'n trafod rhyw bethe od, weden i. Ond 'na beth ma' ysgol yn neud i bobol, medden nhw. Ma' stwffo gormod o bethe i benne pobol yn galler bod yn ddansherus, wirionedd i. Ma' pŵer o'r rheiny wedi goffod mynd i Gaerfyrddin, cofia di 'nny.[1660]

Esbonia'r Llais yn 'Un Porchell' nad oedd Wncwl Jim

> ond yn mynegi'r hyn yr oedd pobl gyffredin Abertawe a Llangain fel ei gilydd yn ei deimlo at yr enw Dylan. Mae'n debyg nad oedd Dylan wedi ei ddefnyddio gan neb cyn hynny, y tu fas i chwedlau'r Mabinogi. Ac mae'n rhyfedd meddwl mor gyffredin yw'r enw erbyn hyn.[1661]

Hepgorwyd yr esboniad hwn o'r fersiwn diweddaraf, ond cawn wybod gan y Dylan aeddfed yn *Dylan yn Fern Hill* mai 'enw anghyffredin o fyd pell y Mabinogi oedd Dylan ac ro'n i, crwt penfelyn Cwmdonkin Drive, wedi fy nhynghedu o'r dechrau'n deg i fod yn ots na'r [sef yn wahanol i'r] cyffredin.'[1662] Noder hefyd fod y gair 'tynghedu' yn gosod Dylan Thomas ym myd y chwedlau. Dywed y Llais yn 'Un Porchell' fod yr enw 'Dylan' wedi creu 'dipyn o gynnwrf yn ystod ei ddyddiau ysgol, ac erbyn iddo gyrraedd ei arddegau roedd yn ymhyfrydu yn y ffaith ei fod yn medru arddel yr enw tywysog y tywyllwch ymhlith ei gyfoedion.'[1663] Diddorol yw sylwi bod T. James Jones wedi tymheru'r honiad bod Dylan yn 'ymhyfrydu' yng

[1660] Ibid., tt. 18–19.
[1661] Idem, 'Un Porchell', t. 15.
[1662] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 20.
[1663] Idem, 'Un Porchell', t. 15.

ngwreiddiau chwedlonol yr enw yn *Dylan yn Fern Hill*. Dywed y Dylan hŷn yn y fersiwn hwn ei fod yn 'ddigon balch o gael arddel yr enw tywysog y tywyllwch.'[1664] Adleisir yn y ddau fersiwn o'r ddrama sylwadau eraill gan T. James Jones ynghylch agwedd Dylan Thomas tuag at ei enw. Er enghraifft, wrth drafod dehongliad Dylan Thomas o'i enw fel 'tywysog y tywyllwch', awgryma Jones yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r Wenallt' fod y dehongliad hwn o bosibl 'yn deillio o brofiad y crwt ysgol yn gorfod ymateb i gwestiwn lletchwith ei gyfoedion, "What's it mean in English?" "Prince of darkness of course!"'[1665] Noda Jones hefyd yn yr ysgrif hon nad 'oes unrhyw sail, wrth gwrs, dros dderbyn y semanteg hon.'[1666]

Nodir yn y ddau fersiwn o'r ddrama fod trap Fern Hill 'yn dal dau dywysog, Hamlet, Tywysog Denmarc, a Dylan, Tywysog y Tywyllwch!'[1667] Prif destun y ddeialog rhwng Jim a Dylan yn yr olygfa hon yw syndod Jim bod ei nai yn darllen *Hamlet*. Cawn wybod yn yr olygfa fod Dylan wedi bod yn darllen *Hamlet* y tu allan i'r dafarn tra oedd ei ewythr yn gwerthu porchell am arian cwrw. Ac fel y gwelwn o'r ddeialog rhwng y ddau yn y fersiwn diweddaraf, nid yw Jim yn 'dyall' pam fod D. J. Thomas, neu 'Defi John', chwedl yntau, wedi rhoi *Hamlet* i'w fab:

> Beth ma' Defi John yn treial neud gwed? Ydi e'n meddwl bo' ti'n ots na'r cyffredin Dim ond Caerfyrddin sydd o flaen lot o'r rheina, cofia. [...]
>
> Ysbyty Caerfyrddin lle ma' pobol sy' off eu penne yn cael eu hala.[1668]

Yn yr olygfa hon, crybwyllir dylanwad D. J. Thomas ar yrfa farddol ei fab. Fel y dywed M. Wynn Thomas am y cyfeiriad at *King Lear* yn 'Do not go gentle into that good night': 'It is in part his way of confessing himself to be, as poet, the offspring of a passionate Shakespearean – his father had actually read the Bard's poetry to him in his very cradle.'[1669] Er bod Wncwl Jim yn credu bod 'Defi John' yn rhyfedd am iddo gyflwyno *Hamlet* i'w fab, awgrymir hefyd ei fod yn credu bod darllen a deall llenyddiaeth Saesneg yn dipyn o gamp. Fe dâl inni gyfeirio yn y cyswllt hwn at ymateb Jim i ymgais Ann i ddysgu cerddi Crwys i'w nai yn *Dylan yn Fern Hill*. Yn yr olygfa hon, gofynna Ann i'w nai, 'Wyt ti, Dylan, wedi dysgu rhai o gerddi Crwys?',[1670] cyn dweud wrtho, 'Gei di ddysgu adrodd "Y Border Bach" ar dy gof cyn mynd

---

[1664] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 20.
[1665] T. James Jones, 'O Milk Wood i'r Wenallt', *Barddas*, 249 (Tachwedd/Rhagfyr 1998), t. 18.
[1666] Ibid.
[1667] Jones, 'Un Porchell', t. 15.
[1668] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 17.
[1669] M. Wynn Thomas, '"There's words": Dylan Thomas, Swansea and Language' yn Helen Fulton (gol.), *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion / Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 21 (2015), t. 92.
[1670] Jones, *Dylan yn Fern Hill*, t. 29.

nôl i Abertawe. Wyt ti'n ddigon hen i ddyall hwnnw nawr.'[1671] Y mae Idris yn torri ar draws y sgwrs gan ddyfynnu cerdd arall gan Crwys, sef 'Melin Trefîn' – 'Nid yw'r felin heno'n malu yn Nhrefin ym min y môr'[1672] – gan ymffrostio yn y ffaith ei fod yn 'gwbod "Y Border Bach" a "Melin Trefin".'[1673] Awgryma Jim fod Ann ac Idris yn gwastraffu eu hamser yn ceisio dysgu cerddi Crwys i Dylan gan ei fod 'yn darllen pethe dwfnach o lawer. Hamlet a pethe.'[1674] Gwelwn fod Jim yn credu bod mwy o werth deallusol i lenyddiaeth Saesneg nag i lenyddiaeth Gymraeg.

Rhoddir cryn sylw yn y ddau fersiwn o'r ddrama i'r cysylltiad rhwng Dylan Thomas a William Williams (Crwys), Prifardd a enillodd y Goron deirgwaith ac a oedd hefyd yn Archdderwydd rhwng 1939 a 1947. Canolbwynt y ddegfed olygfa yw cyfeillgarwch Dylan a Hugh Williams, mab Crwys. Egyr yr olygfa hon yn *Dylan yn Fern Hill* wrth i Ann archwilio'r graith ar drwyn Dylan ar ôl iddo gael codwm yn nhŷ Crwys:

ANN

> Nawrte, dere i fi ga'l dy weld ti'n iawn. Wel! Ti wedi prifio! A ma' llond pen o gwrls pert 'da ti. Aros bach. Paid â symud. Ody, ma'r ddamwen 'na gest ti wedi gadel ei marc 'fyd. Ar dy drwyn di. Pan dorrest ti fe wrth gwmpo lawr stâr. Wyt ti'n dala i fynd i whare i'r tŷ 'na? Beth yw enw'r crwt 'fyd? Hugh, ife?

DYLAN

> Hugh

ANN

> Ma' fe yn 'run dosbarth â ti.

DYLAN

> Ody.

[...]

ANN

[1671] Ibid., t. 30.
[1672] Ibid.
[1673] Ibid.
[1674] Ibid.

Ti'n gweld tad Hugh pan fyddi di'n mynd i'r tŷ?

DYLAN

Odw.

ANN

'Wel! 'Na fraint wyt ti'n ga'l.[1675]

Cawn wybod gan y Llais ar ddiwedd yr olygfa hon yn 'Un Porchell' mai dyna'r 'tro cyntaf i Ann weld Dylan ar ôl iddo gael damwain yn nhŷ ei ffrind, Hugh Williams'. Â'r Llais rhagddo i ddisgrifio perthynas Dylan â'i fam, Florrie, a oedd yn 'garcus iawn o'i chrwt bach'.[1676] Noda fod 'Ann wrth ei bodd fod ei nai bach yn cael mynd i chwarae i dŷ Hugh Williams, gan mai tad hwnnw oedd neb llai nag un o feirdd enwocaf Cymru ar y pryd.'[1677] Yn yr un modd, cawn wybod gan y Dylan hŷn yn y fersiwn diweddaraf o'r ddrama fod

> Anti Anni wrth ei bodd bo' fi'n mynd i whare i dŷ Hugh Williams, mab neb llai na Crwys Williams, un o feirdd enwocaf Cymru. Roedd Anti Anni wedi ei glywed yn pregethu sawl gwaith yng nghapel Smyrna, Llangain, ac wedi prynu ei lyfrau barddoniaeth, 'Cerddi Crwys' a 'Cerddi Newydd Crwys'. Roedd hi wrth ei bodd yn dysgu plant yr Ysgol Sul i adrodd 'Melin Trefin' a'r 'Border Bach' ar gyfer cyngherdde neu gystadlu mewn eisteddfodau lleol.[1678]

Er bod y sgwrs rhwng Ann a Dylan braidd yn lletchwith, holl bwrpas y ddeialog yw dangos mor agos oedd y bardd i'r diwylliant barddol Cymraeg. Priodol yw cyfeirio yma at yr hyn a ddywedodd T. James Jones mewn cyfweliad â'r awdur presennol am gyfeillgarwch Dylan Thomas â Hugh Williams:

> mae'r ffaith ei fod e' mewn cysylltiad â mab Crwys, i fi, yn rhywbeth pwysig ofnadwy bod e'n agos at y diwylliant, a dim ond trwch blewyn... tase fe 'di cael Cymraeg, Duw a ŵyr beth fydde fe wedi cyfansoddi yn Gymraeg. O'dd e' o fewn y dim i fod yn rhugl yn y Gymraeg.[1679]

Gellir synhwyro elfen gref o rwystredigaeth yn sylwadau Jones fod Dylan Thomas mor agos ac eto mor bell oddi wrth farddoniaeth Gymraeg. Ond fel y dywed Andrew Lycett: 'being monolingual [Dylan Thomas was not] inspired by Crwys Williams's Welsh language

[1675] Ibid., tt. 24–6.
[1676] Idem, 'Un Porchell', t. 21.
[1677] Ibid.
[1678] Idem, *Dylan yn Fern Hill*, t. 27.
[1679] Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.

verse'.[1680] Dylid nodi mai Saesneg oedd iaith yr aelwyd yng nghartref Crwys, ac felly Saesneg oedd iaith Hugh Williams. Fel D. J. Thomas, ni throsglwyddodd Crwys yr iaith Gymraeg i'w fab, ond nid yw T. James Jones yn cydnabod hyn yn y ddrama. Yng ngoleuni hyn, gellir cynnig bod perygl i Jones fynd yn rhy bell wrth Gymreigio Dylan Thomas – y mae perygl iddo orliwio cysylltiad y bardd hwn â'r iaith Gymraeg.

Wrth drafod cysylltiadau Dylan Thomas â Cheinewydd, noda T. James Jones yn ei ysgrif 'Llareggub's Cyfarwydd':

> I wonder whether he would have heard of or even met some members of the renowed dynasty of poets brought up on a farm called Y Cilie which was situated only a few miles down the coast at Cwmtydu near Llangrannog.[1681]

Perthnasol yn y cyswllt hwn hefyd yw'r hyn a ddywedodd Jones mewn cyfweliad â Nia Roberts am y posibilrwydd fod Dylan Thomas wedi cwrdd â Bois y Cilie a Dewi Emrys pan oedd yn byw yng Ngheredigion:

> NIA ROBERTS: 'Dyn ni gyd wedi bod yn ymwybodol iawn o Dylan Thomas yn ystod 2014 ond rydych chi wedi byw yn nes ato yn ystod y flwyddyn yma, o bosib, yn fwy na neb arall – sut ydych chi'n pwyso a mesur y flwyddyn sydd wedi bod a Dylan Thomas i ni'r Cymry Cymraeg?
>
> T. JAMES JONES: 'Wy'n credu bod e' wedi dod yn nes atom ni fel Cymry Cymraeg yn ystod y flwyddyn oherwydd mae'r holl dystiolaethau 'ma am ei Gymreictod e ac am ei ymdeimlad e o golled hefyd o beidio â'i siarad hi [y Gymraeg] wedi dod i'r amlwg. Un peth o'n i wedi gobeitho, a chofio mor gyfarwydd â Cheredigion o'dd e – o'dd e'n mynd i Geredigion ar ei wyliau – 'wy wedi bod yn dyheu bod 'na lun ohono fe â Bois y Cilie yn rhywle, ond does dim byd wedi dod i'r amlwg. Bydde'n braf tase rhywun yn galler dod â'r llun 'na... Ma' 'na sôn bod e' wedi aros gyda Dewi Emrys yn Nhalgarreg. Wel... 'na lun fydde hwnnw, ontefe? Tasen ni'n gweld y ddou yn nhafarn Glanyrafon 'da'i gilydd... bydde hwnnw wedi bod yn llun werth ei fframo, 'wedwn i.[1682]

Fel yr awgryma Jones yn y cyfweliad â Nia Roberts, y mae'r 'holl dystiolaethau' am Gymreictod Dylan Thomas a'i ymdeimlad o golled o beidio â siarad Cymraeg wedi ei ysbrydoli i droi'r bardd Cymreig yn fardd Cymraeg yn y ddrama *Dylan yn Fern Hill*. Yn wir, gellir ystyried y ddrama hon fel penllanw prosiect sy'n rhychwantu hanner canrif a mwy.

[1680] Lycett, *Dylan Thomas: A New Life*, t. 24.
[1681] T. James Jones, 'Llareggub's Cyfarwydd', *New Welsh Review*, 54 (Autumn, 2001), t. 53.
[1682] *Stiwdio gyda Nia Roberts*: 'T. James Jones yn trafod ei ddrama radio newydd *Dylan yn Fern Hill*', BBC Radio Cymru, 21 Hydref 2014.

Cadeirio Dylan Marlais.

Ffynhonnell y llun: ‘Oedd Dylan Thomas yn cynganeddu?’, <http://www.bbc.co.uk>; cyrchwyd 9 Mawrth 2018.

PENNOD 8: Dylan Marlais Thomas

'Dydw i ddim yn ffrind i Dylan Thomas, ond eto fedra i ddim credu bod y miloedd o'i edmygwyr i *gyd* yn wirion. Mae rhai ohonyn nhw'n llenorion o fri.'[1683] Dyma eiriau'r Athro Seicoleg, Gwilym Gower, un o gymeriadau lliwgar nofel ddychanol Marcel Williams, *Diawl y Wenallt*. Ac fe welwn o sylwi ar bresenoldeb Dylan Thomas mewn barddoniaeth Gymraeg gyfoes – y cyfeiriadau uniongyrchol ac anuniongyrchol at y dyn, ei fywyd a'i waith – ei fod yn dal i ysbrydoli a thanio dychymyg 'llenorion o fri' hyd heddiw. Pan ofynnwyd i Twm Morys mewn cyfweliad a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Pair Ceridwen* pa bethau sy'n gymorth iddo wrth gyfansoddi, dadlennodd mai un o'r pethau sy'n ei ysbrydoli yw'r 'llun o Dylan Thomas wrthi'n darlithio'n daer. Ac rwy'n meddwl fy mod yn gwybod beth oedd o'n ei ddweud pan dynnwyd y llun, sef: "Love the words! Love the words!"'[1684] Y mae'n debyg mai'r ffotograff sydd ganddo dan sylw yma yw llun enwog Rollie McKenna o Dylan Thomas yn cyfarwyddo *Under Milk Wood* yn America. Dyma fardd Cymraeg yn y mesurau caeth, Twm Morys, yn nodi bod y ffotograff hwn – enghraifft enwog o eiconograffi Thomas – yn gymorth i'w farddoniaeth ac yn wir, yn rhyw fath o daniwr yr awen iddo.

Y mae'n werth cyfeirio'n fyr yma at feirdd eraill a ysbrydolwyd gan Dylan Thomas, megis Alan Llwyd, er enghraifft, a luniodd yr englyn 'Caitlin wrth Dylan':

> Rhag i wres ein hanwes ni'n hyn o lwch
> Yn Nhalacharn oeri,
> F'anwylyd, dy wely di
> Yn dwym a gedwaist imi.[1685]

Diddorol hefyd yw'r ddwy gerdd gan Karen Owen – 'The White Horse, Greenwich Village' a 'Talacharn'. Daw'r ddwy gerdd o'i chyfrol *Siarad trwy'i Het,* sef cyfrol o gerddi sy'n coffáu Iwan Llwyd, a oedd yn edmygydd mawr o Dylan Thomas. Cerdd sy'n cadarnhau delwedd simplistig o Dylan yr yfwr yw 'The White Horse, Greenwich Village':

> Un bach,
> mawr, naci bach,
> naci mawr arall, plîs:
> hon wedi'r cwbwl,
> oedd tafarn noddi gormodedd Dylan.[1686]

[1683] Marcel Williams, *Diawl y Wenallt* (Talybont, 1990), t. 103.
[1684] Gwyn Thomas (gol.), *Pair Ceridwen* (Llangefni, 1995), t. 47.
[1685] Alan Llwyd, *Sonedau i Janice a Cherddi Eraill* (Cyhoeddiadau Barddas, 1996), t. 97.
[1686] Karen Owen, *Siarad trwy'i het: Cerddi a ffotograffau* (Cyhoeddiadau Barddas, 2011), t. 120.

Llawer mwy cyfoethog yw 'Talacharn' – englyn tyn, awgrymus. Gellir ei ddarllen fel englyn coffa i Dylan Thomas, a hefyd i Iwan Llwyd:

Hongian mae cysgod angau – yn y lle,
Ac un llais yn eisiau;
Mae 'deryn mud ei eiriau'n
Rhy gaeth, am fod Brown's ar gau.[1687]

Dyma Karen Owen yn niwlogi'r ffin rhwng Dylan Thomas, y bardd 'Eingl-Gymreig' ac Iwan Llwyd, y bardd Cymraeg cyfoes, ac yn dileu'r wal rhwng y ddwy iaith a'r ddau ddiwylliant. Y mae'r llinell 'Hongian mae cysgod angau – yn y lle'[1688] yn gyfeiriad at y ddelwedd o'r hebog ar ddechrau 'Over Sir John's Hill' ('the hawk on fire hangs still'[1689]), sy'n lladd 'the small birds of the bay'.[1690] Cadarnheir hyn gan y cyfeiriad yn y drydedd llinell at y ''deryn mud ei eiriau'.[1691]

Cerdd arall y mae'n werth ei dyfynnu yn ei chyfanrwydd yn y cyswllt hwn yw 'Fern Hill' gan Hywel Griffiths:

Rhwng beddau Capel Newydd a Llan-gain
ni ddaw'r un golau drwy y coed i'r llawr
lle tagwyd pren afalau gan y drain.

Fan hyn lle'r oedd yr hen wanwynau'n gain,
ac imi unwaith gyfandiroedd mawr
rhwng beddau Capel Newydd a Llan-gain

mae'r hafau yn y nentydd sych a main
yn dwyn y Suliau syber fesul awr
lle tagwyd pren afalau gan y drain.

Lle nad oedd ofn mewn hydref yn llawn brain
a charped coch y dail fel toriad gwawr
rhwng beddau Capel Newydd a Llan-gain

mae'r gaeaf wedi dod, a dim ond llain
bach cul i barcio wrth y giât yn awr
lle tagwyd pren afalau gan y drain.

Ond sbecian wnaf, rhag imi weled sain
a chlywed golau yn rhaeadru i lawr
rhwng beddau Capel Newydd a Llan-gain

[1687] Ibid., t. 126.
[1688] Ibid.
[1689] Walford Davies a Ralph Maud (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953* (London, 1989), t. 142.
[1690] Ibid.
[1691] Owen, *Siarad trwy'i Het*, t. 126.

lle tagwyd pren afalau gan y drain.[1692]

Ffurf y filanél sydd yma – sydd, wrth gwrs, yn rhwym o'n hatgoffa o ddefnydd enwog Dylan Thomas o'r ffurf yn 'Do not go gentle into that good night'. Noder hefyd yr adleisiau a'r cyfeiriadau at 'Fern Hill' yng ngherdd Griffiths: 'pren afalau' a'r disgrifiadau synaesthetig – '[g]weled sain / a chlywed golau'. Dyma farwnad sensitif i Dylan Thomas – cerdd sy'n mynegi colled ddiwylliannol wirioneddol fawr – a hynny yn ieithwedd Thomas, ond yn yr iaith Gymraeg. Perthnasol hefyd yw nodi mai T. James Jones oedd beirniad cystadleuaeth y filanél yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 a'i fod yn cyfeirio at Dylan Thomas ar ddechrau ei feirniadaeth:

> Gan fod y mesur yn gofyn am bedwaru dwy linell dylid gofalu bod y rheiny'n llinellau trawiadol, dychmygus fel y rhai sy'n nodweddu cerdd enwog Dylan Thomas, 'Do not go gentle into that good night, / Rage, rage against the dying of the light'.[1693]

Ymddengys mai Dylan Thomas sydd wedi gosod y patrwm ar gyfer y mesur hwn, ynghyd â'r safon ar gyfer y gystadleuaeth hon i T. James Jones.

Ym mis Mai 2014, aeth T. James Jones a'i wraig, Manon Rhys, i Efrog Newydd 'i ymweld â'r mannau a enwogwyd gan Dylan yn ystod ei ymweliadau ag America ar ddiwedd trist ei yrfa' cyn iddo hwylio i'w farwolaeth, chwedl Jones, fel i'w 'ynys Gwales'.[1694] Fel y dywed Jones yn ei lêngofiant: 'dilyn ôl traed unigolyn arbennig oedd prif bwrpas ein hymweliad ag Efrog Newydd.'[1695] Ar y bererindod Ddylannaidd hon, ymwelodd ag eglwys San Luc, lle cynhaliwyd gwasanaeth coffa i Dylan Thomas cyn cludo'i gorff ar long i'w gladdu yn Nhalacharn; tafarn y White Horse, 'a'r lluniau o Dylan ar y muriau yn dal i gynnal ei "bresenoldeb"', y Chelsea Hotel, ac wrth gwrs, theatr The Poetry Center.[1696] Yng ngeiriau Jones:

> Uchafbwynt y bererindod i mi oedd cael sefyll ar y llwyfan lle perfformiwyd *Under Milk Wood* gyntaf. Mae 900 o seddau yn theatr The Poetry Center ac roedd hi'n llawn pan oleuwyd wyneb Dylan yn y distawrwydd cyn iddo yngan y geiriau hudolus 'To begin at the beginning' ar 14 Mai 1953. Ar 12 Mai 2014 cefais innau yngan 'A dechrau yn y dechrau'n deg' ar yr un llwyfan. Yn yr eiliadau hynny cywasgwyd y cof am hanner can mlynedd o 'ddylanwad'. Ni allaf ond dyfalu beth fyddai ymateb Dylan.

[1692] Hywel Griffiths, *Llif Coch Awst* (Cyhoeddiadau Barddas, 2017), t. 12.
[1693] T. James Jones yn W. Gwyn Lewis (gol.), *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2018: Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* (Llys yr Eisteddfod, 2018), t. 97.
[1694] T. James Jones, *Jim Parc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), tt. 83–4.
[1695] Ibid., t. 84.
[1696] Ibid., tt. 83–6.

> Credaf y byddai'n falch o glywed y 'ddrama i leisiau' yn yr iaith a waharddwyd iddo.[1697]

Cly Jones y bennod hon yn ei lêngofiant ag englyn coffa i Dylan Thomas:

> Yn y penodau sy'n weddill byddaf yn sôn am y profiad o ddechrau cerdded ar hyd fy lôn innau at Ynys Gwales. Wrth feddwl am hynny daeth englyn coffa i Dylan i gloi'r bennod hon yn fy hanes:
>
> Eildon yn dychwel i'r heli ar ôl
> crychu'r traeth â'i stori
> nes mynd i Wales â mi
> i eigion y Mabinogi.[1698]

Ystyrir T. James Jones bellach fel y prif awdurdod ar gyfieithu Thomas i'r Gymraeg. Yn 2015, cyhoeddwyd cyfieithiad Jones o *The Christmas Wren* Gillian Clarke, sef *Nadolig y Dryw*. Noda Clarke yn yr epilog a gyfieithwyd gan Jones iddi dderbyn comisiwn gan Ganolfan Dylan Thomas yn 2012 i gynnig ei hymateb personol i'r stori, 'A Child's Christmas in Wales'. Y mae'n arwyddocaol mai T. James Jones a ddewiswyd i gyfieithu ymateb personol bardd arall i Dylan Thomas. Tystia'r ffaith ei fod yn cael ei ddisgrifio yn y broliant fel 'Prifardd', 'Cyn-Archdderwydd Cymru' a '[ph]rif gyfieithydd gweithiau Dylan Thomas i'r Gymraeg'[1699] fod ei ymwneud â Dylan Thomas yn cael ei ystyried yn gyfraniad diwylliannol llawn mor bwysig â'i lwyddiannau barddol, eisteddfodol ei hun. Perthnasol yn y cyswllt hwn yw cyfeirio'n fyr at ymateb Manon Steffan Ros yn ei cholofn wythnosol yn *Golwg*, fis Awst 2019, i lwyddiant T. James Jones yn yr Eisteddfod Genedlaethol:

> Ro'n i'n llyncu'r dagrau'n ôl, a minnau ddim yn gwybod 'mod i'n trysori'r dyn [T. James Jones] nes iddo gael ei wisgo mewn clogyn porffor, a cherdded tuag at y llwyfan, pob cam yn gadarn, pob gwên yn ddiffuant. Do'n i ddim yn sylweddoli fod y gŵr oedd yn trydar ei gynganeddion taclus am fyd aflêr yn golygu cymaint i mi. *Do'n i heb feddwl, cyn hyn, fod 'A dechrau yn y dechrau'n deg' wedi ei serio ar fy enaid mewn ffordd na fyddai 'To begin at the beginning' byth* [Myfi biau'r italeiddio].[1700]

Y mae hefyd yn werth cyfeirio yn y fan hon at neges Lyn Ebenezer, a ddarllenwyd ar BBC Radio Cymru gan Shân Cothi, yn dilyn sgwrs rhyngddi hi, T. James Jones a'i frodyr ar achlysur ei ben-blwydd ar 9 Ebrill 2020:

> A hefyd un o dy gyfeillion di, Jim, Lyn Ebenezer, yn dweud 'Diolch am bresenoldeb bois Parc Nest. Llongyfarchiadau yn arbennig i Jim ar ei ben-blwydd a diolch am ei

---

[1697] Ibid., t. 86.
[1698] Ibid.
[1699] T. James Jones, *Nadolig y Dryw:* cyfieithiad o *The Christmas Wren*, Gillian Clarke (Nottingham, 2015).
[1700] Manon Steffan Ros, 'Cadair Jim Parc Nest', *Golwg*, 31, 48 (15 Awst 2019), t. 28.

> drysor *Dan y Wenallt*. Mentraf ddweud ei bod hi'n rhagori ar y gwreiddiol.' Wel, 'na chi eiriau mawr.[1701]

Gwelwyd nifer o ymatebion tebyg i drydariadau T. James Jones ar wefan Twitter Ddydd Dylan eleni (14 Mai 2020). Postiodd Jones ddyfyniad o'i drosiad o Weddi Fachlud y Parchedig Eli Jenkins ar y wefan ac fe rannwyd y dyfyniad gan drydarwyr gwerthfawrogol â negeseuon megis 'Gwell na'r gwreiddiol... mae'r fersiwn Gymraeg yn gyfieithiad syfrdanol' a 'Dyma beth yw dawn... yn rhagori ar y gwreiddiol... yn ei ddyrchafu yn ddios.' Yn ddiweddarach, ar 29 Mai 2020, bu T. James Jones yn sgwrsio ar BBC Radio Cymru am y 'llenor sydd wedi gadael ei farc arno fo', chwedl y cyflwynydd, Ffion Dafis, sef Dylan Thomas:

> Yn ystod yr wythnosau diwetha' 'ma mae 'na gymaint o alw wedi bod ar y cyfryngau cymdeithasol i bobl rannu a dangos lluniau, y llyfrau sy' 'di cael y dylanwad mwya' arnyn nhw ac mi wnaeth Jim Parc Nest hynny. Mi dynnodd o lun un silff gyfa' o lyfrau a'r llyfrau hynny i gyd yn lyfrau un ai gan neu am Dylan Thomas. Ac mae Jim wedi bod yn rhannu geiriau Dylan Thomas ac wedi eu priodoli nhw yn gelfydd iawn i'r gyflafan ddiweddara' 'ma [pandemig Covid-19].[1702]

Dadlennodd Jones yn y sgwrs â Ffion Dafis fod cyfrolau Walford Davies wedi bod yn ddylanwad mawr arno: 'mae e'n arbenigwr ac mae e wedi pwysleisio Cymreictod yn ei waith e. 'Wy'n gosod Walford ymhlith y mawrion'.[1703] Soniodd hefyd am ei resymau dros 'ailweithio' *Dan y Wenallt*, gan gyfeirio, er enghraifft, at y drafferth a gafodd i atgynhyrchu'r gynghanedd ar ddechrau'r ddrama: 'To begin at the beginning' ('A dechrau yn y dechrau'n deg'). Ac wrth gwrs, fe drafododd y gynghanedd yng ngwaith Dylan Thomas a'i allu i siarad Cymraeg. Byddir yn dychwelyd at y drafodaeth hon yn y man.

Ystyrier yn gyntaf y dyfyniad a ganlyn:

> 'Mwyaf garw, marw ymhell", meddai Williams Parry am Hedd Wyn. Dyma'r un geiriau, yr un mor wir am fardd arall – bardd ifanc arall – Cymro hefyd. Os oes gan enw rywbeth i wneud â'r fusnes roedd e'n Gymro go iawn hefyd – Dylan Marlais Thomas.[1704]

Rhydwen Williams biau'r geiriau hyn – bardd a llenor Cymraeg pwysig a chyfaill i Dylan Thomas a fynychodd angladd y bardd yn eglwys St Martin, 29 Tachwedd 1953. Yn yr ysgrif, 'Rhydwen Williams a Hugh Griffith', cofnoda Williams ei atgofion o fynychu'r angladd gyda'r actor, Hugh Griffith, ac Aneirin Talfan Davies. Yn wir, tra diddorol yng nghyswllt y syniad o

---

[1701] Rhaglen *Bore Cothi*, T. James Jones yn sgwrsio â Shân Cothi, BBC Radio Cymru, 9 Ebrill 2020.
[1702] *Ffion Dafis yn cyflwyno... T. James Jones*, BBC Radio Cymru, 29 Mai 2020.
[1703] Ibid.
[1704] Rhydwen Williams, '"Rhydwen Williams a Hugh Griffith yn angladd Dylan Thomas": allan o gyfrol R. Alun Evans (gol.), *Rhwng Gŵyl a Gwaith*'; ailgyhoeddwyd y darn yn *Y Faner Newydd*, 89 (2019), t. 14.

amlygu neu 'adfer' Cymreictod Dylan Thomas yw ei atgof o glywed Griffith 'yn brathu rhwng ei ddannedd bob hyn a hyn' yn yr eglwys – 'Dim gair o Gymraeg yma, dim gair o Gymraeg' – ynghyd â'i ddisgrifiad o'r tri ohonynt yn sefyll o flaen y bedd:

> Fe gerddodd pawb allan o'r eglwys i'r fynwent. Fe safodd Huw Griffith, Aneirin Talfan a minne yn syth o flaen y bedd agored.
>
> Fe safodd y teulu a'r ffrindie yn fud. Llefarodd y person y geirie 'In the midst of life we are in death'. Ac mi glywn ryw lais dwfn, Cymreigedd angerddol yn dechrau murmur o dan y geirie,
>
> 'O fryniau Caersalem ceir gweled
> Holl daith yr anialwch i gyd.'
>
> Huw Griffith oedd yno yn mynnu, yn mynnu, bod sŵn y Gymraeg yn rhan o oedfa ffarwel y Cymro arbennig hwn.
>
> Ac medde Huw ar y ffordd adre, 'Ti'n gweld, Rhyd,' medde fo, 'fasa ei Saesneg yn dda i ddim oni bai fod y Gymrâg yn ei wythiennau fo.'
>
> Fe all, wedi'r cwbwl a sgrifennwyd am Dylan Thomas bellach, mai dyna'r feirniadaeth lenyddol gyfoethocaf, gywiraf a gaed ac a geir am byth amdano.[1705]

Awgrymodd Hugh Bevan mewn adolygiad o gofiant Constantine FitzGibbon i Dylan Thomas, *The Life of Dylan Thomas*, yn 1966 fod FitzGibbon yn gyndyn o gydnabod dylanwad y diwylliant Cymraeg ar ei fywyd a'i waith:

> Gan na ddymuna'r awdur brofi [...] fod dylanwadau Cymreig yn trwytho'r cerddi, ni themtir ef i wneud y cefndir personol yn fwy Cymreig nag ydoedd mewn gwirionedd, ac felly y mae'n fodlon dweud mai tref gymysg iawn yw Abertawe; mai tref 'Eglwysig' a Saesneg ei hiaith yw Lacharn [...] ac mai man yr hoffai'r dosbarth canol ymddeol iddo, a lloches ymguddwyr rhag y rhyfel, oedd Ceinewydd pan drigai Dylan yno. Wrth gyflwyno'r tad wedyn, a nodi nid yn unig ei fod yn nai i Gwilym Marles ond hefyd iddo ewyllysio i'w fab, y rhoddasai iddo'r enw barddol Marlais, fod yn fardd yn ei dro, fe gyfynga'r awdur dipyn ar Gymreigrwydd y fagwraeth pan ychwanega fod byd David John Thomas 'mor gul â'r tŷ y trigai ynddo, ac mor llydan â'r llenyddiaeth Saesneg a garai.'[1706]

Fel y gwelwyd yn yr astudiaeth hon drwyddi, dyma'r union bethau a ysgogodd T. James Jones i drosi gwaith Dylan Thomas i'r Gymraeg ac i greu gwaith creadigol gwreiddiol sy'n mynd i'r afael â Chymreictod Thomas, megis y gerdd 'Dylan Marlais' a'r ddrama radio *Dylan yn Fern Hill*. Fel y mynnodd Hugh Griffith gydnabod Cymreictod y bardd yn ei angladd, y mae T. James Jones yn mynnu cydnabod a hoelio'r sylw ar Gymreictod Thomas yn ei drosiadau Cymraeg o'i waith ac mewn sawl ysgrif o'i eiddo. Yn sicr, fe dâl inni gyfeirio yma at ei ysgrif

[1705] Ibid., t. 15.
[1706] Hugh Bevan, 'Dylan Thomas y Dyn', *Barn*, 42 (Ebrill, 1966), t. 167.

‘Welsh Language in the Work of Dylan Thomas’, a gyhoeddwyd yn y gyfrol *A Dylan Odyssey* yn 2015. Casgliad o ysgrifau gan artistiaid a llenorion yw’r gyfrol hon ac fe drafodir ynddi fywyd a gwaith Dylan Thomas yng ngoleuni’r lleoliadau arwyddocaol a’i hysbrydolodd yn ystod ei fywyd – o’i blentyndod yng Nghymru i’w farwolaeth annhymig yn Efrog Newydd. Yn ei ysgrif ef, y mae T. James Jones yn trafod dylanwad ‘Welsh Wales’[1707] ar Thomas drwy sôn am ei gefndir teuluol, diwylliannol a chrefyddol Cymreig a Chymraeg: Gwilym Marles, teulu Fernhill, dylanwad y capel a’r traddodiad barddol Cymraeg. Dyma ysgrif Saesneg sy’n cyflwyno Cymreictod Dylan Thomas i ddarllenwyr di-Gymraeg. Fe’n tywysir gan Jones yn ei ysgrif ar wibdaith o swbwrbia Abertawe i fferm Fernhill yn Llan-gain, Sir Gaerfyrddin, ac i Geinewydd yng Ngheredigion, cyn dychwelyd i Fernhill ar y diwedd – lleoliadau sy’n ganolog i’r farddoniaeth a’r rhyddiaith a gyfieithwyd ganddo. Er bod Jones, fel FitzGibbon, yn cydnabod Seisnigrwydd yr aelwyd yn Abertawe, brysia i ddweud y byddai’r bardd wedi ei drochi yn y Gymraeg ar ei ymweliadau â fferm Fernhill:

> Here, as in the neighbouring county of Ceredigion, Welsh would have been the dominant language of the agricultural community and of the nonconformist religion such as that of Smyrna Chapel at Llangain which Annie frequented thrice on a Sunday. In those chapel services Dylan would have heard preachers conveying the Gospel message in the unique Welsh mode of what was known as *hwyl*, which was characterised by a musical intonation or cadence used in the ecstatic climax in the peroration of the sermon.[1708]

Â rhagddo yn yr ysgrif hon i nodi enghreifftiau yng ngwaith Dylan Thomas sy’n brawf o ddylanwad y pregethwyr Cymraeg ar ei arddull, megis ei stori fer ‘The Peaches’ ac ‘After the funeral’:

> In his short story ‘The Peaches’ he reproduces this [*hwyl*] in Gwilym’s sermon in his ‘chapel’ in the Fernhill barn. He hears Gwilym’s voice ‘rise and crack and sink to a whisper and break into singing and Welsh and ring triumphantly...’ [...] Traces of *hwyl* could be detected in the unique style of Dylan’s delivery of his poems. In ‘After the funeral’ he adopted the Welsh traditional role of being a praise poet. He named himself ‘Ann’s bard’ reflecting the exaggerated eulogies composed by the traditional Welsh-poet preacher.[1709]

Dywed Jones hefyd y gellir clywed dylanwad y capel yn arddull ei ryddiaith a’i ysgrifau radio. Awgryma fod Thomas wedi meithrin y grefft o gyflwyno ei waith ar lafar drwy wrando ar

[1707] T. James Jones, ‘Welsh Language in the Work of Dylan Thomas’, *A Dylan Odyssey* (Llangennech, 2015), t. 58.
[1708] Ibid., t. 55.
[1709] Ibid., t. 56.

bregethwyr yn y capel cyn cyrraedd 'the zenith of the Welsh art of storytelling'[1710] drwy ymgymryd â rôl y cyfarwydd yn Efrog Newydd pan berfformiodd ran y First Voice yn y darlleniad cyntaf o *Under Milk Wood* ar 14 Mai 1953. Fel y gwna yn ei gerdd 'Dylan Marlais', awgryma Jones yn yr ysgrif hon ei fod yn ystyried yr enw 'Marlais' yn ddolen gyswllt bwysig rhwng Thomas â'r diwylliant Cymraeg:

> Dylan was given his middle name, Marlais, in order to preserve the memory of his great uncle Gwilym Marles, a Unitarian minister of religion who led the political protests against the oppression of the landlords in nineteenth century Wales. By giving his son this middle name, his father, D. J. Thomas, seemingly wished to preserve and connect with the radical tradition engendered by Gwilym Marles, an accomplished Welsh-language poet who also established a grammar school in Llandysul.[1711]

Gan bwysleisio eto mai yn 'Welsh Wales' y treuliodd Dylan ei blentyndod, rhydd T. James Jones gryn sylw hefyd i bresenoldeb y gynghanedd yn y gerdd 'Fern Hill':

> The closing three lines of 'Fern Hill' reflect this in an artistically subtle way, since two of the final three lines are in the unique Welsh thousand-year-old art form of *cynghanedd*:
>
> Oh as I was young and easy in the mercy of his means, / Time held me green and dying / Though I sang in my chains like the sea.

Sylwer yn benodol yma ar y modd diddorol y cyflwyna Jones y gynghanedd sain i'r darllenwyr:

> In the first of these lines Dylan chose to use his favourite form of *cynghanedd* – which is called *cynghanedd sain* (his poetry contains very many such lines; my favourite being 'Through the town below lay leaved with October blood'.[1712]

Er bod modd canfod nifer o linellau o gynghanedd sain yng ngwaith Dylan Thomas, y mae honni mai'r gynghanedd hon oedd 'his favourite form of cynghanedd' yn gamarweiniol. Yn wir, gall y datganiad hwn gamarwain y darllenwyr i gredu bod Thomas yn ymwybodol ei fod yn creu llinellau o gynghanedd sain a'i fod yn dewis y gynghanedd honno yn fwriadol. Byddai nifer o feirniaid yn anghytuno â honiad o'r fath; dyna Pennar Davies, er enghraifft, a aeth mor bell â honni – yn dra haearnaidd – fel hyn: 'I don't think that any direct influence of Welsh literature can be traced in Dylan Thomas' poetry, although some have tried to trace it.'[1713] Ond dylid ychwanegu bod Pennar Davies yn mynd rhagddo'n syth yn y cyfweliad hwn i nodi: 'I do think that the very fact that Dylan had heard the Welsh language spoken and preached in the

---

[1710] Ibid., t. 58.
[1711] Ibid., t. 55.
[1712] Ibid., tt. 58–9.
[1713] Gweler y cyfweliad rhwng Colin Edwards a Pennar Davies yn David N. Thomas (gol.), *Dylan Remembered: Volume 2, 1935–1953* (Bridgend, 2004) t. 55.

old Welsh style could have given him a feel for the glory of language as such, and I think that this may have affected his whole approach to literature.'[1714]

Y mae'n werth cyfeirio yn y fan hon at gyfraniad T. James Jones i'r rhaglen 'To Rhyme and Chime for a Chair' ar BBC Radio 4 ym mis Mai 2018. O'r holl feirdd y byddai wedi gallu eu trafod ar raglen a archwiliai'r grefft o gynganeddu, dewisodd Jones roi sylw manwl i'r gynghanedd yng ngwaith Dylan Thomas a chloi'r drafodaeth drwy awgrymu ei fod yn cynganeddu'n fwriadol. Dyma drawsgrifiad o'r hyn a ddywedodd am ddefnydd Thomas o'r gynghanedd:

> 'Though I sang in my chains like the sea.' In that line he stumbled on the perfect explanation of *cynghanedd*. Because that's what the poet who proposes *cynghanedd* does. He chains himself to the rules and then is inspired [...] And the very first line of *Under Milk Wood* is cynghanedd [...] In my reading of Dylan I've found so many lines; the most notable one is from the poem on his birthday ['Poem in October'] – 'Though the town below lay leaved with October blood' [...] he has produced a perfect *cynghanedd sain* in that line. Another line of course is 'Do not go gentle into that good night'. It's a *cynghanedd draws* and I had to find my own *cynghanedd*: 'Paid â mynd i'r nos heb ofyn pam' – 'Don't go into the night without asking why'. You know, this is so obvious isn't it? 'To the burn and turn of time'. Another line is 'My world was christened in a stream of milk'. 'Where blew a flower may a flower no more' – that's a very intricate *cynghanedd sain gadwynog* – it's a sonorous line in chains. Oh, he must have known.[1715]

Pan ofynnodd yr awdur presennol i T. James Jones yn 2018 a oedd ganddo unrhyw brosiect arall yn yr arfaeth a oedd yn ymwneud â Dylan Thomas, atebodd gan ddweud nad oedd ganddo fwriad 'i drosi rhagor o waith Dylan ar hyn o bryd',[1716] ond dadlennodd mai un peth y dechreuasai ei wneud 'oedd nodi'r llinellau o gynghanedd gyflawn yn ei gerddi. Ond ofnaf i bethe eraill dorri ar draws.'[1717] Ond fel y gwelwn o'r trawsgrifiad isod o sgwrs ddiweddar rhwng T. James Jones a Ffion Dafis ar BBC Radio Cymru (29 Mai 2020), y mae Jones wedi ailgydio yn y dasg o chwilio am y gynghanedd yng ngwaith Thomas:

> FFION DAFIS: Roedd Dylan yn gonsuriwr geiriau, chithau hefyd yn yr un modd. Ond mae 'na rywbeth am rythm y ddau ohonoch chi sy'n gweddu'n berffaith i'ch gilydd.
>
> T. JAMES JONES: Wel, yn rhyfedd iawn. Mae ganddo fe linellau. Yn ystod y cyfnod ofnadwy 'ma 'wy wedi ailddarllen ei gyfrol *Collected Poems* ac es i ati i gyfri sawl llinell o gynghanedd a 'wy wedi darganfod ryw 75 ohonyn nhw i gyd yn y gyfrol 'na. A 'wy o'r farn ei fod e'n gyfarwydd â rheolau'r gynghanedd. Roedd ei dad, wrth gwrs, yn arbenigwr ar lenyddiaeth Gymraeg ac oedd e'n siŵr o fod wedi ei gyflwyno e i'r

[1714] Ibid.
[1715] *To Rhyme and Chime for a Chair*, BBC Radio 4, 12 Mai 2018.
[1716] E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 28 Chwefror 2018.
[1717] Ibid.

> gynghanedd. Ac yn ddiddorol iawn, y llinell ola' yn 'Fern Hill', mae'n llinell o gynghanedd, ac mae hi hefyd yn diffinio'r gynghanedd: 'Though I sang in my chains like the sea.' A chanu mewn cadwyni mae'r bardd cynganeddol. Mae 'na reola i'w cadw. Y canu caeth yw hi. Ac eto wrth gwrs wedi meistroli'r canu caeth mae dyn yn teimlo bod 'na ryddid wedyn i ddweud rhai pethe yn gynganeddol, gyda miwsig.
>
> FFION DAFIS: A dach chi yn grediniol ei fod o wedi bod yn ymwybodol iawn o'r gynghanedd ac efallai hyd yn oed wedi siarad Cymraeg. Dw i'n gwybod bod 'na fyth o gwmpas y dyn a chymaint o siarad ond mae'n rhaid bod y Gymraeg yn yr ymennydd yn rhywle, doedd?
>
> T. JAMES JONES: Wel, oedd. Achos roedd e'n mynd i lawr ar ei wylie hir, gwylie haf i Fernhill, ac wrth gwrs dim ond Cymraeg oedd e'n glywed yn y fan hynny. Ac oedd e'n mynd i'r capel – Smyrna yn Llan-gain – ac oedd e'n mynd i'r mart gyda'i wncwl. Doedd e ddim yn clywed fawr Saesneg, oedd rhaid iddo fe siarad Cymraeg 'wy'n siŵr. [...] mae'n rhaid bod e'n galler ei siarad hi. 'Wy'n siŵr o hynny.[1718]

Priodol yma yw galw sylw at ddarn o dystiolaeth bwysig gan ferch Dylan Thomas, Aeronwy, mewn llyfr a gyhoeddodd yn 2009 dan y teitl, *My Father's Places*. Yn ôl ei thystiolaeth hi, nid oedd Dylan yn medru siarad Cymraeg, ond – ac y mae hyn yn dystiolaeth dra arwyddocaol – yr oedd yn amlwg yn deall yr iaith pan y'i siaredid gan eraill, yn cynnwys ei fam. Tua diwedd *My Father's Places*, disgrifia Aeronwy Thomas sgwrs yn Gymraeg rhwng ei mam-gu, Florence Thomas (mam Dylan), a chyfeilles iddi, Miss Davies. I ganol y sgwrs, daw Dylan ei hun:

> Soon after, my father arrived, banging the front door knocker. My father did not speak Welsh and Granny said in English, 'hallo, dear'. He pecked her cheek, looking apologetic, perhaps because he had been drinking in the Cross House... Granny brought out two tumblers, pouring whisky from the bottle, and saying to Miss Davies, 'just a nip – keeps the cold out.'
>
> When Granny then returned to Welsh, my Dad seemed to follow the conversation, saying in English, 'that's very nice,' to Miss Davies, who continued[,] pleased[,] in her first language. 'Oh really,' said Dad, 'I wasn't aware of that. Give him my best regards.' I have no idea what my father was referring to. He always seemed to follow the conversation when his relatives or Granny's friends visited but never spoke in Welsh.[1719]

Noda T. James Jones yn ei ysgrif 'Various Versions' ei fod yn cael ei dynnu yn ôl o hyd at un cwestiwn arbennig, sef a fyddai'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl wedi ychwanegu dimensiwn pellach i waith Dylan Thomas:

> had Dylan Thomas been given the ability to speak Welsh, would it have added another significant dimension to his work, as it has done to the works of the likes of R. S. Thomas and Emyr Humphries [sic]?

[1718] *Ffion Dafis yn cyflwyno... T. James Jones*, BBC Radio Cymru, 29 Mai 2020.
[1719] Aeronwy Thomas, *My Father's Places: A Memoir by Dylan Thomas' Daughter* (London, 2010), tt. 186–7.

> Part of the fascination of the centenary celebrations is that there are so many unanswered questions still to be asked concerning Dylan's work. Although my question will inevitably have to remain unanswered, I cannot avoid asking it time and time again. It has as haunting an attraction as Dylan's final couplet of 'Should lanterns shine:
>
> The ball I threw while playing in the park
> Has not yet reached the ground.[1720]

Er iddo ddweud wrth yr awdur presennol nad oes ganddo gynlluniau i drosi rhagor o waith Dylan Thomas, y mae'r ffaith ei fod yn dyfynnu cwpled clo 'Should lanterns shine' – cwpled sy'n cyfleu annherfynoldeb ac sy'n cael ei adleisio ganddo yn ei gerdd 'Dyfed a Siomwyd?'[1721] – yn awgrymu bod ei 'ymgyrch' i amlygu ac i brofi Cymreictod Dylan Thomas yn un barhaus. Er bod Jones yn nodi yn ei ysgrif 'O *Milk Wood* i'r Wenallt' ei fod yn derbyn nad oes 'unrhyw dystiolaeth dros gredu i Dylan Thomas ymdrwytho yn rheolau'r gynghanedd er y gwyddai am y gynghanedd',[1722] y mae'r ffaith ei fod wedi dechrau nodi llinellau o gynghanedd gyflawn yng ngherddi Thomas yn dangos ei fod yn dyheu am dystiolaeth bellach ac am ateb mwy pendant i'r cwestiwn a ofynnwyd gan Mererid Hopwood – 'Oedd Dylan Thomas yn cynganeddu?'[1723] – ateb sydd hefyd yn cadarnhau bod y traddodiad barddol Cymraeg wedi dylanwadu ar ei farddoniaeth.

Yn ei ysgrif 'Llareggub's Cyfarwydd', y mae T. James Jones yn awgrymu ei bod yn ddigon posibl fod Thomas wedi dod ar draws y gynghanedd drwy Fois y Cilie yng Ngheinewydd a'r cyffiniau:

> By 1944 Dafydd Isfoel, Seimon Bartholomew and Alun Jeremiah had established themselves as master craftsmen in the unique metres of 'Cynghanedd'. Dylan's frequenting of the pubs in New Quay and of the outlying districts would probably have brought him into contact with people who knew their work and who would have been eager to discuss their poems. If he ever visited the Pentre Arms in Llangrannog he would probably have been served by Tom, a brother of the Cilie poets. And for years, poetry sessions and informal tutorials for aspiring poets in 'Cynghanedd' were frequently held at the Pentre Arms.[1724]

Noda Jones ymhellach yn yr ysgrif hon fod beirdd y Cilie wedi arbrofi â'r gynghanedd yn Saesneg, a chyfeiria at John Tydu, er enghraifft, a ddisgrifir ganddo fel 'a notorious maverick

---

[1720] T. James Jones, 'Various Versions' yn Hannah Ellis (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), tt. 236–7.
[1721] Idem, *Eiliadau o Berthyn* (Cyhoeddiadau Barddas, 1991), tt. 31–2.
[1722] Idem, 'O *Milk Wood* i'r Wenallt', *Barddas*, 249, (Tachwedd/Rhagfyr 1998), t. 17.
[1723] Mererid Hopwood, 'Oedd Dylan Thomas yn cynganeddu?', <http://www.bbc.co.uk>; cyrchwyd 9 Mawrth 2018. Ymhellach ar farn Mererid Hopwood yn y cyswllt hwn, gweler isod.
[1724] T. James Jones, 'Llareggub's Cyfarwydd', *New Welsh Review*, 54 (Autumn, 2001), t. 53.

who emigrated to Canada.'[1725] Fel y dywed Jones, cyfansoddodd John Tydu ddau englyn mawl i Gwmtydu yn Saesneg. Dywed hefyd ei fod yn gweld tebygrwydd rhwng marwolaeth annhymig ac unig John Tydu yng Nghanada yn 1947 a marwolaeth Dylan Thomas yn Efrog Newydd yn 1953. Yn ôl T. James Jones: 'If they had met they would have undoubtedly realized the very similarities in their prodigal way of living.'[1726] Dengys y sylwadau hyn ei fod yn awyddus i ganfod cysylltiad cadarn rhwng Dylan Thomas a'r diwylliant llenyddol Cymraeg.

Fel y nodwyd ym Mhennod 7, dywedodd Jones wrth Nia Roberts mewn sgwrs ar Radio Cymru ei fod yn 'dyheu'[1727] am gael gweld llun o Dylan Thomas gyda Bois y Cilie. Soniodd hefyd yn y cyfweliad hwn, fe gofir, am lun arall gwerth ei fframio, sef llun o Dylan Thomas gyda Dewi Emrys. Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, gellir cynnig mai'r hyn y mae Jones yn dyheu amdano yw prawf ffotograffig o Gymreictod llenyddol, barddol Dylan Thomas. Y mae un llun o Dylan Thomas yn bodoli sy'n fwy arwyddocaol a phwerus nag unrhyw lun ohono yng nghwmni Bois y Cilie neu Dewi Emrys, sef ffotograff ffug ohono'n cael ei gadeirio yn yr Eisteddfod Genedlaethol (atgynhyrchwyd y llun ar ddechrau'r bennod hon). Y bardd sy'n cael ei gadeirio yn y ffotograff gwreiddiol yw T. Llew Jones, a hynny yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy 1958, pan ddaeth i'r brig â'i awdl 'Caerllion-ar-Wysg' – flwyddyn ar ôl i T. James Jones ennill y Goron yn Eisteddfod Merthyr Tudful â'i gerdd goffa Saesneg i Dylan, 'Dust to Dust'. Golygwyd y ffotograff gwreiddiol hwn gan ddefnyddio'r rhaglen *Photoshop* i ddangos Dylan Thomas yn cael ei gadeirio. Ond yn nhwyll *Photoshop*, y mae gwirionedd diwylliannol mawr.

Cyhoeddwyd y ffotograff hwn o Dylan y Prifardd ar y cyd ag erthygl gan Mererid Hopwood, 'Oedd Dylan Thomas yn cynganeddu?', ar wefan *BBC iWonder*. Dengys Hopwood yn yr erthygl hon 'fod rhai o'i linellau'n awgrymu dylanwad cynghanedd, traddodiad sy'n perthyn i'r Gymraeg.'[1728] Cyfeiria yn benodol at linellau o gynghanedd sain megis 'To the burn and turn of time'[1729] ('Vision and Prayer'), 'When the morning was walking over the war'[1730] ('Among Those Killed in the Dawn Raid Was a Man Aged a Hundred'), ynghyd â llinell o

[1725] Ibid.
[1726] Ibid.
[1727] *Stiwdio gyda Nia Roberts*: 'T. James Jones yn trafod ei ddrama radio newydd *Dylan yn Fern Hill*', BBC Radio Cymru, 21 Hydref 2014.
[1728] Mererid Hopwood, 'Oedd Dylan Thomas yn cynganeddu?', <http://www.bbc.co.uk>; cyrchwyd 9 Mawrth 2018.
[1729] Ibid.
[1730] Ibid.

gynghanedd draws – 'Though I sang in my chains like the sea'[1731] ('Fern Hill') – gan nodi 'nad ar chwarae bach y llunnir llinellau llwyddiannus yn Saesneg' oherwydd bod 'diffyg aceniad yr iaith yn un broblem [...] a diffyg treiglo yn ei gwneud hi, fwy neu lai, yn amhosib i greu llinellau sy'n gwneud sens.'[1732] Er mwyn galluogi'r darllenydd i ddod i'w gasgliad ei hun ynghylch y posibilrwydd fod Dylan Thomas yn medru cynganeddu, cyflwynir ffeithiau yn yr erthygl am ei gefndir diwylliannol a theuluol, ei ddealltwriaeth o'r Gymraeg a'i arddull farddol. Gofynnir ar ddiwedd yr erthygl, 'Ar sail y wybodaeth yma, ydych chi'n credu fod Dylan Thomas wedi ceisio mynd ati i gynganeddu neu ai cyd-ddigwyddiad yw'r enghreifftiau yn ei waith?', ac fe gynigir tri ateb gwahanol:

> Do. Roedd wedi darllen a dysgu am gynghanedd
>
> Naddo. Roedd yn dilyn dulliau barddoni Saesneg nid rhai Cymraeg
>
> Heb yn wybod iddo. Roedd Dylan yn gwybod am rythmau'r Gymraeg a'i thraddodiadau – ond dylanwad heb iddo wybod oedd hi.[1733]

Nodir yn yr erthygl fod Twm Morys yn credu bod Dylan Thomas yn cynganeddu'n fwriadol: 'Mae cynganeddu Dylan yn dilyn y rheolau, ac mae hynny yn gwneud imi amau bod llyfr am y canu caeth yn llyfrgell D. J. Thomas yn Cwmdonkin Drive.'[1734] Dyfynnir hefyd o lythyr Dylan Thomas at y bardd Stephen Spender lle y dadleua na chafodd y traddodiad barddol Cymraeg ddylanwad arno: 'I'm not influenced by Welsh bardic poetry. I can't read Welsh.'[1735] Ac yn olaf, cyfeirir at sylwadau Pennar Davies: 'Dywedodd Pennar Davies fod y ffaith fod Dylan wedi clywed y Gymraeg yn cael ei siarad a'i phregethu wedi rhoi teimlad arbennig iddo tuag iaith.'[1736]

'Dychmygwch yr olygfa: llun ffug o Dylan Thomas fel pe bai wedi ennill cadair mewn Eisteddfod Genedlaethol'[1737] – dyna yw'r capsiwn dan y ffotograff o Thomas yn cael ei gadeirio ar wefan *BBC iWonder*. Fe'n gwahoddir gan Mererid Hopwood ar ddechrau'r erthygl i ddychmygu'r digwyddiad hwn:

> Dychmygwch. Mae hi'n 1950 ac mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn Ystradgynlais, Cwm Tawe. Mae'r cyrn gwlad yn seinio, mae'r goleuadau yn

[1731] Ibid.
[1732] Ibid.
[1733] Ibid.
[1734] Ibid.
[1735] Ibid.
[1736] Ibid.
[1737] Ibid.

> chwilio ac mae dyn lleol yn codi ar ei draed. Dylan Marlais Thomas, un o feirdd enwoca'r cyfnod, yw enillydd y Gadair eleni.[1738]

Yn ysbryd y darn hwn, tybed a ellir bwrw amcan ynghylch beth a fuasai ffugenw Dylan?: Marles, efallai? Â Mererid Hopwood rhagddi yn yr erthygl i egluro na chafodd y bardd hwn ei gadeirio:

> Wnaeth hyn ddim digwydd. Wnaeth un o feirdd mawr Cymru, gyda'i enw o'r Mabinogi, a'i deulu Cymraeg, erioed ennill un o brif wobrau ei wlad am farddoni.
>
> Pam? Wel doedd Dylan Thomas yn siarad prin ddim Cymraeg wrth gwrs.[1739]

Er hyn, y mae cadeirio Dylan Thomas yn ddelwedd bwerus a phryfoclyd sy'n agored i sawl dehongliad.

Difyr yng ngoleuni'r ffotograff yw ystyried sylwadau hallt cymeriad Dylan Thomas, y dihiryn gwrth-Gymreig, yn nofel Marcel Williams, *Diawl yr Wenallt*, ynghylch yr Eisteddfod:

> 'Great institution, the eisteddfod; tailor-made for all you Welsh-speaking troglodytes. Stokes and strokes the ego of out-of-tune tenors and damp contraltos, and puts crowns on the heads of literary cretins. You couldn't lend me a couple of shillings, could you?'
>
> Roedd e'n hollol ddigywilydd, ond wrth iddo ofyn am arian, fe wyddwn y cawn y gorau arno. Fe dynnais bapur punt allan o'm poced a'i ddal i fyny. 'I'll give you this,' meddwn i, 'if you can tell me anything about Gwenallt.'
>
> 'Who?' gofynnodd a'i lygaid ar y papur punt. 'Gwenallt', meddwn i eto. 'Is that the name of a dog?' meddai yn 'i dwptra. Bron nad estynnais fonclust iddo ond fe goncres y teimlad a rhoi'r arian yn ôl yn fy mhoced, a'i lygaid yn dilyn y papur punt bob modfedd o'r ffordd. 'Gwenallt is one of the most brilliant Welsh-language poets,' meddwn i, 'and born just a few miles from here. Duw Mawr, how dull can you get?' Cododd o'i gadair. 'Bugger you all,' meddai. Cymerodd ddarn o bapur o'i boced, ac ystumio sychu ei ben-ôl. 'That's what I think of your ... what was his name now? Gwenlat? That's what I think of your Gwenlat and all his breed.'[1740]

Fel y gwelwn o'r dyfyniad hwn, nid oes gan Dylan Thomas y nofel arlliw o ddiddordeb yn yr Eisteddfod na barddoniaeth Gymraeg. Portread cartwnaidd, grotésg o Dylan Thomas a geir yma, wrth gwrs – fersiwn chwyddedig, gwyrdroëdig a hunllefus o'r ddelwedd ohono fel gelyn y Gymraeg – ond delwedd ohono sy'n dal i fodoli yn nychymyg nifer o Gymry Cymraeg hyd heddiw. I lawer o Gymry Cymraeg, gellir dadlau mai gwrthuni llwyr fyddai ffotograff sy'n dangos cadeirio Diawl y Wenallt. Byddai ffotograff o'r bardd Eingl-Gymreig hwn – bardd a

---

[1738] Ibid.
[1739] Ibid.
[1740] Williams, *Diawl y Wenallt*, t. 38.

ystyrir gan lawer fel bwgan gwrth-Gymreig – yn cael ei anrhydeddu mewn gŵyl a gynhelir yn unswydd i ddathlu'r Gymraeg a Chymreictod yn cael ei ystyried gan lawer yn ddiwylliannol annerbyniol.

Tybed beth y gellir – o fabwysiadu agwedd greadigol yn achos y ffotograff tra chreadigol hwn – ei 'ddarllen i mewn' i'r llun o Dylan Thomas yn ennill y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol? Edrycher ar ei osgo. Gellir dadlau bod ymddangosiad gwylaidd y bardd yn y ffotograff yn antidot llwyr i'r agwedd a gyfleir ganddo yn y datganiad drwgenwog 'Land of my fathers, my fathers can keep it!'.[1741] Ac er gwaethaf ei ymgydnabyddiaeth â'r traddodiad barddol Cymraeg, oni ellir ymdeimlo yma ag elfen o letchwithdod, embaras hyd yn oed – os nad euogrwydd yn wir – yn sgil ei sylweddoliad ynghylch cymaint 'a gollwyd dan yr eira'? Fe dâl inni gyfeirio yn y fan hon at atgof Rhydwen Williams ohono'n trafod barddoniaeth R. Williams Parry â Dylan Thomas:

> 'Tell me more about this man,' meddai. Roeddwn wedi sôn am Williams Parry ac wedi adrodd ambell ddarn o'i waith. 'O stop,' medde fe, 'that's enough. I'm beginning to feel jealous already.'[1742]

Perthnasol hefyd yw ymateb Pennar Davies i'r cwestiwn 'Did Dylan ever express regret that he had been cut of from Welsh culture by not being able to speak Welsh?':

> I never heard him say anything like that, but I have heard Aneirin Talfan Davies say that he'd expressed himself very strongly to him in those terms, and spoke very censoriously of his parents for not having brought him up to speak Welsh.[1743]

Diau mai prif ergyd y ffotograff o Dylan Thomas yn cael ei gadeirio yw cyfleu'r hyn y byddai Thomas wedi gallu ei gyflawni petai'n medru siarad Cymraeg a barddoni yn yr iaith. Oni ellir maentumio bod holl brosiect T. James Jones yn dangos yr hyn y gallasai Thomas fod? I'r awdur presennol, y mae'r ffotograff hwn yn gyflawniad gweledol trawiadol o'r hyn y llwyddodd T. James Jones i'w wneud yn llenyddol ers y 1950au. Yn ei ysgrif 'Llareggub's Cyfarwydd', er enghraifft, rhestra Jones yr holl elfennau Cymreig a Chymraeg a ddylanwadodd ar fywyd a gwaith Dylan Thomas, cyn diolch i'r bardd hwn, gan gyfeirio ato fel 'Dylan Marlais' – yr enw a'i symbylodd i ysgrifennu'r gerdd 'Mab ei Dad' ac a sbardunodd sawl deialog yn y

[1741] Dyfynnir yn Kate Crockett, *Mwy na Bardd: bywyd a gwaith Dylan Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014), t. 12.
[1742] Williams, 'Rhydwen Williams a Hugh Griffith', t. 14.
[1743] Thomas (gol.), *Dylan Remembered: Volume Two, 1935–1953*, t. 55.

ddrama *Dylan yn Fern Hill* – am roi'r cyfle iddo sicrhau bod Cymreictod Thomas yn rhan o ymgyrch yr iaith ac yn rhan o'r dreftadaeth ddiwylliannol Gymraeg, ac nid Cymreig yn unig:

> The mythical Dylan, the 'Prince of Darkness', the *Mabinogion*, Auntie Ann of Fern Hill, the 'Wales that sadly never was', Cei Newydd, 'Cynghanedd', the craft of the 'Cyfarwydd'... these provided the elements, which whether Dylan was conscious of them or not, whether he liked it or not, seeped through his skin of Englishness.
>
> I am indebted to Dylan Marlais, because he gave me the opportunity to try and ensure that his Welshness, albeit osmotic, became a part of the Welsh language renaissance, and hopefully, a part of our Welsh language cultural heritage.[1744]

Y mae'r ffotograff o'r Prifardd Dylan Thomas yn symbol pwerus o adferiad a chyflawniad diwylliannol, a hynny, yn eironig, yn ei amhosibilrwydd rhonc: Dylan Marlais Thomas – y bardd caeth, Cymraeg. I'r awdur presennol, y mae'r ffotograff hwn yn ddistylliad grymus o brosiect adferol diwylliannol bwysig dros gyfnod o chwe deg mlynedd a mwy. Daw i'r golwg yn llachar, drwy gyfrwng y ddelwedd hon ac *oeuvre* rhyfeddol T. James Jones, yr union beth 'a gollwyd dan yr eira'.

[1744] Jones, 'Llareggub's Cyfarwydd', t. 59.

LLYFRYDDIAETH GRAIDD

T. JAMES JONES

(i) Gwaith Cyhoeddedig

JONES, T. James, *Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Yr Wyddgrug 1958: Cerdd y Gadair* (Aberystwyth, 1958).

----------, 'Dust to Dust', yn FIRMAGE, George F. a WILLIAMS, Oscar (goln), *A Garland for Dylan Thomas* (New York, argraffiad 1963), t. 65.

----------, 'Dust to Dust', yn FIRMAGE, George F. a WILLIAMS, Oscar (goln), *A Garland for Dylan Thomas* (London, argraffiad 1966), t. 65.

----------, *Hollti Blew: Cyfaddasiad o A Resounding Tinkle N. F. Simpson* (Abertawe, 1966).

----------, *Dan y Wenallt, Taliesin*, 14 (Gorffennaf 1967), tt. 6–29.

----------, 'Cymreigio Llaregyb', *Llwyfan* (1968), tt. 23–4.

----------, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 1968).

----------, 'Dewin y Daran', *Llwyfan*, 11 (Gaeaf 1974), tt. 19–20.

----------, *Adnodau a Cherddi Eraill* (Llandysul, 1975).

----------, a DRESSEL, Jon, *Cerddi Ianws Poems* (Llandysul, 1979).

----------, *Dramâu'r Dewin* (Llanrwst, 1982).

----------, *Pan Rwyga'r Llen* (Llanrwst, 1985).

----------, *Nadolig fel Hynny* (Llanrwst, 1988).

----------, *Eiliadau o Berthyn* (Cyhoeddiadau Barddas, 1991).

----------, *Herod* (Llanrwst, 1991).

----------, a RHYS, Manon, *Pwy Bia'r Gân?* (Llanrwst, 1991).

----------, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 1992).

----------, 'T. James Jones: albwm Prifardd', *Barddas*, 214 (Chwefror 1995), tt. 12–16.

----------, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 1996).

----------, ‘Y Rhyl (i Manon’), *Taliesin*, 94 (Haf 1996), tt. 65–8.

----------, ‘Stori Nest’, *Barn*, 407/408 (Rhagfyr 1996/Ionawr 1997), t. 98.

----------, ‘Beirdd Cymru ac America: T. James Jones yn yr Unol Daleithiau’, *Barddas*, 241 (Mehefin/Gorffennaf 1997), tt. 45–7.

----------, *O Barc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 1997).

----------, *Wyneb yn Wyneb / Face to Face* (Llandysul, 1997).

----------, ‘O *Milk Wood* i’r Wenallt’, *Barddas*, 249 (Tachwedd/Rhagfyr 1998), tt. 12–22.

----------, a DRESSEL, Jon, *Rhubanau Dur / Ribbons of Steel* (Llandysul, 2000).

----------, ‘Cusanau Eironig’, *Taliesin*, 112 (Haf 2001), tt. 125–38.

----------, ‘Llareggub’s Cyfarwydd’, *New Welsh Review*, 54 (Autumn, 2001), tt. 52–9.

----------, *Diwrnod i’r Brenin* (Cyhoeddiadau Barddas, 2002).

----------, ‘Adfer Cymreictod Llaregyb’, yn rhaglen Theatr Gwynedd, *Dan y Wenallt*, (2003), tt. 5–9.

----------, ‘Dylan Marlais Thomas (1914–1953); cyfieithiadau o “Quite early one morning”, “A visit to Grandpa’s” a “Return Journey”’, *Taliesin*, 120 (2003), tt. 111–29.

----------, *Menyw a Duw yn Dial* (Llanrwst, 2004).

----------, ‘Fy Ngherdd Bwysicaf, a Pham’, *Barddas*, 285 (Tachwedd/Rhagfyr 2005 – Ionawr 2006), tt. 30–3.

----------, *Nawr* (Cyhoeddiadau Barddas, 2008).

----------, ‘Llyfrgell’, *Taliesin*, 145 (Gwanwyn 2012), tt. 148–50.

----------, *Cymanfa* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014).

----------, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014).

----------, *Jim Parc Nest* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014).

----------, ‘Various Versions’ yn ELLIS, Hannah (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), tt. 228–37.

----------, *Nadolig y Dryw*: cyfieithiad T. James Jones o *The Christmas Wren*, Gillian Clarke (Nottingham, 2015).

----------, ‘Yr Amod’, *Barddas*, 333 (Gwanwyn 2017), t. 6.

----------, ‘Welsh Language in the Work of Dylan Thomas’, *A Dylan Odyssey* (Llangennech, 2015), tt. 55–9.

----------, ‘Tro Ar Fyd’, *Barddas*, 336 (Gaeaf 2018), t. 6.

(ii) Gwaith Anghyhoeddedig

JONES, T. James, ‘Ffoadur’ (1961), teipysgrif anghyhoeddedig yng nghasgliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

----------, ‘Y Cwmwl’ (1962), teipysgrif anghyhoeddedig yng nghasgliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

----------, ‘Pridd’ (1975), teipysgrif anghyhoeddedig yng nghasgliad yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

----------, ‘Un Porchell’, teipysgrif anghyhoeddedig a gafwyd gan yr awdur, 22 Mai 2017. Ar wahân i rai gwahaniaethau, yr un, yn ei hanfod, yw’r testun hwn â *Dylan yn Fern Hill*.

----------, *Dylan yn Fern Hill*, drama a ddarlledwyd ar Radio Cymru, 26 Hydref 2014. Dyfynnir yma o drawsgrifiad ohoni a wnaed gan yr awdur presennol.

Cyfieithiad Cymraeg anghyhoeddedig o ‘Do not go gentle into that good night’, ‘Paid â mynd i’r nos heb ofyn pam’, a gafwyd gan Jon Dressel, 9 Mehefin 2016.

Sgript anghyhoeddedig ‘Dan Gesail Bryn Llaethog’ a gafwyd gan Eigra Lewis Roberts, 10 Hydref 2019.

LLYFRYDDIAETH FEIRNIADOL

AARON, Jane, ‘“Heddwas ifanc iawn yn ffrwydro”: Cerddi Cynnar Dylan Thomas’, *Taliesin*, 120 (Gaeaf 2003), tt. 97–110.

----------, a WILLIAMS, Chris (goln), *Postcolonial Wales* (Cardiff, 2005).

ACKERMAN, John, *A Dylan Thomas Companion: Life, Poetry and Prose* (London, 1994).

----------, *Dylan Thomas: His Life and Work* (London, 1996).

----------, *Welsh Dylan* (Bridgend, 1998).

ANTUR, Gruffudd, a DAFYDD, Guto (goln), *Deugain Barddas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016).

BAINES, Menna, ‘Canu’r Mab-A’th-O-Gatre: Holi T. James Jones’, *Barn*, 347 (Rhagfyr 1991), tt. 5–8.

BAKER, Mona a MALMKJÆR, Kirsten (goln), *The Routledge Encyclopedia of Translation Studies* (London, 2001).

BALA, Iwan, *Darllen Delweddau: Beirdd ac Artistiaid* (Llanrwst, 2000).

BASSETT, T. M. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Bro Dwyfor 1975* (Llandysul, 1975).

BASSNETT, Susan, *Translation Studies* (London & New York, 1988).

----------, ‘Translating for the Theatre – The Case Against Performability’, *TTR: Traduction, Terminologie, Rédaction*, 4, 1 (1991), tt. 99–111.

BASSNETT, Susan a TRIVEDI, Harish (goln), *Postcolonial Translation* (London, 1999).

BENJAMIN, Jackie, ‘Misrule in Milk Wood: A Bakhtinian Reading of Dylan Thomas’s “Play for Voices”’, *Welsh Writing in English*, 9 (2004), tt. 50–79.

BEVAN, Hugh, ‘Dylan Thomas y Dyn’ yn *Barn*, 42 (Ebrill, 1966), t. 167.

BOHATA, Kirsti, *Postcolonialism Revisited* (Cardiff, 2004).

BOWEN, Euros, *Cerddi* (Lerpwl, 1957).

BRISSET, Annie, ‘The Search for a Native Language: Translation and Cultural Identity’ yn VENUTI, Lawrence (gol.), *The Translation Studies Reader* (London, 2012), tt. 281–311.

CLANCY, Joseph, *In Other Words* (Llandybïe, 1999).

CLEVERDON, Douglas, *The Growth of Milk Wood* (New York, 1969).

CONRAN, Anthony, *The Cost of Strangeness: Essays on the English Poets of Wales* (Llandysul, 1982).

CROCKETT, Kate, ‘Adolygiad: *Dan y Wenallt*’, *Barddas*, 323 (Haf 2014), tt. 50–1.

----------, *Mwy na Bardd: bywyd a gwaith Dylan Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2014).

DAFYDD, Guto, ‘Henaint a’i gân ei hunan’, *Barn*, 618/619 (Gorffennaf/Awst 2014), t. 82.

DAFYDD, Myrddin ap, ‘Adolygiad: *Mwy na Bardd: Bywyd a gwaith Dylan Thomas*’, *Barddas*, 323 (Haf 2014), t. 53.

DAVIES, Aneirin Talfan, *Gyda Gwawr y Bore* (Llandybïe, 1970).

----------, *Diannerch Erchwyn a Cherddi Eraill* (Abertawe, 1975).

----------, *Dylan: Druid of the Broken Body* (Swansea, 1977).

DAVIES, Bryan Martin, *Nadolig Plentyn yng Nghymru* (Llandysul, 1978).

DAVIES, Emyr, Adolygiad: *Eiliadau o Berthyn, Llais Llyfrau* (Hydref 1992), t. 8.

DAVIES, James A., *A Reference Companion to Dylan Thomas* (Westport & London, 1998).

----------, '"In a different place, / changed": Dannie Abse, Dylan Thomas, T. S. Eliot and Wales' yn VON ROTHKIRCH, Alyce a WILLIAMS, Daniel (goln), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts* (Cardiff, 2004), tt. 223–36.

DAVIES, Jason Walford, *Gororau'r Iaith: R. S. Thomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg* (Caerdydd, 2003).

DAVIES, Peter, *A Greenwich Student Guide to Dylan Thomas* (London, 2005).

DAVIES, Walford (gol.), *Dylan Thomas: New Critical Essays* (London, 1972).

----------, (gol.) *Dylan Thomas: The Collected Stories* (London, 1983).

----------, *Open Guides to Literature: Dylan Thomas* (Milton Keynes, 1986).

----------, *Dylan Thomas: The Poet in his Chains: The W. D. Thomas Memorial Lecture* (Swansea, 1986).

----------, a MAUD, Ralph (goln), *Dylan Thomas: Collected Poems 1934–1953* (London, 1989).

----------, *Dylan Thomas* (Cardiff, 1990).

----------, 'Dylan *Dan y Wenallt*', yn rhaglen Theatr Gwynedd (2003), tt. 10–14.

----------, a MAUD, Ralph (goln), *Dylan Thomas: Under Milk Wood, The Definitive Edition* (London, 2014).

----------, *Dylan Thomas,* Cyfres 'Writers of Wales' (Cardiff, 2014).

----------, 'Rhagymadrodd' yn T. James Jones, *Dan y Wenallt* (Llandysul, 2014), tt. vii–xxvii.

DIENW, 'Lleisiau cyfarwydd yn yr "opera sebon" gyntaf un', *Daily Post*, 22 Hydref 2014, t. 28.

----------, 'Symud o Gwm Deri i Dan y Wenallt!', *Y Cymro*, 24 Hydref 2014, t. 12.

----------, 'Addasiad newydd o *Dan y Wenallt*', *Y Faner*, 10 Ebrill 1992, t. 20.

DRAPER, Ronald P., *The Literature of Region and Nation* (London, 1989).

DRESSEL, Jon, ‘Correspondence’, *The Anglo-Welsh Review*, 26, 58 (Spring 1977), tt. 22–30.

----------, *Hard Love and a Country* (Swansea, 1977).

----------, ‘U. S. Viewpoint’, *Poetry Wales*, 15, 3 (October 1979), tt. 24–9.

----------, *Out of Wales: Fifty Poems 1973–1983* (Port Talbot, 1984).

----------, ‘A Saloon of My Own’, *Planet*, 58 (1986), tt. 51–8.

----------, ‘The Road to Shiloh’, *New Welsh Review*, 23 (1994), tt. 19–24.

----------, *The Road to Shiloh* (Llandysul, 1994).

----------, ‘Looking Both Ways’, *New Welsh Review*, 32 (Spring 1996), tt. 56–64.

EBENEZER, Lyn, ‘Dylan a’r Gymraeg’, *Y Cymro*, 7 Tachwedd 1978, t. 21.

EDWARDS, Emyr, ‘Y Dyn Dieithr’, *Baner ac Amserau Cymru*, 23 Awst 1966, t. 3.

EDWARDS, Hywel Teifi, ‘O’r Pentre Gwyn i Llaregyb’, yn THOMAS, M. Wynn (gol.), *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1995), tt. 7–41.

----------, *O’r Pentre Gwyn i Gwmderi: Delwedd y Pentref yn Llenyddiaeth y Cymry* (Llandysul, 2004).

ELFYN, Menna a ROWLANDS, John (goln), *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry: 20th-century Welsh-language poetry in translation* (Tarset, 2003).

ELLIS, Hannah (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014).

EMYR, John, SCAMMELL, Mary, THOMAS, Gwyn a LLWYD, Alan, ‘Barn Tri am DT’, *Barddas*, 324 (Hydref 2014), tt. 41–2.

FERRIS, Paul, (gol.), *Dylan Thomas: The Collected Letters* (London, 2000).

FIRMAGE, George F. a WILLIAMS, Oscar (goln), *A Garland for Dylan Thomas* (New York, 1963; London, 1966).

GOODBY, John a WIGGINTON, Chris (goln), *Dylan Thomas: Contemporary Critical Essays* (Basingstoke, 2001).

GOODBY, John, *The Poetry of Dylan Thomas: Under the Spelling Wall* (Liverpool, 2013).

----------, (gol.), ‘Notes to the poems’, yn *The Collected Poems of Dylan Thomas: The Centenary Edition* (London, 2014), tt. 235–426.

----------, *Discovering Dylan Thomas*: *A Companion to the Collected Poems and the Notebooks Poems* (Cardiff, 2017).

GRIFFITHS, Hywel, *Llif Coch Awst* (Barddas, 2017).

GRIFFITHS, Kate, 'Labyrinths of Voices: Émile Zola, *Germinal* and Radio' yn GRIFFITHS, Kate a WATTS, Andrew (goln), *Adapting Nineteenth-Century France: Literature in Film, Theatre, Television, Radio and Print* (Cardiff, 2013), tt. 17–46.

GRAMICH, Katie, 'Welsh greats of the century: Poets', *New Welsh Review,* 40 (Spring 1998), tt. 9–13.

GRIFFITHS, Niall, 'Afterword', yn PRICHARD, Caradog, *One Moonlit Night*, cyf. Philip Mitchell (Edinburgh, 2009), t. 176.

GRIFFITHS, Paul, 'Dim gwerth celfyddydol i ddigwyddiad costus', *Y Cymro,* 9 Mai 2014, t. 8.

----------, '*Dan y Wenallt* ond ymhell uwch y tonnau', *Y Cymro,* 6 Mehefin 2014, t. 17.

GRIFFITHS, Rhidian, '*Dan y Wenallt* ar Gerdd Dant', *Barn,* 558/9 (Gorffennaf/Awst 2009), t. 67.

GRUFFYDD, W. J. a LEWIS, Richard, *Cerddi'r Llygad* (Caerdydd, 1973).

GWILYM, Arfon, 'Dan y Wenallt', *Allwedd y Tannau,* 68 (2009), tt. 20–2.

HALE, Terry ac UPTON, Carol-Anne, 'Introduction', yn UPTON, Carole-Anne (gol.), *Moving Target: Theatre Translation and Cultural Relocation* (London, 2014), tt. 1–13.

HALLAM, Tudur, '"Curse, bless, me now": Dylan Thomas and Saunders Lewis', *Journal of the British Academy,* 3 (17 Rhagfyr 2017), tt. 211–53.

HARDY, Barbara, *Dylan Thomas: An Original Language* (Georgia, 2000).

HOLBROOK, David, *Llareggub Revisited: Dylan Thomas and the state of modern poetry* (Bath, 1962).

HOPWOOD, Mererid, *Singing in Chains: Listening to Welsh Verse* (Llandysul, 2016).

HUGHES, Nia Wyn, '"O'r 'Steddfod i'r Sgrin": Deongliadau fideo y *Sioe Gelf* o gerddi arobryn yr Eisteddfod Genedlaethol 1997–2003', Traethawd MA (Prifysgol Bangor, 2009).

HUGHES, Vaughan, 'Dynasty'r Pethe: adolygiad o *Jim Parc Nest*', *Barn,* 623/4 (Rhagfyr/Ionawr 2014/15), t. 70.

HUNTER, Jerry, 'Jerry Hunter yn sgwrsio efo... T. James Jones', *Tu Chwith,* 8 (1997), tt. 73–5.

----------, 'Y Golofn Wadd: "Ffin" T. James Jones', *Barddas,* 283 (Mehefin/Gorffennaf 2005), tt. 18–22.

JAMES, Christine, (gol.), *Cerddi Gwenallt: Y Casgliad Cyflawn* (Llandysul, 2001).

JEWELL, Rhianedd, *Her a Hawl Cyfieithu Dramâu: Saunders Lewis, Samuel Beckett a Molière* (Caerdydd, 2017).

JOHNSTON, Dafydd, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2014).

JONES, Cyril, 'Ianws a Nest', *Taliesin*, 102 (Haf 1998), tt. 120–2.

JONES, Francis R., 'The Translation of Poetry' yn MALMKJÆR, Kirsten a WINDLE, Kevin (goln.), *The Oxford Handbook of Translation Studies* (Oxford, 2011), tt. 169–82.

JONES, Gareth William, 'Adolygiad: *Herod* a *Pwy Bia'r Gân?*', *Llais Llyfrau* (Gwanwyn 1992), tt. 22–3.

JONES, Harri Pritchard, 'Saunders Lewis a'r Eingl-Gymry', yn THOMAS, M. Wynn (gol.), *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1995), tt. 145–69.

JONES, Iestyn, 'Yn ôl i'r gorffennol', *Y Cymro*, 19 Rhagfyr 2014, t. 17.

JONES, J. T., (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Dyffryn Maelor 1961* (Llandysul, 1961).

----------, *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Rhydaman a'r Cylch 1970* (Llandysul, 1970).

JONES, Menna Machreth, 'Wyneb yn Wyneb: Hunaniaethau Llenyddol Cymraeg a Chymreig yn erbyn Cefndir Refferenda 1979 a 1997' (traethawd PhD, Prifysgol Bangor, 2012).

JONES, Thomas Harri, *Dylan Thomas* (Edinburgh, 1963).

KNOWLES, Elizabeth (gol.), *Oxford Dictionary of Modern Quotations* (Oxford, 2007).

LEWIS, Dafydd Morgan, 'Adolygiad: *Jim Parc Nest*', *Barddas bach y Dolig* (2014), t. 3.

LEWIS, Emyr, 'Licio Bara Ceirch', *Barddas*, 324 (Hydref 2014), tt. 44–5.

LEWIS, L. Haydn, 'Dylan Thomas a'i Feirniaid', *Y Traethodydd*, XXXI (1963), tt. 79–89.

----------, *Cerddi Cyfnod* (Caernarfon, 1963).

----------, *Eisin (Cerddi Ychwanegol)* (Lerpwl, 1969).

LEWIS, Min, *Laugharne and Dylan Thomas* (London, 1967).

LEWIS, Saunders, *'Is there an Anglo-Welsh Literature?': Being the Annual Lecture Delivered to the Branch on December 10th, 1938* (Caerdydd, 1939).

LEWIS, W. Gwyn (gol.), *Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2018: Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* (Llys yr Eisteddfod, 2018).

LYCETT, Andrew, *Dylan Thomas: A New Life* (London, 2003).

LYNCH, Peredur I., 'Refferendwm 1979, *Cerddi Ianws* a Thopos "y Cymry Taeog"', yn WILIAMS, Gerwyn (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXX* (Bethesda, 2011), tt. 78–110.

LLWYD, Alan, 'Yng Nghyfnod Herod y Teyrn', *Barddas*, 176/177 (Rhagfyr/Ionawr 1991/1992), tt. 41–3.

----------, *Sonedau i Janice a Cherddi Eraill* (Barddas, 1996).

----------, *Y Grefft o Greu: Ysgrifau ar Feirdd a Barddoniaeth* (Barddas, 1997).

----------, 'Adolygiad: *Cymanfa*', *Taliesin*, 153 (Gaeaf 2014), tt. 100–3.

LLWYD, Iwan, 'Perthyn i Gymru'n ei gwae', *Barddas*, 180 (Ebrill 1992), tt. 20–1.

----------, 'Review: *Eiliadau o Berthyn*', *Poetry Wales*, 28, 3 (1993), tt. 68–9.

----------, a DAFYDD, Myrddin ap (goln), *Mae'n Gêm o Ddau Fileniwm: Cyflwyno Beirdd a Barddoniaeth* (Llanrwst, 2002).

MALMKJÆR, Kirsten a WINDLE, Kevin (goln), *The Oxford Handbook of Translation Studies* (Oxford, 2011).

MARKS, Rhiannon, *Pe gallwn, mi luniwn lythyr: Golwg ar waith Menna Elfyn* (Caerdydd, 2013).

MARLES, Gwilym, *Prydyddiaeth* (Castellnewydd Emlyn, 1859).

MAUD, Ralph, *Dylan Thomas in print: A Bibliographical History* (Pittsburgh, 1970).

----------, (gol.), *Dylan Thomas: The Broadcasts* (London, 1991).

----------, *Where Have the Old Words Got Me?: Explications of Dylan Thomas's Collected Poems* (Cardiff, 2003).

MAYER, Ann Elizabeth, *Artists in Dylan Thomas's Prose Works: Adam Naming and Aesop Fabling* (Ontario, 1996).

MORGAN, D. Densil, 'Paradocsau Pantycelyn', *Barn*, 352 (Mai 1992), tt. 39–40.

MORGAN, Sharon, *Hanes Rhyw Gymraes: Hunangofiant Sharon Morgan* (Talybont, 2012).

MORGAN, T. J., (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 1960* (Llandysul, 1960).

MUNDAY, Jeremy (gol.), *The Routledge Companion to Translation Studies* (Abingdon, 2009).

NICHOLAS, W. Rhys (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Abergwaun a'r Fro 1986* (Llandysul, 1986).

----------, (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Casnewydd 1988* (Llandysul, 1988).

NIDA, Eugene, *Towards a Science of Translating: with Special Reference to Principles and Procedures Involved in Bible Translating* (Leiden, 1964).

----------, 'Principles of Correspondence', yn VENUTI, Lawrence (gol.), *The Translation Studies Reader* (London, 2012), tt. 141–55.

NORTHEY, Siân, 'Y Ffin rhwng Amau a Ffydd', *Barddas*, 301 (Tachwedd/Rhagfyr/Ionawr 2008/2009), tt. 68–9.

OWEN, Karen, *Siarad trwy'i het: Cerddi a ffotograffau* (Barddas, 2011).

PAGE, Alun, 'Dan y Wenallt', *Baner ac Amserau*, 29 Awst 1968, t. 2.

PARRY, R. Williams, *Yr Haf a Cherddi Eraill* (Dinbych, 1978).

PARRY, Thomas (gol.), *The Oxford Book of Welsh Verse* (Oxford, 1962).

PEACH, Linden, *The Prose Writing of Dylan Thomas* (London, 1988).

POWELL, David, 'Oscar dream for star Rhys: Welsh language version of Dylan Thomas classic up for Academy Award', *Daily Post*, 12 Hydref 2015, t. 13.

PRICE, Angharad, 'Cyfoeth Cyfieithu', *Taliesin*, 100 (Gaeaf 1997), tt. 11–39.

----------, '"Dim Oll"? Ymateb Nofelwyr Cymraeg i Ddatganoli', *Llên Cymru*, 34 (2011), tt. 237–47.

PRITCHARD, Dafydd, 'Cyfrol y Themâu Mawr', *Taliesin*, 117 (Gaeaf 2002), tt. 143–45.

PRITCHARD, Ffion Haf, 'Cyfieithu Llenyddiaeth Plant i'r Gymraeg: Tair Astudiaeth Achos' (traethawd MPhil, Prifysgol Caerdydd, 2014).

RAFFEL, Burton, 'The Translation of Poetry', yn LARSON, Mildred L. (gol.), *Translation: Theory and Practice, Tension and Interdependence* (Amsterdam/Philadelphia, 1991), tt. 87–99.

----------, *The Art of Translating Prose* (Pennsylvania, 2010).

REYNOLDS, Idris, 'Erys Gwefr y Filltir Sgwâr', *Barddas*, 269 (Medi/Hydref/Tachwedd 2002), tt. 66–7.

REYNOLDS, Rhian, ‘Poetry for the Air: *The Minister, Sŵn y Gwynt sy’n Chwythu* and *The Dream of Jake Hopkins* as radio odes’, yn *Welsh Writing in English,* 7 (2001–02), tt. 78–105.

RICHARDS, Elwyn, ‘Adolygiad: *Pwy Bia’r Gân?* T. James Jones a Manon Rhys’, *Cristion* (Gorffennaf/Awst 1992), t. 21.

RICHARDS, W. Leslie, *Cerddi’r Cyfnos* (Dinbych, 1986).

ROBERTS, Bob, ‘Dramâu’r Eisteddfod’, *Baner ac Amserau Cymru,* 29 Awst 1968, t. 3.

ROBERTS, John, ‘Adolygiad: *Cymanfa*’, *Barddas,* 323 (Haf 2014), t. 55.

ROS, Manon Steffan, ‘Cadair Jim Parc Nest’, *Golwg,* 31, 48 (15 Awst 2019), t. 28.

ROTHKIRCH, Alyce von a WILLIAMS, Daniel (goln), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts: Essays for M. Wynn Thomas at Sixty* (Cardiff, 2004).

SHAKESPEARE, William, *As You Like It* (London, 2011).

SMITH, Kieron a BARFOOT, Rhian (goln), *New Theoretical Perspectives on Dylan Thomas: ‘A writer of words, and nothing else*’? (Cardiff, 2020).

STEPHENS, Meic (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1986).

----------, ‘Jim Parc Nest: Profile of Our New Archdruid’, *Cambria,* 2, 1 (2010), t. 14.

----------, *Welsh Lives: Gone but not forgotten* (Talybont, 2012).

THOMAS, Aeronwy, *My Father’s Places: A Memoir by Dylan Thomas’ Daughter* (London, 2010.

THOMAS, Caitlin a TREMLETT, George, *Caitlin: Life with Dylan Thomas* (London, 1986).

THOMAS, David N., *A Farm, Two Mansions and a Bungalow* (Bridgend, 2000).

----------, *Dylan Remembered: Volume Two, 1935–1953* (Bridgend, 2004).

----------, ‘A True Childhood: Dylan’s Peninsularity’ yn ELLIS, Hannah (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), tt. 7–29.

----------, ‘A Postcard from New Quay’ yn ELLIS, Hannah (gol.), *Dylan Thomas: A Centenary Celebration* (London, 2014), tt. 102–118.

THOMAS, Dylan, *Quite Early One Morning* (London, 1954).

THOMAS, Gwyn (gol.), *Pair Ceridwen* (Llangefni, 1995), t. 47.

THOMAS, M. Wynn, *Internal Difference: Literature in 20th-century Wales* (Cardiff, 1992).

----------, (gol.), *DiFfinio Dwy Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1995).

----------, *Corresponding Cultures: the two literatures of Wales* (Cardiff, 1999).

----------, '"He belongs to the English": Welsh Dylan and Welsh-language culture', *The Swansea Review*, 20 (2000), tt. 122–34.

----------, 'Dylanwadau: Dylan Thomas a Llenorion Cymraeg', *Taliesin*, 112 (Haf 2001), tt. 13–29.

----------, 'Marlais' yn ELLIS, Hannah (gol.), *A Centenary Celebration: Dylan Thomas* (London, 2014), tt. 30–41.

----------, *In the Shadow of the Pulpit: Literature and Nonconformist Wales* (Cardiff, 2010).

----------, '"There's Words": Dylan Thomas, Swansea, and Language', yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion / Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 20 (2015), tt. 89–102.

TINDALL, William York, *A Reader's Guide to Dylan Thomas* (Syracuse, 1962).

TUDUR, Non, 'Dylan Thomas yn ysbrydoli dau berfformiad', *Golwg*, 21, 35 (14 Mai 2009), tt. 26–7.

----------, 'Hunangofiant Jim Parc Nest', *Golwg*, 27, 17 (8 Ionawr 2014), t. 20.

----------, 'Cyn-Archdderwydd yn "deheuo" Macbeth', *Golwg*, 29, 21 (2 Chwefror 2017), t. 17.

----------, 'Creu "bydysawd cyfochrog" yn Abermandraw', *Golwg*, 29, 23 (16 Chwefror 2017), t. 20.

TYMOCZKO, Maria, 'Post-colonial writing and literary translation' yn BASSNETT, Susan a TRIVEDI, Harish (goln.), *Post-colonial Translation: Theory and Practice* (London, 1999), tt. 19–40.

UPTON, Carole-Anne (gol.), *Moving Target: Theatre Translation and Cultural Relocation* (London, 2014).

VENDLER, Helen, '*Under Milk Wood*: Lists, Made and Undone' yn ROTHKIRCH, Alyce von a WILLIAMS, Daniel (goln.), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts: Essays for M. Wynn Thomas at Sixty* (Cardiff, 2004), tt. 100–15.

VENUTI, Lawrence, 'Strategies of Translation', yn Mona Baker a Kirsten Malmkjær (goln.), *The Routledge Encyclopedia of Translation Studies* (London, 2001), tt. 240–3.

----------, *The Translator's Invisibility: A History of Translation* (London, 2008).

----------, (gol.), *The Translation Studies Reader* (Abingdon, 2014).

VITTLE, Arwel (gol.), *Llyfr Mawr Lol: Hanner Canrif o Hiwmor, Enllib a Rhyw* (Talybont, 2015).

WACK, Amy, 'Review: The Road to Shiloh', *New Welsh Review*, 8/2 (1995), tt. 92–3.

WILIAMS, Gerwyn, 'Pethe brau: Gerwyn Wiliams a beirdd breuder bywyd', *Golwg*, 4, 20 (30 Ionawr 1992), t. 23.

WILLIAM, Urien, 'Iaith Theatr', *Llwyfan* (Haf 1970), tt. 2–3.

WILLIAMS, Daniel G. (gol.), *Slanderous Tongues: Essays on Welsh Poetry in English* (Bridgend, 2010).

----------, *Wales Unchained: Literature, Politics and Identity in the American Century* (Cardiff, 2015).

WILLIAMS, Ifor (gol.), *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd, 1982).

WILLIAMS, Marcel, *Diawl y Wenallt* (Talybont, 1990).

WILLIAMS, Phil, 'Revolution in Llaregyb', *Radical Wales*, 30 (1991), t. 18.

WILLIAMS, Robert Coleman (gol.), *A Concordance to the Collected Poems of Dylan Thomas* (Nebraska, 1967).

WILLIAMS, Rhydwen, *Barddoniaeth Rhydwen Williams: Y Casgliad Cyflawn 1941–1991* (Barddas, 1991).

----------, 'Drama am feistr yr emyn: *Pwy Bia'r Gân?*, T. James Jones a Manon Rhys', *Barddas*, 187 (Tachwedd 1992), t. 22.

----------, 'Rhydwen Williams a Hugh Griffith yn angladd Dylan Thomas: allan o gyfrol R. Alun Evans (Golygydd) *Rhwng Gŵyl a Gwaith*', yn *Y Faner Newydd*, 89 (2019), tt. 14–15.

WILLIAMS, Stephen J. (gol.), *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru Llanelli a'r Cylch 1962* (Llandysul, 1962).

WILLIAMS, Waldo, *Dail Pren* (Aberystwyth, 1956).

WINDLE, Kevin, 'The Translation of Drama' yn MALMKJÆR, Kirsten a WINDLE, Kevin (goln), *The Oxford Handbook of Translation Studies* (Oxford, 2011), tt. 153–68.

WOODWARD, Kate, *Cleddyf ym Mrwydr yr Iaith?: Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg* (Caerdydd, 2013).

WYN, Ieuan, 'Gweddw yw'r Gwin', *Barddas*, 324 (Hydref 2014), tt. 42–3.

ZATLIN, Phyllis, *Theatrical Translation and Film Adaptation: A Practitioner's View* (Bristol, 2005).

Deunydd Ar-lein

CHRISTIE, William, *Dylan Thomas: A Literary Life*, <https://books.google.co.uk/books?isbn=1137322578>; cyrchwyd 25 Tachwedd 2016.

CROCKETT, Kate, 'Spindrift Pages', *The Times* <https://www.thetimes.co.uk/article/spindrift-pages-t5pn83lfpc5>; cyrchwyd 28 Mawrth 2014.

ELLIS, Hannah, 'Land of my fathers? My fathers can keep it!: The complicated relationship between Dylan Thomas and Wales', <http://www.discoverdylanthomas.com>; cyrchwyd 24 Awst 2017.

EVANS, Donald, 'Sut i greu awdl', <http://www.barddas.com/barddas/pdf/sut_i_greu_awdl_DE.pdf>; cyrchwyd 27 Awst 2017.

GRIFFITHS, Paul, 'Adolygiadau Theatr / Theatre Reviews', <http://paulpesda.blogspot.co.uk/2009/05/under-milk-wood.html>; cyrchwyd 14 Mawrth 2018.

HALLETT, Victor, 'My People by Theatr Clwyd and Invertigo Theatre', <http://www.theatre-wales.co.uk/reviews/reviews_details.asp?reviewID=3461>; cyrchwyd 13 Ionawr 2017.

HICKLING, Alfred, '*My People* review – incest and insanity in nightmarish Welsh tales', <https://www.theguardian.com/stage/2015/nov/16/my-people-review-incest-insanity-clywd-theatr-cymru-mold-caradoc-evans>; cyrchwyd 13 Ionawr 2017.

HOPWOOD, Mererid, 'Oedd Dylan Thomas yn cynganeddu?', <http://www.bbc.co.uk>; cyrchwyd 9 Mawrth 2018.

JONES, R. M., 'Gobaith ac anobaith Waldo ac R. S.', t. 17, < http://www.rmjones-bobijones.net/llyfrau/Geraint.pdf>; cyrchwyd 8 Gorffennaf 2016.

LEWIS, Roger, 'Didn't go gentle', *The Times*, 27 Mawrth 2014, <https://www.thetimes.co.uk/article/didnt-go-gentle-2zbrq76gxw0>; cyrchwyd 28 Mawrth 2014.

MARED, Gwenan, 'Y Wenallt a'i Swyn', <http://www.theatre-wales.co.uk/barn/manylion.asp?barnID=22>; cyrchwyd 29 Ionawr 2017.

MUSE, Elan Grug, 'Ffêc tan, lager a merched Abermandraw', <https://pedwargwynt.cymru/adolygu/golygfa/ffec-tan-lager-a-merched-abermandraw>; cyrchwyd 7 Mawrth 2017.

REES, Jasper, 'T. James Jones on Dylan Thomas', <http://www.walesartsreview.org/t-james-jones-on-dylan-thomas/>; cyrchwyd 12 Rhagfyr 2016.

TOMOS, Angharad, ‘Cyfaddefiad: Dwi ddim yn hoffi Dylan Thomas’, <https://www.thefreelibrary.com/Cyfaddefiad%3a+Dwi+ddim+yn+hoffi+Dylan+Thomas...+angharad+TOMOS.-a0366500935>; cyrchwyd 27 Rhagfyr 2016.

THOMAS, Georgia, ‘Sea-spying windows’ and ‘smoky ship-pictured bars’: Dylan Thomas’s ‘Quite Early One Morning’ (1945) <http://www.dylanthomas.com/blog/quite-early-one-morning-part-2/>; cyrchwyd 29 Rhagfyr 2017.

WILLIAMS, Elin, ‘Eisteddfod 2014: In Review’, <http://www.walesartsreview.org/eisteddfod-2014-in-review/>; cyrchwyd 25 Ionawr 2017.

WILLIAMS, Hywel, ‘The cut-price Dionysiac’, <https://www.theguardian.com/books/2003/oct/27/dylanthomas>; cyrchwyd 29 Rhagfyr 2016.

Gwefannau Pellach

‘Dylan Thomas yn “falch o ddwy iaith Cymru”’, *Golwg 360* (27 Mawrth 2014), <https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/141995-dylan-thomas-yn-falch-o-ddwy-iaith-cymru>; cyrchwyd 28 Mawrth 2014.

‘Kevin Allen: Interview’, <http://www.buzzmag.co.uk/uncategorized/kevin-allen-interview/>; cyrchwyd 20 Ionawr 2017.

‘Twin Town's Kevin Allen and Rhys Ifans reunite to make “erotic, surreal and lusty” version of *Under Milk Wood*’, *Wales Online* <http://www.walesonline.co.uk/whats-on/film-tv/twin-towns-kevin-allen-rhys-10322379>; cyrchwyd 9 Mawrth 2017.

‘*Dan y Wenallt*: cystadleuaeth “Dwlu ar y Geiriau” i bobol ifanc’, <http://golwg360.cymru/celfyddydau/llen/257335-dan-y-wenallt-cystadleuaeth-dwlu-ar-y-geiriau-i-blant-a-phobol-ifanc>; cyrchwyd 15 Mawrth 2017.

‘*Un Nos Ola Leuad* gan Caradog Prichard yw'r Nofel Gymreig Orau’, <https://waleslitexchange.org/cy/news/view/un-nos-olau-leuad-by-caradog-prichard-chosen-as-wales-arts-reviews-greatest/>; cyrchwyd 18 Mawrth 2017.

‘Director Andrew Sinclair explains why Lower Fishguard was the perfect location for filming Under Milk Wood’, <http://www.bbc.co.uk/programmes/p0297z5r>; cyrchwyd 29 Medi 2017.

Gwefan Dafydd ap Gwilym, <http://www.dafyddapgwilym.net>.

Geiriadur Prifysgol Cymru, <http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html>.

Oxford English Dictionary, <https://en.oxforddictionaries.com>.

Gohebiaeth: Llythyrau/Negeseuon E-bost/Cyfweliadau/Sgyrsiau

Llythyr T. James Jones [TJJ o hyn ymlaen] at yr awdur presennol, 24 Chwefror 2016.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 3 Mawrth 2016.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 13 Ebrill 2016.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 9 Mai 2016.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 10 Mai 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 12 Mai 2016.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 13 Mai 2019.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 14 Mai 2016.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 24 Hydref 2016.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 10 Mai 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 24 Mai 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 27 Mehefin 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Gorffennaf 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 11 Medi 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 12 Medi 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Medi 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 21 Rhagfyr 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 22 Rhagfyr 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 25 Rhagfyr 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 28 Rhagfyr 2017.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 1 Ionawr 2018.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 16 Chwefror 2018.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 19 Chwefror 2018.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 28 Chwefror 2018.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 5 Mai 2018.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 11 Mai 2018.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 17 Rhagfyr 2018.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 13 Mai 2019.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 14 Mai 2019.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 17 Gorffennaf 2019.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 5 Medi 2019.
E-bost gan TJJ at yr awdur presennol, 8 Ebrill 2020.

Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 18 Hydref 2016.
Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 8 Awst 2017.
Cyfweliad yr awdur presennol â TJJ, 26 Tachwedd 2017.
Cyfweliad yr awdur presennol â Jon Dressel, 7 Mehefin 2017.
Cyfweliad yr awdur presennol ag Eigra Lewis Roberts, 4 Hydref 2019.

E-bost gan Ian Rowlands at yr awdur presennol, 28 Mawrth 2017.
E-bost gan Paul Griffiths at yr awdur presennol, 9 Medi 2019.
E-bost gan Wil Davies at yr awdur presennol, 18 Medi 2019.

Cynadleddau

T. James Jones, rhan o banel trafod gyda Gareth Miles a Manon Eames, cynhadledd *Cymru ar Lwyfan y Byd: Cyfieithu ac Addasu yn y Theatr Gymraeg,* Prifysgol Aberystwyth, 19 Tachwedd 2016.

Cynhadledd Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig, Gregynog, 2017.

Deunydd Radio/Teledu/YouTube

Rhaglen *Heddiw*, BBC Cymru, 28 Gorffennaf 1982.

Sgwrs rhwng T. James Jones a Nia Roberts ar raglen *Stiwdio*, 'T. James Jones yn trafod ei ddrama radio newydd *Dylan yn Fern Hill*', BBC Radio Cymru, 21 Hydref 2014.

T. James Jones ar BBC Cymru efo Dylan Jones, BBC Cymru, 23 Hydref 2014.

Darllediad o *Dylan yn Fern Hill*, BBC Radio Cymru, 26 Hydref 2014.

Rhaglen *Thomas v Thomas: Brwydr y Beirdd*, Cwmni Da, S4C, 26 Hydref 2014.

Darllediad o *Dan y Wenallt*, BBC Cymru, 27 Hydref 2014.

Dan y Wenallt (ffilm), S4C, 27 Rhagfyr 2014.

Rhaglen *Bois Parc Nest*, S4C, 27 Rhagfyr 2014.

Rhaglen *Pethe Pum Munud: Jim Parc Nest*, <https://www.youtube.com/watch?v=OHN4lqlPP9o>; cyrchwyd 8 Ionawr 2017.

Rhaglen *To Rhyme and Chime for a Chair*, BBC Radio 4, 12 Mai 2018.

Rhaglen *Bore Cothi*, T. James Jones yn sgwrsio â Shân Cothi, BBC Cymru, 9 Ebrill 2020.

EIGRA LEWIS ROBERTS

DAN GESAIL BRYN LLAETHOG
****

CYFIEITHIAD O UNDER MILKWOOD / DYLAN THOMAS GAN
EIGRA LEWIS ROBERTS

LLAIS 1 (Tywyllwch a trawslwch llwyd)
****

I ddechrau yn y dechreuad.
Mae hi'n nos o Wanwyn yn y dref fach , yn ddi-leuad,ddi-sêr
ac yn Feibil ddu , y strydoedd coblog yn dawel a choedwig
wargam y cariadon a'r cwningod yn hercian i lawr i'r môr
gloewddu , gloew , ddu a'i gybolfa o gychod. Mae'r tai mor
ddall â thyrchod (er bod tyrchod yn gweld yn burion heno
yn eu gwlâu melfed) neu'n ddall fel Capten Cat , yno yn y
canol llonydd rhwng y pwmp a chloc y dref , y siopau'n galaru
a'r Neuadd Los yn ei du . Ac mae holl drigolion y dref fud-
fyddar yn cysgu'n awr.

(Gwynt ysgafn)

Gwrandewch . Clywch y nos yn cerdded y strydoedd ; pibau'r
gwynt hallt yn Heol y Brenin a Stryd Gocos ; y gwair yn tyfu
ar Fryn Llaregyb ; cwymp y gwlith a'r sêr ; cwsg yr adar yng
nghoed Bryn Llaethog.

(Chwydda sŵn y gwynt)

Gwrandewch . Mae'n nos yn y capel rhynllyd , yn emyna mewn
boned a broits , coler a chwlwm dolen , yn peswch fel geifr,
sipian mintos , hepian drwy'r Haleliwia ; yn nos yn y dafarn,
yn dawel fel domino ; yn nhaflod Oci Llefrith fel llygoden
mewn menyg ; ym mecws Dai Bara yn bwrw blawd du. Mae'n heno
yn Lôn y Mulod , yn mud drotian â gwymon ar ei garnau , dros
y cocls o gobls , heibio i'r rhedyn mewn potyn , yr adnodau
a'r tlysau , harmoniwm , dresel nain , lluniau dyfrlliw o
waith llaw , ci tsieni a chadi rhosynnog. Mae'n nos , yn
swatio yn nythod babanod .

Edrychwch . Mae'n nos , yn troelli'n fud frenhinol drwy goed
ceirios Heol y Brenin ; yn sleifio drwy fynwent Bethesda , ei
wynt yn ei ddwrn a'r gwlith ar ei anadl ; yn maflyd codwm wrth
Yr Angor.

(Dileu sŵn y gwynt)

Mae amser yn cerdded . Gwrandewch . Clywch yr amser yn cerdded.
Dowch yn nes.

(Sŵn cloc yn tician)

Chi'n unig all glywed y tai'n cysgu yn y strydoedd yn y duwch
araf , dwfn dan gadach y nos . Chi'n unig all weld , yn y

(Chwydda sŵn y cloc)

Seticau (Seticau 1, 2 a 4 wyn aros yr ŵyn)

Set 3.

Rhan 1.

1. Mr Waldo - gwely a hetfowler

Rhan 2.

1. Eli Jach - stof a harn
2. Mr a mrs Ceiriog Owen - stof newydd gwpwrdd a llun Anti
3. Beynons - stof a harn

Rhan 3

1. Wili Nini a mrs W. N. - gwpwrdd a ffenestr

(O. M. a mrs O. M. i ggnwyd lle'r Beynons o dan y llwyfan)

Rhan 4.

1. Eli Jenkins - gwpwrdd / adnod / llun pregethwyr / llun s bregeth.

nos Iaun

1) Dillad (at nos Fawrth)
2) W. M. yn tokennodns
3) Pawb ofalus rhag ei glwt 'ei hun - ei filltir sgwâr

=

nos Fawrth, Mai 1af.

Dyniadau.

Rhagbaraf - Mai'r 21ain

Perfformiad llwyr - nos Ferchar Mai 16eg
nos Wener Mai 18ed
nos Sadwrn Mai 19fed

Rhan 1 (Ar y llwyfan)

Mrs O. P. : Mr O: Mr P. } uchaf.
Capten Cat
Wil: Nini : Mrs W.N.

Mr Waldo: mam
Gwawr Beynon } isaf
Mrs Pew
Myfanwy Preis

i' dalod i mewn - Menw 1 : Menw 2
Marg Edwards : Bwtsiar Beynon

lleisiau o'r neilltu - Gwragedd *
Eli Jenkins
Organ Morgan
Ocin Llefrith
Poli Gardas
Dai Bara
Dai da i ddim
Mr Pew
gwraig Mr Waldo
Mai Rose Cottage

Rhan 1



llofftydd deillion , y cribau, a'r peisiau ar gefnau cadeiriau, y jygiau a'r dysglau, dannedd gosod mewn gwydrau, y Deg Gorchymyn ar waliau a'r meirwon melyn mewn fframiau. Chi'n unig all glywed a gweld , y tu draw i'r llygaid caeau, symudiadau crwydriadau, troadau, lliwiau, poenau, enfysau a chonau, dymuniadau a chwantau ac ofnau, yr esgyn a'r disgyn a moroedd mawr eu breuddwydion.

Gwrandewch - gallwch glywed eu breuddwydion.

Mae Capten Cat ddall , adre i aros o'r môr , ynghwsg yn y bwnc yng nghaban gorau Gwynt Teg, mor glyd â chragen neu long mewn potel yn breuddwydio .

LLAIS

****

y moroedd mawr a olchai ddec yr S.S. Cydweli yn llifo'n foliog dros y dillad gwely ac yn ei sugno fel slefren i eigion y dyfnder hallt tywyll lle daw'r pysgod i blicio'i gnawd hyd at ei esgyrn a'r morwyr marw i holi ...

MORWR 1

****

'Nghofio i , Capten ?

CAPTEN CAT

****

Dai'r dawnsiwr.

MORWR 1

****

Mi gollais fy nhroed yn Nantucket.

MORWR 2

****

Weli di fi , Capten , y sgerbwd(gwyn) sy'n siarad ? Twm Ffred y mulod ... roedd inni'r un hogan unwaith ...Mrs Probert ...

ROSIE PROBERT

****

Rosie Probert , tri deg tri Lôn Hwyaid . Dowch fyny, hogia, mi 'dw i'n farw.

MORWR 1

****

Sut mae hi i fyny yna ?

MORWR 2

****

Oes 'na rym a bara lawr ?

MORWR 1

****

Llaeth ennwyn a milgwn ?

MORWR 2

****

Adar to a llygaid y dydd ?

MORWR 1

****

Sut mae'r tenoriaid yn Nowlais ?

MORWR 2

****

Pwy sy'n godro ym Maesgwyn ?

CAPTEN CAT

****

O, fy morwyr annwyl i .

LLAIS 2

****

Gallwch glywed yn Stryd Gocos y nos ddi-leuad hon o Wanwyn, Miss Preis , gwniadwraig a siopwraig, yn breuddwydio am ...

LLAIS 2

****

ei charwr , cyn daled â thŵr y dref , ei fwng aur fel un Samson, ei gluniau cadarn yn stemio, yn drystiog a brestiog a'r tân yn ei lygaid yn treiddio drwy'r cocos, yn hofran yn isel uwch ei photel ddŵr poeth o gorff.

MR EDWARDS

****

Myfanwy Preis.

MISS PREIS

****

Mr Mog Edwards.

MR EDWARDS

****

Drepar ydw i sy'n glaf gan gariad . Rydw i'n eich caru chi'n fwy na'r wlanan a'r garthan a'r sidan, y cotwn a'r brethyn, y poplin a'r mwslin, y creton a'r neilon yn holl siopau brethyn y byd. Rydw i am fynd a chi i'r Emporiwm ar y bryn, lle mae'r arian yn hymian hyd wifrau. Taflwch ymaith eich sanau gwely a'ch siaced weu gartra. Fe gynhesa i'r cynfasa fel craswr bara, fe orwedda i wrth eich ochor fel cig rhost y Sul.

MISS PREIS

****

Fe weua i chi waled o las nad â'n angof, i gadw'r arian yn glyd. Fe gnesa i'ch calon chi wrth y fflama fel y gallwch chi

3

i llithro hi dan eich fest wedi i'r siop gau.

MR EDWARDS

****

Myfanwy , Myfanwy , cyn i'r llygod gnoi'ch gwaddol, wnewch chi ...

MISS PREIS

****

Gwnaf , Mog , gwnaf , Mog , gwnaf, gwnaf, gwnaf.

MR EDWARDS

****

A bydd clychau holl diliau'r dref yn canu i'n priodas.

LLAIS

****

Yn y tŷ bach llygaid mochyn y drws nesaf i Ifans yr angau chwyrna'r ddwy stôn ar bymtheg o Mr Waldo, cwningwr, barbwr, llysieuwr, cathwr, cwac, ei ddwylo pinc yn gorweddâ'u cledrau i fyny ar ymyl y cwrlid clytiog, ei esgidiau duon yn daclus a del yn y basn molchi, ei het fowler ar fachyn, potel stowt a thafell o deisen bwdin o dan ei gobennydd. Mae'n breuddwydio ...

MAM

***

Un mochyn bach aeth i'r farchnad,
Un mochyn bach ar ôl,
Un mochyn bach yn bwyta cig rhost,
Ac un heb damaid yt ôl,
Ac un mochyn bach yn mynd...

MR WALDO

****

Wi wi wi wi wi

MAM

***

Adra bob cam at

GWRAIG (Yn sgrechian ~~o'r neilltu~~)

******

Waldo! Waldo!

MR WALDO

****

Ia, Blodwen cariad ?

GWRAIG

******

O, be ddywed y cymdogion ; be ddywed y cymdogion ...

GWRAGEDD (O'r neilltu 1/2 - chwith 3/4 de)
****

1 Mrs Waldo druan. V
2 Camgymeriad oedd priodi D
3 Oni bai fod raid iddi V
4 'R un fath â'i mam hi. L.
1 Dyna i chi ŵr, V
2 Fel ei dad reit siŵr. L.
3 Yn cadw'r fath dwrw. D
4 Be wnaiff dyn am gwrw ? L.
1 Gwerthu'r piano D
2 A'r peiriant gwnio. V
3 Syrthio'n y gwter. D
4 Rhegi fel trwper. L
Pawb (Canu'n y lafatri.)
(Druan ohoni.)

GWRAIG (O'r neilltu,yn ddagreuol)
******
O, Waldo, Waldo.

MR WALDO
****
Isht, cariad . Waldo weddw ydw i rŵan.

MAM
***
Waldo. Waldo.

MR WALDO
****
Ia, mam ?

MAM
****
O, be ddywed y cymdogion , be ddywed y cymdogion ...

GWRAGEDD (O'r neilltu, fel cynt)
****

1 Yn ddu fel simdda. D
2 Cnocio ar ddrysa. V
3 Sgwennu ar walia. D
4 Dwyn o'r siopa. L.
Mi gwelis i o'n cuddio. V
Chwara triwant oedd o. D L
1/2 (Anfonwch o i'w wely heb damaid i'w fwyta. D
3/4 (Rhowch gastor oil iddo a'i gloi dan grisia. V.

PAWB { Gyrrwch o i'r ysgol , gyrrwch o i'r ysgol,
{ Dysgwch wers iddo ar ei b-en-ôl.

Tywyllwch golau ar Mr Waldo
Golau ar Mrs O.P. Mr O. a Mr P.

LLAIS 1 a ✓
****

Yn ei choban grinolîn , yn wyn fel llin ac yn stiff o starts, yn ei llofft lân ddi-lychedyn o lwch o dan gynfasau glanwaith gwyryfol yn Trem y Môr twt, taclus, gwesty i bobol barchus ym mhen ucha'r dref, mae Mrs Ogmore Pritchard, gweddw Mr Ogmore, gwerthwr carpedi, a gweddw Mr Pritchard, methiant o fwci a aeth yn wallgof oherwydd y cwyro a'r rhwbio, grŵn y glanhawr ac oglau'r diheintiwr ac a lyncodd fwy na'r arogl, yn stwyrian yn ei chwsg ac yn deffro mewn breuddwyd i brocio yn eu senau ysgerbydau Mr Ogmore a Mr Pritchard, yn farw gorn o boptu iddi. 1a.

MRS OGMORE PRITCHARD
****

* Mr Ogmore.
† Mr Pritchard.

MR OGMORE
****

O, Mrs Ogmore.

MR PRITCHARD
****

O, Mrs Pritchard.

MRS O.P.
****

Toc, fe fydd yn amser codi.
Rhowch imi'ch tasgau mewn trefn.

MR O.
*****

Rhaid cadw'r peijamas yn nror y peijamas.

MR P.
*****

Rhaid cymryd bath oer sy'n gwneud lles i mi.

MR O.
*****

Rhaid gwisgo gwlanen goch i arbed cricmala

MR P.
*****

Rhaid gwisgo o'r golwg a rhoi ffedog amdana.

MR O.
*****

Rhaid imi chwythu 'nhrwyn.

MRS O.P.

****

Yn yr ardd, os gwelwch yn dda.

MR O.

*****

Mewn hances boced bapur a'i llosgi rhag blaen.

MR P.

*****

Rhaid cymryd fy Andrews, sy'n gyfaill i natur.

MR O.

*****

A berwi'r dŵr yfed i ladd y meicrobau.

MR P.

*****

Rhaid gwneud paned iach fydd yn rhydd o danin.

MR O.

*****

A bwyta bisged siarcol sydd dda i mi.

MR P.

*****

Caf smocio pibellaid o faco asthma.

MRS O.P.

****

Yn y sied, os gwelwch chi'n dda.

MR P.

*****

Tynnu llwch o'r parlwr a chwistrellu'r caneri.

MR O.

*****

Gwisgo menyg rwber i chwilio'r pecinî am lau.

MR P.

*****

Rhoi sglein ar y bleinds cyn imi eu codi.

MRS O.P.

****

A chyn gollwng yr haul 'mewn, gofalwch ei fod o'n sychu'i draed.

Tynnu'r gelau or MRS O.P.
Glau or Gwawn Beynon

LLAIS 2

****

Yn nhŷ Bwtsiwr Beynon mae Gwawn Beynon, yr athrawes o

Lael with Nina & Mrs W.N. on y newspaper
wrap (or y fire)

ferch, wrth ddwfn freuddwydio yn ffereta'n sidêt drwy grugyn o blu ieir mewn lladd-dŷ cysurus, cyrtennog i ganfod, heb syndod, ddyn bach garw , garw, efo rhyfeddod prin o gynnffon yn wincio mewn cŵd papur.

GWAWN BEYNON

****

O'r diwedd,'nghariad i

LLAIS 2

****

ocheneidia Gwawn Beynon . Ac mae'r rhyfeddod prin yn siglo, yn ddigywilydd goch.

ORGAN MORGAN (o'r neilltu)

****

Help

LLAIS 2

****

llefa Organ Morgan , yr organydd, yn ei freuddwyd.

Mae Oci Llefrith yn boddi'n ei gwsg yn Stryd y Cocos ac yn gwagio'i ganiau i'r afon Dewi 1a

OCI LLEFRITH (o'r neilltu)

********** (Sŵn tiaen tŷ bach yn cael e'i tynnu)

heb gyfri'r gost

LLAIS 1a

****

ac yn wylo fel angladd.) Tywyllu ar Gwawn Beynon

((Mae Ceirios Owen, ~~y drws nesaf~~, yn codi tancard at ei wefusau ond ni ddaw dim ohono. Mae'n ysgwyd y tancard. Mae'n troi'n sgodyn. Mae'n yfed y sgodyn.)) 1a

LLAIS 2

****

Golau ar Wili Nini a Mrs W.N.

Mae Wili Nini postmon, ynghwsg i fyny'r stryd, yn cerdded pedair milltir ar ddeg efo'r post, fel bob dydd o'r nos, ac yn curo rat-a-tat-tat, yn sydyn a siarp ar Mrs Wili Nini.

MRS WILI NINI (Sŵn curo'n nosen)

****

Peidiwch a 'nghuro i, plîs, syr

LLAIS 2

****

Cwyna'i wraig wrth ei ochor,ond fel pob nos er pan briododd mae hi'n hwyr i'r ysgol.

LLAIS 1 Tywyllu ar Wili Nini

****

Ces mots coulent sous signed yours?
B. B.

Mae Sinbad y morwr, yn ei lofft uwchben Yr Angor, yn gwasgu'i gobennydd damp o'r enw Gwawn Beynon, 1a

LLAIS 2

****

Mae mogwl yn 'mosod ar Lili Fach yn cwt golchi.

LLAIS 1A LILI FACH (o'r neilltu)

****

O'r hen benbwl o fogwl.

LLAIS 1a

****

Mae Mai, yr hynaf o blant Mrs Rose Cottage, yn pilio'i chnawd pinc a gwyn mewn ffwrnes mewn tŵr mewn ogof mewn rhaeadr mewn coedwig ac yn aros yno, yn noeth fel nionyn, i'r Mistar Reit lamu allan o'r gawod ddail llosg fel eog sgleiniog. 1a

MAI (o'r neilltu)

***

Galw fi'n Gweneira

Fel maen nhw'n gwneud mewn storia.

LLAIS 2

****

(Sŵn chwyrnu)

S.O. 63/4 Ei hunan hyd angau mae Besi Benfawr, hogan wyrcws, yn drewi o'r beudy, yn chwyrnu bas ar wely gwair mewn taflod yn fferm Llwynhalen ac yn casglu tusw o lygaid y dydd i'w rhoi ar fedd Gomer Owen roddodd gusan iddi unwaith heb ei disgwyl wrth y twlc mochyn ond na roddodd gusan iddi byth wedyn er ei bod hi'n disgwyl drwy'r amser.

LLAIS 1a

****

Ac mae'r Archwiliwr Creulonderau'n saethu i lawr i freuddwyd Mrs Beynon i erlid Mr Beynon am weorthu ...

BWTSIWR BEYNON

****

tylluangig, llygaid cŵn, asennau dynion.

LLAIS 1a

****

Mae Mr Beynon, yn ei ffedog waedlyd, yn ei gwadnu hi i lawr Heol y Brenin a bys, nid ei un o, yn ei geg. Mae'n tynnu coes ei freuddwydion ac

BWTSIWR BEYNON

****

yn marchogaeth mochyn i hela'r giblets gwylltion.

ORGAN MORGAN (o'r neilltu)
****
Help!
GWAWN BEYNON
****
Fy nghadno annwyl i. Tywyllwch. Llwyfan isaf (o'r golau glas)
LLAIS 2
****
Mae'r tylluanod yn hela. Edrychwch, uwchben mynwent Bethesda, dyna un yn hwtian ac yn hofran ac yn lleibio llygoden wrth Hannah Rees, annwylaf briod. (Sŵn tylluan)
LLAIS 1a
****
Ac yn Heol y Brenin, nas gwêl ond eich llygaid chwi o dan ambarel y nefoedd, mae'r Parchedig Eli Jenkins, y bardd bregethwr, yn troi'n drwm yn ei gwsg ac yn breuddwydio am... 1a
ELI JENKINS
****
Eisteddfodau!
LLAIS 1a
****
Mae'n codli odli, i fiwsig crwth a ~~ac organ~~ thelyn, drwy gydol y nos yn ei goban dderwyddol mewn cyfarfod misol sy'n ddu gan barchedigion. (Sŵn organ - emyn trwm) Kb
LLAIS 2
****
Mae Mr Puw, yr ysgolfeistr, sy'n cysgu llwynog o dan gantel ei gap nos yn dyfeisio ...
MR PUW
******
Mwrdwr. Tywyllwch
LLAIS 2 (Sŵn - sgrech annaearol merch)
****
Yn Lôn y Mulod, mewn cen o gwsg, mae ~~(Dai Bara)~~ Mr Waldo Poli Gardas a Dei da i ddim yn ochneidio cyn bod gwawr ac yn breuddwydio am ... Kb
~~DAI BARA~~ (MR. WALDO)
****
Harems.
POLI GARDAS (Ymaliab mewn Uwaraiwy)
****
Babis.

Rhan olaf ar y ail ran 3 —

Ar ddiwedd Rhan 1:—

Llwyfan uchaf:-
allan - (P) Mr Ogmore, Mr Pritchard : Menyw 1: Menyw 2
Mrs Ogmore Pritchard
Wili Nini : Mrs Wili Nini
(O): Dillad gwely (O. Ps) (W. Ns) Het fowler Mr Waldo
Dwy gadair o Mrs O. P.
mewn - (O): Bwrdd i Mrs O. P.

Llwyfan isaf -
allan - (P) Mr Waldo, mam Waldo, Gwawn Begnam: Mysterious Press
(O) Oll o'r dillad gwely
cadair mam Mr Waldo
mewn - (O) Bwrdd i dŷ Begnams / C.O.
Pringle i dŷ Begnams

* Newid y sgrîn (dangos yr ail het fowler)

Vivalde
The Four Seasons

DEI DA I DDIM
****

Dim byd.

LLAIS 2
****

(Sŵn cloc yn ticiau)

Mae amser yn cerdded. Clywch. Mae amser yn cerdded.

LLAIS 1a
****

(Sŵn tylluan)

Mae tylluan yn hedfan heibio i Fethesda, i'w chapel yn y deri. Ac mae'r wawr yn ymgripian yn nes. Sefwch yma ar y bryn. Dyma Fryn Llaregyb, cyn hyned â'r hynaf, yn uchel a thawel a gwyrdd, ac o'r cylch cerrig hwn a wnaed, nid gan dderwyddon, ond gan Bili Beynon, gallwch weld y dref yn ei chrynswth yn cysgu yn nhrochiad cyntaf y wawr. (Sŵn ci yn cyfarth) Gallwch glywed y sguthanod yn crwnian yn eu gwlâu. Mae ci yn cyfarth yn ei gwsg ffermdai i ffwrdd. Ac mae'r dref yn tonni fel llyn wrth i'r tarth godi. (Lleisiau allan de a chwith)

Dinedd Rhan 1. (Cerddoriaeth ysgafn)

LLAIS 2
****

Rhan 2.

Mae'r awyr i gyd yn goleuo dros war ein Bryn Llaethog ac yn agor i fore o Wanwyn deiliog, clychog, chwerthinog. (Cerddoriaeth Dilen'r gerddoriaeth)

LLAIS 1
****

(Sŵn cloch)

× â C. Cat allan (chwith)

Pwy sy'n tynnu wrth raff cloch neuadd y dref ond Capten Cat ddall ? Fesul un , mae'r cysgwyr yn cael eu galw allan o'u cwsg y bore hwn fel pob bore. A thoc fe welwch y simneiau yn bwrw eira du wrth i Capten Cat, yn ei gap llongwr a'i fotasau, gyhoeddi heddiw gyda'i gloch.

LLAIS 2
****

(Dilen sŵn y gloch)

Mae'r Parchedig Eli Jenkins yn Nhŷ Capel Bethesda, yn ymbalfalu o'i wely i'w ddu pregethwrol, yn cribo'i wallt derwyddol, yn anghofio molchi, ac yn pitran patran yn droednoeth i lawr y grisiau. Mae'n agor y drws ffrynt, yn sefyll ar y trothwy ac yn syllu allan ar y dydd a thros y bryniau pell, yn gwrando'r môr yn taro'r traeth a'r adar yn clebran, yn cofio'i gerdd ac yn ei hadrodd i Heol y Brenin sy'n araf agor i'r bore.

× Daw E.J. i mewn

(sŵn môr: gwylanod)

ELI JENKINS
****

Fy Ngwalia annwyl, gwn yn iawn
Fod iti drefi glanach
A bryniau grugog uwch na'r rhain
A dolydd llawer harddach.

A choedydd îr yn drwm o ddail
Ac adar yn eu hawddfyd,
A beirdd all roi melysach clod
I wyrth y bore hyfryd.

Ger Cader Idris, drom ei chuwch,
Gogoniant Moel yr Wyddfa,
Carnedd Llewelyn deg ei threm,
Plumlumon goeth ei chwedlau,

Ger bryniau lle bu Arthur fawr,
A Mynydd Penmaen sarrug,
Nid ydyw Bryn Llaregyb bach
Ond megis twmpath morgrug.

Ger Sawdde, Dyfrdwy, Dyfi lân,
Aled a Chonwy lydan,
Tywi a Thawe, Menai, Taf,
Llyfnant a'i gawod arian,

Claerwen, Cleddau, Dulais, Daw,
Elwy, Gwili, Ogwr fwyn
Bychan yw'r afon Dewi, Dduw ,
Fel baban ar ei wely brwyn.

Ger Carreg Cennen, Brenin Braw ,
Nid ydyw Craig y Gigfran
Ond darn o faen sy'n gysgod gwyrdd
I'r wylan ddod i gwynfan.

Rhyw encil fach yw'n coedwig ni
Dan gesail aur Bryn Llaethog,
Ond , O , os caf fi ddewis lle
I aros , bydd drugarog.

Rho imi'r hawl i grwydro'n rhydd
Hyd waen a rhos sydd imi'n nef ,
A gwrando Dewi nos a dydd
Heb orfod byth roi tro o'm tref.

LLAIS 1b
****

Mae'r Parchedig Jenkins yn cau'r drws ffrynt. Mae'r gwasanaeth boreol ar ben.

LLAIS 1 2
****

Wedi'i deffro o'r diwedd o'i breuddwyd am y tywysog tursiog fu'n ei hymlid gydol nos drwy dduwch lledrithiol coedwig Bryn Llaethog gan gloch côd-o'th-wely-paid-a-diogi-rho-y-tecell-Poli-i-ferwi daw Lili Fach, trysor Mrs Beynon i lawr y grisiau. Mae'n rhoi'r tecell ar brimys Mrs Beynon, yn edrych arni ei hun yh nrych siafio Mr Beynon uwchben y sinc ac yn gweld ...

LILI FACH
****

Ww, dyna wyneb.
Lle cest ti'r gwallt 'na ?
I gael o gan hen gwrcath.
Rho fo'n ôl 'ta cariad.
O, dyna berm.

Lle cest ti'r trwyn 'na Lili ?
I gael o gen 'y nhad, y gwirion.
Mae o a'i ben i lawr gent ti.
O, dyna snowt.

Edrych ar dy wynab.
O, na, edrych di.
Mae o angan paent.
Angan fêl.
O, dyna olwg.

Lle cest ti'r wên 'na, Lil ?
Hidia di befo, hogan.
'D oes 'na neb yn dy garu di.
Dyna wyt ti'n i feddwl.
Pwy sy'n dy garu di ?
Ddeuda i ddim.
Tyd 'laen , Lili .
Llaw ar dy galon 'ta?
Llaw ar 'y nghalon.

LLAIS 1
****

16

Ac yn dawel iawn , ei gwefusau'n cyffwrdd y drych, mae'n sibrwd enw ac yn cymylu'r gwydyr.

MRS BEYNON (O'r neilltu)

****

Lili!

LILI FACH

****

Ia, ma'am ?

MRS BEYNON

****

Lle mae nhe i enath ?

LILI FACH

****

(Yn ddistaw) Lle ddyliach chi ? Yn sosar y gath ?

(Yn uwch) Dwad rŵan , ma'am. ✗ ✗ â Lili Fach allan (tywyll, big)

LLAIS 2

****

✗ Yn Nhŷ'r Ysgol gyferbyn mae Mr Puw yn mynd a'r baned foreol ##

i MrsPuw ac yn sibrwd ~~ar y grisiau~~ wrth fynd ... ✗ Daw Mr Puw i newyn

MR PUW

******

Dyma'ch arsenig chi , cariad ,

A'ch bisgedi lladd chwyn.

Rydw i wedi tagu'r parot;

Rydw i wedi poeri'n y dysglau

A stwffio caws i'r tyllau llygod.

Dyma'ch ...

te neis chi , cariad.

MRS PUW

****

Gormod o siygwr.

MR PUW

******

Blaswch o gynta, cariad. ✗ ✗ Daw Lili Fach i newyn efo'i bwced/fedog bach

MRS PUW

****

Gormod o lefrith 'ta . Ydi Mr Jenkins wedi dweud ei farddoniaeth ?

MR PUW

******

Ydi , cariad.

MRS PUW
****
Yna mae hi'n amser codi . Dowch a'm sbectool imi . Na, nid y sbectol ddarllen . Rydw i eisiau edrych allan ; rydw i eisiau gweld ...

LLAIS 1b
****
Lili Fach , y trysor , ar ei phengliniau cignoeth yn sgrwbio'r ffenestr mewn ffrynt.

MRS PUW
****
Mae hi wedi gwthio'i ffrog i'w blwmars . O, 'na gomon.

LLAIS 1
****
(sŵn traed o'i neilltu)
P.C. Attila Rhys , sgwyddau eidion , traed fel badau, yn dyrnu allan o Gefynfa , yn drwm a dugoch o dan fargod laith ei helmed ... 1b

MRS PUW
****
× Daw Pcs. Gardas i mewn
Mynd i restio Poli Gardas mae o , siŵr i chi.

MR PUW
******
Am be , cariad ?

MRS PUW
****
Am gael babis.

LLAIS 1
****
SG. 1907 A ... ac yn bustachu i lawr i'r traeth i wneud yn siŵr fod y môr yn dal yno. 1b

LLAIS 2
****
Lili Fach allan
(gwaed wedi'i ar Mrs P. Hellman - gwaedu)
(Mrs P. yn dal i edrych ar i gwaedu il ei gwyd)
Mae Organ Morgan yn chwarae cordiau ar silff ffenestr ei lofft i ddiddanu'r gwylanod sy'n cecru uwchben eu brecwast ac yn gwylio ...
(Sŵn gwylanod)

DAI BARA
****
× Daw Dai Bara i mewn
Fi, Dai Bara , yn brysio i'r becws , yn gwthio 'nghrys i 'nhrowsus , botymu ngwasgod - ping , dyna fotwm arall i ffwrdd . Pam na fedran nhw 'u gwnio ? Dim amsar i frecwast, dim byd i frecwast - dyna wragedd sydd gen i.
× Â Dai Bara allan

MRS DAI BARA 1
****

Fi , Mrs Dai Bara 1 , yn fy nghap a'm siol a dim hen staes, neis bod yn 'fforddus, neis bod yn neis , yn clocsio drwy'r cobls i alw ar gymdoges . O, Mrs Sara , fedrwch chi fforddio torth , cariad ? Mae Dai Bara wedi anghofio'r bara . 'Na fora braf . Sut mae'ch pendynnod chi bora 'ma ? 'na newydd da ... neis cael rhoi clun i lawr . Ta, Mrs Sara .

MRS DAI BARA 2
****

Fi , Mrs Dai Bara 2 , rêl sipsan mewn pais ysgarlad uwch na 'mhenglinia , penglinia braf , budron . Welwch chi 'nghorff i drwy'r bais, yn frown fel toni , 'sgidia sodla uchal , un sawdl 'di colli , crib gragan yn fy ngwallt hir, tywyll, dim byd arall o gwbwl ond ploryn o sent , yn gorweddian ar ben drws i ddeud eich ffortiwn mewn cwpan, yn gwgu ar yr haul, yn tanio 'mhiball.

DEI DA I DDIM (o'r neilltu)
****

Fi, Dei da i ddim , i fyny i ddim da yn cwt golchi.

MISS PREIS
****

Fi, Miss Preis , yn fy oferôl flodeuog, yn larts wrth y lein, yn daclus fel dryw , yna pit pat yn ôl at fy ŵy yn ei gosi, y bara 'di dostio, y jam eirin duon a'r menyn cartra.

POLI GARDAS
****

Fi, Poli Gardas ((o dan y lein ddillad)) yn rhoi'r fron yn yr ardd i 'mabi bach newydd . 'Does 'na ddim byd yn tyfu yn ein gardd ni ond golch. A babis. A b'le mae dy dad di, 'nghariad i ? Draw dros y bryn ac ymhell i ffwrdd. Rwyt ti'n edrych arna i rŵan . Mi wn i be sy'n dy feddwl di'r un bach llaethog. Meddwl rwyt ti - 'dwyt ti ddim gwell nag y dylet ti fod, Poli, ac mae hynny'n ddigon da i mi . On'd ydi bywyd yn beth dychrynllyd, diolch i Dduw.

LLAIS 1
****

Mae'r padelli a'r tecelli'n hisian a'r cathod yn grwnian yn y gegin . Mae'r dre'n arogli o wymon a brecwast yr holl ffordd o Drem y Môr lle mae Mrs Ogmore Pritchard , mewn hugan a thwrban yn barod i ymosod ar y llwch, yn pigo'i bara brown

ac yn sipian ei the lemwn, i lawr hyd at Tŷ Isa lle mae Mr Waldo mewn bowler a bib yn llowcio'i gaws tost ac yn drachtio o'r botel saws. Mae'r Parchedig Eli Jenkins

ELI JENKINS

****

yn cael gweledigaeth ac yn trochi'i bin ysgrifennu'n y coco.

LLAIS 2

****

Mae Capten Cat yn ei gali

CAPTEN CAT (O'r neilltu)

****

yn mwynhau teimlad ei fwyd môr ar fysedd.

LLAIS 2

****

Ac mae Mr a Mrs Ceirios Owen yn yr ystafell yn Lôn y Mulod sy'n llofft a pharlwr a chegin a phantri yn mwynhau swper neithiwr o nionod yn eu cotiau a chawl tatws a chrawennod a chennin ac esgyrn.

MRS CEIRIOS OWEN

****

Weli di'r staen ar ~~y wal~~ ~~wrth y llun~~ Effrawd Rhun o Anti ? Dyna lle taflaist ti'r sego. Dim ond prin fy methu i wnest ti.

CEIRIOS OWEN (Yn chwerthin)

****

Mi fydda i wastad yn methu Anti hefyd.

MRS CEIRIOS OWEN

****

Wyt ti'n cofio neithiwr ? Dyna ti'n gwegian i mewn, 'machgan i, yn chwil ulw gaib , efo bwcedaid o bysgod a basgedaid o stowt ac fe 'drychaist arna i a deud,'Mae Duw wedi dod adra' meddat ti , a dyna ti'n baglu dros y bwced a dy draed i fyny nes bod y llawr yn un llanast o gwrw a physgod.

C.O.

****

Wnes i frifo ?

MRS C.O.

****

Yna fe dynnaist dy drowsus a deud, 'oes 'na rywun isio ffeot'. Yr hen fabŵn iti.

C.O.

****

Rho gusan imi.



MRS C.O.
****
Ac yna dyna ti'n canu 'Ar hyd y nos' - tenor a bas.
C.O.
****
Mi 'dw i wastad yn canu ar hyd y nos.
MRS C.O.
****
Ac yna fe ddawnsiaist ar y bwrdd.
C.O.
****
Wir yr ?
MRS C.O.
****
I'r diawl a chdi.
C.O.
****
A be wedyn ?
MRS C.O.
****
Wedyn fe griaist fel babi a deud mai amddifad bach oeddat ti heb le i fynd ond y bedd.
C.O.
****
A be wnes i wedyn , fy siwgwr i ?
MRS C.O.
****
Dawnsio ar y bwrdd yr eildro a deud mai ti oedd y brenin Solomon Owen ac mai fi oedd dy Mrs Sheba di.
C.O.
****
Ac wedyn ?
MRS C.O.
****
Wedyn fe ce's i di i dy wely ac fe chwyrnaist drwy'r nos fel bragdy
LLAIS 1
****
O dŷ Bwtsiwr Beynon yn Heol y Brenin daw arogl iau wedi'i ffrio a nionod ar ei anadl. Gwrandewch. Yn y 'stafell frecwast dywyll yng nghefn y siop mae Mr a Mrs Beynon a'u trysor Lili

Fach yn dawnsio tendars , yn mwynhau, rhwng brathiadau, eu hylabalŵ boreol. Mae Mrs Beynon yn gollwng tameidiau o giau o dan y bwrdd i'w chath fawr, foliog.

MRS BEYNON (Cwtsh yn mewian)

****

Mae hi'n hoffi'r iau, Ben.

MR BEYNON

****

Fe ddyla, Bess. Iau i brawd hi ydi o.

MRS BEYNON (Yn sgrechian)

****

O, glywist ti hynna, Lili ?

LILI FACH

****

Do, ma'am.

MRS BEYNON

****

Rydan ni'n bwyta cathgig.

LILI FACH

****

Ydach , ma'am.

MRS BEYNON

****

O'r cigydd cathod.

MR BEYNON x Dow Sinbad i mewn

****

Roedd o wedi'i ddoctora wel'di.

MRS BEYNON

****

Be sy 'nelo hynny â'r peth ?

MR BEYNON

****

Ddoe, twrch daear gawson ni.

MRS BEYNON

****

O, Lili , Lili.

MR BEYNON

****

Dydd Llun , dyfrgi. Dydd Mawrth , llygod.

LILI FACH

****

Peidiwch a gwrando arno fo, Mrs Beynon . Fo ydi clwyddgi mwya'r dre.

MRS BEYNON

****

Paid ti a meiddio dweud hynna am Mr Beynon.

LILI FACH

****

Ond dyna mae pawb yn i ddeud ma'am.

MRS BEYNON

****

Pydd Mr Beynon byth yn dweud celwydd . Yn na fyddwch, Ben ?

MR BEYNON

****

Byth , Bess. A rŵan rydw i am ymlid y corgwn efo 'nhwca bach.

MR BEYNON

****

O, Lili , Lili.

LLAIS 2

****

I fyny'r stryd yn Yr Angor mae Sinbad y morwr yn tynnu peint iddo'i hun . Mae hi'n unarddeg ar y cloc yn y bar. Unarddeg ydi'r amser agor . Mae bysedd y cloc wedi aros ~~ar unarddeg~~ ers hanner canrif. Mae hi wastad yn amser agor yn Yr Angor.

SINBAD

******

I mi, Sinbad.

LLAIS 1

****

Ym mhobman drwy'r dref mae'r babanod a'r henoed yn cael eu molchi a'u carthu , eu rhoi yn eu pramiau a'u cadeiriau, a'u gwthio allan i'r strydoedd coblog neu i'r iard gefn lle mae'r dillad yn dawnsio , a'u gadael. Mae babi'n crio.

HEN WR (O'r neilltu)

******

Rydw i eisiau 'mhibell ac mae o eisiau'i botel.

LLAIS 2

****

Mae trwynau'n cael eu sychu, pennau'n cael eu crafu, clustiau'n cael eu carthu , gwalltiau'n cael eu cribo, dwylo'n cael eu sgrwbio , a'r plant yn cael eu waldian,dan duchan a sgrechian, i'r ysgol.

Sgrifen (2) – rhai'r ffenestr fawr dywyll ohni.

Dechrau Rhan 3.

1. Capten Cat ar y llwyfan wrthef
2. Dau mrs O.P. i mewn ar 'Fe fydd dim'r hen' – llwyfan wrthef
3. Sinbad i mewn ar 'Mae miss Price yn eich cynnwys ...' – llwyfan wrthef

4. Sgrifen 3 yn barod i W.N. Nini a mrs W.N. – llwyfan ar ei ôl.
(ffenestr fawr dywyll
Bursar a'i 2 gwnaio)

5. Bursar a dwy gyfreithiwr yn barod i Dyg. M. a mrs G.M. – llwyfan ar ôl.

6. Mrs Price i mewn o'r dechrau – llwyfan ar ôl
Bursar + 2 gyfreithiwr

7. Miss M.P. i ddod i mewn ar ddiwedd i W.N.

Eraill i ddod i mewn –

1. Nili Nini
2. Mog Edwards
3. Mr Waldo
4. Merched (3) + Mai R.C + mrs Bergman
5. mrs Dai Bara 1.
6. mrs Dai Bara 2.
7. Poli Gordon
8. Eli Jenkins
9. Morgan (Morgan 2 a –)
10. Gwenn Bergman
11. Mr Price.

* Lilian a deb. Buck / Palestina

LLAIS 1
****

Mae'r sgotwyr yn grwgnach wrth eu rhwydau. Mae Dei da i ddim allan yn y Zanzibar, yn codi'r rhwyfau, yn drifftio'n araf ar wastad ei gefn drwy'r bae sy'n llawn lledenod a choesau crancod ac yn syllu i'r glas uwchben. 1b

DEI DA I DDIM (O'r neilltu)
****

Wn i ddim pwy sydd fyny fan'cw a 'dydi o ddiawl o bwys gen i.

LLAIS 2
****

Mae'n troi ei ben i syllu ar Fryn Llaregyb ac yn gweld, heibio i'r coed barfog, y ffermdai gwynion lle mae'r hogia ffarmwrs yn chwibanu, cwn yn gweiddi, gwartheg yn brefu, ond yn rhy, rhy bell i chi, ac yntau , eu clywed.

Diwedd Rhan 2.

LLAIS 2
****

Rhan 3. (Mog E. a Capten C. ar y llwyfan a Mrs Price wrth y drws yn siarad)

Ac yn y dref mae'r siopau'n gwichian yn agored. Mae Mr Mog Edwards yn ei goler bigau a'i het wellt , yn nrws Manchester House, yn mesur â'i lygad y tindrowyr sy'n tario am grysau a blowsiau ac amdo neu ddau ac yn rhuo wrtho'i hun yn y tywyllwch y tu ôl i'w lygaid. 1a

MR EDWARDS (Yn sibrwd)
****

Rwy'n caru Miss Preis.

LLAIS 2
****

Gwerthir suryp yn y Swyddfa Bost. Mae car yn cychwyn i'r farchnad yn llawn ffowls a ffarmwr. Ar gornel Heol y Brenin saif caniau llaeth fel rhes o blismyn arian. Ac wrth ffenestr agored Gwynt Teg clyw Capten Cat yr oll o fore'r dref.

(Lleisiau plant yn y cefndir)

CAPTEN CAT (Yn dawel, wrtho'i hun)
****

Magi Richards, Rici Rhys, Tomi Powell, Sali ni, Gerwain bach, Bili Bwli a'r llais fel ci, un o epil Mr Waldo, Wmffri filan, Jaci snwff ...

Mae rhywun wedi taro Magi Richards. Fetia i mai Bili Bwli . 'Does dim coel ar foi sy'n cyfarth.

Ro'n i'n iawn . Bili oedd o.

LLAIS 1b
****

Ac mae lleisiau'r plant yn crio i'r pellter. 1b

CAPTEN CAT
****
Dyna Wili Nini yn curo yn Nhrem y Môr. Rat a tat , yn dawel iawn. Mae'r nocar yn gwisgo maneg.
Gofalus rŵan, Wili Nini. Mae'r ffrynt fel gwydyr; pob gris fel lwmp o sebon. Gwylia dy draed deuddeg. Fe fyddai'r hen Besi'n cwyro'r lawnt i yrru'r adar a'u traed i fyny.
WILI NINI
****
Bore da, Mrs Ogmore Pritchard.
MRS O.P.
****
Bore da, bostmon.
WILI NINI
****
Llythyr i chi - amlen wedi'i stampio'n amgaedig - yr holl ffordd o Builth. Mae 'na ŵr bonheddig eisiau studio adar ac yn gofyn gaiff o lety am bythefnos , bath a dim cig.
MRS O.P.
****
Na!
WILI NINI
****
Wyddech chi ddim i fod o'n y tŷ , Mrs Ogmore Pritchard. Fe fydda allan ben bora efo'i fagiad o friwsion a'i delesgob bach...
MRS O.P.
****
A dod adra bob awr o'r nos yn blu i gyd . 'Does arna i ddim eisiau pobl yn fy nhŷ glân i yn anadlu ar fy nghadeiriau i...
WILI NINI
****
Llaw ar 'y nghalon , wnaiff o ddim anadlu ...
MRS O.P.
****
... yn rhoi'u traed ar fy ngharpedi a thisian ar fy llestri a chysgu yn fy nghynfasau i ...
WILI NINI
****
Gwely sengl mae o'n i ofyn , Mrs Ogmore Pritchard.
CAPTEN CAT
****

Ac yn ôl a hi i'r gegin i roi sglein ar y tatws. (Mrs O.P. allan)

LLAIS 2

****

Clyw Capten Cat draed mawr Wili Nini yn drwm ar y cobls.

CAPTEN CAT

****

Mae o'n aros wrth Tŷ'r Ysgol.

WILI NINI

****

Bore da , Mrs Puw . 'Dydi Mrs Ogmore Pritchard ddim am gael gŵr bonheddig o Builth rhwng ei chynfasa ac mae ...

MRS PUW

****

Dowch a'r parsel yna i mi.

WILI NINI

****

Ond i Mr Puw mae o Mrs Puw.

MRS PUW

****

Hidiwch befo hynny . Be sydd ynddo fo ?

WILI NINI

****

Llyfr - Bywydau'r Gwenwynwyr Mawr.

CAPTEN CAT

****

Dyna Manchester House.

WILI NINI

****

Bore da , Mr Edwards. Newyddion bach ar y naw . 'Dydi Mrs Ogmore Pritchard ddim am gael adar yn y tŷ ac mae Mr Puw wedi prynu llyfr ar sut i gael gwared â Mrs Puw.

MR EDWARDS

****

Oes ganddoch chi lythyr oddi wrthi Hi ?

WILI NINI

****

Mae Miss Preis yn eich caru chi â'i holl galon . Persawr lafant heddiw . Mae hi i lawr i'r dafn ola o'r gwin ysgaw ond mae'r jam cwins yn par'a'n eitha ac mae hi'n gweu rhosynna ar y doilis . Yr wythnos ddwytha fe werthodd dair potelaid o dda da caled , pwys o hymbygs , hannar bocs o jelibebis a chwe

M.P.: Postman!

(M.P. yn mewn)

(W.N. yn pwyo llythyr i fyny gan M.P.)

(Mrs Puw yn aros - y ddad-baciwr llyfr ali baciwn ôl wedyn)

Aros yno - parcelo'r bwrdd

(W.N. yn cwcio ar y ffenestr)

(M.E. yn dod allan)

(Sinbad i mewn)

cerdyn lliw o Llaregyb . Yr eiddoch hyd byth . Un ar hugain o gusana. (peidir cofio ei enw)

MR EDWARDS

****

O, Wili Nini , mae hi'n berl . Dyma fy llythyr i . Rhowch o'n ei dwylo rŵan.

CAPTEN CAT (M. E. yn gadael)

********** (Mr W. i'm meurn - llwyfan isaf.)

Mr Waldo'n anelu am Yr Angor . Peint o stowt ac ŵy ynddo fo. (Yn dawel) Mae 'na lythyr iddo fo.

WILI NINI (yn galw arno)

****

Symons arall - Dadi Waldo.

LLAIS 2 (W.N. allan)

****

Mae'r traed yn cyflymu dros y cobls ac i fyny'r dair gris garreg i'r Angor.

MR WALDO

****

Sydyn , Sinbad . Peint o stowt . Heb ŵy. (Mrs Pum allan)

LLAIS 2 (Mr W. yn ans yn Yr Angor)

********* (Dau mrs C.O: Mrs D.B. a Mrs B. i'm meurn)

Mae pobol yn symud rŵan , i fyny ac i lawr y strydoedd + y gwtagedd) coblog. o gumpes y pump)

CAPTEN CAT

****

Mae'r merched oll allan heddiw , yn yr haul . Fe allwch ddweud ei bod hi'n Wanwyn . Dyna Mrs Ceirios , fe allwch ei nabod wrth ei charnau , i ffwrdd a hi ar drot , fel eboles fach . Dyna Mrs (Mrs C.O allan) Dai Bara 1 yn jolihoetio fel jeli, pob symudiad yn slap, slap, slap. Pwy sydd 'na rŵan ? Mrs Bwtsiwr Beynon efo'i chath . Mae'n ei dilyn hi i bobman , miaw a'r cwbl. A dyna Mrs dau ddeg tri, (Dau o'r gumgedd i'm meurn -V.) pwysig, mae'r haul yn codi ac yn machlud efo hi ; fe ddaw'r nos ond iddi hi gau'i llygaid. Sodlau uchel rŵan , yn y bore hefyd. Mai Rose Cottage , yn ddeunaw oed ac heb ei chusanu , ho ho , (Dau Mrs C. i'm meurn - ee allan) yn mynd yn ir ac yn ifanc i'r caeau ac yn f'atgoffa i efo pob cam.

Pedra i ddim clywed be maen nhw'n ei glebran . Run fath ag (Mrs B. allan) arfer ddyliwn. Pwy sy'n cael babi , pwy roddodd lygad du i bwy, welsoch chi Poli Gardas yn crasu'i bol yn yr haul, welsoch chi siwmper newydd biws Mrs Beynon*, ei hen un lwyd wedi'i llifo. Pwy sy'n farw ac yn marw , 'na ddiwrnod braf , , y pris sydd

ar fara.
(Sŵn organ yn y pellter)
CAPTEN CAT
****
Mae Organ Morgan wrthi'n gynnar . Fe allwch ddweud ei bod hi'n Wanwyn.
(Sŵn caniau llaeth)
Oci Llefrith ar ei daith . Mi ddeuda i hyn , mae'i lefrith o mor ffres â'r gwlith . Hannar gwlith ydi o . Dal yn d'laen, Oci, i ddyfrio'r dre ... Mae 'na rywun yn dod . Mae'r lleisiau wrth y pwmp yn gweld rhywun yn dod * . Ust , dyna Ust . Gallwch ddweud wrth yr Ust mai Poli Gardas sydd 'na. (Yn uwch) Helo, Poli, pwy sydd 'na ?

* (Daw P.G. i mewn ac at y pump)

POLI GARDAS
****
Fi , bach.
CAPTEN CAT
****
Dyna hi Poli Gardas . (Yn feddal) Helo , Poli 'nghariad i , glywi di hisian mud y gwragedd wrth iddyn nhw swatio a phigo a hercian i ffwrdd ?

(Â'r gwragedd allan)

Pwy ddaru dy garu di pryd ? Pa un o'u ceiliogod nhw fu'n cwynfan dan Fryn Llaethog am dy freichiau mamol a dy gorff fel wardrob, bach ? Sgrwbia lawr y Neuadd Lês at ddawns Undeb y Mamau - fyddi di ddim yno i ysgwyd dy ben ôl bach roli poli yn y cysegr modrwyog heno er gofid i'r gwŷr fydd wedi'u cipio o gnesrwydd myglyd Yr Angor.

(Ceiliog yn clochdar)

(Â P.G. allan - taflu cusan i C.C)

Rhy hwyr , geiliog, rhy hwyr.

(y (bybolfa sŵn) merthed allan)

LLAIS 2
****
Mae bore'r dref ar ei hanner eisoes ac yn grwnian fel gwenyn.
LLAIS 1
****

(Sŵn)

Clywch glip glop y ceffylau ar y cobls cynnes , hymian yr heolydd , pystylad pedolau, gobl gobl cwac cwac, trydar gwas y dryw o'r cangau trystio. Mae bara'n crasu, tiliau'n canu, defaid yn tagu, mulod yn nadu, cŵn yn oernadu. Clywch y bore hwn o Wanwyn yn gweryru a brefu, y gwylanod yn clebran ac yn gwichian, cri'r gylfinir, crawcian bran, crwnian colomen, trawiad cloc, rhuad tarw a holl gybolfa garpiog iard yr ysgol wrth i'r gwragedd re gripian a bladdran wrth siop bob peth Mrs Organ Morgan

(Daw'r gwragedd i mewn)

lle gwerthir cwstard a mwstard, trapia a stampia, siwgwr a phowdwr, bwcedi a rhwydi.

GWRAIG 1

****

Mrs Ogmore Pritchard.

GWRAIG 2

****

la di da

GWRAIG 1

****

Mae ganddi ddyn yn Builth

GWRAIG 2

****

ac mae ganddo fo delesgob bach i wylio adar

GWRAIG 1

****

medda Wili Nini.

GWRAIG 2

****

Ydach chi'n cofio'i gŵr cynta ? 'Doedd hwnnw ddim angan telesgob.

GWRAIG 1

****

Burych arnyn nhw'n tynnu'u dillad drwy'r twll clo y bydda fo

GWRAIG 2

****

a gweiddi Taliho!

GWRAIG 1

****

Ond roedd Mr Ogmore yn rêl boneddwr

GWRAIG 2

****

er iddo grogi'i gorgi.

GWRAIG 1

****

Welsoch chi Mrs Bwtsiwr Beynon ?

GWRAIG 2

****

Deud roedd hi fod Bwtsiwr Beynon yn carfio cŵn.

GWRAIG 1

****

Tynnu'i choes hi mae o.

GWRAIG 2

****

Peidiwch a meiddio deud hynny wrthi , 'mach inneu mi fydd yn meddwl 'i fod o am 'i thynnu hi i ffwrdd a'i bwyta hi.

GWRAIG 1

****

Criw diffaith sy'n byw yn y dre 'ma erbyn meddwl.

GWRAIG 2

****

Dyna i chi Dei da i ddim

GWRAIG 1

****

rhy ddiog i sychu'i drwyn

GWRAIG 2

****

allan bob dydd yn sgota a'r cwbwl ddaliodd o oedd rhyw Mrs Samuels.

GWRAIG 1

****

A dyna chi Dai Bara efo dwy wraig

GWRAOG 2

****

un i'r dydd ac un i'r nos.

GWRAIG 1

****

Hen gnafon ydi dynion.

GWRAIG 2 (yn gadw i ochr y llwyfan chwith)

****

A sut mae Organ Morgan, Mrs Morgan ?

GWRAIG 1

****

Mae golwg legach arnoch chi.

~~GWRAIG 2~~ MRS ORGAN MORGAN

****

Organ, organ ydi hi efo fo.

GWRAIG 1

****

I fyny tan berfeddion yn chwarae'r organ.

MRS ORGAN MORGAN (O'r neilltu -de)

****

O, mi 'dw i'n ferthyr i fiwsig. W. N.: newyn (Â'r gwragedd allan)

LLAIS 1a 1b

****

Mae'r haul yn disgyn ar y dref. Mae'n rhedeg drwy wrychoedd 1a

Lôn y Gwyddau , gan oglais yr adar i drydar. Mae'r Gwanwyn yn chwipio'n wyrdd i lawr Lôn Gocos ac mae'r cregyn yn canu. Mae Llaregyb y bore brathog hwn yn aeddfed a chynnes, y caeau, y strydoedd, y tywod a'r dyfroedd yn ffynnu yn yr haul ifanc.

LLAIS 2 (Mrs W.N. i mewn) a W.N. " "

****

(W.N. yn chwi'r llythyr i'w)

Yng nghegin fach dywyll damp Wili Nini'r postmon, lle mae'r tecell yn hisian a ffrwtian a dawnsio ar bentan mae Mrs Wili Nini yn stemio'n agored lythyr Mr Mog Edwards at Miss Myfanwy Preis ac yn ei ddarllen yn uchel i Wili Nini yng ngoleuni'r llygedyn haul sy'n sbecian drwy'r un ffenestr fach sy'n wlyb o ddagrau, tra mae'r ieir carpiog yn y cefn yn aros dan snwffian a chwynfan am y te du, pygddu.

MRS WILI NINI

****

O Manchester House, Llaregyb . Perch: Mr Mog Edwards (gynt o Twll) Drepar a theiliwr. Dillad nos, dillad dydd, dillad isa, dillad ucha, dillad parti, priodi a geni. Yn barod at bob achlysur . Dillad rhâd i rai o'r wlad. Ymysg ein prynwyr ples mae gweinidogion yr efengyl a J.Ps. Yn hysbysebu'n wythnosol yn Tafod Twll. F'anwylyd Myfanwy Preis, fy mhriodasferch yn y nef.

MR EDWARDS (O'r neilltu)

****

Fe'ch caraf hyd angau ac yna byddwn gyda'n gilydd hyd byth. Daeth parsel newydd o rubanau o Gaerfyrddin heddiw, o holl liwiau'r enfys. Fe hoffwn i gael clymu rhuban yn eich gwallt - un gwyn - ond nid yw hynny i fod. Fe freuddwydiais neithiwr eich bod chi'n eistedd ar fy nglin, yn diferu'n wlyb, wrth i'r Parchedig Eli Jenkins fynd heibio. Mi wela i fod ganddoch chi forforwyn ar eich glin , medda fo, a chodi'i het. Mae o'n Gristion o ddyn. Nid fel Ceirios Owen . Fe ddylech ei thaflu hi'n ôl , medda fo. Mae busnes yn ddifrifol. Fe brynodd Poli Gardas ddwy ardas rosynnau ond fyddhi byth yn gwisgo sanau a be ydi'r iws medda fi. Fe geisiodd Mr Waldo werthu coban imi - un anferth - wedi'i ffeindio hi medda fo ac fe wyddon ni ymh'le. Fe werthais baced o binnau i Twm llongwr bigo'i ddannedd. Os aiff pethau ymlaen fel hyn yn y wyrcws y bydda i. Mae 'nghalon i yn eich mynwes a'ch un chi yn f'un i . Duw fo gyda chwi, Myfanwy Preis , i'ch cadw'n bur i mi yn ei balas nefol. Hyd byth, Mog Edwards.

MRS WILI NINI

****

Ac yna neges wedi'i stampio - Siopwch efo Mog.

LLAIS (1b)
****
Mae Wili Nini a'i stumog yn corddi yn bustachu allan i'r Tŷ
cyffredin yn y cefn lle mae'r ieir yn crio, ac yn gweld, mewn
fflach o heulwen, (â W.N. allan)
LLAIS (2)
****
y gwylanod yn gwibio i lawr i'r harbwr lle mae'r sgotwyr yn
pwyso ac yn poeri ac yn llygadu'r môr sy'n las llyfn hyd at y
gorwel . Yn ei gyfoeth o bysgod llithrig llathr mae addewid
aur ac arian, hetiau pluog, tuniau eog, gwres at y gaeaf-a-
fydd. Ond sylla'r sgotwyr drwy lygaid gleision diog ar y llyn
llefrith o fôr heb na rhych na chrych fel petai'n saethu seirff
a magnelau ac yn bygwth boddi'r dref.
PYSGOTWR (Yn ddioglyd, o'r neilltu)
****
Rhy arw i sgota heddiw.
LLAIS 2
****
Diolchant i Dduw a phoerant ar eu cledrau am lwc cyn gadael y
môr llonydd a dringo'n dawel i fyny'r rhiw am Yr Angor wrth
i'r plant
(Cloch ysgol)
LLAIS 1
****
chwipio a chwyrlio dan ganu'n groch allan o'r ysgol . Ac mae
Capten Cat wrth ei ffenestr yn adrodd wrtho'i hun eiriau'u
cân.
CAPTEN CAT
****
Joni Ffol a Fflosi Goch
Yn cadw'u babi mewn bwced bwyd moch,
Fflosi Goch a Joni Ffol,
Un yn tynnu allan a'r llall yn rhoi yn ôl.

O, 'nhwrn i'n awr medd Fflosi Goch
I dynnu'r babi o'r bwced bwyd moch,
A 'nhwrn i'n awr medd Joni Ffol
I'w daro ar ei ben a'i daflu'n ôl.

Joni Ffol a Fflosi Goch
Yn cadw'u babi mewn bwced bwyd moch,
Un yn taflu i mewn a'r llall yn tynnu'n rhydd
A rhoi iddo i'w yfed gwrw bob dydd

Cans roedd Joni Ffol a Fflosi Goch
Yn dweud bob anser fod cwrw coch
Yn dda i fabi mewn bwced bwyd moch.

LLAIS 2 (Tawelwr Ueisiau)
********* (Mrs O. P. i mewn) - i Panpau)

Mae miwsig y bydysawd i'w glywed uwch Bryn Llaethog, Siffrwd y Gwanwyn ydi o.

(Cerddoriaeth)

LLAIS 1
****

Mae côr bach yn canu ym mynwent Bethesda, yn g'lonnog ond dan gaead. 1b

(Mrs D.B. 1 a Mrs D.B 2 i mewn. Eistedd ar y steps)
fruchgrumtaich faine

LLAIS 2
****

Mae Mrs Ogmore Pitchard yn torri gwynt yn sidêt i'w hances boced ac yn ymlid yr haul efo'i chadach ond ni all hi hyd yn oed gael gwared â'r Gwanwyn. ((Tŷf briallen o botyn bys.)) Sho!

LLAIS 1 (Mrs O. P. allan)
****

Eistedd Mrs Dai Bara 1 a Mrs Dai Bara 2 (~~y tu allan i'w tŷ~~) yn Lôn y Mulod, y naill yn blodeuo'n dew a'r llall yn dywyll yn yr haul gwibiog, gludiog. Mae Mrs Dai Bara 2 yn syllu i'r belen wydyr sy'n arffed ei phais felen fudur, yn galed yn erbyn ei chluniau tywyll. 1b

MRS DAI BARA 2
****

Croeswch fy nghledr ag arian - o'r lwans cadw tŷ. Aaa ...

MRS DAI BARA 1
****

Be welwch chi, bach ?

MRS D.B. 2
****

Gwely plu . A thri gobennydd arno . Ac adnod uwchben y gwely. Fedra i mo'i ddarllen , mae'r cymylau'n hel. Ond maen nhw'n chwalu . Duw cariad yw medda'r adnod.

MRS D.B. 1
****

Ein gwely ni ydi o.

MRS D.B. 2
****

Ah , dyna fo wedi diflannu. Mae'r haul yn troi fel top . Pwy ydi hwn sy'n dod allan o'r haul ? Dyn bach blewog efo gwefusau mawr pinc . A llygad diog...

Captain Cat
(pictis margica N.V.)

MRS D.B. 1
****
Dai. Dai Bara ydi o.
MRS D.B. 2
****
Sh, mae'r gwely plu'n hedfan yn ôl. Mae'r dyn bach yn tynnu'i sgidia. Yn tynnu'i grys dros 'i ben. Yn dobi'i frest efo'i ddyrna . Yn dringo i'r gwely.
MRS DAI BARA 1
****
Be nesa ? Be nesa ?
MRS D.B. 2
****
Mae 'na ddwy ddynes yn y gwely. Mae o'n edrych arnyn nhw, o un i un, a'i ben yn gam . Yn chwibanu drwy'i ddannadd. Rŵan mae o'n lapio'i freichia am un o'r merchad.
MRS D.B. 1
****
(P. G. i newn)
Pa un ? Pa un ?
MRS D.B. 2
****
Alla i weld dim mwy . Mae'r cymyla'n hel eto.
MRS D.B. 1
****
O, yr hen gymyla gythral.
(Â Mrs D.B. 1. allan)
LLAIS 1
****
(Daw E.J. i newn)
Mae'r bore yn ganu i gyd. Mae'r Parchedig Eli Jenkins ar ei daith fugeiliol yn oedi y tu allan i'r Neuadd Lês i wrando ar Poli Gardas wrth iddi sgrwbio'r ~~llorian~~ stepian at ddawns Undeb y Mamau heno. 1b
POLI GARDAS (Yn canu)
****
Ro'n i'n caru dyn o'r enw Twm
Yn gryf fel arth a'r un mor drwm,
Ro'n i'n caru dyn o'r enw Dic
Yn grwn fel casgen ac mor ddwl â phric;
Ac yn caru dyn o'r enw Harri
Chwe llath o ddyn ac yn felys fel sheri.
Ond fy ffefryn i, y nos neu y dydd,
Oedd Wili Wi bach sydd dan chwe troedfedd bridd.
(Mr P. i newn. nîc y llyfr, ac allan)

O, roedd Twm, Dic a Harri yn ddynion di-glwy
Ac ni chaf brofi'r fath gariad byth mwy,
Ond Wili Wi bach a'm cymrodd ar ei lin, (Â mrs D.B.2 tlean)
Wili Wi bach i mi oedd y dyn.

Daw gwŷr o bobman, bach a mawr ,
I'm cwrsio i a'm taflu ar y llawr,
Ond wrth imi garu'r rhain yn ôl,
Joni o'r bryn neu Jaci o'r ddôl,
Meddwl y bydda' i yn eu breichiau'n glyd
Am Twm, Dic a Harri, y rhai gorau i gyd,
Ond yn amlach fyth fe feddyliaf i
Am un a fu farw - fy Wili Wi fi.

O, roedd Twm, Dic a Harri yn ddynion di-glwy
Ac ni chaf brofi'r fath gariad byth mwy,
Ond Wili Wi bach a'm cymrodd ar ei lin,
Wili Wenci bach i mi oedd y dyn.
ELI JENKINS
****
Clod i Dduw. Rydan ni'n genedl gerddorol.
LLAIS 2
****
A brysia'r Parchedig yn ei flaen drwy'r dref i gysuro'r
cleifion efo'i jeli a'i gerddi. (Â E. J. allan)
LLAIS 1
****
Mae'r dref cyn llawned â'chalon cariad. 1b.
MR WALDO (Â P.G. allan)
****
Dacw'r Parchedig
LLAIS 2
******** (Rhain i gyd eisiau yn Yr Angor)
medd Mr Waldo, wrth ffenestr frown, fudur Yr Angor
MR WALDO
****
efo'i froli a'i gerddi . Fyny a fo, Sinbad. * (parcio gwydr) Rydw i ar y tring
heddiw.
LLAIS 1
****
((Mae'r sgotwyr selog yn golchi'u peintiau i lawr.)) 1b
SINBAD (Â P.G. allan)
******
(adroddiad arall (fonod))
O, Mr Waldo

Mrs P yn parcio eisiau

LLAIS 2
****
ochneidia Sinbad.
SINBAD
******
Mi 'dw i'n gwirioni ar Gwawn Beynon . Mae hi'n ledi drosti.
LLAIS 1
****
Ac mae Mr Waldo, sy'n hiraethu am hogan feddal fel Efa, siarp 1b
fel seiatica i rannu'i bwdin bara o wely yn ateb
MR WALDO
****
Wn i am 'r un ledi sy'n ledi drosti.
LLAIS 2 (Daw G. B. i mewn)
****
Mae Gwawn Beynon yn ei sodlu hi o'r ysgol . Mae'r haul yn hymian drwy flodau cotwm ei gwisg i fela'i chalon, i orwedd yn feddw fodlon yn aeron cochion ei bronnau. Mae'n fflachio fel fflam o dân heibio i'r Angor, yr unig ferch mewn Gardd Eden o fyd. Ac mae Sinbad, yr Adda addolgar, yn gorffwys ei ddwylo blewog, gwlithog ar ei chluniau.
GWAWN BEYNON
****
Dim ots gen i os ydi o'n gomon,
LLAIS 2
****
sibryda wrthi'i hunan
GWAWN BEYNON
****
rydw i eisiau i lyncu o'n gyfan. Dim ots gen i os ydi o'n methu treiglo.
LLAIS 2
****
Ac mae Sinbad yn ei gwylio'n mynd heibio, yn sidêt a balch yn ei gwisg flodeuog a'r het sy'n herio'r haul, heb na chip na thro ar ei thin, rhewferch y cigydd wedi'i chuddio am byth rhag gwasgiad gwancus ei lygaid. (Mae O. P. yn dod, i blewdwr i yoyrge Rhiain bwdd)
SINBAD
****
O, Gwawn Beynon , pam rydach chi mor falch
LLAIS 2
****
gofidia i'w gwrw. (Â G. B. allan)

LLAIS 1 (2) (Daw mr P. i mewn)
****
Y tu ôl i'r bleind yn ystafell fwyta Tŷ'r Ysgol, sy'n llychlyd ac oerllyd fel cegin mewn claddgell, mae Mr a Mrs Puw'n dawel uwchben eu pastai lwyd, oer. Mae Mr Puw'n darllen, rhwng fforceidiau o gig amrwd, allan o Fywydau'r Gwenwynwyr Mawr. Mae ganddo glawr papur brown am y llyfr. Yn slei, rhwng cegeidiau araf, mae'n cewcian ar Mrs Puw, yn ei gwenwyno â'i lygad, ac yn dal ymlaen â'i ddarllen. Mae'n tanlinellu brawddegau ac yn gwenu ynddo'i hun. 1a

MRS PUW
****
'Dydi pobol fanesol ddim yn darllen wrth y bwrdd bwyd

LLAIS 1
****
medd Mrs Puw. Mae'n llyncu tabled setlo stumog sydd gymaint â philsen ceffyl ac yn ei golchi i lawr efo'r dŵr piblyd. 1b

MRS PUW
****
Fe gafodd rhai pobol eu magu mewn cytiau moch.

MR PUW
******
'Dydi moch ddim yn darllen wrth y bwrdd bwyd, cariad.

LLAIS 1
****
Mae Mrs Puw'n sgytio llwch o'r pot pupur a hwnnw'n glawio ar y bastai. 1b

MR PUW
******
Fedr moch ddim darllen, cariad.

MRS PUW
****
Mi wn i am un fedr.

LLAIS 1 (2)
****
Yn labordy prysur ei ddychymyg mae Mr Puw'n teimlo'i ffordd heibio i danciau a photiau, yn camu'n fân ac yn fuan drwy goedwig • lysiau i gymysgu, yn arbennig i Mrs Puw, uwd gwenwynig (nag gŵyr y Gwenwynwyr Mawr amdano) fydd yn gwiberu'n ferwedig drwy'i gwythiennau nes bod ei chlustiau'n syrthio i ffwrdd fel ffigys, ei bodiau'n chwyddo'n swigod mawr duon a stêm yn sgrechian o'i botwm bol. 1a (LLAIS 1: chwythwch pig tecell)

(Daw o. M. i mewn)

Organ Morgan upon the
River runs o Sebastian Bank away
forest

MR PUW
******

Chi ŵyr orau, cariad,

LLAIS 1
****

medd Mr Puw , ac , ar fflach, mae'n ei throchi mewn cawl llygod mawr.

MRS PUW
****

Beth ydi'r llyfr yna wrth eich cafn, Mr Puw ?

MR PUW
******

Gwaith diwynyddol, cariad. Bywydau'r Saint.

LLAIS 1
****

Mae Mrs Puw yn gwenu ac awyr oer y gladdgell fwyta'n rhewi'n gorn.

MRS PUW
****

Fe'ch gwelais i chi'n siarad efo santes y bore 'ma. Santes Poli Gardas. Fe gafodd ei merthyru eto neithiwr. Fe welodd Mrs Organ Morgan hi efo Mr Waldo.

MRS ORGAN MORGAN
****

A phan welson nhw fi dyna nhw'n cymryd arnyn chwilio am nythod

LLAIS 2
****

medd Mrs Organ Morgan wrth ei gŵr, ei cheg yn llawn pysgod fel un pelican.

MRS ORGAN MORGAN
****

Ond 'dydi rhywun ddim yn mynd i chwilio am nythod mewn trons fel un Mr Waldo , medda fi wrtha'n hun, a'ch ffrog dros eich pen fel Poli Gardas. O, ddarun nhw mo 'nhwyllo i.

LLAIS 2
****

Un llynciad llawn, a dyna'r sgodyn o'r golwg . Mae'n llyfu'i gweflau ac yn gwanu eto.

MRS ORGAN MORGAN
****

A phan feddyliwch chi am yr holl fabis sydd ganddi, mi fydda'n well iddi roi'r gora i chwilio am nythod, dyna ydw i'n 'i ddweud.

'Dydi o ddim ffit o hobi i ddynas sy'n methu dweud na, hyd yn oed wrth gorrach. Ydach chi'n cofio Bob Fflemsan. 'Doedd o ddim mwy na babi 'i hun ac mi roddodd ddau iddi . Ond maen nhw'n ddau o hogia neis, Ffred Fflemsan ac Arthur . Weithia mi fydd yn well gen i Ffred, ac weithia Arthur. P'run ydi'r gora ganddoch chi, Organ ?

ORGAN MORGAN

****

O, Bach heb amheuaeth . Bach bob amser i mi.

MRS ORGAN MORGAN

****

Organ Morgan, 'dydach chi wedi gwrando 'r un gair. Organ organ ydi hi efo chi rownd rîl ...

LLAIS 2

****

Mae'n beichio crio ac, o ganol môr hallt ei dagrau, mae'n gwanu lledan ac yn ei llyncu'n gyfan.

ORGAN MORGAN

****

Ac wedyn Palestrina

LLAIS 2

****

medd Organ Morgan.

Mrs O. M. ocean

POLI GARDAS (O'r reilltu)

****

Ac ni chaf brofi'r fath gariad byth mwy.

LLAIS 1

****

1b.

Mae Poli ddel yn hymian ac yn hiraethu.

POLI GARDAS (Yn canu) (O'r reilltu)

****

Pan ddaw hogia ffarmwrs ar ddydd gŵyl
I lawr o'r bryniau i yfed a chael hwyl
Fe fyddaf cyn nos yn eu breichiau'n glyd -
Yr hogia da drwg o ben draw'r byd,

(Yn gadael y llwyfan)
Mrs O. M.)
Mr. O. M i fynd ar ei ffordd
(brysio ymlaen) fo.
gadael y llwyfan

Ond meddwl bob amser wrth garu wnaf i
Am un a fu farw, fy Wili Wi fi.

TALELWEN.
Tryfan.

Diwedd Rhan 3

LLAIS (1b) (1a)

Rhan 4 (Mr a Mrs P. yn aros ar y llwyfan. a C.C.) a Mrs D.B.D. ar y llwyfan)

****

PERDDORIAETH.

2/2/1 Mae'r prynhawn araf dioglyd yn dylyfu gên ac yn sumera drwy'r dref gysglyd. Mae'r môr yn rholio, yn llyfu ac yn llempian a'r

Eli Jenkins ar y llwyfan yn ei gadeirydd.

(dann i raus gnua
falla)

pysgod yn cysgu'n ei arffed. Mae'r caeau'n Sabothol lonydd, y teirw taslog yn cau'u llygaid a phantiau'r geifr a llygaid y dydd yn hepian yn hapus. Mae'r llynnoedd hwyaid yn slwmbran a'r cymylau'n gorffwyso ar Fryn Llaregyb. Mae'r moch yn trochi mewn môr o fwd ac yn gwenu wrth rochian a breuddwydio. 1a

MRS PUW Mrs D. Bar 2 i mewn X

****

'Dydi pobol fanesol

LLAIS 1a

********* 1a

arthia Mrs Oer Puw

MRS PUW

****

ddim yn hepian wrth y bwrdd bwyd.

LLAIS 1a

****

Mae Mr Puw yn ysgryd yn effro . Gwisga'i wên sebon meddal, yn drist a llwyd o dan fargod y mwstash Fictorianaidd o felyn ŵy a baco sy'n tyfu'n hir a thrwchus er cof am Doctor Crippen. 1a

MRS PUW

****

Fe ddylech aros nes mynd i gadw i'ch twlc

LLAIS 1 a

****

medd Mrs Puw, yn felys fel rasel. Mae'i chwarter gwên ffals yn fferru. Yn slei a thawel, mae'n sleifio i'w ffau ac yno, yn hysian ysig crochenni a ffiolau'n orlawn o'r frech a'r Pla Du mae'n consurio cawl o lysiau gwenwynig, nicotîn, broga peth, seianeid a phoer 'stlumod i'r wrach grachog, ei gywely gecrus, ei styllen brocer o wraig. 1a) 1a.

(â mrs Puw allan)

MR PUW (ar ôl hôl)

******

Begio'ch pardwn, cariad.

LLAIS 2

****

s.m. 219 243 Mae Capten Cat, ei ffenestr yn agored i'r haul a'r moroedd y bu'n eu hwylio ers talwm pan oedd ei lygaid yn loew las, yn slwmbran ac yn mordwyo ; tlysau'n ei glustiau a Rwy'n caru Rosie Probert yn datŵ ar ei fol ; mae'n paffio efo poteli ym mabel mwll bariau'r dociau, yn mela merched ym mhob hafan heli ac yn mwydo efo meirwon y môr. Mae'n wylo wrth hwylio'n ei gwsg. Mrs Dai Bar 2 *

(â mr Puw allan)

C.C. a R. Probert

* — *

LLAIS 1a
****

Mae Dei Da i ddim yn bachu staes - i fachiad cyntaf heddiw. 1a

DEI DA I DDIM
****

'Ma ddiawl o sgodyn.

LLAIS 1a
****

Gwêl, â llygad ei feddwl, Mrs Dai Bara 2 heb ddim yn ei chylch 1a
ond breichled.

DEI DA I DDIM
****

Mae hi'n gwisgo'i gŵn nos . Fasach chi'n hoffi'r staes gwlyb
'ma, Mrs Dai Bara 2 ?

MRS DAI BARA 2
****

Ddim diolch.

DEI DA I DDIM
****

A brathiad o f'afal bach i ?

LLAIS 1a
****

cynigia, heb obaith.

Mae'n siglo'i gŵn nos pres ac yntau'n ei hymlid o'i feddwl. Pan 1b 1a
ddaw'n ôl ar flaen y gwynt, yno, yng nghannwyll losg ei lygad,
mae merch geisha'n gwenu'n glên mewn cimono o bapur reis.

DEI DA I DDIM
****

Mi 'dw i isio bod yn Dei da, ond cha' i ddim.

LLAIS 2
****

S.G. 2450 Mae'r prynhawn yn grwnian fel gwenyn diog gylch y blodau gylch
2455 Mai Rose Cottage. Yn drwm o gwsg mewn cae o ~~eifr~~ sy'n cornio'r
haul mae'n anadlu cariad ar goden fwg.

MAI ROSE COTTAGE (Yn ddioglyd)
****

Mae o 'ngharu i
'Dydi o ddim.
Mae o.
'Dydi o ddim.
Mae o - yr hen sglyfath gwirion.

LLAIS 2
****

Mae'n gorwedd yn unig mewm meillion melyn. Deunaw oed ac heb garu'n y gwair - ho ho.

LLAIS 1 (Deir dau ddiwrn yn mynd allan)

****

Mae'r Parchedig Eli Jenkins yn ei gell gerddi yn dweud y gwir a dim ond y gwir yng ngwaith mawr ei fywyd - Poblogaeth, Prif Ddiwydiant, Morwriaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Llysieueg, Bywydeg - Llyfr Gwyn Llaregyb. Mae darluniau o feirdd a phregethwyr enwog yn flew o ben i benglin yn hongian drosto gyda'r lluniau dyfrlliw dyfrllyd o Fryn Llaethog, fel salad letys yn gwywo. Mae'i fam, sy'n gorffwys yn erbyn potyn rhedyn a'i gwasg cyn feined â'i modrwy briodas, yn dioddef yn ei staes.

ELI JENKINS

****

O, engyl, byddwch ofalus o'ch cyllyll a'ch ffyrc

LLAIS 1

****

gweddia. Nid oes yma lun o Esau ei dad a ddiurddwyd oherwydd ei wendid ac a gafodd ei bladuro hyd at yr asgwrn un cynhaeaf tra'n cysgu efo'i wendid yn yr ŷd. Collodd ei goes a phob uchelgais.

ELI JENKINS

****

Nhad druan

LLAIS 1

****

gofidia'r Parchedig Eli Jenkins

ELI JENKINS

****

i farw o'r ddiod gadarn ac amaethyddiaeth.

LLAIS 2 (Dechrau tywyllu)

****

Mae dechrau diwedd y dydd hwn o Wanwyn i'w weld yn llynnoedd llonydd llygaid y gwartheg wrth iddyn nhw bigo'u ffordd am y fferm. Geilw Besi Benfawr arnynt wrth eu henwau bedydd ...

BESI BENFAWR (O'i reilltu)

****

Peg, Meg, Pol a Mol,
Nel o'r cae pella,
Ceinwen a Cora.

LLAIS 2

****

Maen nhw'n crymu'u pennau.

Chwiliwch am Besi Benfawr yn Llyfr Gwyn Llaregyb ac fe gewch ychydig garpiau ac un llinnyn arian ei Hanes wedi eu taenu ar y tudalennau mor ofalus, gariadus â chudyn gwallt y cariad cyntaf, coll. Wedi'i chenhedlu yng nghoed Bryn Llaethog, ei geni mewn sgubor, ei lapio mewn papur a'i gadael ar riniog. Yn fawr ei phen a chras ei llais bu'n symud drwy'r tywyllwch nes i Gomer Owen ei chusanu unwaith, ar her. Heno, a phob hen arall, yng ngolau'r un gusan honno mae Besi'n godro'i gwartheg hoff wrth i'r gwyll gawodi'n araf dros feudy a môr a thref.

LLAIS 1 (Mrs O. P. i mewn)

****

Mae'r dref ar frig y nos. Mae pob stryd goblog, goronog, gwsberog yn brifford y gwyll ac mae llwch y cyfnos, eira cynta'r nos, cwsg yr adar, yn lluwchio o dan a thrwy wyll bywiol treftadaeth serch. (Golau cryf machlud haul)

Llaregyb yw prifddinas y gwyll.

Mae Mrs Ogmore Pritchard, wrth i ddafn cynta cawod y nos syrthio yn selio'i drysau ac yn cau ei bleinds, yn eistedd fel styllen ar gadair gefn uchel ac yn ewyllysio cwsg oer. Ar unwaith, ar ddwywaith, daw Mr Ogmore a Mr Pritchard a fu, drwy gydol marw'r dydd, yn hel straeon ysbrydion yn y sied ac yn cynllunio dinistr eu gweddw wydyr yn ochneidio ac yn llithro tua'r tŷ glân. (Mr O. a Mr P. i mewn)

MR PRITCHARD

****

Chi gynta, Mr Ogmore.

MR OGMORE

****

Ar eich ôl chi, Mr Pritchard.

MR PRITCHARD

****

Na, na Mr Ogmore, chi gweddwodd hi gynta.

LLAIS

****

Ac i mewn a nhw drwy dwll y clo, yn diferu dagrau o'r lle bu eu llygaid unwaith.

MRS OGMORE PRITCHARD

****

Wŷr!

LLAIS

****

medd Mrs Ogmore Pritchard yn ei chwsg. Mae surni cariad yn ei llais ar gyfer un o'r ysbrydion shabi. Hydera Mr Ogmore nad

iddo fo. Felly hefyd Mr Pritchard.
MRS O.P.
****
Rydw i'n eich caru chi'ch dau.
MR O. (Mewn ofn)
*****
O, Mrs Ogmore.
MR P. (Mewn arswyd)
*****
O, Mrs Pritchard.
MRS O.P.
****
Toc fe fydd yn amser mynd i'r gwely. Rhowch imi'ch tasgau mewn trefn.
MR O. a MR P.
****
Rhaid tynnu'r peijamas o drôr y peijamas.
MRS O.P. (Yn oeraidd)
****
Ac yna eu tynnu nhw i ffwrdd,
LLAIS 2
****
I lawr yng ngwyll y dref mae Mai Rose Cottage yn gorwedd yn y meillionm yn gwrando'r ~~geifr~~ Donkey yn cnoi ac yn addurno'i bronnau efo minlliw.
MAI ROSE COTTAGE (O'r neilltu)
****
Mi 'dw i'n ffast. Mi 'dw i'n hogan ddrwg. Mae Duw am fy nharo i'n farw. Mi 'dw i'n ddeunaw. Uffarn fydd fy niwadd i ...
LLAIS 2
****
meddai wrth y ~~geifr~~ ...
MAI ROSE COTTAGE
****
'Rhoswch chi . Mi becha i nes byrstio.
LLAIS 2
****
Mae'n gorwedd yn isel, yn aros y gwaethaf a'r geifr yn cnoi ac yn crechwen.
LLAIS 1a
****
Ac yn nrws Tŷ Capel Bethesda mae'r Parchedig Jenkins yn adrodd ei gerdd fachlud i Fryn Llaregyb. 1b

ELI JENKINS
****

Yn y bore gyda'r wawr
Un weddi rof, fy Arglwydd mawr,
O, cadw'th lygad ar y byd
A'i greaduriaid gwael a mud.

Bob nos ar fachlud haul rhof lef
I ofyn bendith ar y dref,
Ni wyddom pryd daw'n diwedd ni
Ond plygu wnawn i'th 'wyllys di.

Cymysgedd ydym ni, O Dduw,
Sydd dan Fryn Llaethog yma'n byw,
O bawb, y cyntaf fyddi di
I weld rhinweddau ynom ni.

Rho inni oriau eto i'w byw
A'th fendith arnom heno, Dduw,
Plygwn i'r haul a'i gryfder o
A dweud nos da - dim ond dros dro.

LLAIS 2
****

'Dydi Lili Fach ~~i~~ fyny i ddim da efo Dei da i ddim yn cwt golchi. (C. ac mewn)

Ac i ffwrdd a Ceirios Owen, mor sobor â'r Sul, fel pob dydd o'r wythnos i feddwi'n gorn fel y gwna bob nos o'r wythnos.

CEIRIOS OWEN
****

Deud ydw i fod ganddi hi ddau ŵr - un yn feddw a'r llall yn sobor

LLAIS 1
****

medd Ceirios Owen. Ac meddai Mrs Ceirios

MRS CEIRIOS OWEN (O'r neilltu)
****

On'd ydw i'n lwcus ? Rydw i'n caru'r ddau.

SINBAD
****

S'mai, Ceirios.

CEIRIOS OWEN
****

S'mai, Sinbad.

SINBAD
******
Be gymri di ?
CEIRIOS OWEN
****
Gormod.
SINBAD
******
Mae'r Angor wastad ar agor ...
LLAIS 2
****
cwyna Sinbad a'i galon ar dorri...
SINBAD
******
O, Gwawn , agor ditha.
LLAIS 1
****
Boddir y gwyll am byth hyd yfory. Mae hi'n nos yn awr. Mae'r dref wyntog yn fynydd o ffenestri ac o'r tonnau geilw goleuadau lampau'r ffenestri y dydd a'r meirwon yn ôl. Ac yn y tywyllwch mae babanod a hen ddynion yn cael eu breibio a'u suo i gysgu.
GWRAIG 3
****
Si lwli mabi, mae Huwcyn yn dwad ...
GWRAIG 2
****
Sigli di di, taid, ar y brig fry
Pan chwyth y gwynt fe'th siglir di,
Pan gwyd y gwynt tyrr y brig ar ei hyd,
I lawr y daw taid a'i wisgars i gyd.
LLAIS 2
****
Mae merched di-briod yn powdro ac yn pincio yn eu llofftydd ar gyfer Dawns y Byd.
Ac mae'r yfwyr yn Yr Angor yn yfed i fethiant y ddawns.
YFWR
****
I lawr a'r neidio a'r dawnsio ...
CEIRIOS OWEN
****
'Dydi dawnsio ddim yn naturiol.

* LLAIS 2 : Mae Mr Waldo yn ei gornel o'r Angor, yn canu :
MR WALDO (yn canu)

*

LLAIS 2
****
barna Ceirios Owen, sydd newydd lyncu'i ddeunawfed peint o chwerw cynnes, Cymreig.
LLAIS 1a
****
Mae lantern ffermwr yn wreichionen ar Fryn Llaregyb. 1a
LLAIS 2
****
Bryn Llaregyb - ysgrifenna'r Parchedig Eli Jenkins yn ei gell gerddi ...
ELI JENKINS
****
Bryn Llaregyb, y carnedd cyfrin, cofadail i'r rhai fu'n byw dan gesail Bryn Llaethog cyn i'r Celtiaid adael Gwlad yr Haf a lle bu'r hen ddewiniaid yn creu merch o flodau. *
Daw Capten Cat i mewn tra mae mr W/n gorffen canu.
LLAIS 1a
****
Mae Capten Cat ddall yn dringo i'w fwnc. Mae'n gweld fel cath yn y twllwch. 1a
CAPTEN CAT
****
Dai'r dawnsiwr?
MORWR 1
****
Yn par'a i ddawnsio.
CAPTEN CAT
****
Jona Jarvis?
Sluŵ la allan?
MORWR 2
****
Yn par'a.
LLAIS 2
****
((Daw'r meirwon allan yn eu dillad Sul.))
LLAIS 1
****
Clywch y nos yn torri.
Mr C. O. at fleur y llwyfan 1b
Mr W. allan (yn anglo traidd)
LLAIS 2
****
(O.M. i mewn)
A Organ Morgan i'r capel i chwarae'r organ. Gwêl Bach yn gorwedd ar garreg.

ORGAN MORGAN
****
Johann Sebastian.
CEIRIOS OWEN (Yn feddw)
****
Pwy ?
ORGAN MORGAN
****
Johann Sebastian anfarwol Bach. O, Bach fach.
CEIRIOS OWEN
****
I'r diawl a chdi.,
LLAIS 2
****
medd Ceirios Owen, sy'n cymryd hoe ar garreg fedd ar ei ffordd adref.
LLAIS 1a
****
Mae Mr Mog Edwards a Miss Myfanwy Preis yn hapus ar wahân yn nau begwn eitha'r dref, yn ysgrifennu'r llythyrau caru nosweithiol. Yn Llyfr Gwyn Llaregyb gallwch weld ynysoedd bychain eu bodlonrwydd.
MYFANWY PREIS
****
O, Mog, rwy'n eiddo i chi am byth.
LLAIS 1a
****
Ac mae'n syllu gyda phleser ar y stafell fach daclus na chaiff Mr Mog Edwards byth ei deintio.
MR EDWARDS (o'i Llwyfan)
****
Dewch i'm breichiau, Myfanwy.
LLAIS 1a
****
Ac mae'n gwasgu'i arian bendigedig i'w galon.
LLAIS 2
****
Ac yn y coed cêl mae Mr Waldo feddw yn cofleidio'i fendigedig Poli Gardas o dan lygaid a thafodau'r cymdogion a'r adar, ac yn malio 'r un dam. Mae'n clecian ei wefusau cochion. Ond nid ei enw ef sydd ar dafod Poli Gardas wrth iddi prwedd yn ei freichiau o dan y dderwen.
POLI GARDAS (O'r neilltu)
****

Ond meddwl bob amser wrth garu wnaf i
Am un a fu farw , fy Wili Wi fi.

LLAIS 1

****

Mae'r awyr denau'n duo ! Daw ochenaid o awel o'r dŵr crychlyd wrth i'r strydoedd gau mewn cwsg ac i goedwig Bryn Llaethog agor. Y goedwig sy'n baradwys gêl i gariadon ac yn ardd Eden i Meri Ann Morwr a ŵyr fod nefoedd ar y ddaear a bod pobl etholedig Duw yn ffynnu yng ngwlad Llaregyb. Y goedwig sy'n wely mawr cymunol i hogia ffarmwrs ar ddyddiau gŵyl, ac, i'r Parchedig Eli Jenkins, yn destun pregeth werdd ar ddiniweidrwydd dynion. Yn sydyn, mewn sgytwad o wynt, mae'r goedwig honno'n ail ddeffro i'r dydd hwn o Wanwyn.

S.C. 3147 Niwed.

Cerddoriaeth

Y DIWEDD

[1]

'Un Porchell'/*Dylan yn Fern Hill*

[T. James Jones, 'Un Porchell', teipysgrif anghyhoeddedig a gafwyd gan yr awdur, 22 Mai 2017. Ar wahân i rai gwahaniaethau, yr un, yn ei hanfod, yw'r testun hwn â *Dylan yn Fern Hill,* a ddarlledwyd ar BBC Radio Cymru 26 Hydref 2014.
Nodir trawsgrifiadau'r awdur presennol o'r fersiwn a ddarlledwyd ar y radio mewn print coch isod. Ar wahân i'r ychwanegiadau hyn, cadwyd y ddogfen wreiddiol fel y'i cafwyd, er enghraifft, o ran fformat.]

UN PORCHELL

Drama Radio - T. James Jones

LLAIS = DYLAN THOMAS (OEDOLYN)

Cymeriadau:

JIM – 62 oed. Wncwl Dylan. Ffarmwr afradlon Fern Hill. Eglwyswr.

DYLAN – 12 oed.

ANN – 64 oed. Anti Dylan. Ffarmwreg weithgar Fern Hill. Capelwreg.

IDRIS – 28 oed. Mab Fern Hill. Araf, hynod, ysgeler. Uchelgais – pregethu.

[2]
GOLYGFA 1
1926

TRÊN YN CYRRAEDD GORSAF CAERFYRDDIN AR BRYNHAWN BRAF O HAF

SYNAU PLATFFORM YR ORSAF YN Y CEFNDIR.

JIM

Dylan! Dylan! Ma' dy Wncwl Jim di fan hyn!

DYLAN

Hylo.

JIM

Jawl, gredes i bo' ti wedi colli'r trein. O'n i'm yn dy weld ti'n unman. Dere i fi ga'l dy weld ti. Wel, FACHGEN, FACHGEN, ti 'di prifio! Faint wyt ti nawr?

DYLAN

Deuddeg

JIM

Douddeg, myn yffach! Jawch! Ti'n dechre llygadu'r crotesi erbyn hyn 'te. A byddan nhw'n cwmpo dros 'i gily' i afel yn y cwrls melyn 'na, heb sôn am bopeth arall s'da crwt pert fel ti. Dere! Ma'r gaseg yn disgwl amdanon ni. (YN CANU WRTH FYND A SYNAU'R ORSAF YN PYLU) Iesu tirion gwêl yn awr / Blentyn bach yn plygu lawr / Wrth fy ngwendid trugarha / Paid â'm gwrthod Iesu da. **CANU CALON LÂN**

Y DDAU'N DRINGO I'R TRAP . . . PORCHELL, MEWN SACH, YN SGRECHEN . . .

DYLAN YN OEDOLYN YN ADRODD PENNILL 2 'FERN HILL'

[3] JIM

Rho dy fag lawr fanna a stedda arno fe. A phaid â becso am y porchell. Fydda i'n ca'l 'i wared e whap. O'dd y dafarn ynghlo pan ddes i heibo gynne. A jawl, so dy Wncwl Jim yn lico tafarne ar glo WIRIONEDD. Nawrte Bes, bant â'r cart! (Sŵn gorchymyn i geffyl symud) (YN CANU) – Draw draw yn Tsheina a thiroedd Japan . . .' **CALON LÂN**

Y TRAP A'R PONI'N SYMUD BANT . . . AC YN PYLU . . .

DYLAN YN OEDOLYN YN ADRODD PENNILL 2 'FERN HILL'

LLAIS

Mae ROEDD hi'n hwyr y prynhawn ym mis Gorffennaf, un naw dau chwech, ac Wncwl Jim YN MYND Â FI YN Y TRAP A PHONI I FFARM FERN HILL AR GYRION PENTREF LLANGAIN, SHIR GÂR. AWN YN ÔL FY ARFER ERS RAI BLYNYDDOEDD I DREULIO'R GWYLIAU HAF YN FERN HILL. a'i nai, Dylan, crwt penfelyn o rhif pump Cwmdonkin Drive, Uplands Abertawe, ar eu ffordd i ffarm Fern Hill, ym mhentre Llangain, Shir Gâr. Mae Dylan, yn ôl ei arfer ers rhai blynyddoedd, am dreulio gwyliau'r haf ar eu hyd yn Fern Hill. Pwy sy'n OEDD YN disgwyl yn eiddgar amdano AMDANA I yno yw ei OEDD Anti Ann, a'i gefnder A'M CEFNDER Idris. O RAN OEDRAN, ROEDD TIPYN O FWLCH RHWNG IDRIS A MINNE. ROEDD IDRIS YN SAITH AR HUGEN OND YN DAL I FYW GARTRE.

GOLYGFA 2

CEGIN FERN HILL. CLOC YN TARO PUMP . . . ENTER IDRIS

[4] ANN

Ie? Sawl un sy'n weddill? WEL… SAWL PORCHELL GOWNTEST TI?

IDRIS

Pedwar.

ANN

'Na un arall wedi diflannu 'te. 'Sen i wedi dod nôl yn gynt . . . Paid â neud 'na, Idris! Sawl gwaith sy' rhaid i fi weud? So ti fod rhoi dy fys yn y pwdin reis!

IDRIS

Moyn pishyn bach o'r grofen o'n i, 'na gyd.

ANN

Wel so fe'n beth neis o gwbwl. Ble a'th dy fanyrs di, sa i'n gwbod. Dere i fi ga'l gweld coler y crys, 'na . . . O! Ma' fe'n fochedd! Rhaid i ti'i newid e. Ma' un glân, cras, 'da fi fan hyn, newy' stilo. 'Sdim iws i ti ddishgwl fel trampyn. Fydd Dylan bach fel pin o deidi. Ma' Florrie wastod yn ei wishgo fe'n bert. Ma' rhywfaint o hunan-barch 'da'n teulu ni ar ôl o hyd, whare teg iddi, er gwaetha popeth. Ond amdanot ti, sa i'n gwbod beth 'na' i â ti, wir. A ma' digon ar 'y meddwl i, heb i tithe beri gofid i fi. NAWR, Tyn y crys 'na. FE HELPA I DI. Alli di'm neud dim dros dy hunan? Ac erbyn gweld, bydde'n well i ti newid dy drowser 'fyd. Est ti'm miwn i'r twlc, do fe?

LLAIS

Chwaer i Florrie, mam Dylan, yw Ann, Fern Hill. Mae hi ar gyrraedd ei thrigen a phump, ROEDD ANTI ANNI AR GYRRAEDD EI THRIGEN A PHUMP, a thrwy ymdrech galed wedi llwyddo i gadw dau ben llinyn ynghyd, er gwaethaf

[5]

afradlonedd ei gŵr, Jim, ac arafwch a diogi ei mab, Idris. Prif atyniad DDILEIT Jim mewn bywyd yw OEDD treulio diwrnod bant o'r ffarm i feddwi a chael cwmni menywod yn nhafarnau Caerfyrddin a'r cyffiniau. ByddE FE'n dwgyd ambell borchell o'r twlc er mwyn cael arian ychwanegol i brynu cwrw. GAN AMLAF GARTRE BYDDE IDRIS, YN CHWILIO BYTH A BEUNYDD AM ESGUS I OSGOI MYND I'W WAITH. BU AM GYFNOD YN GWEITHIO YN SIOP BEN EVANS YN ABERTAWE. AETH WEDYN I SIOP DEBYG OND DIPYN YN LLAI YNG NGHAERFYRDDIN. A DYNA BLE DDYLE FE FOD Y DIWRNOD YR O'N I'N MYND AR FY NGWYLIAU I FERN HILL. OND PRIN IAWN OEDD EI DDIDDORDEB E YN Y GWAITH. EI UNIG UCHLGAIS OEDD BOD YN BREGETHWR, OND OHERWYDD IDDO FFAELU POB ARHOLIAD, NI CHAFODD FYND YN AGOS AT GOLEG. A DWEUD Y GWIR, ROEDD IDRIS YN GYMERIAD HYNOD … AC UNIG. A PHAN O'N I YN FERN HILL FLWYDDYN YNGHYNT, SYLWEDDOLAIS I FOD IDRIS YN F'ATGOFFA O GYMERIAD UNIG A HYNOD ARALL YR O'N I WEDI'I ADNABOD ERS RAI BLYNYDDOEDD YN YR UPLANDS, ABERTAWE. Y CRWCA O'N I'N EI ALW FE ACHOS O'DD GYDA FE GEFN GRWCA. BYDDE'R CRWCA'N TREULIO'I DDYDDIE YM MHARC CWMDONKIN, A OEDD O FEWN ERGYD CARREG I'M CARTRE, 5 CWMDONKIN DRIVE. MAE'N AMLWG NAD OEDD GANDDO UN MAN ARALL OND Y PARC I FYND IDDO FE. AI YNO PETH CYNTA' YN Y BORE HEB FYND O'NA NES Y BYDDE'R CEIDWAD YN CANU CLOCH CAU'R CLWYDI. ER BOD CYWILYDD MAWR ARNA I I GYFADDE, PAN O'N I'N YR YSGOL GYNRADD BYDDWN I'N ARFER YMUNO Â CHRYTS ERAILL I WNEUD SBORT AM BEN Y CRWCA A'I FWLIO A'I GWRSO RHWNG Y LLWYNI.

(SŴN CLOCH, SŴN PLANT – HEI MISTER HEI HEI MISTER)

OND PAN O'N I AR ADAEL YR YSGOL GYNRADD, FE DDECHREUAIS I GYDYMDEIMLO Â'R CRWCA. TEIMLO TRUENI DROSTO FE. TEIMLO BO' FE'N CAEL CAM AC YMHEN BLYNYDDOEDD WEDYN YSGRIFENNAIS I'R GERDD AMDANO – Y CRWCA YN Y PARC. MISHTIR FEL MEUDWY… 6.02

DYLAN THOMAS YN ADRODD PENNILL 1 'Y CRWCA YN Y PARC'

Mae mab Fern Hill, Idris, sy'n saith ar hugain oed, adref gan amlaf, gan nad oes ganddo ddiddordeb mewn cadw swydd. Ei unig uchelgais yw bod yn

[6]

bregethwr, ond oherwydd iddo ffaelu pob arholiad, ni chafodd fynd yn agos at goleg. Mae Idris yn gymeriad hynod . . . ac unig. A phan oedd Dylan ar ei wyliau haf y llynedd dechreuodd synhwyro fod Idris, oherwydd ei unigrwydd, yn ei atgoffa o gymeriad unig arall y mae'n ei adnabod ers blynyddoedd yn ei gynefin yn Abertawe, sef y Crwca, sy'n treulio'i ddyddiau ym Mharc Cwmdonkin sy' o fewn ergyd carreg i'w gartref. Pan oedd Dylan yn yr ysgol gynradd, arferai ymuno â chryts eraill i wneud sbort am ben y Crwca, ei fwlio, a'i gwrso rhwng y llwyni, fel ci strae . . .

GOLYGFA 4

PARC CWMDONKIN. SYNAU PLANT YN CHWARAE, CLOCH YSGOL A HWTERI LLONGAU. SŴN DŴR PISTYLL YN RHEDEG. CYFARTH CŴN . . LLEISIAU BECHGYN YN GWEIDDI A CHWERTHIN - Hei! Mister! - Hei! Mister! Hei! Mister!

[7]

SYNAU BECHGYN YN RHEDEG RHWNG LLWYNI A CHOED. BRIGAU'N HOLLTI DAN DRAED. BECHGYN YN LLAFARGANU - Hei! Mister! Hei Mister! Hei Mister! CI YN CHWYRNU . . . BECHGYN YN CHWERTHIN . . .

ERBYN HYN WY'N DEALL PAM Y PENDERFYNAIS I GWPLA'R BWLIO. FE DDES I WELD FY HUNAN YN DEBYG I'R CRWCA YN PARC. RO'N INNE WEDI DECHRE SYLWI AR GROTESI HEB WYBOD YN IAWN BETH I NEUD Â'R TEIMLADAU DIEITHR O'DD YN DECHRE CORDDI. RO'N I'N GWELD Y CRWCA DRUAN AR YNYS EI UNIGRWYDD YN CAEL TEIMLADAU TEBYG. WY'N COFIO'R RHWYSTREDIGAETHAU RHYWIOL. COFIO LLYGADU MERCHED HEB WYBOD SUT I GREU PERTHYNAS A DYCHMYGU FOD Y CRWCA'N CAEL PROFIADAU TEBYG WRTH LYGADU'R NYRSUS O'DD YN DOD I'R PARC YN YSTOD YR AWR GINIO. DIM OND YN EIN DYCHYMYG Y GALLEN I A'R CRWCA ADNABOD MENYW. AC FE GES Y SYNIAD GWYLLT BO' FE'N DYCHMYGU CREU MENYW, NID FEL GWYDION YN Y CHWEDL YN CREU BLODEUWEDD MAS O FLODE. OND YN CREU EI FENYW FE O'I ESGYRN CRWCA EI HUNAN. A'R HEN GI CWSG A LUNIAI…

PENNILL 2 'Y CRWCA YN Y PARC' 7. 24

LLAIS

Arferai Dylan fod gyda'r cryts gwawdlyd. Ond erbyn hyn, ac yntau yn ei arddegau cynnar, dechreuodd gydymdeimlo â'r Crwca. Ymhen ychydig flynyddoedd bydd Dylan y bardd yn sgrifennu cerdd amdano, sy'n ei ddarlunio'n dychmygu creu, o'i esgyrn crwca, 'fenyw laned, sythed â llwyfen ifanc, dalsyth . . .' Yn y gerdd hon, cofio y mae Dylan y bardd am ei brofiadau ei hunan adeg ei arddegau cynnar; cofio'n arbennig ei rwystredigaethau rhywiol; cofio llygadu merched heb wybod sut i greu perthynas ag un ohonyn nhw; ac mae'n dychmygu fod y Crwca yn cael profiadau tebyg; dim ond yn eu dychymyg y gall ef a'r Crwca adnabod y rhyw arall. Ac yn Fern Hill, fe wêl Dylan ei gefnder yn gorfod ymdopi â'r un math o rwystredigaethau. Pan oedd ar ei ymweliad flwyddyn yn ôl, darganfu Dylan rai o lyfrau Idris wedi'u cuddio dan y gwair yn yr ydlan; llyfrau a brofai i'r Dylan ifanc fod Idris yntau yn gorfod bodloni ar greu ei fenyw ddychmygol. Ni ddatgelodd hyn wrth Idris. Ond flwyddyn yn ôl roedd Dylan wedi sylweddoli ei fod yntau ac Idris a'r Crwca yn

[8]

yr un cwch! Ni ŵyr Dylan fod Ann yn ymwybodol o rwystredigaethau Idris. Mae gan Ann lygaid barcud. A does dim llawer yn digwydd yn Fern Hill heb i hithau wybod amdano. Mae Idris, druan, yn cael ei ddal ganddi'n amal. Ac mae hynny'n wir am Jim ei gŵr hefyd.

AC YN FERN HILL, ROEDDWN I WEDI DECHRE SYLWI BOD FY NGHEFNDER IDRIS YN GORFOD YMDOPI Â'R UN MATH O RWYSTREDIGAETHAU. AR FY NGWYLIAU FLWYDDYN YNGHYNT FE WELES I RAI O LYFRE IDRIS WEDI'U CWATO DAN Y GWAIR YN YR YDLAN, LLYFRE A BROFODD I FI FOD IDRIS HEFYD YN GORFOD BODLONI AR GREU EI FENYW DDYCHMYGOL. WEL, DIM LLYFRE OEDDEN NHW MEWN GWIRIONEDD OND CYLCHGRONE. O'N I DDIM WEDI GWELD EU TEBYG NHW AC FE GELE DAD A MAM SIOC FAWR TASAN NHW'N GWYBOD BO' FI WEDI'U GWELD NHW. DDWEDES I DDIM BYD WRTH IDRIS. FAINT O'DD ANTI ANNI'N GWYBOD AM RWYSTREDIGAETHAU IDRIS, DO'N I DDIM YN SIŴR AR Y PRYD. OND GWYDDWN HEFYD FOD GAN ANTI ANNI LYGAID BARCUD A DOEDD DIM LLAWER YN DIGWYDD YN FERN HILL HEB IDDI HI WYBOD AMDANO FE.

GOLYGFA 5

Y TRAP A'R PONI'N ARAFU AC YN STOPO TU FAS TAFARN

JIM

Nawrte, aros di i garco'r gaseg trw' bo' fi'n ca'l gwared y porchell 'ma. (JIM YN CODI'R SACH A'R PORCHELL YN SGRECHEN) Ti'n lico'r gaseg, on' wyt ti? Gei di fynd ar 'i chefen hi fory. TI'N SIWR FYDDI DI'N IAWN FAN HYN?

[9]

DYLAN

ODW.

JIM

OS RWBETH ‘DA TI I’W DDARLLEN?

DYLAN

OES.

JIM

WEDA I WRTHA TI BETH… DIM OND ITI BEIDIO SÔN WRTH DY ANTI ANNI BO’ FI ‘DI GALW’N FAN HYN… GEI DI FYND AR GEFEN BES ‘FORY, IAWN?

DYLAN

IAWN!

JIM

‘SDIM ISIE DY ANTI ANNI WYBOD Y CWBWL ‘NAWR OES ‘NA! FYDDA I’M YN HIR.

SGRECH Y PORCHELL YN DIFLANNU I RIALTWCH TAFARN. PYLU SYDYN WRTH I DDRWS Y DAFARN GAU’N GLEP.

[10]

GOLYGFA 6

CEGIN FERN HILL. Y CLOC YN TICIAN

ANN

MA'N Rhaid i ti fynd nôl i'r gwaith Dydd Llun, IDRIS.

IDRIS

Sa i'n moyn.

ANN

[11]

Os byddan nhw'n moyn dy weld ti nôl. Ti'n gwbod dy fod ti'n whare â thân, on'd wyt ti? Fe gei di'r sac os na fyddi di'n garcus. A beth wnei di wedyn? Alla i'm ffwrdo dy gadw di. A ta beth, so fe'n beth neis o gwbwl i rywun o dy oedran di i fod yn segur. Sa i'n gwbod pam fynnest ti beido mynd heddi.

IDRIS

O'n i'm yn teimlo'n dda. Sawl gwaith sy'n rhaid i fi weud 'thoch chi?

ANN

Wyt ti wedi iwso'r esgus 'na'n rhy amal yn ddiweddar.

IDRIS

Dim esgus yw e.

ANN

Wel, ti 'weld wedi gwella erbyn hyn, ta beth. Beth o'dd yn bod 'not ti?

IDRIS

Ond wedes i wrthoch chi. Cylla tost a dolur rhydd.

ANN

'Na pam halest ti dy fore mas yn y tŷ bach, ife?

IDRIS

Nage.

ANN

O? Beth o't ti'n neud 'na 'te? Wyt ti wedi dachre darllen y sothach brwnt 'na 'to?

IDRIS

[12]

Nadw.

ANN

Wy wedi gweud a gweud 'thot ti. Colli dy olwg, wnei di. 'Na beth ddigwyddith SY'N DIGWYDD, medde nhw. Colli dy olwg. A shwt 'nei di ymdopi wedyn? Pan fydd dy fam yn ei bedd, fydd hi'n dywyll bitsh 'not ti. MA 'SBYTY CAERFYRDDIN YN LLAWN O DY SORT DI. Dim ond Ca'rfyrddin sy o dy fla'n di os na wyt ti'n FYDDI DI'N garcus. Reit. Ca' fwtwme'r crys 'na nawrte, a gwisg dy drowser. A wy'n begian arnot ti i MA'N RHAID ITI ddangos esiampl dda i Dylan bach tro hyn. Paid â meddwl bo' fi'm yn cofio beth ddigwyddodd tro dwetha. O'dd 'i gloi fe lawr yn y seler am orie ddim yn beth neis o gwbwl. O'n i'n galler gweld bo' fe wedi ca'i ofan ofnadw. A o't ti wedi clwmu'i ddwylo tu ôl 'i gefen e'n dynn, druan bach. DIM O'R NONSENS O'I GLOI FE LAWR YN Y SELYR A CHLWMU'I DDWYLO TU OL 'I GEFEN E, DRUAN BACH. RHAG DY GYWILYDD DI.

IDRIS

Fe DYLAN o'dd wedi gofyn i fi am stori'r crogwr.

ANN

Ond do'dd dim rhaid 'i glwmu fe'n y seler er mwyn gweud y stori 'na. SAI MOYN CLYWED RHAGOR.

IDRIS

OND O'dd e am ga'l gwbod shwt o'dd merch y crogwr yn teimlo.

ANN

Ie, wy'n gwbod. Ti wedi gweud 'tho i sawl gwaith. DIM RHAGOR O'R NONSENS WEDES I.

IDRIS

Pam y'ch chi'n gofyn 'te?

[13]

ANN

Achos bo' fi'n treial deall dy feddwl di, Idris BACH. Treial darllen beth sy' rhwng y ddwy glust 'na.

IDRIS

A o'n i'n moyn 'i gosbi fe.

ANN

Pam? O MOWREDD!

IDRIS

Ma' Duw yn cosbi.

ANN

Ond dim Duw wyt ti.

IDRIS

Licen i fod.

ANN

Gad dy ddwli. Reit, 'na welliant. Ti'n edrych yn smart nawr.

IDRIS

Ma' Duw yn gweld popeth. A licen i weld popeth.

ANN

So ni fod gweld popeth. A ta beth, os wyt ti'n credu bo' Duw yn gweld popeth, ma' fe'n dy weld ti, ta ble wyt ti.

IDRIS

Wy'n gwbod.

[14]

ANN

Yn gwely. Mas ar clos. Yn y sgubor. Ar lan yr afon. Ac yn y tŷ bach YN DARLLEN SOTHACH BRWNT Y BYD.

LLAIS

Flynyddoedd cyn I ANTI AnnI a'i theulu fynd i fyw i Fern Hill, dyn o'r enw PWY O'DD YN BYW YNO O'DD Robert Rickets Evans oedd yn byw yno, fe a'i wraig a'i unig ferch. Roedd Robert RICKETS Evans yn rheoli'r aelwyd fel unben, a phan geisiodd ei ferch briodi rhywun nad oedd Robert Evans yn E'N hoff ohono, fe'i carcharwydODD hi, druan, gan y tad yn ei hystafell wely; gosod clo ar y drws a barau haearn ar y ffenest. Ond mae hanes diddorol ac ofnadwy arall i Robert RICKETS Evans. Fe oedd dirprwy grogwr carchar Caerfyrddin. Bob A PHOB tro y crogid drwg weithredwr, gwaith Robert Evans EI WAITH oedd cynorthwyo'r prif grogwr. AC FE FFOLODD IDRIS AR Y STORI WRTH DDARLLEN AMDANO MEWN HEN BAPURE O'DD ANTI ANNI WEDI'U CADW. ROEDD ANTI ANNI YN FALCH O HOFFTER IDRIS O DDARLLEN. PETAI OND YN DARLLEN LLYFRE O'DD WRTH EI BODD HI – DIM SOTHACH BRWNT Y BYD, YS DYWED HI. DIM BOD Y BYD HWNNW'N HOLLOL DDIETHR IDDI GAN IDDI GAEL EI CHYFLWYNO 'N IFANC IAWN I GYMHLETHDODAU BRWNT Y BYD PAN FU MEWN PERTHYNAS LOSGACHOL AG WNCWL A HITHAU OND YN EI HARDDEGAU. Ai ceisio dod â stori'r crogwr yn fyw i'w gefnder oedd Idris wrth gloi Dylan yn y seler? Neu a ddangosodd y digwyddiad fod 'na ochr ysgeler i gymeriad Idris? Cawn weld. Un peth sy'n sicr yw bod Idris yn hoff o ddrama. Cymerai ran mewn perfformio dramâu yn lleol. A'i hoffder arall, fel y gwyddom ni, oedd darllen. Byddai Ann yn falch o hynny wrth gwrs, petasai yn darllen llyfrau oedd wrth ei bodd hi. Ond roedd hi, fwy nag unwaith yn ddiweddar, wedi ei ddal e'n darllen 'sothach brwnt y byd' ys dwedodd hi. Nid bod y byd hwnnw'n hollol ddierth iddi. Mae'n debyg i Ann gael ei chyflwyno'n ifanc iawn i gymhlethdodau 'brwnt y byd' gan iddi fod mewn perthynas losgachol ag wncwl iddi pan oedd hi yn ei harddegau. Ond tra roedd BYDD Ann yn ymdrechu i arbed ei mab rhag bryntni'r byd, ni sylweddolai DOEDD HI DDIM YN SYLWEDDOLI mai hi ei hunan oedd yn rhannol gyfrifol am orfodi GYFLWR Idris AC AM EI ARFERION i fodloni ei deimladau

[15]

HUNAN YN rhywiol wrth ddarllen straeon maswedd. Roedd hi wedi ei wahardd rhag cael perthynas â merched, am ei bod yn ofni nad oedd ganddo'r gallu i osgoi dod â merch i drwbwl, YS DYWED HI. Yn ei ffordd ei hunan, roedd Ann gymaint o deyrn ar ei haelwyd â Robert RICKETS Evans y crogwr!

GOLYGFA 7

SŴN DRWS Y DAFARN YN AGOR. RHIALTWCH Y BAR YN Y CEFNDIR YN PYLU'N SYDYN WRTH I'R DRWS GAU. JIM YN PECIAL WRTH INNI EI GLYWED YN DRINGO I'R TRAP . . .

JIM

SORI I DY GADW DI CYN HIRED. A'TH PETHE DROS BEN LLESTRI. WHARE TEG ITI, TI WEDI CARCO'R GASEG. NAWRTE. BANT Â'R CART. BETH TI'N DDARLLEN FAN 'NA? BETH 'SDA TI? DERE WELD? JAWL! HAMLET! DY DAD ROIODD HWN ITI? Ti'n olreit Dylan bach? Beth ti wedi bod yn darllen fan'na. So ti'n darllen storis brwnt, os bosib.

[16]

DYLAN

Nadw. IE.

JIM

Beth s'da ti 'te? Dere weld. Jawl! Hamlet! Pwy roiodd hwn i ti?

DYLAN

Dadi.

JIM

Myn yffach i! O'n i wastod yn ofni bo' fe O MA Defi John off ei ben. Ond . . . Hamlet. Wyt ti'n 'i ddyall e 'te?

DYLAN

Tamed bach.

JIM

OND TI'N RHY IFANC I DDYALL HAMLET GLEI?

DYLAN

NADW MEDDE DAD.

JIM

BETH MA' DEFI JOHN YN TREIAL NEUD GWED? YDI E'N MEDDWL BO' TI'N OTS NA'R CYFFREDIN? DIM OND CAERFYRDDIN SYDD O FLAEN LOT O'R RHEINA COFIA.

DYLAN

BE' CHI'N FEDDWL?

[17]

JIM

YSBYTY CAERFYRDDIN LLE MA' POBOL SY' OFF EU PENNE YN CAEL EU HALA. TY'LAEN BES. **CALON LÂN** …

JIM YN GORCHYMYN Y GASEG I SYMUD. SŴN TRAP YN SYMUD AR Y FFORDD YN GEFNDIR I WEDDILL YR OLYGFA . . .

JIM

SUT MAE'R YSGOL FOWR YN MYND DE? Wyt ti wedi hala blwyddyn yn 'rysgol fowr nawr. YNA NAWR?

DYLAN

Odw.

JIM

Wyt ti'n lico bod yn 'run ysgol â dy dad?

DYLAN

Odw.

JIM

Ma' hi'n anodd credu 'nny. Ma' fe siwr o fod yn cadw llygad barcud 'not ti. Ti'n ei weld e'n yr ysgol, a ti'n ei weld e bob nos gatre. So hynny'n beth iach, cofia, i grwt o d'oedran di. Wyt ti'n ca'l gweld rhocesi o gwbwl? Ody dy whâr, Nancy, yn dod â'i ffrindie i'r tŷ? Neu i'r parc 'NA, falle. Beth yw enw hwnnw nawr? PARC Cwmdonci.

DYLAN

Cwmdonkin.

[18] JIM

Ie, ‘na fe. Jawl, ma’ fe’n enw od, on’d yw e? CWM-DON-KIN. Cyn’rwg â d’enw dithe, myn yffach i! Ma’r plant erill siwr o fod yn ca’l lot o sbort am ben d’enw di. GLEI. DYL-AN. Beth dda’th dros ben Defi John, gwed?

DYLAN

Pam?

JIM

Wel jawl, fel wy wedi gweud ‘thot ti droeon, chlywodd neb eriod shwt enw o’r bla’n. Wy’n cofio i ti weud tha i tro dwetha o ble o’dd e’n dod.

DYLAN

Y Mabinogion.

JIM

Ie, ‘na fe.

DYLAN

Tywysog y tywyllwch.

JIM

Beth?

DYLAN

Ei ystyr e. Ystyr yr enw. ‘NA PWY O’DD DYLAN.

JIM

Pwy wedodd ‘na ‘thot ti? DEFI JOHN ETO SIŴR O FOD.

DYLAN

[19]

Dadi. IE.

JIM

Mowredd! Ma' dy dad a tithe'n trafod rhyw bethe rhyfedd iawn OD, weden i. Ond 'na beth ma' ysgol yn neud i bobol, medden nhw. Ma' stwffo gormod o bethe i benne pobol yn galler bod yn ddansherus, WIRIONEDD I. Ma' pwer o'r rheiny wedi goffod mynd i Garfyrddin, cofia di 'nny.

PYLU SEINIAU'R TRAP

LLAIS

Roedd gan Jim a Dylan BES ryw filltir i fynd cyn cyrraedd clos ffarm Fern Hill, ac erbyn hyn roedd hi'n dechrau tywyllu. Doedd hi ddim DIM yn anarferol i Jim gyrraedd adref ar ôl iddi dywyllu YN HYNNY gan fod mwy nag un dafarn ar y ffordd rhwng marchnad Caerfyrddin a phentref Llangain. Gan amlaf byddai Bess yn ei harwain ei hunan i glos Fern Hill, aC WNCWL Jim yn cysgu'n y trap. Ond heno, roedd Y NOSON HONNO DANGOSODD Wncwl Jim wedi dangos ychydig o hunan ddisgyblaeth er mwyn gwneud yn siŵr fod Dylan yn FY MOD I'N cyrraedd yn ddiogel. Dim ond am ryw awr y bu'n rhaid i Dylan ddisgwyl amdano tu fas I'r dafarn, ac roedd hi'n digwydd bod yn noson braf, gyda digon o olau i Dylan bori drwy'i gopi o Hamlet. Mae HI'n rhyfedd meddwl fod trap Fern Hill, yn ystod yr awr honno, yn dal CARIO dau dywysog, Hamlet, Tywysog Denmarc, a Dylan, THywysog y Tywyllwch! Ac wrth gwrs, doedd Wncwl Jim ond yn mynegi yr hyn yr oedd pobol gyffredin Abertawe a Llangain fel ei gilydd yn ei deimlo am yr enw Dylan. Mae'n debyg nad oedd Dylan wedi ei ddefnyddio gan neb cyn hynny, y tu fas i chwedlau'r Mabinogi. Ac mae'n

[20]

rhyfedd meddwl mor gyffredin yw'r enw erbyn hyn. ENW ANGHYFFREDIN O FYD PELL Y MABINOGI OEDD DYLAN AC RO'N I, CRWT PENFELYN CWMDONKIN DRIVE WEDI FY NHYNGHEDU O'R DECHRAU'N DEG I FOD YN OTS NA'R CYFFREDIN. Roedd crwt penfelyn Cwmdonkin a nai bach teulu Fern Hill fel petasai wedi ei dynghedu o'r dechrau'n deg i fod yn gymeriad anghyffredin. Ac mae yna arwyddion fod y crwt ei hunan FY MOD I wedi dechrau synhwyro hynny'n gynnar. Yn sicir, creodd ei FY enw dipyn o gynnwrf yn ystod ei FY ddNyddiau ysgol, ac erbyn iddo I FI gyrraedd ei FY arddegau roedd ROEDDWN yn I'N ymhyfrydu yn y ffaith ei fod yn medru DDIGON BALCH O GAEL arddel yr enw tywysog y tywyllwch ymhlith ei gyfoedion.

GOLYGFA 8

CLOS FERN HILL. SYNAU'R TRAP YN CYRRAEDD. CI YN CYFARTH.

JIM

'Na ti. Ma'r hen Bess wedi dod â ti'n saff.

SŴN DRWS Y TŶ YN AGOR.

ANN

Dylan! Croeso i ti, bach. Ble fuest ti cyhyd, Jim? Ond pam wy'n ffwdanu gofyn, sa i'n gwbod.

JIM

'Na fe, te. Gobeitho bod bwyd ar ford 'da ti. Wy'n MA' DYLAN BACH YN starfo – A FINNE 'FYD.

ANN

[21]

Dere â dy fag i fi, bach. Ti siŵr o fod wedi blino'n rhacs.

JIM

Idris, gofala am Bess.

ANN

Dere i'r tŷ, Dylan bach. Ma' cawl ar tân 'da fi. Dere miwn, i fi ga'l dy weld ti'n iawn. Allet ti, Jim, ddim fod wedi dod nôl cyn iddi nosi, am unwaith?

SŴN Y TRAP A'R GASEG YN SYMUD AR DRAWS Y CLOS . . .

JIM

AnnI! Gad dy hen fugutan. Er mwyn y mowredd fenyw, ma'r crwt wedi dod am wylie hapus.

ANN

O'dd e'm isie dechre'i wylie'n ishte tu fas i dafarn, o'dd e!

CI YN CYFARTH

JIM

Bydd ddistaw, Ffan!

[22]

GOLYGFA 9

CYNTEDD FERN HILL

ANN

Gadawa i dy fag di ar waelod y stâr. Ti'n cofio ymhle byddi di'n cysgu, on' wyt ti?

DYLAN

Odw.

ANN

Dere miwn i'r gegin. Ma' digon o ole canhwylle fan'ny

[23]

GOLYGFA 10

CEGIN FERN HILL. LLAWR CERRIG. Y CLOC YN DAL I DICIAN.

ANN

Nawrte, dere i fi ga'l dy weld ti'n iawn. Wel! Ti wedi prifio! A ma' llond pen o gwrls pert 'da ti. Aros 'mbach. Paid â symud. Ody, ma'r ddamwen 'na gest ti wedi gadel ei marc, 'fyd.

DYLAN

Beth?

ANN

Ar dy drwyn di. Pan dorrest ti fe wrth gwmpo lawr stâr. Wyt ti'n dala i fynd i whare i'r tŷ 'na? Beth yw enw'r crwt 'fyd? Hugh, ife?

[24]

DYLAN

Ie. HUGH.

ANN

Ma' fe yn 'run dosbarth â ti.

DYLAN

Ody.

ANN

O DRUAN ARNAT TI'N CWMPO FEL 'NA. A FUODD RAID I FLORRIE FYND Â TI I'R 'SBYTY. OND 'NA FE, BECSO AMDANAT TI O'DD HI.

SŴN JIM YN CYRRAEDD AC YN EISTEDD WRTH Y FORD

JIM

HEI, 'NA DDIGON ANNI, DERE Â'R CAWL 'NA, NEI DI?

ANN

MA' FLORRIE WASTAD WEDI GORO BD YN GARCUS OHONOT TI, TI'N GWELD, ACHOS O'R ASTHMA 'NA. WYT TI'N DALA I GAEL FFWDAN AG EF?

JIM

ANNI...

[25]

ANNI

OFNI MA'I FYDD 'NA DDIM TB ARNAT TI. 'NA PAM FUODD DY DA-CU FARW'N IFANC, TI'N GWELD. TB LADDODD E.

JIM

ANNI… GAD…. UFFAR DÂN!

ANN

JIM! LLAI O'R RHEGI 'NA!

JIM

O CLYMA DI DY DAFOD 'TE.

ANN

Ti'n gweld ei dad e DAD HUGH pan fyddi di'n mynd i'r tŷ?

DYLAN

Odw.

ANN

Wel! 'Na fraint wyt ti'n ga'l.

JIM

[26]

Annie, ma'r crwt yn starfo. Dere at y ford, DYLAN. Ma' hi'n bwrw mla'n.

ANN

A bai pwy yw hynny? Dere i ishte fan hyn. Neu falle licet ti fynd i olchi dy ddwylo gynta. Cer mas 'dag e, Jim. Ma' hi'n dywyll ar waelod yr ardd.

DYLAN

Sa i'n moyn mynd.

JIM

'Na fe, 'te.

LLAIS

Dyma'r tro cyntaf i Ann weld Dylan ar ôl iddo gael damwain yn nhŷ ei ffrind, Hugh Williams. Gorfu iddo gael triniaeth yn yr ysbyty ar ôl torri asgwrn ei drwyn wrth gwympo'n garlibwns lawr stâr. Achosodd y ddamwain rywfaint o ofid i Florrie ar y pryd. Roedd hi'n garcus iawn o'i chrwt bach. Yn wir, barnai rhai ei bod hi'n or-garcus ohono. Ac eto, roedd hynny'n ddealladwy; gan fod y meddyg teulu wedi ei rhybuddio fod ei chrwt yn asthmatig, ofnai Florrie y gallai Dylan ddioddef, maes o law, o'r diclèin, y dolur ofnadwy a laddodd ei thad yn ifanc. O ganlyniad, cafodd Dylan fagwraeth faldodus tu hwnt gan ei fam. Ond i ddychwelyd at y ddamwain i drwyn Dylan – roedd Ann ANTI ANNI wrth ei bodd fod ei nai bach yn cael mynd i chwarae BO' FI'N MYND I WHARE i dŷ Hugh Williams, gan mai tad hwnnw oedd neb llai nag un o feirdd enwocaf Cymru ar y pryd, MAB NEB LLAI NA Crwys Williams, UN O FEIRDD ENWOCAF CYMRU. Roedd ANTI AnnI wedi ei glywed yn pregethu sawl gwaith yn ei chapel, sef Capel YNG NGHAPEL Smyrna, Llangain, ac wedi prynu ei lyfrau barddoniaeth, 'Cerddi Crwys' a 'Cerddi Newydd Crwys'. Roedd hi wrth ei bodd yn dysgu plant

[27]

yr Ysgol Sul i adrodd ‘Melin Trefin’ a’r ‘Border Bach’ ar gyfer CYNGHERDDE NEU cystadlu GYSTADLU mewn eisteddfodau lleol.

GOLYGFA 11

CEGIN FERN HILL. Y CLOC YN DAL I DICIAN.

ANN

Wyt ti’n moyn rhagor o gawl?

DYLAN

Dim diolch.

ANN

Ti’n siwr?

JIM

Gymera i ragor.

[28]

ANN

Ti'n siwr, Dylan?

DYLAN

Odw, diolch.

ANN

Idris? Ti'n moyn rhagor?

IDRIS

Na. Pwdin reis i fi nesa.

ANN

Gewn ni'r cawl yn eildwym fory 'te.

JIM

Licen i ga'l rhagor nawr.

ANN

Cer I hôl e dy hunan, 'te. Wyt ti, Dylan, wedi dysgu rhai o ddarne GERDDI Crwys?

[29]

(JIM YN EI HELPU'I HUNAN I GAWL)

DYLAN

Beth? NA.

ANN

Fe ofala' i bo' ti'n dysgu GEI DI DDYSGU adrodd 'Y Border Bach' ar dy gof cyn ei di nôl i MYND NÔL I Abertawe. Wyt ti'n ddigon hen i ddyall hwnnw nawr.

IDRIS

Nid yw'r felin heno'n malu yn Nhrefin ym min y môr.

ANN

Ie, Melin Trefin, IDRIS. 'Na bishyn arall sy'n werth ei ddysgu.

IDRIS

Wy'n gwbod 'Y Border Bach' a 'Melin Trefin'.

JIM

Ond so ni'n moyn eu clywed nhw nawr. A ta beth, ma' Dylan yn darllen pethe dwfnach o lawer. HAMLET A PETHE.

IDRIS

Beth?

[30]

JIM

Hamlet.

ANN

Ble welest ti fe'n darllen hwnnw? SHWT WTI'N GWYBOD?

DYLAN

Pan stopon ni.

JIM

O'DD E'N DARLLEN E GYNNE.

ANN

Ble?

DYLAN

Tu fas i'r dafarn.

ANN

O'n i'n gwbod yn iawn. Ac am faint fuest ti'n aros fan'ny? DARLLEN?

JIM

[31]

AnnI! GAD HI NAWR!

ANN

Welest ti dy wncwl yn cario rhwbeth i'r dafarn? AWR? HANNER AWR?

DYLAN

Naddo.

ANN

Ti'n siwr? GWED YN BLAEN…

JIM

'Na ddigon, Ann.

ANN

DIGON? GORMOD WEDEN I! GORMOD O BERCHYLL YN DIFLANNU O'R TWLC! Wel ma' un porchell yn llai yn y twlc heno nag o'dd 'na bore 'ma.

JIM

Jawl fenyw! O's rhaid i ti godi'r mater 'na fan hynFYND MLA'N A MLA'N? A so ti'n mynd i gyhuddo'r crwt o weud celwy', o's bosib.

[32]

IDRIS

Allwn ni ga'l y pwdin reis 'na nawr?

ANN

RHAG DY GYWILYDD DI'N GADAEL I'R CRWT FOD BEN EI HUNAN BACH TRA BO TI'N JOIO FFLYRTAN 'DA RHYW FENWOD MEDDWOL A MA HI'N WARTH BO' TI WEDI CLWMU TAFOD YR UN BACH.

JIM

BETH TI'N FEDDWL?

ANN

WEL, MA' GORMOD O OFN ARNO FE I WEUD DIM. REIT, TI MOYN PWDIN REIS NAWR, DYLAN?

CWYD DYLAN O'I EISTEDD GAN GRAFU'R GADAIR AR Y LLAWR. MAE'N RHEDEG O'R GEGIN . . .

ANN

Dylan! Ble ti'n mynd? DYLAN. DYLAN BACH.

CLYWIR CAMRE ANN YN MYND O'R GEGIN . . .

[33]

ANN

DYLAN BACH. BETH TI'N NEUD FAN HYN YN TWLLWCH?

DYLAN

WY MOYN MYND GATRE.

ANN

DERE NAWR. GALLE DI DDIM MYND HENO.

DYLAN

WY MOYN GWELD MAM.

ANN

GEWN NI WELD SHWT FYDDI DI'N TEIMLO YN Y BORE AR ÔL CAEL NOSWETH DDA O GWSG.

DYLAN

WY MOYN GWELD MAM.

ANN

GRONDO DI AR DY ANTI ANNI NAWR. TI WEDI JOIO YN FERN HILL O'R BLAEN ONDWYT TI? GEI DI SBORT 'FORY A GEI DI WELD, GEI DI REIDIO BES.

[34]

DYLAN

NA.

ANN

PAM?

DYLAN

SAI'N CAEL. FYDD WNCWL JIM DDIM YN FOLON I FI.

ANN

PAM? GLYWES I E'N GWEUTHA TI NAWR, A TA BETH, DIM OTS BE' MA' WNCWL JIM YN GWEUD – FI YW'R BOS YN FERN HILL. DERE LAN LOFFT. AROS I FI GAEL NÔL CANNWYLL A WEDYN FE GEI DI FYND I'R GWELY A DARLLEN ROM BACH OS TI MOYN.

(SŴN CRAWCIAN BRAIN, DYNION YN CANU – SYNAU SY'N ANNIDDIGO)

LLAIS

AC AR ÔL Y TEITHIO HIR FE ES I I DRWMGWSG ESMWYTH. WEL, AM RYWFAINT TA BETH. CES FY HYRDDIO I GANOL HUNLLEF. ROEDDWN I YN Y PARLWR YN FERN HILL YN SYLLU AR GADNO STWFFEDIG MEWN CASYN GWYDR AC AR REDYN SYCH MEWN POT AR Y LLAWR AR BWYS Y FFENEST. YN SYDYN, RO'N I'N GWELD ANTI ANNI YN EI HARCH A'I GÊN FEL DWRN, EI DWYLO LLONYDD YN LOYW FEL MARMOR, EI CHNAWD FEL HUFEN. WEDYN FY NGWELD FY HUNAN

[35]

YN Y DRYCH YN GRWT DIFLAS A DAIL SYCHION YR HYDREF YN ARLLWYS MAS O DWLL MAS O NGWDDF FEL DAGRE. FORE TRANNOETH A HAUL GORFFENNAF YN WÊN LYDAN YN YR AWYR GLIR. RO'N I UNWAITH ETO'N GRWT HAPUS A PHLESERAU HAF Y FFARM YN PER IMI ANGHOFIO ANNIFYRWCH NEITHIWR A'R PWL SYDYN O HIRAETH AM MAM. A'R HUNLLEF O RAGWELD ANGLADD ANTI ANNI. OND DYNA NATUR POB YMWELIAD Â FERN HILL – CAEL FY NHAFLU O DRISTWCH I LAWENYDD – O WG CWMWL I WÊN HAUL. YMHEN BLYNYDDOEDD BYDDWN YN CRYNHOI FY ATGOFION CYMYSG AM Y FFARM MEWN STORI A CHERDD. YN Y STORI, ANNIFYRWCH TYWYLL Y LLE SY'N DOD I'R AMLWG, YN ENWEDIG HYNODRWYDD FY NGHEFNDER, IDRIS. OND YN Y GERDD, AR Y LLAW ARALL, AMSER AR REDEG DRWY'R HAUL HIR HYFRYD A'R PERCI GWAIR GYFUWCH Â'R TŶ… **PENNILL 3 'FERN HILL'**

JIM

BROCHGAU – 'NA TI AIR DA. GLYWES TI HWNNA O'R BLAEN?

DYLAN

NADDO.

JIM

'NA WELL GAIR NA REIDIO. WTI'N MYND I GAEL BROCHGAU BES NAWR. LAN Â TI, AR EI CHEFEN HI. LAN Â TI. TI 'DI CAEL CYFLE I FROCHGAU CEFFYL YN ABERTAWE?

DYLAN

NADDO.

[36]

JIM

DIM OND ASYNNOD AR Y TRAETH SY' FAN'NY SIŴR O FOD. REIT TE, NA I DY ARWAIN DI LAWR I'R DDÔL.

DYLAN

NA, ALLA I FYND FY HUNAN.

JIM

TI'N SIŴR?

DYLAN

ODW.

JIM

GAFEL YN DYNN YN Y FFRWYN. BANT Â TI TE, BES, MA' HI'N GWBOD Y FFORDD I'R DDÔL.

DYLAN

DIOLCH, WNCWL JIM. DERE BES.

LLAIS

[37]

WRTH FYND I'R DDÔL AR GEFEN BES, RO'N I'N TEIMLO FEL TYWYSOG, TYWYSOG Y TREFI AFALAU Y GALWES I'N HUNAN YMHEN BLYNYDDOEDD WEDYN. O'DD 'NA DDYDDIE YN FERN HILL PAN O'N I TU HWNT O HAPUS, O'DD HYD YN OED WNCWL JIM YN GALLER BOD YN GAREDIG. AC O'N I'N CAEL FY SBWYLIO'N RHACS 'DA ANTI ANNI YN RHOI LOSIN I FI O HYD, YN ENWEDIG Y MINTOS GELEN I 'DA HI I'M CADW I'N DDIDDIG A DISTAW YN YR OEDFAON YNG NGHAPEL SMYRNA. OND LAWR WRTH Y NANT AR WAELOD Y DDÔL Y BYDDEN I HAPUSA'. YN BRACSO DRWY'R DŴR CLIR, GLÂN NEU'N CODI ARGAE O GERRIG AR DRAWS Y NANT NES CREU LLYN BACH AR GYFER FY NGHYCHOD BACH PREN O BOB SIÂP, DRINGO WEDYN GOED Y BERLLAN A SIGLO AMBELL AFALLEN NES EI BOD HI'N BWRW AFALE AM BEN FFAN A'R CATHOD, A DIWRNOD CYNHAEA' GWAIR, JOIO MAS DRAW YN CAEL MYND AR BEN Y LLWYTH GWAIR AR Y GAMBO I'R YDLAN. AR DDIWRNOD FEL 'NY BYDDE HYD YN OED Y CLÔS YN DDEDWYDD A'R TŶ FEL TASA FE'N CANU. TŶ SEINBER Y GALWES I FE. TŶ MOR HAPUS Â PHORFEYDD Y PERCI. ON I MOR HAPUS YN AML FEL BO' FI DDIM ISIE GWELD Y GWYLIE'N DOD I BEN. AWN YN DRIST YN SYDYN WRTH FEDDWL AM HYNNY. A SYLWEDDOLAF ERBYN HYN WRTH EDRYCH NÔL AR WYLIE FERN HILL Y BYDDE NI O DRO I DRO HYD YN OED YN DDEUDDEG OED YN SYNHWYRO BOD POPETH DA YN SIŴR O DDOD I BEN. YN Y GERDD SONIES I AM YR HAUL NAD YW'N IFANC OND UNWAITH. ROEDD POB CHWARAE YN RHWYM O DDARFOD. AR DDIWEDD Y GERDD SONIES I AM DDIHUNO I WELD Y FFARM WEDI FFOI AM BYTH … **ADRODD FERN HILL**

MAE'R HEN FERN HILL A'R CRWT A FU MOR HAPUS YNO YN DIFLANNU I DYWYLLWCH DIFANCOLL. RO'N I, TYWYSOG Y TREFI AFALAU, YN NEWID NÔL I FOD YN DYWYSOG Y TYWYLLWCH. YN FERN HILL, RO'N I'N CAMU O 'MHLENTYNDOD I FYD OEDOLYN, AC O'DD BOD YNG NGHWMNI FY NGHEFNDER HYNOD YN DWYSAU'R PROFIAD HWNNW. ROEDD IDRIS, Y PLENTYN O OEDOLYN, YN DENU EI GEFNDER IAU I MEWN I'W FFANTASÏAU OFNADWY. Y TRO HWN, YN YR YSGUBOR Y DIGWYDDODD YR HUDO. YR YSGUBOR A DROWYD YN GAPEL GAN IDRIS ER MWYN IDDO DROADDODI EI BREGETHE A'I WEDDÏE. FEL ARFER, CHWARAE EI DDRAMA DYWYLL AR EI BEN

[38]

EI HUNAN FYDDE IDRIS. OND Y NOSON HONNO, ROEDD GANDDO GYNULLEIDFA.

LLAIS

Daeth Ann o hyd i Dylan yn nhywyllwch y cyntedd yn chwilio am ei fag ac yn dweud yn ddagreuol ei fod am fynd adref. O dipyn i beth fe'i perswadwyd gan Ann, ar ôl dod o hyd i gannwyll, i fynd i'w stafell wely. Ac ar ôl y teithio hir ar y trên ac yn y trap, fe'i perswadwyd yn glou gan ei flinder i gysgu'n esmwyth. Fore trannoeth, â haul Gorffennaf yn wên lydan yn yr awyr glir, roedd Dylan, unwaith eto'n grwt hapus, wrth ei fodd yn ail ddarganfod pleserau haf y ffarm, a thros dro, wedi anghofio annifyrwch neithiwr a'r pwl sydyn o hiraeth am ei rieni a'i chwaer a'i ffrindiau yn Abertawe. A dyna oedd natur pob ymweliad â Fern Hill. Ymhen blynyddoedd, byddai Dylan yn crynhoi ei atgofion cymysg am y ffarm mewn stori fer yn dwyn y teitl 'The Peaches' ac mewn dwy o'i gerddi enwocaf. Yn y stori, annifyrwch tywyll y lle sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig hynodrwydd ei gefnder Idris. Ac yn 'After the funeral', sef ei gerdd fawl i'w Anti Ann, mae'n cofio annifyrwch y crwt ddiwrnod ei hangladd ' mewn parlwr â'i gadno stwffedig a'i redyn sych' yn sefyll ar ei ben ei hunan 'am oriau wylofus i wylad y wargrwm gelain Ann y bu pistyll ei chalon gwflog yn arllwys i bwdeli ar draws crasdiroedd Gwalia gyfan, a boddi pob haul'. Ond yn y gerdd 'Fern Hill', ar y llaw arall, gwelwn grwt ' yn rhwydd o ifanc dan ganghennau'r afallen ger y tŷ seinber ac mor hapus â glesni'r borfa' . . . 'ac mor anrhydeddus . . . ymhlith wagenni fel y'i gwnaed yn dywysog y trefi afalau . . . yn laslanc ysgafnfryd, yn rhywun ymhlith ysguboriau o gylch y clos dedwydd ac yn moli cartrefoldeb y ffarm . . .' Ond yn sydyn, mae'r awyrgylch hapus yn newid pan yw'n sôn am 'yr haul nad yw'n ifanc ond uwaith. . .' Er mai atgofion hapus yw prif thema'r gerdd, o bryd i'w gilydd, mae rhyw dristwch tywyll yn tarfu ar y tymor gwyliau llawen. Dim ond unwaith mae'r haul yn ifanc. Y mae i bob atgof hapus arlliw o dristwch oherwydd cyfeirio y mae at adeg na chaiff fyth mo'i hadfer. Mae pob chwarae yn rhwym o ddod i ben. Ar ddiwedd y gerdd y mae'n 'dihuno i weld y ffarm wedi ffoi am byth o'r wlad ddi-blant . . .' Mae'r hen Fern Hill a'r crwt a fu

[39]

mor hapus ynddi yn diflannu i dywyllwch difancoll. Mae Dylan, tywysog y trefi afalau yn newid i fod yn Dylan, tywysog y tywyllwch. Roedd y Dylan deuddeg oed ar ei wyliau haf yn Fern Hill yn camu o'i blentyndod i mewn i fyd oedolyn. Ac yr oedd bod yng nghwmni ei gefnder hynod yn dwysâu'r profiad hwnnw. Byddai Idris, yr oedolyn yn denu ei gefnder iau i mewn i'w ffantasïau annifyr ac ofnadwy. A'r tro hwn, yn yr ysgubor y digwyddodd yr hudo. Roedd Idris, ers amser wedi troi honno'n gapel iddo fe'i hunan er mwyn iddo draddodi ei bregethau a'i weddïau. Tan heno, ar ei ben ei hunan yr oedd Idris wedi chwarae'i ddrama. Ond heno mae ganddo gynulleidfa

GOLYGFA 12

YSGUBOR FERN HILL

IDRIS

Eistedda di fan'na. Ar ben y sach dato 'na . . . Reit o dan y trawst mowr. . . Olreit?

DYLAN

OLREIT.

IDRIS

'Na ti . . . Paid ti symud o fan'na . . . A wy'n mynd i ddringo miwn i'r hen gart 'ma . . . achos ma' fe'n neud pwlput da i fi . . . Reit. Dim yn Capel Smyrna wyt ti nawr, ond yn Capel Idris. Wyt ti wedi bod yn Capel Smyrna lawer tro gyda fi a Mam. Ond fel ti'n gwbod, so Dat yn mynd 'na, achos OND ma'n well 'dag e DAD fynd at y crach i'r Eglwys. A ma' fe'n ca'l yfed yn yr Eglwys. So pobol capel yn yfed . . . dim ond llath . . . a dŵr. … A HUFEN OS BYDDI DI'N LWCUS… Ta

[40]

beth, Capel Idris yw hwn. a dim ond rhai pobol sbesial sy'n ca'l dod miwn iddo fe. Fi, achos fi yw'r gweinidog . . . Fi yw'r Y Parchedig Idris, Capel Idris. Wedyn, A ti yw Dylan Morlais. . . .

DYLAN

Marlais.

IDRIS

So ti fod siarad. Dim ond 'da fi ma'r hawl i siarad. A Duw. Ma' hawl 'dag e i siarad. Wrth gwrs ma' hawl 'da ti i ganu emyn, ond dim ond pan fydda i wedi cyhoeddi'r emyn. Ond allwn ni ddim neud 'nny heno achos sdim llyfyr emyne 'da ni. Oni bai bo' ni'n canu emyn sy ar ein cof ni. Wyt ti'n gwbod rhyw emyn ar dy gof?

DYLAN

Iesu tirion? CALON LÂN?

IDRIS

Emyn plant TAFARN yw hwnna. Sàch ma' Dat yn ei ganu fe PAN FYDDE FE 'DI MEDDWI. Ond 'na fe, meddwl plentyn s'da fe o hyd. Iawn. Y'n ni'n barod nawrte. A paid ti a gweud REIT, DIM UN gair arall. Dim ond ambell 'Amen'. Ti'n dyall?

DYLAN

[41]

Nadw. NA.

IDRIS

Porthi ma' nhw'n galw fe. So ti'n ca'l porthi yn yr Eglwys ond, fel ti'n gwbod, ma' nhw'n neud - DIM OND yn Capel Smyrna. Gweud 'Amen' BOB HYN A HYN pan fyddi di'n cydweld â beth wy'n bregethu. Dim bob tro, wrth gwrs. Dim ond ambell waith. Ti'n dyall? GWED 'AMEN'.

DYLAN

Amen.

IDRIS

Da iawn, Dylan! Ti wedi'i dyall hi! Nawrte, gan ei bod hi wedi mynd yn hwyr, fe ddarllena i'r drydedd salm ar hugain. Ond fel mae'n digwydd, ma' hi ar 'y nghof i. Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf, EFE A . . .

PYLU POB SAIN

LLAIS

Roedd Dylan ROEDDWN I wedi bod yn Fern Hill ers tair wythnos, ac ar y cyfan wedi mwynhau'I wyliau. Heddi, rRoedd WNCWL Jim wedi mynd i'r dre ers amser cinio ac ANTI AnnI wedi mynd i ymweld â'i chwaer yng nghyfraith Rach ar ffarm gyfagos Pentrewyman. Rhwng marchogaeth y gaseg yn y bore, a'r prynhawn, AR ÔL DIWRNOD O FROCHGAU'R GASEG, dringo coed y berllan afalau a choed y ddôl yn chwilio am nythod a, YN bracso AM BYSGOD yn y nant, twyllo'r perchyll fod y dyn lladd moch wedi cyrraedd wrth fynd i'w canol

[42]

nhw yn y twlc a chwifio cyllell fara fel cleddyf uwch eu pennau, roedd Dylan RO'N I yn falch o gael eistedd yn llonydd am sbel.

IDRIS

CYDWEDDÏWN… AHEM… EIN NEFOL DAD, YR HWN WYT YN Y NEFOEDD, WELE NI DY BOBOL YN DOD GER DY FRON I FOLI DY ENW. YR YDYM YN HAPUS O GAEL BOD YNG NGHAPEL IDRIS O DAD NEFOL I OFYN ITI I FADDAU INNI EIN BEIAU NI I GYD. Y MAE'N WELL GAN DAT FYND I'R EGLWYS OHERWYDD DYW'R FICER BYTH YN GWEDDÏO O'R FREST FEL Y BYDDWN I…

LLAIS

DOEDDWN I BYTH YN SIŴR SUT I YMATEB I IDRIS, YN ENWEDIG PAN FYDDAI HWNNW'N GWNEUD PETHAU OD. RO'N I'N COFIO O HYD AM GAEL FY NGHLOI YN Y SELYR…

IDRIS

…'SDIM ISIO TI GAEL OFON… DIM OND CLYMU DY DDWYLO DI TU CEFN ITI AM SBEL FACH. TI MOYN GWYBOD SHWT O'DD MERCH Y CROGWR YN TEIMLO ON'D WYT TI? TI'N GYFARWYDD Â WHARE MEWN DRAMA, ON'D WYT TI? DRAMA YW HON. DIM OND DRAMA. 'NA TI, MA' DY DDWYLO DI'N SOWND NAWR. TI'M YN GALLER DATOD Y CWLWM AR DY DRAED DI. NAWR 'TE, YN Y DDRAMA, FI YW DY DAD DI – RICKETS Y CROGWR – A FUES DI'N FERCH DDRWG ACHOS BO' TI MOYN PRIODI'R RASCAL BACH 'NA O GAERFYRDDIN. WEL, CHEI DDIM! AC ER MWYN 'NEUD YN SIŴR O HYNNY WY'N MYND I DY GADW DI FAN HYN DAN GLO NES BO TI'N ANGHOFIO AM Y RASCAL. FFARWEL!

CLEP Y DRWS YN CAU

[43]

DYLAN

IDRIS? IDRIS!

LLAIS

AETH PUM MUNUD HEIBIO. A PHUM MUNUD ARALL. CHWARTER AWR. A DIM SÔN AM IDRIS.

DYLAN

IDRIS! DERE NÔL! DERE NÔL! WY WEDI CAEL DIGON! WY MOYN MYND O'MA!

LLAIS

AETH HANNER AWR ARALL HEIBIO AC O'N I'N TORRI 'NGHALON, YN BLINO GWEIDDI, AC YNA'N SYDYN YN YR HANNER GOLE FE WELES I LYGODEN FFYRNIG YN RHEDEG AR DRAWS Y SELYR AC AT Y GORNEL PELLA'. ANGHOFIA I BYTH O WELD EI HEN GWT HIR YN DIFLANNU I DWLL YN Y WAL. ES I I BANIG BIWS, ON I AR BALO PAN GLYWES I'R BOLLT YN CAEL EI DYNNU.

DYLAN

WNCWL JIM!

WNCWL JIM

DYLAN BACH. BE' SY' 'DI DIGWYDD? PAM W'T TI 'DI CA'L DY GLWMU FEL HYN?

DYLAN

IDRIS.

[44]

WNCWL JIM

Y TWPSYN! LADDA I E!

LLAIS

O'N I WRTH FY MODD YN CHWARAE RHAN MEWN DRAMÂU YN YR YSGOL AC YN YR YSGOL SUL YN Y MWMBWLS, OND ROEDD DRAMA'R SELYR YN WAHANOL. AC ETO YR OEDD BLWYDDYN WEDI MYND HEIBIO A PHOEN ARSWYD YR ATGOF WEDI LLEDDFU RHYWFAINT. ERBYN HYNNY DOEDDWN I DDIM YN DAL UNRHYW DDIG YN ERBYN IDRIS AM CHWARAE TRIC Y SELYR. A CHAN FOD HYNODRWYDD IDRIS YN F'ATGOFFA O HYNODRWYDD Y CRWCA ANNWYL YM MHARC CWMDONKIN, DAETH TON O GYDYMDEIMLAD DROSTO I WRTH WRANDO AR WEDDI IDRIS Â'M LLYGAID WEDI CAU YN DYNN.

Doedd e ddim yn siwr sut oedd ymateb i'w gefnder bob amser, yn enwedig pan fyddai hwnnw'n gwneud pethau braidd yn anghyffredin. Roedd e'n cofio o hyd am gael ei gloi yn y selyr am oriau a'i ddwylo wedi'u clymu er mwyn actio drama merch y crogwr. Ond yr oedd Dylan yn hoff o chwarae rhan mewn dramâu yn yr ysgol ac yn yr Ysgol Sul yn y Mwmbwls, ac o'r herwydd ni chafodd y profiad hwnnw flwyddyn dwetha effaith andwyol arno mewn unrhyw ffordd. Roedd hynodrwydd Idris wrth gwrs yn ei atgoffa o hynodrwydd crwca annwyl Parc Cwmdonkinyn a daeth ton o gydymdeimlad drosto. Ond dewch I ni gael mynd nôl at oedfa hynod y sgubor. Mae Idris erbyn hyn yn dod at derfyn ei weddi, a Dylan yn gwrando â'i lygaid wedi'u cau yn dynn . . .

[45]

GOLYGFA 13

YR YSGUBOR

IDRIS

Dduw tragwyddol, wele ni yng Nghapel Idris yn diolch i ti am dy fod yn medru ein gweld ymhob man. Ein gweld yn y gegin wrth fwyta, yn enwedig y pwdin reis.

DYLAN

Amen.

IDRIS

Ac amen. Ein gweld yn y gwely. Yn y parlwr, yn y cwtsh dan stâr, yn y selyr hyd yn oed. Yn y dref ac yn y dafarn. Yn yr ydlan a'r tŷ bach. Diolchwn i ti am gael teimlo fod 'da ni dy YN gwmni di INNI bob amser. Fyddwn ni byth yn unig. Ac yn bwysicach na dim, rwyt ti'n DIOLCH DY FOD DI'N medru gweld yn y nos! Yn ein gweld ni pan fyddwn ninnau'n methu â gweld dim! Gweld yn y nos. ! Diolch i ti O Arglwydd am dy fod ti'n YN debyg i gath! Amen!

DYLAN

Amen.

IDRIS

AMEN AC AMEN! Gelli agor dy lygaid nawr. Wnawn ni ddim ffwdanu canu'r emyn, na dod o amgylch â phlat y casgliad. Ond oes 'da ti adnod ar dy gof?

[46]

DYLAN

Nac oes.

IDRIS

Dere nawr. Wy'n siwr bo' ti'n medru cofio un, os bosib.

DYLAN

Nadw.

IDRIS

Wel, fe ddysga' i un i ti 'te. Duw cariad yw. Gwed hi. Duw cariad yw.

DYLAN

Duw cariad yw.

IDRIS

'Na ti. Diolch. A hwnna fydd testun 'y mhregeth i. Duw cariad yw. DUW CARIAD YW. DYMA UN O ADNODAU BYRRAF Y BEIBL, OND MAE HI'N SÔN AM…

PYLU . . .

[47]

LLAIS

Yn ystod pregeth Idris crwydrai meddwl Dylan i sawl man. DECHREUODD FY MEDDWL I GRWYDRO. Os oedd yr ysgubor wedi'i throi'n gapel i Idris, i DylanFINNE , yr oedd hi'n oriel arddangosfa o luniau. Gwêl lun o'i dad GWELD FY NHAD yn ei stydi a'i silffoedd llyfrau yn gefndir iddo. Chaucer, Shakespeare, Hardy, Wordsworth, Keats . . . Homer, Plato, Eliot, Hopkins, Joyce . . . Y Mabinogion . . . Llun o'i fam O MAM yn y cyntedd yn mynnu bod Dylan MOD I'N yn gwisgo sgarff drwchus cyn ei ollwng MENTRO GOLLWNG EI CHRWT BACH ASTHMATIG i chwarae yn yr eira . . . Ei chwaer Nancy FY CHWAER yn dod â'i ffrindiau ysgol adref ac yn neidio i mewn i'r gwely at Dylan ATA I. . . Y A'R Crwca, druan, ym Mharc Cwmdonkin yn yfed dŵr o'r pistyll a'r bechgyn ysgol yn dwgyd ei fara o'i bapur-newydd . . . Anti AnnI â'i gên ynghau fel dwrn yn ei choffin ym mharlwr Fern Hill a'r cadno stwffedig yn peswch . . . Wncwl Jim yn feddw gaib mewn tafarn orlawn o fenywod yn sgrechen ac yn ymladd â'i gilydd am un porchell . . . Ffan yr ast ar gefn y YN BROCHGAU'R gaseg A'R DDWY yn ffoi i Langadog . . . Tywysog y Tywyllwch yn dod o'r môr a llwyth o wymon yn hongian wrtho . . . Crwys yn adrodd Melin Trefin ynghanol cae gwenith . . . Llun o Idris yn y tŷ bach ar waelod yr ardd yn darllen . . . a darllen . . . a darllen . . . nes bod mellten yn saethu o'r bwced ac yn llosgi trysorau trowser Dydd Sul Idris, druan . . .

GOLYGFA 14

YR YSGUBOR . . .

[48]

IDRIS

Ie, gyfeillion! Duw cariad yw! Ac fe'n geilw i garu ein gilydd. Cysuro'n gilydd. Ie! Gyfeillion! Cusanu'n gilydd! Does dim byd aflan mewn cusan! Ac yn awr y mae yn aros, ffydd, gobaith a chusan! Nid Duw casineb yw! Dynion sy'n gas i'w gilydd. Pobol sy'n casáu ei gilydd. Nid Duw. Pobol sy'n lladd ei gilydd! Hyd yn oed eu brodyr! Ac mae'n rhaid i Dduw eu cosbi am ladd brodyr ei gilydd! A'r gosb yw crogi . . . c r o g i . . . c r o g i . . . !

LLAIS

Erbyn hyn, mae ROEDD hi'n tywyllu yn y sgubor, er i hanner gwên y lleuad lifo'n llipa dan y drws. Mae ROEDD llygoden fawr – FALLE TAW YR UN OEDD YN

[49]

Y SELYR OEDD HI – yn llygadu ac yn gwynto'r gasgen gyrch yn y cornel. Mae ROEDD Gorffennaf y ffarm am fynd i gysgu, wedi blino ar ddenu pawb a phopeth i aeddfedu cyn pydru drachefn. Mae'r ROEDD YR ast yn cysgu'n esmwyth am ei bod bellach wedi derbyn fod y crwt penfelyn yn un o'r teulu. Ar ei thraed y cwsg y gaseg Y CYSGAI BES, fel delw o flaen rhyw dafarn, yn coffáu holl afradlonedd ffarm Fern Hill. Mae gweddill y perchyll yn cysgu'n hapus heb wybod am eu tynged yfory. Ond y mae ROEDD AnnI, yn ôl ei harfer, ar ddi-hun, yn dweud nos da heb ddweud ffarwel wrth Rach, Pentrewyman, ar ôl arllwys llywanen lawn o ofid ar garreg aelwyd ac i badell glonc y chwaer yng nghyfraith. Mae'n siŵr i hud Gorffennaf ostegu Parc Cwmdonkin, ac i'r cryts gwrso'r Crwca i'w gwtsh-y-ci yn y gwyll. Ac aeth Nancy a Florrie a Defi John yn esmwyth i'r nos da. Yn y cyfamser, mae ROEDD ysbryd tywysog y tywyllwch yn llygadu'i deyrnas, ac yn galw ar ei was i gyflawni'r ddameg olaf . . .

[50]

GOLYGFA 15

YR YSGUBOR

IDRIS

Er bod y Testament Newydd yn llawn damhegion mae un arall i'w hadrodd yma heno. Dameg Y Crogwr. Ond nid gwrando ar y ddameg yn unig a wnawn ni, ond chwarae rhan ynddi er mwyn deall ei neges hi'n glir. Felly, gofynnaf I ti gau dy lygaid yn dynn, dynn . . . GWED 'AMEN'.

DYLAN

AMEN.

LLAIS

Mae Dylan yn ufuddhau. Mae Idris yn gafael GAFAELODD IDRIS mewn rhaca â choes hir o waelod y cart ac yn ei A'I chodi'n uchel nes i'w blaen gyrraedd y trawst uwchben Dylan. Gyda chymorth y rhaca mae'n rhyddhau RHYDDHAODD rhaff nes i'r ddolen redeg sy wrthi ddisgyn a disgyn . . . A HOFRAN FEL NEIDR O FLAEN FY WYNEB I.

IDRIS

Agor dy lygaid nawr. Beth wyt ti'n weld uwch dy ben?

LLAIS

Mae Dylan yn RO'N I'N fud. Mae Capel Idris ROEDD CAPEL IDRIS HEFYD YN FUD, yn syfrdan. Mae'r ROEDD Y llygoden FFYRNIG yn llonydd.

IDRIS

[51]

Paid ag ofni. Drama yw hi, ‘na gyd. Wyt ti’n cofio y llynedd, yn y selyr? Drama oedd honno HEFYD. Chest ti’m niwed wrth chwarae honno. A chei di’m niwed nawr. Moyn i ti gael y profiad odw i. Teimlo’r rhaff am dy wddf er mwyn i ti fedru cydymdeimlo â phob un gas y profiad slawer dydd.

DYLAN

Sa i’n moyn.

IDRIS

Dere nawr. So ti’n arfer cachgïo. Gad i fi roi’r rhaff yn . . . DERE!

DYLAN

Na!

LLAIS

Mae Idris yn gafael yn Dylan ag un fraich amdano’n dynn, ac yn estyn am y rhaff â’r fraich arall.

DYLAN

Na! Na! Na!

LLAIS

Fel mae’r rhaff yn mynd am wddf Dylan, mae’r drws yn agor . . .

ANN

Idris! Beth ti’n neud? Paid! Paid!! BETH SY’N DIGWYDD? O! RHAG DY GYWILYDD DI! ALLET TI FOD WEDI CROGI’R CRWT! O, TI’N IAWN DYLAN BACH? GWED RWBETH? TI’N OLREIT? GES DI DDOLUR?

[52]

DYLAN

NA.

ANN

IDRIS… DERE DYLAN. DIM GAIR AM HYN WRTH UN ENAID BYW. DIM GAIR WRTH JIM NA NEB, CHI'N DYALL? NEU FYDD Y STORI AR GARLAM TRW' HOLL DAFARNE'R ARDAL A DWYN GWARTH AR EIN PENNE NI I GYD.

LLAIS

A DYNA DDIGWYDDODD. NI DDYWEDWYD YR UN GAIR AM DDRAMA DYWYLL Y SGUBOR WRTH NEB. AETH ANNI A JIM AC IDRIS FERN HILL I'W BEDDE HEB I'R STORI JIENGYD O'R SGUBOR. AC NI DDYWEDES I AIR AMDANI TAN HEDDIW. CHI'N GWELD, ERBYN Y DECHREUES I 'SGRIFENNU, O'N I WEDI AME IDDI DDIGWYDD O GWBWL – NEU FALLE I FI ANGHOFIO'N LLWYR AMDANI.